Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post

Datganiad

Cyhoeddwyd 10 Gorffennaf 2025

Fersiwn heb fod yn gyfrinachol: Mae [✂] yn nodi'r golygiadau cyfrinachol

Datganiad

Cyhoeddwyd 10 Gorffennaf 2025

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg 4
2. Cefndir 13
3. Ymatebion i Asesiad Ofcom o Anghenion Defnyddwyr Post 31
4. Cynaliadwyedd ariannol yr USO 71
5. Newidiadau i amlder danfon llythyrau Ail Ddosbarth 87
6. Newidiadau i dargedau ansawdd gwasanaeth yr USO 135
7. Mynediad 176
8. Effaith ein cynigion ar gynaliadwyedd ariannol 226
9. Y camau nesaf a diweddariad ar waith arall 242

1. Trosolwg

1.1 Mae gwasanaethau post yn dal yn hanfodol i bobl ac i fusnesau ledled y DU, ond mae'r ffordd mae pobl yn eu defnyddio wedi newid. Mae nifer y llythyrau sy'n cael eu hanfon wedi haneru dros y degawd diwethaf ac mae'n parhau i ostwng. Mae danfon llai o lythyrau i bob tŷ ar gylch penodol yn golygu bod cost danfon pob eitem wedi cynyddu. Ar yr un pryd, mae ein hymchwil yn awgrymu bod fforddiadwyedd a dibynadwyedd yn bwysicach i bobl na'r cyflymder danfon. Nid y DU yw'r unig wlad sy'n wynebu'r problemau hyn ac mae'r rhan fwyaf o wledydd eraill Ewrop eisoes wedi cymryd camau i ddiwygio eu darpariaeth gwasanaeth cyffredinol a'u targedau ansawdd gwasanaeth.

1.2 Fel darparwr y gwasanaeth cyffredinol, mae'n rhaid i'r Post Brenhinol ddanfon amrywiaeth o gynnyrch post i gartrefi ac i fusnesau am brisiau fforddiadwy sy'n unffurf ledled y DU. Mae deinameg newidiol y farchnad wedi gwanhau sefyllfa ariannol y Post Brenhinol dros y blynyddoedd diwethaf ac felly wedi bygwth cynaliadwyedd y gwasanaeth post cyffredinol ar ei ffurf bresennol.

1.3 Mae'n amlwg bod angen diwygio'r gwasanaeth cyffredinol er mwyn rhoi'r cyfle gorau iddo oroesi. Ym mis Ionawr 2025, fe wnaethom ymgynghori ar gyfres o newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth cyffredinol ("Ymgynghoriad"), er mwyn iddo barhau i ddiwallu anghenion pobl am bost, gan roi cyfle i'r Post Brenhinol ddarparu'r gwasanaeth mewn ffordd sy'n gynaliadwy'n ariannol. Rydym wedi ymgynghori'n eang â rhanddeiliaid ac wedi gwrando'n ofalus ar safbwyntiau ar ein cynigion, gan gynnwys defnyddwyr post, busnesau, gweithredwyr post, grwpiau defnyddwyr, undebau llafur a chyrff cyhoeddus.

1.4 Mae'r Datganiad hwn yn nodi ein penderfyniadau i gefnogi gwasanaeth cyffredinol wedi'i foderneiddio. Rydym yn diogelu buddiannau defnyddwyr drwy wneud set gyfyngedig o newidiadau a fydd yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol ac yn cefnogi ei ddarpariaeth barhaus. Bydd gwireddu manteision diwygio nawr yn dibynnu ar weithredu llwyddiannus gan y Post Brenhinol.

Ein penderfyniadau – yn gryno

Yn dilyn ein Ymgynghoriad, ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid ac ymchwil defnyddwyr, rydym yn gwneud newidiadau i'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol (USO) ar y Post Brenhinol a newidiadau cyfatebol i rwymedigaeth y Post Brenhinol i ddarparu mynediad i'w rwydwaith llythyrau.

Newidiadau i amlder danfon llythyrau Ail Ddosbarth

Ar hyn o bryd mae'r USO yn mynnu bod llythyrau Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth yn cael eu danfon chwe diwrnod yr wythnos (dydd Llun i ddydd Sadwrn). Rydym wedi penderfynu dileu'r gofyniad ar y Post Brenhinol i ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth chwe diwrnod yr wythnos a chaniatáu iddo ddanfon llythyrau o'r fath bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos (dydd Llun i ddydd Gwener). Mae'r newid hwn yn adlewyrchu'r ffaith nad oes angen dau wasanaeth chwe-diwrnod-yr-wythnos ar ddefnyddwyr post mwyach i ddiwallu eu hanghenion rhesymol a'i fwriad yw cefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol.

Ni fydd y gofynion ar gyfer danfon llythyrau Dosbarth Cyntaf chwe diwrnod yr wythnos yn newid.

Newidiadau i dargedau ansawdd gwasanaeth

Mae'n rhaid i'r Post Brenhinol gyrraedd targedau ansawdd gwasanaeth penodol i'w gymell i ddarparu gwasanaeth o safon uchel.

Rydym yn cyflwyno targedau 'post hwyr' newydd, sy'n darparu targedau ychwanegol ar gyfer danfon eitemau nad ydynt wedi cyrraedd y prif darged 'prydlon'. Mae hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd gwasanaeth dibynadwy ac yn gymhelliant arall i'r Post Brenhinol ddanfon post yn fwy rhagweladwy heb oedi hir. Ar gyfer post Dosbarth Cyntaf, byddai'n rhaid danfon 99% o fewn tri diwrnod gwaith. Ar gyfer post Ail Ddosbarth, byddai'n rhaid danfon 99% o fewn pum diwrnod gwaith.

Rydym yn newid y prif darged ar gyfer danfon post Dosbarth Cyntaf y diwrnod gwaith canlynol o 93% i 90% a newid y prif darged ar gyfer danfon post Ail Ddosbarth o fewn tri diwrnod gwaith o 98.5% i 95% er mwyn adlewyrchu dewisiadau pobl yn well a chefnogi cynaliadwyedd ariannol. Rydym hefyd yn ailosod y targed ardal cod post Dosbarth Cyntaf cysylltiedig ar gyfer danfon y diwrnod gwaith canlynol o 91.5% i 87%. Mae'r targedau hyn yn dal yn uchel yn ôl safonau rhyngwladol.

Newidiadau i'r rhwymedigaeth llythyrau Mynediad

'Post swmp' yw'r rhan fwyaf o'r llythyrau a anfonir heddiw, a anfonir gan sefydliadau mawr megis banciau, adrannau'r llywodraeth, y GIG neu awdurdodau lleol. Anfonir y llythyrau hyn y tu allan i'r gwasanaeth cyffredinol ond maent yn defnyddio'r un rhwydwaith. I gefnogi cystadleuaeth yn y farchnad hon, rydym yn mynnu bod y Post Brenhinol yn darparu mynediad i'w rwydwaith llythyrau, sy'n golygu bod yn rhaid iddo ddanfon llythyrau sy'n cael eu casglu gan gwmnïau post eraill. Er mwyn gwireddu manteision diwygio'r USO, mae angen newid y rhwymedigaethau mynediad sydd ar y Post Brenhinol i sicrhau ei fod yn gallu gweithredu'r un gwasanaeth danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos ar gyfer y mwyafrif helaeth o bost. Nod ein penderfyniadau yw galluogi hyn wrth barhau i gefnogi marchnad gystadleuol ar gyfer post swmp sy'n diwallu anghenion sefydliadau mawr a'u cwsmeriaid.

- Mae'r Post Brenhinol yn cyflwyno gwasanaeth mynediad newydd i ddanfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, a fyddai'n danfon llythyrau o fewn tri diwrnod yn ystod yr wythnos (D+3) ar ôl y diwrnod casglu gan yr anfonwr. Byddwn yn rheoleiddio'r gwasanaeth newydd hwn yn yr un ffordd ag yr ydym yn rheoleiddio'r gwasanaethau mynediad presennol ar hyn o bryd.
- Byddwn yn parhau i reoleiddio'r gwasanaeth mynediad D+2 presennol ar gyfer post swmp â blaenoriaeth, o leiaf tra bydd y farchnad yn ymateb i'r diwygio.
- Byddwn yn dileu danfon ar ddydd Sadwrn o wasanaethau mynediad D+5.

Diogelu'r gwasanaeth cyffredinol

1.5 Amcan gwasanaeth post cyffredinol yw gwarantu bod gwasanaeth post o ansawdd da yn cael ei ddarparu am brisiau fforddiadwy, a'i fod ar gael i bawb yn y DU. Mae iddo dair egwyddor allweddol:

i) **Cyffredinolrwydd**: sicrhau bod gan bawb yn y DU fynediad at rwydwaith danfon cenedlaethol a set sylfaenol o wasanaethau post.
ii) **Fforddiadwyedd**: sicrhau nad yw mynediad yn cael ei atal gan brisiau gwasanaethau post.
iii) **Prisiau unffurf**: sicrhau nad yw pobl a busnesau ledled y DU dan anfantais oherwydd eu lleoliad, fel bod pobl yn talu'r un pris ag eraill hyd yn oed os ydynt yn byw mewn lle drutach i'w wasanaethu.

1.6 Dyletswydd graidd Ofcom yw cyflawni ein swyddogaethau mewn ffordd a fydd, yn ein barn ni, yn sicrhau bod gwasanaeth cyffredinol yn cael ei ddarparu, ac wrth wneud hynny, rydym yn dal wedi ymrwymo i'r egwyddorion craidd hyn. Fodd bynnag, nid yw manyleb fanwl gwasanaeth cyffredinol heddiw wedi newid ers ei phennu yn 2011. Rydym wedi gweld newidiadau sylweddol yn ymddygiad pobl yn ystod y cyfnod hwnnw, sydd wedi newid y farchnad llythyrau yn sylfaenol ac wedi cael effaith sylweddol ar sefyllfa ariannol y Post Brenhinol.

Mae defnydd pobl o'r post wedi newid, ac mae'r gwasanaeth cyffredinol bellach yn mynd y tu hwnt i anghenion rhesymol defnyddwyr

1.7 Mae'r rhan fwyaf o bobl a sefydliadau'n dibynnu llawer llai ar lythyrau nag yn y gorffennol, yn bennaf wrth i'r defnydd o ddewisiadau digidol amgen ddod yn gyffredin. Yn y cyd-destun hwnnw, rydym wedi asesu'r hyn y mae ar bobl ei angen yn rhesymol gan y gwasanaeth post heddiw. Cawsom lawer o ymatebion a rhywfaint o dystiolaeth newydd ar ein hasesiad dros dro, ac rydym wedi ystyried y rheini'n ofalus wrth ddod i'n casgliadau. Dyma ein prif ganfyddiadau:

a) Mae'n rhesymol i ddefnyddwyr fod angen gwasanaeth llythyrau dibynadwy sy'n fforddiadwy ac ar gael am bris unffurf.
b) Mae'n rhesymol i ddefnyddwyr fod angen gwasanaeth blaenoriaeth diwrnod canlynol, chwe diwrnod yr wythnos, er mai anaml y bydd hynny'n digwydd.
c) Nid yw defnyddwyr yn rhesymol angen danfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth ar ddydd Sadwrn cyn belled bod gwasanaeth blaenoriaeth y diwrnod canlynol yn dal ar gael.
d) Nid oes angen i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr gael llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth cyn pen tri diwrnod gwaith, er bod lleiafrif o ddefnyddwyr y gallai fod angen hyn arnynt yn rhesymol.
e) Mae ar bobl angen gwasanaeth sy'n fforddiadwy ac maent yn ffafrio gwasanaeth un pris i ddanfon i unrhyw le.

1.8 Rydym yn dod i'r casgliad bod marchnad llythyrau bresennol y DU yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr i raddau helaeth, ac ar y cyfan, yn rhagori ar anghenion rhesymol defnyddwyr yn achos amlder danfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth. Mae hyn yn

bwysig oherwydd, os yw manyleb y gwasanaeth cyffredinol yn rhagori ar yr hyn sydd ei angen ar ddefnyddwyr, yna bydd angen adennill y costau ychwanegol gan ddefnyddwyr am darparu'r gwasanaethau post hyn sy'n fwy na'r gofyn. Yn y pen draw, byddai hyn yn golygu bod defnyddwyr yn talu prisiau uwch na'r angen am rai mathau o gynnyrch. Byddai hefyd yn cyfrannu at yr heriau sy'n wynebu cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth post cyffredinol.

Mae nifer y llythyrau wedi gostwng ac mae sefyllfa ariannol y Post Brenhinol wedi gwaethygu, gan roi'r gwasanaeth cyffredinol mewn perygl

1.9 Mae nifer y llythyrau wedi gostwng wrth i bobl symud i ddewisiadau digidol amgen. Roedd nifer y llythyrau a anfonwyd wedi cyrraedd ei lefel uchaf tua 2005 ond maent wedi bod yn gostwng ers hynny, ac maent bron wedi haneru ers 2011-12, i 6.6 biliwn o eitemau yn 2023-24.[1] Disgwylir i'r niferoedd barhau i ostwng. Ar yr un pryd, mae nifer y mannau danfon wedi cynyddu i 32 miliwn o 28 miliwn yn 2008.[2] Gyda llai o lythyrau a mwy o bwyntiau danfon, mae refeniw llythyrau wedi gostwng.32

1.10 Costau llafur gweithrediadau danfon y Post Brenhinol yw'r rhan fwyaf o'i gyfanswm costau. Wrth ddanfon llythyrau, mae cost gyffredinol danfon un llythyr i dŷ a danfon sawl llythyr i'r un tŷ bron yr un fath. Mae hyn yn golygu ei bod yn llawer mwy effeithlon danfon llawer o bost ar unwaith na danfon yr un faint o bost dros sawl trip ar wahân. Felly, wrth i nifer y llythyrau ostwng, nid yw costau wedi gostwng mor gyflym â refeniw.

1.11 Mae'r newidiadau hyn yn neinameg y farchnad yn bygwth cynaliadwyedd y trefniadau gwasanaeth post cyffredinol presennol. Mae'r trefniadau hyn yn mynnu bod Y Post Brenhinol, sy'n gwmni masnachol a ddynodir fel darparwr y gwasanaeth cyffredinol, yn danfon amrywiaeth o gynnyrch post i gartrefi ac i fusnesau am brisiau fforddiadwy sy'n unffurf ledled y DU. Os yw sefyllfa ariannol y Post Brenhinol yn wan, fel sy'n wir ar hyn o bryd, mae hyn yn peryglu cynaliadwyedd y gwasanaeth post cyffredinol ac felly'r gwasanaeth cyffredinol ei hun. Er nad rôl Ofcom yw cefnogi'r Post Brenhinol fel busnes, rhaid i ni weithredu yn unol â'n dyletswyddau, gan gynnwys diogelu buddiannau defnyddwyr, sicrhau bod gwasanaeth cyffredinol yn cael ei ddarparu, a rhoi sylw i sicrhau bod y gwasanaeth yn gynaliadwy. Yn ein Cais am Fewnbwn (CFI) ym mis Ionawr 202432, fe wnaethom nodi ein barn bod y gwasanaeth cyffredinol wedi rhoi baich ariannol sylweddol ar y Post Brenhinol, ac rydym yn dal o'r farn honno.[3]

1.12 Rydym felly yn monitro perfformiad ariannol y Post Brenhinol yn ofalus, ac yn benodol ei 'Fusnes a Gofnodwyd', sef y rhwydwaith cyffredin sy'n darparu'r gwasanaeth cyffredinol a rhai gwasanaethau sydd y tu allan i gwmpas y gwasanaeth cyffredinol (fel post swmp a rhai parseli). Ar sail perfformiad ariannol y Post Brenhinol dros y blynyddoedd diwethaf, rydym yn poeni am gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth post cyffredinol. Rydym wedi nodi'n

[1] Adolygiad Hooper, 2008. Saving the Royal Mail's universal postal service in the digital age , tudalen 39.
[2] Mae nifer cyfeiriadau'r DU (pwyntiau danfon) a ddaw dan y gwasanaeth post cyffredinol wedi codi o tua 28 miliwn yn 2008 (adeg Adolygiad Hooper) i tua 32 miliwn ym mis Rhagfyr 2024, yn ôl y Postcode Address File.
[3]Roeddem wedi amcangyfrif bod cost net y gwasanaeth cyffredinol rhwng £325m a £675m.

gyson mai un dangosydd cyntaf sy'n dangos bod y gwasanaeth cyffredinol yn gynaliadwy'n ariannol yw bod y Busnes a Gofnodwyd yn sicrhau elw o 5-10% EBIT.[4] Fodd bynnag nid yw'r Post Brenhinol wedi cyrraedd 5% ers 2015/16. Yn ei ganlyniadau blynyddol cyhoeddus mwyaf diweddar, roedd y Post Brenhinol wedi cofnodi colled o £458m yn ystod 2023/24 gydag EBIT o -6.3% ar gyfer y Busnes a Gofnodwyd. Ein hasesiad yw y bydd perfformiad ariannol y Post Brenhinol yn parhau i waethygu heb ddiwygio, ac mae risg sylweddol i gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol. Felly, rydym o'r farn bod angen diwygio ar frys.

1.13 Roedd ein Hymgynghoriad yn cynnig model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos ar gyfer llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth yn dilyn cynnig gan y Post Brenhinol, ac mae'n amcangyfrif y gallai hyn arwain at arbedion o hyd at £300m yn 2025/26. Rydym wedi cynnal ein dadansoddiad ein hunain o'r arbedion posibl ac yn amcangyfrif y gallai'r arbedion fod rhwng £250m a £425m. Mae'r amcangyfrifon hyn yn adlewyrchu newidiadau strwythurol parhaus i sylfaen costau a refeniw'r Post Brenhinol, fel y dylai'r Post Brenhinol allu sicrhau arbedion parhaol, hyd yn oed os ydynt yn amrywio, yng nghostau danfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth, yn hytrach na sicrhau'r arbedion hyn mewn un flwyddyn. Yn ymarferol, bydd maint yr arbedion net gwirioneddol yn dibynnu ar lwyddiant y Post Brenhinol o ran rhoi'r newidiadau gweithredol angenrheidiol ar waith.

1.14 Rydym yn dal o'r farn bod y newidiadau hyn i'r USO yn cynnig arbedion net sylweddol posibl a fyddai, pe baent yn cael eu gwireddu, yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol ac felly'n cefnogi ei ddarpariaeth barhaus.

Ein penderfyniadau

1.15 Mae gennym bryderon difrifol am gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol. Credwn, yng ngoleuni ein dyletswyddau statudol, fod yn rhaid i ni wneud newidiadau. Nid yw'r newidiadau rydym yn eu gwneud yn ddigonol ar eu pen eu hunain; maent yn gyfraniad pwysig at sicrhau bod gwasanaeth post cyffredinol yn parhau i gael ei ddarparu, a bydd eu llwyddiant nawr yn dibynnu ar allu'r Post Brenhinol i'w rhoi ar waith yn weithredol.

1.16 Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw gwasanaethau post i amrywiaeth o bobl a busnesau ledled y DU. Rydym wedi ymgynghori'n eang ers i ni gyhoeddi ein Cais am Fewnbwn, lle roeddem wedi ystyried gwahanol opsiynau ar gyfer diwygio. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddiad ym mis Medi 2024 i egluro ein camau nesaf[5] a'n Hymgynghoriad ar gynigion penodol ar gyfer diwygio. Rydym yn croesawu'r ymgysylltu parhaus gan randdeiliaid drwy gydol y broses hon ac rydym wedi gwrando'n ofalus ar eu safbwyntiau ac wedi eu hystyried wrth ddod i'n penderfyniadau terfynol.

1.17 Mae'r Datganiad hwn yn nodi'r penderfyniadau rydym yn credu sy'n angenrheidiol i foderneiddio'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer yr USO, er mwyn iddo barhau i wasanaethu buddiannau defnyddwyr post a chreu'r cyfle gorau i'r gwasanaeth cyffredinol ddod yn gynaliadwy yn ariannol.

[4] Ofcom, 2022. Datganiad: Adolygu Rheoliadau'r Gwasanaeth Post.
[5] Ofcom, 2024. Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol - Cais am Fewnbwn.

Danfon llythyrau Ail Ddosbarth

1.18 Rydym yn dileu'r gofyniad ar y Post Brenhinol i ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth chwe diwrnod yr wythnos ac yn lle hynny iddo ddanfon llythyrau o'r fath bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos (dydd Llun i ddydd Gwener). Mae hyn yn golygu y gall rhai llythyrau (os ydynt yn cael eu postio o ddydd Mercher i ddydd Sadwrn) gymryd diwrnod yn hirach i gyrraedd nag ar hyn o bryd, ac eithrio dydd Sul. Nid ydym yn cynnig newid y gofynion i ddanfon llythyrau Dosbarth Cyntaf – bydd yn dal yn rhaid eu danfon chwe diwrnod yr wythnos. Nid ydym yn cynnig unrhyw newidiadau i'r fanyleb ar gyfer parseli.

1.19 Rydym wedi clywed gan bobl a sefydliadau sy'n gwrthwynebu'r newidiadau hyn, ac rydym yn deall eu pryderon. Ar ôl adolygu'r holl ymatebion i'n Hymgynghoriad yn ofalus, rydym wedi penderfynu, gan ystyried ein dyletswyddau statudol, bod y newidiadau er budd gorau defnyddwyr. Yn benodol, mae ein hymchwil yn dangos mai dim ond cyfran fach iawn o bobl (4%) oedd o'r farn na fyddai eu hanghenion yn cael eu diwallu, ac y byddai'r newidiadau'n cael effaith negyddol sylweddol iawn arnynt. Rydym wedi edrych yn benodol ar yr effaith ar grwpiau a chymunedau penodol, gan gynnwys y rheini sy'n dweud eu bod yn dibynnu mwy ar bost, ac rydym wedi gweld bod yr effaith ar y bobl hyn yn debyg.[6]

1.20 Mynegodd llawer o randdeiliaid bryderon ynghylch fforddiadwyedd y gwasanaeth post cyffredinol ar hyn o bryd ac, yn benodol, pris llythyrau Dosbarth Cyntaf. Fe wnaethom adolygu fforddiadwyedd yn ddiweddar a chyhoeddi ein casgliadau ym mis Ionawr 2024, lle gwnaethom benderfynu cadw cap diogelu ar bris llythyrau Ail Ddosbarth.[7] Rydym yn deall bod y pryderon a fforddiadwyedd y gwasanaeth post yn dal yn flaenoriaeth barhaus i Ofcom. Felly, byddwn yn adolygu prisiau a fforddiadwyedd yng ngham nesaf ein gwaith, fel rydym wedi ymrwymo iddo yn ein Cynllun Gwaith 2024/25. Bwriadwn gyhoeddi ymgynghoriad erbyn Ch4 2025/26.

Ansawdd gwasanaeth

1.21 Mae safon bresennol y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan y Post Brenhinol yn bryder sylweddol i bobl ac i fusnesau. Ym mis Mai 2025, fe wnaethom agor ymchwiliad i danberfformiad y Post Brenhinol yn erbyn y targedau a reoleiddir yn ystod 2024/25. Ym mis Rhagfyr 2024, fe wnaethom gyhoeddi ein penderfyniad i roi cosb ariannol o £10.5m ar ôl dod i'r casgliad bod y Post Brenhinol wedi methu cyflawni ei rwymedigaethau yn 2023/24.[8] Mae perfformiad y Post Brenhinol yn parhau i fod yn annigonol, ac rydym yn disgwyl gweld gwelliant sylweddol.

1.22 Gan edrych y tu hwnt i'r camau y mae angen i'r Post Brenhinol eu cymryd i wella perfformiad o'r lefelau presennol, credwn ei bod yn briodol ailasesu targedau ansawdd

---

[6] Er enghraifft, rydym yn canfod bod cyfran y bobl a ddywedodd na fyddai'r newidiadau i'r gwasanaeth cyffredinol yn diwallu eu hanghenion mwyach ac yn cael effaith negyddol sylweddol iawn yn 4% ledled y DU, 2% o bobl heb gysylltiad rhyngrwyd, 3% o bobl mewn ardaloedd gwledig, 4% o bobl mewn ardaloedd gwledig anghysbell, 5% o bobl ar aelwyd sy'n cael budd-daliadau, 6% o bobl yng Nghymru, 3% o bobl yn yr Alban, ac 1% o bobl yng Ngogledd Iwerddon.

[7] Ofcom, 2024. Datganiad: Adolygiad o gapiau diogelu Ail Ddosbarth.

[8] Fe wnaethom hefyd roi cosb ariannol o £5.6m ar ôl dod i'r casgliad bod y Post Brenhinol wedi methu cyflawni ei rwymedigaethau yn 2022/23.

gwasanaeth gyda'r dyfodol mewn golwg. Gosodwyd y targedau presennol bron i ddau ddegawd yn ôl, ac mae'r farchnad bost wedi newid yn sylweddol ers hynny. Mae'r newidiadau hyn wedi cynyddu'r anhawster a'r gost fesul uned sy'n gysylltiedig â gweithredu rhwydwaith danfon sy'n gallu cyrraedd lefelau ansawdd gwasanaeth uchel iawn yn gyson, ac mae ein hymchwil yn awgrymu bod fforddiadwyedd a dibynadwyedd yn bwysicach i bobl na chyflymder danfon.

1.23 Roedd ein Hymgynghoriad yn ystyried beth ddylai lefelau priodol y targedau allweddol fod yn y tymor hwy. Roeddem yn cynnig gostwng lefel y targedau ar gyfer danfon post Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth yn brydlon, fel rhan o'n dull gweithredu cyffredinol i sicrhau bod y gwasanaeth cyffredinol yn adlewyrchu blaenoriaethau pobl yn well ac i gyfrannu at ei wneud yn gynaliadwy'n ariannol.

1.24 Yn ddealladwy, roedd rhanddeiliaid yn poeni am y targedau newydd yng nghyd-destun perfformiad diweddar y Post Brenhinol. Rydym yn dal i gredu bod y newidiadau'n angenrheidiol ac y byddant o fudd i ddefnyddwyr drwy sicrhau bod y targedau'n adlewyrchu anghenion a dewisiadau pobl, gan ystyried goblygiadau cost a phrisiau targedau uwch wrth i nifer y llythyrau barhau i ostwng. Mae ein hymchwil yn dangos bod defnyddwyr yn fodlon na fyddai gostyngiadau cymharol fach mewn targedau ansawdd gwasanaeth (ar yr amod eu bod yn cael eu cyflawni) yn peri anhwylustod mawr iddynt cyn belled â'u bod yn gallu bod yn hyderus y bydd y llythyr yn cael ei ddanfon yn ddibynadwy heb oedi sylweddol. I'r gwrthwyneb, gwyddom, ar lefelau uchel o ansawdd gwasanaeth (a gyflawnwyd), fod cynnydd cymharol fach yn yr ansawdd gofynnol yn gostus iawn i'r Post Brenhinol, a byddai'n ceisio trosglwyddo'r costau hyn i ddefnyddwyr. Felly, credwn y dylem ailosod y cydbwysedd ychydig rhwng y manteision y mae defnyddwyr yn eu cael o darged ansawdd gwasanaeth arbennig o uchel a chostau cyflawni targed o'r fath.

1.25 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynnig am newid bach yn y prif darged ar gyfer danfon post Dosbarth Cyntaf y diwrnod canlynol o 93% i 90% a newid cyfatebol i darged ardal cod post danfon Dosbarth Cyntaf y diwrnod canlynol o 91.5% i 87%, yn ogystal â newid ar gyfer danfon post Ail Ddosbarth o fewn tri diwrnod o 98.5% i 95%.

1.26 Roeddem hefyd wedi ymgynghori ar gyflwyno targedau 'post hwyr' newydd. Mae hwn yn newid pwysig i'n fframwaith rheoleiddio ar gyfer ansawdd gwasanaeth sy'n cydnabod y gwerth y mae pobl yn ei roi ar ddibynadwyedd. Mae'r targedau wedi'u cynllunio i sicrhau, hyd yn oed os bydd llythyrau'n methu'r prif darged prydlon, y bydd defnyddwyr yn hyderus y byddant yn cyrraedd o fewn cyfnod rhesymol. Bydd hyn yn mynd i'r afael â'r niwed mae rhai pobl wedi'i ddioddef pan fydd rhai llythyrau wedi cymryd cyfnod estynedig i gyrraedd ar ôl methu'r targed danfon gwreiddiol.

1.27 Yr oedd cefnogaeth eang i gyflwyno targedau post hwyr. Rydym wedi ystyried y lefel darged derfynol, yng ngoleuni rhagor o dystiolaeth gan y Post Brenhinol, ynghylch terfynau ei allu i dargedu post hwyr yn ei weithrediadau danfon. Yn benodol, rydym yn ymwybodol, wrth gyflwyno'r targedau hyn, nad ydym am fynnu'n anfwriadol bod y Post Brenhinol yn buddsoddi mwy nag sydd ei angen i gyrraedd y targedau danfon prydlon diwygiedig, heb broblemau dibynadwyedd yn ei rwydwaith. Felly, rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen i gyflwyno targedau post hwyr a gwneud diwygiad bach i'r lefelau terfynol, er mwyn i'r targed ar gyfer Dosbarth Cyntaf fod yn 99% D+3 (o fewn tri diwrnod gwaith) ac ar gyfer Ail Ddosbarth 99% D+5 (o fewn pum diwrnod gwaith).

1.28 Yn olaf, nodwn fod nifer o randdeiliaid wedi dweud y dylai cynnydd pellach mewn prisiau fod yn ddibynnol ar welliannau yn ansawdd y gwasanaeth. Yn ein gwaith pellach ar brisio a fforddiadwyedd, byddwn yn ystyried y cynnig hwn.

Llythyrau mynediad

1.29 Mae'r rhan fwyaf o lythyrau a anfonir heddiw yn bost swmp a anfonir gan sefydliadau mawr, ond nid yw post swmp yn rhan o'r USO. Yn 2023/24, anfonwyd 9 biliwn o lythyrau, gyda phost swmp yn cynrychioli 63% o hynny (5.7 biliwn o eitemau). Mae'r Post Brenhinol yn cynnig ei wasanaethau post swmp ei hun ar sail fasnachol, ond mae ein rheoliad hefyd yn mynnu bod y Post Brenhinol yn cynnig mynediad yn uniongyrchol i gwmnïau sy'n prosesu post gan sefydliadau mawr cyn defnyddio rhwydwaith y Post Brenhinol i ddanfon y post hwn (a elwir yn 'weithredwyr mynediad').

1.30 Er mwyn gwireddu manteision diwygio'r USO, mae angen newid y rhwymedigaethau mynediad i sicrhau bod y Post Brenhinol yn gallu gweithredu'r un gwasanaeth danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos ar gyfer post swmp nad yw'n flaenoriaeth. Rydym am alluogi'r arbedion cost y gall y Post Brenhinol eu cyflawni drwy symud i ddanfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, gan barhau i gefnogi marchnad gystadleuol ar gyfer post swmp sy'n diwallu anghenion sefydliadau mawr a'u cwsmeriaid.

1.31 Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'n Hymgynghoriad yn cefnogi ein newidiadau arfaethedig i reoleiddio mynediad. Ar ôl ystyried yr ymatebion yn ofalus, rydym wedi penderfynu ar y canlynol:

- Byddwn yn rheoleiddio gwasanaeth mynediad D+3 newydd gan y Post Brenhinol. Byddwn yn mynnu bod y Post Brenhinol yn cyhoeddi gwybodaeth am ansawdd gwasanaeth mewn perthynas â'r gwasanaeth hwn er mwyn helpu cwmnïau mynediad i ddal y Post Brenhinol i gyfrif am ei berfformiad.
- Byddwn yn parhau i reoleiddio'r gwasanaethau mynediad D+2 presennol (sy'n cael eu darparu o ddydd Llun i ddydd Sadwrn) am y tro. Roedd yr ymatebion yn dangos y bydd angen parhaus am y gwasanaeth hwn, yn enwedig ar gyfer llythyrau ariannol ac iechyd sy'n sensitif o ran amser, ac rydym yn credu bod angen rheoleiddio i roi hyder i'r farchnad wrth i'r model newydd bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos gael ei sefydlu. Rydym yn deall pryder y Post Brenhinol, os nad yw swm y post blaenoriaeth, gan gynnwys mynediad D+2, yn dod o dan lefel benodol, y gallai hyn lesteirio ei allu i weithredu'r model danfon newydd yn effeithiol. Fodd bynnag, credwn fod camau y gall y Post Brenhinol eu cymryd i reoli'r risg hon o fewn ffiniau rheoleiddio. Byddwn yn parhau i adolygu'r mater hwn ac yn ystyried cyfleoedd i ddadreoleiddio yn y dyfodol.

Mae'n hanfodol bod y Post Brenhinol yn gweithredu'n effeithiol

1.32 Rydym yn credu bod y newidiadau a nodir uchod yn angenrheidiol i gefnogi'r gwaith parhaus o ddarparu gwasanaeth post cyffredinol, a fydd yn ei dro o fudd i ddefnyddwyr, i fusnesau ac i'r economi ehangach. Bydd gwasanaeth cyffredinol sy'n gynaliadwy yn ariannol

ac sy’n caniatáu i wasanaethau gael eu darparu’n fwy effeithlon a bydd yn cefnogi twf economaidd.

1.33 Bydd y newidiadau i'n gwaith o reoleiddio danfon llythyrau Ail Ddosbarth a mynediad yn dod i rym ar 28 Gorffennaf 2025. Bydd hyn yn sicrhau bod cyfnod pan fydd y Post Brenhinol yn gallu dechrau'r broses o gyfleu effaith y newidiadau i gwsmeriaid ac i gwmnïau mynediad gadarnhau eu cynlluniau gweithredol. Bydd yn dal i ganiatáu i'r Post Brenhinol fwrw ymlaen yn gyflym i roi'r newidiadau ar waith. Bydd y targedau ansawdd gwasanaeth newydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2026.

1.34 Rydym yn disgwyl i'r Post Brenhinol fynd ati'n rhagweithiol i gyfleu'r newidiadau allweddol y bydd defnyddwyr yn eu profi o dan y model danfon newydd mewn ffordd glir, gywir a thryloyw. Rydym hefyd yn disgwyl i'r Post Brenhinol sefydlu fforwm newydd i gefnogi ymgysylltu cadarnhaol â rhanddeiliaid allweddol yn y diwydiant, i sicrhau bod y rhanddeiliaid hynny'n cael gwybod am y cynnydd o ran gweithredu a'u bod yn cael cyfle i gyfrannu eu profiad.

1.35 Bydd sicrhau manteision y newidiadau hyn yn dibynnu ar y Post Brenhinol yn rhoi'r model gweithredu newydd ar waith yn effeithiol. Ar ôl i'r rheoliadau ddod i rym, penderfyniad y Post Brenhinol wedyn yw pryd a sut mae gweithredu'r newidiadau i'w weithrediadau. Mae'r Post Brenhinol yn amcangyfrif y bydd gweithredu'r newidiadau angenrheidiol ar draws ei rwydwaith yn cymryd tua 12-18 mis. Byddwn yn monitro'r broses hon yn ofalus, yn enwedig i ganfod unrhyw broblemau o ran rhoi newidiadau ar waith, asesu a yw'r arbedion cost wedi cael eu gwireddu a deall unrhyw effeithiau ar brofiad y defnyddiwr.

1.36 Mae’n amlwg hefyd na fydd diwygio’r gwasanaeth cyffredinol yn unig yn ateb heriau gweithredol ac ariannol ehangach y Post Brenhinol. Mae angen i’r busnes gymryd camau eraill i sicrhau ei fod yn gynaliadwy yn ariannol, gan drawsnewid ei rwydwaith a’i weithrediadau, yn ogystal â gwella twf drwy ei gynnig parseli. Ers i ni gyhoeddi ein Hymgynghoriad, mae EP Group wedi cymryd drosodd rhiant-gwmni'r Post Brenhinol, International Distribution Services Plc. Mae perchnogaeth newydd yn rhoi cyfle i'r Post Brenhinol fynd i'r afael â'r heriau hyn ac, wrth wneud hynny, gwella ei berfformiad ariannol a pherfformiad y gwasanaeth.

1.37 Yn ein barn ni mae’n annhebygol o hyd y gallwn wneud llawer mwy o dan y fframwaith rheoleiddio presennol i ymateb i’r heriau sy’n wynebu’r gwasanaeth cyffredinol. Wrth i’r farchnad llythyrau barhau i ddirywio, efallai bydd angen adolygu manyleb y gwasanaeth cyffredinol eto yn y dyfodol, er ein bod yn nodi y byddai unrhyw newidiadau sylweddol pellach yn debygol o olygu newid deddfwriaeth.

2. Cefndir

Pwrpas yr adran hon

Mae'r adran hon yn egluro fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol gwasanaethau post yn y DU, gan gynnwys pwerau Ofcom. Mae'n rhoi trosolwg o'r farchnad bost ac yn egluro'r angen dybryd am ddiwygio. I gloi, mae'n nodi ein hamcanion polisi a'n hasesiadau effaith.

Yn fyr

Mae Ofcom yn rheoleiddio gwasanaethau post y DU, gan gynnwys y Post Brenhinol, sef y Darparwr Gwasanaeth Cyffredinol dynodedig. Ein prif ddyletswydd yw hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr. Rhaid i ni hefyd gyflawni ein swyddogaethau post mewn ffordd a fydd, yn ein barn ni, yn sicrhau gwasanaeth post cyffredinol, ac wrth wneud hynny mae'n rhaid i ni ystyried bod angen i wasanaeth o'r fath fod yn gynaliadwy yn ariannol ac yn effeithlon. Mae'r ddogfen hon yn nodi ein penderfyniadau i ddiwygio'r gwasanaeth cyffredinol.

Fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol

Rôl Ofcom mewn rheoleiddio post

2.1 Ofcom yw awdurdod rheoleiddio annibynnol gwasanaethau post y DU. Mae ein dyletswyddau cyffredinol yn cael eu nodi yn adran 3 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Ein prif ddyletswydd yw 'hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau a hybu buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle y bo hynny'n briodol.[9]

2.2 Mae Deddf Gwasanaethau Post 2011 (y Ddeddf) yn cynnwys y fframwaith cyfreithiol ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau post.[10] Mae'n mynnu bod Ofcom yn cyflawni ei swyddogaethau post mewn ffordd a gredwn a fydd yn sicrhau darparu gwasanaeth post cyffredinol.[11]

2.3 Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, rhaid i ni ystyried yr angen i wasanaeth post cyffredinol fod yn gynaliadwy yn ariannol ac yn effeithlon cyn diwedd cyfnod rhesymol (ac i'w ddarpariaeth barhau i fod yn effeithlon ar bob adeg ddilynol).[12]

---

[9] Adran 3(1) Deddf Cyfathrebiadau 2003.

[10] Deddf Gwasanaethau Post 2011.

[11] Adran 29(1) o'r Ddeddf.

[12] Adran 29(3) o'r Ddeddf. Mae Adran 29(4) o'r Ddeddf yn datgan bod yr angen i ddarparu gwasanaeth post cyffredinol fod yn gynaliadwy yn ariannol yn cynnwys yr angen am gyfradd enillion fasnachol resymol ar unrhyw wariant a gaiff darparwr y gwasanaeth cyffredinol am ddarparu'r gwasanaeth cyffredinol neu mewn cysylltiad â hynny.

2.4 Rydym yn monitro'r sector i ddeall y newidiadau yn anghenion defnyddwyr, deinameg y farchnad a chynaliadwyedd ariannol ac effeithlonrwydd y gwasanaeth cyffredinol, yn ogystal ag unrhyw risgiau y mae'n eu hwynebu. Mae ein gwaith monitro yn canolbwyntio ar y Post Brenhinol, ac rydym yn nodi ein canfyddiadau yn ein hadroddiad monitro post blynyddol.

Y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol

2.5 Rhaid i'r darparwr gwasanaeth cyffredinol dynodedig (DUSP), Royal Mail Group Limited (y Post Brenhinol), ddarparu amrywiaeth o gynnyrch post penodol i gartrefi ac i fusnesau am brisiau fforddiadwy, sy'n unffurf ledled y DU. Y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol (USO) yw'r enw ar y gofyniad hwn.

2.6 Mae Adran 31 o'r Ddeddf yn nodi'r gwasanaethau y mae'n rhaid eu cynnwys, o leiaf, mewn gwasanaeth post cyffredinol yn y DU. Mae'r gofynion hyn yn cynnwys:

a) Danfon llythyrau o leiaf unwaith bob dydd o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, a danfon pecynnau post eraill o leiaf unwaith y dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener;[13]
b) Casglu llythyrau o leiaf unwaith bob dydd o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, a chasglu pecynnau post eraill o leiaf unwaith y dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener;
c) Gwasanaeth sy'n cludo pecynnau post o un lle i'r llall drwy'r post am brisiau fforddiadwy ac unffurf yn ddaearyddol ledled y DU;
d) Gwasanaeth eitemau cofrestredig am brisiau fforddiadwy, unffurf yn ddaearyddol ledled y DU;
e) Gwasanaeth eitemau wedi'u hyswirio am brisiau fforddiadwy, unffurf yn ddaearyddol ledled y DU;
f) Darparu rhai gwasanaethau am ddim i bobl ddall/rhannol ddall; a
g) Trosglwyddo rhai cyfeiriadau a deisebau deddfwriaethol yn rhad ac am ddim.

2.7 Mae'r Ddeddf wedyn yn mynnu bod Ofcom yn nodi, drwy orchymyn, ddisgrifiad o'r gwasanaethau sydd i'w darparu fel rhan o'r USO.[14] Rydym yn nodi cwmpas manwl yr USO yng Ngorchymyn Gwasanaethau Post (Gwasanaeth Post Cyffredinol) 2012 (y Gorchymyn).[15] Fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf,[16] mae'r Gorchymyn yn cynnwys y gwasanaethau sylfaenol y cyfeirir atynt uchod. Mae hefyd yn nodi darparu dau gyflymder danfon ar gyfer llythyrau a pharseli nad ydynt wedi'u hyswirio: Dosbarth Cyntaf (y diwrnod gwaith nesaf) ac Ail Ddosbarth (o fewn tri diwrnod gwaith).[17]

---

[13] Mae 'pecynnau post' yn cael eu diffinio yn adran 27(2) o'r Ddeddf fel "llythyr, parsel, pecyn neu eitem arall mae modd ei hanfon drwy'r post." Er mwyn bod yn glir, rydym yn defnyddio'r termau llythyrau a pharseli yn y ddogfen hon. Mae'r llythyrau'n cynnwys Llythyrau Mawr, oni nodir yn wahanol. Mae Atodiad A9 y ddogfen hon yn cynnwys rhestr o dermau ac acronymau diffiniedig, sy'n cynnwys y diffiniadau ar gyfer llythyrau, Llythyrau Mawr a Llythyrau Safonol.

[14] Adran 30(1) o'r Ddeddf.

[15] Gorchymyn y Gwasanaethau Post (Gwasanaeth Post Cyffredinol) 2012.

[16] Adran 30(2) o'r Ddeddf.

[17] Paragraffau 2 a 3 o Atodlen 1 i'r Gorchymyn. Mae 'diwrnod gwaith' yn golygu bob dydd ac eithrio dydd Sul a gwyliau cyhoeddus (Erthygl 3(2A) o'r Gorchymyn).

2.8 Mae Ofcom yn mynnu bod y Post Brenhinol, fel y DUSP, yn darparu'r USO drwy amodau rheoleiddio o'r enw Amodau'r DUSP. Mae Amodau'r DUSP yn mynnu bod y Post Brenhinol yn darparu'r gwasanaethau a nodir yn y Gorchymyn, ac yn nodi rhagor o fanylion am ddarparu'r gwasanaethau hyn. Er enghraifft, maent yn cynnwys targedau ansawdd gwasanaeth ar gyfer rhai gwasanaethau, gan gynnwys post Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth.

Rhwymedigaethau ar gyfer post swmp a gwasanaethau post mynediad

2.9 Mae'r USO yn mynnu bod 'gwasanaethau eitem unigol' yn cael eu darparu, sy'n golygu gwasanaeth i anfon pecynnau post unigol. Ar ben hynny, mae'r Post Brenhinol yn darparu gwasanaethau 'post swmp'. Mae'r rhain yn wasanaethau i gwsmeriaid post mawr sy'n anfon llawer o lythyrau, fel cyrff cyhoeddus, banciau ac ymddiriedolaethau'r GIG. Nid yw post swmp yn rhan o fanyleb yr USO ond mae'n cael ei ddanfon gan ddefnyddio'r un rhwydwaith cenedlaethol â'r un sy'n cael ei ddefnyddio i ddanfon cynnyrch USO eitemau unigol. Mae hyn yn golygu bod post swmp yn cael ei ddanfon gan weithwyr post y Post Brenhinol ar eu rowndiau arferol ac, i'r rhan fwyaf o bobl, nid oes modd ei wahaniaethu oddi wrth lythyrau sy'n cael eu danfon fel rhan o'r USO.

2.10 Post swmp yw tua 63%[18] o'r holl lythyrau sy'n cael eu hanfon ac mae'n cynnwys llythyrau defnyddwyr post mawr, y mae'r Post Brenhinol yn delio â nhw o un pen i'r llall, a llythyrau gan anfonwyr tebyg, sy'n dod i rwydwaith y Post Brenhinol fel 'post mynediad'.[19] O dan yr amod Mynediad Darparwr Gwasanaeth Cyffredinol (yr Amod USPA),[20] mae Ofcom yn mynnu bod y Post Brenhinol yn rhoi mynediad i'w rwydwaith danfon llythyrau i weithredwyr eraill (a elwir yn 'gwmnïau mynediad') er mwyn iddynt allu cynnig gwasanaethau post swmp sy'n cystadlu â'r Post Brenhinol.[21] Mae 'post mynediad' yn golygu'r post sy'n cael ei anfon drwy ddefnyddio'r gwasanaethau cystadleuol hyn, sy'n cael ei gasglu a'i ddidoli gan weithredwyr mynediad, cyn ei drosglwyddo i'r Post Brenhinol i'w ddanfon.[22]

[18] Mae'r wybodaeth hon yn cael ei rhoi gan y Post Brenhinol fel rhan o'n gofynion adrodd rheoleiddiol.

[19] Mae'r term 'post swmp' yn disgrifio llawer iawn o lythyrau a/neu barseli sy'n cael disgownt oherwydd eu niferoedd, fformat a'u bod wedi'u didoli ymlaen llaw. Mae'n cynnwys yr holl gontractau post mynediad a phost swmp sydd gan y Post Brenhinol yn uniongyrchol gyda defnyddwyr post mawr.

[20] Gweler amodau ar gwmnïau post.

[21] Mae'r Post Brenhinol hefyd yn cynnig gwasanaethau post swmp i gwsmeriaid mawr ar sail fasnachol heb ei rheoleiddio.

[22] Gall defnyddwyr post mawr hefyd ofyn am fynediad uniongyrchol i rwydwaith y Post Brenhinol, ac os felly mae'n rhaid iddynt ddidoli eu post eu hunain a'i drosglwyddo i'r Post Brenhinol ar gyfer ei ddanfon y filltir olaf.

2.11 Mae'n rhaid i'r Post Brenhinol gynnig gwasanaethau mynediad sy'n ceisio bodloni dau gyflymder danfon – o fewn dau (D+2) neu bump (D+5)[23] diwrnod gwaith[24] ar ôl casglu gan yr anfonwr – ar delerau teg a rhesymol ac yn amodol ar reolaeth gwasgu elw.

Diwygio manyleb yr USO

2.12 Mae gan Ofcom y pŵer i ddiwygio'r Gorchymyn ar ôl asesu i ba raddau y mae marchnad bost y DU yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr. Mae addasiadau i Amodau'r DUSP a'r Amod USPA yn amodol ar brofion statudol penodol. Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ddiwygio'r gofynion sylfaenol yn adran 31 o'r Ddeddf drwy is-ddeddfwriaeth.[25]

Tabl 2.1: Sut mae modd diwygio manyleb yr USO

Deddfwriaeth/rheoliad	Beth mae'n ei wneud?	Pwy sy'n cael ei newid?
Adran 31 (gofynion sylfaenol) o Ddeddf Gwasanaethau Post 2011	Mae'n nodi'r gwasanaethau sylfaenol sy'n gorfod bod yn y gwasanaeth cyffredinol, gan gynnwys gwasanaeth fforddiadwy am bris unffurf, a chasglu a danfon llythyrau o leiaf unwaith bob dydd Llun i ddydd Sadwrn.	Yr Ysgrifennydd Gwladol drwy orchymyn gyda chymeradwyaeth y Senedd Brydeinig, yn dilyn adolygiad gan Ofcom o'r graddau y mae'r gofynion sylfaenol yn adlewyrchu anghenion rhesymol defnyddwyr.[26]
Gorchymyn y Gwasanaethau Post (Gwasanaeth Post Cyffredinol) 2012	Mae'n pennu cwmpas manwl manyleb yr USO, gan gynnwys y gofyniad i ddarparu gwasanaethau Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth, a chyflymder danfon.	Ofcom, ar ôl asesiad o'r graddau y mae'r farchnad gwasanaethau post yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr[27] ac ymgynghoriad cyhoeddus.
Amodau Darparwr Gwasanaeth Cyffredinol Dynodedig	Gosod gofynion penodol ar y Post Brenhinol fel y darparwr gwasanaeth cyffredinol dynodedig, gan gynnwys rhwymedigaethau casglu a danfon, targedau perfformiad a chapiau prisiau.	Ofcom, ar ôl ymgynghoriad ac yn amodol ar brofion statudol penodol.[28]

[23] Yng nghyd-destun gwasanaethau mynediad, mae 'D+X' (e.e. D+2, D+5) yn nodi cyfanswm nifer y diwrnodau gwaith rhwng y diwrnod bydd y cwmni mynediad yn casglu'r eitem gan yr anfonwr ('D') a'r diwrnod caiff ei ddanfon ('X'). Er enghraifft, mae D+2 yn cyfeirio at y senario lle mae cwmni mynediad yn casglu llythyr ar ddydd Llun ac mae i fod i gael ei ddanfon dau ddiwrnod gwaith wedyn ar y dydd Mercher, h.y. D+2.

[24] Mae 'diwrnod gwaith' yn golygu unrhyw ddiwrnod nad yw'n ddydd Sul neu'n ŵyl gyhoeddus (Amod 1.3 USPA (gg)).

[25] Adran 34(5) o'r Ddeddf.

[26] Adran 34 y Ddeddf.

[27] Adran 30(3) o'r Ddeddf.

[28] Adran 36 ac Atodlen 6 i'r Ddeddf.

Deddfwriaeth/rheoliad	Beth mae'n ei wneud?	Pwy sy'n cael ei newid?
Amod Mynediad Darparwr Gwasanaeth Cyffredinol	Mae'n mynnu mai'r Post Brenhinol yw'r darparwr gwasanaeth cyffredinol dynodedig i gynnig mynediad at ei rwydwaith danfon llythyrau. Rhaid iddo gynnig cynnyrch dau a phum diwrnod gwaith ar delerau teg a rhesymol ac yn amodol ar reolaeth gwasgu elw.	Ofcom, ar ôl ymgynghoriad ac yn amodol ar brofion statudol penodol.[29]

2.13 Gweler Atodiad A1 i gael rhagor o wybodaeth am y fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol.

Dyletswyddau eraill

2.14 Mae Adran 108 o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 yn nodi dyletswydd Ofcom i ystyried pa mor ddymunol yw hyrwyddo twf economaidd wrth arfer ei swyddogaethau rheoleiddio. Er mwyn ystyried hyrwyddo twf economaidd, bydd Ofcom yn arfer ei swyddogaethau rheoleiddio mewn ffordd sy'n sicrhau: a) bod camau rheoleiddio'n cael eu cymryd dim ond pan fydd eu hangen; a b) bod unrhyw gamau a gymerir yn gymesur. Wrth asesu effaith ein cynigion yn Adrannau 5, 6 a 7, rydym wedi ystyried ffactorau allweddol perthnasol sy'n sbarduno twf economaidd, gan gynnwys arloesi, cystadleuaeth, effeithlonrwydd a chynhyrchiant, a masnach.[30][31]

2.15 Yn unol ag adran 2B o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, rhaid i ni hefyd ystyried Datganiad Blaenoriaethau Strategol (SSP) Llywodraeth y DU ar gyfer telegyfathrebiadau, rheoli sbectrwm radio a gwasanaethau post.[32] Mae'r SSP yn nodi prif amcan y Llywodraeth sef sicrhau bod gwasanaeth post cyffredinol sy'n gynaliadwy ac yn effeithlon yn ariannol yn cael ei ddarparu, yn amodol ar y ffaith bod y Llywodraeth am gael marchnad bost gystadleuol sy'n sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr ac i eraill sy'n defnyddio gwasanaethau post.

Diwygio'r USO

Yr angen i ddiwygio

2.16 Mae'r cyd-destun lle mae'n rhaid i ni gyflawni ein dyletswyddau mewn perthynas â'n swyddogaethau post wedi newid ers 2011, pan ysgwyddodd Ofcom y cyfrifoldeb dros bost a

[29] Adran 38 ac Atodlen 6 i'r Ddeddf.

[30] Gweler Canllawiau Statudol ar y Ddyletswydd Twf.

[31] Mewn ymateb i'n Cynllun Gwaith 2025/2026, gofynnodd y Post Brenhinol am eglurder ynghylch sut bydd y Ddyletswydd Twf Statudol yn effeithio ar y sector post (ymateb y Post Brenhinol i'r Ymgynghoriad: Cynllun Gwaith Ofcom 2025–26, t.2. Rydym wedi ystyried hyn yn ein dadansoddiad cyffredinol yn Adrannau 5, 6 a 7.

[32] Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, 2019. Datganiad Blaenoriaethau Strategol.

phan osodwyd yr USO presennol. Mae pedair nodwedd i'w nodi'n benodol: newid y defnydd o bost gan bobl a sefydliadau; newid blaenoriaethau pobl o ran yr hyn sydd bwysicaf; sylfaen costau ac, yn fwy cyffredinol, sefyllfa ariannol y Post Brenhinol fel y darparwr gwasanaeth cyffredinol dynodedig; a pherfformiad ansawdd gwasanaeth y Post Brenhinol. Credwn fod pob un o'r rhain yn tynnu sylw at yr angen i ddiwygio'r USO. Mae ffigurau 2.2 a 2.3 ar dudalennau 17 i 18 yn dangos y newid yn y galw am wasanaethau llythyrau ers 2019/20.

2.17 Mae'r newidiadau hyn wedi digwydd mewn gwledydd eraill hefyd, lle mae llywodraethau a rheoleiddwyr eisoes wedi cydnabod nad yw darparu gwasanaethau llythyrau yn unol â manylebau gwreiddiol yn gynaliadwy, sy'n golygu bod angen diwygio. Wrth i wledydd ledled Ewrop a'r byd addasu manyleb eu gwasanaeth cyffredinol yn unol â natur newidiol y galw gan ddefnyddwyr, mae'r DU wedi parhau i fod yn un o grŵp bach o wledydd lle mae'n ofynnol i'r darparwr gwasanaeth cyffredinol ddanfon llythyrau chwe diwrnod yr wythnos a chynnig cynnyrch llythyrau swmp uchel prif ffrwd y diwrnod canlynol (h.y. Dosbarth Cyntaf).[33]

Symiau newidiol ar gyfer post

2.18 Mae post yn dal yn arf pwysig ar gyfer cyfathrebu, ond mae'r ffordd mae pobl yn ei ddefnyddio wedi newid.

2.19 Mae nifer y llythyrau wedi gostwng wrth i bobl symud i ddewisiadau digidol amgen. Roedd nifer y llythyrau a anfonwyd wedi cyrraedd ei lefel uchaf tua 2005 ond maent wedi bod yn gostwng ers hynny, ac maent bron wedi haneru ers 2011-12, i 6.6 biliwn o eitemau yn 2023-24.[34] Disgwylir i'r niferoedd barhau i ostwng dros y blynyddoedd nesaf. Mae adroddiadau gan froceriaid hefyd yn pwysleisio'r gostyngiad cyflym yn nifer y llythyrau, a rhagwelir y bydd nifer y llythyrau'n disgyn 5-7% y flwyddyn yn y tymor canolig.[35] Ar yr un pryd, mae nifer y mannau danfon wedi cynyddu i 32 miliwn.[36] Gyda llai o lythyrau a mwy o bwyntiau danfon, mae refeniw llythyrau wedi gostwng.[37] Mae'r gostyngiad parhaus yn nifer y llythyrau yn gysylltiedig ag argaeledd cynyddol a'r defnydd o gysylltiadau band eang a symudol cyflymach dros y blynyddoedd diwethaf, sy'n cynnig mwy o gyfleoedd i fusnesau a gwasanaethau cyhoeddus fabwysiadu offer a systemau cyfathrebu digidol. Mae'r cyfle i ddefnyddio dulliau cyfathrebu digidol amgen yn uwch nag erioed ac rydym yn disgwyl i'w

[33] Ofcom, 2024. Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol - Cais am Fewnbwn, Adran 7.
[34] Adolygiad Hooper, 2008. Saving the Royal Mail's universal postal service in the digital age , tudalen 39.
[35] Ar sail data gan Liberum Capital Limited a gyhoeddwyd ar 28 Mai 2024 a Peel Hunt LLP ar 18 Gorffennaf 2024 a 05 Medi 2024.
[36] Mae nifer cyfeiriadau'r DU (pwyntiau danfon) a ddaw dan y gwasanaeth post cyffredinol wedi codi o tua 28 miliwn yn 2008 (adeg Adolygiad Hooper) i tua 32 miliwn ym mis Rhagfyr 2024, yn ôl y Postcode Address File.
[37] Ac eithrio 2021-22 pan roedd nifer y llythyrau wedi codi fymryn gyda diwedd cyfnod clo y pandemig a dychwelyd i fusnes arferol.

defnydd gynyddu wrth i dechnoleg ddatblygu ymhellach.[38] [39]Mae chwech o bob deg (62%) o ddefnyddwyr preswyl yn cytuno eu bod yn anfon llai o lythyrau oherwydd y gost ac mae chwarter busnesau bach a chanolig (BBaCh) yn dweud eu bod wedi gwario llai ar bost yn y 12 mis diwethaf.[40]

Ffigur 2.2: Nifer y llythyrau i gyfeiriadau (miliynau) a refeniw mewn termau real (£m, prisiau 2023-24)[41][42]



Ffynhonnell: Ofcom / data gweithredwyr. Mae o un pen i'r llall y Post Brenhinol yn gyfrifiad gan Ofcom ac mae'n cyfeirio at gyfanswm llythyrau'r Post Brenhinol heb gynnwys llythyrau mynediad. Nid yw'r ffigurau'n cynnwys llythyrau rhyngwladol. Mae'r niferoedd mynediad yn cynnwys nifer fach o barseli mynediad.

2.20 I'r gwrthwyneb, er bod defnyddwyr a busnesau yn defnyddio llai o lythyrau, mae'r farchnad parseli wedi tyfu'n sylweddol. Er bod niferoedd a refeniw parseli wedi disgyn yn ôl ers 2020-21, mae'r duedd gyffredinol ar i fyny, gyda chyfansymiau 2022-23 yn uwch na ffigurau cyn y pandemig 2019-20.

[38] Ofcom, 2024. Cysylltu'r Gwledydd– Adroddiad y DU 2024, tudalen 6 a thudalen 34. Yn 2024, roedd gan 98% o eiddo'r DU fynediad at fand eang cyflym iawn o linellau sefydlog ac mae 4G ar gael mewn 99%+ o safleoedd awyr agored.

[39]Gweler yr Adolygiad o Wariant, 2025, t.95. Mae'r llywodraeth wedi nodi rhagor o fuddsoddiad mewn gwasanaethau digidol ar gyfer adrannau penodol fel Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEM), er mwyn manteisio i'r eithaf ar ryngweithio digidol â chwsmeriaid erbyn 2029-30. [Cyrchwyd 16 Mehefin 2025]. NHS app: Plans for more patients in England to get results on phones - BBC News - Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol hefyd wedi nodi mai cyfathrebu digidol fydd y dull cyfathrebu diofyn i fwy o gleifion yn Lloegr dros y tair blynedd nesaf. [Cyrchwyd 16 Mehefin 2025].

[40] Arolwg tracio defnyddwyr post preswyl, Gorffennaf 2023-Mehefin 2024, Tabl 47 a BVA BDRC, 2024. Arolwg Defnyddwyr Post Busnesau Bach a Chanolig – Adroddiad Blynyddol Gorffennaf 2023 – Mehefin 2024, sleid 13.

[41] Ofcom, 2024. Adroddiad monitro'r post – gwasanaethau post yn y flwyddyn ariannol 2023-24. Nid yw hyn yn cynnwys llythyrau heb gyfeiriad megis post hysbysebu a phost etholiad.

[42] [✂]

Ffigur 2.3: Cyfanswm nifer y parseli a'r niferoedd domestig a fesurir yn ôl cyflymder danfon (miliynau)[43]



Ffynhonnell: Ofcom / data gweithredwyr. Sylwch: Mae niferoedd post mynediad yn cael eu cynnwys yn y rhai domestig. Mae data ar gyfer 2019/20 a 2022/23 wedi cael ei ailddatgan oherwydd ailgyflwyno gan weithredwyr. Mae data ar gyfer 2021/22 ymlaen yn cynnwys gweithredwyr post ychwanegol ac felly nid oes modd ei gymharu'n uniongyrchol â data ar gyfer blynyddoedd blaenorol. Mae cyfanswm niferoedd y parseli yn cynnwys parseli domestig a rhyngwladol (i mewn/allan).

2.21 Mae'r tueddiadau hyn ym marchnad y DU yn gyson â marchnadoedd ar draws y byd. Yn fyd-eang, mae cyfanswm nifer y llythyrau domestig wedi gostwng o 432 biliwn yn 2000 i 196.3 biliwn yn 2024.[44] Yn yr Undeb Ewropeaidd, mae nifer y llythyrau domestig wedi gostwng ym mhob un o'r 26 aelod-wladwriaeth rhwng 2012/2022, gyda gostyngiad o tua 45%.[45] Wrth i'r defnydd o'r post newid, mae rheoleiddwyr post a llywodraethau mewn gwledydd eraill wedi diwygio'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol yn eu hawdurdodaeth neu drwy ddigolledu'r darparwr gwasanaeth cyffredinol drwy ddefnyddio arian cyhoeddus, sy'n gost i'r trethdalwr yn y pen draw.[46]

Blaenoriaethau pobl ar gyfer defnyddio'r post

2.22 Fel rydym yn egluro ymhellach yn ein Hasesiad o Anghenion Defnyddwyr Post yn Adran 3 ac Atodiad A3, er gwaethaf y gostyngiad yn nifer y llythyrau mae'r rhan fwyaf o bobl yn dal angen mynediad at y gwasanaeth post i anfon ac, yn benodol, i dderbyn llythyrau pwysig, er enghraifft mewn perthynas â'u hiechyd neu eu cyllid, neu i anfon cardiau cyfarch.

2.23 Canfu ein harolwg tracio preswyl diweddaraf hefyd fod wyth person o bob deg yn cytuno y bydd wastad pethau mae angen eu hanfon drwy'r post.[47] Mae derbyn llythyrau yn dal yn brofiad cyffredinol gydag wyth o bob deg o bobl yn dweud bod eu haelwyd yn derbyn llythyrau o leiaf unwaith yr wythnos.[48] Mae pobl yn anfon llythyrau'n llai aml nag yn y

[43] [✂]
[44] Undeb Post Cyffredinol, 2024. State of the Postal Sector, t.17.
[45] Yr Undeb Ewropeaidd, 2024. Prospective study on the future of the postal sector, t.98.
[46] Ofcom, 2024. Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol - Cais am Fewnbwn, tt.46-53. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Denmarc, Ffrainc, yr Eidal, Gwlad Pwyl a Sbaen wedi gofyn am gymeradwyaeth i gymorth gwladwriaethol i gefnogi eu darparwyr gwasanaeth cyffredinol i barhau i ddarparu gwasanaethau.
[47] Ofcom, 2024. Traciwr Post Preswyl – Adroddiad Blynyddol.
[48] BMG, 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleid 11.

gorffennol, ond mae'r mwyafrif helaeth (95%) o oedolion yn parhau i anfon llythyrau, gyda hanner (50%) yn gwneud hynny o leiaf unwaith y mis.[49]

Darparu'r gwasanaeth cyffredinol

2.24 Mae'r gwasanaeth cyffredinol yn cael ei ddarparu gan y Post Brenhinol fel y DUSP. Y model presennol ar gyfer sicrhau gwasanaeth cyffredinol yn y DU yw mynnu bod cwmni masnachol yn darparu'r gwasanaethau USO penodol, ac mae'n gwneud hynny ochr yn ochr â gwasanaethau eraill nad ydynt yn cael eu rheoleiddio gan gynnwys post swmp adwerthu a chyfanwerthu, a gwasanaethau parseli eraill sy'n defnyddio rhwydwaith sy'n gyffredin i raddau helaeth. Canlyniad y model hwn o ddarparu gwasanaeth cyffredinol yw bod perfformiad ariannol y Post Brenhinol yn gysylltiedig yn gynhenid â chynaliadwyedd y gwasanaeth cyffredinol, sy'n golygu, yn y pen draw, os nad yw'r Post Brenhinol yn gallu gweithredu fel cwmni masnachol proffidiol, yna mae'r model presennol o ddarparu gwasanaeth cyffredinol yn methu. Hyd yn oed pe na bai'n fethiant llwyr, mae gwneud colled neu elw isel yn llesteirio gallu'r Post Brenhinol i fuddsoddi yn ei fusnes, gan leihau'r safon gwasanaeth y gall ei darparu i'w gwsmeriaid (gweler Adran 4 am ragor o fanylion). Cydnabyddir yr angen i'r gwasanaeth cyffredinol fod yn broffidiol gan adran 29 y Ddeddf, sy'n mynnu bod Ofcom yn ystyried yr angen i ddarparu gwasanaeth post cyffredinol sy'n gynaliadwy yn ariannol - sy'n cynnwys yr angen i'r gwasanaeth wneud elw masnachol rhesymol - pan fyddwn yn cyflawni ein dyletswydd i arfer ein swyddogaethau mewn ffordd a fydd, yn ein barn ni, yn sicrhau gwasanaeth cyffredinol.

2.25 Fel sy'n cael ei egluro ymhellach yn Adran 4, mae perfformiad ariannol y Post Brenhinol wedi bod yn wan ers nifer o flynyddoedd, gan weithredu o dan y lefel sy'n debygol o fod yn gyson â chynaliadwyedd ariannol hirdymor yn ein barn ni. Mae ein dadansoddiad yn dangos y bydd perfformiad ariannol y Post Brenhinol yn parhau i waethygu heb ddiwygio brys. [✂] Mae'r ffactorau hyn yn awgrymu, heb weithredu, fod yna risg sylweddol i gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol ac felly darpariaeth y gwasanaeth cyffredinol ei hun. Mae'r heriau ariannol yn deillio i raddau helaeth o'r gostyngiad yn nifer y llythyrau y cyfeirir ato uchod. Mae'r rhwydwaith sy'n danfon llythyrau yn cael ei nodweddu'n bennaf gan gostau sefydlog, felly wrth i'r niferoedd hynny ostwng, mae cost fesul uned danfon llythyrau wedi codi'n sylweddol. Mewn ymateb i'r duedd hon ac i geisio adennill rhai o'r costau uned cynyddol, mae'r Post Brenhinol wedi bod yn codi ei brisiau. Mae'r pwysau hyn hefyd wedi golygu, ers 2020/21, ei fod wedi codi prisiau Ail Ddosbarth i'r uchafswm a ganiateir gan gap diogelu Ofcom, ond yn flaenorol roedd prisiau wedi bod yn is na'r cap.[50]

2.26 Fel yr esboniwyd yn ein Cais am Fewnbwn, rydym yn credu bod yr USO presennol yn gosod cost net sylweddol ar y Post Brenhinol, rhwng £325m a £675m, a'i fod yn gwneud cyfraniad sylweddol at yr heriau ariannol y mae'r cwmni'n eu hwynebu.[51] Ni chafodd y dystiolaeth a'r dadansoddiad a nodwyd gennym eu gwrthbrofi yn yr ymatebion a gawsom i'r Cais am Fewnbwn na'r Ymgynghoriad, ac felly rydym yn dal o'r farn bod manyleb bresennol yr USO yn rhoi baich costau sylweddol ar y Post Brenhinol. Felly, er mwyn cyflawni ein dyletswydd i

[49] BMG, 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleid 13.

[50] Ofcom, 2024. Datganiad: Adolygiad o gapiau diogelu Ail Ddosbarth.

[51] Ofcom, 2024. Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol - Cais am Fewnbwn, Adran 8, paragraffau 8.30 a 8.42-8.43. Gweler Atodiad 7 - Ein dull o gyfrifo costau net.

sicrhau bod gwasanaeth cyffredinol yn parhau i gael ei ddarparu, rydym o'r farn bod angen gwneud diwygiadau sy'n mynd i'r afael yn effeithiol â'r risgiau presennol i'w gynaliadwyedd.

Perfformiad ansawdd gwasanaeth

2.27 Rhwng 2012 a 2019/20, roedd perfformiad ansawdd gwasanaeth y Post Brenhinol yn foddhaol ar y cyfan gyda'r cwmni'n cyrraedd neu'n agos at gyrraedd y targedau rheoleiddio ar gyfer danfon Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth.[52] Er gwaethaf hyn, fel y nodwyd uchod, gostyngodd nifer y llythyrau.

2.28 Fodd bynnag, ers 2020/2021, mae perfformiad ansawdd gwasanaeth wedi bod yn is na'r lefel sy'n ofynnol gan ein rheoliadau a disgwyliadau defnyddwyr post.[53] Mae hyn wedi arwain at Ofcom yn gosod cosbau ariannol am berfformiad o £5.6m mewn perthynas â 2022/23 a £10.5m mewn perthynas â 2023/24.[54] Rydym wedi agor ymchwiliad i'r methiant i gyrraedd targedau rheoleiddio yn 2024/25.[55]

2.29 Mae angen i'r Post Brenhinol wella ei berfformiad. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod yn Adran 6 bod y cyd-destun ar gyfer pennu targedau rheoleiddio priodol wedi newid. Mae nifer y llythyrau'n gostwng tra bo nifer y pwyntiau danfon yn cynyddu. Gall niferoedd is arwain at niferoedd postio mwy anwadal, sy'n gallu effeithio ar lefelau adnoddau a sut gellir cyrraedd targedau ansawdd gwasanaeth. Er bod newidiadau bach i dargedau ansawdd gwasanaeth yn gallu bod yn gostus i'r Post Brenhinol, mae tystiolaeth yn dangos bod defnyddwyr yn gyfforddus â mân newidiadau i dargedau a'i bod yn well ganddynt dalu llai am wasanaethau.

Ein dull o ddiwygio'r USO

2.30 O ystyried y cyd-destun newydd rydym yn gweithredu ynddo, rydym o'r farn bod ein dyletswyddau, yn enwedig ein dyletswydd i gyflawni ein swyddogaethau mewn ffordd a fydd, yn ein barn ni, yn sicrhau bod gwasanaeth cyffredinol yn cael ei ddarparu, yn mynnu ein bod yn diwygio'r USO ar frys i sicrhau bod y gwasanaeth cyffredinol yn parhau i gael ei ddarparu yn y ffordd orau bosibl, gan ddiwallu anghenion rhesymol defnyddwyr yn well a thrwy hynny ddod â manteision i ddefnyddwyr. Credwn fod ein dull gweithredu hefyd yn gyson â'n dyletswydd i ystyried twf economaidd - er enghraifft, drwy gefnogi'r gwaith o ddarparu rhwydwaith cyfathrebu sy'n hanfodol i fusnesau ledled y DU, ac sy'n sail i'r farchnad post swmp gystadleuol - yn ogystal â Datganiad Blaenoriaethau Strategol Llywodraeth y DU ar gyfer gwasanaethau post.

2.31 Nodwn fod rhiant gwmni'r Post Brenhinol, International Distribution Services PLC (IDS), bellach wedi cael ei brynu gan EP UK Bidco Limited (sy'n eiddo i EP Group Corporate Holdings Limited) ac nad yw bellach yn gwmni rhestredig.[56] Rhoddodd EP Group ac EP UK

---

[52] Ofcom, 2024. Adroddiad Monitro Post 2023-24, Data rhyngweithiol.

[53] Nodwn fod pandemig Covid-19 wedi amharu ar wasanaethau'r Post Brenhinol yn ystod 2020/21 a 2021/22. O ystyried yr amgylchiadau, nid oeddem wedi canfod bod y Post Brenhinol wedi torri ei rwymedigaethau ar gyfer y cyfnod hwn.

[54] Fe wnaethom roi dirwy o £5.6m mewn perthynas â pherfformiad y Post Brenhinol ar gyfer 2022/23. Yn fwy diweddar, fe wnaethom roi cosb ariannol o £10.5m mewn perthynas â pherfformiad yn 2023/24.

[55] Gweler Ofcom yn ymchwilio i berfformiad danfon 2024/25 y Post Brenhinol i gael rhagor o wybodaeth.

[56] Awdurdod Ymddygiad Ariannol, IDS De-Listing and Cancellation of Trading.

Bidco Limited nifer o ymrwymiadau i Lywodraeth y DU a ddaeth i rym ar 30 Ebrill 2025, gan gynnwys sicrhau bod y Post Brenhinol yn parhau i fod yn ddarparwr cyffredinol am bum mlynedd.[57] Er bod y newid hwn mewn perchnogaeth IDS ac felly'r Post Brenhinol yn debygol o gael effaith sylweddol ar lywodraethu, rheoli a gweithrediadau'r Post Brenhinol, y Post Brenhinol yw'r darparwr cyffredinol dynodedig o hyd ac nid ydym o'r farn bod y newid mewn perchnogaeth yn effeithio ar yr angen brys i ddiwygio'r USO gan fod yr amgylchiadau sylfaenol, yr ydym wedi'u nodi uchod, yn parhau.

2.32 Rydym yn egluro yn yr adran nesaf y broses rydym wedi'i dilyn cyn y Datganiad hwn i ddod i'n penderfyniadau ar ddiwygio'r USO. Mae gweddill y Datganiad hwn yn egluro'n llawn ein penderfyniadau ar y newidiadau i'r USO a rheoleiddio post mynediad cysylltiedig.

Ein proses cyn y Datganiad hwn

Cais am Fewnbwn (CFI) Ionawr 2024

2.33 Ar 24 Ionawr 2024, fe wnaethom gyhoeddi Cais am Fewnbwn ar ddyfodol y gwasanaeth post cyffredinol yn nodi'r dystiolaeth roeddem wedi'i chasglu a'r opsiynau ar gyfer diwygio.[58] Roedd y rhain yn cynnwys amrywiaeth eang o ddewisiadau eraill gan gynnwys newidiadau i amlder danfon llythyrau, newidiadau i gyflymder danfon llythyrau, gostwng targedau ansawdd gwasanaeth, a rhoi cymhorthdal i'r USO presennol. Byddai rhai o'r opsiynau hyn yn galw am ddeddfwriaeth newydd tra bo eraill o fewn pwerau Ofcom.

2.34 Cawsom 2,348 o ymatebion gan amrywiaeth eang o randdeiliaid.[59] Ymatebodd y Post Brenhinol gyda chynnig i ddiwygio'r USO a oedd yn canolbwyntio ar newidiadau i'r patrymau danfon ar gyfer llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth.[60]

Medi 2024 – Datganiad ar y camau nesaf ar ddiwygio'r USO

2.35 Ym mis Medi 2024, fe wnaethom gyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r Cais am Fewnbwn a gawsom a nodi ein camau nesaf ar ddiwygio'r USO.[61]

2.36 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr a'r cyfranogwyr yn ein digwyddiadau cyhoeddus yn cydnabod bod y ffordd mae pobl a busnesau'n defnyddio llythyrau wedi newid. Er bod pobl yn anfon llai o lythyrau, mae angen anfon llawer o eitemau drwy lythyr o hyd. Roedd ymatebwyr yn cydnabod y bydd angen newid y rhwymedigaethau ar y Post Brenhinol wrth i bobl barhau i ddibynnu ar lythyrau, ond dylai egwyddorion allweddol cyffredinolrwydd, fforddiadwyedd a phrisiau unffurf barhau. Byddai angen i ddibynadwyedd fod yn ganolog i ddiwygio'r USO ac roedd rhai yn teimlo bod dibynadwyedd gwael, ynghyd â chynnydd mewn prisiau, yn cyfrannu at y gostyngiad yn nifer y llythyrau. Nid oedd rhai ymatebwyr yn credu bod angen diwygio ac roeddent yn credu y dylai'r Post Brenhinol ganolbwyntio ar fod yn fwy effeithlon a/neu gynnal yr USO drwy gyflwyno cynnyrch neu wasanaethau newydd.

---

[57] Gweler Contractual undertakings agreed between the EP Group and the UK Government i gael mwy o wybodaeth.
[58] Ofcom, 2024. Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol - Cais am Fewnbwn.
[59] Ofcom, 2024. Crynodeb o'r ymatebion a'r camau nesaf.
Ymateb y Post Brenhinol i'r Cais am Fewnbwn 2024
[61] Mae'r ymatebion i'r Cais am Fewnbwn ar gael yma: Ofcom, 2024. Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol – crynodeb o'r ymatebion i'n Cais am Fewnbwn a'r camau nesaf..

Codwyd pryderon hefyd am perfformiad ansawdd gwasanaeth presennol y Post Brenhinol ac a yw'r drefn orfodi bresennol yn effeithiol.[62]

2.37 Gwnaeth rhai ymatebwyr amrywiaeth o awgrymiadau yn eu hymatebion i'r Cais am Fewnbwn, a fyddai, yn eu barn nhw, yn diogelu'r gwasanaeth post cyffredinol yn well gyda llai o niwed i'r cyhoedd na chynigion eraill. Roedd hyn yn cynnwys dychwelyd yn gyflym ac yn barhaus i'r lefelau gwasanaeth gofynnol a fyddai'n galluogi mesur unrhyw newidiadau yn y galw am wasanaethau post yn gywir a galw ar y llywodraeth i roi cymhorthdal i'r USO naill ai i gynnal y fanyleb bresennol, neu i'w chefnogi tra bydd yn cael ei diwygio.[63][64]

2.38 Roedd llawer o'r ymatebwyr yn derbyn y byddai'r opsiwn i ddanfon llythyrau'n llai aml yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddefnyddwyr ar yr amod bod opsiwn diwrnod canlynol yn aros yn ei le a bod y gwasanaeth yn ddibynadwy.[65] Fodd bynnag, roedd unrhyw ostyngiad pellach i dri diwrnod neu un diwrnod yr wythnos yn llai derbyniol.

2.39 Roedd y Post Brenhinol wedi ymateb i'n Cais am Fewnbwn gyda chynnig mawr i ddiwygio'r USO a oedd yn canolbwyntio ar newid y patrymau danfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth, h.y. Llythyrau Ail Ddosbarth, a llythyrau mynediad D+5, a disodli'r gwasanaethau mynediad D+2 â D+3.[66]. Byddai llythyrau Dosbarth Cyntaf yn dal i gael eu danfon chwe diwrnod yr wythnos, a byddai'r rhwymedigaeth parseli yn aros yr un fath.

2.40 Fe wnaethom egluro yn ein Datganiad ym mis Medi 2024, ar ôl ystyried yr ymatebion i'r Cais am Fewnbwn, ein bod yn dal o'r farn bod angen clir a brys i gysoni manyleb yr USO ar gyfer llythyrau'n agosach ag anghenion rhesymol defnyddwyr ac i gefnogi cynaliadwyedd y gwasanaeth. Felly, fe wnaethom benderfynu canolbwyntio ein gwaith ar ddiwygio'r gofynion sy'n ymwneud â llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth. Roedd cynnig y Post Brenhinol i ddiwygio yn cyd-fynd i raddau helaeth â'r opsiwn roeddem wedi bwriadu ei ddefnyddio i ddanfon y rhan fwyaf o lythyrau'n llai aml, ac roeddem o'r farn dros dro bod hyn yn cyd-fynd â'n dealltwriaeth o anghenion esblygol defnyddwyr. Roeddem yn nodi y gallai'r cynnig hwn fod yn gyson â gofynion sylfaenol gwasanaeth post cyffredinol a bennwyd gan Ddeddf 2011, gan y byddai llythyrau Dosbarth Cyntaf yn dal i gael eu dosbarthu bob dydd o ddydd Llun i ddydd Sadwrn. Fe wnaethom hefyd egluro y gellid ei roi ar waith drwy addasu rheoliadau Ofcom yn unig. Rhagwelwn felly y gellid ei weithredu'n gynt nag unrhyw opsiynau a fyddai'n galw am newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol.

2.41 Oherwydd yr ystyriaethau hyn, ac yn benodol o ystyried yr angen brys am ddiwygio, rydym yn nodi ein barn y bu'n briodol i'n camau nesaf ganolbwyntio ar asesiad manwl o gynnig y Post Brenhinol, er mwyn ystyried a fyddai'n sail addas ar gyfer diwygio'r gwaith o reoleiddio

---

[62] Cawsom nifer fawr o ymatebion gan unigolion a oedd yn galw ar y llywodraeth i ymyrryd i ailwladoli'r Post Brenhinol fel rhan o ymgyrch We Own it. Roedd rhai ymatebwyr yn galw ar y llywodraeth i ymyrryd i roi cymhorthdal i'r USO i gynnal y fanyleb bresennol neu i'w chefnogi tra mae'n cael ei diwygio. Nid oedd y Llywodraeth a oedd mewn grym bryd hynny wedi nodi ei bod yn barod i gymryd camau i ystyried newidiadau i'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer rheoleiddio'r gwasanaeth post.

[63] Ymateb The Greeting Card Association i Gais am Fewnbwn 2024, t.22.

[64] Ofcom, 2024. Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol – crynodeb o'r ymatebion i'n Cais am Fewnbwn a'r camau nesaf., t.7.

[65] Ofcom, 2024. Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol - Cais am Fewnbwn.

llythyrau'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol a'r rhwymedigaeth mynediad cysylltiedig.

Ymgynghoriad Ionawr 2025

2.42 Ar 30 Ionawr 2025, fe wnaethom gyhoeddi Ymgynghoriad a oedd yn nodi nifer o gynigion, yn dilyn ein hasesiad o ymateb y Post Brenhinol i'n Cais am Fewnbwn.[67]

2.43 Cawsom 7,072 o ymatebion i'r Ymgynghoriad - 7,017 gan unigolion a 55 gan sefydliadau.[68] Rydym wedi cyhoeddi'r ymatebion nad oeddent yn rhai cyfrinachol ar ein gwefan.[69]

2.44 Rydym yn mynd i'r afael ag ymatebion rhanddeiliaid penodol i'n Hasesiad o Anghenion Defnyddwyr Post yn Adran 3 ac Atodiad A3; newidiadau i amlder danfon llythyrau Ail Ddosbarth yn Adran 5; newidiadau i dargedau ansawdd gwasanaeth yn Adran 6 ac Atodiad A4; a newidiadau i rwymedigaethau mynediad yn Adran 7 y ddogfen hon. Mae rhagor o wybodaeth am ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gael yn Atodiad A2. Pan fyddwn wedi cael sylwadau gan randdeiliaid nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'n cynigion ar gyfer yr Ymgynghoriad, rydym yn rhoi sylw i'r rheini yn Atodiad A5.

Amcanion Polisi

2.45 Mae'r Datganiad hwn yn nodi ein penderfyniadau ar gyfer diwygio'r USO a'r rhwymedigaeth mynediad ar y Post Brenhinol, gan ystyried yr ymatebion a gafwyd yn ystod yr Ymgynghoriad. Er mwyn arwain ein hasesiad, rydym wedi ceisio cyflawni'r amcanion polisi canlynol, er mwyn dangos yn glir i randdeiliaid beth rydym yn ceisio ei gyflawni a sut rydym wedi pwyso a mesur ein dyletswyddau cyfreithiol mewn perthynas â gwasanaethau post wrth lunio wneud ein penderfyniadau. Mae ein hamcanion polisi yn darparu fframwaith clir a thryloyw yr ydym wedi asesu'r dystiolaeth sydd ar gael, ac wedi gwneud ein penderfyniadau, yn ei erbyn.

2.46 Gan ystyried ein rôl, ein pwerau a'n dyletswyddau sy'n cael eu disgrifio uchod, ein hamcanion yw rhoi fframwaith rheoleiddio diwygiedig ar waith a fydd yn hyrwyddo'r canlyniadau canlynol:

a) Arwain at fanteision i ddefnyddwyr drwy wasanaeth cyffredinol sy'n diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr;
b) Cefnogi cynaliadwyedd ariannol ac effeithlonrwydd y gwasanaeth cyffredinol;
c) Cymell y Post Brenhinol i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel; a
d) Hybu arloesedd a chystadleuaeth yn y diwydiant post.

2.47 Er nad oes gan Ofcom ddyletswydd i ystyried effeithiau amgylcheddol mewn perthynas â'r USO, fel y gwelsom yn ein Cais am Fewnbwn a'r Ymgynghoriad, mae hwn yn fater o bwysigrwydd cenedlaethol ac yn un lle mae gweithgareddau logisteg yn chwarae rhan

[67] Ofcom, 2024. Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol – crynodeb o'r ymatebion i'n Cais am Fewnbwn a'r camau nesaf..
[68] Cawsom nifer fawr o ymatebion unigol union yr un fath a gyflwynwyd fel rhan o'r ymgyrch We Own It.
[69] Ewch i'n gwefan i weld yr ymatebion sydd wedi'u cyhoeddi.

fawr.[70] Rydym o'r farn bod ein penderfyniadau yn cyd-fynd â hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol yn gyffredinol, maent yn arafu'r danfon, yn enwedig ar gyfer post swmp ac yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Post Brenhinol o ran sut mae'n gweithredu yn y dyfodol er mwyn iddo allu parhau i adlewyrchu effeithiau amgylcheddol yn ei ddull gweithredu. Gellid cyflawni hyn drwy ddefnyddio mwy o ddulliau teithio arafach ar y rheilffyrdd a'r ffyrdd yn hytrach na chludo nwyddau ar awyrennau, a fyddai'n lleihau allyriadau CO2.

2.48 Mae'n well gan rai defnyddwyr weithrediadau sy'n amgylcheddol gynaliadwy, ac mae ein hymchwil yn cefnogi hyn, gan fod ychydig o dan hanner y defnyddwyr yn cytuno y byddai'n well ganddynt i wasanaethau post gael eu darparu mewn ffordd sy'n amgylcheddol gyfrifol, hyd yn oed os byddai'n golygu y byddai'n cymryd mwy o amser i ddanfon eitemau.[71]

Asesiad effaith

2.49 Mae Adran 7 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn ei gwneud yn ofynnol i ni gynnal a chyhoeddi asesiad o effaith debygol unrhyw gynigion a fyddai'n debygol o gael effaith sylweddol ar fusnesau neu'r cyhoedd, neu pan fydd newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom. Rydym yn nodi asesiad effaith dros dro ein cynigion yn ein Hymgynghoriad, ac yn y Datganiad hwn rydym yn nodi ein hasesiad effaith terfynol, ar ôl ystyried ymatebion rhanddeiliaid.

2.50 Mae asesiadau o'r effaith yn ffordd werthfawr o asesu'r dewisiadau gwahanol ar gyfer rheoleiddio a dangos pam y dewiswyd y dewis sy'n cael ei ffafrio. Maent yn rhan o'r broses o lunio polisi ar sail yr arferion gorau. Rydym yn defnyddio asesiadau effaith i'n helpu i ddeall ac asesu effaith bosibl ein penderfyniadau polisi cyn i ni wneud y penderfyniadau hynny. Maen nhw hefyd yn ein helpu i esbonio'r penderfyniadau polisi rydym wedi'u gwneud a pham ein bod yn credu mai'r penderfyniadau hynny sy'n cyflawni ein dyletswyddau a'n hamcanion perthnasol yn y ffordd sy'n tarfu leiaf. Mae ein canllawiau ar asesu effaith yn nodi ein dull gweithredu cyffredinol ar gyfer asesu a chyflwyno effaith ein penderfyniadau arfaethedig.[72]

2.51 Mae'r dadansoddiad sy'n cael ei gyflwyno yn y ddogfen hon ar gael yn y paragraffau canlynol.

2.52 Yn Adran 5, rydym yn nodi effeithiau'r cynnig i newid amlder danfon llythyrau Ail Ddosbarth ym mharagraffau 5.43 i 5.193. Yn benodol, mae'r effeithiau ar ddefnyddwyr post ym mharagraffau 5.48 i 5.135, ac mae'r effaith ar gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol ym mharagraffau 5.140 i 5.159.

2.53 Yn Adran 6, rhwng paragraffau 5.25 a 6.59, rydym yn nodi'r effeithiau'r cynnig i ddiwygio'r targed ansawdd gwasanaeth cenedlaethol Dosbarth Cyntaf D+1 a rhwng paragraffau 6.71 a 6.85, rydym yn nodi effeithiau'r cynnig i ddiwygio'r targed ansawdd gwasanaeth ardal cod post Dosbarth Cyntaf D+1. O baragraff 6.98 i 6.112, rydym yn nodi effeithiau'r cynnig i

[70] Mae canllawiau statudol y Llywodraeth ar y ddyletswydd twf economaidd hefyd yn rhestru cynaliadwyedd amgylcheddol fel un o'r prif ffactorau sy'n sbarduno twf economaidd.
[71] Ofcom, 2024. Adroddiad monitro'r post – gwasanaethau post yn y flwyddyn ariannol 2023-24, tud12.
[72] I gael rhagor o wybodaeth am ein dull gweithredu yng nghyswllt asesiadau effaith, edrychwch ar Canllawiau asesiadau effaith.

gyflwyno targed ansawdd gwasanaeth 'post hwyr' Dosbarth Cyntaf D+3. Rydym hefyd yn nodi effeithiau'r cynnig i addasu'r targed ansawdd gwasanaeth Ail Ddosbarth D+3 i adlewyrchu'r model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos o baragraff 6.122 i 6.140 ac effeithiau'r cynnig i gyflwyno targed post hwyr newydd Ail Ddosbarth D+5 rhwng paragraffau 6.151 a 6.163.

2.54 Yn Adran 7, o baragraff 7.41 i 7.44, rydym yn nodi effeithiau'r cynnig i reoleiddio gwasanaeth mynediad D+3 a rhwng paragraffau 7.92 a 7.97, rydym yn nodi effeithiau'r cynnig i ddiwygio'r rhwymedigaeth mynediad D+5 presennol.

2.55 Yn Adran 8, rydym yn nodi effaith y cynigion i ddiwygio'r USO ar sefyllfa cost a refeniw'r Post Brenhinol ac effaith y newidiadau arfaethedig ar gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol, yn nhabl 8.2 a rhwng paragraffau 8.75 a 8.78.

2.56 Mae ein hasesiad effaith rheoleiddiol o gynigion i addasu'r Gorchymyn Gwasanaeth Post Cyffredinol wedi'i nodi yn Atodiad A6.

Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

2.57 Mae gan Ofcom ddyletswyddau amrywiol i asesu'r effeithiau ar grwpiau penodol pan fyddwn yn cyflawni ein swyddogaethau. Mae'r grwpiau hyn wedi'u nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Gogledd Iwerddon 1998 a Deddf Cyfathrebiadau 2003.

2.58 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (Deddf 2010) yn gosod dyletswydd arnom i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig canlynol: oed; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu ein bod yn rhoi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl nad ydynt yn gwneud hynny.

2.59 Mae Deddf Gogledd Iwerddon 1998 (Deddf 1998) yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau sy'n ymwneud â Gogledd Iwerddon, i roi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i roi sylw i ba mor ddymunol yw hyrwyddo cysylltiadau da ar draws ystod o gategorïau a amlinellir yn Neddf 1998. Mae Cynllun Cydraddoldeb Diwygiedig Gogledd Iwerddon Ofcom yn egluro sut rydym yn cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol o dan Ddeddf 1998.[73]

2.60 Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 (Deddf 2003) yn mynnu ein bod yn gweithredu er budd dinasyddion, gan roi sylw penodol i nodweddion penodol: y rheini sydd angen gwarchodaeth arbennig, pobl ag anableddau, yr henoed, pobl ar incwm isel, pobl mewn gwahanol rannau o'r DU, pobl o wahanol gymunedau ethnig a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.

2.61 I'n helpu i gydymffurfio â'n dyletswyddau o dan Ddeddf 2010, Deddf 1998 a Deddf 2003, rydym wedi asesu effaith ein penderfyniad ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig,

[73] Ofcom, 2019. Cynllun Cydraddoldeb Diwygiedig Gogledd Iwerddon ar gyfer Ofcom.

ac yn benodol a fyddant yn gwahaniaethu yn erbyn pobl o'r fath neu'n effeithio ar gyfle cyfartal neu gysylltiadau da.

2.62 Nid ydym yn disgwyl i'n penderfyniadau gael effaith niweidiol sylweddol ar unrhyw grŵp penodol.

2.63 Fodd bynnag, rydym wedi nodi grwpiau penodol y gallai ein penderfyniadau effeithio'n benodol arnynt. Dyma'r grwpiau hynny:

- Defnyddwyr sy'n dibynnu mwy ar wasanaethau post, gan gynnwys y rheini heb fynediad i'r rhyngrwyd, y rheini sydd â symudedd cyfyngedig, sy'n byw mewn lleoliadau gwledig, a defnyddwyr hŷn.
- Grwpiau incwm isel sy'n fwy tebygol o ddibynnu ar lythyrau sy'n sensitif i amser i gael gafael ar wasanaethau cyhoeddus, fel llythyrau meddygol, profion meddygol, a budd-daliadau.

2.64 Yn gyffredinol, rydym yn disgwyl y bydd unrhyw effeithiau niweidiol yn gyfyngedig. Er y bydd llythyrau Ail Ddosbarth a llythyrau eraill nad ydynt yn flaenoriaeth yn cael eu danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos yn hytrach na phob dydd o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, bydd pobl yn dal i allu cael gafael ar y gwasanaethau post sydd eu hangen arnynt, gan gynnwys y rheini sy'n fwy dibynnol ar bost. Ar adegau, efallai y bydd hyn yn golygu bod angen i bobl ystyried newid eu harferion anfon mewn perthynas â llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth, ond bydd hyn wedi'i gyfyngu i anfon llythyrau o'r fath ddiwrnod yn gynharach i sicrhau eu bod yn cyrraedd o fewn yr un amserlen â nawr. Rydym yn disgwyl y bydd hwn yn addasiad rhesymol yn y mwyafrif helaeth o achosion. Bydd post Dosbarth Cyntaf a phost blaenoriaeth arall yn dal i gael eu danfon bob dydd o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, ac ni fydd unrhyw newidiadau i ddanfon parseli.

2.65 Rydym yn egluro yn Adrannau 4 ac 8 bod diwygio yn agwedd angenrheidiol ar gefnogi cynaliadwyedd y gwasanaeth cyffredinol a sicrhau ei fod yn parhau i gael ei ddarparu er budd pob defnyddiwr, yn enwedig y rheini sy'n fwy dibynnol ar bost. Felly, rydym o'r farn bod unrhyw effeithiau niweidiol yn sgil ein penderfyniadau yn gymesur, gan y bydd manteision ein penderfyniadau yn drech na nhw. Rydym hefyd o'r farn nad yw unrhyw effeithiau niweidiol yn sgil ein penderfyniadau yn fwy na'r hyn sy'n angenrheidiol i gyflawni ein hamcanion polisi. Ar ben hynny, rydym o'r farn bod effaith niweidiol bosibl diffyg gweithredu, a'r risg y byddai hyn yn ei hachosi i'r gwasanaeth cyffredinol, yn llawer mwy nag unrhyw effaith niweidiol yn sgil ein penderfyniadau.

2.66 Mae ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb terfynol, ynghyd â'n hymatebion i'r asesiad dros dro, ar gael yn Atodiad A2, lle rydym yn ystyried effaith ein penderfyniadau ar grwpiau penodol o ddefnyddwyr a chymunedau ledled y DU.

Asesiad o'r effaith ar y Gymraeg

2.67 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gwneud y Gymraeg yn iaith sy'n cael ei chydnabod yn swyddogol yng Nghymru. Arweiniodd y ddeddfwriaeth hon hefyd at sefydlu swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, sy'n rheoleiddio ac yn monitro ein gwaith. Mae'n rhaid i Ofcom ystyried y Gymraeg wrth lunio, adolygu neu ddiwygio polisïau sy'n berthnasol i Gymru (gan gynnwys penderfyniadau nad ydynt wedi'u targedu at Gymru'n benodol ond sydd o ddiddordeb ledled y DU).

2.68 Os yw Safonau'r Gymraeg yn berthnasol, rydym yn ystyried effaith bosibl cynnig polisi ar (i) y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rydym hefyd yn ystyried sut byddai modd llunio cynnig er mwyn iddo gael neu gynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau niweidiol neu beidio â chael unrhyw effaith niweidiol.

2.69 Ar gyfer ein Ymgynghoriad, rydym wedi ystyried yr effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth wneud ein penderfyniadau. Ein barn dros dro oedd na fyddai ein cynigion yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ac na fyddent yn cael effeithiau niweidiol.

2.70 Roedd Unite CMA yn cytuno â'n hasesiad ond yn galw am fonitro'r effaith ar y Gymraeg yn barhaus. Dywedodd y Communication Workers Union (CWU) nad oeddem wedi ystyried yr effaith lawn ar y Gymraeg a bod siaradwyr Cymraeg hŷn yn benodol yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfathrebiadau ysgrifenedig ac yn fwy dibynnol ar lythyrau yn gyffredinol.[74]

2.71 Cydnabyddwn fod siaradwyr Cymraeg dros 65 oed yn fwy tebygol o ddewis defnyddio'r Gymraeg mewn rhai amgylchiadau o'i gymharu â grwpiau iau.[75] Fodd bynnag, ni fydd ein penderfyniadau'n atal unrhyw ddefnyddiwr post rhag defnyddio'r Gymraeg, felly nid ydym yn credu y bydd ein penderfyniadau'n effeithio ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg neu'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol.

2.72 Mae ein penderfyniadau, yn enwedig yn Adran 5, yn ceisio sicrhau bod defnyddwyr ar draws y DU yn gallu parhau i ddefnyddio'r post fel math o gyfathrebu, sy'n debygol o gael effaith gadarnhaol ar siaradwyr Cymraeg sy'n dymuno cyfathrebu yn Gymraeg drwy'r dull hwn (llythyrau'n unig). O'r herwydd, i'r graddau y mae unrhyw effeithiau niweidiol yn deillio o'n penderfyniadau, rydym o'r farn bod y rhain yn gymesur o ystyried manteision cyffredinol diwygio, gan gynnwys cefnogi'r gwaith parhaus o ddarparu gwasanaeth cyffredinol i bob defnyddiwr.

Strwythur y ddogfen hon

2.73 Dyma strwythur gweddill y ddogfen hon:

- **Adran 3 - Ymatebion i asesiad Ofcom o anghenion defnyddwyr**: mae'n nodi ystyriaeth Ofcom o ymatebion rhanddeiliaid i'n hasesiad o anghenion defnyddwyr.
- **Adran 4 – Cynaliadwyedd Ariannol yr USO:** Mae'n egluro ein dull gweithredu yng nghyswllt ein dyletswydd i ystyried yr angen i'r gwasanaeth cyffredinol fod yn gynaliadwy yn ariannol, yn rhoi gwybodaeth am sefyllfa ariannol bresennol y Post Brenhinol a sut y gellid gwneud arbedion net drwy ddiwygio cwmpas yr USO.

[74] Ymateb CWU i Ymgynghoriad 2025, tudalennau 7-8.
[75] Llywodraeth Cymru, 2024. Arolwg Defnyddio'r Gymraeg Gorffennaf:2019 i Mawrth 2020. [Cyrchwyd 16 Mehefin 2025].

- Adran 5 - Newidiadau i amlder danfon llythyrau Ail Ddosbarth**:** Mae'n nodi ein penderfyniadau i gyflwyno model amgen ar gyfer danfon llythyrau Ail Ddosbarth bob yn ail ddiwrnod yn yr wythnos ac mae'n asesu'r effeithiau.
- **Adran 6 - Newidiadau i dargedau ansawdd gwasanaeth yr USO**: mae'n nodi ein penderfyniadau i addasu targedau ansawdd gwasanaeth y mae'n rhaid i'r Post Brenhinol eu cyrraedd ar gyfer gwasanaethau USO ac yn asesu'r effeithiau.
- **Adran 7 - Newidiadau i'r amod mynediad**: mae'n nodi ein penderfyniadau i ddiwygio'r rhwymedigaethau ar y Post Brenhinol i gynnig mynediad i'w rwydwaith post ac yn asesu'r effeithiau.
- **Adran 8 – Effaith ein cynigion ar gynaliadwyedd ariannol:** Mae'n nodi ein hamcangyfrifon o'r arbedion posibl y gallai'r Post Brenhinol eu gwneud o ganlyniad i'n penderfyniad i newid ein gwaith rheoleiddio ac yn eu cymharu ag amcangyfrifon y Post Brenhinol.
- **Adran 9- Y Camau nesaf.**

2.74 Mae'r Atodiadau wedi'u gosod fel a ganlyn:

- **Atodiad A1 - Fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol:** crynodeb o ddyletswyddau Ofcom, a fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol y gwasanaeth cyffredinol a rheoleiddio'r post yn ehangach.
- **Atodiad A2 – Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb:** Mae'n nodi ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.
- **Atodiad A3 - Asesiad o Anghenion Defnyddwyr Post**: mae'n nodi ein hasesiad terfynol o anghenion rhesymol defnyddwyr post ac i ba raddau y mae'r farchnad yn diwallu'r anghenion hynny.
- **Atodiad A4 - Cefnogi manylion ystadegol am newidiadau i dargedau ansawdd gwasanaeth:** mae'n rhoi rhagor o fanylion am elfennau o ddadansoddiad ystadegol sy'n ymwneud â'n penderfyniadau ynghylch targedau ansawdd gwasanaeth a sylwadau ar ddadansoddiad a gyflwynwyd gan y Post Brenhinol.
- **Atodiad A5 - Ymatebion pellach gan randdeiliaid i'n Hymgynghoriad:** mae'n nodi sylwadau Ofcom ar ymatebion eraill i'n Hymgynghoriad.
- **Atodiad A6 - Asesiad effaith rheoleiddiol o newidiadau i Orchymyn Gwasanaeth Post Cyffredinol**: asesiad effaith rheoleiddiol o'n penderfyniad i addasu'r Gorchymyn Gwasanaeth Post Cyffredinol, a chadarnhad o'r addasiadau hynny.
- **Atodiad A7 - Hysbysiad o newidiadau i Amod 1 y DUSP:** hysbysiad statudol o'n haddasiadau i Amod 1 y DUSP.
- **Atodiad A8 - Hysbysiad o newidiadau i Amod Mynediad Darparwr Gwasanaeth Cyffredinol:** hysbysiad statudol o'n haddasiadau i'r Amod Mynediad Darparwr Gwasanaeth Cyffredinol.
- **Atodiad A9 – Geirfa:** Rhestr o dermau ac acronymau wedi'u diffinio.

3. Ymatebion i Asesiad Ofcom o Anghenion Defnyddwyr Post

Pwrpas yr adran hon

- Yn yr adran hon rydym yn trafod yr ymatebion a gawsom i'n Hasesiad o Anghenion Defnyddwyr a'n hasesiad o'r ymatebion hyn. Mae ein Hasesiad llawn a therfynol o Anghenion Defnyddwyr i'w weld yn Atodiad A3. Felly, dylid darllen yr adran hon ar y cyd ag Atodiad A3.

Beth yw ein casgliad – yn gryno

- Cyflwynodd rhanddeiliaid ymchwil ychwanegol ar anghenion defnyddwyr, ac mae'r canfyddiadau'n cyd-fynd i raddau helaeth â'n hymchwil ein hunain, er bod rhai gwahaniaethau. Lle bo'n briodol, rydym wedi ystyried hyn wrth gwblhau ein Hasesiad o Anghenion Defnyddwyr. Roedd rhai rhanddeiliaid yn beirniadu'r sail dystiolaethol dros ein hasesiad o anghenion defnyddwyr, er enghraifft oherwydd eu bod yn credu bod diffyg ymchwil i ddefnyddwyr post swmp neu ddiffygion yn nyluniad a methodoleg ein hymchwil.
- Mae ein Hasesiad o Anghenion Defnyddwyr yn seiliedig ar flynyddoedd lawer o ganfyddiadau ymchwil, ac rydym yn fodlon ei fod yn ystyried anghenion pob defnyddiwr yn briodol. Rydym hefyd yn fodlon bod canfyddiadau ein hymchwil ddiweddaraf, a gynhaliwyd yn 2024, yn gadarn.
- Ar ôl ystyried y dystiolaeth sydd ar gael ac ymatebion rhanddeiliaid, rydym wedi canfod y bydd angen i ddefnyddwyr ddefnyddio gwasanaethau post bob amser i anfon a derbyn llythyrau, a bod ganddynt angen rhesymol am wasanaeth llythyrau dibynadwy sy'n fforddiadwy ac ar gael am bris unffurf.
- Er ei bod yn rhesymol i ddefnyddwyr (er yn anaml iawn) fod angen gwasanaeth blaenoriaeth diwrnod canlynol, chwe diwrnod yr wythnos, cyn belled bod hyn ar gael, nid oes ganddynt hefyd angen rhesymol i lythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth gael eu danfon ar ddydd Sadwrn.
- Nid oes angen i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr gael llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth cyn pen tri diwrnod gwaith bob amser, er bod lleiafrif o ddefnyddwyr y gallai fod angen hyn arnynt yn rhesymol.
- Mae marchnad llythyrau bresennol y DU yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr i raddau helaeth, ac ar y cyfan, yn rhagori ar anghenion rhesymol defnyddwyr yn achos amlder danfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth.
- Rydym yn disgwyl y byddai'r farchnad yn parhau i ddiwallu anghenion rhesymol defnyddwyr i raddau helaeth pe bai llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth yn cael eu danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos.
- Rydym yn cydnabod bod rhai grwpiau, oherwydd eu nodweddion, yn dibynnu mwy ar bost ond mae ein hymchwil yn dangos bod eu hanghenion, yn enwedig mewn perthynas â chyflymder danfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth, yn eithaf tebyg i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr. Rydym yn dod i'r casgliad bod y farchnad hefyd yn diwallu eu hanghenion i raddau helaeth heddiw ac y byddai'n parhau i wneud hynny

drwy newid amlder danfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth i lythyrau bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos.
- Mae ein Hasesiad o Anghenion Defnyddwyr Post terfynol ar gael yn Atodiad A3.

Cyflwyniad

3.1 Cyn gwneud unrhyw addasiad i'r Gorchymyn, rhaid i Ofcom asesu i ba raddau y mae marchnad gwasanaethau post y DU yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr y gwasanaethau hynny.

3.2 Yn ein Hymgynghoriad roeddem wedi nodi asesiad Ofcom o anghenion rhesymol defnyddwyr sy'n anfon ac yn derbyn llythyrau ac a yw marchnad llythyrau bresennol y DU yn diwallu'r anghenion hynny.[76] Gwnaethom seilio ein hasesiad ar ymchwil i anghenion defnyddwyr, data'r farchnad a thystiolaeth arall.

3.3 Fe welsom bryd hynny fod ar ddefnyddwyr angen gwasanaeth llythyrau sy'n ddibynadwy, yn fforddiadwy ac yn rheolaidd. Roedd y dystiolaeth yn awgrymu y bydd defnyddwyr wastad angen defnyddio gwasanaethau post i anfon ac i dderbyn llythyrau, ac o bryd i'w gilydd bydd arnynt angen gwasanaeth danfon cyflymach, y diwrnod canlynol. Fodd bynnag, nodwyd gennym bod y ddibyniaeth ar wasanaethau post i anfon llythyrau wedi gostwng gan ddod i'r casgliad dros dro nad oes angen i'r rhan fwyaf o lythyrau maent yn eu hanfon ac yn eu derbyn gael eu danfon chwe diwrnod yr wythnos.

3.4 Ein casgliad dros dro oedd y byddai anghenion rhesymol y rhan fwyaf o ddefnyddwyr ar y cyfan yn dal i gael eu diwallu drwy ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth yn llai aml, ar yr amod bod gwasanaeth danfon y diwrnod canlynol yn dal ar gael. Felly dywedasom fod marchnad llythyrau bresennol y DU yn mynd y tu hwnt i anghenion rhesymol defnyddwyr yn gyffredinol o ran pa mor aml caiff llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth eu danfon.

3.5 Cawsom lawer o ymatebion yn rhoi sylwadau ar ein Hasesiad o Anghenion Defnyddwyr Post ('asesiad o anghenion defnyddwyr') a'n casgliadau dros dro. Roedd rhai o'r ymatebion yn cytuno â'n canfyddiadau a'n casgliadau dros dro ac roedd rhai yn feirniadol o agweddau ar yr asesiad, gan gynnwys y dystiolaeth a oedd yn sail i'n hasesiad a'n canfyddiadau.

3.6 Yn yr adran hon rydym yn trafod yr ymatebion a gawsom a'n hasesiad o'r ymatebion hyn, gan egluro sut rydym wedi ystyried y rhain wrth gwblhau ein hasesiad o anghenion defnyddwyr. Mae ein Hasesiad llawn a therfynol o Anghenion Defnyddwyr i'w weld yn Atodiad A3. Felly, dylid darllen yr adran hon ar y cyd ag Atodiad A3.

3.7 Rydym yn crynhoi'r themâu o ymatebion rhanddeiliaid isod. Yna, rydym yn nodi rhagor o fanylion am yr ymatebion a'n dadansoddiad, wedi'u trefnu o dan y penawdau canlynol:

i) Cwmpas ein hasesiad o anghenion defnyddwyr.
ii) Y dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennym i wneud ein hasesiad o anghenion defnyddwyr.
iii) Y farchnad llythyrau a sut mae unigolion a sefydliadau yn defnyddio gwasanaethau post.

[76] Ofcom, 2025. Ymgynghoriad: Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post t.30-57.

iv) Anghenion rhesymol am lythyrau ac a yw'r farchnad bresennol yn diwallu'r anghenion hynny.
v) Ein casgliadau, yn seiliedig ar Atodiad A3.

Crynodeb lefel uchel o'r ymatebion i'n hasesiad o anghenion defnyddwyr post

3.8 Roedd llawer o'r ymatebwyr yn anghytuno ein bod wedi nodi anghenion rhesymol defnyddwyr post. Lle'r oedd ymatebwyr yn cytuno ein bod wedi nodi anghenion rhesymol defnyddwyr post, roedd rhai yn amodi eu cytundeb â phwyntiau ychwanegol. Er enghraifft, dywedodd rhai ymatebwyr ein bod wedi methu rhoi ystyriaeth lawn i anghenion mathau penodol o ddefnyddwyr, fel Busnesau Bach a Chanolig, defnyddwyr post swmp, defnyddwyr gwledig, y rheini sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol, defnyddwyr agored i niwed a'r rheini yng ngwledydd gwahanol y DU.

3.9 Er gwaethaf yr anghytundeb hwn, aeth y rhan fwyaf o'r ymatebion ymlaen i ddweud bod angen gwasanaeth fforddiadwy, dibynadwy ac aml ar ddefnyddwyr fel y nodwyd yn ein hasesiad o anghenion defnyddwyr. Roedd rhai ymatebwyr yn anghytuno â'n canfyddiad nad oedd angen gwasanaeth chwe diwrnod yr wythnos ar ddefnyddwyr ar gyfer llythyrau nad oeddent yn flaenoriaeth.

3.10 Wrth egluro eu rhesymeg, soniodd rhai ymatebwyr am anfforddiadwyedd Dosbarth Cyntaf fel opsiwn ar gyfer llythyrau brys neu lythyrau'r diwrnod canlynol, dibyniaeth gynyddol rhai grwpiau ar bost, yn enwedig ar gyfer llythyrau meddygol ac ariannol, ac ansawdd gwael y gwasanaeth ar hyn o bryd.

3.11 Beirniadodd rhai ymatebwyr y dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennym i sefydlu anghenion rhesymol defnyddwyr, a chwestiynodd nifer fach o ymatebwyr ddilysrwydd ein hasesiad o anghenion defnyddwyr o ganlyniad.

3.12 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr naill ai'n anghytuno neu nid oeddent yn rhoi barn ar ein casgliad dros dro bod marchnad llythyrau bresennol y DU yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr, ac yn rhagori arnynt yn achos amlder danfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth. Roedd y rhesymau a roddwyd gan ymatebwyr dros eu hanghytundeb yn canolbwyntio'n gyffredinol ar faterion ansawdd y gwasanaeth presennol a phris postio, yn enwedig Dosbarth Cyntaf.

3.13 Nododd rhai ymatebwyr hefyd gynnyrch a gwasanaethau ychwanegol nad oedd y farchnad (neu'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol), yn eu barn nhw, yn eu darparu er gwaethaf anghenion defnyddwyr, a gofynnwyd i'r rhain gael eu hystyried.

3.14 Mae llawer o'r ceisiadau am gynnyrch a gwasanaethau ychwanegol y tu hwnt i gwmpas ein hymgynghoriad ac yn cael sylw yn Atodiad A5 y Datganiad hwn.

Cwmpas ein hasesiad o anghenion defnyddwyr

Safbwynt ein Ymgynghoriad

3.15 Yn ein Hymgynghoriad, rydym yn nodi cwmpas ein hasesiad o anghenion defnyddwyr, gan egluro bod ein hasesiad o dan y Ddeddf yn canolbwyntio ar anghenion defnyddwyr gwasanaethau USO un eitem. O'r herwydd, roedd yr asesiad yn canolbwyntio ar anghenion unigolion a busnesau bach a chanolig. Roedd yn canolbwyntio ar anghenion rhesymol

defnyddwyr sy'n anfon ac yn derbyn llythyrau yn unig; nid oedd yn cynnwys parseli, ac nid oedd yn ystyried rôl gymdeithasol ehangach gwasanaethau post. Fodd bynnag, roedd ein hasesiad a'n hymchwil yn ystyried anghenion unigolion a busnesau bach a chanolig fel derbynwyr post swmp ac, o ganlyniad, yn ystyried yn anuniongyrchol anghenion busnesau a sefydliadau mawr fel anfonwyr, ac roeddem yn disgwyl i hyn gyd-fynd ag anghenion y derbynwyr hynny.

3.16 Fe wnaethom hefyd egluro ein bod wedi ystyried yr hyn a ddywedodd defnyddwyr yn ein hymchwil ynghylch sut maent yn defnyddio gwasanaethau post a'r hyn maent ei angen ganddynt. Wrth ystyried a yw'r anghenion a nododd defnyddwyr yn rhesymol, roeddem wedi nodi efallai y byddwn yn dod i'r casgliad, er bod gan rai grwpiau o ddefnyddwyr ffafriaeth neu angen penodol, na fyddai'n rhesymol cynnal neu gynyddu darpariaeth yr USO i ddiwallu'r angen neu'r dewis hwnnw. Fe wnaethom egluro, er mwyn hysbysu ein casgliadau, ein bod yn ystyried y costau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaeth i ddiwallu angen a nodwyd, a hefyd yn ystyried effaith darparu gwasanaeth o'r fath ar ddefnyddwyr, cymdeithas yn gyffredinol, a'r Post Brenhinol fel y darparwr gwasanaeth cyffredinol dynodedig.[77] Er enghraifft, os byddai darparu gwasanaeth i ddiwallu angen grŵp penodol yn golygu bod y Post Brenhinol yn gorfod gwneud colled, neu fod pob defnyddiwr yn gorfod talu prisiau uwch i dalu am gost darparu'r gwasanaeth hwnnw, efallai na fyddwn yn ystyried bod hynny'n rhesymol.

Crynodeb o'r ymatebion

3.17 Soniodd Pwyllgor Cynghori'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau ar Anabledd (CCP-ACOD), Consumer Scotland, sefydliadau etholiadol a rhai gweithredwyr mynediad a'u cynrychiolwyr am gwmpas yr asesiad o anghenion defnyddwyr.

3.18 Roedd y CCP-ACOD, Consumer Scotland a nifer o weithredwyr mynediad a'u cynrychiolwyr (gan gynnwys Whistl, Quadient UK Ltd, CFH Docmail Ltd, UK Mail, [✂], Strategic Mail Partnership a'r Mail Users' Association (MUA)) yn dadlau y dylai busnesau sy'n defnyddio gwasanaethau post swmp fod wedi cael eu cynnwys yng nghwmpas yr asesiad o anghenion defnyddwyr.[78]

3.19 Roedd rhai gweithredwyr mynediad (MUA, CFH Docmail Ltd) a sefydliadau etholiadol (Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, y Comisiwn Etholiadol, Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban a Phwyllgor Cofrestru Etholiadol Cymdeithas Aseswyr yr Alban) hefyd yn dadlau bod yr asesiad wedi methu'n benodol â chynnwys anfonwyr a derbynwyr post etholiadol.[79]

---

[77] Ofcom, 2025. Ymgynghoriad: Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post t.32-33.

[78] Ymateb CCP-ACOD i Ymgynghoriad 2025, t.6; ymateb Consumer Scotland i Ymgynghoriad 2025, t.30; ymateb Whistl i Ymgynghoriad 2025 t.2; ymateb Quadient UK Ltd i Ymgynghoriad 2025, t.2-4; ymateb CFH Docmail Ltd i Ymgynghoriad 2025, t.2-3; ymateb UK Mail i Ymgynghoriad 2025, t.2; [✂]; ymateb Partneriaeth Post Strategol i Ymgynghoriad 2025, t.3; ymateb Cymdeithas Defnyddwyr Post i Ymgynghoriad 2025, tudalennau 3-4.

[79] Ymateb Mail Users Association i Ymgynghoriad 2025, tt.3-4; Ymateb CFH Docmail i Ymgynghoriad 2025, tt.2-3; Ymateb Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol i Ymgynghoriad 2025, t.2; Ymateb Y Pwyllgor Cofrestru Etholiadol i Ymgynghoriad 2025, tt.1-7; Ymateb Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban a Phwyllgor Cofrestru Etholiadol Cymdeithas Aseswyr yr Alban i Ymgynghoriad 2025, tt.1-3.

3.20 Mynegodd CCP-ACOD siom nad oedd yr asesiad o anghenion defnyddwyr wedi ystyried effaith unrhyw newidiadau ar rôl gymdeithasol ehangach gweithwyr post.[80]

Ein hasesiad

3.21 Fel y nodwyd uchod ym mharagraff 3.15, roedd yr asesiad o anghenion defnyddwyr yn canolbwyntio ar anghenion defnyddwyr gwasanaethau USO un eitem.[81] Roedd felly'n edrych ar anghenion busnesau bach a chanolig, nid pob busnes.[82] Fodd bynnag, roedd ein hasesiad a'n hymchwil yn ystyried anghenion unigolion a busnesau bach a chanolig fel rhai sy'n derbyn post swmp. Rydym hefyd wedi ystyried anghenion sefydliadau a busnesau sy'n defnyddio gwasanaethau post swmp mewn cysylltiad â'n cynigion i newid yr amod mynediad darparwr gwasanaeth cyffredinol.[83] Fel rhan o'r gwaith hwn, roeddem wedi ymgysylltu â chwmnïau mynediad drwy'r Fforwm Cystadleuaeth Post (MCF) ac ar sail unigol. Buom hefyd yn ymgysylltu â'r MUA, sy'n cynrychioli defnyddwyr post mawr, a Gwasanaeth Masnachol y Goron (CCS), sy'n cynrychioli adrannau'r llywodraeth sy'n defnyddio post.

3.22 Rydym wedi ystyried anghenion y rheini sy'n anfon deunyddiau a chyfathrebiadau etholiadol drwy'r post, sy'n cael eu hanfon fel arfer gan ddefnyddio cynnyrch post swmp. Credwn, ar ôl diwygio, y bydd digon o wasanaethau ar gael sy'n diwallu anghenion y bobl hyn sy'n anfon y post hwn. Mae'r rhan fwyaf o'r rheini sy'n anfon post brys sy'n ymwneud ag etholiadau yn defnyddio gwasanaethau adwerthu'r Post Brenhinol a byddant yn parhau i gael dewis rhwng gwasanaethau adwerthu Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth y Post Brenhinol yn y dyfodol. I'r rheini sy'n defnyddio gwasanaethau sy'n cystadlu, bydd parhau i ddarparu mynediad D+2 yn rhoi'r opsiwn o wasanaeth cyflymach.

3.23 Rydym yn deall o'r ymatebion bod unigolion hefyd yn anfon post sy'n gysylltiedig ag etholiadau, er enghraifft pleidleisiau post a thystysgrifau awdurdod pleidleiswyr. Nid oedd ein hymchwil yn 2024 yn gofyn yn benodol i ddefnyddwyr am dderbyn nac anfon deunydd sy'n ymwneud ag etholiadau yn y post. Yn hytrach, ystyriwyd postio etholiadol yn y categori ehangach o lythyrau at sefydliadau sector cyhoeddus neu oddi wrthynt. Ar ôl diwygio, bydd gan anfonwyr post o'r fath ddewis o wasanaethau i'w defnyddio o hyd, gan gynnwys Dosbarth Cyntaf os yw'r amgylchiadau'n galw am ddanfon ar y diwrnod canlynol neu ar frys. Mae Adran 7 y Datganiad hwn yn ystyried anghenion sefydliadau a busnesau sy'n defnyddio gwasanaethau post swmp a'n cynigion i newid yr amod mynediad darparwr gwasanaeth cyffredinol.

3.24 Fe wnaethom egluro yn ein Hymgynghoriad nad oedd rôl gymdeithasol ehangach gwasanaeth post yn y gymuned a'r gwerth sy'n gysylltiedig â danfoniadau y Post Brenhinol a'i weithwyr, ac â phost yn gyffredinol, yn rhan o'r asesiad o anghenion defnyddwyr sy'n

[80] Ymateb CCP-ACOD i Ymgynghoriad 2025, t.9.
[81] Mae'r nodiadau esboniadol i adran 30 y Ddeddf yn datgan mai pwrpas ""profi'r farchnad" [dan adran 30(3)] yw galluogi OFCOM i benderfynu pa wasanaethau (os o gwbl), ar wahân i'r rheini a bennir yn adran 31 [h.y. y gofynion sylfaenol], y dylid eu darparu fel rhan o'r gwasanaeth cyffredinol yn y Deyrnas Unedig, er mwyn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr."
[82] Ofcom, 2025. Ymgynghoriad: Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post t.32.
[83] Ofcom, 2025. Ymgynghoriad: Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post t.114-151.

ofynnol o dan y Ddeddf.[84] Fodd bynnag, rydym wedi ystyried manteision cymdeithasol ehangach a'r gwerth y mae pobl yn ei roi ar bost wrth asesu effaith y newidiadau arfaethedig i amlder danfon llythyrau Ail Ddosbarth yn Adran 5 y Datganiad hwn.

Y dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennym i wneud ein hasesiad o anghenion defnyddwyr.

Safbwynt ein Ymgynghoriad

3.25 Yn ein Hymgynghoriad, fe wnaethom egluro ein bod, wrth asesu anghenion defnyddwyr, wedi defnyddio ein sylfaen dystiolaeth helaeth ar sut mae unigolion a busnesau bach a chanolig yn defnyddio gwasanaethau post i anfon a derbyn llythyrau.[85]

3.26 Roedd y dystiolaeth hon yn cynnwys:

i) Ymchwil defnyddwyr ansoddol a meintiol a gynhaliwyd rhwng 2020 a 2024;
ii) Ein harolwg traciwr post blynyddol gyda data ar brofiad ac agweddau defnyddwyr post preswyl a busnesau bach a chanolig rhwng 2015 a 2024;[86]
iii) Cynhaliwyd adolygiadau cynhwysfawr o anghenion defnyddwyr yn 2013 a 2020;[87]
iv) Data'r farchnad;[88] a
v) Ymatebion i'n Cais am Fewnbwn Ionawr 2024.

Crynodeb o'r ymatebion

3.27 Rhoddodd ymatebwyr o bob rhan o'r DU, gan gynnwys grwpiau defnyddwyr, undebau, adwerthwyr cardiau cyfarch, cwmnïau mynediad a'r Post Brenhinol, adborth ar y dystiolaeth roeddem yn dibynnu arni i wneud yr asesiad o anghenion defnyddwyr.

3.28 Cytunodd y Post Brenhinol â'n sylfaen dystiolaeth a nododd fod ei ymchwil defnyddwyr ei hun wedi arwain at ganfyddiadau tebyg o ran anghenion defnyddwyr.[89]

3.29 Roedd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, Cymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol (NALC), y Fforwm Cystadleuaeth Post, Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon (CCNI), [✂] y MUA ac Unite CMA yn cytuno'n gyffredinol bod ein sylfaen dystiolaeth yn gywir ac wedi

[84] Ofcom, 2025. Ymgynghoriad: Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post t.33.
[85] Ofcom, 2025. Ymgynghoriad: Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post t.33-35.
[86] Jigsaw, 2024. Traciwr Post Preswyl – Adroddiad Blynyddol Gorffennaf 2023 – Mehefin 2024 BVA BDRC, 2024. Arolwg o Ddefnyddwyr Post Busnesau Bach a Chanolig - Adroddiad Blynyddol Gorffennaf 2023 - Mehefin 2024, a Thraciwr post preswyl Gorffennaf 2023 - Mehefin 2024. Tablau data wedi'u pwysoli, traciwr post busnesau bach a chanolig Gorffennaf 2023 a Mehefin 2024 tablau data wedi'u pwysoli.
[87] Ofcom, 2013. Adolygiad o anghenion defnyddwyr post, Ofcom, 2020. Adolygiad o anghenion defnyddwyr post.
[88] Ofcom, 2024. Adroddiad monitro'r post – Gwasanaethau post yn y flwyddyn ariannol 2023-24
[89] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, t.3.

nodi anghenion rhesymol defnyddwyr, er bod rhai eithriadau ac amheuon nodedig fel y nodir isod.[90]

3.30 Roedd heriau rhanddeiliaid i'r sylfaen dystiolaeth roeddem wedi dibynnu arni ar gyfer yr asesiad o anghenion defnyddwyr, a beirniadaeth ohoni, yn amrywio, ond bron yn gyfan gwbl wedi'i chyfyngu i'r ymchwil i anghenion defnyddwyr 2024. Gellir grwpio'r materion a godwyd yn fras fel a ganlyn:

i) Diffyg ymchwil i ddefnyddwyr post swmp.
ii) Gwendidau neu hepgoriadau yn nyluniad a methodoleg yr ymchwil.
iii) Dehongliad a chyflwyniad Ofcom o ganlyniadau'r ymchwil.
iv) Methiant i roi ystyriaeth ddigonol i wahanol grwpiau defnyddwyr yn yr ymchwil.

Ymchwil i anghenion defnyddwyr post swmp

3.31 Mynegodd cwmnïau mynediad (Whistl, CFH Docmail Ltd, UK Mail, [✂] a'r Bartneriaeth Post Strategol) siom nad oedd yr asesiad yn defnyddio ymchwil i anghenion defnyddwyr post swmp. Gofynnodd Whistl a [✂] yn benodol i Ofcom gynnal ymchwil meintiol ychwanegol i anghenion defnyddwyr busnes mwy.[91]

Dyluniad a methodoleg yr ymchwil

3.32 Roedd nifer o ymatebwyr, grwpiau defnyddwyr ac adwerthwyr cardiau cyfarch yn bennaf, yn dadlau bod diffygion neu hepgoriadau yn nyluniad a methodoleg yr ymchwil i anghenion defnyddwyr 2024 ac felly nid oedd yn darparu sylfaen dystiolaeth ddigon cadarn ar gyfer yr asesiad o anghenion defnyddwyr. Roedd nifer o faterion penodol yr oedd ymatebwyr o'r farn eu bod wedi cael eu hepgor neu nad oeddent wedi cael digon o sylw yn yr ymchwil i anghenion defnyddwyr 2024, a restrir isod.

Fforddiadwyedd a chodi prisiau

3.33 Roedd [✂] a'r GCA yn dadlau bod dyluniad yr ymchwil i anghenion defnyddwyr 2024 yn ddiffygiol gan ei fod yn dweud wrth gyfranogwyr na fyddai gwasanaethau a phrisiau Dosbarth Cyntaf yn newid. Dywedodd Cyngor ar Bopeth, y GCA a Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri fod ymchwil anghenion defnyddwyr 2024 yn anwybyddu mater fforddiadwyedd gan nad oedd yr ymchwil yn cynnwys unrhyw gwestiynau uniongyrchol am fforddiadwyedd.[92]

Y model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos

3.34 Dywedodd Cyngor ar Bopeth, GCA a Consumer Scotland nad oedd yr ymchwil i anghenion defnyddwyr 2024 yn sylfaen dystiolaeth ddigonol ar gyfer y newidiadau arfaethedig

---

[90] Ymateb Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon i Ymgynghoriad 2025, tt.4-5; ymateb NALC i Ymgynghoriad 2025, t.2; ymateb Fforwm Cystadleuaeth Post i Ymgynghoriad 2025, t.2; ymateb CCNI i Ymgynghoriad 2025, t.12 [✂], t.3. Ymateb Mail Users Association i Ymgynghoriad 2025, tt.3-4; Ymateb Unite CMA i Ymgynghoriad 2025, tt.11-13.

[91] Ymateb Whistl i Ymgynghoriad 2025, t.2; Ymateb UK Mail i Ymgynghoriad 2025, t.2; Ymateb CFH Docmail Ltd i Ymgynghoriad 2025, tt.2-3; [✂]; Ymateb Strategic Mail Partnership i Ymgynghoriad 2025, t.3; Ymateb Mail Users Association i Ymgynghoriad 2025, tt.3-4.

[92] [✂]; Ymateb GCA i Ymgynghoriad 2025, t.7; Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, tt.44-45; Ymateb GCA i Ymgynghoriad 2025, t.12; Ymateb Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri i Ymgynghoriad 2025, tt.3-4.

oherwydd nad oedd yn profi'r model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos gyda defnyddwyr.[93]

Newidiadau i dargedau ansawdd gwasanaeth

3.35 Roedd GCA a [✂] hefyd yn dadlau bod dyluniad ymchwil 2024 yn ddiffygiol gan nad oedd yn rhoi gwybod i gyfranogwyr am gynlluniau i ostwng targedau ansawdd gwasanaeth. Yn yr un modd, dywedodd [✂] ac Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu (CWU) fod ymchwil 2024 wedi methu â rhoi cyfrif am y ffaith bod problemau ansawdd gwasanaeth presennol yn creu disgwyliadau isel o'r Post Brenhinol, ac roedd hyn yn golygu bod defnyddwyr yn debygol o or-werthfawrogi dibynadwyedd o'i gymharu â nodweddion eraill y gwasanaeth post.[94]

Dehongli a chyflwyno canlyniadau'r ymchwil

3.36 Dywedodd rhai grwpiau defnyddwyr a CWU fod y ffordd y cafodd yr ymchwil i anghenion defnyddwyr 2024 ei dehongli a'i chyflwyno yn yr asesiad o anghenion defnyddwyr yn gamarweiniol neu'n anghywir, yn enwedig mewn perthynas ag effaith y newidiadau arfaethedig i ddanfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth ar anghenion defnyddwyr.

3.37 Roedd y GCA, Cyngor ar Bopeth a'r CCP-ACOD yn beirniadu'r hyn roedden nhw'n ei weld fel ein gorddibyniaeth ar ganfyddiad yr ymchwil sef, pe bai newidiadau'n cael eu gwneud i amlder danfon Ail Ddosbarth, mai dim ond anghenion 4% o ddefnyddwyr fyddai ddim yn cael eu diwallu mwyach mewn perthynas ag o leiaf un math o lythyr maen nhw'n ei anfon neu'n ei dderbyn ac, o ystyried popeth, byddai'r newidiadau'n cael effaith negyddol sylweddol iawn arnyn nhw.[95]

3.38 Dadleuodd Cyngor ar Bopeth fod defnyddio'r ffigur o 4% yn diystyru'r nifer fwy o grwpiau mwy agored i niwed sy'n perthyn i'r categori hwn. Roedd y GCA a'r CCP-ACOD yn dadlau bod barn defnyddwyr a ddywedodd y byddai'r newidiadau'n cael effeithiau negyddol sylweddol neu hyd yn oed anhwylustod mawr wedi cael ei diystyru. Cynigiodd CCP-ACOD y dylai'r ffigurau hyn fod wedi cael eu cynnwys ac y dylid rhoi mwy o amlygrwydd iddynt.[96]

3.39 Dadleuodd CWU hefyd fod y ffigur o 4% yn cyfateb i nifer fawr o bobl. Dywedon nhw nad oedd yr asesiad o anghenion defnyddwyr yn cydnabod bod y ffigur hwn yn dangos y byddai newidiadau i amlder danfon yn effeithio ar nifer sylweddol o bobl.[97]

3.40 Roedd CCP-ACOD hefyd yn dadlau bod canfyddiad yr ymchwil na fyddai'r newidiadau arfaethedig i Ail Ddosbarth yn effeithio mwy ar ddefnyddwyr mewn ardaloedd gwledig a'r rheini nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd na defnyddwyr eraill yn groes i'r graen, gan fod y grwpiau hyn yn nodi eu bod yn aml yn dibynnu mwy ar bost. Roeddent yn galw am gynnal rhagor o ymchwil i anghenion y grwpiau hyn.[98]

---

[93] Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, t.43; Ymateb Consumer Scotland i Ymgynghoriad 2025, t.20-24.
[94] Ymateb GCA i Ymgynghoriad 2025, t.7; [✂]; [✂]; Ymateb CWU i Ymgynghoriad 2025, tt.7-8.
[95] Ymateb GCA i Ymgynghoriad 2025, t.9; Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, tudalennau 45-47; Ymateb CCP-ACOD i Ymgynghoriad 2025, tudalennau 4-5.
[96] Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, t.45-47; Ymateb GCA i Ymgynghoriad 2025, t.9; Ymateb CCP-ACOD i Ymgynghoriad 2025, tudalennau 4-5.
[97] Ymateb CWU i Ymgynghoriad 2025, t.7.
[98] Ymateb CCP-ACOD i Ymgynghoriad 2025, t.4.

3.41 Dadleuodd y GCA, er bod yr ymchwil yn dangos mai'r newidiadau arfaethedig fyddai'n cael yr effaith fwyaf ar ddefnyddwyr a oedd yn anfon ac yn derbyn post “hanfodol” fel llythyrau meddygol ac ariannol, oherwydd y gwerth cymdeithasol ac emosiynol a roddir ar gardiau cyfarch gan lawer o bobl, y dylai'r asesiad o anghenion defnyddwyr hefyd fod wedi adrodd ar yr effaith ar ddefnyddwyr sy'n anfon ac yn derbyn cardiau cyfarch.[99]

Rhoi ystyriaeth i wahanol grwpiau defnyddwyr yn yr ymchwil

3.42 Roedd rhai ymatebwyr, gan gynnwys grwpiau defnyddwyr, cyrff masnach, cynrychiolwyr busnesau bach a chanolig, undebau a chynrychiolwyr defnyddwyr gwledig a'r rheini yn y Gwledydd, o'r farn nad oedd yr ymchwil i anghenion defnyddwyr 2024 wedi rhoi cyfrif llawn am wahanol grwpiau defnyddwyr ac felly nad oedd eu hanghenion yn cael eu cynrychioli'n llawn yn yr asesiad o anghenion defnyddwyr.

3.43 Dywedodd grwpiau defnyddwyr, Pwyllgorau Cynghori'r Alban a Gogledd Iwerddon, [✂], Unite CMA a grwpiau sy'n cynrychioli cymunedau gwledig nad oedd anghenion unigryw defnyddwyr gwledig a'r rheini yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, yn enwedig ardaloedd mwy anghysbell a gwledig y Gwledydd hynny, wedi cael eu hystyried yn llawn yn yr ymchwil. Cytunodd CCNI fod ymchwil 2024 yn seiliedig ar sampl gynrychioladol o boblogaeth y DU ac roedd yn croesawu'r dadansoddiad o ddata ar gyfer pob Gwlad, ond nododd y byddent wedi hoffi cael sampl gynrychioliadol o ddefnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon i sicrhau bod tirwedd defnyddwyr unigryw Gogledd Iwerddon yn cael ei hystyried.[100]

3.44 Dadleuodd yr MUA, Unite CMA a'r Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB) nad oedd yr ymchwil wedi ystyried anghenion busnesau bach a chanolig, yn enwedig unig fasnachwyr a'r rheini sy'n defnyddio llythyrau i anfon eitemau bach at gwsmeriaid.[101]

Dim digon o ymchwil i gynnal asesiad digonol o anghenion defnyddwyr

3.45 Roedd Cyngor ar Bopeth, y GCA a [✂] o'r farn bod y materion sy'n ymwneud â'r ymchwil i anghenion defnyddwyr 2024 mor sylweddol fel nad oedd yr asesiad dilynol o anghenion defnyddwyr yn sail ddigonol ar gyfer gwneud newidiadau i'r USO, ac felly nad oedd Ofcom wedi cydymffurfio â'i ddyletswydd yn adran 30(3) y Ddeddf i gynnal asesiad o'r graddau y mae marchnad gwasanaethau post y DU yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr.[102]

Ymchwil ychwanegol

3.46 Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr, yn eu hymatebion, at ymchwil roeddent wedi'i chynnal ar anghenion defnyddwyr ac, mewn rhai achosion, safbwyntiau defnyddwyr ar y newidiadau arfaethedig i amlder danfon Ail Ddosbarth:

3.47 Roedd ymchwil ychwanegol a gyflwynwyd gan ymatebwyr yn cynnwys:

---

[99] Ymateb GCA i Ymgynghoriad 2025, t.9.

[100] Ymateb Consumer Scotland i Ymgynghoriad 2025, t.36; Ymateb CCNI i Ymgynghoriad 2025, t.18; Ymateb Pwyllgor Cynghori'r Alban i Ymgynghoriad 2025, tudalennau 3-4; Ymateb Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon i Ymgynghoriad 2025, t.5; [✂]; Ymateb Unite CMA i Ymgynghoriad 2025, tudalennau.11-12; Ymateb ACRE i Ymgynghoriad 2025, tudalennau 1-2. Ymateb y Countryside Alliance i Ymgynghoriad 2025, t.3.

[101] Ymateb Mail Users Association i Ymgynghoriad 2025, t.10; Ymateb Unite CMA i Ymgynghoriad 2025, tt.11-12; Ymateb FSB i Ymgynghoriad 2025, t.3.

[102] Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, t.46; Ymateb GCA i Ymgynghoriad 2025, t.4; [✂].

- **Y Post Brenhinol** - ymchwil feintiol gyda 3,000 o ddefnyddwyr preswyl a 300 o fusnesau bach a chanolig a gynhaliwyd gan Illuminas yn 2023.[103]
- **Cyngor ar Bopeth** - arolwg meintiol o 3,351 o oedolion a gynhaliwyd gan Accent ar 6 i 26 Chwefror 2025. Roedd hyn yn cynnwys arolwg ar-lein o 3,000 o oedolion, 251 o gyfweliadau wyneb yn wyneb ag oedolion sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol a 100 o gyfweliadau dros y ffôn ag oedolion sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, anghysbell.[104] Cynhaliwyd pum grŵp ffocws ansoddol o 10 defnyddiwr post yng Nghymru a Lloegr gan Savanta, ym mis Gorffennaf a mis Awst 2024.[105]
- **Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon** - 11 grŵp ffocws gyda defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon a gynhaliwyd rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2023 gan Cognisense.[106] Cynhaliwyd arolwg meintiol gyda 1,000 o ddefnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon ar-lein ym mis Ionawr 2025.[107]
- **Consumer Scotland** - arolwg meintiol o 1,004 o ddefnyddwyr yn yr Alban a gynhaliwyd gan IFF yn 2025.[108] Cynhaliwyd cyfweliadau ansoddol â 34 o ddefnyddwyr gwledig incwm isel yn yr Alban gan Thinks yn 2024.[109]
- **Cymdeithas Cardiau Cyfarch** - cynhaliwyd arolwg meintiol o 1,000 o oedolion yn y DU gan One Pulse ym mis Mawrth 2025.[110]
- **Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB)** - Mynegai Busnesau Bach Ch1 2024 - arolwg meintiol o 1,000 a mwy o aelodau'r Ffederasiwn Busnesau Bach a gynhaliwyd gan Verve.[111]
- **Countryside Alliance** - arolwg o'r aelodau a'r cefnogwyr - methodoleg a maint y sampl heb eu nodi.[112]
- **Swyddfa'r Post Cyfyngedig** - arolwg meintiol o 2,001 o oedolion yn y DU a gynhaliwyd ar-lein ym mis Ionawr 2025 gan Dynata.[113]

Ein hasesiad

Diffyg ymchwil i anghenion defnyddwyr post swmp

3.48 Fel y nodwyd ym mharagraff 3.15, roedd cwmpas ein asesiad o anghenion defnyddwyr yn canolbwyntio ar anghenion defnyddwyr gwasanaethau USO un eitem.

3.49 Ar ben hynny, fe wnaethom nodi yn ein Hymgynghoriad bod busnesau mwy yn defnyddio gwasanaethau post swmp yn gyffredinol, ac mai'r post hwn yw'r rhan fwyaf o'r holl

[103] Y Post Brenhinol, 2024. Ymchwil Defnyddwyr a Busnesau Bach a Chanolig Rhagfyr 2023.
[104] Canfyddiadau yn Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025.
[105] Cyngor ar Bopeth, 2025. The full package: what consumers need from a changing postal service.
[106] Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon, 2024. Qualitative study on the impact on consumers of changes to Royal Mail's universal service obligation.
[107] Canfyddiadau yn Ymateb CCNI i Ymgynghoriad 2025.
[108] IFF, 2025. Consumer Scotland Royal Mail Universal Service Obligation, Survey Research March 2025.
[109] Thinks, 2025. Post and low-income rural consumers.
[110] Canfyddiadau yn Ymateb GCA i Ymgynghoriad 2025.
[111] Canfyddiadau yn Ymateb FSB i Ymgynghoriad 2025.
[112] Canfyddiadau yn Ymateb y Countryside Alliance i Ymgynghoriad 2025.
[113] Swyddfa'r Post, 2025. Stampiau Nadolig.

lythyrau. Mae post swmp yn cael ei ddanfon ochr yn ochr â llythyrau un eitem gan ddefnyddio'r un rhwydwaith ac fel arfer nid yw defnyddwyr yn gwahaniaethu rhwng USO un eitem a gwasanaethau post swmp wrth feddwl am eu hanghenion o ran derbyn post. Mae ein hymchwil wedi canfod bod y post mae llawer o ddefnyddwyr yn dibynnu arno ar gyfer gohebiaeth swyddogol yn cael ei anfon fel arfer gan ddefnyddio gwasanaethau post swmp, megis apwyntiadau ysbyty, llythyrau meddygol, biliau, llythyrau budd-daliadau a dogfennau fel pasbortau. O'r herwydd, mae cyfranogwyr yn ein hymchwil yn aml yn trafod gwasanaethau nad ydynt yn rhai USO wrth feddwl am yr hyn sydd ei angen arnynt gan wasanaethau post. Felly, roedd ein hasesiad o anghenion defnyddwyr yn ystyried anghenion unigolion a busnesau bach a chanolig fel derbynwyr post swmp ac, o ganlyniad, mae'n ystyried yn anuniongyrchol anghenion busnesau a sefydliadau mawr fel anfonwyr, y disgwyliwn y byddai'n cyd-fynd ag anghenion eu cwsmeriaid.[114]

3.50 Fe wnaethom hefyd siarad ag amrywiaeth o weithredwyr mynediad a sefydliadau mawr i lywio ein cynigion ar newidiadau i'r rhwymedigaeth mynediad, ochr yn ochr â newidiadau i'r USO, ac ystyried eu hanghenion wrth lunio'r cynigion hynny.

3.51 Ar sail yr adborth a gawsom gan ddefnyddwyr mawr, ein barn yn yr ymgynghoriad oedd na fyddai'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn cael eu heffeithio'n negyddol wrth i'r rhan fwyaf o'r post mynediad D+2 presennol symud i fynediad D+3. Ar gyfer y rheini sydd angen gwasanaeth cyflymach, fe wnaethom nodi bod yna opsiwn adwerthu swmp Dosbarth Cyntaf ynghyd â Mynediad Premiwm, yn ogystal â chynnyrch mynediad D+2 a fydd yn parhau i fod yn destun rheoliadau prisio. Rydym yn nodi ein penderfyniad terfynol ar fynediad yn Adran 7.

3.52 Gan ystyried hyn, ynghyd â'r dystiolaeth ar anghenion derbynwyr post swmp a gasglwyd mewn ymchwil defnyddwyr, rydym o'r farn ein bod wedi cynnal ymchwil ddigonol i anghenion busnesau sy'n defnyddio gwasanaethau post swmp ac wedi rhoi digon o ystyriaeth i'r anghenion hynny wrth lunio ein cynigion a gwneud y penderfyniadau yn y Datganiad hwn.

Dyluniad a methodoleg yr ymchwil

3.53 Roedd ein hasesiad dros dro o anghenion defnyddwyr yn defnyddio corff mawr o ymchwil defnyddwyr a data marchnad ansoddol a meintiol cadarn a gasglwyd dros ddegawd, a oedd yn cynnwys ymchwil annibynnol a gomisiynwyd gan Ofcom ac a gynhaliwyd ym mis Hydref 2024. Mae'r ymchwil hwn yn dangos tueddiadau cyson o ran sut mae pobl a busnesau bach a chanolig yn defnyddio gwasanaethau post a nodweddion y gwasanaethau hynny y maent yn eu gwerthfawrogi. Lle mae ymatebwyr yn dadlau nad oedd ein hasesiad o anghenion defnyddwyr yn ddigonol, mae eu pwyntiau'n seiliedig ar feirniadaeth benodol a chyfyngedig o ddyluniad a dehongliad ymchwil anghenion defnyddwyr 2024.

3.54 Rydym yn mynd i'r afael â beirniadaeth benodol o ddyluniad a methodoleg yr ymchwil i anghenion defnyddwyr 2024 isod (paragraffau 3.55 - 3.66). Rydym yn hyderus bod ein sylfaen dystiolaeth yn ddigonol i gynnal asesiad priodol o anghenion rhesymol defnyddwyr, a'n bod felly wedi cydymffurfio â'n dyletswyddau o dan adran 30 y Ddeddf.

[114] Ofcom, 2025. Ymgynghoriad: Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post t.32.

Fforddiadwyedd a chodi prisiau

3.55 Fel y nodwyd uchod, mynegodd rhai ymatebwyr bryderon bod ein hymchwil i anghenion defnyddwyr 2024 wedi dweud wrth gyfranogwyr y byddai prisiau Dosbarth Cyntaf yn aros yr un fath ac, felly, nid oedd defnyddwyr yn gallu rhoi barn wybodus ynghylch a oedd Dosbarth Cyntaf yn dal yn opsiwn da pe baent yn dewis peidio â defnyddio'r gwasanaeth llythyrau Ail Ddosbarth, oherwydd y newidiadau i ddiwrnodau danfon.

3.56 Rydym yn cydnabod bod pris yn bwysig iawn i ddefnyddwyr post. Fe wnaethom ystyried ein dull prisio yn ofalus yn yr ymchwil. Fe wnaethom brofi ymatebion i'r newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth llythyrau Ail Ddosbarth yn seiliedig ar brisiau mis Hydref 2024. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng 20 Medi a 3 Tachwedd 2024 ar gyfer unigolion, a rhwng 30 Medi a 4 Tachwedd 2024 ar gyfer busnesau bach a chanolig. Cododd y Post Brenhinol bris stamp Dosbarth Cyntaf o £1.35 i £1.65 yn ystod y gwaith maes. Roedd ein cwestiynau ymchwil hefyd yn ei gwneud yn glir i gyfranogwyr y byddai stamp Dosbarth Cyntaf yn costio £1.65 o fis Hydref 2024 ymlaen. Rydym yn hyderus bod cyfranogwyr yn ymateb gan wybod bod prisiau stampiau Dosbarth Cyntaf yn gallu ac yn cynyddu.

3.57 Fel yr awgrymwyd gan rai ymatebwyr, ni wnaethom roi gwybod i gyfranogwyr yn yr ymchwil na fyddai prisiau'n cynyddu yn y dyfodol, dim ond rhoi gwybod i gyfranogwyr am brisiau Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth presennol. Nid oeddem o'r farn y byddai profi senarios damcaniaethol prisiau Dosbarth Cyntaf uwch yn y dyfodol yn arwain at ymatebion ystyrlon, yn enwedig o ystyried nad oeddem yn gwybod a fyddai'r pris hwnnw'n cynyddu, a faint fuasai'r cynnydd.

3.58 Mae'n ymddangos bod rhanddeiliaid wedi camddeall y dadansoddiad yn ein Hymgynghoriad, gan dybio y byddai ein cynigion ar gyfer danfon Ail Ddosbarth yn arwain yn uniongyrchol at gynnydd ym mhris Dosbarth Cyntaf. Gan ystyried y rhyngweithio rhwng prisiau Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth, fel sy'n cael ei egluro yn Adran 5, rydym o'r farn y dylai ein cynigion arwain at gynnydd is mewn prisiau i ddefnyddwyr yn y tymor hir, ac nid ydym o'r farn y byddai prisiau Dosbarth Cyntaf yn uwch o dan ein diwygiadau nag o dan sefyllfa wrthffeithiol resymol ble byddai anghenion defnyddwyr yn cael eu diwallu i'r un graddau fwy neu lai. Mae ein gwaith modelu a'n tybiaethau ynghylch sut gallai ein cynigion effeithio ar brisiau yn y dyfodol yn cael eu trafod ymhellach yn Adran 8.

3.59 Rydym yn trafod pris a fforddiadwyedd, yn enwedig fforddiadwyedd Dosbarth Cyntaf, ym mharagraffau 3.183-3.201.

3.60 Mae ein cynllun gwaith yn nodi ein cynllun i ymgynghori ar ein dull gweithredu o ran fforddiadwyedd a phrisiau gwasanaethau USO y gwasanaeth post yn Ch4 2025/26, cyn i'r cap diogelu presennol ar brisiau llythyrau Ail Ddosbarth ddod i ben ym mis Mawrth 2027.[115] Rydym yn manylu mwy ar hyn yn Adran 9.

Y model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos

3.61 Fel y nodwyd uchod, mynegodd rhanddeiliaid bryderon nad oedd ein hymchwil yn 2024 wedi profi safbwyntiau defnyddwyr yn llawn ar y model gweithredol danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth, a oedd yn rhan o gynnig y Post Brenhinol i ddiwygio. Yn ystod cam cynllunio'r ymchwil, fe wnaethom ystyried pa

[115] Ofcom, 2025. Cynllun Gwaith Ofcom 2025–26, p.41.

fanylion gweithredol yr oedd angen i ymatebwyr eu gwybod i ddeall sut byddai'r Post Brenhinol yn darparu gwasanaeth diwygiedig o'i gymharu â'r hyn yr oedd angen iddynt ei wybod am effaith ymarferol y newid ar brofiad y defnyddiwr, boed hynny fel anfonwr neu dderbynnydd.

3.62 Bwriad yr ymchwil oedd deall yr effeithiau posibl ar anghenion defnyddwyr. Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, fe wnaethom benderfynu mai dim ond gwybodaeth am effaith y newidiadau ar ddefnyddwyr o ran danfon llythyrau busnes safonol ac Ail Ddosbarth oedd angen ei darparu. Prif oblygiadau ymarferol y newid i ddefnyddwyr fyddai y gallai rhai llythyrau Ail Ddosbarth gael eu danfon ddiwrnod gwaith yn hwyrach nag y maent ar hyn o bryd ac na fyddent yn cael eu danfon ar ddydd Sadwrn mwyach.

3.63 O'r herwydd, rydym yn fodlon bod canfyddiadau'r ymchwil ar effaith newidiadau i amlder danfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth ar anghenion defnyddwyr yn gadarn.

3.64 Roedd ymchwil a gyflwynwyd gan Consumer Scotland, a gynhaliwyd yn yr Alban, yn egluro'r model gweithredol danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos i ddefnyddwyr ac mae ei ganfyddiadau ar y newidiadau arfaethedig yn debyg iawn i'n hymchwil ein hunain. Er enghraifft, canfu cwestiwn tri yn arolwg Consumer Scotland fod 18% o'r ymatebwyr yn dweud y byddai'r newidiadau'n achosi anawsterau sylweddol iddynt ac nad ydynt bellach yn diwallu eu hanghenion yn ddibynadwy ar gyfer post gweinyddol hanfodol (dywedodd 6% ac 8% o ddefnyddwyr yr un peth ar gyfer post personol maent yn ei anfon a'i dderbyn yn y drefn honno).[116] Er bod geiriad y cwestiwn yn wahanol, mae hyn yn debyg i'r 20% o ymatebwyr yn yr Alban yn arolwg preswyl Ofcom a nododd na fyddai eu hanghenion yn cael eu diwallu ar gyfer o leiaf un math o lythyr (a oedd yn cynnwys 3% a ddywedodd na fyddai eu hanghenion yn cael eu diwallu ac y byddai effaith 'sylweddol iawn', 6% a ddywedodd na fyddai eu hanghenion yn cael eu diwallu ac y byddai effaith 'sylweddol', ac 11% a ddywedodd na fyddai eu hanghenion yn cael eu diwallu, ond, gan ystyried popeth, na fyddai'r newidiadau'n gwneud unrhyw wahaniaeth neu'n cael effaith negyddol fach yn unig).[117]

Newidiadau i dargedau ansawdd gwasanaeth

3.65 Roeddem yn egluro yn ein Hymgynghoriad, er ein bod yn gallu deall dewisiadau ac arferion defnyddwyr post ar lefel uchel, mae profi dewisiadau penodol defnyddwyr ar lefelau targed ansawdd gwasanaeth yn fwy heriol, ac mae ymwybyddiaeth o'r targedau perthnasol, yn ogystal â manylion am berfformiad y Post Brenhinol, yn isel yn gyffredinol. Mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad diweddar y Post Brenhinol a'i dargedau presennol yn debygol o ychwanegu at anhawster asesu dewisiadau defnyddwyr o ran lefelau targed penodol. Ar ben hynny, rydym o'r farn y gallai fod yn anodd i ddefnyddwyr gysyniadu effaith bersonol ymarferol newidiadau bach iawn mewn targedau ansawdd gwasanaeth (98.5% i 95% ar gyfer Ail Ddosbarth ac o 93% i 90% ar gyfer Dosbarth Cyntaf). Rydym yn cydnabod y byddai ein cynigion i gyflwyno targedau post hwyr newydd i gefnogi'r targedau presennol wedi ychwanegu rhagor o wybodaeth y byddai'n rhaid i ddefnyddwyr fod wedi'i hystyried yn eu dewisiadau.

---

[116] IFF, 2025. Consumer Scotland Royal Mail Universal Service Obligation, Survey Research March, tabl 3. 2025.
[117] BMG, 2024. Post Users Needs Research Report 2024. Sleid 58. Gan mai dim ond gyda defnyddwyr yn yr Alban y cynhaliwyd ymchwil Consumer Scotland, mae'r ffigurau hyn o'n hymchwil Anghenion Defnyddwyr 2024 yn ymwneud â defnyddwyr yn yr Alban yn unig ac maent ychydig yn wahanol i ffigurau'r DU gyfan.

3.66 Fe wnaethom hefyd benderfyniad i beidio â phrofi newidiadau arfaethedig i dargedau ansawdd gwasanaeth gyda defnyddwyr yn ymchwil anghenion defnyddwyr 2024, gan fod gwneud newidiadau i amlder danfon yn weithdrefnol annibynnol ar addasu targedau ansawdd gwasanaeth. Mewn geiriau eraill, gallem roi'r naill ar waith heb orfod rhoi'r llall ar waith. Er ein bod wedi ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol wrth gynnig newidiadau i dargedau ansawdd gwasanaeth, gan gynnwys ymchwil anghenion defnyddwyr 2024, roedd nod ein hasesiad o anghenion defnyddwyr yn canolbwyntio ar y newidiadau i amlder danfon, yn unol â'n rhwymedigaethau. O ran ansawdd gwasanaeth gwael diweddar yn dylanwadu ar ganlyniad yr ymchwil, yn hanesyddol mae dibynadwyedd wedi bod yn flaenoriaeth i ddefnyddwyr ym mhob ymchwil debyg rydym wedi'i chynnal yn y gorffennol, gan gynnwys ymchwil a gynhaliwyd pan oedd ansawdd perfformiad y gwasanaeth yn well.[118] Mae ansawdd gwasanaeth is ar hyn o bryd yn debygol o fod wedi arwain at fwy o wrthwynebiad i'r newid arfaethedig yn yr ymatebion i'r arolwg nag fel arall. Gan ystyried yr uchod i gyd, rydym yn hyderus bod ymchwil 2024 wedi asesu'n ddigonol yr angen rhesymol ymysg defnyddwyr am wasanaeth dibynadwy.

Dehongli a chyflwyno canlyniadau'r ymchwil

3.67 Rydym yn nodi'r feirniadaeth o'n defnydd o, a'n dibyniaeth ar y canfyddiad na fyddai anghenion 4% o ddefnyddwyr ledled y DU yn cael eu diwallu mwyach mewn perthynas ag o leiaf un math o lythyr maent yn ei anfon neu'n ei dderbyn ac, o ystyried popeth, byddai'r newidiadau'n cael effaith negyddol sylweddol iawn arnynt.[119]

3.68 Yn ogystal â'r metrig hwn, fe wnaethom ystyried yr ystod ehangach o effeithiau negyddol posibl a adroddwyd gan ddefnyddwyr ac asesu'r dystiolaeth yn gyffredinol.

3.69 Roeddem yn cydnabod yn ein hymgynghoriad bod rhai defnyddwyr yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddweud y byddai'r newidiadau arfaethedig i amlder danfon Ail Ddosbarth yn cael effaith negyddol neu ddim yn diwallu eu hanghenion. Roedd y defnyddwyr hyn yn gyffredinol yn poeni fwyaf am effaith danfon ar lythyrau am apwyntiadau a phrofion meddygol, budd-daliadau a materion ariannol yn llai aml.[120] Mae bron y cyfan o'r math hwn o bost yn cael ei anfon gan sefydliadau mawr sy'n defnyddio gwasanaethau post swmp, yn hytrach na gwasanaethau USO un eitem. I'r sefydliadau mawr sy'n anfon y mathau hyn o lythyrau, mae amrywiaeth o gynnyrch post swmp ar gael, gan gynnwys cynnyrch blaenoriaeth y gallant eu defnyddio os oes angen i'r llythyrau gyrraedd yn gynt neu ar ddiwrnod penodol. Roeddem hefyd wedi ystyried canfyddiadau ein hymchwil ansoddol nad yw'r llythyrau y mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn eu hanfon a'u derbyn, hyd yn oed defnyddwyr mewn grwpiau agored i niwed, yn rhai brys yn aml, a bod defnyddwyr yn dibynnu llai ar lythyrau, yn bennaf oherwydd y cynnydd yn y nifer sy'n defnyddio dewisiadau digidol amgen.[121]

---

[118] Gweler Ffigur 15 yn ein Hadolygiad o Anghenion Defnyddwyr 2020, sy'n dangos bod 90% o ddefnyddwyr preswyl yn cytuno ei bod yn bwysig bod 90% o'r post sy'n cael ei anfon yn cael ei ddanfon yn brydlon (Ofcom, 2020. Adolygiad o anghenion defnyddwyr post, t.36).

[119] Ymateb GCA i Ymgynghoriad 2025, t.9; Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, tudalennau 45-47; Ymateb CCP-ACOD i Ymgynghoriad 2025, tudalennau 4-5.

[120] Ofcom, 2025. Ymgynghoriad: Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post t.49.

[121] Jigsaw, 2023. Deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau post – adroddiad ar ganfyddiadau ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar grwpiau a allai fod yn agored i niwed, sleidiau 4, 13 a 32.

3.70 Felly, rydym o'r farn ei bod yn briodol canolbwyntio ar y grŵp a nododd yr effeithiau posibl mwyaf difrifol yn hytrach na'r lefelau amrywiol o effaith y gallai defnyddwyr addasu iddynt yn gymharol hawdd.

3.71 Er mwyn mynd i'r afael â'r feirniadaeth bod defnyddio'r ffigur o 4% yn cuddio nifer y defnyddwyr unigol sy'n dweud y byddai'r newidiadau arfaethedig i amlder danfon yn golygu na fyddai'r gwasanaeth yn diwallu eu hanghenion mwyach, rydym yn nodi ei bod yn arfer safonol adrodd canlyniadau'r arolwg mewn termau canran. Mae'r data'n disgrifio cyfrannau o'n sampl a arolygwyd, felly dyma'r ffordd fwyaf tryloyw o gyflwyno'r dystiolaeth. Dyma'r ffordd safonol y mae Ofcom yn adrodd ar ganfyddiadau ymchwil arolwg, a'r ffordd safonol y mae canlyniadau arolwg yn cael eu hadrodd yn gyffredinol.

3.72 Gan fod defnyddwyr gwledig a'r rheini nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd yn aml yn dibynnu mwy ar bost, gallwn ddeall pam ei bod yn ymddangos yn groes i'r graen canfod nad yw'r grwpiau hyn yn fwy tebygol na grwpiau eraill o ddweud y byddai'r newidiadau arfaethedig i ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth yn effeithio arnynt. Er ein bod yn ymwybodol o'r ddibyniaeth gynyddol bosibl ar lythyrau ymysg y rheini heb ryngrwyd a'r rheini mewn ardaloedd gwledig, nid yw mwy o ddibyniaeth ar bost o reidrwydd hefyd yn golygu mwy o ddibyniaeth neu angen mwy dwys am gyflymder neu amlder danfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth.

3.73 Canfu ein hymchwil yn 20204 fod defnyddwyr preswyl mewn ardaloedd gwledig ar draws y DU yr un mor debygol neu'n llai tebygol na'r cyfartaledd o ddweud na fyddai eu hanghenion yn cael eu diwallu mwyach drwy leihau danfoniadau llythyrau.[122] Mae'r ymchwil ansoddol blaenorol rydym wedi'i chynnal yn gyson â hyn, gan ganfod bod pobl mewn ardaloedd gwledig a heb ryngrwyd/rhyngrwyd cyfyngedig yn dweud eu bod yn dibynnu mwy ar lythyrau, ond yn yr un modd â phob grŵp defnyddwyr, dim ond weithiau y bydd angen iddynt anfon a derbyn llythyrau ar frys.[123]

3.74 Rydym yn fodlon bod ein hymchwil yn ddigon cadarn i gefnogi ein canfyddiadau ar gyfer defnyddwyr gwledig a'r rheini heb fynediad i'r rhyngrwyd ac nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth sy'n mynd yn groes i'r canfyddiadau hyn.

3.75 Cafodd pobl sy'n defnyddio gwasanaethau post i anfon a derbyn cardiau cyfarch eu hystyried yn yr asesiad o anghenion defnyddwyr. Roedd ein hymchwil yn 2024 yn gofyn i gyfranogwyr am y mathau o lythyrau roedden nhw wedi'u hanfon a'u derbyn, a oedd yn cynnwys pobl sy'n anfon ac yn derbyn cardiau cyfarch drwy'r post. Felly, roeddem yn gallu deall a rhoi cyfrif am eu profiadau a'u hanghenion yn ein hasesiad. Canfu ein hymchwil fod 4% a 3% (yn y drefn honno) o ddefnyddwyr sy'n anfon ac yn derbyn cerdyn cyfarch yn dweud y byddai'r newidiadau arfaethedig i amlder danfon Ail Ddosbarth yn cael effaith negyddol sylweddol iawn ac yn golygu na fyddai'r gwasanaeth yn diwallu eu hanghenion ar gyfer y math hwn o bost mwyach. Nid yw hyn yn anghyson â'n canfyddiadau cyffredinol ac, mewn gwirionedd, mae'n unol â llawer o fathau eraill o lythyrau y mae defnyddwyr post yn eu hanfon a'u derbyn, neu'n is na hynny.[124]

---

[122] BMG, 2025. Adroddiad Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleid 51.
[123] Jigsaw, 2023. Deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau post – adroddiad ar ganfyddiadau ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar grwpiau a allai fod yn agored i niwed, sleidiau 4 a 32.
[124] BMG, 2025. Adroddiad Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleidiau 33 a 43.

3.76 Rydym yn deall y gall rhai defnyddwyr roi gwerth emosiynol cryf ar gardiau cyfarch, yn fwy felly efallai na “phost hanfodol”. Rydym o'r farn bod hyn yn rhan o rôl gymdeithasol ehangach post yn y gymuned, nad yw, fel yr esboniwyd ym mharagraff 3.15, yn rhan o'r asesiad o anghenion defnyddwyr sy'n ofynnol o dan y Ddeddf. Fodd bynnag, rydym yn ystyried effaith y newidiadau arfaethedig ar werth cymdeithasol post yn Adran 5 y Datganiad hwn.

Rhoi ystyriaeth i wahanol grwpiau defnyddwyr yn yr ymchwil

3.77 Rydym o'r farn bod maint y sampl ar gyfer pedair gwlad y DU yn ein hymchwil anghenion defnyddwyr yn 2024 yn ddigon i ddod i gasgliadau sy'n ystadegol gadarn. Yn yr un modd, rydym o'r farn bod gan ein hymchwil i anghenion defnyddwyr yn 2024 samplau digon mawr i allu dadansoddi'r canlyniadau a dod i gasgliadau ystadegol gadarn am ddefnyddwyr mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd gwledig anghysbell.[125]

3.78 Mae'n ymddangos bod CCNI wedi camddeall maint sampl yr ymchwil, gan gredu bod y sampl yng Ngogledd Iwerddon yn llai nag yr oedd. Roedd ein hymchwil arolwg preswyl yn cynnwys 343 o oedolion yng Ngogledd Iwerddon. Fe wnaethom ddylunio ein sampl i orgynrychioli defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon i sicrhau y byddem yn gallu dod i gasgliadau am y boblogaeth yng Ngogledd Iwerddon y gallem fod yn hyderus ynddi. Cofnododd ein harolwg wahaniaethau ystadegol arwyddocaol mewn safbwyntiau ymysg y boblogaeth yng Ngogledd Iwerddon, gyda defnyddwyr yn fwy tebygol na chyfartaledd y DU o ddweud na fyddai'r newidiadau arfaethedig yn cael unrhyw effaith.[126]

3.79 Yn yr un modd, roedd ein harolwg o fusnesau bach a chanolig hefyd yn cynnwys gormod o fusnesau yng Ngogledd Iwerddon, gyda 110 o fusnesau wedi'u cynnwys. Roedd ymatebwyr i'r arolwg busnesau bach a chanolig yng Ngogledd Iwerddon hefyd yn llawer mwy tebygol na chyfartaledd y DU o ddweud na fyddai'r newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth yn cael unrhyw effaith.

3.80 Roedd ymchwil a gyflwynwyd gan Consumer Scotland yn profi'r newidiadau arfaethedig i ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth gyda defnyddwyr yn yr Alban. Roedd y canfyddiadau'n debyg iawn i'n rhai ni, gan awgrymu nad yw anghenion a safbwyntiau defnyddwyr yr Alban mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig yn wahanol iawn i rai Gwledydd eraill ledled y DU. Rydym yn trafod y canlyniadau hyn ym mharagraff 3.64.

3.81 Roedd ein hymchwil i anghenion defnyddwyr yn 2024 yn cynnwys busnesau bach a chanolig ac yn gofyn yn benodol i ddefnyddwyr busnesau bach a chanolig ynghylch defnyddio post llythyrau mawr i anfon eitemau bach. Cafodd llythyrau mawr eu cynnwys yn y diffiniad o 'lythyrau' a roddwyd ar ddechrau'r arolygon preswyl a busnesau bach a chanolig.[127]

3.82 Mae paragraffau 3.110-3.16 yn cynnwys ystyriaeth bellach i grwpiau defnyddwyr penodol: “Grwpiau sy'n dibynnu mwy ar bost” a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (Atodiad A2).

Ymchwil ychwanegol

3.83 Rydym yn croesawu'r wybodaeth ychwanegol y mae ymchwil a gyflwynwyd gan ymatebwyr wedi'i rhoi i ni. Nid yw'r ymchwil yn gwrth-ddweud yn sylweddol ganfyddiadau ein

[125] BMG, 2024. Adroddiad Anghenion Defnyddwyr Post, 2024. Sleidiau 56-59, 61-62, 105-108, 110.
[126] Defnyddiwyd pwysoliad gyda data'r arolwg i sicrhau ei fod yn cynrychioli poblogaeth y DU a bod safbwyntiau defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon yn cael ystyriaeth gymesur.
[127] BMG, 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleidiau 68, 92, a 98.

hymchwil ein hunain bod angen gwasanaeth llythyrau ar ddefnyddwyr sy'n ddibynadwy, yn fforddiadwy ac yn rheolaidd, ac y bydd angen iddynt bob amser ddefnyddio gwasanaethau post i anfon a derbyn llythyrau a bod angen gwasanaeth danfon cyflymach y diwrnod canlynol arnynt o bryd i'w gilydd.

3.84 Rydym yn cyfeirio at ac yn ymateb i ganfyddiadau ymchwil penodol ar anghenion defnyddwyr a ddyfynnwyd gan ymatebwyr yn adrannau perthnasol y bennod hon. Mae ein hasesiad terfynol o anghenion defnyddwyr yn Atodiad A3 yn ymgorffori'r ymchwil hwn lle bo hynny'n briodol ac yn berthnasol.

Y farchnad llythyrau yn y DU a sut mae unigolion a sefydliadau yn defnyddio gwasanaethau post

Safbwynt ein Ymgynghoriad

3.85 Gwnaethom ein hasesiad o anghenion rhesymol defnyddwyr gwasanaethau post mewn dau gam: yn gyntaf roeddem wedi nodi ein dealltwriaeth o farchnad llythyrau bresennol y DU ac roeddem wedi ymchwilio i sut mae'r defnydd o wasanaethau post a'r ddibyniaeth arnynt wedi newid (gan gynnwys edrych ar grwpiau sy'n dibynnu mwy ar bost), y nifer cynyddol sy'n defnyddio gwasanaethau cyfathrebu digidol a'r gostyngiad dilynol yn nifer y llythyrau; roedd hyn wedyn yn gosod y cyd-destun ar gyfer yr ail gam lle roeddem wedi dadansoddi ein corff helaeth o ymchwil ac wedi dod i gasgliadau ynghylch yr hyn mae unigolion a busnesau bach a chanolig yn dweud sydd ei angen arnynt gan wasanaethau post. Gan ddefnyddio'r casgliadau hyn, rydym wedi sefydlu beth, yn ein barn ni, yw anghenion rhesymol defnyddwyr ac a oedd marchnad llythyrau bresennol y DU yn diwallu'r anghenion hyn.

Marchnad llythyrau'r DU

Safbwynt ein Ymgynghoriad

3.86 Yn ein Hymgynghoriad, fe wnaethom egluro marchnad llythyrau bresennol y DU, gan nodi ei bod yn cynnwys tair prif ran:

i) Gwasanaethau llythyrau un eitem o un pen i'r llall
ii) Gwasanaethau adwerthu busnes o un pen i'r llall (dim-USO):
iii) Gwasanaethau post mynediad busnes (dim-USO)[128]

Crynodeb o'r ymatebion

3.87 Ni chawsom unrhyw sylwadau ar ein dealltwriaeth o farchnad llythyrau bresennol y DU.

3.88 Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn dadlau y dylai marchnad llythyrau'r DU gynnwys nifer o gynhyrchion a gwasanaethau ychwanegol, a ddarperir yn gyffredinol fel cynhyrchion a gwasanaethau USO, i sicrhau ei bod yn diwallu anghenion defnyddwyr yn llawn.

3.89 Roedd grwpiau defnyddwyr, gweithredwyr mynediad, cyhoeddwyr cylchgronau ac adwerthwyr cardiau cyfarch yn dadlau bod angen cynnyrch fforddiadwy ychwanegol er

[128] Ofcom, 2025. Ymgynghoriad: Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post t.35.

mwyn diwallu anghenion defnyddwyr am wasanaeth post fforddiadwy. Roedd Welsh Football Magazine, Early Bird Designs, House of Cards a Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn dadlau bod angen cynnyrch post fforddiadwy, yn enwedig cynnyrch danfon fforddiadwy y diwrnod canlynol oherwydd, yn eu barn nhw, roedd prisiau Dosbarth Cyntaf yn fwyfwy anfforddiadwy i ddefnyddwyr.[129]

3.90 Roedd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys Cyngor ar Bopeth, Action for Communities in Rural England (ACRE), y GCA, Swyddfa'r Post Cyfyngedig a Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri, yn galw'n benodol am gyflwyno cap prisiau ar gynnyrch Dosbarth Cyntaf. Roedd Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn dadlau bod diffyg cap diogelu ar gyfer gwasanaethau Dosbarth Cyntaf yn arwain at gynnydd mewn prisiau i'r graddau nad yw'r farchnad bellach yn diwallu anghenion cwsmeriaid sydd angen gwasanaeth diwrnod canlynol am bris fforddiadwy.[130]

3.91 Cafwyd nifer o geisiadau gan ymatebwyr am gynnyrch a gwasanaethau ychwanegol, a hyd yn oed newidiadau i berchnogaeth a strwythur y farchnad gwasanaethau post, a oedd, yn eu barn nhw, yn diwallu anghenion defnyddwyr yn well. Mae'r ceisiadau hyn y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn ac maent yn cael sylw yn Atodiad A5.

Ein hasesiad

3.92 Rydym yn cydnabod y ddadl gan rai ymatebwyr bod angen cynnyrch mwy fforddiadwy neu gynnyrch â phrisiau wedi'u capio ar farchnad llythyrau'r DU. Rydym yn trafod fforddiadwyedd y prisiau cyfredol ymhellach ym mharagraffau 3.183 i 3.201. Fel y nodwyd ym mharagraff 3.60, mae ein cynllun gwaith yn nodi ein bwriad i ymgynghori yn Ch4 2025/26 ar ein dull o ymdrin â fforddiadwyedd a phrisiau gwasanaethau USO y gwasanaeth post, cyn i'r cap diogelu presennol ar brisiau llythyrau Ail Ddosbarth ddod i ben ym mis Mawrth 2027.[131]

3.93 Mae cynhyrchion a gwasanaethau eraill y dadleuodd ymatebwyr y dylid eu hychwanegu at farchnad llythyrau'r DU y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn ac unrhyw waith arfaethedig yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r Post Brenhinol yn gallu cynnig gwasanaethau y tu allan i gwmpas yr USO, ac mae'n gwneud hynny. Rydym wedi rhoi sylw manylach i'r ceisiadau hyn yn Atodiad A5.

Sut mae unigolion a sefydliadau'n defnyddio gwasanaethau post

Safbwynt ein Ymgynghoriad

3.94 Yn ein Hymgynghoriad, fe wnaethom egluro bod nifer y llythyrau wedi bod yn gostwng yn gyflym; mae nifer y llythyrau i gyfeiriadau yn y DU wedi gostwng 54% ers 2011-12, i 6.6 biliwn o eitemau yn 2023/24, sy'n ostyngiad o 9.0% o un flwyddyn i'r llall. Fe wnaethom

[129] Ymateb Welsh Football Magazine i Ymgynghoriad 2025, tt. 2-3. Ymateb Early Bird Designs i Ymgynghoriad 2025, tt 2-3; Ymateb House of Cards i Ymgynghoriad 2025, tt 2-3; Ymateb Swyddfa'r Post Cyfyngedig i Ymgynghoriad 2025, t.10.

[130] Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, t.58; Ymateb ACRE i Ymgynghoriad 2025, t.3. []; Ymateb GCA i Ymgynghoriad 2025, t.15; Ymateb Swyddfa'r Post Cyfyngedig i Ymgynghoriad 2025, t.10; Ymateb Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri i Ymgynghoriad 2025, tt.6-7.

[131] Ofcom, 2025. Cynllun Gwaith Ofcom 2025–26, p.41.

nodi ein hymchwil a oedd yn dangos bod y ddibyniaeth ar wasanaethau post yn gostwng a bod defnyddwyr ar draws pob grŵp yn ffafrio cyfathrebu digidol yn fwy na llythyrau ar gyfer cyfathrebu personol a busnes. Er gwaethaf y gostyngiad yn nifer y llythyrau, rydym wedi nodi fodd bynnag bod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn credu y bydd wastad angen iddynt ddefnyddio gwasanaethau post i anfon llythyrau.

3.95 Rydym hefyd wedi nodi grwpiau defnyddwyr a ddywedodd eu bod yn dibynnu mwy ar wasanaethau post. Y grwpiau hyn oedd:

- defnyddwyr heb fynediad i'r rhyngrwyd,
- defnyddwyr â symudedd cyfyngedig,
- defnyddwyr mewn lleoliadau gwledig,
- defnyddwyr hŷn. [132]

Crynodeb o'r ymatebion

3.96 Soniodd rhai ymatebwyr am ein casgliadau dros dro ynghylch sut mae unigolion a sefydliadau'n defnyddio gwasanaethau post.

3.97 Gan edrych ar bwysigrwydd cyffredinol post, cyflwynodd sefydliadau defnyddwyr ymchwil a oedd yn cytuno â'n casgliadau bod gwasanaethau post yn dal yn bwysig i bobl a'u bod yn cael eu defnyddio gan bron bob preswylydd yn y DU. Nododd Cyngor ar Bopeth fod ei ymchwil wedi canfod bod 86% o bobl wedi cael llythyr neu ddogfen bwysig drwy'r post yn ystod y chwe mis diwethaf.133 Roedd ymateb CCNI yn nodi bod bron i un defnyddiwr o bob deg yng Ngogledd Iwerddon yn cael llythyrau, gyda 68% yn derbyn hynny bob mis o leiaf.[134]

3.98 Roedd sylwadau eraill gan randdeiliaid yn perthyn yn fras i ddwy thema: y gostyngiad yn nifer y llythyrau a gwahanol grwpiau sy'n dibynnu ar wasanaethau post. Trafodwn bob un yn ei dro isod.

Gostyngiad yn nifer y llythyrau

3.99 Roedd nifer o ymatebwyr fel yr RHS, [✂], Pwyllgor Cynghori'r Alban, Unite CMA, a'r Post Brenhinol yn cytuno bod ein hasesiad o anghenion defnyddwyr wedi nodi'r rhesymau a'r ysgogwyr cywir dros y gostyngiad mewn post llythyrau, yn enwedig effaith mwy o bobl yn defnyddio dewisiadau digidol amgen. Fodd bynnag, nododd rhai o'r ymatebwyr hyn na allai pob defnyddiwr newid i ddewisiadau digidol amgen ac felly roeddent yn dal yn ddibynnol ar wasanaethau post am lawer o'u cyfathrebiadau.[135]

3.100 Roedd rhai adwerthwyr cardiau cyfarch (Paper Salad Publishing, Card Factory, Paper Tiger, Hallmark a [✂]) yn dadlau bod ein hasesiad wedi anwybyddu'r rôl mae problemau

---

[132] Ofcom, 2025. Ymgynghoriad: Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post t.36-44.
[133] Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, t.14.
[134] Ymateb CCNI i Ymgynghoriad 2025, t.14.
[135] Ymateb RHS i Ymgynghoriad 2025, t.2. [✂]; Ymateb Pwyllgor Cynghori'r Alban i Ymgynghoriad 2025, tt.3-4; Ymateb Unite CMA i Ymgynghoriad 2025, t.11; Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, t.7.

ansawdd gwasanaeth a dibynadwyedd gwael diweddar wedi'i chwarae o ran lleihau nifer y llythyrau, yn enwedig ers 2021.[136]

3.101 Roedd y GCA, [✂] a CWU hefyd yn dadlau nad oeddem wedi ystyried yn llawn y rôl y mae prisiau cynyddol wedi'i chwarae yn y gostyngiad yn nifer y llythyrau.[137] Roedd Swyddfa'r Post Cyfyngedig hefyd yn dadlau bod prisiau cynyddol yn achosi i ddefnyddwyr dorri'n ôl ar anfon rhai eitemau fel cardiau Nadolig, gan gyfeirio at ei hymchwil ei hun a ganfu fod un o bob tri o bobl wedi anfon llai o gardiau Nadolig yn 2024 nag mewn blynyddoedd blaenorol oherwydd y cynnydd mewn prisiau stampiau ac y byddai chwech o bob deg yn anfon llai o gardiau neu'n rhoi'r gorau i'w hanfon yn gyfan gwbl pe bai prisiau stampiau'n cynyddu ymhellach.[138]

Grwpiau sy'n nodi eu bod yn dibynnu mwy ar bost

3.102 Roedd llawer o sefydliadau, unigolion a rhai o ymatebion gan yr Ymgyrch We Own It yn cytuno bod rhai grwpiau'n dibynnu mwy ar bost, yn aml oherwydd eu lleoliad neu eu nodweddion. Fodd bynnag, dadleuodd llawer nad oedd ein hasesiad o anghenion defnyddwyr wedi cydnabod anghenion y grwpiau hyn yn llawn ac nad oeddent wedi nodi nac ystyried yr holl grwpiau sy'n dibynnu mwy ar bost.

3.103 Cytunodd ACRE fod ein hymchwil i anghenion defnyddwyr wedi ystyried defnyddwyr gwledig ond dadleuodd nad oedd eu hanghenion gwahanol yn cael eu hystyried yn llawn yn yr asesiad.[139] Nododd y Countryside Alliance fod defnyddwyr gwledig yn dibynnu mwy ar wasanaethau post, gan nodi arolwg o'i aelodau a'i gefnogwyr a ganfu fod 40% yn dibynnu ar y gwasanaeth post ar gyfer eu hanghenion cartref neu fusnes.[140]

3.104 Dadleuodd rhai grwpiau nad oedd y ffaith bod defnyddwyr yn y Gwledydd yn dibynnu mwy ar bost wedi cael ei ystyried yn llawn. Dywedodd Pwyllgor Cynghori'r Alban fod daearyddiaeth anghysbell a diffyg seilwaith digidol mewn rhai ardaloedd yn golygu bod mwy o ddibyniaeth ar wasanaethau post yn yr Alban.[141] Yn yr un modd, dadleuodd Consumer Scotland y dylai anghenion cymunedau anghysbell a gwledig yn yr Alban fod wedi cael eu hystyried ymhellach.[142] Dadleuodd CCNI fod ei ymchwil defnyddwyr yn dangos profiad unigryw defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon o wasanaethau post.[143] Dywedodd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon a [✂] fod defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon yn dibynnu mwy ar bost gan fod gwasanaethau cyhoeddus yn defnyddio'r post fel mater o drefn ar gyfer darparu gwasanaethau a chyfathrebu a bod y boblogaeth yn fwy gwledig.[144]

3.105 Roedd [✂], Swyddfa'r Post Cyfyngedig, y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl, Cyngor ar Bopeth, [✂], CWU, Unite CMA a chyfran fawr o ymatebwyr unigol yn dadlau nad oedd ein hasesiad o anghenion defnyddwyr yn cydnabod nac yn ystyried yn llawn ddibyniaeth rhai grwpiau agored i niwed ar bost ar gyfer

---

[136] Ymateb Paper Salad Publishing i Ymgynghoriad 2025; Ymateb Card Factory i Ymgynghoriad 2025; Ymateb Paper Tiger i Ymgynghoriad 2025, t.1; Ymateb Hallmark i Ymgynghoriad 2025; [✂].
[137] Ymateb GCA i Ymgynghoriad 2025, t.2; [✂]; Ymateb CWU i Ymgynghoriad 2025, t.8.
[138] Ymateb Swyddfa'r Post Cyfyngedig i Ymgynghoriad 2025, t.12.
[139] Ymateb ACRE i Ymgynghoriad 2025, tt.1-2.
[140] Ymateb y Countryside Alliance i Ymgynghoriad 2025, t.3.
[141] Ymateb Pwyllgor Cynghori'r Alban i Ymgynghoriad 2025 tt.3-4.
[142] Ymateb Consumer Scotland i Ymgynghoriad 2025, tt.25-36.
[143] Ymateb CCNI i Ymgynghoriad 2025, t.18.
[144] Ymateb Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon i Ymgynghoriad 20205, t. 5; [✂].

danfoniadau sy'n sensitif i amser, er enghraifft pobl hŷn, defnyddwyr incwm isel, y rheini sydd â symudedd cyfyngedig a'r rheini sydd â llythrennedd digidol gwael/dim mynediad i'r rhyngrwyd.[145] Dadleuodd Cyngor ar Bopeth nad oedd anghenion y rheini sy'n dibynnu ar y gwasanaeth post am lythyrau meddygol ac i hawlio budd-daliadau wedi cael eu hystyried.[146] Cyfeiriodd Cyngor ar Bopeth hefyd at ei ymchwil a oedd yn dangos bod pobl â chyflyrau iechyd hirdymor neu anableddau yn fwy tebygol o ddibynnu ar bost a dioddef canlyniad negyddol pe bai eu post yn cael ei ohirio.[147]

3.106 Yn olaf, roedd y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol (RHS), [✂] ac Unite CMA yn teimlo nad oedd anghenion pobl sy'n cael tanysgrifiadau a chylchgronau sy'n sensitif i amser, rhai ohonynt yn fwy tebygol o fod yn hŷn ac wedi'u heithrio'n ddigidol, wedi cael eu hystyried.[148]

Ein hasesiad

Gostyngiad yn nifer y llythyrau

3.107 Mae ein dadansoddiad o'n corff o ymchwil defnyddwyr wedi dangos cynnydd cyson dros y blynyddoedd yn y nifer sy'n defnyddio dewisiadau digidol amgen, a dewis cynyddol gan bob grŵp defnyddwyr i symud oddi wrth bost i gyfathrebu digidol ar gyfer llawer o'u rhyngweithiadau personol a busnes.[149]

3.108 Rydym yn derbyn ei bod yn bosibl bod problemau ansawdd gwasanaeth diweddar a chynnydd mewn prisiau stampiau wedi arwain rhai defnyddwyr i leihau nifer y llythyrau maent yn eu hanfon, ac i gynyddu eu defnydd o ddewisiadau digidol amgen. Fodd bynnag, rydym yn dal o'r farn bod y farchnad llythyrau'n dirywio'n strwythurol wrth i bobl a busnesau ddefnyddio dewisiadau digidol amgen.

3.109 Roedd ansawdd gwasanaeth ar y lefelau targed i raddau helaeth yn ystod y cyfnod 2010/11 i 2019/20, ond roedd gostyngiad sylweddol yn nifer y llythyrau o 14.3 biliwn eitem yn 2011/12 i 9.9 biliwn eitem yn 2019/20.[150] Mae hyn hefyd yn duedd glir sy'n cael ei hailadrodd mewn gwledydd eraill.

Grwpiau sy'n nodi eu bod yn dibynnu mwy ar bost

3.110 Rydym yn derbyn bod rhai grwpiau, oherwydd eu nodweddion, yn dweud eu bod yn dibynnu mwy ar bost. Fodd bynnag, mae ein hymchwil yn dangos bod eu hanghenion, yn enwedig mewn perthynas â chyflymder danfon llythyrau Ail Ddosbarth a phost swmp nad yw'n frys, yn eithaf tebyg i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr.

3.111 Rydym wedi cymryd gofal i sicrhau ein bod yn cynnwys y grwpiau hyn yn ein hymchwil defnyddwyr. Roedd gan ein hymchwil anghenion defnyddwyr yn 2024 samplau digon mawr i ddod i gasgliadau ystadegol gadarn yn ôl oedran, rhyw, wrbaniaeth, graddfa economaidd-gymdeithasol, ardaloedd trefol, gwledig a gwledig anghysbell, pedair gwlad y DU, a'r rheini

---

[145] [✂]; Ymateb Swyddfa'r Post Cyfyngedig i Ymgynghoriad 2025, tt. 4-8; Ymateb CCP-ACOD i Ymgynghoriad 2025, tt. 4-6; Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, tt 45-46; [✂]; Ymateb CWU i Ymgynghoriad 2025, t.7; Ymateb Unite CMA i Ymgynghoriad 2025, t.12; Ymatebion unigol i Ymgynghoriad 2025.

[146] Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, tt.45-46.

[147] Cyngor ar Bopeth, 2023. Dyfodol y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol, t.8., t.8.

[148] Ymateb RHS i Ymgynghoriad 2025, t.1; Ymateb Unite CMA i Ymgynghoriad 2025, t.8.

[149] Ofcom, 2025 Ymgynghoriad: Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post tt.36-38.

[150] Ofcom, 2025 Ymgynghoriad: Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post ffigur 3.3, t.40.

heb fynediad at y rhyngrwyd. Ar ben hynny, fe wnaethom gynnal ymchwil ansoddol yn 2023 a oedd yn canolbwyntio ar ddefnyddwyr agored i niwed yn unig, a chafodd hyn ei ystyried wrth wneud ein hasesiad o anghenion defnyddwyr.

3.112 Rydym yn croesawu'r ffaith bod ymatebwyr yn nodi ac yn tynnu sylw at grwpiau defnyddwyr a allai, oherwydd eu lleoliad neu eu nodweddion, fod yn dibynnu mwy ar wasanaethau post. Roedd ein hasesiad o anghenion defnyddwyr yn trafod y grwpiau yr oedd ein tystiolaeth ymchwil yn dangos eu bod yn dibynnu mwy ar bost. Roedd y rhain yn ddefnyddwyr heb fynediad i'r rhyngrwyd, defnyddwyr gwledig, defnyddwyr â symudedd cyfyngedig a defnyddwyr hŷn. Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod grwpiau sylweddol ychwanegol o ddefnyddwyr nad ydym wedi'u nodi.

3.113 Er ein bod yn cydnabod bod grwpiau defnyddwyr yn yr Alban a Gogledd Iwerddon a allai fod â mwy o ddibyniaeth wedi'i datgan ar bost, rydym o'r farn bod hyn yn bennaf oherwydd eu lleoliad gwledig a/neu fynediad cyfyngedig at seilwaith digidol. Felly, mae eu dibyniaeth gynyddol ar bost yn cael sylw yn y grwpiau defnyddwyr hynny a nodwyd gennym yn ein hasesiad a oedd â mwy o ddibyniaeth wedi'i datgan oherwydd y nodweddion hyn.

3.114 Nid ydym chwaith wedi cael unrhyw dystiolaeth gan gyrff cyhoeddus yng Ngogledd Iwerddon i awgrymu eu bod yn fwy tueddol o gyfathrebu â'u defnyddwyr gwasanaeth drwy'r post o'i gymharu â Gwledydd eraill y DU. Ar ben hynny, canfu ein hymchwil yn 2024 fod defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon yn llai tebygol o roi gwybod am effeithiau negyddol y newidiadau arfaethedig. Dywedodd 1% o ddefnyddwyr preswyl yng Ngogledd Iwerddon y byddai'r newidiadau arfaethedig yn golygu na fyddai'r gwasanaeth yn diwallu eu hanghenion mwyach mewn perthynas ag o leiaf un math o lythyr maent yn ei anfon neu'n ei dderbyn, ac o ystyried popeth, y byddai o leiaf un o'r newidiadau'n cael effaith negyddol sylweddol iawn. Mae hyn yn is na chyfartaledd y DU o 4%.[151]

3.115 Roedd ein hymchwil i anghenion defnyddwyr yn 2024 hefyd yn gofyn am farn pobl sy'n cael cylchgronau tanysgrifio drwy'r post, y bydd rhai ohonynt yn sensitif i amser. Ymysg y rheini a ddywedodd eu bod yn cael cylchgronau tanysgrifio drwy'r post, dywedodd 6% o ddefnyddwyr y byddai'r newidiadau arfaethedig i ddanfon llythyrau busnes safonol ac Ail Ddosbarth yn achosi niwed neu anhawster sylweddol ac na fyddai'r gwasanaeth yn diwallu eu hanghenion mwyach.[152]

3.116 Mae ystyriaeth bellach i bobl sy'n dibynnu mwy ar bost wedi'i chynnwys yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn Atodiad A2.

Anghenion rhesymol defnyddwyr am lythyrau ac a yw'r farchnad bresennol yn diwallu'r anghenion hynny

Safbwynt ein Ymgynghoriad

3.117 Yn ein Hymgynghoriad, fe wnaethom nodi ein dadansoddiad o'n hymchwil a thrafod nodweddion penodol gwasanaeth post y dywedodd defnyddwyr fod eu hangen arnynt a'u bod yn eu gwerthfawrogi. Roedd hyn yn cynnwys ystyried a oes gan rai grwpiau anghenion

[151] BMG, 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleid 59.
[152] BMG, 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleid 29.

gwahanol neu benodol oherwydd eu nodweddion neu eu hamgylchiadau. Rydym wedi cynnal y dadansoddiad hwn yng nghyd-destun ehangach gostyngiad parhaus yn y ddibyniaeth ar bost a gostyngiad yn nifer y llythyrau, fel y nodir yn yr adran uchod.

3.118 Fe welsom fod ar ddefnyddwyr angen gwasanaeth llythyrau sy'n ddibynadwy, yn fforddiadwy ac yn rheolaidd. Byddant wastad angen defnyddio gwasanaethau post i anfon ac i dderbyn llythyrau, ac o bryd i'w gilydd bydd arnynt angen gwasanaeth danfon cyflymach, y diwrnod canlynol. Fodd bynnag, mae'r ddibyniaeth ar wasanaethau post i anfon llythyrau wedi gostwng ac nid oes angen i'r rhan fwyaf o lythyrau maent yn eu hanfon ac yn eu derbyn gael eu danfon chwe diwrnod yr wythnos.

3.119 Ein casgliad dros dro oedd y byddai anghenion y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn dal i gael eu diwallu drwy ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth yn llai aml, ar yr amod bod gwasanaeth danfon y diwrnod canlynol yn dal ar gael.

3.120 Er gwaethaf pryderon rhai defnyddwyr am effaith danfon yn llai aml, mae anghenion y rhai sy'n dweud eu bod yn dibynnu mwy ar wasanaethau llythyrau yn debyg i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr ac mae cynnyrch ar gael yn y farchnad gwasanaethau post a fyddai'n parhau i ddiwallu eu hanghenion.

3.121 Daethom i'r casgliad dros dro bod marchnad llythyrau bresennol y DU yn mynd y tu hwnt i anghenion rhesymol defnyddwyr yn gyffredinol o ran pa mor aml caiff llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth eu danfon. [153]

Ymatebion rhanddeiliaid

3.122 Mewn ymateb i'n casgliad dros dro cyffredinol ar anghenion defnyddwyr, roedd llawer o ymatebwyr yn anghytuno ein bod wedi nodi anghenion rhesymol defnyddwyr post. Fodd bynnag, er gwaethaf eu hanghytundeb, aeth y rhan fwyaf o'r ymatebion ymlaen i ddweud bod angen gwasanaeth fforddiadwy, dibynadwy ac aml ar ddefnyddwyr fel y nodwyd yn ein hasesiad o anghenion defnyddwyr. Roedd rhai ymatebwyr fodd bynnag yn anghytuno â'n canfyddiad nad oedd angen gwasanaeth chwe diwrnod yr wythnos ar ddefnyddwyr ar gyfer llythyrau nad oeddent yn lythyrau brys.

3.123 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr naill ai'n anghytuno neu heb roi barn ar ein casgliad dros dro bod y farchnad yn diwallu anghenion defnyddwyr. Roedd nifer fach o sefydliadau, gweithredwyr mynediad yn bennaf (Citipost Mail, Fforwm Cystadleuaeth Post, [✂], Cymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol (NALC), [✂], a BBS Ltd yn cytuno â'n casgliad dros dro bod marchnad llythyrau bresennol y DU yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr (gyda rhai eithriadau ac amheuon nodedig, fel y nodir isod).[154]

3.124 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn canolbwyntio ar anghenion defnyddwyr penodol neu agweddau ar y farchnad. Felly, rydym wedi trefnu crynodeb o safbwynt ein Ymgynghoriad, adborth rhanddeiliaid a'n hasesiad, o dan y nodweddion pwysig canlynol:

i) Amlder danfon
ii) Cyflymder danfon

---

[153] Ofcom, 2025. Ymgynghoriad: Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post tt.45-56.

[154] Ymateb Citipost Mail i Ymgynghoriad 2025, t.7; Ymateb Mail Competition Forum i Ymgynghoriad 2025, t.2; [✂]; Ymateb NALC i Ymgynghoriad 2025, t.2; [✂]; Ymateb BBS Ltd i Ymgynghoriad 2025, t.3.

iii) Dibynadwyedd; a
iv) Phris.

3.125 Rydym yn nodi isod safbwynt ein Ymgynghoriad, ymatebion rhanddeiliaid, a'n hasesiad mewn perthynas â phob un o'r nodweddion hyn. Yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ac yn unol â natur yr asesiad y mae'n rhaid i ni ei gynnal o dan adran 30(3) y Ddeddf, rydym wedi nodi ein casgliadau ar anghenion defnyddwyr drwy egluro: (a) a ydym yn credu bod yr anghenion a nodwyd yn rhesymol; a (b) i ba raddau y mae'r farchnad yn diwallu'r anghenion rhesymol hyn.

Amlder danfon

Safbwynt ein Ymgynghoriad

3.126 Yn ein Hymgynghoriad, fe wnaethom nodi ein hymchwil a ganfu, yn y rhan fwyaf o achosion, y byddai danfon bum diwrnod neu hyd yn oed dri diwrnod yr wythnos yn diwallu'r rhan fwyaf o anghenion defnyddwyr, ac, i lawer, nid yw dydd Sadwrn yn cael ei ystyried yn ddiwrnod danfon hollbwysig. Pan ofynnwyd iddynt ystyried newidiadau penodol i amlder danfon llythyrau busnes Ail Ddosbarth a safonol, teimlai'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr na fyddai'n achosi problem fawr neu na fyddai'n cael fawr o effaith pe na baent yn cael eu danfon ar ddydd Sadwrn mwyach, er y byddai'n anghyfleus i rai.

3.127 Dywedodd nifer fach o ddefnyddwyr, pe bai'r newidiadau hyn yn cael eu gwneud, y byddai'n cael effaith negyddol sylweddol, ac na fyddai'r gwasanaeth post yn diwallu eu hanghenion mwyach. Mae'r defnyddwyr hyn yn poeni fwyaf am effaith danfon ar lythyrau am apwyntiadau meddygol, budd-daliadau a materion ariannol yn llai aml. Mae bron y cyfan o'r math hwn o bost yn cael ei anfon gan sefydliadau mawr sy'n defnyddio gwasanaethau post swmp, yn hytrach na gwasanaethau USO un eitem. I'r sefydliadau mawr sy'n anfon y mathau hyn o lythyrau, mae amrywiaeth o gynnyrch post swmp ar gael, gan gynnwys cynnyrch blaenoriaeth y gallant eu defnyddio os oes angen i'r llythyrau gyrraedd yn gynt neu ar ddiwrnod penodol.

3.128 Felly, daethom i'r casgliad dros dro bod marchnad llythyrau bresennol y DU yn rhagori ar anghenion defnyddwyr o ran amlder danfon. Petai llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth yn cael eu danfon yn llai aml, byddai'r farchnad yn dal i ddiwallu'r angen achlysurol am ddanfon ar ddydd Sadwrn gan y byddai cynnyrch post swmp blaenoriaeth a Dosbarth Cyntaf yn dal ar gael i unigolion ac i fusnesau.[155]

Ymatebion rhanddeiliaid

3.129 Roedd rhai ymatebwyr yn cytuno â'n casgliadau ynghylch amlder danfon (ond gyda rhai amheuon nodedig a sylweddol, a nodir isod ac yn Adran 5). Roedd y Post Brenhinol yn cytuno â'n casgliadau ynghylch amlder danfon a nododd ei ymchwil ei hun y byddai gwasanaeth llythyrau pum diwrnod yr wythnos yn diwallu anghenion 93% o ddefnyddwyr preswyl a 94% o fusnesau bach a chanolig.[156] Roedd UK Mail yn cytuno â'n casgliadau ynghylch anghenion amlder danfon ar gyfer unigolion a busnesau bach a chanolig ond nododd fod angen gwasanaeth danfon amlach ar ddefnyddwyr busnes nad oeddent yn gallu

[155] Ofcom, 2025. Ymgynghoriad: Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post tt.45-51.
[156] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, t.10.

fforddio defnyddio gwasanaethau mynediad Dosbarth Cyntaf neu D+2.[157] Nododd Cyngor ar Bopeth fod ei ymchwil ymysg defnyddwyr wedi canfod bod defnyddwyr yn fodlon ystyried llai o wasanaeth, ond dim ond os oedd y gwasanaeth yn fwy dibynadwy o ganlyniad i hynny.[158]

Danfon chwe diwrnod yr wythnos

3.130 Roedd nifer sylweddol o randdeiliaid yn anghytuno â'n casgliad dros dro y byddai danfon bump neu hyd yn oed dri diwrnod yr wythnos yn y rhan fwyaf o achosion yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddefnyddwyr, ac i lawer, nid oedd dydd Sadwrn yn cael ei ystyried yn ddiwrnod danfon pwysig.

3.131 Roedd cyhoeddwyr cylchgronau, adwerthwyr cardiau cyfarch, cyrff defnyddwyr, undebau, cynrychiolwyr busnesau bach a Swyddfa'r Post Cyf yn dadlau bod danfon chwe diwrnod yr wythnos (gan gynnwys Sadyrnau) yn dal yn bwysig i ddefnyddwyr am amrywiaeth o resymau.

3.132 Dadleuodd [✂], Gretton Books a Welsh Football Magazine fod danfoniadau chwe diwrnod yr wythnos a dydd Sadwrn ar gyfer Ail Ddosbarth yn bwysig i gyhoeddwyr cylchgronau bach gan fod eu cynnyrch yn sensitif o ran amser ac na allent hwy a'u tanysgrifwyr fforddio defnyddio gwasanaethau Dosbarth Cyntaf.[159]

3.133 Roedd rhai adwerthwyr cardiau cyfarch ([✂], Abacus Cards, Hallmark Cards, Paper Salad Publishing, Card Factory, Paper Tiger, a House of Cards) yn dadlau nad oedd ein casgliad dros dro ynghylch amlder danfon yn gywir a bod defnyddwyr eisiau gwasanaeth danfon chwe diwrnod yr wythnos, yn ogystal â gwasanaeth danfon y diwrnod canlynol.[160] Yn yr un modd, roedd [✂] a'r Ffederasiwn Busnesau Bach yn dadlau bod angen gwasanaeth danfon chwe diwrnod yr wythnos ar fusnesau bach a chanolig ar gyfer y ddau ddosbarth o lythyr. Dyfynnodd y Ffederasiwn Busnesau Bach ddata o'i Fynegai Busnesau Bach Ch1 2024 a ganfu fod 26% o fusnesau bach a chanolig yn ystyried bod danfon chwe diwrnod yr wythnos yn un o'r agweddau pwysicaf ar wasanaethau llythyrau'r Post Brenhinol ar gyfer eu hanghenion busnes yn y dyfodol ac roedd 8% yn ei ystyried fel yr agwedd bwysicaf. Nododd y Ffederasiwn Busnesau Bach yn benodol fod y gwasanaeth llythyrau'n cael ei ddefnyddio gan rai busnesau bach a chanolig i anfon eitemau bach fel gemwaith, gan ei fod yn rhatach na gwasanaethau parseli ac efallai na fydd eu cwsmeriaid yn fodlon talu mwy am ddanfon.[161]

3.134 Dadleuodd y GCA fod disgwyliadau modern o'r economi 24/7 yn golygu bod anghenion a disgwyliadau defnyddwyr o ran anfon llythyrau a pharseli bron yn union yr un fath, a dyfynnodd ei ymchwil ei hun a ganfu fod 3 o bob 4 o bobl yn credu nad lleihau

---

[157] Ymateb UK Mail i Ymgynghoriad 2025, t.2.
[158] Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, t.31.
[159] [✂]; Ymateb Gretton Books i Ymgynghoriad 2025, t.2; Ymateb Welsh Football Magazine i Ymgynghoriad 2025, t.2.
[160] [✂]; Ymateb Abacus Cards i Ymgynghoriad 2025, t.2; Ymateb Hallmark Cards i Ymgynghoriad 20205; Ymateb Card Factory 2025 i Ymgynghoriad 2025, t.2; Ymateb Paper Tiger i Ymgynghoriad 2025; Ymateb House of Cards i Ymgynghoriad 2025.
[161] [✂]; Ymateb FSB i Ymgynghoriad 2025, tt.3-4.

danfoniadau'r Post Brenhinol yw'r cyfeiriad cywir i Brydain ac roedd yn ei weld fel cam yn ôl nad yw'n cyd-fynd â disgwyliadau modern.[162]

3.135 Roedd Cyngor ar Bopeth yn dadlau bod ein casgliad y dylai anghenion y rhan fwyaf o bobl gael eu diwallu drwy ddanfon pump neu hyd yn oed dri diwrnod yr wythnos yn anghywir gan fod ei ymchwil ymysg defnyddwyr wedi canfod y byddai traean o ddefnyddwyr yn hoffi i'r Post Brenhinol barhau i ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth chwe diwrnod yr wythnos.[163]

3.136 Dadleuodd Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri nad oedd ein hasesiad o amlder danfon wedi edrych yn ddigonol ar bryderon defnyddwyr a oedd eisiau gwasanaeth danfon dibynadwy ail ddosbarth dair gwaith yr wythnos neu fwy.[164]

3.137 Nododd CCNI fod amlder danfon yn bwysig i rai defnyddwyr, gan gyfeirio at ei ymchwil ansoddol ei hun a ganfu fod amlder y ddarpariaeth yn hanfodol i'r rheini a oedd yn cael nifer sylweddol o apwyntiadau meddygol drwy'r post.[165]

Gostwng amlder danfon

3.138 Dadleuodd nifer o ymatebwyr nad oedd ein hasesiad wedi edrych yn llawn ar y posibilrwydd na fyddai danfon Ail Ddosbarth yn llai aml yn diwallu anghenion defnyddwyr.

3.139 Roedd Consumer Scotland yn dadlau y byddai gostyngiadau i amlder danfon Ail Ddosbarth yn cael effaith negyddol ar fwy o ddefnyddwyr neu na fyddai eu hanghenion yn cael eu diwallu nag y daeth ein hasesiad o anghenion defnyddwyr i'r casgliad. Dyfynnodd Consumer Scotland ei ymchwil a ganfu:

- Dywedodd deunaw y cant o ddefnyddwyr y byddai'r newidiadau'n achosi anawsterau sylweddol ac na fyddai post Ail Ddosbarth yn diwallu eu hanghenion am bost gweinyddol hanfodol yn ddibynadwy mwyach.
- Dywedodd chwech y cant o ddefnyddwyr y byddai'r newidiadau'n achosi anawsterau sylweddol ac na fyddai post Ail Ddosbarth yn diwallu eu hanghenion yn ddibynadwy mwyach am bost personol maent yn ei anfon.
- Dywedodd wyth y cant o ddefnyddwyr y byddai'r newidiadau'n achosi anawsterau sylweddol ac na fyddai post Ail Ddosbarth yn diwallu eu hanghenion yn ddibynadwy mwyach am bost personol maent yn ei dderbyn.[166]

3.140 Roedd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys grwpiau defnyddwyr, undebau, gweithredwyr mynediad a sefydliadau sy'n cynrychioli cymunedau gwledig, yn poeni na fyddai danfon yn llai aml ar gyfer gwasanaethau Ail Ddosbarth yn diwallu anghenion grwpiau sy'n fwy dibynnol ar bost fel cymunedau gwledig, y rheini sy'n cael post meddygol a chyllidol, defnyddwyr incwm isel a'r rheini sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.[167]

---

[162] Ymateb GCA i Ymgynghoriad 2025, tt.1-14.
[163] Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, t.36.
[164] Ymateb Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri i Ymgynghoriad 2025, t.3.
[165] Ymateb CCNI i Ymgynghoriad 2025, t.14.
[166] IFF, 2025. Consumer Scotland Royal Mail Universal Service Obligation, Survey Research March, tabl 4.
[167] Ymateb CCNI i Ymgynghoriad 2025, t.14; ymateb Consumer Scotland i Ymgynghoriad 2025, tt.27-28; ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, tt.34-35; ymateb CCP-ACOD i Ymgynghoriad 2025, tt. 3-6; ymateb UK Mail i Ymgynghoriad 2025, t.2; ymateb y Countryside Alliance i Ymgynghoriad 2025, tt.1-2.

3.141 Roedd y Bartneriaeth Post Strategol yn dadlau'n benodol y byddai dileu dydd Sadwrn fel diwrnod danfon ar gyfer Ail Ddosbarth yn cynyddu costau i fusnesau bach a chanolig ac yn effeithio ar ddefnyddwyr agored i niwed.[168]

Ein hasesiad

3.142 Canfu ein hasesiad o anghenion defnyddwyr, yn y rhan fwyaf o achosion y byddai danfon bump neu hyd yn oed dair gwaith yr wythnos yn diwallu'r rhan fwyaf o anghenion defnyddwyr ac, i lawer, nid oedd dydd Sadwrn yn cael ei ystyried yn ddiwrnod danfon hollbwysig. Mynegodd defnyddwyr fod angen gwasanaeth y diwrnod canlynol, chwe diwrnod yr wythnos, er mai dim ond yn bur anaml y byddai angen iddynt anfon neu dderbyn llythyr brys.

3.143 Mae ymchwil a gyflwynwyd gan randdeiliaid ar amlder danfon yn cyd-fynd yn fras â'n canfyddiadau. Er enghraifft, canfu cwestiwn tri yn arolwg Consumer Scotland, a gynhaliwyd yn Yr Alban, fod 18% o'r ymatebwyr yn dweud y byddai'r newidiadau'n achosi anawsterau sylweddol iddynt ac nad ydynt bellach yn diwallu eu hanghenion yn ddibynadwy ar gyfer post gweinyddol hanfodol (dywedodd 6% ac 8% o ddefnyddwyr yr un peth ar gyfer post personol maent yn ei anfon a'i dderbyn yn y drefn honno). Er bod geiriad y cwestiwn yn wahanol, mae hyn yn debyg i'r 20% o ymatebwyr yn yr Alban yn arolwg preswyl Ofcom a nododd na ddiwallwyd eu hanghenion ar gyfer o leiaf un math o lythyr (a oedd yn cynnwys 3% a ddywedodd na fyddai eu hanghenion yn cael eu diwallu ac y byddai effaith 'sylweddol iawn', 6% a ddywedodd na fyddai eu hanghenion yn cael eu diwallu ac y byddai effaith 'sylweddol', ac 11% a ddywedodd na fyddai eu hanghenion yn cael eu diwallu, ond, gan ystyried popeth, na fyddai'r newidiadau'n gwneud unrhyw wahaniaeth neu'n cael effaith negyddol fach yn unig).

3.144 Rydym yn cydnabod bod rhai gwahaniaethau rhwng ymchwil a gyflwynwyd gan randdeiliaid a'n canfyddiadau ni. Lle bo hynny'n wir, rydym yn rhoi mwy o bwyslais ar ein hymchwil wrth ddod i gasgliadau am anghenion rhesymol defnyddwyr o ran amlder danfon. Yn gyffredinol, y rheswm am hyn yw bod casgliadau ein hymchwil yn seiliedig ar ddadansoddiad o'n corff mawr o ymchwil defnyddwyr ansoddol a meintiol a data marchnad a gasglwyd dros ddegawd, sydd, yn ein barn ni, yn gadarn. Ar ben hynny, yn wahanol i rywfaint o'r ymchwil a gyflwynwyd gan ymatebwyr, roedd ein hymchwil yn 2024 yn ceisio deall teimlad defnyddwyr tuag at y newidiadau arfaethedig i ddanfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth, neu eu dealltwriaeth o hynny, yn ogystal â'r effeithiau posibl ar anghenion defnyddwyr am wahanol fathau o lythyrau maen nhw'n eu hanfon a'u derbyn.[169] [170]

3.145 Rydym yn deall gan rai ymatebwyr bod rhai defnyddwyr yn ffafrio'n gryf bod rhywfaint o bost yn cyrraedd ar ddydd Sadwrn (er enghraifft, tanysgrifiadau cylchgrawn a rhai cardiau cyfarch). Fel yr esboniwyd yn ein Hymgynghoriad, rhaid i ni asesu anghenion rhesymol defnyddwyr, yn hytrach na'r hyn maent yn ei ffafrio.[171]

---

[168] Ymateb y Bartneriaeth Post Strategol i Ymgynghoriad 2025, t.2-3.
[169] Gan mai dim ond gyda defnyddwyr yn yr Alban y cynhaliwyd ymchwil Consumer Scotland, mae'r ffigurau hyn o'n hymchwil Anghenion Defnyddwyr 2024 yn ymwneud â defnyddwyr yn yr Alban yn unig ac maent ychydig yn wahanol i ffigurau'r DU gyfan.
[170] IFF, 2025. Consumer Scotland Royal Mail Universal Service Obligation, Survey Research March, tabl 3. 2025.
[171] Ofcom, 2025. Ymgynghoriad: Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post tt.31-32.

3.146 Gyda hyn i gyd mewn golwg, rydym wedi canfod, cyn belled bod gwasanaeth blaenoriaeth ar gael sy'n danfon ar ddydd Sadwrn, nad oes gan ddefnyddwyr yn gyffredinol angen rhesymol i lythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth gael eu danfon bob dydd chwe diwrnod yr wythnos, gan gynnwys ar ddydd Sadwrn. Rydym yn egluro ym mharagraffau A3.98 - A3.101 Atodiad A3 pam ein bod wedi dod i'r casgliad hwn.[172] Mae Dosbarth Cyntaf ac Danfon Arbennig wedi'i Warantu yn diwallu angen rhesymol defnyddwyr am wasanaeth blaenoriaeth sy'n danfon ar ddydd Sadwrn. Ein barn ni yw y byddai anghenion rhesymol defnyddwyr yn cael eu diwallu i raddau sylweddol pe bai post Ail Ddosbarth a phost arall nad yw'n flaenoriaeth yn cael ei ddanfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos.

3.147 Serch hynny, rydym yn derbyn efallai na fydd anghenion rhesymol nifer fach o ddefnyddwyr yn cael eu diwallu drwy ddanfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl, pe bai hyn yn digwydd, mai dim ond ar yr achlysuron prin iawn y byddai angen i ddefnyddiwr anfon llythyr i gyrraedd y diwrnod canlynol a/neu ar ddydd Sadwrn ac na all fforddio Dosbarth Cyntaf. Rydym yn dal o'r farn bod Dosbarth Cyntaf yn fforddiadwy i'r mwyafrif helaeth o ddefnyddwyr ar adegau achlysurol pan fydd angen iddynt ei ddefnyddio. Rydym yn trafod fforddiadwyedd a'n cynlluniau i wneud mwy o waith yn y maes hwn yn Adran 5.

Cyflymder danfon

Safbwynt ein Ymgynghoriad

3.148 Yn ein Hymgynghoriad, roeddem wedi nodi dadansoddiad o'n hymchwil a oedd yn dangos nad yw defnyddwyr yn ystyried bod cyflymder danfon, o'i gymharu â nodweddion eraill gwasanaethau post, yn bwysig ar gyfer y rhan fwyaf o eitemau maent yn eu hanfon. Canfu ein hymchwil ddiweddaraf nad yw'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr fel arfer angen i lythyrau Ail Ddosbarth gyrraedd o fewn tri diwrnod gwaith. Ar gyfer pob math o lythyr y mae defnyddwyr yn ei anfon drwy Ail Ddosbarth, gwelsom fod y rhan fwyaf yn fodlon derbyn cyflymder danfon arafach. Fodd bynnag, mae cefnogaeth gref i wasanaeth danfon y diwrnod canlynol ar gyfer yr achlysuron pan fydd angen i ddefnyddwyr anfon neu dderbyn eitem frys.

3.149 Dywedasom fod cynnyrch Dosbarth Cyntaf a Danfon Arbennig wedi'i Warantu erbyn 1pm yn diwallu'r angen hwn sy'n codi o bryd i'w gilydd, oherwydd dylai llythyrau sy'n cael eu danfon drwy'r gwasanaethau hyn gyrraedd erbyn y diwrnod gwaith canlynol. Daethom felly i'r casgliad dros dro bod cynnyrch yn y farchnad sy'n diwallu anghenion defnyddwyr o ran cyflymder danfon eitemau o'r fath.[173]

Ymatebion rhanddeiliaid

3.150 Roedd nifer fechan o ymatebwyr yn cytuno â'n canfyddiadau ynghylch cyflymder. Cytunodd Cymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol (NALC) y byddai defnyddwyr yn derbyn cyflymder danfon is ar gyfer llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth, er na fyddai hynny yn ddelfrydol iddynt.[174] Roedd y Ffederasiwn Busnesau Bach a CCP-ACOD yn cytuno nad yw cyflymder mor bwysig i unigolion a busnesau bach a chanolig â nodweddion eraill y

[172] Gweler Atodiad A3 i gael rhagor o wybodaeth.
[173] Ofcom, 2025. Ymgynghoriad: Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post tt.51-53.
[174] Ymateb NALC i Ymgynghoriad 2025, t.2.

gwasanaeth post, fel dibynadwyedd. Fodd bynnag, nododd CCP-ACOD, pan oedd angen danfon y diwrnod canlynol arnynt, na fyddai rhai defnyddwyr yn gallu fforddio cynnyrch diwrnod canlynol fel Dosbarth Cyntaf.[175]

3.151 Cytunodd y Post Brenhinol nad oedd cyflymder mor bwysig â nodweddion eraill a nododd fod ei ymchwil ymysg cwsmeriaid wedi canfod y byddai danfon o fewn tri i bedwar diwrnod gwaith yn diwallu anghenion 93% o ddefnyddwyr.[176]

3.152 Roedd nifer fwy o ymatebwyr yn anghytuno â'n canfyddiad nad yw defnyddwyr yn gyffredinol yn ystyried bod cyflymder yr un mor bwysig â nodweddion eraill y gwasanaeth post ar gyfer y rhan fwyaf o eitemau maen nhw'n eu hanfon.

3.153 Dadleuodd CCNI fod ei ymchwil ymysg defnyddwyr yn dangos bod defnyddwyr, yn groes i'n canfyddiadau, yn gwerthfawrogi cyflymder danfon. Dangosodd ei ymchwil fod cyflymder yn bwysig i ddefnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, yn enwedig defnyddwyr hŷn a'r rheini a gafodd apwyntiadau meddygol yn y post. Canfu hefyd fod 89% o'r ymatebwyr a oedd yn anfon neu'n derbyn llythyrau yn teimlo ei bod yn bwysig bod llythyrau'n cael eu danfon iddynt o fewn amser penodol, gyda 44% yn teimlo bod hyn yn bwysig iawn.[177]

3.154 Heriodd [✂] a Democratiaid Rhyddfrydol Argyll a Bute ein canfyddiadau gyda'u barn bod gwasanaeth llythyrau cyflym yn dal yn angen hanfodol i lawer o fusnesau a chymunedau, yn enwedig ar gyfer busnesau bach a chanolig a'r rheini sy'n cael llythyrau meddygol.[178]

3.155 Teimlai rhai ymatebwyr fod cyflymder danfon yn arbennig o bwysig ar gyfer rhai mathau o lythyrau neu ddefnyddwyr.

3.156 Roedd [✂] a Welsh Football Magazine yn dadlau bod cyflymder danfon yn bwysig i ddefnyddwyr a oedd wedi tanysgrifio i gylchgronau sy'n cynnwys gwybodaeth y mae angen ei derbyn o fewn cyfnod penodol (e.e. canlyniadau pêl-droed ac amserlenni teledu).[179]

3.157 Roedd UK Mail yn dadlau, ar gyfer rhai mathau o lythyrau, yn gyffredinol y rheini sy'n ymwneud ag iechyd a chyllid, bod defnyddwyr yn gwerthfawrogi cyflymder a gallai danfon y llythyrau hyn yn arafach achosi niwed i ddefnyddwyr fel oedi o ran cael gafael ar fudd-daliadau neu gael cardiau banc newydd. Nododd UK Mail hefyd ei bod yn annhebygol y byddai sefydliadau sy'n anfon llythyrau o'r fath (er enghraifft y GIG, adrannau'r llywodraeth a chwmnïau gwasanaethau ariannol) yn gallu fforddio newid i wasanaethau manwerthu swmp Dosbarth Cyntaf neu wasanaethau mynediad D+2 cyflymach ar gyfer post o'r fath. Nododd Cyngor ar Bopeth hefyd fod llythyrau gan sefydliadau cyhoeddus fel y GIG, llysoedd ac adrannau'r llywodraeth yn gallu bod yn sensitif i amser.[180]

3.158 Roedd ymatebion gan ymgyrch We Own It yn dadlau bod cyflymder danfon yn bwysig i ddefnyddwyr, yn enwedig y rheini sy'n cael llythyrau meddygol drwy'r post.[181]

---

[175] Ymateb y Ffederasiwn Busnesau Bach i Ymgynghoriad 2025, t.4; Ymateb CCP-ACOD i Ymgynghoriad 2025, t.9.
[176] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, t.10.
[177] Ymateb CCNI i Ymgynghoriad 2025, tt.15-16.
[178] [✂]; Ymateb Democratiaid Rhyddfrydol Argyll a Bute i Ymgynghoriad 2025, t.2.
[179] [✂]; Ymateb Welsh Football Magazine i Ymgynghoriad 2025, t.2.
[180] Ymateb UK Mail i Ymgynghoriad 2025, t.2; Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, t.10, a t.34.
[181] Ymatebion Ymgyrch We Own It i Ymgynghoriad 2025.

3.159 Amlinellodd Tesco Bank, fel cwmni gwasanaethau ariannol rheoledig, fod yna rywfaint o ohebiaeth yr oedd yn rhaid iddo ei derbyn i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael eu derbyn o fewn amserlen benodol, felly roedd cyflymder yn bwysig. Mynegodd bryderon y gallai cyflymder danfon arafach arwain at oedi mewn llythyrau sy'n cael eu hanfon ar hyn o bryd gan ddefnyddio gwasanaethau D+2 a D+5 ac arwain at dorri'r rhwymedigaethau hyn.[182]

3.160 Nododd nifer o gyrff cyhoeddus fod cyflymder danfon yn bwysig i rai o'r llythyrau maent yn eu hanfon oherwydd natur critigol o ran amser rhai prosesau.

3.161 Nododd y Comisiwn Etholiadol, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol a Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban (EMB) a Phwyllgor Cofrestru Etholiadol Cymdeithas Aseswyr yr Alban fod llawer o brosesau etholiadol yn gritigol o ran amser, felly mae cyflymder danfon yn bwysig i ddefnyddwyr sy'n anfon deunyddiau etholiadol er mwyn iddynt allu sicrhau bod etholwyr yn cael dogfennau perthnasol mewn pryd.[183] Disgrifiodd Trafnidiaeth Cymru sut roeddent yn defnyddio'r gwasanaeth post i gasglu data ar arferion ac anghenion trafnidiaeth gan 15,000 o aelwydydd yng Nghymru. Roeddent yn teimlo bod cyflymder yn bwysig er mwyn i'r arolygon hyn gyrraedd cwsmeriaid yn brydlon.[184] [✂][185]

Ein hasesiad

3.162 Canfu ein hymchwil, ar gyfer y rhan fwyaf o ddefnyddwyr, fod dibynadwyedd a sicrwydd cyrraedd yn cael eu hystyried yn bwysicach o lawer na chyflymder danfon ar gyfer y rhan fwyaf o lythyrau sy'n cael eu hanfon a'u derbyn.[186] Fodd bynnag, daeth ein hasesiad o anghenion defnyddwyr i'r casgliad bod gan ddefnyddwyr angen rhesymol am wasanaeth llythyrau blaenoriaeth y diwrnod canlynol sy'n danfon ar ddydd Sadwrn. Gan fod Dosbarth Cyntaf a Danfon Arbennig wedi'i Warantu erbyn 1pm yn cael eu danfon y diwrnod canlynol, gan gynnwys ar ddydd Sadwrn, mae cynnyrch yn y farchnad sy'n diwallu'r angen rhesymol hwn gan ddefnyddwyr.

3.163 Canfu ein hymchwil ddiweddaraf nad oedd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr fel arfer angen llythyrau Ail Ddosbarth i gyrraedd cyn pen tri diwrnod gwaith ar ôl eu hanfon, am un o'r rhesymau canlynol: nid oeddent yn anfon y math o lythyr roedden ni wedi gofyn amdano, roeddent yn defnyddio Dosbarth Cyntaf, neu yn dweud y byddai pedwar i bum diwrnod gwaith yn dderbyniol. Dywedodd cyfran fach na fyddai ots pe bai'n cymryd mwy na phum diwrnod gwaith i'w danfon. Fodd bynnag, mae rhai defnyddwyr wedi dweud bod angen i lythyrau Ail Ddosbarth gyrraedd o fewn tri diwrnod gwaith, er eu bod yn y lleiafrif.[187]

3.164 Rydym yn derbyn y ddadl a gyflwynwyd gan rai ymatebwyr, sef bod defnyddwyr yn teimlo bod cyflymder yn bwysig ar gyfer rhai mathau o lythyrau, yn enwedig y rheini gan gyrff

---

[182] Ymateb Tesco Bank i Ymgynghoriad 2025, tt.3-4.
[183] Ymateb y Comisiwn Etholiadol i Ymgynghoriad 2025, tt. 2-7; Ymateb Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol i Ymgynghoriad 2025, t.2; Ymateb Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban a Phwyllgor Cofrestru Etholiadol Aseswyr yr Alban i Ymgynghoriad 2025.
[184] Ymateb Trafnidiaeth Cymru i Ymgynghoriad 2025, t.1.
[185] [✂]
[186] BMG, 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleidiau 22, 84; Jigsaw, 2023. Deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau post – adroddiad ar ganfyddiadau ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar grwpiau a allai fod yn agored i niwed, sleid 32.
[187] BMG, 2025 Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleidiau 23 a 86.

cyhoeddus, llythyrau sy'n ymwneud â materion ariannol a meddygol, rhai cardiau cyfarch a rhai cylchgronau sy'n sensitif i amser.

3.165 Rydym hefyd yn deall ei bod yn arbennig o bwysig i ddefnyddwyr bod llythyrau sy'n ymwneud â materion iechyd ac ariannol yn cyrraedd mewn modd dibynadwy ac amserol, a gallai oedi sylweddol arwain at niwed. Fodd bynnag, nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu bod angen i'r rhan fwyaf o lythyrau gan sefydliadau a chyrff cyhoeddus nad ydynt yn rhai brys, hyd yn oed y rheini sy'n ymwneud â materion ariannol a meddygol, gyrraedd ar ddydd Sadwrn neu o fewn tri diwrnod i bostio.

3.166 Rydym yn nodi canfyddiadau ein hymchwil yn 2024 ar anghenion defnyddwyr o ran cyflymder danfon ym mharagraffau A3.111 - A3.114 Atodiad A3. Rydym wedi canfod nad oes angen i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr gael llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth bob amser cyn pen tri diwrnod gwaith, sy'n golygu y byddai anghenion rhesymol y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn cael eu diwallu drwy ddanfon llythyrau o'r fath bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos.[188] Fodd bynnag, rydym hefyd o'r farn y gallai fod angen yn rhesymol i leiafrif o ddefnyddwyr dderbyn llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth o fewn tri diwrnod gwaith (er nad yw hyn yn cynnwys danfon ar ddydd Sadwrn o ystyried ein canfyddiadau ar amlder danfon, a nodir uchod). Pe bai post nad yw'n flaenoriaeth yn cael ei ddanfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, mae'n bosibl na fyddai anghenion rhesymol y defnyddwyr hyn yn cael eu diwallu. Rydym yn trafod hyn ymhellach yn Adran 5.

3.167 Ar ben hynny, post swmp yw'r rhan fwyaf o lythyrau sy'n sensitif i amser, fel llythyrau sy'n ymwneud ag iechyd a materion ariannol. Gall anfonwyr y math hwn o bost wneud penderfyniad ynghylch brys cyfathrebu a'u galluoedd gweithredol mewnol, a fydd yn sail i benderfynu a oes angen gwasanaeth post swmp â blaenoriaeth fel y rheini sy'n cael eu cynnig gan y Post Brenhinol neu gynnyrch mynediad D+2.

3.168 O ran y pryderon penodol a godwyd gan gyrff etholiadol, roedd adran mynediad y ddogfen Ymgynghori yn ystyried anghenion sefydliadau sy'n anfon deunyddiau a chyfathrebiadau etholiadol drwy'r post, gan fod y rhan fwyaf o ddeunydd etholiadol yn cael ei anfon gan ddefnyddio gwasanaethau post swmp a gallant ddefnyddio gwasanaeth post swmp â blaenoriaeth (boed hynny drwy wasanaethau adwerthu swmp y Post Brenhinol neu wasanaethau D+2) os oes angen.[189] Rydym yn egluro sut roedd ein hasesiad o anghenion defnyddwyr yn ystyried anghenion defnyddwyr sy'n anfon ac yn derbyn deunyddiau a chyfathrebiadau etholiadol ym mharagraffau 3.22 a 3.23.

3.169 Rydym yn cydnabod y gallai fod cyfran fach o ddefnyddwyr nad yw eu hanghenion rhesymol yn cael eu diwallu lle mae arnynt angen i llythyr gyrraedd y diwrnod canlynol ond nad ydynt yn gallu fforddio Dosbarth Cyntaf. Fodd bynnag, rydym yn dal o'r farn bod Dosbarth Cyntaf yn fforddiadwy i'r mwyafrif helaeth o ddefnyddwyr ar adegau achlysurol pan fydd angen iddynt ei ddefnyddio. Rydym yn trafod fforddiadwyedd a'n cynlluniau i wneud mwy o waith yn y maes hwn yn Adran 5.

[188] Gweler Atodiad A3, p.25.

[189] Ofcom, 2025. Ymgynghoriad: Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post t.114-151.

Dibynadwyedd

Safbwynt ein Ymgynghoriad

3.170 Roedd ein Hymgynghoriad yn egluro bod dibynadwyedd, sef eitemau sy'n cyrraedd o fewn amser rhesymol a rhagweladwy ar ôl postio, yn cael ei ystyried yn nodwedd bwysig o wasanaethau post a dywedodd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr wrthym eu bod yn ei flaenoriaethu dros gyflymder ac amlder.

3.171 Nodwyd gennym bod Ofcom yn gosod targedau ansawdd gwasanaeth i gymell y Post Brenhinol i ddanfon eitemau ar amser. Yn ein Hymgynghoriad roeddem yn ystyried y ffordd mae'r targedau presennol yn cymell gwasanaeth o ansawdd uchel – gan gynnwys dibynadwyedd – ac yn gwneud cynigion i newid rhain i gyflawni gwell canlyniadau i ddefnyddwyr. [190]

Ymatebion rhanddeiliaid

3.172 Roedd y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf â'n canfyddiad bod dibynadwyedd yn bwysig i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr.

3.173 Dywedodd y Post Brenhinol, CCNI a Consumer Scotland fod eu hymchwil eu hunain hefyd yn dangos bod dibynadwyedd yn bwysig i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr. Canfu mynegai busnesau bach Ch1 2024 y Ffederasiwn Busnesau Bach fod dros 6 o bob 10 (62%) o fusnesau bach yn dweud mai dibynadwyedd yw un o agweddau pwysicaf gwasanaethau llythyrau'r Post Brenhinol.[191]

3.174 Roedd ymatebion ymgyrch We Own It yn cytuno bod defnyddwyr yn gwerthfawrogi dibynadwyedd, ond yn anghytuno â'n diffiniad o ddibynadwyedd, sef bod "eitemau'n cyrraedd o fewn amser rhesymol a rhagweladwy ar ôl postio". Yn eu barn nhw, mae defnyddwyr yn dehongli dibynadwyedd fel llythyrau sy'n cyrraedd pan maent i fod i gyrraedd, sy'n cael ei lywodraethu gan y math o stamp maent yn ei brynu.[192]

3.175 Nododd rhai ymatebwyr hefyd rwystredigaethau ac anawsterau y maent hwy, a'r defnyddwyr y maent yn eu cynrychioli, wedi'u cael gydag ansawdd a gwasanaeth gwael a dibynadwyedd yn ddiweddar:

- Dywedodd CCNI fod ei ymchwil yn tynnu sylw at rwystredigaethau presennol defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon mewn perthynas â dibynadwyedd.[193]
- Pwysleisiodd Cyngor ar Bopeth bwysigrwydd dibynadwyedd i ddefnyddwyr, gan nodi canfyddiadau ei ymchwil ynghylch canlyniadau negyddol oedi i lythyrau fel methu apwyntiadau, oedi cyn talu i gwsmeriaid a methu apwyntiadau meddygol.[194]

3.176 Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr pa mor bwysig oedd dibynadwyedd gwasanaeth iddyn nhw neu i ddefnyddwyr eu gwasanaethau. Eglurodd cyrff etholiadol fod natur amserol cyfathrebiadau etholiadol yn golygu bod dibynadwyedd danfon yn bwysig iawn i sefydliadau

[190] Ofcom, 2025. Ymgynghoriad: Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post t.54.
[191] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, t.10; Ymateb CCNI i Ymgynghoriad 2025, t.16-17; Ymateb Consumer Scotland i Ymgynghoriad 2025, t.25; Ymateb FSB i Ymgynghoriad 2025, t.4.
[192] Ymatebion Ymgyrch We Own It i Ymgynghoriad 2025.
[193] Ymateb CCNI i Ymgynghoriad 20025, t.16.
[194] Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, tt.17-19.

a oedd yn anfon deunyddiau etholiadol.[195] [✂][196] Roedd cyhoeddwyr cylchgronau hefyd yn dadlau bod tanysgrifwyr i gylchgronau yn disgwyl dibynadwyedd a chysondeb danfon, yn enwedig lle'r oedd cylchgronau'n cynnwys deunydd â therfyn amser fel amserlenni teledu, digwyddiadau neu ganlyniadau chwaraeon a bod dibynadwyedd gwael wedi cael effaith negyddol ar wasanaethau tanysgrifio.[197]

3.177 Roedd CWU, er ei fod yn derbyn bod dibynadwyedd yn fwy o flaenoriaeth na chyflymder neu amlder danfon, yn teimlo bod materion ansawdd gwasanaeth presennol wedi arwain at gyfranogwyr yn yr ymchwil roeddem wedi seilio ein hasesiad arnynt, wedi gorbwysleisio pwysigrwydd dibynadwyedd a rhoi llai o bwyslais ar nodweddion eraill nag y byddent fel arfer.[198]

3.178 Roedd llawer o ymatebwyr, gan gynnwys grwpiau defnyddwyr, cwmnïau mynediad, sefydliadau sy'n cynrychioli cymunedau gwledig, Tesco Bank, undebau ac adwerthwyr cardiau cyfarch yn anghytuno â'n casgliad dros dro bod y farchnad yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr gan eu bod yn teimlo bod materion ansawdd gwasanaeth parhaus yn golygu nad yw defnyddwyr yn cael y gwasanaethau post dibynadwy sydd eu hangen arnynt.[199] Mynegodd Consumer Scotland a Phwyllgor Cynghori'r Alban bryderon penodol nad oedd y farchnad yn diwallu anghenion defnyddwyr anghysbell a gwledig yn yr Alban am wasanaeth dibynadwy.[200]

Ein hasesiad

3.179 Rydym yn cydnabod y rhwystredigaeth eang ynghylch materion ansawdd gwasanaeth diweddar a'r anawsterau y maent wedi'u hachosi i ddefnyddwyr. Rydym yn gwybod bod dibynadwyedd yn rhywbeth sy'n cael ei werthfawrogi; mae ein hymchwil ymysg defnyddwyr yn dangos yn gyson bod defnyddwyr yn rhoi gwerth uchel ar ddibynadwyedd gwasanaethau post. Mae'n arbennig o bwysig i ddefnyddwyr bod cyfathrebiadau pwysig sy'n dibynnu ar amser, fel apwyntiadau meddygol, yn cyrraedd pan maent i fod i gyrraedd.

3.180 Mae sicrhau gwasanaeth dibynadwy yn flaenoriaeth i Ofcom. Rydym wedi gosod targedau ansawdd gwasanaeth i gefnogi gwasanaeth dibynadwy o ansawdd uchel drwy geisio cymell y Post Brenhinol i ddanfon eitemau ar amser a bod yn dryloyw ynghylch ei berfformiad.

---

[195] Ymateb y Comisiwn Etholiadol i Ymgynghoriad 2025, tt. 2-7; Ymateb Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol i Ymgynghoriad 2025, t.2; Ymateb Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban a Phwyllgor Cofrestru Etholiadol Aseswyr yr Alban i Ymgynghoriad 2025, tt.1-2.

[196] [✂]

[197] [✂]; Ymateb Welsh Football Magazine i Ymgynghoriad 2025, t.2; Ymateb RHS i Ymgynghoriad 2025, t.3; [✂]

[198] Ymateb CWU i Ymgynghoriad 2025, tt.7-8.

[199] Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, tt.17-20; Ymateb Pwyllgor Cynghori'r Alban i Ymgynghoriad 2025, tt.5-7; Ymateb Cymdeithas Defnyddwyr Post i Ymgynghoriad 2025, t.4; Ymateb Quadient UK Ltd i Ymgynghoriad 2025, t.4; Ymateb CFH Docmail Ltd i Ymgynghoriad 2025, tt.3-4; Ymateb BBS Ltd i Ymgynghoriad 2025, t.3; Ymateb NALC i Ymgynghoriad 2025, t.2; Ymateb ACRE i Ymgynghoriad 2025, t.2; Ymateb Tesco Bank i Ymgynghoriad 2025, tt.3-4; Ymateb CWU i Ymgynghoriad 2025, t.9; Ymateb Ffederasiwn Cenedlaethol yr Isbostfeistri i Ymgynghoriad 2025, t.4; Ymateb Abacus Cards i Ymgynghoriad 2025, t.2; Ymateb GCA i Ymgynghoriad 2025, t.16; [✂]; [✂]; Ymateb Hallmark Cards i Ymgynghoriad 2025; Ymateb Card Factory i Ymgynghoriad 2025; Ymateb Paper Tiger i Ymgynghoriad 2025, t.1; Ymateb House of Cards i Ymgynghoriad 2025, t.2.

[200] Ymateb Consumer Scotland i Ymgynghoriad 2025, tt.37-43; Ymateb Pwyllgor Cynghori'r Alban i Ymgynghoriad 2025, t.4.

Rydym o'r farn y byddai'r farchnad i raddau helaeth yn diwallu'r angen rhesymol am ddibynadwyedd pe bai'r Post Brenhinol yn cyrraedd ei dargedau neu'n agos at eu cyrraedd. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod y Post Brenhinol wedi methu cyrraedd y targedau hynny yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac y gellir felly ystyried nad yw'r farchnad yn diwallu'r angen hwn ar hyn o bryd. Mae Ofcom wedi ymchwilio'n gyson i danberfformiad i bennu'r rhesymau dros lefel y gwasanaeth a ddarperir i ddefnyddwyr, ac wedi rhoi cosbau am fethu lle bo hynny'n briodol. Yn fwyaf diweddar, fe wnaethom roi dirwy o £10.5m i'r Post Brenhinol am ei fethiant yn 2023/24, ac agor ymchwiliad i danberfformiad yn 2024/25.

3.181 Rydym o'r farn bod methiant y Post Brenhinol i gyrraedd ei dargedau yn dystiolaeth o'r angen parhaus am reoleiddio i sicrhau bod defnyddwyr yn cael gwasanaeth cyffredinol dibynadwy. Ar wahân, rydym wedi ystyried a yw'r targedau presennol, a osodwyd bron i ddau ddegawd yn ôl, yn dal i gymell gwasanaeth o ansawdd uchel yn briodol, yn cefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol, ac yn sicrhau manteision i ddefnyddwyr gan wasanaeth cyffredinol sy'n adlewyrchu anghenion rhesymol defnyddwyr. Yn Adran 6, rydym yn nodi ein penderfyniadau ar lefel a natur y targedau hyn mewn gwasanaeth cyffredinol diwygiedig.

3.182 O ran pryderon penodol ynghylch danfon llythyrau'r GIG yn ddibynadwy ac yn brydlon, rydym yn nodi bod y Post Brenhinol a sefydliadau'r GIG wedi dod i gytundeb masnachol ym mis Ebrill 2025 ar gyfer creu cynnyrch arbennig a fydd yn sicrhau bod llythyrau'r GIG yn cael eu blaenoriaethu i'w danfon mewn cyfnodau o darfu ar wasanaethau, fel streiciau neu fethu â chyrraedd targedau danfon. Fodd bynnag, rydym yn awgrymu bod hyn yn ymwneud â mwy o angen i lythyrau'r GIG gyrraedd yn ddibynadwy, yn enwedig yn ystod cyfnodau o darfu ar wasanaethau er mwyn osgoi oedi sylweddol wrth eu danfon. Nid yw'n awgrymu na fyddai anghenion y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn cael eu diwallu pe bai llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth gan y GIG yn cyrraedd diwrnod yn hwyrach nag y maent i fod i gyrraedd ar hyn o bryd.

Pris

Safbwynt ein Ymgynghoriad

3.183 Yn ein Hymgynghoriad, fe wnaethom nodi bod ymchwil yn dangos bod cefnogaeth gref gan ddefnyddwyr i wasanaethau post fod ar gael am bris sy'n fforddiadwy ac yn unffurf. Roedd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn nodi'n gyson bod cost anfon llythyrau a fforddiadwyedd yn bwysig.[201]

3.184 Nodwyd gennym yn yr Ymgynghoriad bod yr USO yn mynnu bod y Post Brenhinol (fel y DUSP) yn darparu amrywiaeth o gynnyrch post i gartrefi ac i fusnesau am brisiau fforddiadwy. Yn ddiweddar, fe wnaethom adolygu fforddiadwyedd yn ein hadolygiad 2024 o'r capiau diogelu a ganfu nad yw'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn dioddef niwed sylweddol o ganlyniad i brisiau post, ac felly bod y prisiau presennol yn fforddiadwy i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr. Er bod yr adolygiad hwnnw wedi nodi y gallai rhai grwpiau agored i niwed wynebu heriau fforddiadwyedd, yn enwedig y rheini ar incwm isel a'r rheini sy'n anabl, nododd hefyd fod ein hymchwil ansoddol yn awgrymu bod y grwpiau hyn i raddau helaeth

[201] Ofcom, 2025. Ymgynghoriad: Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post t.54-57.

yn gallu ymdopi â gwariant angenrheidiol ar bost (ond nid bob amser). Roedd yr adolygiad yn nodi ein penderfyniad i gadw'r cap diogelu ar lythyrau Ail Ddosbarth am dair blynedd arall, er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn parhau i fod yn fforddiadwy.[202] Roedd hefyd yn dangos ein bwriad i ymgysylltu â'r Post Brenhinol i edrych ar ddulliau eraill o sicrhau fforddiadwyedd - er enghraifft, cynllun disgownt wedi'i dargedu ar gyfer defnyddwyr agored i niwed.

3.185 Roedd ein Hymgynghoriad yn nodi ein cynlluniau ar gyfer rhagor o waith cyn i'r cap diogelu ar lythyrau Ail Ddosbarth ddod i ben ym mis Mawrth 2027, a fydd yn ystyried opsiynau i sicrhau bod gwasanaethau USO yn parhau i fod yn fforddiadwy. Mae hyn yn cynnwys ystyried ymyriadau wedi'u targedu'n well na'r cap diogelu presennol, yn ogystal ag adolygu'n ehangach ein dull o reoleiddio prisiau gwasanaethau'r Post Brenhinol.

Ymatebion rhanddeiliaid

3.186 Roedd yr ymatebwyr yn cytuno'n gryf â'n canfyddiad bod fforddiadwyedd a chost anfon llythyrau yn bwysig iawn i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr.

3.187 Fodd bynnag, roedd cryn anghytuno â'n sylw bod y prisiau presennol yn fforddiadwy i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr.

3.188 Roedd cyhoeddwyr cylchgronau, sefydliadau etholiadol a chyrff cyhoeddus eraill, gweithredwyr mynediad, sefydliadau defnyddwyr, sefydliadau sy'n cynrychioli cymunedau gwledig, adwerthwyr cardiau cyfarch a Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn dadlau nad oedd post Dosbarth Cyntaf ac opsiynau danfon diwrnod canlynol eraill yn opsiynau fforddiadwy i fusnesau, sefydliadau ac unigolion a allai fod angen anfon llythyrau, cardiau a chylchgronau'n gyflymach neu iddynt gyrraedd ar ddydd Sadwrn pe bai newidiadau'n cael eu gwneud i amlder danfon Ail Ddosbarth.[203]

3.189 Dadleuodd CWU, adwerthwyr cardiau cyfarch, Swyddfa'r Post Cyfyngedig a sefydliadau defnyddwyr nad yw rhai defnyddwyr yn ystyried bod anfon post yn fforddiadwy ar hyn o bryd.[204]

3.190 Cyflwynodd grwpiau defnyddwyr ymchwil a oedd yn dangos bod fforddiadwyedd post yn broblem i rai defnyddwyr. Fodd bynnag, roedd rhai o'r canfyddiadau ymchwil hyn yn cyfeirio at broblemau fforddiadwyedd a achosir yn bennaf gan ddefnyddwyr incwm isel sydd angen prynu stampiau ar fyr rybudd a/neu mewn lluosrifau:

- Canfu CCNI fod 33% o'r ymatebwyr yng Ngogledd Iwerddon yn teimlo nad oedd y gost bresennol o anfon llythyr Ail Ddosbarth yn fforddiadwy.[205]

---

[202] Ofcom 2024. Adolygiad o gapiau diogelu Ail Ddosbarth.

[203] Ymateb Welsh Football Magazine i Ymgynghoriad 2025, t.2; Ymateb RHS i Ymgynghoriad 2025, t.3; [✂]; Ymateb Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol i Ymgynghoriad 2025, t.2; Ymateb y Comisiwn Etholiadol i Ymgynghoriad 2025, t.7; [✂]; Ymateb Quadient UK Ltd i Ymgynghoriad 2025, t.3; Ymateb CFH Docmail Ltd i Ymgynghoriad 2025, tt.2-3; Ymateb UK Mail i Ymgynghoriad 2025, t.2; Ymateb Citipost Mail i Ymgynghoriad 2025, tt.2-3; Ymateb CCNI i Ymgynghoriad 2025, tt.17–18; Ymateb CCP-ACOD i Ymgynghoriad 2025, t.9; Ymateb ACRE i Ymgynghoriad 2025, t.3; Ymateb Early Bird Designs i Ymgynghoriad 2025, tt.2-3; Ymateb House of Cards i Ymgynghoriad 2025, t.2; Ymateb Swyddfa'r Post Cyfyngedig i Ymgynghoriad 2025, t.5.

[204] Ymateb CWU i Ymgynghoriad 2025, tt.8-9; Ymateb Early Bird Designs i Ymgynghoriad 2025, t.3; Ymateb GCA i Ymgynghoriad 2025, t.12; [✂]; Ymateb Swyddfa'r Post Cyf i Ymgynghoriad 2025, tt.9-13; Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, t.21 a 27; Ymateb Consumer Scotland i Ymgynghoriad 2025, tt.44-45.

[205] Ymateb CCNI i Ymgynghoriad 2025, t.17.

- Canfu ymchwil gan Consumer Scotland fod 19% o ymatebwyr yn yr Alban yn dweud y byddai pryniant o'r fath (h.y. llyfr o wyth stamp Ail Ddosbarth) naill ai'n weddol anodd neu'n anodd iawn pe bai eu angen yn ystod yr wythnos nesaf.[206]
- Canfu ymchwil a gyflwynwyd gan Gyngor ar Bopeth fod pobl sydd â chyflyrau iechyd hirsefydlog yn llawer mwy tebygol o gael trafferth fforddio llyfr o stampiau Ail Ddosbarth a byddai un oedolyn o bob tri yn ei chael hi'n anodd fforddio llyfr o wyth stamp Dosbarth Cyntaf pe bai'n rhaid iddynt eu prynu yr wythnos nesaf, a byddai un o bob pedwar oedolyn yn y DU yn ei chael hi'n anodd fforddio llyfr o stampiau Ail Ddosbarth pe bai'n rhaid iddynt eu prynu yr wythnos nesaf.[207]
- Nododd ymchwil ansoddol gan CCNI, wrth ymateb i'r newidiadau arfaethedig i amlder danfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth, fod defnyddwyr wedi mynegi rhwystredigaeth ynghylch y syniad o brisiau'n cynyddu, ac amlder danfon a chasglu'n gostwng.[208]

3.191 Cyfeiriodd Swyddfa'r Post Cyfyngedig at ei hymchwil ar gardiau Nadolig, a oedd yn adleisio canfyddiadau ein traciwr post bod cynnydd mewn prisiau stampiau wedi arwain at rai defnyddwyr yn newid eu hymddygiad, fel newid cynnyrch neu anfon llai o lythyrau:

- Newidiodd chwarter yr ymatebwyr o leiaf rai o'u pryniannau stampiau ar gyfer cardiau Nadolig o Ddosbarth Cyntaf i Ail Ddosbarth oherwydd cynnydd mewn prisiau.[209]
- Anfonodd un o bob tri o bobl lai o gardiau Nadolig yn 2024 nag mewn blynyddoedd blaenorol oherwydd y cynnydd mewn prisiau stampiau.[210]

3.192 Yn yr un modd, canfu cyfweliadau ansoddol CCNI fod cost gynyddol stampiau, dros y blynyddoedd, yn atal rhai cyfranogwyr hŷn rhag anfon cynifer o gardiau Nadolig ag yr oeddent yn ei wneud ar un adeg, ac mewn rhai achosion roeddent yn cyfyngu ar anfon cardiau i bobl nad oeddent yn eu gweld yn rheolaidd yn unig. Nododd rhai ei bod yn costio mwy i anfon cerdyn nag y mae'n ei gostio i brynu un ac na allent gyfiawnhau'r gwariant yng nghanol yr argyfwng costau byw.[211]

3.193 Roedd Cyngor ar Bopeth hefyd yn dadlau bod defnyddwyr nid yn unig yn poeni am fforddiadwyedd, ond hefyd am werth am arian, gan gyfeirio at ei ymchwil diweddar a ganfu fod dros ddwy ran o dair (68%) o bobl yn meddwl bod y cynnydd pum mlynedd yng nghost stamp Dosbarth Cyntaf yn annheg.[212]

3.194 Roedd llawer o sefydliadau, gan gynnwys grwpiau defnyddwyr, gweithredwyr mynediad, cyhoeddwyr cylchgronau, adwerthwyr cardiau cyfarch, Swyddfa'r Post Cyf ac undebau hefyd yn dadlau nad yw ein casgliad dros dro bod y farchnad yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr ynghylch pris yn gywir oherwydd diffyg opsiynau postio fforddiadwy,

---

[206] Ymateb Consumer Scotland i Ymgynghoriad 2025, t.44.
[207] Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, t.21. a t.23.
[208] Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon, 2024. Qualitative study on the impact on consumers of changes to Royal Mail's universal service obligation, t.24.
[209] Swyddfa'r Post, 2025. Stampiau Nadolig, sleid 4.
[210] Swyddfa'r Post, 2025. Stampiau Nadolig, sleid 3.
[211] Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon, 2024. Qualitative study on the impact on consumers of changes to Royal Mail's universal service obligation, t.17.
[212] Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, t.25.

yn enwedig ar gyfer defnyddwyr a busnesau y mae angen iddynt anfon llythyrau brys, ond nad ydynt yn gallu fforddio gwasanaethau mynediad Dosbarth Cyntaf na D+2.[213]

Ein hasesiad

3.195 Mae ein hymchwil yn gyson wedi canfod bod gallu anfon post am bris fforddiadwy a chyffredinol yn bwysig iawn i'r mwyafrif o ddefnyddwyr, hyd yn oed y defnyddwyr hynny mae cost post yn rhan fach iawn o wariant cyffredinol eu cartref. Nodwn fod prisiau stampiau Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth wedi codi'n ddiweddar. Mae stampiau Dosbarth Cyntaf wedi codi o £1.10 ym mis Ebrill 2023 i £1.70 ar 21 Ebrill 2025 ac mae stampiau Ail Ddosbarth wedi codi o £0.75 ym mis Ebrill 2023 i £0.87 ym mis Ebrill 2025. Fodd bynnag, er gwaethaf hynny a'r pwysigrwydd uchel a nodwyd o ran fforddiadwyedd anfon post, mae gwariant cyfartalog aelwydydd ar bost yn dal yn isel iawn. Ar gyfartaledd, mae aelwyd yn y DU yn gwario £0.60c yr wythnos neu 0.11% o wariant wythnosol ei aelwyd ar wasanaethau post sy'n cynrychioli cyfran fach iawn a swm absoliwt bach iawn o gyfanswm gwariant defnyddwyr.[214] Ar ben hynny, mae'r ffigurau hyn yn berthnasol i'r gwariant cyfartalog ar yr holl wasanaethau post, gan gynnwys parseli, sy'n ddrutach i'w hanfon na llythyrau. Felly, mae'r gwariant cyfartalog ar lythyrau yn debygol o fod gryn dipyn yn llai.

3.196 Yn ddiweddar, fe wnaethom adolygu fforddiadwyedd cynnyrch gwasanaeth cyffredinol yn ein Datganiad ar Adolygiad Ionawr 2024 o'r capiau diogelu Ail Ddosbarth. Fe wnaethom nodi nad oes un dull gweithredu o ran fforddiadwyedd sy'n gallu bod yn ddiffiniadol ynghylch a yw pris nwydd neu wasanaeth yn fforddiadwy ai peidio. Mae hyn, yn rhannol, oherwydd bod incwm a defnydd, ac i ba raddau y mae defnyddwyr yn ystyried bod eu defnydd yn hanfodol, yn amrywio'n sylweddol. Fe wnaethom egluro mai'r ffordd fwyaf priodol o asesu fforddiadwyedd gwasanaethau post oedd ystyried a yw rhywun yn dioddef niwed sylweddol o ganlyniad i'r prisiau presennol. Roeddem o'r farn bod asesu a yw rhywun wedi gwario llai ar bost oherwydd pris gwasanaethau post neu wedi parhau i brynu gwasanaethau post ond wedi gorfod gwario llai ar wariant hanfodol arall, yn brocsi priodol ar gyfer penderfynu a ydynt wedi dioddef niwed sylweddol o ganlyniad i brisiau post.[215]

3.197 Ar y sail hon, fe wnaethom benderfynu cadw cap ar bris llythyrau Ail Ddosbarth i sicrhau eu bod yn fforddiadwy a gwelsom fod y cynhyrchion gwasanaeth cyffredinol eraill yn fforddiadwy. Roedd hyn yn cynnwys canfod bod Dosbarth Cyntaf yn fforddiadwy. Roeddem yn ystyried mai ond yn anaml y mae'n hanfodol neu'n bwysig anfon llythyr Dosbarth Cyntaf, sy'n golygu nad yw'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn dioddef niwed sylweddol o ganlyniad i

---

[213] Ymateb CCNI i Ymgynghoriad 2025, t.19; Ymateb Consumer Scotland i Ymgynghoriad 2025, tt.44-45; Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025; tt.21-27; Ymateb Quadient UK Ltd i Ymgynghoriad 2025, t.3; Ymateb CFH Docmail Ltd i Ymgynghoriad 2025, tt.2-3; Ymateb BBS Ltd i Ymgynghoriad 2025, t.3; Ymateb Cymdeithas Defnyddwyr Post i Ymgynghoriad 2025, t.4; Ymateb Welsh Football Magazine i Ymgynghoriad 2025, t.2; [✂]; Ymateb Early Bird Designs i Ymgynghoriad 2025, tt.2-3; Ymateb GCA i Ymgynghoriad 2025, t.16; Ymateb Hallmark Cards i Ymgynghoriad 2025; Ymateb Card Factory i Ymgynghoriad 2025; Ymateb Paper Tiger i Ymgynghoriad 2025; Ymateb House of Cards i Ymgynghoriad 2025, t.2; Ymateb Swyddfa'r Post Cyfyngedig i Ymgynghoriad 2025, t.5; Ymateb Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri i Ymgynghoriad 2025, t.4.

[214] ONS, 2024. Gwariant teuluoedd yn y DU - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol: Ebrill 2022 i Mawrth 2023, Ffigur 3: Gwariant wythnosol cyfartalog aelwydydd yn y DU, y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 2023 (Ffynhonnell: Arolwg Costau Byw a Bwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol).

[215] Ofcom, 2024. Adolygiad o gapiau diogelu Ail Ddosbarth.

brisiau Dosbarth Cyntaf. Roeddem yn cydnabod y bydd rhai achosion lle mae angen cyflymder danfon Dosbarth Cyntaf a allai, ynghyd â'r pris, arwain at broblemau fforddiadwyedd i ddefnyddwyr. Fodd bynnag, roeddem o'r farn mai dim ond mewn set gyfyngedig o amgylchiadau y mae hyn yn digwydd pan fydd defnyddiwr yn wynebu anhawster ariannol sylweddol neu ar incwm isel iawn a bod angen iddo anfon llythyrau Dosbarth Cyntaf yn aml. Dywedasom na fydd post byth yn fforddiadwy i rai defnyddwyr, beth bynnag fo'r pris.[216]

3.198 Nid yw'n ymddangos bod tystiolaeth a gyflwynwyd gan ymatebwyr ar fforddiadwyedd yn cefnogi casgliad bod prisiau wedi mynd yn anfforddiadwy ers mis Ionawr 2024. Mae ymchwil a gyflwynwyd gan sefydliadau defnyddwyr a Swyddfa'r Post Cyf mewn ymateb i'n Hymgynghoriad yn dangos y gallai rhai defnyddwyr, yn enwedig y rheini ar incwm isel, ei chael hi'n anodd fforddio stampiau, yn enwedig mewn lluosrifau, ar adeg o ddefnydd uchel fel Nadolig neu ar fyr rybudd. Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau ein hymchwil ein hunain.[217] Roedd rhywfaint o'r ymchwil a gyflwynwyd gan randdeiliaid yn dangos bod defnyddwyr yn ystyried bod Dosbarth Cyntaf yn cynnig gwerth gwael am arian neu bod cynnydd mewn prisiau Dosbarth Cyntaf yn annheg, yn hytrach na darparu tystiolaeth o broblemau fforddiadwyedd o reidrwydd. Er bod nifer o ymatebwyr i'r ymgynghoriad wedi cyfeirio at y ffaith nad yw gwasanaethau Dosbarth Cyntaf yn fforddiadwy'n ehangach i ddefnyddwyr busnes a phreswyl, nid ydynt wedi darparu unrhyw ymchwil i ddangos y farn hon.

3.199 Mae ein data tracio post diweddaraf yn dangos y gallai costau byw a'r cynnydd diweddar mewn prisiau stampiau fod wedi arwain at newid yn agweddau ac ymddygiad rhai defnyddwyr dros y blynyddoedd diwethaf, fel anfon llai o bost, defnyddio cynnyrch rhatach neu leihau gwariant mewn meysydd eraill. Fodd bynnag, mae ein data o fis i fis o'n traciwr yn dangos bod digwyddiadau hunan-gofnodedig o ran materion fforddiadwyedd sy'n ymwneud â llythyrau (yn gyffredinol ac yn benodol ar gyfer Dosbarth Cyntaf) wedi aros yn weddol gyson ers diwedd 2023.[218] Mae hyn wedi parhau i fod yn wir er gwaethaf y cynnydd mewn prisiau ers mis Ionawr 2024.

3.200 Felly, rydym o'r farn ei bod yn dal yn briodol dibynnu ar ein dadansoddiad o fis Ionawr 2024 ymlaen, er gwaethaf y cynnydd diweddar mewn prisiau Dosbarth Cyntaf. O'r herwydd, rydym o'r farn bod y farchnad i raddau helaeth yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr o ran gwasanaeth cyffredinol sy'n fforddiadwy ac yn gyffredinol.

3.201 Rydym yn deall bod y pryderon rhanddeiliaid ynghylch prisio a fforddiadwyedd y gwasanaeth post yn dal yn flaenoriaeth barhaus i Ofcom. Felly, byddwn yn adolygu prisiau a fforddiadwyedd yng ngham nesaf ein gwaith, fel rydym wedi ymrwymo iddo yn ein Cynllun Gwaith 24/25. Bwriadwn gyhoeddi ymgynghoriad erbyn Ch4 2025/26. Rydym yn manylu mwy ar hyn yn Adran 9.

---

[216] Ofcom, 2024. Adolygiad o gapiau diogelu Ail Ddosbarth, tt.5.116-5.137.

[217] Mae'r canfyddiadau hyn yn ymwneud yn bennaf â Dosbarth Cyntaf ond mae rhai defnyddwyr, yn gyffredinol y rheini sydd ar incwm isel iawn neu incwm sefydlog, hefyd yn sôn am broblemau fforddiadwyedd gydag Ail Ddosbarth.

[218] Arolwg Tracio Post Preswyl, 2023-2024.

Ein casgliadau

Safbwynt ein Ymgynghoriad

3.202 Yn ein Hymgynghoriad, ein casgliad dros dro ar anghenion rhesymol defnyddwyr post oedd y bydd angen i unigolion a busnesau bach a chanolig ddefnyddio gwasanaethau post bob amser i anfon a derbyn llythyrau a bod angen gwasanaeth dibynadwy, fforddiadwy ac aml arnynt. Mae dibynnu ar post llythyrau wedi gostwng ac nid oes angen i'r rhan fwyaf o lythyrau maent yn eu hanfon ac yn eu derbyn gael eu danfon chwe diwrnod yr wythnos (gan gynnwys ar ddydd Sadwrn). Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr hefyd yn fodlon derbyn bod llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth yn cael eu danfon yn arafach. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd mae ar ddefnyddwyr angen gwasanaeth danfon cyflymach y diwrnod canlynol.

3.203 Yn ein hymgynghoriad, fe wnaethom asesu marchnad llythyrau'r DU yn erbyn anghenion rhesymol defnyddwyr post roeddem wedi'u nodi. Daethom i'r casgliad dros dro bod y farchnad bresennol yn bodloni ac yn mynd y tu hwnt i anghenion rhesymol defnyddwyr yn gyffredinol o ran pa mor aml caiff llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth eu danfon.

Safbwynt ein Datganiad

3.204 Fel y nodwyd ym mharagraff 3.125, yng ngoleuni ymatebion rhanddeiliaid, ac yn gyson â natur yr asesiad y mae'n rhaid i ni ei gynnal o dan adran 30(3) y Ddeddf, rydym yn nodi isod ein casgliadau ar y canlynol: (a) a ydym yn credu bod yr anghenion a nodwyd yn rhesymol; a (b) i ba raddau y mae'r farchnad yn diwallu'r anghenion rhesymol hyn. Mae'r casgliadau hyn wedi'u nodi'n llawnach yn Atodiad A3.

3.205 Rydym o'r farn bod gennym sylfaen dystiolaeth gref a chyson o dros ddeng mlynedd o ymchwil a dadansoddi defnydd, barn ac agweddau defnyddwyr at bost i gefnogi ein casgliadau ar anghenion rhesymol defnyddwyr. Nid yw ymchwil a gyflwynwyd gan ymatebwyr yn anghyson â'n casgliadau ar anghenion defnyddwyr.

3.206 Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael i ni ac ymatebion rhanddeiliaid, rydym wedi canfod y bydd angen i ddefnyddwyr ddefnyddio gwasanaethau post bob amser i anfon a derbyn llythyrau, ac mae'n rhesymol bod angen gwasanaeth llythyrau dibynadwy arnynt sy'n fforddiadwy ac ar gael am bris unffurf.

3.207 Er ei bod yn rhesymol i ddefnyddwyr (er yn anaml iawn) fod angen gwasanaeth blaenoriaeth diwrnod canlynol, chwe diwrnod yr wythnos, cyn belled bod hyn ar gael, nid oes ganddynt angen rhesymol i lythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth gael eu danfon ar ddydd Sadwrn. Nid oes angen i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr gael llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth cyn pen tri diwrnod gwaith bob amser, er bod lleiafrif o ddefnyddwyr y gallai fod angen hyn arnynt yn rhesymol.

3.208 Mae marchnad llythyrau bresennol y DU yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr i raddau helaeth, ac ar y cyfan, yn rhagori ar anghenion rhesymol defnyddwyr yn achos amlder danfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth. Rydym yn disgwyl y byddai'r farchnad yn parhau i ddiwallu anghenion rhesymol defnyddwyr i raddau helaeth pe bai llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth yn cael eu danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos.

3.209 Rydym yn cydnabod bod rhai grwpiau, oherwydd eu nodweddion, yn dibynnu mwy ar bost ond mae ein hymchwil yn dangos bod eu hanghenion, yn enwedig mewn perthynas â chyflymder danfon llythyrau Ail Ddosbarth a phost swmp nad yw'n frys, yn eithaf tebyg i'r

rhan fwyaf o ddefnyddwyr eraill. Rydym yn dod i'r casgliad bod y farchnad hefyd yn diwallu eu hanghenion i raddau helaeth heddiw ac y byddai'n parhau i wneud hynny drwy newid amlder danfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth i lythyrau bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos.

3.210 Rydym hefyd yn derbyn efallai na fydd anghenion rhesymol cyfran fach o ddefnyddwyr yn cael eu diwallu drwy ddanfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Fodd bynnag, i'r graddau y mae hyn yn digwydd, rydym yn disgwyl mai dim ond ar yr achlysuron prin iawn y byddai angen iddynt anfon llythyr i gyrraedd ar ddydd Sadwrn ac na allant fforddio Dosbarth Cyntaf.

4. Cynaliadwyedd ariannol yr USO

Pwrpas yr adran hon

Mae'r adran hon yn egluro ein dull o gyflawni ein dyletswydd i ystyried cynaliadwyedd ariannol ac effeithlonrwydd darpariaeth y gwasanaeth post cyffredinol. Mae hefyd yn nodi gwybodaeth am sefyllfa ariannol bresennol y Post Brenhinol ac yn trafod y ffyrdd y gellid gwneud arbedion net o newidiadau i gwmpas yr USO.

Yn fyr

Rydym yn ystyried bod Enillion cyn Llog a Threth (EBIT) o fewn yr ystod 5% i 10% yn ddangosydd cyntaf o ran a yw'r Busnes a Gofnodwyd (sy'n cynnwys y rhwydwaith sy'n darparu'r gwasanaeth cyffredinol) yn ennill elw masnachol. Mae cyflawni elw masnachol yn dangos bod y Busnes a Gofnodwyd, ac felly darparu'r gwasanaeth cyffredinol, yn debygol o fod yn gynaliadwy'n ariannol yn y tymor hirach.

Mae ein dadansoddiad yn dangos y bydd perfformiad ariannol y Post Brenhinol yn parhau i waethygu heb ddiwygio brys. [✂] Mae'r ffactorau hyn yn awgrymu, heb weithredu, fod yna risg sylweddol i gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol ac felly darpariaeth y gwasanaeth cyffredinol ei hun.

Rydym o'r farn y gallai ein cynigion, fel y nodir yn ein Hymgynghoriad, arwain at arbedion net sylweddol a fyddai'n cael effaith gadarnhaol sylweddol ar gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol.

Ein dull o fonitro cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol

4.1 Mae adran 29 o'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn gweithredu ei swyddogaethau o ran y gwasanaethau post mewn ffordd a gredwn fydd yn diogelu darpariaeth gwasanaeth post cyffredinol. Wrth gyflawni'r ddyletswydd honno, rhaid i ni roi sylw i'r angen bod darparu gwasanaeth post cyffredinol yn gynaliadwy yn ariannol ac yn effeithlon. Er mwyn ein helpu i gyflawni'r ddyletswydd hon, mae gennym drefn fonitro sy'n defnyddio gwybodaeth ariannol a gweithredol fisol, chwarterol a blynyddol a gyflwynir gan y Post Brenhinol o dan ein gofynion adrodd rheoleiddiol parhaus, yn ogystal â'n pwerau casglu gwybodaeth.

4.2 Mae Adran 29(4) o'r Ddeddf yn datgan bod yr angen i wasanaeth cyffredinol fod yn gynaliadwy yn ariannol yn cynnwys yr angen i ddarparwr y gwasanaeth cyffredinol wneud elw masnachol rhesymol (ar unrhyw wariant a gaiff am ddarparu'r gwasanaeth cyffredinol neu mewn cysylltiad â hynny). Felly, rydym yn asesu cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol drwy ystyried a ellid disgwyl i 'Fusnes a Gofnodwyd' y Post Brenhinol ennill elw masnachol rhesymol. Mae'r Busnes a Gofnodwyd yn cynnwys y rhwydwaith cyffredin sy'n darparu'r gwasanaeth cyffredinol yn ogystal â gwasanaethau sydd y tu allan i gwmpas y

gwasanaeth cyffredinol fel post swmp adwerthu, mynediad a pharseli cyfrifon[219] (gweler Ffigur 4.1 isod sy'n dangos sut mae'r USO a'r Busnes a Gofnodwyd yn cyd-fynd â grŵp corfforaethol International Distribution Services Plc (IDS)).

Ffigur 4.1: Busnes a Gofnodwyd, Grŵp y Post Brenhinol, International Distributions Services (IDS)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom

4.3 Fel roeddem wedi'i egluro yn ein Hymgynghoriad, mae'r gweithrediadau a'r gweithgareddau sy'n ymwneud â chynnyrch USO a dim-USO yn gorgyffwrdd yn fawr ac maent yr un fath gan fwyaf mewn rhai rhannau o'r rhwydwaith cyffredin yn y Busnes a Gofnodwyd. Fel sy'n cael ei egluro yn Adran 2, rydym o'r farn bod perfformiad ariannol y Busnes a Gofnodwyd yn gysylltiedig yn gynhenid â chynaliadwyedd y gwasanaeth cyffredinol, felly yn y pen draw os nad yw'r Busnes a Gofnodwyd yn gallu gweithredu fel cwmni masnachol proffidiol, yna mae'r model presennol o ddarparu gwasanaeth cyffredinol yn methu. Felly, rydym o'r farn mai cyfradd elw'r Busnes a Gofnodwyd yn ei gyfanrwydd

[219] Mae parseli cyfrifon yn wasanaeth parseli sy'n cael ei ddefnyddio gan fusnesau i anfon nwyddau wedi'u prynu at eu cwsmeriaid.

yw'r dangosydd mwyaf priodol o'r gyfradd elw wrth ddarparu'r gwasanaeth cyffredinol, ac mae'n ddangosydd allweddol o gynaliadwyedd ariannol tymor hir y gwasanaeth cyffredinol.

4.4 Yn ei ymateb i'n hymgynghoriad, roedd rhanddeiliad [✂] yn dadlau, oherwydd bod costau a refeniw'r Busnes a Gofnodwyd yn cynnwys y "gwasanaeth cyffredinol monopoli ar gyfer llythyrau a gwasanaethau parseli cystadleuol", ei fod yn "creu cymhelliant sylweddol i gamddyrannu costau".[220]

4.5 Yn ein Hamod Cyfrifyddu USP a'n Canllawiau Cyfrifyddu Rheoleiddiol, rydym yn rhagnodi egwyddorion a rheolau i'r Post Brenhinol eu dilyn wrth ddyrannu costau rhwng gwasanaethau USO a gwasanaethau nad ydynt yn rhai USO a ddarperir gan y Busnes a Gofnodwyd.[221] Mae'r egwyddorion a'r rheolau hyn yn helpu i sicrhau bod y Post Brenhinol yn dyrannu costau'n wrthrychol, yn gywir, yn gyson, ac yn seiliedig ar egwyddorion cyfrifyddu cadarn fel achosiaeth a realiti gweithredol yn ogystal â set o reolau cyfrifyddu manylach.

4.6 Mae'r dyraniadau cost hyn yn ddefnyddiol mewn rhai ystyriaethau rheoleiddio, er enghraifft prisio. Fodd bynnag, fel sy'n cael ei egluro uchod, nid oes angen dyrannu costau ar gyfer ein gwaith monitro parhaus ar gynaliadwyedd ariannol yr USO. Yn benodol, nid oes eu hangen ar gyfer monitro cyfradd adenillion y Busnes a Gofnodwyd, lle rydym yn ystyried maint EBIT y Busnes a Gofnodwyd yn ei gyfanrwydd, ac nid unrhyw grwpiau cynnyrch penodol (gweler isod am esboniad pellach).

4.7 Nid yw dyraniadau costau'r Post Brenhinol chwaith yn chwarae unrhyw ran bwysig yn ein gwaith modelu o'r gwaelod i fyny ein hunain o gostau'r Busnes a Gofnodwyd, ac rydym wedi defnyddio hyn wrth amcangyfrif effaith y newidiadau i gwmpas yr USO a chost net yr USO. Fel rydym yn egluro yn Adran 8, mae ein model o'r gwaelod i fyny yn fodel gweithredol sy'n cyfrifo'r newidiadau mewn costau wrth i niferoedd gwahanol grwpiau cynnyrch newid, gan gynnwys parseli a llythyrau a chynnyrch USO a dim-USO.

4.8 Yn Atodiad 7 ein Cais am Fewnbwn, fe wnaethom hefyd egluro'n fanwl pam na fyddai methodolegau sy'n ymwneud â dyrannu costau, er eu bod yn ddefnyddiol ar gyfer monitro agweddau ar brisio, yn addas ar gyfer asesu cost net yr USO.[222] Mae hyn yn bennaf oherwydd bod cynnyrch USO a dim-USO yn cael eu darparu dros yr un rhwydwaith, sy'n golygu bod llawer o'r costau'n gyffredin ar draws pob cynnyrch.

[220] [✂]
[221] Ofcom, Atodiad 2:Hysbysiad Statudol - addasiadau i'r Amod Cyfrifyddu USP (USPAC) a Rhifyn 5 y Canllawiau Cyfrifyddu Rheoleiddiol (RAG)
[222] Ofcom, 2024. Gweler Atodiad 7 - Ein dull o gyfrifo costau net. Paragraffau A7.24 i A7.37

4.9 Fel yr eglurir uchod, rydym yn defnyddio EBIT y Busnes a Gofnodwyd fel y metrig mwyaf priodol ar gyfer y gyfradd elw.[223] Rydym yn ystyried bod maint EBIT o fewn yr ystod 5% i 10% yn ddangosydd cyntaf o ran a yw'r Busnes a Gofnodwyd yn ennill elw masnachol.[224]

4.10 Dywedodd ymatebydd [✂] hefyd yn ei ymateb i'n hymgynghoriad fod adenillion o 5-10% yn rhy uchel o'i gymharu â monopolïau eraill sy'n cael eu rheoleiddio.[225]

4.11 Rydym wedi pennu'r ystod maint EBIT o 5-10% ar ôl ystyried maint EBIT nifer o USPs Ewropeaidd, fel Deutsch Post a Post NL, dros nifer o flynyddoedd. Rydym wedi dewis yr USPs cymharol hyn ar sail meini prawf fel cyfalaf preifat, sgôr credyd buddsoddi ac enw da am effeithlonrwydd, a hefyd i ba raddau y maent yn cael eu moderneiddio. Rydym wedi ailadrodd yr ymarfer hwn sawl gwaith ers i ni ddechrau rheoleiddio'r post yn 2011.[226] Mae'r dystiolaeth yn y farchnad wedi parhau i gefnogi'r ystod 5-10% fel ystod resymol ar gyfer cyfradd enillion masnachol.

4.12 Mae cyflawni cyfradd elw fasnachol yn dangos bod y Busnes a Gofnodwyd yn gynaliadwy yn ariannol, h.y. mae modd ei ariannu'n fasnachol. Os nad oedd disgwyl i'r Busnes a Gofnodwyd gyrraedd EBIT o 5% o leiaf o fewn cyfnod estynedig, neu os nad oedd unrhyw obaith rhesymol y byddai'n gwneud o leiaf 5%, yna ni fyddem yn disgwyl i'r Busnes a Gofnodwyd fod yn gynaliadwy'n ariannol.

4.13 Yn ogystal â maint EBIT, rydym yn defnyddio amrywiaeth o wybodaeth, gan gynnwys cynlluniau busnes a rhagolygon llif arian, i asesu gallu (i) y Grŵp Perthnasol (IDS a'i holl is-gwmnïau uniongyrchol ac anuniongyrchol), a (ii) y Post Brenhinol (is-gwmni IDS a'r darparwr gwasanaeth cyffredinol dynodedig), i fodloni eu rhwymedigaethau ariannol ac i barhau i fod mewn sefyllfa i ddarparu'r gwasanaeth cyffredinol yn y tymor byr i ganolig yn ogystal â'r tymor hirach.

4.14 Yn ei ymateb, roedd y Post Brenhinol yn dadlau y dylem ystyried "trywydd rheoleiddio", a bod y drefn fonitro bresennol wedi "methu rhoi darlun cynnar o faterion cynaliadwyedd ariannol yn y sector."[227] Roedd yn cynnig amrywiaeth o gydrannau a fyddai'n darparu "system rhybudd cynnar" yn lle hynny.

4.15 Fel yr esboniwyd uchod, rydym yn monitro maint EBIT y Busnes a Gofnodwyd yn rheolaidd fel prif ddangosydd cynaliadwyedd ariannol, yn erbyn yr ystod meincnod masnachol o 5-10%. Rydym hefyd yn ystyried nifer o fetrigau eraill yn rheolaidd, gan gynnwys rhagolygon llif arian misol a chwarterol ar gyfer y grŵp IDS a'r Post Brenhinol.

4.16 Rydym wedi defnyddio'r dull monitro ariannol rydym wedi'i nodi uchod ers mis Mawrth 2012. Rydym wedi adolygu ac ymgynghori'n gyhoeddus arno ar wahanol adegau ers

---

[223] Rydym yn defnyddio EBIT fel metrig elw ar werthiant yn hytrach na metrig elw ar asedau sy'n gyffredin mewn diwydiannau rheoledig eraill fel telegyfathrebiadau a dŵr. Y prif reswm yw bod y Post Brenhinol yn fusnes llafurddwys, ac nid yn fusnes sy'n defnyddio llawer o asedau. Mae hynny'n golygu nad yw'r metrig elw ar asedau yn briodol nac yn ymarferol i'r Post Brenhinol.

[224] Cafodd ein hadolygiad diweddaraf o'r ystod EBIT 5-10% ei gynnal yn ystod ein Hadolygiad o Reoliadau'r Gwasanaethau Post 2022. Fe wnaethom ystyried proffidioldeb nifer o ddarparwyr gwasanaeth cyffredinol yn Ewrop a oedd yn diwallu ein meini prawf i fod yn gymharydd da dros gyfnod. Mae manylion ein hadolygiad ar gael yn Atodiad 8 Adolygiad 2022 o Reoliadau'r Gwasanaethau Post.

[225] [✂]

[226] Ofcom, 2022. Adolygu Rheoliadau'r Gwasanaeth Post, Atodiad 8.

[227] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, Adran 5.

hynny.[228] Rydym wedi diweddaru rhai manylion am y dull gweithredu ar hyd y ffordd, gan gynnwys yr wybodaeth yr ydym yn ei chasglu drwy ein gofynion adrodd ariannol rheoleiddiol. Fodd bynnag, mae prif egwyddorion y dull monitro a nodir uchod wedi aros yn addas i'r diben.

4.17 Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi bod yn poeni mwy a mwy am berfformiad a sefyllfa ariannol y Post Brenhinol. Rydym hefyd wedi nodi'r newidiadau yn strwythur y grŵp IDS (yn enwedig gwahanu cwmnïau GLS oddi wrth y Post Brenhinol)[229] yn ogystal â'r newid yn ei berchnogaeth ar ôl i EP Group gymryd drosodd yn ddiweddar.[230] Mae'n bwysig i ni ddeall sut mae'r newidiadau hyn wedi effeithio ar y Post Brenhinol, a sut gallai effeithio arno yn y dyfodol, fel y DUSP, yn ogystal â chynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol. Mewn ymateb i'r datblygiadau hyn, rydym wedi bod yn gwneud mwy o weithgareddau monitro ac yn canolbwyntio ymhellach ar y meysydd sydd, yn ein barn ni, â risg uwch nag o'r blaen, gan gynnwys sefyllfa ariannol y Post Brenhinol a chymorth ariannol parhaus gan IDS.

4.18 Rydym o'r farn bod y gweithgareddau monitro hyn, gyda'i gilydd, yn cynnwys system rhybuddio cynnar ddigonol.

4.19 Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, dywedodd y Post Brenhinol fod "Un adnodd allweddol i asesu iechyd parhaus y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol yw drwy asesiad cost net rheolaidd".[231] Yn ein Cais am Fewnbwn, fe wnaethom ddisgrifio ac ystyried dulliau gweithredu ar gyfer yr asesiad cost net, y cyfeirir ato yn y Ddeddf fel adolygiad o faich ariannol yr USO. Mae'r adolygiad o faich ariannol yn broses sydd ar gael o dan y Ddeddf mewn amgylchiadau lle mae pryderon cynaliadwyedd ariannol eisoes wedi codi. Prif amcan ymarfer o'r fath yw asesu'r angen am gyllid ychwanegol.[232] Nid yw'r adolygiad yn addas fel arf monitro a gynhelir yn rheolaidd, er enghraifft, i'w gynnal yn flynyddol i weithredu fel system rhybudd cynnar. Fel sy'n cael ei egluro uchod, mae ein trefn fonitro yn darparu system rhybudd cynnar ddigonol. Yn wahanol i'n trefn fonitro, lle rydym yn cynnal adolygiadau mor aml â bob mis, mae adolygiad o faich ariannol yn golygu proses hir a fyddai'n cael ei dylunio i gefnogi penderfyniadau'r Llywodraeth ar newidiadau

---

[228] Adolygiad 2022 o Reoleiddio'r Post ac Ymgynghoriad cysylltiedig; Adolygiad o adroddiadau ariannol rheoleiddiol ar gyfer y Post Brenhinol (Cam II); 2019 ac Ymgynghoriad cysylltiedig, Adroddiadau ariannol rheoleiddiol ar gyfer y Post Brenhinol, 2017; Sicrhau'r Gwasanaeth Post Cyffredinol, 2012 ac Ymgynghoriad cysylltiedig.

[229] Ar 28 Mehefin 2021, cafodd y cwmni a elwir bellach yn IDS Holdco (a oedd yn cynnwys yr is-gwmni GLS) ei drosglwyddo o'r Post Brenhinol i IDS. Ar 31 Awst 2021, cafodd y Post Brenhinol ei drosglwyddo i IDS Holdco. Ar hyn o bryd, mae'r Post Brenhinol a GLS yn is-gwmnïau i IDS Holdco sy'n is-gwmni i IDS. Gweler Nodyn 6 i Ddatganiadau Ariannol Cyfunol 2021-22.

[230] Datganwyd cynnig EP UK Bidco (EP) o £3.70 fesul cyfranddaliad yn ddiamod ar 30 Ebrill 2025. Dywedodd EP yn y ddogfen gynnig y gallai IDS elwa o "fynediad mwy hyblyg at gyfalaf buddsoddi". Fodd bynnag, efallai mai dim ond yn ystod y misoedd nesaf y bydd y newidiadau'n glir gan fod y pryniant wedi'i gwblhau erbyn hyn. Gweler IDS, 2024, Ch1 Diweddariad Masnachu hyd at ddiwedd mis Mehefin 2024.

[231] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, t.5.

[232] Pan fydd Ofcom yn canfod bod baich ariannol annheg, efallai y byddwn yn argymell un neu fwy o'r canlynol: cynnal adolygiad o'r gofynion sylfaenol o dan adran 34; mynnu bod defnyddwyr post a/neu weithredwyr yn gwneud cyfraniadau i dalu rhywfaint neu'r cyfan o'r baich; a/neu wneud penderfyniad caffael, sy'n benderfyniad gan Ofcom ynghylch a ellid darparu'r USO mewn ffordd a fyddai'n golygu na fyddai baich ariannol annheg, neu lai annheg, yn cael ei roi wrth gydymffurfio â'r USO (adran 45(8) y Ddeddf).

deddfwriaethol i'r gwasanaeth cyffredinol a/neu gymorthdalu'r gwasanaeth cyffredinol drwy broses gaffael neu gronfa diwydiant.

4.20 Yn olaf, rydym o'r farn, yn ogystal â'n trefn fonitro, ei bod yn ddyletswydd ar y Post Brenhinol i fynd ati'n rhagweithiol i ganfod a rhoi gwybod i ni am bryderon ynghylch cynaliadwyedd ariannol. Mater i'r Post Brenhinol yw egluro ei weledigaeth o ran sut mae angen i'r busnes ddatblygu dros amser i sicrhau bod y gwasanaeth cyffredinol yn gynaliadwy yn ariannol. Mae ein rheoliadau'n mynnu bod y Post Brenhinol yn darparu'r weledigaeth hon i ni, yn rhannol, ar ffurf rhagolygon ariannol blynyddol sy'n ofynnol o dan ein fframwaith adrodd rheoleiddiol. Rydym hefyd yn disgwyl i'r Post Brenhinol roi gwybodaeth i ni (a'r Llywodraeth) am unrhyw bryderon, ynghyd â chynigion i fynd i'r afael â'r pryderon hynny, mewn da bryd ac mewn ffordd gyfrifol.

Perfformiad ariannol presennol y gwasanaeth cyffredinol

Cynaliadwyedd ariannol

Ein hasesiad o gynaliadwyedd ariannol

4.21 Yn Adroddiad Monitro Post 2023/24, rydym yn nodi canlyniadau ein gwaith monitro ar berfformiad ariannol y Post Brenhinol yn 2023/24. Roedd y Post Brenhinol wedi gwneud colled, gydag EBIT o -£458m sef cyfradd EBIT -6.3% am y Busnes a Gofnodwyd.[233] Roedd hyn yn deillio o gynnydd mewn costau yn rhannol oherwydd y dyfarniad tâl y cytunwyd arno ym mis Gorffennaf 2023.[234] Roedd cynnydd bach mewn refeniw ar draws parseli a llythyrau ond fe wnaethom nodi nad oedd y Post Brenhinol wedi adennill y gyfran o'r farchnad parseli a oedd ganddo cyn y streiciau diwydiannol yn 2022. Mae'r gostyngiad parhaus yn nifer y llythyrau hefyd wedi bod yn ffactor allweddol yn yr heriau perfformiad mae'r Busnes a Gofnodwyd yn eu hwynebu – roedd nifer y llythyrau gyda chyfeiriad atynt yn y DU wedi gostwng 9.0% yn 2023/24 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

4.22 Fel y nodir yn yr Ymgynghoriad, roedd cyhoeddiad IDS o'i ganlyniadau Ch3 2024/25 yn dangos gwelliant o'i gymharu â 2023/24. Roedd pethau wedi gwella oherwydd cynnydd mewn refeniw o ganlyniad i berfformiad llythyrau cryfach. Roedd perfformiad parseli hefyd wedi gwella a oedd hefyd wedi cyfrannu at ragor o refeniw, ond roedd hyn oherwydd yr adferiad parhaus o ran cyfran y farchnad ar ôl y streic.[235]

4.23 [✂[236]]

4.24 [✂] Mae Datganiadau Ariannol Rheoleiddiol cyhoeddedig y Post Brenhinol yn dangos bod y Busnes a Gofnodwyd wedi methu sicrhau elw yn yr ystod hon ers blwyddyn ariannol 2015/16 (gweler Ffigur 4.2 isod). Mae'r patrwm EBIT, fel yr adroddwyd yn RFS, wedi bod yn

[233] Ffigurau 2023/24 yn cael eu cyflwyno ar sail 52 wythnos.
[234] Cytunwyd ar ddyfarniad cyflog o 6% fel rhan o'r Cytundeb Twf, Trawsnewid ac Adfer Busnes gyda'r CWU. IDS, 2024. Adroddiad Blynyddol IDS 2023/24, tudalen 64.
[235] IDS, 15 Ionawr 2025. Diweddariad Masnachu'r Trydydd Chwarter
[236] Cyflwyniadau adrodd rheoleiddiol y Post Brenhinol, Ffigur 12 sy'n ymwneud ag USPAC 1.4.1 b). Sylwch nad yw'r archwiliad o'r canlyniadau hyn wedi cael ei gymeradwyo.

disgyn ers y flwyddyn ariannol honno (gan ddiystyru'r hwb mewn elw a fu o ganlyniad i bandemig Covid-19).

Ffigur 4.2: EBIT y Busnes a Gofnodwyd



	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19*	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24*
EBIT Margin	3.9%	5.6%	5.0%	4.6%	4.4%	1.6%	0.4%	2.7%	3.6%	-6.3%	-6.3%

Ffynhonnell: Datganiadau Ariannol Rheoleiddiol y Post Brenhinol, datganiadau heb eu harchwilio gan y Post Brenhinol a dadansoddiad Ofcom. *Ffigurau wedi'u haddasu i 52-wythnos

[✂]

[✂]

4.25 Fel sy'n cael ei egluro uchod, yn unol â'r RFS a gyhoeddwyd gan y Post Brenhinol, nid yw'r Busnes a Gofnodwyd wedi cyflawni EBIT o 5% ers 2015/16. Fodd bynnag, mae wedi parhau i ddarparu'r gwasanaeth cyffredinol. Yn ei gyhoeddiadau cyhoeddus cyn i EP Group gymryd drosodd, dangosodd IDS ei gefnogaeth barhaus i'r Post Brenhinol, dim ond os oedd o'r farn bod posibilrwydd o drawsnewid y busnes a'i ddychwelyd i gynaliadwyedd ariannol.[237]

Sylwadau rhanddeiliaid a'n hymatebion

4.26 Dadleuodd y Post Brenhinol fod perfformiad y Busnes a Gofnodwyd ers 2015/16 yn dangos nad yw'n gynaliadwy yn ariannol yn y tymor hir.[238] Roedd Unite CMA a'r Ffederasiwn Busnesau Bach hefyd yn cytuno â'r pryderon ynghylch cynaliadwyedd ariannol y Busnes a Gofnodwyd.[239]

4.27 Dadleuodd ACRE y dylai Ofcom weld "colledion fel dangosydd bod y cwmni wedi cael ei reoleiddio oddi wrth fodel busnes a all gefnogi'r USO".[240] Ychwanegodd CWU fod yr heriau sy'n wynebu'r Post Brenhinol wedi cael eu creu'n rhannol gan anallu Ofcom i "reoleiddio'r Post Brenhinol a'r sector yn gyffredinol yn briodol".[241]

[237] Diweddariad Masnachu IDS ar gyfer yr hanner blwyddyn a ddaeth i ben ar 25 Medi 2022 a Chanlyniadau Rhagarweiniol IDS ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 26 Mawrth 2023.
[238] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, t.3.
[239] Ymateb Unite CMA i Ymgynghoriad 2025, t.28; Ymateb Ffederasiwn Busnesau Bach i Ymgynghoriad 2025, t.5.
[240] Ymateb Action with Communities in Rural England (ACRE) i Ymgynghoriad 2025, t.2.
[241] Ymateb CWU i Ymgynghoriad 2025, paragraff 10.

4.28 Mae gan y Post Brenhinol lefel uchel o ryddid masnachol ers i Ofcom ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros reoleiddio (er enghraifft, roeddem wedi cael gwared ar bron pob un o'r rheolaethau prisiau a oedd ar waith yn flaenorol gan nad oeddent yn effeithiol mwyach). Roedd Ofcom o'r farn y byddai'r lefel hon o ryddid masnachol yn galluogi'r Post Brenhinol i ddychwelyd y gwasanaeth cyffredinol i gynaliadwyedd ariannol. I ddechrau, roedd perfformiad ariannol y Post Brenhinol wedi gwella, gan gyrraedd EBIT o 5% yn 2014/15 a 2015/16. Mae'r perfformiad ariannol fel y dangosir yn Ffigur 4.2 wedi bod yn dirywio'n gyffredinol ers hynny, oherwydd ffactorau amrywiol, gan gynnwys y gostyngiad strwythurol mewn llythyrau, heriau yn y farchnad parseli, a chynnydd annigonol y Post Brenhinol o ran effeithlonrwydd. Rydym yn cydnabod bod ein gwaith rheoleiddio hefyd yn ffactor sy'n gallu effeithio ar gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol. Fel sy'n cael ei egluro yn Adran 8, rydym o'r farn y dylai'r penderfyniadau rydym wedi'u gwneud mewn perthynas â chynigion yr Ymgynghoriad gefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol, gan sicrhau ei fod yn cyd-fynd yn well ag anghenion rhesymol defnyddwyr.

4.29 Roedd nifer o randdeiliaid yn anghytuno â'n pryder ynghylch y sefyllfa ariannol bresennol. Cyfeiriodd Cyngor ar Bopeth a Citipost at y Post Brenhinol yn sicrhau cynnydd mewn refeniw llythyrau hyd yn oed gyda'r gostyngiad yn nifer y llythyrau oherwydd y cynnydd mewn prisiau.[242] Dadleuodd Citipost mai'r rheswm am hyn yw safle cryf y Post Brenhinol yn y farchnad llythyrau. Roedd ymatebydd [✂] yn cydnabod pwysigrwydd hyfywedd ariannol y Post Brenhinol ond yn cwestiynu amseriad a'r cyfiawnhad dros y newidiadau arfaethedig, o ystyried bod y Post Brenhinol wedi dychwelyd yn ddiweddar i wneud elw ac yn parhau i gynyddu ei refeniw.[243]

4.30 Dadleuodd ymatebydd [✂] fod ein dadansoddiad yn ddiffygiol gan nad oeddem wedi gwneud unrhyw amcangyfrif o beth fyddai proffil y galw pe bai gwasanaethau wedi cael eu darparu'n gyson i'r lefelau a nodir yn yr USO.[244] Soniodd House of Cards hefyd am yr effaith niweidiol y byddai gostwng safonau ansawdd gwasanaeth yn ei chael ar niferoedd.[245]

4.31 Ers i Ofcom ddechrau rheoleiddio'r post yn 2011, mae'r defnydd o ddewisiadau digidol amgen a dewisiadau defnyddwyr wedi esblygu, ac mae'r farchnad bost wedi gweld gostyngiad pellach yn nifer y llythyrau a thwf parhaus mewn parseli. Fel y nodir yn Adran 3, rydym yn derbyn ei bod yn bosibl bod problemau ansawdd gwasanaeth diweddar wedi cyfrannu at ostyngiad yn nifer y llythyrau dros y blynyddoedd diwethaf ond rydym yn dal o'r farn bod y farchnad llythyrau'n dirywio'n strwythurol wrth i bobl a busnesau ddefnyddio dewisiadau digidol amgen.[246] Dechreuodd nifer y llythyrau ostwng ymhell cyn i berfformiad ansawdd gwasanaeth y Post Brenhinol ddechrau dirywio'n sylweddol.

4.32 Effaith dirywiad strwythurol y farchnad llythyrau yw un o'r prif ffactorau sydd wedi arwain at broffidioldeb a llifoedd arian parod y Post Brenhinol yn dirywio yn ystod y blynyddoedd diwethaf (gweler ein sylwebaeth ar effeithlonrwydd y Post Brenhinol isod, paragraffau 4.34 i 4.47). Cafodd hyn ei guddio i ryw raddau gan y cynnydd mewn niferoedd yn ystod

---

[242] Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, paragraff 3.21; Ymateb Citipost i Ymgynghoriad 2025, t.1.
[243] [✂]
[244] [✂] Rydym yn nodi ein hymateb i'r sylw hwn mewn perthynas ag amcangyfrif o effaith ein cynigion ym mharagraffau 8.42 i 8.43.
[245] Ymateb House of Cards i Ymgynghoriad 2025, tt.4-5.
[246] Fel y nodir yn Adran 2, mae'r dirywiad strwythurol hwn yn cyd-fynd â'r hyn sy'n digwydd yn y farchnad bost ledled y byd.

pandemig Covid-19 a dim ond ychydig o welliant a welwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae ein Hadroddiadau Monitro Perfformiad dros y blynyddoedd diwethaf wedi cofnodi'r effaith ariannol yn eithaf manwl.[247]

4.33 Nid ydym yn credu, pe bai'r Post Brenhinol wedi bod yn cyrraedd ei dargedau ansawdd gwasanaeth, y byddai wedi bod mewn sefyllfa ariannol llawer gwell. Fel sy'n cael ei drafod yn Adran 6, mae'r Post Brenhinol wedi amcangyfrif y gallai cyrraedd ei dargedau ansawdd gwasanaeth Dosbarth Cyntaf presennol olygu costau o oddeutu £200m-£290m.[248] Mae'n annhebygol y byddai'r elw ychwanegol o unrhyw gynnydd yn y galw wedi bod yn ddigon i dalu'r costau hyn ac i gynhyrchu rhagor o elw ychwanegol er mwyn i'r Busnes a Gofnodwyd gyflawni EBIT rhwng 5-10%.

Effeithlonrwydd

4.34 Yn ein Hymgynghoriad, roeddem wedi cyfeirio at ein datganiadau cyhoeddus diweddaraf ynghylch effeithlonrwydd darparu'r USO. Bu i ni egluro ein bod, yn y PMR, wedi ystyried yr arbedion effeithlonrwydd y dywedodd y Post Brenhinol eu bod wedi'u cyflawni sef 2% am y flwyddyn ariannol 2023/24.[249] Fe wnaethom nodi, gan ddefnyddio ein methodoleg ein hunain, y byddem yn ailddatgan hynny i 0.4% (0.6% pe bai'n cyfrifo costau trafodiadau post). Mae'r ddau ffigur hyn yn is na'r cynnydd roedd y Post Brenhinol yn disgwyl ei gyflawni at ei darged i gyrraedd 9% o arbedion effeithlonrwydd erbyn 2027/28.[250]

4.35 Ar 2 Gorffennaf 2025, dywedodd y Post Brenhinol ei fod wedi gwneud 3% o enillion effeithlonrwydd cronnus erbyn diwedd 2024/25. Dyma'r cynnydd y mae'n adrodd ei fod wedi'i wneud tuag at y targed o 9% y mae'r Post Brenhinol yn disgwyl ei wneud erbyn diwedd 2027/28.[251] Byddwn yn asesu effeithlonrwydd y Post Brenhinol ac yn cyhoeddi canlyniadau hyn fel rhan o'n PMR nesaf.

Sylwadau rhanddeiliaid a'n hymatebion

4.36 Ymatebodd nifer o randdeiliaid i'n hymgynghoriad gan ddadlau bod y Post Brenhinol yn aneffeithlon neu nad yw wedi gwella ei effeithlonrwydd yn ddigonol.[252]

4.37 Dadleuodd Cyngor ar Bopeth, [✂] a Consumer Scotland nad yw Ofcom wedi ystyried yn briodol a yw'r Post Brenhinol yn darparu'r USO mewn ffordd gost-effeithiol.[253] Dadleuodd Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri hefyd nad yw Ofcom wedi bod yn "gwthio" digon ar y Post Brenhinol i gyrraedd ei dargedau effeithlonrwydd.[254]

---

[247] Ofcom, 2024. Adroddiad monitro blynyddol ar y farchnad bost

[248] Amcangyfrif y Post Brenhinol o'r gost o godi o 77% i 93% D+1 ar gyfer Dosbarth Cyntaf.

[249] Mae'r arbedion effeithlonrwydd a adroddir yn seiliedig ar y metrig PVEO sy'n rhoi mesur cyffredinol o effeithlonrwydd drwy ddadgyfuno symudiadau cost blynyddol i bedwar sbardun; "Pris" (neu chwyddiant), "Niferoedd", "Effeithlonrwydd" ac "Arall" (sy'n gysylltiedig ag eitemau nad ydynt yn ailadrodd)". Rydym yn rhagnodi'r rheolau i'r dull hwn yn ein Canllaw Cyfrifyddu Rheoleiddiol (RAG), paragraff 8.83

[250] IDS, 30 Mehefin 2023. Disgwyliad cronnus pum mlynedd ar gyfer PVEO a chynhyrchiant.

[251] Y Post Brenhinol, Perfformiad cronnus blynyddol WIPGH a PVEO, 2 Gorffennaf 2025.

[252] Ymateb CWU i Ymgynghoriad 2025, paragraff 10; Ymateb Mail Competition Forum i Ymgynghoriad 2025, t.1; Ymateb Citipost i Ymgynghoriad 2025, t.2; Ymateb Cymdeithas Defnyddwyr Post i Ymgynghoriad 2025, t.2.

[253] Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, paragraff 1.9; Ymateb Consumer Scotland i Ymgynghoriad 2025, t.8; [✂].

[254] Ymateb Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri i Ymgynghoriad 2025, t.5.

4.38 Dadleuodd Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn ei hymateb fod effeithlonrwydd yn chwarae rhan hollbwysig mewn cynaliadwyedd ariannol ond bod hyn yn dibynnu ar weithredoedd y Post Brenhinol ei hun.[255]

4.39 Rydym yn monitro cynnydd y Post Brenhinol ar effeithlonrwydd yn fanwl ac yn cofnodi rhai metrigau allweddol sy'n ymwneud â'i gynnydd yn ein PMR blynyddol.[256] Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nid yw'r Post Brenhinol wedi gwneud cymaint o gynnydd tuag at wella effeithlonrwydd ag y byddem yn ei ddisgwyl. Yn ein Hadolygiad o Reoleiddio'r Gwasanaeth Post yn 2022, fe wnaethom gyflwyno gofyniad newydd i'r Post Brenhinol ddarparu mwy o dryloywder am ei gynnydd o ran effeithlonrwydd. Fe wnaethom gyflwyno gofyniad adrodd rheoleiddiol i'r Post Brenhinol gyhoeddi ei dargedau effeithlonrwydd pum mlynedd, am y tro cyntaf ym mis Mehefin 2023, ac wedyn yn flynyddol i roi gwybod am ei gynnydd yn erbyn y targedau hynny.[257]

4.40 Fel yr esboniwyd hefyd yn ein Hadolygiad yn 2022, rydym yn dal o'r farn bod cymhellion masnachol i'r Post Brenhinol sicrhau effeithlonrwydd a'i bod yn annhebygol iawn y byddai unrhyw reoleiddio pellach a roddir ar waith yn benodol i hyrwyddo effeithlonrwydd uwch yn effeithiol.[258]

4.41 Rydym hefyd yn ystyried effaith enillion effeithlonrwydd yn fanwl yn ein hasesiadau o gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol. Mae ein hasesiadau'n dal i ddangos, er mwyn dychwelyd darpariaeth y gwasanaeth cyffredinol i gynaliadwyedd ariannol, y bydd angen i'r Post Brenhinol wella ei enillion effeithlonrwydd. Fodd bynnag, mae hefyd yn angenrheidiol bod y Post Brenhinol yn parhau i addasu ei rwydwaith a'i weithrediadau i reoli'r gostyngiad mewn llythyrau'n effeithiol a thyfu ei fusnes parseli. Os bydd y Post Brenhinol yn llwyddiannus yn hyn i gyd, a fyddai'n cael ei helpu'n fawr gan yr hyblygrwydd masnachol a gweithredol ychwanegol y mae diwygio'r USO yn ei ddarparu, dim ond wedyn y dylai gael cyfle da i ddychwelyd darpariaeth y gwasanaeth cyffredinol i gynaliadwyedd ariannol.

4.42 Fel y nodwyd uchod, gosododd y Post Brenhinol darged iddo'i hun i sicrhau arbedion effeithlonrwydd o 9% rhwng 2023-24 a 2027/28. Ar ddiwedd 2024/25, dywedodd ei fod wedi cyflawni 3% dros ddwy flynedd gyntaf ei gynllun pum mlynedd.[259]

4.43 Mewn ymateb i sylwadau rhanddeiliaid ynghylch cyflawniadau effeithlonrwydd hanesyddol y Post Brenhinol, rydym o'r farn bod ganddo gymhellion cryf o hyd i sicrhau arbedion effeithlonrwydd.[260] Rydym yn nodi, wrth ystyried pa arbedion effeithlonrwydd rhesymol a allai fod, bod cyfyngiadau'n cael eu gosod gan natur a strwythur busnes a gweithlu'r Post Brenhinol sy'n dylanwadu ar gwmpas yr hyn sy'n ymarferol. Fel y nodir ym mharagraffau 4.54 i 4.56 isod, mae cost gyffredinol danfon un llythyr i dŷ a danfon pum llythyr i'r un tŷ yn

[255] Ymateb Swyddfa'r Post Cyfyngedig i Ymgynghoriad 2025, t.13.
[256] Ofcom, 2024. Adroddiad monitro blynyddol ar y farchnad bost
[257] IDS, 30 Mehefin 2023. Disgwyliad cronnus pum mlynedd ar gyfer PVEO a chynhyrchiant ac IDS, WIPGH a PVEO cronnus blynyddol 2023/24.
[258] Ofcom, 2023. Datganiad ar y newidiadau i ofynion adrodd rheoleiddiol y Post Brenhinol.
[259] Y Post Brenhinol, Perfformiad cronnus blynyddol WIPGH a PVEO, 2 Gorffennaf 2025. Fel y nodwyd ym mharagraff 4.34, ac fel y nodir yn ein Hadroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer 2023/24, mae ein methodoleg yn awgrymu effeithlonrwydd o 0.4% yn ystod y flwyddyn 2023/24 (0.6% os caiff costau ar ôl trawsnewid eu cyfrifo).
[260] Ofcom, 2022. Adolygu Rheoliadau, paragraff 4.5.

yr un rownd danfon bron yr un fath. Felly, nid yw'r gostyngiad yn nifer y llythyrau yn golygu bod y Post Brenhinol wedi gallu lleihau ei sylfaen gostau yn gymesur.

4.44 Ar ben hynny, mae [✂] ein dadansoddiad ein hunain ([✂] sy'n cynnwys tybiaethau ar gyfer gwelliannau effeithlonrwydd) yn dangos, heb ddiwygio'r USO, nad yw'r Busnes a Gofnodwyd yn debygol o gael EBIT o 5-10%. Felly, rydym o'r farn bod angen diwygio'r USO ochr yn ochr â gwelliannau eraill ym mherfformiad masnachol y Post Brenhinol.

4.45 Yn ei ymateb, dywedodd MCF nad yw'n glir sut bydd Ofcom yn gosod targedau nac yn monitro sut mae'r Post Brenhinol yn gwireddu arbedion cost net y newidiadau i gwmpas yr USO.[261]

4.46 Fel rhan o'n gwaith parhaus o fonitro effeithlonrwydd a chynaliadwyedd ariannol, byddwn yn asesu i ba raddau y mae'r Post Brenhinol yn gwireddu'r arbedion cost net disgwyliedig. Byddwn yn parhau i fonitro costau ac effeithlonrwydd y Post Brenhinol gan ddefnyddio'r wybodaeth fanwl y mae'n ei darparu i ni'n rheolaidd yn gyfrinachol o dan ein gofynion adrodd rheoleiddiol. Hefyd, fel yr esboniwyd uchod, rydym yn monitro maint EBIT y Busnes a Gofnodwyd yn rheolaidd fel prif ddangosydd cynaliadwyedd ariannol. Rydym hefyd yn parhau i fynnu bod y Post Brenhinol yn cyhoeddi ei gynnydd yn flynyddol yn erbyn ei dargedau pum mlynedd a osodwyd o 2023-24.

4.47 Nid ydym yn bwriadu gosod targedau ar gyfer lefel yr arbedion cost net y mae'n rhaid i'r Post Brenhinol eu cyflawni yn sgil diwygio'r USO gan mai mater i'r Post Brenhinol yw penderfynu'n union beth mae'n ei dargedu. Fodd bynnag, byddwn yn monitro hyn fel rhan o'n gwaith parhaus.

Casgliad

4.48 O gyfrifon cyhoeddedig y Post Brenhinol, nid yw wedi cyflawni EBIT o 5% ers 2015/16, ac yn 2023/24 gwnaeth golled sylweddol o -£458m (-6.3% EBIT). [✂]. Mae ein dadansoddiad yn dangos y bydd perfformiad ariannol y Post Brenhinol yn parhau i waethygu heb ddiwygio brys. [✂][262] Mae'r ffactorau hyn yn awgrymu, heb weithredu, fod yna risg sylweddol i gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol ac felly darpariaeth y gwasanaeth cyffredinol ei hun.

4.49 Rydym yn nodi ein penderfyniadau ynghylch y newidiadau i'r USO a'r rhwymedigaeth mynediad yn Adrannau 5 i 7 y ddogfen hon. Gallai arbedion cost net posibl y diwygiadau hyn, os cânt eu cyflawni, arwain at welliant sylweddol yn EBIT y Busnes a Gofnodwyd a chynaliadwyedd ariannol darparu'r gwasanaeth cyffredinol diwygiedig.

4.50 Fodd bynnag, mae ein dadansoddiad yn dangos y byddai cyflawni EBIT yn yr ystod o 5-10% yn dibynnu ar nifer o ffactorau. Er y byddai angen i'r Post Brenhinol allu gwireddu'n llawn yr arbedion cost net y byddai diwygio yn eu galluogi, rhaid iddo hefyd sicrhau twf sylweddol mewn parseli, rheoli'r gostyngiad yn nifer y llythyrau'n effeithiol, a gwella ei effeithlonrwydd yn sylweddol drwy drawsnewid ei rwydwaith a'i addasu i'r newidiadau o ran niferoedd y llythyrau a'r newidiadau llwyth gwaith y bydd y tueddiadau hyn yn arwain

[261] Ymateb MCF i Ymgynghoriad 2025, t.10.
[262] [✂]

atynt. Mae angen i'r holl ddarnau hyn gael eu rhoi ar waith er mwyn cynyddu'r siawns y bydd y gwasanaeth cyffredinol yn gynaliadwy yn ariannol yn y tymor hirach.

Deinameg costau a refeniw diwygio rheoliadau

4.51 Yn ein Hymgynghoriad, roeddem yn cynnig newid ein gwaith o reoleiddio'r Post Brenhinol mewn tri maes. Yn fras, roeddem yn cynnig newid manyleb yr USO i ganiatáu i lythyrau Ail Ddosbarth gael eu danfon yn unol â phatrwm bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos (a chael gwared ar ddanfon ar ddydd Sadwrn); yn ail, roeddem yn cynnig diwygio'r targedau ansawdd gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau USO; ac, yn drydydd, roeddem yn cynnig newid rheoleiddio mynediad er mwyn i bost swmp nad yw'n flaenoriaeth allu dilyn yr un amserlen danfon â llythyrau Ail Ddosbarth. Mae ein penderfyniadau ar y cynigion hyn wedi'u nodi yn Adrannau 5 i 7.

4.52 Rydym yn disgwyl y dylai'r diwygiadau hyn alluogi'r Post Brenhinol i wneud newidiadau i'w weithrediadau er mwyn iddo allu gweithredu gyda sylfaen gostau is yn y dyfodol. Mae'n debygol hefyd y bydd rhai effeithiau negyddol o ran refeniw wrth i nifer y llythyrau leihau oherwydd rhai o'r newidiadau hyn. Fodd bynnag, yn gyffredinol, rydym yn disgwyl effaith net gadarnhaol sylweddol a fyddai'n galluogi'r Post Brenhinol i weithredu a darparu'r USO a gwasanaethau post swmp ar lefel is o gostau, a fyddai o fudd i ddefnyddwyr yn y pen draw drwy lai o gynnydd mewn prisiau yn gyffredinol, a thrwy sicrhau bod gwasanaeth cyffredinol yn cael ei ddarparu yn y tymor hir. Mae ein penderfyniadau ar ddiwygio wedi cael eu llywio gan ein dadansoddiad o'r ddeinameg costau a refeniw hon, a nodir gennym isod.

Newidiadau i strwythur danfon yr USO

4.53 Yn ein Hymgynghoriad, fe wnaethom nodi sut byddem yn disgwyl i'r newidiadau i strwythur danfon llythyrau Ail Ddosbarth effeithio ar gostau a refeniw'r Post Brenhinol. Yn ei ymateb, roedd UK Mail yn cytuno y byddai lleihau manyleb yr USO yn galluogi'r Post Brenhinol i sicrhau arbedion sylweddol mewn costau danfon.[263]

Arbedion costau danfon

4.54 Costau llafur gweithrediadau danfon[264] y Post Brenhinol yw'r rhan fwyaf o gyfanswm costau'r Busnes a Gofnodwyd. Felly, gwneud arbedion yn y rhan hon o'r busnes sy'n cael yr effaith fwyaf ar ei sefyllfa ariannol. Dyma hefyd faes y busnes mae gofynion penodol yr USO yn effeithio fwyaf arno.

4.55 Wrth ddanfon llythyrau, mae cost gyffredinol danfon un llythyr i dŷ a danfon pum llythyr i'r un tŷ, ar yr un rownd ddanfon, bron yr un fath. Mae hyn yn golygu ei bod yn llawer mwy effeithlon danfon llawer o bost ar unwaith, ac ar un rownd, na danfon yr un faint o bost dros sawl rownd ddanfon ar wahân. Mae hyn yn dibynnu ar gapasiti pob rownd ddanfon,

[263] Ymateb UK Mail i Ymgynghoriad 2025, t.2.

[264] Mae gweithrediadau danfon yn cynnwys gweithgareddau dan do ac yn yr awyr agored sy'n digwydd yn y Swyddfeydd Dosbarthu a'u dalgylch ar ôl i'r post wedi'i ddidoli gael ei gludo i'r Swyddfeydd Dosbarthu hynny. Mae'r gweithgareddau dan do yn cynnwys didoli terfynol, ac mae'r gweithgareddau awyr agored yn cynnwys mynd â'r post o'r Swyddfa Ddosbarthu a'i ddanfon i'r drysau ar droed neu mewn fan.

oherwydd y tu hwnt i nifer penodol, efallai y bydd angen rowndiau pellach a fyddai'n arwain at ragor o gostau.

4.56 Y ffaith hon yw'r hyn sy'n gyrru'r berthynas costau allweddol yn rhwydwaith danfon y Post Brenhinol: y 'gyfradd galwadau', sef y berthynas rhwng faint o bost sydd i'w ddanfon mewn ardal a chyfran yr holl bwyntiau danfon mae'n rhaid teithio iddynt ar ddiwrnod penodol. Nid yw'r berthynas hon yn llinol, sy'n golygu wrth ychwanegu rhagor o bost i ardal danfon, mae nifer y tripiau sydd eu hangen yn tyfu ond ar gyfran lai na'r cynnydd yn nifer y post. Mewn rhai achosion, bydd angen danfon y post ychwanegol i eiddo a fyddai eisoes yn derbyn post, a bydd hyn yn cael ei wneud heb unrhyw gost ychwanegol bron.

Ffigur 4.3: Darlun o'r berthynas cyfradd galwadau



Ffynhonnell: Ofcom

4.57 Gan fod nifer y llythyrau wedi gostwng dros y degawdau diwethaf, ac ar yr un pryd mae nifer y cyfeiriadau wedi cynyddu, y berthynas hon yn y gyfradd galwadau hon sydd wedi codi'r costau uned. Efallai fod gweithwyr post wedi arfer danfon llawer o eitemau drwy'r rhan fwyaf o flychau llythyrau roedden nhw'n ymweld â nhw, ond erbyn hyn maent yn llawer mwy tebygol o fod yn anfon un neu ddwy eitem. Ar ben hynny, lle byddent yn arfer danfon i'r mwyafrif helaeth o dai ar stryd bob dydd, maent bellach yn ymweld â dim ond ffracsiwn ac yn gorfod teithio ymhellach rhwng pob un. Mae'r naill ffactor a'r llall wedi codi cost cyfartalog anfon llythyr.

4.58 Yng ngoleuni hyn, roeddem yn cynnig yn ein Hymgynghoriad danfon llythyrau Ail Ddosbarth a phost swmp heb flaenoriaeth yn llai aml, gan barhau i'w gwneud yn ofynnol i'r Post Brenhinol ddarparu gwasanaeth danfon y diwrnod canlynol chwe diwrnod yr wythnos ar gyfer llythyrau Dosbarth Cyntaf.[265] Byddai caniatáu i'r Post Brenhinol ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth yn llai aml, e.e. bob yn ail ddiwrnod gwaith o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhoi'r gorau i ddanfon ar ddydd Sadwrn (h.y. danfon 2.5 diwrnod yr wythnos ar gyfartaledd, yn hytrach na'r amserlen bresennol o chwe diwrnod yr wythnos), yn galluogi'r Post Brenhinol i

[265] Mae'n rhaid i'r Post Brenhinol hefyd ddanfon eitemau cofrestredig ac wedi'u hyswirio, a llythyrau rhyngwladol, chwe diwrnod yr wythnos.

arbed llawer iawn o gostau. Byddai'n golygu bod modd cyfuno post dros ddau ddiwrnod, gan gynyddu'r eitemau cyfartalog fesul aelwyd a dod â rhai o'r arbedion maint yn ôl a gollwyd o'r cyfnod pan roedd nifer y llythyrau'n uwch o lawer. Dyma elfen arbed costau bwysicaf y diwygio.

Effeithiau refeniw

4.59 Mae danfon llythyrau Ail Ddosbarth yn llai aml hefyd yn effeithio ar gost danfon llythyrau Dosbarth Cyntaf. O dan y strwythur danfon newydd, byddai diwrnodau lle nad yw llythyrau Ail Ddosbarth yn cael eu danfon mewn ardal ond bod dal angen danfon llythyrau Dosbarth Cyntaf. Felly, byddai angen danfon llythyrau Dosbarth Cyntaf ochr yn ochr â pharseli a fyddai hefyd yn cael eu danfon chwe diwrnod yr wythnos.[266]

4.60 Mae'r danfoniadau hyn yn tueddu i olygu mwy o ymdrech a chost fesul eitem o bost na danfoniadau llythyrau llawn, gan fod ganddyn nhw lai o eitemau fesul cartref ac mae'n golygu pellteroedd teithio hirach rhwng danfoniadau. Mae ystyriaethau logistaidd gwahanol hefyd ar gyfer llwybrau danfon sy'n seiliedig ar barseli yn bennaf na'r rheini sy'n seiliedig ar lythyrau yn bennaf. Er enghraifft, gellir danfon parseli'n fwyaf effeithlon yn y rhan fwyaf o ardaloedd gydag un gweithiwr post mewn fan, tra gall llythyrau yn yr ardaloedd hynny gael eu danfon yn fwy effeithlon gyda dau weithiwr mewn fan neu ar droed gan ddefnyddio troli. A phopeth arall yn gyfartal, byddai hyn yn tueddu i gynyddu cost uned danfon llythyrau Dosbarth Cyntaf.

4.61 O dan model danfon llythyrau Ail Ddosbarth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, gallai felly fod yn llai costus cael llai o lythyrau Dosbarth Cyntaf yn gyffredinol, er mwyn sicrhau nad ydynt yn amharu'n ormodol at y llwybrau danfon parseli ar ddiwrnodau danfon llythyrau nad ydynt yn Ail Ddosbarth. Gallai mynd ati i achosi niferoedd is olygu addasiadau prisio gofalus sy'n cael effaith gadarnhaol ar refeniw fesul uned o ran cyfran y niferoedd Dosbarth Cyntaf y mae'r Post Brenhinol yn ei gadw yn dilyn unrhyw gynnydd mewn prisiau. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld y byddai'r enillion refeniw cronnus yn cael eu gwrthbwyso gan lai o refeniw o golli niferoedd Dosbarth Cyntaf, a llai o refeniw ychwanegol oherwydd rhywfaint o ostyngiad yn y niferoedd Ail Ddosbarth oherwydd newidiadau i amserlen danfon y dosbarth hwn o lythyr.

4.62 Dim ond un elfen yw hon o'r effeithiau cost net rydym yn eu disgwyl a allai godi o'n cynigion, a'r canlyniadau posibl i brisiau. Trafodir yr ystod hon o effeithiau ymhellach ym mharagraff 5.82 yn Adran 5 y ddogfen hon, ac mae ein penderfyniadau ar amlder danfon wedi'u nodi yn yr Adran honno.

Newidiadau i dargedau ansawdd gwasanaeth yr USO

4.63 Mae rhwydweithiau post yn wynebu pob math o bethau amrywiol ac ar hap, a allai effeithio ar lefel ansawdd y gwasanaeth a gaiff defnyddwyr. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys:

a) Yr amrywiaeth dyddiol yn nifer a math yr eitemau sy'n cael eu postio mewn ardal benodol;
b) Amrywiad tymhorol yn faint o eitemau sy'n cael eu postio ar draws y rhwydwaith;
c) Tarfu ar swyddogaethau trafnidiaeth a logisteg oherwydd y tywydd;

[266]Sylwch mai dim ond pum diwrnod yr wythnos y mae'n rhaid i'r Post Brenhinol ddanfon parseli, ond mae'n dewis eu danfon chwe diwrnod yr wythnos.

d) Tarfu ar lafur oherwydd salwch ac effeithiau eraill; ac
e) Amodau traffig yn amrywio o ddydd i ddydd.

4.64 Mae lliniaru'r risgiau hyn yn aml yn arwain at gostau ychwanegol, er enghraifft efallai y bydd angen cyflogi mwy o staff parhaol neu asiantaeth i sicrhau bod digon o weithlu ar gael i ddelio â llwyth gwaith cyfnodau prysur neu brinder staff annisgwyl, neu fod ganddynt amserlenni prosesu sy'n cynnwys rhywfaint o amser sbâr i'w ddefnyddio mewn amgylchiadau arbennig o wael sy'n achosi tagfeydd ar adeg benodol.

4.65 Yn gyffredinol, nid yw'r costau hyn yn amrywio mewn cyfrannedd uniongyrchol â newidiadau i'r niferoedd, ac mae rheoli ansefydlogrwydd yn dod yn fater mwy a mwy arwyddocaol gyda llai o niferoedd. Rydym yn credu bod hyn yn golygu, wrth i'r niferoedd ostwng, ei bod hi'n anoddach gwireddu arbedion maint a'i bod yn ddrutach rheoli ansefydlogrwydd. Yn rhannol o ganlyniad i hyn, mae costau uned sy'n gysylltiedig â chyrraedd lefelau perfformiad targed wedi cynyddu ers 2005/06 pan osodwyd y targedau ansawdd gwasanaeth cyfredol

4.66 Mae targedau uwch yn gofyn am lai o oddefiant o ran oedi a tharfu, ac felly'n cynyddu costau lliniaru'r risgiau uchod. I'r gwrthwyneb, mae targedau is yn lleihau maint y costau lliniaru risg. Yn yr un modd, nid yw'r costau sy'n gysylltiedig â pherfformiad ansawdd gwasanaeth yn amrywio mewn cyfrannedd uniongyrchol â'r newidiadau i lefelau targed. Mae angen mwy o byffer adnoddau i gyflawni lefelau perfformiad uchel, drwy ddileu ystod ehangach o wahanol fathau o fethiannau i gyrraedd y targed ansawdd a galluogi mwy o gynlluniau wrth gefn ar gyfer amrywiadau annisgwyl, yn enwedig felly ar gyfer gwasanaethau'r diwrnod canlynol fel Dosbarth Cyntaf sydd heb lawer o hyblygrwydd ar gyfer oedi.

4.67 Rydym yn cydnabod bod cost gynyddol gwella perfformiad yn codi'n sylweddol ar lefelau perfformiad uwch, sy'n arwydd o lai o elw ar fuddsoddiad. Hynny yw, yn enwedig ar lefelau targed uchel, gall newidiadau cymharol fach i berfformiad arwain at oblygiadau cost sylweddol. Felly, byddem yn disgwyl y byddai gosod targedau ychydig yn is yn golygu y gallai'r Post Brenhinol weithredu ar sylfaen gostau gyffredinol sylweddol is.

4.68 Mae'r lefelau targed nid yn unig yn effeithio ar gostau ond oherwydd yr angen busnes i adennill costau, maent hefyd yn effeithio ar brisiau. Bydd costau uwch ynghlwm wrth dargedau uwch, ac mae'n debyg y byddai angen eu hadennill. Gallai hyn arwain at fwy o gynnydd mewn brisiau.

4.69 Mae ein penderfyniadau ynghylch newidiadau i dargedau ansawdd gwasanaeth wedi'u nodi yn Adran 6.

Newidiadau i'r rhwymedigaeth mynediad

4.70 Yn 2023/24, anfonwyd 9bn o lythyrau. O hyn, mae post swmp yn cynrychioli 5.7 biliwn o eitemau, neu 63% o'r cyfanswm. Gan fod y cynhyrchion hyn nad ydynt yn rhai USO yn cael eu danfon ochr yn ochr â'r gwasanaethau USO, mae angen i unrhyw newidiadau i'r strwythur danfon cynnyrch USO gael eu hadlewyrchu hefyd yn yr amodau rydym yn eu gosod ar gyfer cynnyrch swmp a mynediad y Post Brenhinol er mwyn sicrhau'r effeithlonrwydd a'r arbedion costau gorau posibl. Pe bai'n rhaid darparu'r cynnyrch hyn nad ydynt yn rhai USO yn amlach na llythyrau USO, yna ni fyddai modd gwireddu'r rhan fwyaf o'r arbedion posibl sy'n gysylltiedig â newidiadau i strwythur danfon y Post Brenhinol, gan y byddai'r rhan fwyaf o lwybrau danfon llythyrau yn dal i gael eu hanfon allan bob dydd.

4.71 Felly, roeddem yn cynnig gwneud newidiadau i'r rhwymedigaeth mynediad yn ogystal â newidiadau i strwythur danfon yr USO. Mae ein penderfyniadau ar newid yr Amod USPA wedi'u nodi yn Adran 7.

Casgliad

4.72 Mae ein dadansoddiad yn dangos y bydd perfformiad ariannol y Post Brenhinol yn parhau i waethygu heb ddiwygio brys. [✂] Mae'r ffactorau hyn yn awgrymu, heb weithredu, fod yna risg sylweddol i gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol ac felly darpariaeth y gwasanaeth cyffredinol ei hun. Credwn y gellid gwireddu arbedion net sylweddol drwy ddiwygio ein rheoliadau. Yn adrannau canlynol y ddogfen hon, rydym yn nodi ein penderfyniadau ar gyfer pob un o'r tair elfen allweddol, sef newidiadau i amlder danfon llythyrau Ail Ddosbarth, newidiadau i dargedau ansawdd gwasanaeth, a newidiadau i'r rhwymedigaethau mynediad. Mae Adran 8 yn nodi ein dadansoddiad o'r penderfyniadau hyn, a'n disgwyliad o arbedion net.

5. Newidiadau i amlder danfon llythyrau Ail Ddosbarth

Pwrpas yr adran hon

Mae'r adran hon yn crynhoi ac yn asesu ymatebion rhanddeiliaid i'r cynigion yn ein Hymgynghoriad i ganiatáu i amlder danfon llythyrau USO Ail Ddosbarth newid i bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos.

Ein penderfyniadau – yn gryno

Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r dystiolaeth sydd ar gael yn ofalus, rydyn ni wedi penderfynu bwrw ymlaen â chynigion ein Hymgynghoriad a newid cwmpas yr USO fel a ganlyn:

- caniatáu i amlder danfon llythyrau Ail Ddosbarth newid o bob dydd chwe diwrnod yr wythnos (dydd Llun i ddydd Sadwrn) i bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos (dydd Llun i ddydd Gwener); a
- Ni fydd dydd Sadwrn yn cael ei gynnwys fel diwrnod gwaith mwyach at ddibenion cyfrifo amseroedd llwybro ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth, gyda'r effaith y gallai unrhyw eitemau llythyrau Ail Ddosbarth sy'n cael eu postio rhwng dydd Mercher a dydd Sadwrn gyrraedd diwrnod yn hwyrach nag ar hyn o bryd a pharhau i fodloni'r amser llwybro penodol ar gyfer danfon o fewn tri diwrnod gwaith i bostio.

Mae'r newidiadau i'r ffordd o ddelio â llythyrau Ail Ddosbarth a pha mor aml cânt eu danfon yn rhan o becyn diwygio cyffredinol ynghyd â newidiadau i'r targedau ansawdd gwasanaeth a reoleiddir ar gyfer post USO (gweler Adran 6) ac i reoleiddio post mynediad (gweler Adran 7).

Nid oes unrhyw newidiadau i ofynion yr USO ar gyfer casglu a danfon eitemau Dosbarth Cyntaf chwe diwrnod yr wythnos (dydd Llun i ddydd Sadwrn), a pharseli USO bum diwrnod yr wythnos (dydd Llun i ddydd Gwener).

Cyflwyniad

5.1 Yn ein Cais am Fewnbwn, roeddem yn nodi tystiolaeth bod angen brys i ddiwygio'r gwasanaeth cyffredinol er mwyn iddo gyd-fynd yn well ag anghenion defnyddwyr a'i fod yn gallu parhau i fod yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy yn y dyfodol.

5.2 Dywedasom fod y data rydym wedi'i gael a'i weld drwy ein gwaith monitro parhaus ar y farchnad bost, gan gynnwys o'n hymchwil defnyddwyr, yn dangos bod y ffordd mae pobl yn defnyddio gwasanaethau post wedi newid, gyda llai o lythyrau'n cael eu hanfon a mwy o barseli. Dywedasom fod ein dadansoddiad o'r dystiolaeth yn dangos bod y ddibyniaeth ar wasanaethau post yn lleihau i lawer o ddefnyddwyr, ond mae pobl a busnesau bach a chanolig yn credu y bydd wastad angen iddynt ddefnyddio gwasanaethau post i anfon llythyrau.

5.3 Fe wnaethom egluro:

- Gallai rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol ar gyfer darparu gwasanaethau post nad yw'n cyd-fynd ag anghenion defnyddwyr arwain at bobl yn talu prisiau uwch na'r angen oherwydd y costau uwch i'r Post Brenhinol o ran darparu gwasanaeth sy'n fwy na'r angen.
- Byddai'r risg gynyddol y bydd y gwasanaeth cyffredinol presennol yn dod yn anghynaladwy yn ariannol yn bygwth danfon post yr USO yn barhaus. Gan mai'r Post Brenhinol yw'r unig weithredwr sydd â rhwydwaith cenedlaethol o un pen i'r llall, byddai'r risg hefyd yn ymestyn i ddanfon post nad yw'n USO yn barhaus (e.e. post swmp).

5.4 Yn dilyn ein hasesiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym wedi dod i'r casgliad bod marchnad llythyrau bresennol y DU yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr i raddau helaeth, ac ar y cyfan yn rhagori ar anghenion rhesymol defnyddwyr yn achos amlder danfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth (gweler Adran 3 ac Atodiad A3). Mae pryderon sylweddol o hyd ynghylch cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol (gweler Adran 4). Am y rhesymau hyn, rydym yn dal o'r farn bod angen gwneud newidiadau i'r USO ar frys.

5.5 Roedd ein Hymgynghoriad yn nodi cynigion i newid y gofyniad i ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth o chwe diwrnod yr wythnos er mwyn gallu danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos fel rhan o becyn diwygio cyffredinol.[267] Yn yr adran hon, rydym yn:

- ystyried ymatebion rhanddeiliaid ynghylch sut byddai'r cynigion yn gweithio;
- ystyried ymatebion rhanddeiliaid ar y gwahanol effeithiau y byddai'r cynigion yn eu cael, a dod i gasgliadau ar yr effeithiau hynny;
- egluro ein casgliad, yng ngoleuni ein holl ddyletswyddau perthnasol a'r fframwaith cyfreithiol, i gadarnhau y bydd newidiadau'n cael eu gwneud i ganiatáu danfon llythyrau Ail Ddosbarth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos; a
- nodi'r addasiadau perthnasol i'r offerynnau cyfreithiol.

Ein cynigion i ganiatáu i'r Post Brenhinol ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos

Ein Hymgynghoriad Ionawr 2025

5.6 Yn ein Hymgynghoriad, fe wnaethom nodi cynigion i newid y gofyniad i ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth o chwe diwrnod yr wythnos (dydd Llun i ddydd Sadwrn) i ganiatáu ar gyfer danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Roedd ein cynigion yn seiliedig ar ymateb y Post Brenhinol i'n Cais am Fewnbwn, ble cyflwynodd gynllun i foderneiddio a oedd yn cynnwys cynnig allweddol ar gyfer danfon llythyrau Ail Ddosbarth (a llythyrau post swmp nad ydynt yn flaenoriaeth fel sy'n cael eu trafod yn Adran 7) bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos.

5.7 Ar ôl ystyried yr ymatebion i'n Cais am Fewnbwn ym mis Ionawr 2024, ynghyd â'r dystiolaeth sy'n dangos bod angen diwygio'r USO ar frys i gefnogi cynaliadwyedd y gwasanaeth cyffredinol, fe wnaethom barhau i gredu nad yw'r sefyllfa bresennol yn opsiwn

[267] At ddibenion y ddogfen hon, mae 'llythyrau' yn cynnwys 'llythyrau mawr' oni nodir yn wahanol - gweler troednodyn 15.

a chanolbwyntio ein hasesiad ar fodel danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos arfaethedig y Post Brenhinol ar gyfer llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth oherwydd:

- Byddai'n arwain at lai o newidiadau i'r USO o'i gymharu ag opsiynau eraill a ystyriwyd yn y cam Cais am Fewnbwn.
- Gellid ei roi ar waith yn gyflymach drwy newidiadau i'n rheoliadau o'i gymharu ag un o'r prif opsiynau yn ein Cais am Fewnbwn i leihau nifer y diwrnodau danfon ar gyfer pob llythyr, gan y byddai'r olaf yn gofyn am newidiadau i lefelau sylfaenol yr USO a sefydlwyd mewn deddfwriaeth sylfaenol.
- Mae'r Post Brenhinol yn y sefyllfa orau i wybod, o ystyried ei adnoddau, pa newidiadau i'w fodel gweithredu y gellir eu cyflawni o fewn cyfnod rhesymol ac mewn ffordd gost-effeithiol.

5.8 Byddai'r newidiadau arfaethedig i'r ffordd yr ymdrinnir â llythyrau Ail Ddosbarth yn golygu, yn hytrach na'i bod yn rhaid i'r Post Brenhinol ddanfon yr eitemau hynny bob dydd chwe diwrnod yr wythnos (dydd Llun i ddydd Sadwrn) fel nawr, y byddai'n gallu danfon llythyrau Ail Ddosbarth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos (dydd Llun i ddydd Gwener).

5.9 Yn ymarferol, byddai hyn yn golygu y byddai'r diwrnodau danfon ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth yn cael eu cylchdroi yn ôl llwybr danfon yn wythnosol. Er enghraifft:

- Yn ystod wythnos 1, byddai llythyrau Ail Ddosbarth yn cael eu danfon i bwyntiau danfon ar lwybr A ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener, a byddai llythyrau Ail Ddosbarth yn cael eu danfon i'r pwyntiau danfon ar lwybr B ddydd Mawrth a dydd Iau.
- Yn ystod wythnos 2, byddai llythyrau Ail Ddosbarth yn cael eu danfon i bwyntiau danfon ar lwybr A ddydd Mawrth a dydd Iau, a byddai llythyrau Ail Ddosbarth yn cael eu danfon i'r pwyntiau danfon ar lwybr B ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener.

5.10 Roeddem yn cynnig gwneud newidiadau i'r gofynion rheoleiddio fel na fyddai'n rhaid i'r Post Brenhinol gasglu, prosesu na danfon eitemau llythyrau Ail Ddosbarth ar ddydd Sadwrn. Fodd bynnag, fe wnaethom nodi bod y Post Brenhinol yn dal i fwriadu i gasgliadau weithredu fel y maent ar hyn o bryd, h.y. y byddai llythyrau Ail Ddosbarth yn dal i gael eu casglu o bwyntiau mynediad ar ddydd Sadwrn, ac y gallai barhau i brosesu rhai eitemau llythyrau Ail Ddosbarth ddydd Sadwrn yn dibynnu ar arbedion effeithlonrwydd gweithredol.

5.11 O dan ein cynigion, ni fyddai dydd Sadwrn yn cael ei gynnwys fel diwrnod gwaith mwyach at ddibenion cyfrifo amseroedd llwybro, sy'n golygu y gallai unrhyw eitemau llythyrau Ail Ddosbarth sy'n cael eu postio rhwng dydd Mercher a dydd Sadwrn gyrraedd diwrnod yn hwyrach nag ar hyn o bryd a pharhau i fodloni'r amser llwybro penodol ar gyfer danfon o fewn tri diwrnod gwaith i bostio.

Ymatebion rhanddeiliaid

Trosolwg

5.12 Cafwyd ymateb cymysg i'n cynigion. Roedd y Post Brenhinol,[268] rhai darparwyr mynediad,[269] cynrychiolwyr y rheini sy'n anfon post mynediad[270] a nifer o sefydliadau eraill[271] yn cefnogi ein cynigion. Roedd yr un ymatebwyr hefyd yn cytuno â chasgliadau ein hasesiad effaith dros dro.

5.13 Nid oedd MCF nac UK Mail yn cytuno'n benodol â'n cynigion ond yn cytuno'n gyffredinol â'r dystiolaeth a'r casgliadau a nodwyd gennym am anghenion rhesymol defnyddwyr a'r rhesymau dros ddiwygio'r USO.[272]

5.14 Roedd yr ymatebwyr a oedd yn cefnogi ein cynigion yn cytuno'n gyffredinol y byddai anghenion rhesymol defnyddwyr post yn dal i gael eu diwallu ac yn cydnabod bod angen diwygio i gefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol. Cytunodd Cymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol a Citipost â chasgliad ein hadolygiad o anghenion defnyddwyr fod y gwasanaeth cyffredinol presennol yn rhy benodol. Nododd yr MUA, y Post Brenhinol ac Unite CMA y manteision gweithredol a'r arbedion effeithlonrwydd y gellid eu gwireddu drwy ddiwygio ac aeth BBS a'r Bartneriaeth Bostio Strategol ymhellach i gydnabod pwysigrwydd diwygiadau i gadw prisiau'n is yn y dyfodol. Dywedodd y Post Brenhinol, DMA ac Unite CMA y byddai'r cynigion yn cefnogi darparu gwasanaeth post dibynadwy. Soniodd y Post Brenhinol ac Unite CMA hefyd am bwysigrwydd y diwygiadau i gefnogi a hyrwyddo fforddiadwyedd gwasanaethau post sy'n nodwedd bwysig i ddefnyddwyr post.[273]

5.15 Fodd bynnag, nid oedd llawer o'r ymatebwyr - gan gynnwys grwpiau defnyddwyr, gweinyddwyr etholiadol, y diwydiant cardiau cyfarch, cyhoeddwyr ac unigolion - yn cefnogi ein cynigion neu'n bryderus amdanynt. Roeddent hefyd yn anghytuno â'n casgliadau o'n hasesiad effaith dros dro, neu'n cwestiynu'r casgliadau hynny, yn enwedig mewn perthynas â'r effaith ar ddefnyddwyr post - mae'r sylwadau hyn yn cael eu hystyried ymhellach yn ein hasesiad effaith isod.

5.16 Nodwn fod rhanddeiliaid hefyd wedi codi nifer o faterion eraill sy'n berthnasol i'n cynigion ar gyfer newid amlder danfon llythyrau Ail Ddosbarth. Mae eu sylwadau am y canlynol wedi'u crynhoi ac yn cael sylw mewn adrannau eraill o'r ddogfen hon:

---

[268] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, tt.6-19.
[269] [✂]; Ymateb CFH Docmail Limited i Ymgynghoriad 2025, t.3; Ymateb Citipost Mail i Ymgynghoriad 2025, t.1; Ymateb Whistl i Ymgynghoriad 2025, t.1.
[270] Ymateb Data and Marketing Association (DMA) i Ymgynghoriad 2025, t.5; Ymateb Cymdeithas Defnyddwyr Post i Ymgynghoriad 2025, t.5.
[271] Ymateb BBS i Ymgynghoriad 2025, t.2; [✂]; Ymateb Cymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol i Ymgynghoriad 2025, tt.2-3; Ymateb y Bartneriaeth Bostio Strategol i Ymgynghoriad 2025, t.2; Ymateb Unite CMA i Ymgynghoriad 2025, t.12.
[272] Ymateb Mail Competition Forum (MCF) i Ymgynghoriad 2025, t.2; Ymateb UK Mail i Ymgynghoriad 2025, t.2.
[273] Ymateb BBS i Ymgynghoriad 2025, t.2; Ymateb Citipost Mail i Ymgynghoriad 2025, t.1; Ymateb Data and Marketing Association (DMA) i Ymgynghoriad 2025, t.5; Ymateb y Gymdeithas Defnyddwyr Post i Ymgynghoriad 2025, t.5; Ymateb Cymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol i Ymgynghoriad 2025, t.3; Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, t.6-19; Ymateb y Bartneriaeth Bostio Strategol i Ymgynghoriad 2025, t.7; Ymateb Unite CMA i Ymgynghoriad 2025, t.12.

- Roedd rhai ymatebwyr yn cwestiynu ein rhesymau dros ganolbwyntio ar gynigion y Post Brenhinol ar draul opsiynau posibl eraill ar gyfer diwygio - gweler paragraff 5.7. Roedd ymatebwyr hefyd wedi cyflwyno nifer o opsiynau gwahanol ar gyfer diwygio - gweler Atodiad A5 a pharagraffau 5.160 - 5.170 isod hefyd.
- Pwysleisiodd rhai ymatebwyr bwysigrwydd asesu effeithlonrwydd y Post Brenhinol cyn bwrw ymlaen ag unrhyw waith i ddiwygio'r USO - gweler paragraffau 4.34 a 4.50 yn Adran 4.

Gofynnodd rhai ymatebwyr sut byddai'r model danfon newydd ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth yn gweithio, a sut byddai'n cael ei gyfleu i ddefnyddwyr

5.17 Dywedodd nifer o randdeiliaid y gallai'r model cyflawni newydd fod yn anodd i ddefnyddwyr ei ddeall. Dywedodd CCP-ACOD, Cyngor ar Bopeth a Swyddfa'r Post Cyf y gallai'r amserlen danfon wythnosol sy'n cylchdroi achosi dryswch i gwsmeriaid. Gofynnodd CCNI, Gretton Books, [✂] a Tesco Bank gwestiynau penodol ynghylch sut byddai'r model danfon newydd yn gweithio'n ymarferol, gan gynnwys strwythur llwybrau danfon ar droed, amseroedd llwybro ac effaith Gwyliau Banc.[274]

5.18 Gofynnodd rhai ymatebwyr am yr effaith y byddai ein cynigion yn ei chael ar gasgliadau: dywedodd ACS fod angen rhagor o eglurder ar y cynnig i roi'r gorau i gasglu post Ail Ddosbarth ar ddydd Sadwrn, a holodd CCP-ACOD am y cysylltiad rhwng danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos a chasglu wrth ddanfon. Gofynnodd un ymatebydd preifat a fyddai casgliadau blwch post yn parhau i ddilyn eu patrwm presennol.[275]

5.19 Er mwyn sicrhau nad yw defnyddwyr yn cael eu drysu â'r model danfon newydd, dywedodd CCP-ACOD, Cyngor ar Bopeth, Consumer Scotland a Tesco Bank y byddai cyfleu'r newidiadau i ddefnyddwyr yn bwysig. Dywedodd CCP-ACOD y dylid defnyddio amrywiaeth o sianeli cyfathrebu ac awgrymodd Consumer Scotland ein bod yn gosod disgwyliadau ynghylch sut dylid rhoi gwybod i ddefnyddwyr. Dywedodd CCNI fod yn rhaid i ni sicrhau bod defnyddwyr, yn enwedig y rheini sy'n dibynnu ar bost sy'n gritigol o ran amser, yn cael gwybod beth fydd y newidiadau arfaethedig yn ei olygu iddyn nhw. Dywedodd un ymatebydd y dylai'r Post Brenhinol ddarparu cadarnhad ysgrifenedig i bob cyfeiriad o'r patrwm danfon arfaethedig ac na ddylid cyfyngu hysbysiad o'r fath i'w wefan.[276]

Ein hasesiad

5.20 Nodwn fod rhai ymatebwyr wedi cwestiynu sut byddai'r model danfon newydd ar gyfer Ail Ddosbarth yn gweithio'n ymarferol, a bod rhai'n poeni y gallai arwain at ddryswch i gwsmeriaid.

---

[274] Ymateb y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau (CCP-ACOD) i Ymgynghoriad 2025; t.6; ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, t.9; ymateb Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon (CCNI) i Ymgynghoriad 2025, t.21; ymateb Gretton Books i Ymgynghoriad 2025, t.1; [✂]; ymateb Swyddfa'r Post Cyfyngedig (POL) i Ymgynghoriad 2025, t.13; ymateb Tesco Bank i Ymgynghoriad 2025, t.3.

[275] Ymateb Pwyllgor Cynghori'r Alban (ACS) i Ymgynghoriad 2025, t.4; ymateb y Panel Cyfathrebiadau Defnyddwyr (CCP-ACOD) i Ymgynghoriad 2025, tt.6-7; ymateb J W Reed i Ymgynghoriad 2025, t.3.

[276] Ymateb y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau (CCP-ACOD) i Ymgynghoriad 2025, t.9; ymateb Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon (CCNI) i Ymgynghoriad 2025, t.24; ymateb Consumer Scotland i Ymgynghoriad 2025, t.51; ymateb J W Reed i Ymgynghoriad 2025, tt.2-3; ymateb Tesco Bank i Ymgynghoriad 2025, t.1.

5.21 Fel sy'n wir am y model danfon presennol, efallai y bydd derbynwyr yn cael llythyr Ail Ddosbarth ar unrhyw un o'r diwrnodau sy'n rhan o amser llwybro'r llythyr, h.y. y diwrnod ar ôl iddo gael ei anfon a'r ddau ddiwrnod gwaith ar ôl hynny.

5.22 Gan na fyddai dydd Sadwrn yn ddiwrnod gwaith mwyach ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth o dan y model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, mae dau newid rydym yn credu y byddai defnyddwyr post yn sylwi arnynt ac angen eu deall:

- Oni bai fod llythyrau Dosbarth Cyntaf neu lythyrau neu barseli blaenoriaeth eraill ar eu cyfer, ni fyddant yn cael llythyrau wedi'u danfon ddydd Sadwrn.
- Gall unrhyw lythyrau Ail Ddosbarth sy'n cael eu postio o ddydd Mercher i ddydd Sadwrn gyrraedd diwrnod yn hwyrach nag ar hyn o bryd (ac eithrio dydd Sul).

5.23 Disgrifir y model danfon newydd ym mharagraffau 5.8 a 5.11 uchod. Mae'r graffigyn canlynol hefyd yn rhoi enghraifft o sut byddai danfon llythyrau Ail Ddosbarth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos yn gweithio dros bythefnos. Er y byddai llythyrau Ail Ddosbarth yn cael eu danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, rydym yn disgwyl na fyddai'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr post yn sylwi ar hyn o ystyried nad ydynt ar hyn o bryd yn gwybod yn union pryd bydd llythyr Ail Ddosbarth yn cyrraedd.

Ffigur 5.1: Enghraifft o amserlen danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth



5.24 Er y gallai unrhyw eitemau llythyrau Ail Ddosbarth sy'n cael eu postio o ddydd Mercher i ddydd Sadwrn gyrraedd diwrnod yn ddiweddarach na nawr, byddent yn dal i gwrdd â'r amser penodol ar gyfer danfon o fewn tri diwrnod gwaith i'w postio. Mae'r tabl isod yn

dangos y gwahaniaeth rhwng y diwrnod danfon presennol a'r diwrnod danfon arfaethedig ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth sy'n cael eu hanfon ar bob diwrnod o'r wythnos.[277]

Ffigur 5.2: Tabl i ddangos y diwrnod danfon presennol a'r diwrnod danfon yn y dyfodol ar ôl y diwrnod postio llythyrau Ail Ddosbarth

Diwrnod postio	Dyddiad danfon hwyraf ar hyn o bryd	Dyddiad danfon hwyraf yn y dyfodol
Dydd Llun	Dydd Iau	Dydd Iau
Dydd Mawrth	Dydd Gwener	Dydd Gwener
Dydd Mercher	Dydd Sadwrn	Dydd Llun
Dydd Iau	Dydd Llun	Dydd Mawrth
Dydd Gwener	Dydd Mawrth	Dydd Mercher
Dydd Sadwrn	Dydd Mercher	Dydd Iau
Dydd Sul	Dydd Iau	Dydd Iau

5.25 Er enghraifft, ac er mwyn egluro'r ymholiadau am amseroedd llwybro gan CCNI, mae'n rhaid i eitem Ail Ddosbarth sy'n cael ei phostio ddydd Gwener gyrraedd erbyn y dydd Mawrth canlynol i fodloni gofynion presennol D+3. Byddai'r model danfon newydd yn golygu y byddai angen i'r eitem gyrraedd erbyn dydd Mercher i gwrdd â D+3 gan na fyddai dydd Sadwrn yn cael ei gynnwys mwyach yn y cyfrifiad amser llwybro, h.y. dydd Gwener yw Diwrnod D sef y diwrnod postio a'r dyddiad casglu tybiedig ar yr amod bod yr eitem yn cael ei phostio cyn yr amser casglu terfynol. Felly, dydd Llun yw D+1 (gan na fyddai dydd Sul yn ddiwrnod danfon ac nid yw erioed wedi bod yn ddiwrnod danfon), mae dydd Mawrth yn D+2 a dydd Mercher yn D+3.

5.26 Ym mharagraff 5.33 ein Hymgynghoriad, fe wnaethom egluro y byddai'r model danfon newydd yn golygu, o'i gymharu â chael tri chyfle i ddanfon unrhyw lythyr Ail Ddosbarth yn brydlon fel sy'n wir ar gyfer y Post Brenhinol ar hyn o bryd, y byddai'n cael un neu ddau gyfle danfon o dan y model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Gan ddefnyddio'r enghraifft yn y paragraff blaenorol, mae hyn yn golygu y byddai gan y Post Brenhinol un cyfle i ddanfon y llythyr Ail Ddosbarth petai danfoniadau Ail Ddosbarth wedi'u trefnu ar gyfer dydd Mawrth a dydd Iau yr wythnos honno i'r cyfeiriad, h.y. byddai'n rhaid i'r Post Brenhinol ddanfon ar ddydd Mawrth (D+2), a dau gyfle i ddanfon yr eitem pe bai danfoniadau Ail Ddosbarth wedi'u trefnu ar gyfer y cyfeiriad ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener yr wythnos honno, h.y. gallai'r Post Brenhinol ddanfon yr eitem Ail Ddosbarth ddydd Llun (D+1) neu ddydd Mercher (D+3). Fodd bynnag, am y rhesymau a eglurir uchod, nid ydym yn disgwyl i dderbynwyr sylwi ar hyn, gan nad ydynt yn gwybod yn union pryd

[277] Mae llythyrau Ail Ddosbarth a anfonir ar ddydd Mercher i fod i gael eu danfon ar ddydd Sadwrn ar hyn o bryd. O dan y model danfon newydd, byddent yn cael eu danfon ar y diwrnod danfon nesaf, sef dydd Llun gan nad yw dydd Sul yn ddiwrnod danfon.

bydd llythyr Ail Ddosbarth yn cyrraedd ar hyn o bryd. Nid ydym yn disgwyl i ddefnyddwyr sylwi ar y newid i ddanfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos y tu hwnt i'r effeithiau a nodwyd gennym ym mharagraff 5.22 uchod.

Effaith Gwyliau Banc

5.27 Mewn ymateb i ymholiadau ynghylch sut byddai Gŵyl Banc yn effeithio ar y model danfon, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, nid oes yn rhaid i'r Post Brenhinol gasglu na danfon post ar Wyliau Banc[278] ac nid ydynt yn cael eu cynnwys wrth gyfrifo amseroedd llwybro. Nid ydym yn disgwyl y byddai defnyddwyr yn sylwi ar unrhyw wahaniaeth yn y ffordd mae eu post yn cael ei drin dros Wyliau Banc o dan y model danfon newydd.

5.28 O ran sut byddai'n gweithio'n ymarferol o dan y model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth, lle mae Gŵyl Banc yn digwydd ar ddydd Llun:

- Ar gyfer unrhyw lythyrau Ail Ddosbarth sy'n cael eu postio ddydd Sadwrn, dydd Sul neu ddydd Llun Gŵyl y Banc, y dyddiad casglu tybiedig fyddai dydd Mawrth (Diwrnod D) felly byddai'n rhaid danfon eitem Ail Ddosbarth erbyn dydd Gwener i gwrdd â D+3 (gan mai dydd Mercher yw D+1, dydd Iau yw D+2, a dydd Gwener yw D+3).
- Gallai unrhyw eitemau Ail Ddosbarth sydd eisoes yn cael eu prosesu gan y Post Brenhinol cyn Dydd Llun Gŵyl y Banc, h.y. eitemau sy'n cael eu postio a'u casglu ddydd Mercher, dydd Iau neu ddydd Gwener, gyrraedd un diwrnod gwaith yn ddiweddarach a dal i gyrraedd yr amser llwybro D+3 ar gyfer yr eitem honno gan fod Dydd Llun Gŵyl y Banc wedi'i eithrio o'r cyfrifiad amser llwybro.

5.29 Mae'r Post Brenhinol wedi egluro, yn yr wythnosau gyda Gŵyl Banc ar ddydd Llun, y byddai'r patrwm danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth yr un fath â'r wythnos flaenorol, h.y. petai danfon Ail Ddosbarth wedi'i drefnu ar gyfer dydd Mawrth a dydd Iau i'r cyfeiriad yn yr wythnos cyn Dydd Llun Gŵyl y Banc, y byddai'n dilyn yr un patrwm yn ystod yr wythnos â dydd Llun Gŵyl y Banc. Mae hyn yn sicrhau bod y patrwm danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth yn parhau gan nad oes unrhyw ddanfoniadau ar ddydd Llun Gŵyl y Banc.[279]

Llwybrau danfon ar droed

5.30 Mewn ymateb i ymholiadau gan Gretton Books am strwythur llwybrau danfon ar droed pe bai'r model danfon newydd ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth yn cael ei roi ar waith, fel sy'n cael ei egluro ym mharagraff 5.34 ein Hymgynghoriad:

- Byddai llythyrau Ail Ddosbarth yn cael eu danfon ar lwybrau cerdded bob yn ail ddiwrnod o'r wythnos.
- Byddai llythyrau Dosbarth Cyntaf yn cael eu danfon ochr yn ochr â llythyrau Ail Ddosbarth ar lwybrau danfon ar droed ar ddiwrnodau pan fydd danfon Ail Ddosbarth wedi'i drefnu ond byddent fel arall yn cael eu danfon mewn faniau ochr yn ochr â pharseli ar ddiwrnodau pan nad yw danfon Ail Ddosbarth wedi'i drefnu.

[278] Mae Gŵyl Banc yn golygu "gwyliau cyhoeddus" o dan y gofynion rheoleiddio.

[279] Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 27 Mai 2025.

5.31 Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, byddai amlder danfon post Dosbarth Cyntaf (a pharseli USO) yn aros yr un fath ag ar hyn o bryd sef chwe diwrnod yr wythnos.[280][281] Dyma'r dull a ddefnyddir i ddanfon yr eitemau hyn a allai fod yn wahanol yn y dyfodol, e.e. drwy ddanfon mewn fan ar rai diwrnodau a thrwy ddanfon ar droed ar ddiwrnodau eraill. Nid ydym yn disgwyl i ddefnyddwyr sylwi ar y gwahaniaeth yn y ffordd mae eu llythyrau'n cael eu danfon.

Casgliadau USO

5.32 Mewn ymateb i ymholiadau gan randdeiliaid am yr effaith ar gasgliadau Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol, fel sy'n cael ei egluro yn ein Hymgynghoriad:

- Er na fyddai dydd Sadwrn yn cael ei gyfrif fel diwrnod casglu llythyrau Ail Ddosbarth mwyach, yn ymarferol mae'r Post Brenhinol yn bwriadu i gasgliadau weithredu'r mor aml â nawr, h.y. byddai llythyrau Ail Ddosbarth yn dal i gael eu casglu o bwyntiau mynediad ar ddydd Sadwrn at ddibenion effeithlonrwydd gan y byddai'n dal yn rhaid iddo gasglu a phrosesu eitemau Dosbarth Cyntaf ar ddydd Sadwrn. Mae'n bwysig nodi mai dydd Llun fyddai'r dyddiad casglu tybiedig ar gyfer unrhyw eitemau Ail Ddosbarth sy'n cael eu casglu ar ddydd Sadwrn - mae hyn yn golygu y byddai'r cyfrifiad amser llwybro'n dechrau ar ddydd Llun (fel Diwrnod "D").[282]
- Ar hyn o bryd, mae casgliadau o rai pwyntiau mynediad (h.y. blychau post) yn digwydd yn ystod neu yn syth ar ôl rowndiau danfon. O dan y diwygiadau arfaethedig, mae'r Post Brenhinol yn dal i fwriadu casglu o'r pwyntiau mynediad hyn chwe diwrnod yr wythnos.

Cyfleu'r newidiadau i ddefnyddwyr

5.33 Rydym yn cytuno ei bod yn bwysig bod defnyddwyr post yn deall y newidiadau i amlder danfon llythyrau Ail Ddosbarth. Yn benodol, rydym o'r farn ei bod yn bwysig bod anfonwyr post yn ymwybodol o'r amserlen y disgwylir i'r Post Brenhinol ei dilyn i ddanfon eitem er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth i brynu'r gwasanaeth post cywir ar gyfer eu hanghenion.

5.34 Fel sy'n cael ei egluro uchod, y prif newidiadau y bydd defnyddwyr yn sylwi arnynt o dan y model danfon newydd yw na fyddant yn cael llythyrau Ail Ddosbarth (a llythyrau eraill nad ydynt yn flaenoriaeth) ar ddydd Sadwrn ac y gallai unrhyw lythyrau Ail Ddosbarth sy'n cael eu postio o ddydd Mercher i ddydd Sadwrn gyrraedd un diwrnod gwaith yn hwyrach na nawr. Rydym yn credu y dylai'r Post Brenhinol ganolbwyntio ar gyfleu'r newidiadau hyn i ddefnyddwyr post.

5.35 Rydym yn disgwyl i'r Post Brenhinol nodi'r wybodaeth berthnasol i ddefnyddwyr yn rhagweithiol ac mewn ffordd glir, ddealladwy, gywir a thryloyw, gan ganolbwyntio ar gyfleu'r newidiadau allweddol y byddai defnyddwyr yn sylwi arnynt, ac felly y dylent eu deall, fel y nodir yn y paragraff blaenorol. Dylai'r wybodaeth hefyd fod ar gael yn rhwydd

---

[280]Mae'n rhaid i'r Post Brenhinol ddanfon parseli rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol bum diwrnod yr wythnos (dydd Llun i ddydd Gwener) ond yn ymarferol, mae'n danfon parseli ar ddydd Sadwrn hefyd.

[281] Nid oes chwaith unrhyw newidiadau i'r rhwymedigaeth casglu a danfon ar gyfer llythyrau USO eraill, fel y rheini sy'n cael eu hanfon gan ddefnyddio Danfon Arbennig wedi'i Warantu erbyn 1pm a llythyrau rhyngwladol. Byddai'r llythyrau hyn yn dal i gael eu casglu a'u danfon chwe diwrnod yr wythnos o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, sy'n bodloni'r gofynion sylfaenol yn adran 31 o'r Ddeddf.

[282]Lle nad yw dydd Llun yn ŵyl banc. Os yw dydd Llun yn ŵyl banc, y dyddiad casglu tybiedig fyddai'r diwrnod gwaith cyntaf ar ôl Gŵyl y Banc.

mewn mannau lle gall defnyddwyr geisio gwybodaeth i'w helpu i benderfynu pa wasanaeth post i'w ddefnyddio, e.e. mewn swyddfeydd post, ac ar wefan y Post Brenhinol. Rydym hefyd yn disgwyl i'r Post Brenhinol ystyried yr angen i gyflwyno'r wybodaeth hon mewn ffordd hygyrch drwy ddefnyddio fformatau priodol drwy sianeli priodol ar gyfer defnyddwyr anabl. Fodd bynnag, nid ydym yn credu bod angen nodi yn ein rheoliadau sut dylai'r Post Brenhinol gyfleu'r newidiadau perthnasol.

5.36 O ystyried y pryderon a godwyd gan randdeiliaid, rydym wedi gofyn am wybodaeth gan y Post Brenhinol ynghylch sut mae'n bwriadu cyfleu unrhyw newidiadau i ddefnyddwyr preswyl. Deallwn ei fod yn bwriadu cynhyrchu taflen i egluro'r newidiadau a'u dosbarthu i bob cartref yn y DU. Rydym hefyd yn deall bod y Post Brenhinol yn gweithio gyda Swyddfa'r Post Cyfyngedig i ystyried y llwybr mwyaf priodol ar gyfer rhoi gwybod am unrhyw newidiadau i ganghennau Swyddfa'r Post. O ran post swmp mynediad, rydym yn ymwybodol bod y Post Brenhinol eisoes wedi ymgysylltu'n helaeth â gweithredwyr sy'n delio â llythyrau gan sefydliadau sy'n anfon llawer o lythyrau ac yn uniongyrchol â rhai o'r anfonwyr hyn.

5.37 Rydym yn nodi y byddai angen i'r Post Brenhinol hefyd ddiweddaru ei gynlluniau (sy'n nodi'r telerau ac amodau ar gyfer y rheini sy'n prynu ei wasanaethau) i adlewyrchu'r amserlen danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth.[283] Rydym yn deall bod y Post Brenhinol eisoes wedi ymgynghori ar ddiwygio'r cynlluniau i adlewyrchu ein cynigion, er mwyn iddo allu newid amlder danfon llythyrau Ail Ddosbarth o chwe diwrnod yr wythnos i bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Dim ond os byddwn yn bwrw ymlaen i weithredu ein cynigion y byddai'n cyhoeddi ac yn gweithredu'r cynlluniau diwygiedig.[284]

Cynlluniau peilot y Post Brenhinol ar gyfer y newidiadau gweithredol

5.38 Yn ein Hymgynghoriad, fe wnaethom ddweud bod y Post Brenhinol wedi dweud wrthym am ei gynlluniau i gynnal rhaglen beilot o'i fodel gweithredu arfaethedig (h.y. danfon pob post nad yw'n flaenoriaeth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos) mewn cymysgedd o leoliadau yn y DU, a fyddai'n cynnwys tua 4% o'r pwyntiau danfon o fis Chwefror 2025 ymlaen.

5.39 O ystyried arwyddocâd a chymhlethdod y newidiadau gweithredol posibl, dywedodd y Post Brenhinol y byddai'r cynlluniau peilot yn ei alluogi i roi unrhyw newidiadau ar waith cyn gynted â phosibl ar ôl i ni ddod i benderfyniad ar ein cynigion (gan nodi y gallem benderfynu peidio â rhoi unrhyw newidiadau ar waith, neu ddod i benderfyniad gwahanol i'r hyn roeddem yn ei gynnig). Fe wnaethom nodi effaith fach y cynlluniau peilot ar ddefnyddwyr a'r manteision posibl y gellid eu gwireddu drwy hwyluso gweithredu cyflymach, pe baem yn penderfynu newid yr USO fel y cynigiwyd yn ein Hymgynghoriad. Rydym yn trafod ein dull o fonitro'r cynlluniau peilot yn Adran 9.

[283] Cynlluniau'r Post Brenhinol (Telerau ac Amodau) a gyhoeddir o dan Ddeddf Gwasanaethau Post 2000
[284] Y Post Brenhinol, 2025. Decision on changes to the Postal Schemes Summer 2025 covering USO reform.

Ymatebion rhanddeiliaid

5.40 Nododd rhai rhanddeiliaid fod y Post Brenhinol wedi dechrau treialu'r newidiadau gweithredol mewn rhai swyddfeydd danfon a gwnaethant sylwadau ar sut y dylem ystyried canlyniadau'r cynlluniau peilot hyn cyn gwneud ein penderfyniad terfynol. Dywedodd CWU a Swyddfa'r Post Cyfyngedig y dylem aros i'r cynlluniau peilot gael eu cwblhau a'u gwerthuso, ac fe wnaeth CCNI ein hannog i gynnal asesiad effaith cynhwysfawr o'r cynlluniau peilot i werthuso sut mae'r model danfon newydd yn gweithio a rhannu hyn â chyrff defnyddwyr, cyn i ni wneud unrhyw newidiadau. Gofynnodd Consumer Scotland sut byddai'r cynlluniau peilot yn cael eu hasesu ac a fyddem yn defnyddio unrhyw dystiolaeth o'r cynlluniau peilot i lywio ein penderfyniad.[285] Mynegodd y GCA bryder y byddai'r pwyntiau danfon yn yr ardaloedd peilot yn ddarostyngedig i safonau danfon is a'n bod yn caniatáu hyn heb wneud newidiadau i'r gofynion danfon cyfreithiol.[286]

Ein hasesiad

5.41 Roedd y cynlluniau peilot yn fater gweithredol i'r Post Brenhinol ac nid oeddent yn rhan o'n proses gwneud penderfyniadau. Rydym yn nodi bod cynlluniau peilot y Post Brenhinol yn canolbwyntio ar gasglu gwybodaeth am sut gallai weithredu unrhyw newidiadau gweithredol sy'n gysylltiedig â'n cynigion mewn ffordd effeithiol ac amserol, os byddwn yn penderfynu gwneud y newidiadau i'r USO roeddem wedi'u cynnig yn ein Hymgynghoriad. Yn Adran 9 rydym yn egluro sut rydym wedi monitro'r gwaith o gyflwyno'r cynlluniau peilot hyn drwy ein rhaglen fonitro, yn benodol i ganfod unrhyw effeithiau niweidiol ar ddefnyddwyr.

5.42 Rydym o'r farn bod ein sylfaen dystiolaeth bresennol (ac eithrio'r cynlluniau peilot) yn ddigon i'n galluogi i asesu effaith ein cynigion fel sail i'n penderfyniad terfynol, yn enwedig y dystiolaeth rydym wedi'i chasglu ar anghenion rhesymol defnyddwyr, dirywiad strwythurol y farchnad llythyrau, yr effaith mae hyn yn ei chael ar gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol a defnyddwyr, ac ymatebion i'n Hymgynghoriad. Rydym yn nodi bod y Post Brenhinol wedi cyflwyno'r model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos fel opsiwn y mae'n credu y gall ei gyflawni'n weithredol ac, o'n gwaith i ddeall y newidiadau, rydym o'r farn bod ganddo gymhellion cryf i wneud y model danfon newydd yn llwyddiant. Rydym yn ymwybodol bod modelau danfon tebyg bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos wedi cael eu mabwysiadu ar gyfer gwasanaethau post mewn rhai gwledydd Ewropeaidd.[287] Yn gyffredinol, o ystyried y brys i ddiwygio a nodwyd gennym, nid ydym o'r farn bod aros am ganlyniad cynlluniau peilot y Post Brenhinol yn angenrheidiol yng ngoleuni ein sylfaen dystiolaeth a'n dadansoddiad helaeth presennol.

---

[285] Ymateb Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu (CWU) i Ymgynghoriad 2025, t.4; ymateb Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon (CCNI) i Ymgynghoriad 2025, t.2 a t.22; ymateb Consumer Scotland i Ymgynghoriad 2025, t.51-52; ymateb Swyddfa'r Post Cyfyngedig (POL) i Ymgynghoriad 2025, t.13.

[286] Ymateb The Greeting Card Association (GCA) i Ymgynghoriad 2025, t.10.

[287] Gweler er enghraifft: Sweden a'r Ffindir.

Ein hasesiad o effaith ein cynigion

5.43 Yn ein Hymgynghoriad, fe wnaethom asesu effeithiau ein cynigion i ganiatáu i'r Post Brenhinol newid amlder danfon llythyrau Ail Ddosbarth. Fe wnaethom ystyried yr effaith y byddai ein cynigion yn ei chael ar y canlynol:

- Defnyddwyr post - roedd hyn yn cynnwys defnyddwyr preswyl (gan gynnwys is-grwpiau o ddefnyddwyr) a defnyddwyr busnesau bach a chanolig fel anfonwyr a derbynwyr post un eitem a hefyd fel derbynwyr post swmp.
- Gwasanaethau mynediad.
- Cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol.
- Cymhellion y Post Brenhinol i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'w gwsmeriaid.
- Arloesedd a chystadleuaeth yn y farchnad post.

5.44 Wrth wneud hynny, roeddem wedi asesu a fyddai'r cynigion yn cyd-fynd â'n hamcanion polisi ac yna wedi ystyried cymesuredd y cynigion yn eu cyfanrwydd i ddod i farn dros dro ynghylch a oes cyfiawnhad drostynt ac a ydynt yn gymesur â'r hyn y bwriedir iddynt ei gyflawni.

5.45 Daethom i'r casgliad dros dro y byddai'r cynigion yn cyd-fynd â'n hamcanion polisi, i sicrhau y byddai fframwaith rheoleiddio diwygiedig yn:

a) Arwain at fanteision i ddefnyddwyr drwy wasanaeth cyffredinol sy'n diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr;
b) Cefnogi cynaliadwyedd ariannol ac effeithlonrwydd y gwasanaeth cyffredinol;
c) Cymell y Post Brenhinol i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'w gwsmeriaid; a
d) Hybu arloesedd a chystadleuaeth yn y diwydiant post.

5.46 Gwnaethom hefyd nodi ein barn dros dro y byddai manteision y newidiadau arfaethedig i amlder danfon llythyrau Ail Ddosbarth, a chostau a risgiau posibl peidio â gweithredu, yn drech nag unrhyw gostau neu effeithiau niweidiol sy'n deillio o'r cynigion. Felly, roeddem o'r farn bod y cynigion yn gyfiawn ac yn gymesur.

5.47 Roedd llawer o'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno â'n cynigion i ganiatáu i'r Post Brenhinol newid amlder danfon llythyrau Ail Ddosbarth i bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos wedi gwneud sylwadau ar wahanol agweddau ar ein hasesiad effaith dros dro. Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau'n ymwneud â'r effaith ar ddefnyddwyr post. Rydym yn crynhoi ac yn asesu ymatebion rhanddeiliaid isod, ac yna'n nodi ein casgliad a'n penderfyniad terfynol yng ngoleuni'r adborth a'r dystiolaeth a gafwyd.

Effaith ar ddefnyddwyr post

Ein safbwynt dros dro

5.48 Ein barn dros dro oedd y byddai anghenion rhesymol defnyddwyr yn gyffredinol yn parhau i gael eu diwallu mewn perthynas ag amlder danfon, cyflymder danfon a dibynadwyedd gwasanaeth, ac y byddai'r cynigion yn gyffredinol ond yn achosi rhywfaint o anhwylustod i'r rheini a ddywedodd na fyddai eu hanghenion yn cael eu diwallu.

5.49 Gwnaethom nodi'r gefnogaeth gref gan ddefnyddwyr i wasanaethau post fod ar gael am bris sy'n fforddiadwy ac yn unffurf. Er ein bod yn disgwyl i brisiau barhau i godi hyd yn oed pe bai ein newidiadau arfaethedig yn cael eu rhoi ar waith, roeddem yn credu y byddai'r

cynnydd hwn yn debygol o fod yn llai sylweddol yn y tymor hir nag a fyddai pe na bai unrhyw newidiadau i'r USO.

5.50 Roeddem hefyd o'r farn y byddai'r effeithiau'n debyg ar draws y rhan fwyaf o ddefnyddwyr busnesau bach a chanolig ond nodwyd y gallai fod effeithiau gwahanol ar fusnesau bach a chanolig sy'n anfon mwy o eitemau llythyrau a/neu fwy o eitemau sy'n sensitif i amser.

5.51 At ei gilydd, daethom i'r casgliad y byddai'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr preswyl a busnesau bach a chanolig yn gallu addasu i'r newidiadau arfaethedig i'r ffordd y bydd llythyrau Ail Ddosbarth yn cael eu trin, ar yr amod bod gwasanaethau Dosbarth Cyntaf a gwasanaethau blaenoriaeth eraill fel Danfon Arbennig 1pm yn parhau i fod yn rhan o'r USO a bod yn rhaid eu danfon chwe diwrnod yr wythnos (gan gynnwys ar ddydd Sadwrn) am bris fforddiadwy. Roedd hyn yn cyd-fynd â'n dadansoddiad o'r dystiolaeth ar anghenion rhesymol defnyddwyr post, a ddaeth i'r casgliad dros dro y byddai anghenion y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn dal i gael eu diwallu drwy ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth yn llai aml, cyn belled bod gwasanaeth danfon y diwrnod canlynol yn dal ar gael.

Ymatebion rhanddeiliaid: ein sylfaen dystiolaeth

5.52 Fel sy'n cael ei grynhoi'n fanylach yn Adran 3, roedd nifer o ymatebwyr, grwpiau defnyddwyr yn bennaf a'r diwydiant cardiau cyfarch, yn dadlau bod diffygion yn ein hymchwil i anghenion defnyddwyr yn 2024 a'n hasesiad o anghenion defnyddwyr. O'r herwydd, roeddent yn dadlau nad oedd yn darparu sylfaen dystiolaeth ddigon cadarn ar gyfer ein cynigion. Dywedodd nifer o ymatebwyr unigol nad oeddem wedi nodi anghenion rhesymol defnyddwyr yn gywir.

5.53 Roedd Cyngor ar Bopeth, Consumer Scotland a'r GCA yn poeni bod bwlch yn ein sylfaen dystiolaeth gan na chafodd ymatebwyr yn ein hymchwil 2024 wybod am y model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Roedd Cyngor ar Bopeth a'r GCA hefyd yn poeni bod ein hymchwil yn anwybyddu mater fforddiadwyedd gan nad oedd yn rhoi gwybod i ymatebwyr am godiadau mewn prisiau Dosbarth Cyntaf yn y dyfodol. Roedd [✂] a [✂] yn dadlau bod yr hepgoriadau hyn yn golygu bod ein hymchwil yn ddiffygiol a/neu'n camarwain ymatebwyr. Dywedodd CWU fod ein hymchwil wedi camarwain ymatebwyr gan ei fod o'r farn y gellid danfon rhai llythyrau Ail Ddosbarth ddau ddiwrnod yn ddiweddarach o dan y model danfon newydd yn hytrach nag un. Roedd CCP-ACOD yn poeni bod canfyddiadau'r ymchwil ar anghenion defnyddwyr yn groes i'r graen ac y dylid eu hadolygu.[288]

5.54 Dywedodd Cyngor ar Bopeth fod diffygion difrifol yn ein hasesiad o anghenion defnyddwyr ac nad oedd ein casgliadau o'n hymchwil yn ddigonol fel sail ar gyfer newid. Dywedodd CWU, Earlybird Designs a House of Cards nad oeddem wedi nodi anghenion rhesymol defnyddwyr yn gywir a'u bod o'r farn nad yw'r farchnad yn diwallu anghenion defnyddwyr ar hyn o bryd. Ychwanegodd [✂] fod ein methiant i asesu anghenion defnyddwyr post yn

[288] Ymateb y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau (CCP-ACOD) i Ymgynghoriad 2025, t.4; ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, tt. 43-44; ymateb Consumer Scotland i Ymgynghoriad 2025, tt. 20-21; ymateb Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu (CWU) i Ymgynghoriad 2025, t.11-12; ymateb y Greeting Card Association (GCA) i Ymgynghoriad 2025, tt 6-7; [✂]; [✂]

briodol yn golygu ein bod yn torri'r gofyniad yn adran 30(3) y Ddeddf i gynnal asesiad o anghenion defnyddwyr cyn addasu'r Gorchymyn.[289]

Ein hasesiad

5.55 Rydym wedi ystyried ymatebion rhanddeiliaid i'n hymchwil a'n hasesiad o anghenion defnyddwyr 2024 ym mharagraffau 3.25 a 3.84 yn Adran 3. Fel sy'n cael ei egluro yn yr adran honno, er mwyn asesu anghenion defnyddwyr, roeddem wedi defnyddio ein sylfaen dystiolaeth helaeth ar sut mae unigolion a busnesau bach a chanolig yn defnyddio gwasanaethau post i anfon ac i dderbyn llythyrau. Yn ogystal â'n hymchwil i anghenion defnyddwyr yn 2024, roeddem hefyd wedi defnyddio tystiolaeth o'n hymchwil defnyddwyr a gynhaliwyd cyn 2024[290], ein harolwg tracio post blynyddol gyda data ar brofiad ac agweddau defnyddwyr post preswyl a busnesau bach a chanolig ers 2015[291], ein hadolygiadau blaenorol o anghenion defnyddwyr o 2020,[292] data'r farchnad[293] ac ymatebion i'n Cais am Fewnbwn ym mis Ionawr 2024. Wrth gwblhau ein hasesiad o anghenion defnyddwyr yn Atodiad A3, rydym hefyd wedi ystyried ymatebion rhanddeiliaid i'n Hymgynghoriad, gan gynnwys ymchwil a gyflwynwyd gan randdeiliaid. Rydym o'r farn bod yr ystod eang o dystiolaeth rydym wedi'i chyflwyno i gefnogi ein dadansoddiad, ac rydym yn parhau i ddibynnu arni, yn ddigonol i gynnal asesiad o anghenion rhesymol defnyddwyr, a'n bod wedi nodi anghenion rhesymol defnyddwyr yn briodol ac wedi asesu i ba raddau mae'r farchnad yn diwallu'r anghenion hynny. Rydym o'r farn felly ein bod wedi cydymffurfio â'n dyletswyddau o dan adran 30 y Ddeddf.

5.56 O ystyried hyn, rydym yn fodlon bod ein hasesiad o'r effaith a'n hystyriaeth o'r graddau y byddai ein cynigion yn parhau i ddiwallu anghenion rhesymol defnyddwyr, fel y nodir yn yr Adran hon, yn seiliedig ar dystiolaeth briodol.

Ymatebion rhanddeiliaid: effaith ar grwpiau defnyddwyr penodol

5.57 Cawsom sylwadau gan rai rhanddeiliaid am effaith bosibl ein cynigion ar grwpiau defnyddwyr penodol.

5.58 Roedd rhai ymatebwyr, gan gynnwys nifer o ymatebwyr unigol, yn poeni y byddai ein cynigion yn cael effaith anghymesur neu y byddent yn cael effaith niweidiol ar ddefnyddwyr sy'n fwy tebygol o fod yn agored i niwed. Roedd Democratiaid Rhyddfrydol Argyll a Bute, CCP-ACOD, y CWU a [✂] yn poeni am yr effaith bosibl ar bobl nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd, pobl hŷn neu bobl ag anableddau neu symudedd cyfyngedig, gan nodi y gallai

---

[289] Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, t.46; ymateb Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu (CWU) i Ymgynghoriad 2025, t.8; Ymateb Earlybird Designs i Ymgynghoriad 2025, t.1-2; ymateb House of Cards i Ymgynghoriad 2025, tt.1-2; [✂]

[290] Jigsaw, 2020. Ymchwil Defnyddwyr Post y DU: Adroddiad Ymchwil Meintiol, Jigsaw, 2020. Anghenion Defnyddwyr Post y DU: Adroddiad Ymchwil Ansoddol, Jigsaw, 2020. Adroddiad Ymchwil Dilynol Anghenion Post, Jigsaw, 2023. Deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau post – adroddiad ar ganfyddiadau ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar grwpiau a allai fod yn agored i niwed, Yonder, 2023. Ymchwil Arolwg Defnyddwyr ar Bost, BMG, 2025. Adroddiad Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024

[291] Jigsaw, 2024. Traciwr Post Preswyl – Adroddiad Blynyddol Gorffennaf 2023 – Mehefin 2024 BVA BDRC, 2024. Arolwg Defnyddwyr Post Busnesau Bach a Chanolig – Adroddiad – Adroddiad Blynyddol Gorffennaf 2023 – Mehefin 2024, a'r Traciwr Post Preswyl Gorffennaf 2023 – Mehefin 2024 tablau data wedi'u pwysoli , Traciwr Post Busnesau Bach a Chanolig Gorffennaf 2023 – Mehefin 2024 tablau data wedi'u pwysoli

[292] Ofcom, 2013. Adolygiad o anghenion defnyddwyr post, Ofcom, 2020. Adolygiad o anghenion defnyddwyr post.

[293] Ofcom, 2024. Adroddiad monitro'r post – gwasanaethau post yn y flwyddyn ariannol 2023/24

rhai o'r defnyddwyr hyn fod yn fwy dibynnol ar bost. Roedd gan Abacus Cards, Card Factory, CCP-ACOD, Paper Salad Publishing, Paper Tiger a Tesco Bank i gyd bryderon am yr effaith bosibl ar ddefnyddwyr sy'n fwy dibynnol ar wasanaethau post. Dywedodd Cyngor ar Bopeth nad oedd ein Hymgynghoriad wedi asesu'n ddigonol effeithiau'r newidiadau arfaethedig ar gwsmeriaid agored i niwed ac y dylem sicrhau bod defnyddwyr mewn amgylchiadau agored i niwed yn cael eu blaenoriaethu, e.e. drwy ymestyn cynllun llythyrau cod bar y GIG i gynnwys cyfathrebiadau hanfodol eraill fel penderfyniadau ynghylch budd-daliadau, dogfennau cyfreithiol a dogfennau ariannol. Dywedodd yr NFSP y byddai llai o ddiwrnodau danfon yn gwaethygu gwendidau rhai cwsmeriaid.[294]

5.59 Cawsom hefyd nifer o sylwadau gan randdeiliaid am effaith bosibl ein cynigion ar ddefnyddwyr mewn rhai lleoliadau a/neu'r rheini sy'n byw mewn ardaloedd gwledig/anghysbell. Dywedodd ACS y dylid cynnal asesiad pellach o'r effaith bosibl ar ddefnyddwyr yn yr Alban cyn gwneud ein penderfyniad terfynol. Dywedodd Consumer Scotland fod ei ymchwil ei hun wedi canfod bod defnyddwyr mewn nghymunedau ar ynysoedd mewn ardaloedd sydd wedi'u heithrio o ansawdd gwasanaeth yn poeni'n benodol am oedi i bost o dan y newidiadau arfaethedig i ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth a thargedau ansawdd gwasanaeth. Roedd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon yn cwestiynu a oedd ein hasesiad yn cyfleu'n ddigonol y realiti a'r goblygiadau rhanbarthol ar gyfer Gogledd Iwerddon. Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol a'r Countryside Alliance ei bod yn bwysig nad effeithir yn ormodol ar ddefnyddwyr mewn ardaloedd gwledig. Dywedodd NFSP, [✂] ac Unite CMA y gallai defnyddwyr mewn rhai ardaloedd gwledig fod yn fwy dibynnol ar bost.[295]

Ein hasesiad

5.60 Rydym yn nodi y byddai ein cynigion i ganiatáu i lythyrau Ail Ddosbarth gael eu newid o chwe diwrnod yr wythnos i bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos yn arwain at lai o newidiadau i'r USO, ac felly'n gyffredinol byddai'n cael yr effaith fwyaf cyfyngedig ar ddefnyddwyr, o'i gymharu â'r opsiynau a nodwyd yn ein Cais am Fewnbwn. Wrth ystyried y risgiau presennol i barhau i ddarparu'r USO, rydym yn ystyried pwysigrwydd bod gwasanaethau post yn parhau i fod ar gael i bobl, gan gynnwys defnyddwyr mewn grwpiau agored i niwed.

5.61 Er gwaethaf y gostyngiad ym mhwysigrwydd llythyrau fel math o gyfathrebu i lawer o ddefnyddwyr, rydym yn cydnabod bod yna rai grwpiau defnyddwyr y mae llythyrau'n dal yn sianel gyfathrebu arbennig o bwysig iddynt. Rydym felly'n deall pryderon rhanddeiliaid y

[294] Ymateb Abacus Cards i Ymgynghoriad 2025, t.1; ymateb Democratiaid Rhyddfrydol Argyll a Bute i Ymgynghoriad 2025, t.1; Ymateb y Card Factory i Ymgynghoriad 2025, t.1; ymateb y Panel Cyfathrebu Defnyddwyr (CCP-ACOD) i Ymgynghoriad 2025, t.1 a 4; ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, t.46, 65-66; ymateb Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu (CWU) i Ymgynghoriad 2025, t.6-7; ymateb Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri (NFSP) i Ymgynghoriad 2025, tt.1-2; Ymateb Paper Salad Publishing Limited i Ymgynghoriad 2025, t.1; Ymateb Paper Tiger i Ymgynghoriad 2025, t.1; [✂]; Ymateb Tesco Bank i Ymgynghoriad 2025, tt.1-2.

[295] Ymateb Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon (ACNI) i Ymgynghoriad 2025, t.5; ymateb Pwyllgor Cynghori'r Alban (ACS) i Ymgynghoriad 2025, t.4; ymateb Consumer Scotland i Ymgynghoriad 2025, t.28; ymateb y Countryside Alliancei Ymgynghoriad 2025, t.2; ymateb Cymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol i Ymgynghoriad 2025, t.1; ymateb Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri (NFSP) i Ymgynghoriad 2025, t.2; [✂]; Ymateb Unite CMA i Ymgynghoriad 2025, t.4.

gallai'r effaith fod yn fwy i rai defnyddwyr oherwydd eu bod yn dibynnu mwy ar bost fel ffordd o gyfathrebu. Er enghraifft, canfu ein hymchwil ansoddol yn 2023:

- Mae pobl nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd neu rai â defnydd isel yn tueddu i ddibynnu mwy ar wasanaethau post ar gyfer llythyrau a chyfathrebiadau 'swyddogol', e.e. llythyrau gan y GIG, awdurdod lleol, banciau.
- Mae defnyddwyr mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell yn ystyried bod bodolaeth gwasanaethau post yn bwysig o ran mynd i'r afael â theimladau o unigrwydd (e.e. oherwydd bod eu darpariaeth symudol yn gyfyngedig yn aml).[296]
- Roedd defnyddwyr hŷn yn tueddu i werthfawrogi natur ffisegol llythyrau yn fwy na grwpiau eraill, oherwydd eu bod yn eu hystyried yn fwy diogel a bod ganddynt lai o siawns o fynd ar goll.[297]

5.62 Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw mwy o ddibyniaeth ar ddefnyddio llythyrau ar gyfer cyfathrebu o reidrwydd yn golygu mwy o ddefnydd na mwy o ddibyniaeth ar gyflymder danfon llythyrau Ail Ddosbarth. Yn gyffredinol, canfu ein hymchwil er bod y grwpiau hyn o ddefnyddwyr yn dweud eu bod yn dibynnu mwy ar wasanaethau post, i'r rhan fwyaf o grwpiau roedd eu anghenion danfon llythyrau yn debyg i ddefnyddwyr 'nodweddiadol' o ran eu bod yn blaenoriaethu dibynadwyedd, a fforddiadwyedd ac nad oedd cyflymder danfon yn hollbwysig yn aml. Er enghraifft, canfu ein hymchwil diweddaraf fod defnyddwyr preswyl mewn ardaloedd gwledig ar draws y DU yr un mor debygol neu'n llai tebygol na'r ymatebydd arferol o ddweud na fydd eu hanghenion yn cael eu diwallu mwyach drwy leihau cyflymder danfon llythyrau. Roedd yr un peth yn wir am Gymru, yr Alban, a Gogledd Iwerddon, o'i gymharu â chyfartaledd y DU.[298]

5.63 Rydym o'r farn, yn yr un modd â defnyddwyr yn ehangach, y byddai anghenion rhesymol y grwpiau hyn yn dal i gael eu diwallu i raddau helaeth gan ein newidiadau arfaethedig i gwmpas yr USO. Rydym yn cydnabod, i'r graddau na fyddai anghenion rhesymol unigolyn yn cael eu diwallu drwy leihau cyflymder llythyrau, y gallai'r effaith fod yn fwy pe bai gan yr unigolyn hwn un neu fwy o'r nodweddion a nodwyd uchod. Serch hynny, fel sy'n cael ei drafod yn Adran 3, dywedodd cyfran fach iawn o ddefnyddwyr y byddai newidiadau i amlder danfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth yn cael effaith sylweddol iawn arnynt. Ar ben hynny, rydym yn nodi y gallai'r effaith ar ddefnyddwyr, mewn rhai ardaloedd gwledig yn benodol, fod yn gyfyngedig oherwydd, efallai na fydd yn ymarferol i'r Post Brenhinol wneud unrhyw newidiadau i'r llwybrau danfon gan eu bod fel arfer yn cael eu gwneud ar lwybrau un fan sy'n tueddu i gwmpasu pellteroedd hirach. Mae'r Post Brenhinol wedi dweud, o dan y model danfon newydd, ei fod yn disgwyl na fydd rhai cwsmeriaid gwledig yn gweld llawer o newid.[299]

---

[296] Jigsaw, 2023. Deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau post – adroddiad ar ganfyddiadau ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar grwpiau a allai fod yn agored i niwed, sleid 21.
[297] Jigsaw, 2023. Deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau post – adroddiad ar ganfyddiadau ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar grwpiau a allai fod yn agored i niwed, sleid 22.
[298] BMG, 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024 data defnyddwyr preswyl, tabl 204. BMG, 2025Adroddiad Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post , sleid 51.
[299]Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, paragraff 2.9 i 2.10.

Ymatebion rhanddeiliaid: yr effaith ar fusnesau bach a chanolig

5.64 Soniodd rhai ymatebwyr am effaith ein cynigion ar fusnesau bach a chanolig. Dywedodd FSB a Gretton Books fod ein cynigion yn debygol o gael effaith anghymesur ar fusnesau bach, yn enwedig y rheini nad ydynt yn gallu fforddio defnyddio Dosbarth Cyntaf neu'r rheini sy'n llai abl i negodi bargeinion gwell neu ystyried darparwyr amgen ar gyfer eu gwasanaethau post.[300]

5.65 Dywedodd Unite CMA y dylid cynnal asesiad effaith manylach ar gyfer busnesau bach (a chymunedau gwledig) i benderfynu sut y bydd gostyngiadau mewn gwasanaethau post yn effeithio arnynt.[301]

5.66 Dywedodd Welsh Football Magazine a Wine Merchant Magazine ei bod yn bwysig bod eu cylchgronau'n cyrraedd yn brydlon, fel bod cynnwys eu cyhoeddiadau'n berthnasol i'w tanysgrifwyr.[302]

5.67 Nid oedd y diwydiant cardiau cyfarch yn cytuno â'n hasesiad o'r effaith ac roedd yn poeni am effaith y cynigion ar fusnesau unigol a'r diwydiant drwyddo draw. Yn benodol, roeddent yn poeni y byddai mwy o bobl yn rhoi'r gorau i anfon cardiau a llythyrau pe na bai'r gwasanaeth Ail Ddosbarth newydd (gyda danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos a thargedau ansawdd gwasanaeth is) yn diwallu anghenion defnyddwyr mwyach ac nad oedd y defnyddwyr hynny'n gallu, neu'n amharod, i newid i Ddosbarth Cyntaf, sy'n ddrutach.[303]

Ein hasesiad

5.68 Roedd ein hymchwil yn 2024 yn mynd i'r afael ag anghenion busnesau bach a chanolig a defnyddwyr preswyl. Yn gyffredinol, canfu ein hymchwil fod anghenion defnyddwyr post busnesau bach a chanolig yn cyd-fynd yn agos â defnyddwyr preswyl o ran pwysigrwydd danfon nwyddau yn ystod yr wythnos, argaeledd gwasanaeth diwrnod canlynol, dibynadwyedd a fforddiadwyedd. Dywedodd y rhan fwyaf o fusnesau bach a chanolig (9 o bob 10) y byddai'r gwasanaeth yn dal i ddiwallu eu hanghenion ar gyfer pob math o lythyrau maen nhw'n eu hanfon a'u derbyn pe bai newidiadau'n cael eu gwneud i amlder danfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth. Fodd bynnag, dywedodd 9% o fusnesau bach a chanolig na fyddai eu hanghenion yn cael eu diwallu ar gyfer o leiaf un math o lythyr maent yn ei anfon a'i dderbyn, a dywedodd 3% ohonynt y byddai'r newidiadau cyffredinol yn cael effaith sylweddol arnynt a dywedodd 1% y byddai'r newidiadau cyffredinol yn cael effaith sylweddol iawn ar eu busnes.[304]

5.69 Nodwn bod rhai meysydd lle'r oedd ein hymchwil yn canfod bod barn defnyddwyr busnesau bach a chanolig ychydig yn wahanol i farn defnyddwyr preswyl. Yn benodol, roedd busnesau bach a chanolig yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn mynnu bod biliau/anfonebau'n cyrraedd o fewn tridiau i'w postio wrth ddefnyddio post Ail Ddosbarth; ond yn llai tebygol o ddweud bod danfon ar ddydd Sadwrn yn bwysig. Rydym felly'n cydnabod y gall effaith y cynigion ar rai defnyddwyr busnesau bach a chanolig fod ychydig yn wahanol i ddefnyddwyr

[300] Ymateb Unite FSB i Ymgynghoriad 2025, tt.1-2; Ymateb Gretton Books i Ymgynghoriad 2025, t.1.
[301] Ymateb CMA i Ymgynghoriad 2025, t.8.
[302] Ymateb Welsh Football Magazine i Ymgynghoriad 2025, tt.1-.2; Ymateb The Wine Merchant Magazine i Ymgynghoriad 2025, tt.1-2.
[303] Er enghraifft: Ymateb Abacus Cards i Ymgynghoriad 2025, t.1; Ymateb Earlybird Designs i Ymgynghoriad 2025, t.3; Ymateb House of Cards i Ymgynghoriad 2025, t.3.
[304] BMG, 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleid 65.

preswyl, yn enwedig busnesau bach a chanolig sy'n anfon mwy o eitemau a/neu fwy o eitemau sy'n sensitif i amser.

5.70 Mae'n bosibl y bydd danfon llythyrau Ail Ddosbarth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos yn cael mwy o effaith ar ymddygiad postio rhai busnesau bach a chanolig, yn enwedig pan fydd arnynt angen i eitem gyrraedd ar ddiwrnod penodol, oherwydd gallai hyn olygu bod yn rhaid iddynt ad-drefnu eu prosesau mewnol er mwyn anfon eitemau'n gynharach a/neu newid i anfon rhai eitemau gan ddefnyddio gwasanaeth cyflymach i ddiwallu eu hanghenion busnes. I'r gwrthwyneb, mae'n debyg y byddai busnesau bach a chanolig yn addasu i beidio â chael llythyrau Ail Ddosbarth ar ddydd Sadwrn yn haws na defnyddwyr preswyl gan nad yw llawer o fusnesau'n gweithredu ar ddydd Sadwrn.

5.71 O ran pryderon y diwydiant cardiau cyfarch y byddai effaith negyddol arnynt pe bai pobl yn rhoi'r gorau i anfon cardiau cyfarch am nad yw'r gwasanaeth post bellach yn diwallu eu hanghenion, mae ein tystiolaeth yn dangos y byddai'r newidiadau i amlder a chyflymder danfon llythyrau Ail Ddosbarth yn parhau i ddiwallu anghenion rhesymol defnyddwyr i raddau helaeth. Fel y nodwyd ym mharagraff 3.75, roedd ein hymchwil yn 2024 yn cynnwys pobl sy'n anfon ac yn derbyn cardiau cyfarch, fel ein bod yn gallu deall a rhoi cyfrif am eu profiadau a'u hanghenion yn ein hasesiad.

5.72 Yn gyffredinol, rydym o'r farn y byddai'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr (preswyl a busnesau bach a chanolig) yn gallu addasu i'r newidiadau i'r ffordd y bydd llythyrau Ail Ddosbarth yn cael eu trin. Nid ydym yn credu ei bod yn effaith afresymol nac anghymesur i anfonwyr orfod anfon rhai llythyrau Ail Ddosbarth un diwrnod yn gynharach na nawr i sicrhau eu bod yn cyrraedd o fewn yr amserlen a ddymunir, sy'n golygu nad ydym yn disgwyl i nifer fawr o ddefnyddwyr roi'r gorau i anfon llythyrau neu gardiau'n gyfan gwbl.

5.73 Fel y soniwyd yn gynharach, ni fyddai'r model danfon presennol na'r model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos yn gwarantu danfon llythyrau Ail Ddosbarth ar ddiwrnod penodol. Yn hytrach, mae llythyrau Ail Ddosbarth yn cael eu danfon ar hyn o bryd, a byddant yn dilyn y diwygiadau hyn, erbyn diwrnod penodol, h.y. o fewn tri diwrnod gwaith i'w postio, gan gynnwys cael eu danfon yn aml cyn D+3. Pan fydd angen danfon ar ddydd Sadwrn neu'r diwrnod canlynol, bydd gwasanaethau cyflymach fel Dosbarth Cyntaf yn parhau i ddarparu ar gyfer y galw am ddanfon eitemau brys a danfon ar ddydd Sadwrn.

5.74 Rydym yn ymwybodol o bryderon ynghylch fforddiadwyedd Dosbarth Cyntaf - gweler grynodeb o ymatebion rhanddeiliaid ynghylch fforddiadwyedd a'n hasesiad ym mharagraffau 5.82-5.100 isod.

Ymatebion rhanddeiliaid: effaith ar gategorïau penodol o bost

5.75 Roedd gan rai ymatebwyr bryderon y byddai'r model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos ar gyfer eitemau Ail Ddosbarth yn arwain at fwy o oedi i lythyrau pwysig. Dywedodd CCNI fod ei ymchwil ei hun wedi canfod bod gan y rheini sy'n cael nifer sylweddol o apwyntiadau meddygol bryderon ynghylch yr amlder danfon arfaethedig gan fod rhai wedi cael llythyrau apwyntiad ar ôl y dyddiad ac yn poeni y byddai ein cynigion yn gwaethygu'r sefyllfa.[305]

[305] Ymateb Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon (CCNI) i Ymgynghoriad 2025, t.23.

5.76 Mynegodd [✂] a rhai ymatebwyr unigol bryder y byddai llai o ddanfoniadau yn ei gwneud yn fwy tebygol na fyddai pobl yn cael gohebiaeth bwysig mewn pryd fel llythyrau apwyntiadau iechyd a hysbysiadau lles.[306] Fel y soniwyd uchod, awgrymodd Cyngor ar Bopeth y dylid ymestyn cynllun llythyrau cod bar y GIG i gynnwys cyfathrebiadau hanfodol eraill fel penderfyniadau ynghylch budd-daliadau, dogfennau cyfreithiol a dogfennau ariannol.[307]

5.77 Soniodd gweinyddwyr etholiadol am bwysigrwydd deunyddiau etholiadol, e.e. cardiau pleidleisio, pleidleisiau post, a Thystysgrifau Awdurdod Pleidleisiwr, yn cyrraedd yn brydlon gan fod amserlen etholiadau, a bennir gan y gyfraith, yn dynn. Roedd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol a'r Comisiwn Etholiadol yn poeni y byddai gostyngiadau mewn danfoniadau Ail Ddosbarth yn achosi oedi cyn i ohebiaeth hanfodol gyrraedd etholwyr mewn pryd. Ychwanegodd y Comisiwn Etholiadol fod y Post Brenhinol wedi datblygu a mireinio dull rheoli penodol a chydlynol ar gyfer etholiadau dros y blynyddoedd ac y dylai unrhyw gynigion i foderneiddio'r gwasanaeth cyffredinol sicrhau bod prosesau etholiadol yn gallu parhau i ddibynnu ar wasanaeth post ystwyth, hyblyg a dibynadwy.[308]

5.78 Roedd [✂], [✂] a Trafnidiaeth Cymru yn poeni am effaith danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos ar eitemau penodol maen nhw'n eu hanfon.[309]

Ein hasesiad

5.79 Rydym yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan gyrff cyhoeddus a grwpiau defnyddwyr ynghylch y posibilrwydd y bydd llythyrau pwysig (e.e. deunyddiau etholiadau, penderfyniadau ynghylch budd-daliadau, dogfennau cyfreithiol ac ariannol) yn cael eu gohirio am ddiwrnod ychwanegol o dan ein cynigion. Mae'n bwysig nodi, o dan ein cynigion, y byddai llawer o lythyrau Ail Ddosbarth a llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth yn parhau i gael eu danfon o fewn yr un amserlenni â nawr. Byddai'n dal yn ofynnol i'r Post Brenhinol ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth o fewn yr un amserlen D+3 ac ni ddylai danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos effeithio ar a yw'r derbynnydd yn cael llythyr o fewn yr amserlen hon.[310] Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y byddai ein cynigion yn golygu y gallai unrhyw lythyrau Ail Ddosbarth sy'n cael eu postio rhwng dydd Mercher a dydd Sadwrn gyrraedd un diwrnod gwaith yn hwyrach na nawr.

5.80 Rydym yn deall y bydd y rhan fwyaf o'r math o ohebiaeth roedd ymatebwyr yn poeni amdano fel arfer yn cael ei anfon gan ddefnyddio gwasanaethau post swmp (gan gynnwys mynediad) lle dylai fod opsiynau gwahanol ar gael yn y farchnad i'r anfonwyr hyn ddod o hyd i'r gwasanaeth iawn ar gyfer eu hanghenion nhw a'u cwsmeriaid. Enghraifft allweddol o hyn yw'r cytundeb rhwng y Post Brenhinol a sefydliadau'r GIG i greu cod bar arbennig a fydd yn sicrhau y bydd llythyrau'r GIG yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer danfon mewn

---

[306] [✂]

[307] Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, t.13. a t.66.

[308] Ymateb Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol i Ymgynghoriad 2025, t.3; ymateb y Comisiwn Etholiadol i Ymgynghoriad 2025, t.2 a t.7.

[309] [✂]; [✂];Ymateb Trafnidiaeth Cymru i Ymgynghoriad 2025, tt.1-2.

Rydyn ni'n cydnabod y byddai'r model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos yn ei gwneud hi'n anoddach i'r Post Brenhinol gyrraedd y targed ansawdd gwasanaeth D+3 presennol o 98.5% ar gyfer danfon post Ail Ddosbarth oherwydd llai o gyfleoedd i ddanfon yr eitemau hynny'n brydlon. Felly, roeddem yn cynnig addasu'r targed ansawdd gwasanaeth ar gyfer post Ail Ddosbarth - gweler paragraffau 6.113 a 6.140 yn Adran 6.

cyfnodau o darfu ar wasanaethau, fel streiciau neu fethu â chyrraedd targedau ansawdd gwasanaeth.[311]

5.81 Mae'n dal yn agored i sefydliadau a diwydiannau eraill negodi gyda'r Post Brenhinol os oes ganddynt ofynion penodol a bydd hyn yn parhau i fod yn wir o dan y trefniadau mynediad newydd. Nodwn sylw'r Comisiwn Etholiadol fod y Post Brenhinol, dros y blynyddoedd, wedi teilwra ei ddull gweithredu yn ystod cyfnodau etholiadau ac y dylai unrhyw gynigion sicrhau bod hyblygrwydd o'r fath yn parhau. Rydym o'r farn y dylai diwygio'r USO, drwy gefnogi cynaliadwyedd ariannol parhaus y gwasanaeth cyffredinol, roi mwy o hyblygrwydd gweithredol i'r Post Brenhinol i fodloni gofynion penodol rhai cwsmeriaid nag a fyddai'n digwydd heb ddiwygio. Ar ben hynny, byddai ein cynigion ar gyfer rheoleiddio mynediad (mae ein penderfyniad ar hyn wedi'i nodi yn Adran 7) yn sicrhau bod cynnyrch post swmp â blaenoriaeth yn dal i gystadlu ochr yn ochr â'r rheini sy'n cael eu cynnig gan y Post Brenhinol.

Ymatebion rhanddeiliaid: pris a fforddiadwyedd gwasanaethau post

5.82 Dywedodd y GCA a'r NFSP y gallai danfon llythyrau Ail Ddosbarth yn llai aml olygu y byddai'n rhaid i rai defnyddwyr (yn enwedig y rheini sy'n anfon eitemau sy'n sensitif o ran amser) ystyried newid i'r gwasanaeth Dosbarth Cyntaf drutach.[312] Roedd y GCA hefyd yn herio ein safbwynt y byddai cynnydd mewn prisiau yn is yn y tymor hir o dan ein cynigion, gan nodi, yn absenoldeb cap pris ar Ddosbarth Cyntaf, y byddai'r Post Brenhinol fel monopolydd yn cael ei gymell i sicrhau'r elw mwyaf posibl i gyfranddalwyr. Dywedodd y byddai gostwng safonau Ail Ddosbarth yn gwthio mwy o ddefnyddwyr tuag at Ddosbarth Cyntaf ac yn cynyddu gallu'r Post Brenhinol yn sylweddol i godi mwy am y cynnyrch hwnnw, sy'n golygu bod ein cynigion yn debygol o arwain at brisiau post uwch, nid is, na'r USO presennol.[313]

5.83 Roedd llawer o ymatebwyr, gan gynnwys unigolion, yn poeni am fforddiadwyedd Dosbarth Cyntaf (sydd wedi bod yn destun cynnydd sylweddol mewn prisiau) ac yn annog Ofcom i gynnal adolygiad brys o fforddiadwyedd gwasanaethau cyffredinol.

5.84 Roedd yr FSB, Gretton Books, [✂], Welsh Football Magazine a Wine Merchant Magazine yn poeni am yr effaith ar fusnesau o ganlyniad i newid i ddefnyddio Dosbarth Cyntaf, neu na allent fforddio gwneud hynny. Dywedodd ,CCP-ACOD, Cyngor ar Bopeth a Consumer Scotland fod fforddiadwyedd yn fater pwysig i ddefnyddwyr nad oeddem wedi'i ystyried yn ein cynigion. Dywedodd ACS, Citipost, Countryside Alliance, y GCA, [✂] a'r MUA y dylem archwilio neu roi mesurau ar waith i sicrhau bod gwasanaethau Dosbarth Cyntaf yn fforddiadwy, e.e. capiau prisiau neu reolaethau prisiau.[314]

---

[311] Royal Mail Wholesale - NHS Mail New Barcode Solution.

[312] Ymateb Greeting Card Association (GCA) i Ymgynghoriad 2025, t.2 a t.15; Ymateb Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri (NFSP) i Ymgynghoriad 2025, tt. 3-4.

[313] Ymateb The Greeting Card Association (GCA) i Ymgynghoriad 2025, t.3.

[314] Ymateb Pwyllgor Cynghori'r Alban (ACS) i Ymgynghoriad 2025, t.2; ymateb Citipost Mail i Ymgynghoriad 2025, t.2; ymateb y Panel Cyfathrebiadau Defnyddwyr (CCP-ACOD) i Ymgynghoriad 2025, t.3; ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, t.9, t.41, t.44, t.58; ymateb Consumer Scotland i Ymgynghoriad 2025, t.7-8; ymateb y Countryside Alliance i Ymgynghoriad 2025, t.2; ymateb Ffederasiwn y Busnesau Bach (FSB) i

Ein hasesiad

5.85 Rydym yn cydnabod y pryder y gallai ein diwygiadau arfaethedig roi pwysau cynyddol ar brisiau Dosbarth Cyntaf. Mae ein diwygiadau'n debygol o gael dwy brif effaith ar gostau uned Dosbarth Cyntaf, gydag un ohonynt yn debygol o gynyddu costau a'r llall yn debygol o leihau costau.

5.86 O dan ein cynigion, mae'n debygol y byddai'r costau uned ar gyfer Dosbarth Cyntaf yn cynyddu o'u cymharu â gweithrediadau heddiw, o ystyried y byddai'r llythyrau hyn yn aml yn cael eu danfon ar faniau yn hytrach nag ar droed. Ar ei ben ei hun, gallai hyn olygu y byddai'r Post Brenhinol yn wynebu mwy o gymhelliant i godi pris Dosbarth Cyntaf i adlewyrchu unrhyw sylfaen gostau uwch ac i wneud yr elw mwyaf posibl, yn enwedig yn absenoldeb cap prisiau ar Ddosbarth Cyntaf.

5.87 Fodd bynnag, byddai rhywfaint neu'r cyfan o'r effaith hon yn cael ei gwrthbwyso, neu hyd yn oed yn cael ei gwrthdroi, gan y newid i'r targed ansawdd gwasanaeth Dosbarth Cyntaf, a fyddai'n lleihau costau'r Post Brenhinol. Mae'r Post Brenhinol wedi amcangyfrif y gallai'r gwahaniaeth cost rhwng targed ansawdd gwasanaeth Dosbarth Cyntaf D+1 o 90% a 93% fod yn wahaniaeth pris o [✂] fesul stamp Dosbarth Cyntaf, sy'n awgrymu y gallai'r ffactor hwn arwain at ostyngiad sylweddol mewn cost.[315]

5.88 Mae'r newidiadau cost hyn yn debygol o gael eu cynnwys yn null y Post Brenhinol o osod prisiau Dosbarth Cyntaf. Fodd bynnag, rydym hefyd yn gwybod, wrth ystyried cynnydd mewn prisiau yn y dyfodol, y byddai angen i'r Post Brenhinol ystyried ffactorau eraill, yn enwedig y galw tebygol am y gwasanaeth a'i elastigedd pris. Rhaid i'r Post Brenhinol fod yn ofalus i beidio â chodi'r pris i'r fath raddau fel ei fod yn lleihau'r galw i'r graddau ei fod yn lleihau refeniw cyffredinol Dosbarth Cyntaf. Bydd ei asesiad o'r ymatebion i'r cynnydd diweddar mewn prisiau yn effeithio'n rhannol ar ei farn ar hyn.

5.89 Nid yw'n sicr sut gallai prisiau stampiau gynyddu yn y tymor hir o dan USO diwygiedig o'i gymharu â'r hyn a fyddai'n digwydd fel arall. Mae prisiau stampiau wedi bod yn codi yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan adlewyrchu, ymysg pethau eraill, y cynnydd mewn costau uned wrth i'r niferoedd barhau i ostwng. Yng ngoleuni ymateb y GCA i'r ymgynghoriad, rydym wedi ystyried ymhellach a fyddai ein diwygiadau'n golygu y gallai prisiau fod yn uwch nag y byddent fel arall. Am y rhesymau a nodir isod, nid ydym yn credu bod hynny'n debygol.

5.90 Mae'r asesiad ynghylch a fyddai prisiau'n uwch na heb ddiwygio yn gofyn am ystyried sefyllfaoedd gwrthffeithiol posibl.

5.91 Nid ydym yn credu bod y sefyllfa bresennol yn sefyllfa wrthffeithiol resymol, o ystyried ein casgliad bod angen diwygio'r USO ar frys mewn rhyw ffordd i sicrhau bod y gwasanaeth cyffredinol yn gynaliadwy. Felly, mae parhau â'r USO presennol yn afrealistig.

Ymgynghoriad 2025, t.1; Ymateb Gretton Books i Ymgynghoriad 2025, t.1; Ymateb y Greeting Card Association (GCA) i Ymgynghoriad 2025, t.14; Ymateb Cymdeithas y Defnyddwyr Post (MUA) i Ymgynghoriad 2025, t.3; [✂]; [✂]; Ymateb Welsh Football Magazine i Ymgynghoriad 2025, t.1; Ymateb The Wine Merchant Magazine i Ymgynghoriad 2025, t.2.

[315] Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 5 Rhagfyr 2024.

5.92 Fe wnaethom egluro yn y Cais am Fewnbwn ein bod wedi amcangyfrif mai cost net yr USO i'r Post Brenhinol oedd £325m-£675m yn 2021/22, a bod y dystiolaeth yn awgrymu nad yw'r lefel hon o gost net yn gynaliadwy yn y tymor hir. Rydym hefyd wedi egluro yn Adran 4 nad yw'r Post Brenhinol wedi cyflawni lefel o broffidioldeb sy'n arwydd o gynaliadwyedd USO ers 2015/16. Felly, mae'r Post Brenhinol ymhell iawn o'r EBIT 5-10% rydym yn ei ddefnyddio fel dangosydd cyntaf o'r gallu i gyflawni cyfradd enillion fasnachol, y mae'r Ddeddf yn cydnabod yn benodol ei bod yn agwedd angenrheidiol ar wasanaeth cyffredinol sy'n gynaliadwy'n ariannol. Mae ein dadansoddiad yn awgrymu, er y gall y Post Brenhinol wella ei berfformiad, ei fod yn annhebygol o gyflawni unrhyw elw o'r fath heb ddiwygio'r USO (gweler Adran 4). Mae ein dadansoddiad yn dangos y bydd perfformiad ariannol y Post Brenhinol yn parhau i waethygu heb ddiwygio brys. [✂] Mae'r ffactorau hyn yn awgrymu, heb weithredu, fod yna risg sylweddol i gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol ac felly darpariaeth y gwasanaeth cyffredinol ei hun. Felly, nid ydym yn credu ei bod yn bosibl i'r gwasanaeth cyffredinol ddychwelyd i gynaliadwyedd heb ddiwygio ac rydym wedi egluro yn Adran 2 bod angen diwygio'r USO ar frys.[316]

5.93 Yn yr amgylchiadau hyn, rydym o'r farn y dylid cyfyngu sefyllfaoedd gwrthffeithiol priodol i ddiwygiadau y mae gan Ofcom y pŵer i'w rhoi ar waith. Felly, nid ydym o'r farn bod lleihau diwrnodau danfon ar gyfer Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth yn sefyllfa wrthffeithiol resymol gan y byddai hyn yn gofyn am newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol. Yn yr un modd, nid ydym yn ystyried bod dull gweithredu sy'n cynnwys cymhorthdal cyhoeddus, sy'n fater i'r Llywodraeth, yn sefyllfa wrthffeithiol resymol.

5.94 Felly, rydym o'r farn bod y sefyllfa wrthffeithiol amgen resymol yn ddull sy'n mynd i'r afael â'r angen dybryd am ddiwygio drwy ddiwygiadau y gallem eu gwneud i'r drefn reoleiddio. Fel y rhagwelwyd yn ein Cais am Fewnbwn, mae'r opsiynau ar gyfer diwygio y gallem eu rhoi ar waith yn cynnwys cadw danfon am chwe diwrnod ond arafu cyflymder danfon Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth, neu ddileu Dosbarth Cyntaf yn gyfan gwbl a chyflwyno un gwasanaeth arafach. Yn y sefyllfaoedd hyn, byddai angen gwasanaeth y diwrnod canlynol ar y defnyddiwr o hyd. Er y gallai'r Post Brenhinol ddewis cynnig gwasanaeth diwrnod canlynol yn fasnachol, ni fyddai'n rhaid i hyn fod yn fforddiadwy na chael ei ddarparu am bris unffurf ym mhob man yn y wlad. Felly, gallai'r prisiau ar gyfer unrhyw wasanaeth masnachol cyfatebol fod yr un fath neu'n uwch nag o dan ein cynigion a byddent yn annhebygol o ddiwallu anghenion defnyddwyr. Yn wir, fe wnaethom ddweud yn ein Cais am Fewnbwn y byddem yn disgwyl i gynnyrch Dosbarth Cyntaf masnachol gael ei reoli mewn ffordd debyg i Ddanfon Arbennig, sy'n costio mwy na Dosbarth Cyntaf heddiw ond am bris is na Danfon Arbennig.

5.95 Ar hyn o bryd mae llythyrau Ail Ddosbarth yn cael eu prisio'n agos at uchafswm y cap diogelu presennol. Er gwaethaf unrhyw reoliadau prisio yn y dyfodol, dylai costau uned Ail Ddosbarth yn y sefyllfa wrthffeithiol hon, yn ogystal ag o dan ein cynigion, ostwng. O'r herwydd, dylai'r pwysau prisio ar Ail Ddosbarth hefyd fod yn is yn y sefyllfa wrthffeithiol. Nid yw'n glir a yw'r effaith yn fwy neu'n llai nag yn y sefyllfa wrthffeithiol nag o dan ein cynigion, ond nid yw'r dystiolaeth yn awgrymu bod gostyngiad sylweddol fwy yn debygol yn

[316]Rydym hefyd yn egluro yn Adrannau 4 ac 8 na fydd diwygio ar ei ben ei hun yn ddigon i'r gwasanaeth cyffredinol ddychwelyd i gynaliadwyedd. Rhaid i'r Post Brenhinol hefyd sicrhau twf sylweddol mewn parseli, rheoli'r gostyngiad yn nifer y llythyrau'n effeithiol, a gwella ei effeithlonrwydd drwy addasu ei rwydwaith i newidiadau o ran swmp a llwyth gwaith.

y sefyllfa wrthffeithiol. Mae ein cynigion yn cael eu cefnogi gan y Post Brenhinol, sy'n gorfod eu rhoi ar waith i gyflawni'r arbedion cost yn ymarferol ac sy'n debygol o ddiwallu anghenion defnyddwyr i raddau mwy helaeth, o ystyried eu bod yn cadw gwasanaeth diwrnod canlynol yn ogystal â gwasanaeth Ail Ddosbarth.

5.96 Yng ngoleuni'r uchod, rydym yn disgwyl y dylai ein cynigion arwain at gynnydd is mewn prisiau i ddefnyddwyr yn y tymor hir nag y byddent fel arall, gan gynnwys pe na bai'r USO yn cael ei ddiwygio o gwbl. Nid ydym chwaith o'r farn y byddai prisiau Dosbarth Cyntaf yn uwch o dan ein diwygiadau nag o dan sefyllfa wrthffeithiol resymol ble byddai anghenion defnyddwyr yn cael eu diwallu i'r un graddau fwy neu lai.

5.97 Rydym yn nodi sylwadau rhanddeiliaid ynghylch pwysigrwydd adolygu fforddiadwyedd gwasanaethau post, yn enwedig yng ngoleuni'r cynnydd diweddar mewn prisiau Dosbarth Cyntaf. Rydym yn ymwybodol bod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn nodi'n gyson bod cost anfon llythyrau a fforddiadwyedd yn bwysig. Canfu ein hymchwil ddiweddaraf fod 90% o ddefnyddwyr preswyl ac 86% o ddefnyddwyr busnesau bach a chanolig yn dweud ei bod yn bwysig cadw pris anfon llythyrau'n fforddiadwy.[317]

5.98 Fel y soniwyd yn Adran 3, nid yw ein hymchwil na'r cyflwyniadau i'n Hymgynghoriad yn awgrymu bod gallu defnyddwyr yn gyffredinol i fforddio post, gan gynnwys Dosbarth Cyntaf, wedi newid yn sylweddol ers ein Datganiad cap prisiau diogelu Ail Ddosbarth ym mis Ionawr 2024. Mae gwariant ar bost yn dal yn isel iawn o'i gymharu â chostau eraill y cartref a gall y rhan fwyaf o bobl, hyd yn oed y rheini ar incwm isel, fforddio anfon y post y mae angen iddynt ei anfon. Felly, rydym o'r farn bod y farchnad ar hyn o bryd yn diwallu anghenion defnyddwyr i raddau helaeth am wasanaeth fforddiadwy ac unffurf. Serch hynny, rydym yn derbyn efallai na fydd anghenion rhesymol rhai defnyddwyr yn cael eu diwallu, ond i'r graddau y mae hyn yn digwydd, rydym yn disgwyl mai dim ond ar yr achlysuron prin iawn y byddai angen iddynt anfon llythyr i gyrraedd y diwrnod canlynol a/neu ar ddydd Sadwrn ac na allant fforddio Dosbarth Cyntaf. Yn gyffredinol, rydym o'r farn y byddai ein diwygiadau yn helpu i gefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol, a ddylai yn ei dro gefnogi'r gwaith o barhau i ddarparu'r gwasanaeth ac arwain at gynnydd is mewn prisiau nag y byddai fel arall, er budd defnyddwyr yn y tymor hir.

5.99 Rydym yn deall pryderon cyhoeddwyr bach na fydd newid i wasanaethau post drutach (e.e. Dosbarth Cyntaf os ydynt am ddanfon y diwrnod canlynol a/neu eitemau i gyrraedd ddydd Sadwrn) yn opsiwn efallai os nad yw'r busnes yn gallu amsugno'r costau uwch na'u trosglwyddo i'w tanysgrifwyr. Fodd bynnag, er ein bod yn ymwybodol bod ffenestri cynhyrchu yn sefydlog ac yn gul ar gyfer rhai mathau o gyhoeddiadau oherwydd amseriad argaeledd cynnwys, mewn rhai achosion dylai fod yn bosibl i gyhoeddwyr cylchgronau addasu eu prosesau mewnol i anfon eitemau'n gynharach os ydynt yn poeni am y diwrnod ychwanegol y gallai rhai llythyrau Ail Ddosbarth ei gymryd i gyrraedd o dan y model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos a/neu os ydynt am i'w heitemau gael eu danfon erbyn y penwythnos.

5.100 Am yr holl resymau uchod, nid ydym yn credu bod ein cynigion yn golygu bod angen ailasesu fforddiadwyedd ar unwaith mewn ffordd fanylach. Nid ydym yn gwybod pryd, ac os felly, faint, y bydd y Post Brenhinol yn penderfynu cynyddu pris Dosbarth Cyntaf yn y dyfodol. Serch hynny, rydym yn symud ymlaen i ystyried fforddiadwyedd yng ngham nesaf

[317] BMG, 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleidiau 19, 80.

ein gwaith, gan ystyried yr angen parhaus i brisiau fod yn fforddiadwy ac y bydd y cap diogelu presennol ar brisiau Ail Ddosbarth yn dod i ben ym mis Mawrth 2027. O dan y cam nesaf hwn o'r gwaith, byddwn yn gallu ystyried effeithiau'r newidiadau ar brisiau sy'n dod i'r amlwg. Rydym yn manylu mwy ar hyn yn Adran 9.

Ein casgliadau ar yr effaith ar ddefnyddwyr post

5.101 Mae ein hasesiad o anghenion defnyddwyr yn Adran 3 ac Atodiad A3 wedi sefydlu'r hyn sydd ei angen yn rhesymol ar ddefnyddwyr gan y gwasanaeth post. Mae'r asesiad yn ystyried ystod eang o dystiolaeth rydym wedi'i chasglu dros fwy na degawd, gan gynnwys data'r farchnad a'n hymchwil defnyddwyr ein hunain.

5.102 Yn y rhan hon o'n hasesiad effaith, rydym yn asesu i ba raddau y byddai ein cynigion yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr fel y nodir yn Adran 3 ac Atodiad A3. Rydym hefyd yn nodi lle nad yw anghenion rhesymol rhai defnyddwyr o bosibl yn cael eu diwallu ac yn asesu effaith hynny.

5.103 Rydym wedyn yn ystyried yr effeithiau hyn wrth ystyried popeth yn ei gyfanrwydd er mwyn dod i benderfyniad terfynol ynghylch ein cynigion, gan gynnwys a yw'r cynigion hynny'n gymesur â'r hyn y bwriedir iddynt ei gyflawni.

Anghenion rhesymol defnyddwyr

5.104 Rydym wedi ystyried yr effeithiau ar ganlyniadau defnyddwyr o ganlyniad i ganiatáu i'r Post Brenhinol ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, gan ystyried y dystiolaeth sydd gennym ar anghenion rhesymol defnyddwyr gwasanaethau post yn y DU a'n hasesiad o i ba raddau mae'r farchnad llythyrau bresennol yn diwallu'r anghenion hynny fel y nodir yn Adran 3 ac Atodiad A3, ac ymatebion rhanddeiliaid i'n Hymgynghoriad.

5.105 I grynhoi, canfu ein hasesiad o anghenion rhesymol defnyddwyr yn Adran 3 ac Atodiad A3 fod ar ddefnyddwyr angen gwasanaeth llythyrau sy'n ddibynadwy, yn fforddiadwy ac yn rheolaidd. Byddant wastad angen defnyddio gwasanaethau post i anfon ac i dderbyn llythyrau, ond dim ond o bryd i'w gilydd bydd arnynt angen gwasanaeth danfon cyflymach, y diwrnod canlynol. Mae'r ddibyniaeth ar wasanaethau post i anfon llythyrau wedi gostwng yn sylweddol ac nid oes angen i'r rhan fwyaf o lythyrau maent yn eu hanfon ac yn eu derbyn gael eu danfon chwe diwrnod yr wythnos.

5.106 Ar ôl asesu'r farchnad llythyrau bresennol yn erbyn yr anghenion hyn, ein casgliad yn Adran 3 ac Atodiad A3 yw bod marchnad llythyrau bresennol y DU yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr i raddau sylweddol, ac ar y cyfan yn rhagori ar anghenion rhesymol defnyddwyr yn achos amlder danfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth.

Amlder Danfon

5.107 Yn Adran 3 ac Atodiad A3, gwelsom fod gan ddefnyddwyr angen rhesymol am wasanaeth llythyrau blaenoriaeth chwe diwrnod yr wythnos, y diwrnod canlynol. Fe wnaethom ddweud hefyd, cyn belled bod gwasanaeth blaenoriaeth yn cael ei ddarparu ddydd Sadwrn, nad ydym o'r farn bod angen rhesymol i lythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth, gan gynnwys llythyrau Ail Ddosbarth, gael eu danfon bob dydd chwe diwrnod yr wythnos.

5.108 Daethom i'r casgliad y byddai anghenion rhesymol defnyddwyr yn dal i gael eu diwallu i raddau helaeth pe bai amlder danfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth yn cael ei newid i bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, ar yr amod bod gwasanaeth danfon y diwrnod canlynol yn dal ar gael. O'r herwydd, rydym o'r farn y byddai'r cynigion rydym wedi'u nodi

yn ein Hymgynghoriad yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr o ran amlder danfon i raddau helaeth, gan y byddai Dosbarth Cyntaf a Danfon Arbennig wedi'i Warantu erbyn 1pm yn dal ar gael fel gwasanaeth diwrnod canlynol a fyddai'n cael ei ddarparu chwe diwrnod yr wythnos.

5.109 Rydym yn nodi bod rhai ymatebwyr i'n Hymgynghoriad wedi mynegi'n gryf y dylai danfon eitemau Ail Ddosbarth ar ddydd Sadwrn aros, yn enwedig ar gyfer rhai tanysgrifiadau cylchgronau a chardiau cyfarch y mae angen iddynt gyrraedd erbyn adeg benodol. Mae Dosbarth Cyntaf ar gael i'r rheini sydd angen llythyrau i gyrraedd y diwrnod canlynol neu ar ddydd Sadwrn ac rydym yn dal o'r farn ei bod yn fforddiadwy i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr ei ddefnyddio ar adegau achlysurol. Rydym hefyd yn credu ei bod yn rhesymol yn y mwyafrif helaeth o achosion i ddefnyddwyr anfon llythyr Ail Ddosbarth ddiwrnod yn gynharach os oes angen iddo gyrraedd erbyn diwrnod penodol.

5.110 O ystyried yr uchod, rydym o'r farn y byddai anghenion rhesymol defnyddwyr mewn perthynas ag amlder danfon yn cael eu diwallu i raddau helaeth o dan ein cynigion. Serch hynny, rydym yn derbyn efallai na fydd anghenion rhesymol nifer fach o ddefnyddwyr yn cael eu diwallu drwy beidio â danfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth ar ddydd Sadwrn mwyach. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl mai dim ond ar yr achlysuron prin iawn pan fydd angen iddynt anfon llythyr i gyrraedd ar ddydd Sadwrn ac na allant fforddio Dosbarth Cyntaf y byddai hyn yn digwydd. Felly, rydym yn disgwyl y byddai'r effaith ar y defnyddwyr hyn yn gyfyngedig.

Cyflymder danfon

5.111 Fel y soniwyd uchod, rydym wedi canfod bod gan ddefnyddwyr angen rhesymol am wasanaeth llythyrau blaenoriaeth y diwrnod canlynol sy'n danfon ar ddydd Sadwrn, er mai anaml y bydd hynny'n digwydd.

5.112 Fel y nodir yn Adran 3 ac Atodiad A3, rydym o'r farn nad oes angen i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr gael llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth bob amser cyn pen tri diwrnod gwaith. Felly, rydym o'r farn y byddai anghenion rhesymol y rhan fwyaf o ddefnyddwyr o ran cyflymder danfon yn dal i gael eu diwallu i raddau helaeth drwy ddanfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos.

5.113 Rydym yn cydnabod y mater a godwyd gan rai ymatebwyr bod cyflymder yn bwysig ar gyfer rhai mathau o lythyrau, e.e. llythyrau sy'n ymwneud â materion meddygol neu ariannol, llythyrau gan gyrff cyhoeddus a rhai eitemau sy'n sensitif i amser. Rydym yn cydnabod ei bod yn bwysig bod yr eitemau hyn yn cyrraedd yn ddibynadwy ac yn brydlon ac rydym yn nodi, o dan ein cynigion, y byddai llawer o lythyrau Ail Ddosbarth, h.y. eitemau sy'n cael eu postio ar ddydd Llun, dydd Mawrth a dydd Sul yn parhau i gael eu danfon o dan yr un amserlenni â nawr. Nodwn fod y rhan fwyaf o lythyrau gan sefydliadau a chyrff cyhoeddus yn cael eu hanfon gan ddefnyddio post swmp, gan gynnwys gwasanaethau mynediad. Rydym o'r farn y gall anfonwyr y math hwn o bost wneud penderfyniad ar natur frys eu cyfathrebiadau a'u galluoedd mewnol a fydd yn rhoi gwybod iddynt am y gwasanaeth post priodol i'w ddefnyddio. Bydd dewis o hyd o wasanaethau llythyrau blaenoriaeth a heb fod yn flaenoriaeth i anfonwyr eu defnyddio, yn dibynnu ar eu hanghenion post.

5.114 Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai fod cyfran fach o ddefnyddwyr sydd ag angen rhesymol i ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth o fewn tri diwrnod gwaith (er nad yw hynny'n cynnwys danfon llythyrau ar ddydd Sadwrn, o ystyried nad oes angen rhesymol i ddefnyddwyr ddanfon ar ddydd Sadwrn). O dan ein cynigion, efallai na fydd anghenion y defnyddwyr hyn yn cael eu diwallu wrth anfon eitemau Ail Ddosbarth o ddydd Mercher i

ddydd Sadwrn, gan y gallai eitemau o'r fath gyrraedd un diwrnod gwaith yn hwyrach na nawr. Yn gyffredinol, rydym o'r farn y byddai hyn yn cael effaith gyfyngedig ar y defnyddwyr hyn, gan y byddai llythyrau sy'n cael eu hanfon o ddydd Sul i ddydd Mawrth yn cyrraedd ar yr un amseroedd llwybro ag ar hyn o bryd; efallai y bydd y rheini sy'n cael eu hanfon o ddydd Mercher i ddydd Sadwrn yn dal i gyrraedd o fewn un neu ddau ddiwrnod gwaith yn dibynnu ar amserlen danfon y derbynnydd; rydym yn disgwyl yn y mwyafrif helaeth o achosion y byddai defnyddwyr yn gallu anfon llythyrau ddiwrnod ynghynt os oes angen; a byddai Dosbarth Cyntaf yn dal ar gael pe bai defnyddwyr angen i eitemau gyrraedd ar frys.

5.115 Rydym yn cydnabod y gallai fod cyfran fach o ddefnyddwyr nad yw eu hanghenion rhesymol yn cael eu diwallu ar hyn o bryd lle mae arnynt angen i llythyr gyrraedd y diwrnod canlynol ond nad ydynt yn gallu fforddio Dosbarth Cyntaf. Rydym yn disgwyl mai dim ond ar achlysuron prin iawn y byddai hyn yn digwydd o ystyried pa mor anaml yn gyffredinol y mae angen i ddefnyddwyr anfon eitem ar Ddosbarth Cyntaf. Ni fyddai sefyllfa'r defnyddwyr hyn yn newid o dan ein cynigion.

5.116 Gan ystyried yr uchod i gyd, ein barn ni yw y byddai'r cynigion a nodir yn ein Hymgynghoriad yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr i raddau helaeth mewn perthynas â chyflymder danfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth. Byddai Dosbarth Cyntaf a Danfon Arbennig wedi'i Warantu erbyn 1pm yn dal ar gael i ddiwallu anghenion defnyddwyr am wasanaeth danfon y diwrnod canlynol chwe diwrnod yr wythnos. I'r graddau nad yw ein cynigion yn diwallu anghenion rhesymol unrhyw ddefnyddwyr, rydym yn disgwyl y byddai'r effaith yn gyfyngedig am y rhesymau a nodir uchod.

Dibynadwyedd

5.117 Rydym wedi asesu beth yw anghenion defnyddwyr o ran dibynadwyedd y gwasanaeth ac wedi canfod pan fyddant yn anfon ac yn derbyn llythyrau, bod defnyddwyr yn disgwyl i lythyrau gyrraedd o fewn cyfnod rhesymol a rhagweladwy. Mae dibynadwyedd yn arbennig o bwysig i'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau post ar gyfer cyfathrebiadau sy'n ymwneud â materion ariannol a meddygol. Rydym felly o'r farn bod angen rhesymol am wasanaeth llythyrau dibynadwy ar ddefnyddwyr.

5.118 Rydym wedi nodi pwysigrwydd dibynadwyedd i ddefnyddwyr yn ein cynigion ar gyfer newidiadau i dargedau ansawdd gwasanaeth er mwyn darparu mwy o ddibynadwyedd a hyder y bydd eitemau sydd wedi methu'r dyddiad danfon disgwyliedig yn cyrraedd o fewn cyfnod rhesymol (gweler Adran 6).

Fforddiadwyedd a phrisiau unffurf

5.119 Rydym wedi asesu anghenion defnyddwyr o ran pris ac wedi canfod bod gallu anfon post am bris fforddiadwy a chyffredinol yn bwysig iawn i'r mwyafrif o ddefnyddwyr, hyd yn oed y defnyddwyr hynny mae cost post yn rhan fach iawn o wariant cyffredinol eu cartref. Felly, rydym o'r farn bod angen rhesymol am wasanaeth llythyrau ar ddefnyddwyr sy'n fforddiadwy ac yn gyffredinol. Fel y nodwyd uchod, nid ydym yn credu bod ein hymchwil na'n cyflwyniadau i'n Hymgynghoriad yn awgrymu bod gallu defnyddwyr yn gyffredinol i fforddio post, gan gynnwys Dosbarth Cyntaf, wedi newid yn sylweddol ers ein hadolygiad o'r cap prisiau diogelu Ail Ddosbarth ym mis Ionawr 2024. Mae gwariant ar bost yn dal yn isel iawn o'i gymharu â chostau eraill y cartref a gall y rhan fwyaf o bobl, hyd yn oed y rheini ar incwm isel, fforddio anfon y post y mae angen iddynt ei anfon. Rydym hefyd o'r farn y dylai ein cynigion arwain at gynnydd is mewn prisiau i ddefnyddwyr yn y tymor hir nag y byddent fel arall, ac nid ydym o'r farn y byddai prisiau Dosbarth Cyntaf yn uwch o dan sefyllfa wrthffeithiol resymol lle byddai anghenion defnyddwyr eu diwallu.

5.120 Er bod nifer o ymatebwyr i'r Ymgynghoriad wedi cyfeirio at y ffaith nad yw gwasanaethau Dosbarth Cyntaf yn fforddiadwy'n ehangach i ddefnyddwyr preswyl a busnes, nid ydym wedi derbyn ymchwil na thystiolaeth i gefnogi'r farn hon. Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael i ni, rydym yn dal o'r farn bod y farchnad ar hyn o bryd yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr am wasanaeth fforddiadwy i raddau helaeth ac rydym o'r farn y byddai ein cynigion yn parhau i ddiwallu'r angen rhesymol hwn gan ddefnyddwyr i raddau tebyg.

Casgliad ar anghenion rhesymol defnyddwyr

5.121 Gan ystyried y dystiolaeth sydd ar gael, ac ar ôl ystyried yr ymatebion i'n Hymgynghoriad, rydym wedi dod i'r casgliad y byddai ein cynigion i ddiwygio amlder danfon Ail Ddosbarth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos yn parhau i ddiwallu anghenion rhesymol defnyddwyr i raddau helaeth.

5.122 Serch hynny, rydym yn derbyn efallai na fydd anghenion rhesymol rhai defnyddwyr yn cael eu diwallu drwy ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl mai dim ond ar yr achlysuron prin iawn y byddai hyn yn digwydd, pan fydd angen iddynt anfon llythyr i gyrraedd y diwrnod canlynol a/neu ar ddydd Sadwrn ac na allant dalu am Ddosbarth Cyntaf, neu'r achlysuron prin iawn pan fyddant angen i lythyr Ail Ddosbarth gyrraedd o fewn tri diwrnod gwaith ac na allant gymryd camau lliniaru fel anfon y llythyr ddiwrnod ynghynt neu ddefnyddio Dosbarth Cyntaf. Felly, rydym o'r farn, yn gyffredinol, mai bach iawn fyddai effaith peidio â diwallu'r anghenion rhesymol hyn gan ddefnyddwyr.

5.123 Rydym yn cydnabod y gallai fod gan rai defnyddwyr anghenion rhesymol nad ydym wedi'u nodi. I'r graddau y mae hyn yn wir, rydym o'r farn mai dim ond cyfran fach iawn o ddefnyddwyr y byddai'r defnyddwyr hyn yn debygol o'u cynrychioli'n gyffredinol, gan y byddem yn disgwyl bod wedi nodi anghenion grwpiau mwy o ddefnyddwyr. Beth bynnag, mae'n bosibl y byddai ein cynigion yn diwallu'r anghenion hyn na nodwyd. O'r herwydd, rydym o'r farn ei bod yn annhebygol iawn, os ydym wedi methu nodi unrhyw anghenion rhesymol defnyddwyr, y byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar ein hasesiad o'r effaith ar ddefnyddwyr post.

5.124 Rhaid i'n penderfyniad ar ffurf briodol yr USO ystyried amrywiaeth o ystyriaethau, ac rydym yn gwneud hyn isod wrth asesu effeithiau amrywiol ein cynigion.

Effaith gyffredinol ar ddefnyddwyr

5.125 Yn gyffredinol, rydym o'r farn y byddai'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn dal i allu cael gafael ar y gwasanaethau post sydd eu hangen arnynt. Er y bydd post Ail Ddosbarth a phost swmp arall nad yw'n flaenoriaeth yn cael ei ddanfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos yn hytrach na bob dydd o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, rydym yn disgwyl y bydd hyn yn gyffredinol yn cael effaith gyfyngedig ar ddefnyddwyr post, gan gynnwys y rheini sy'n fwy dibynnol ar bost - ni fyddant yn cael post nad yw'n flaenoriaeth ar ddydd Sadwrn mwyach (er y byddant yn parhau i dderbyn llythyrau Dosbarth Cyntaf), ac efallai y bydd rhai llythyrau Ail Ddosbarth y maent yn eu hanfon a'u derbyn (os cânt eu hanfon o ddydd Mercher i ddydd Sadwrn) yn cael eu danfon ddiwrnod yn hwyrach na nawr. Er y gallai hyn ei gwneud yn ofynnol i bobl ystyried newid eu harferion anfon mewn perthynas â llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth, bydd hyn wedi'i gyfyngu i anfon rhai llythyrau ddiwrnod ynghynt er mwyn iddynt gyrraedd o fewn yr un amserlen â nawr. Rydym yn disgwyl y byddai hwn yn addasiad rhesymol yn y mwyafrif helaeth o achosion. Byddai post Dosbarth Cyntaf a phost blaenoriaeth arall yn dal i gael eu danfon bob dydd o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, ac ni fyddai unrhyw newidiadau i ddanfon parseli.

5.126 Fel y nodwyd ym mharagraff 3.76 ac yn ein hasesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn Atodiad A2, rydym yn cydnabod bod rôl gymdeithasol ehangach ynghlwm wrth wasanaethau post, fel y rôl bwysig sydd gan weithwyr post mewn rhai cymunedau yn ogystal â gwerth cymdeithasol ac emosiynol anfon a derbyn eitemau penodol o bost, fel llythyrau personol a chardiau cyfarch. O dan ein diwygiadau, bydd gweithwyr post yn dal i ddanfon eitemau i bob aelwyd er y bydd llai o bost nad yw'n flaenoriaeth yn cael ei ddanfon. Byddai defnyddwyr hefyd yn gallu parhau i anfon llythyrau a chardiau i gadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu. Yn gyffredinol, rydym yn disgwyl i'n penderfyniad gael effaith niweidiol gyfyngedig ar werth cymdeithasol y post, os o gwbl, a byddem yn helpu i sicrhau'r gwerth cymdeithasol hwnnw drwy gefnogi darpariaeth barhaus y gwasanaeth cyffredinol.

Effaith ar fathau penodol o ddefnyddwyr

5.127 Rydym yn nodi, o'n hymchwil yn 2024 ac o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, bod rhai defnyddwyr yn poeni am effaith danfon llythyrau pwysig yn llai aml.

5.128 Canfu ein hymchwil fod anfonwyr a derbynwyr llythyrau meddygol, a derbynwyr llythyrau sy'n ymwneud â gofal iechyd, budd-daliadau neu gyllid yn fwy tebygol o ddweud na fyddai llythyrau Ail Ddosbarth a phost busnes safonol sy'n cymryd diwrnod yn hirach i'w danfon yn diwallu eu hanghenion ac y byddai'n achosi niwed neu anawsterau sylweddol iddynt. Mae ein hymchwil hefyd yn dangos bod masnachwyr ar-lein sy'n defnyddio'r gwasanaeth llythyrau i anfon eitemau maent wedi'u gwerthu (ac fel eu prif ffynhonnell incwm) yn fwy tebygol o ddweud y byddai danfon yn llai aml yn golygu na fyddai gwasanaethau post yn diwallu eu hanghenion mwyach. Fodd bynnag, canfu ein dadansoddiad pellach o'r rhesymau a roddwyd ganddynt dros eu hatebion y byddai'r newid yn arwain at anhwylustod yn hytrach nag unrhyw niwed difrifol.

5.129 Rydym hefyd o'r farn y byddai unrhyw niwed posibl yn debygol o fod yn is oherwydd na fyddai pob llythyr Ail Ddosbarth yn cyrraedd yn hwyrach na nawr o dan y cynigion, e.e. byddai eitemau sy'n cael eu postio ar ddydd Llun, dydd Mawrth a dydd Sul yn cael eu danfon ar yr un diwrnod â nawr. Ar ben hynny, fel y soniwyd uchod, mae'r mathau o lythyrau roedd defnyddwyr yn poeni amdanynt yn ein hymchwil yn cael eu hanfon yn gyffredinol gan sefydliadau mawr sy'n defnyddio gwasanaethau post swmp. Efallai y bydd y sefydliadau hyn yn ceisio addasu eu hymddygiad postio os ydynt yn gallu gwneud hynny a byddai dewis o gynnyrch post swmp ar gael iddynt o hyd.

5.130 Rydym hefyd wedi ystyried effaith y newidiadau arfaethedig ar grwpiau o ddefnyddwyr mae eu hamgylchiadau neu eu nodweddion yn golygu eu bod yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn dibynnu ar wasanaethau post. Mae'r grwpiau hyn yn ddefnyddwyr heb fynediad i'r rhyngrwyd, defnyddwyr â symudedd cyfyngedig, defnyddwyr mewn lleoliadau gwledig, a defnyddwyr hŷn. Yn gyffredinol, canfu ein hymchwil fod eu hanghenion danfon llythyrau yn debyg i ddefnyddwyr 'nodweddiadol' o ran eu bod yn blaenoriaethu dibynadwyedd a fforddiadwyedd, ac mai anaml y mae cyflymder danfon yn hollbwysig. Rydym felly o'r farn, yn y rhan fwyaf o achosion, y byddai anghenion y grwpiau hyn yn dal i gael eu diwallu gan y newidiadau arfaethedig i gwmpas yr USO, ond rydym hefyd yn cydnabod y gallai'r effaith fod yn fwy i nifer fach o ddefnyddwyr yn y grwpiau hyn nad yw eu hanghenion yn cael eu diwallu oherwydd eu bod yn dibynnu mwy ar bost fel ffordd o gyfathrebu ac mae cyflymder danfon post heb flaenoriaeth yn arbennig o bwysig iddynt. Gall y defnyddwyr hyn berthyn i'r categori bach o ddefnyddwyr rydym wedi'u nodi uchod nad yw eu hanghenion rhesymol o bosibl yn cael eu diwallu gan ein cynigion. Rydym yn disgwyl y bydd y grŵp hwn hefyd yn cynnwys defnyddwyr ar incwm isel. Fodd bynnag, rydym o'r farn y gallai'r effaith fwy ar

ddefnyddwyr o'r fath fod yn gymesur ac y gellir ei chyfiawnhau gan y manteision cyffredinol sy'n deillio o ddiwygio.

5.131 Fel y nodir uchod, gallai'r effaith ar ddefnyddwyr, mewn rhai ardaloedd gwledig yn benodol, fod yn fwy cyfyngedig oherwydd, efallai na fydd yn ymarferol i'r Post Brenhinol wneud unrhyw newidiadau i'r llwybrau danfon gan eu bod fel arfer yn cael eu gwneud ar lwybrau un fan sy'n tueddu i gwmpasu pellteroedd hirach. Mae'r Post Brenhinol wedi dweud, o dan y model danfon newydd, ei fod yn disgwyl na fydd cwsmeriaid gwledig yn gweld llawer o newid.[318]

5.132 Mae ein hasesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn Atodiad A2 yn ystyried ymhellach a fydd ein penderfyniadau yn y ddogfen hon yn cael effaith benodol ar grwpiau penodol, gan gynnwys y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig (fel oedran ac anabledd).

5.133 Rydym yn egluro yn Adran 4 pam y byddai diwygio'r USO yn cefnogi'r gwasanaeth cyffredinol i ddychwelyd i gynaliadwyedd ariannol, ac felly ei ddarpariaeth barhaus. Er y byddai hyn o fudd arbennig i ddefnyddwyr sy'n fwy dibynnol ar bost, mae argaeledd gwasanaeth post cyffredinol o fudd i bob defnyddiwr. Pe na bai'r gwasanaeth cyffredinol ar gael mwyach neu pe bai'n dirywio'n sylweddol, byddai effeithiau niweidiol sylweddol ar bob defnyddiwr.

Effaith ar fusnesau bach a chanolig

5.134 Yn gyffredinol, canfu ein hymchwil fod anghenion defnyddwyr post busnesau bach a chanolig yn cyd-fynd yn agos â defnyddwyr preswyl o ran pwysigrwydd danfon nwyddau yn ystod yr wythnos, argaeledd gwasanaeth diwrnod canlynol, dibynadwyedd a fforddiadwyedd post. Felly, rydym o'r farn y byddai effaith y cynigion yn debyg yn gyffredinol i'r ddwy set o ddefnyddwyr. Mae hyn yn cynnwys y budd i fusnesau bach a chanolig o barhau i ddarparu gwasanaeth cyffredinol, y byddai diwygio yn ei gefnogi.

5.135 Nodwn y dywedodd FSB a Gretton Books fod ein cynigion yn debygol o gael effaith anghymesur ar fusnesau bach, yn enwedig y rheini nad ydynt yn gallu fforddio defnyddio Dosbarth Cyntaf neu'r rheini sy'n llai abl i negodi bargeinion gwell neu ystyried darparwyr amgen ar gyfer eu gwasanaethau post. Rydym felly'n cydnabod y gall effaith y cynigion ar rai defnyddwyr busnesau bach a chanolig fod ychydig yn wahanol i ddefnyddwyr preswyl, yn enwedig busnesau bach a chanolig sy'n anfon mwy o eitemau a/neu fwy o eitemau sy'n sensitif i amser.

Effaith ar wasanaethau mynediad a defnyddwyr post mawr

Ein safbwynt dros dro

5.136 Yn ein Hymgynghoriad, fe wnaethom egluro y byddai'r model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth hefyd yn debygol o arwain at rai newidiadau i wasanaethau mynediad. Yn benodol, byddai sylfaen gost post mynediad D+2 yn cynyddu, gan y byddai'n rhaid danfon hyn ochr yn ochr â Dosbarth Cyntaf, yn hytrach na thrwy wasanaeth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, er mwyn cyrraedd targedau danfon. Byddai angen i bris y gwasanaeth mynediad D+2 hefyd gynyddu i dalu am gostau danfon uwch a hefyd i gymell niferoedd i symud i wasanaeth mynediad arafach er mwyn i'r

[318] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, paragraff 2.9 i 2.10.

Post Brenhinol allu sicrhau arbedion cost posibl drwy symud y rhan fwyaf o lythyrau i wasanaeth danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Fe wnaethom nodi cynlluniau'r Post Brenhinol i gyflwyno gwasanaeth mynediad D+3 newydd a fyddai, ynghyd â'r gwasanaeth mynediad D+5 presennol, yn cyd-fynd â'r model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos.

Ein casgliadau ynghylch effaith ar wasanaethau mynediad a defnyddwyr post mawr

5.137 Rydym yn nodi, ar gyfer sefydliadau masnachol sy'n anfon llythyrau sy'n sensitif o ran amser, y gallai hyn olygu sylfaen gostau uwch ar gyfer anfon gohebiaeth a gallai arwain at sefydliadau'n codi prisiau ar wasanaethau i adennill y costau hyn, neu lythyrau'n cael eu dileu fel opsiwn cyfathrebu. Ar gyfer sefydliadau'r sector cyhoeddus sy'n anfon llythyrau sy'n sensitif i amser, gallai hyn gynyddu'r pwysau ar gyllidebau ariannol ac felly eu symud tuag at gyflymder danfon arafach i arbed arian. Gallai hyn olygu bod unigolion yn cael llythyrau sy'n sensitif i amser yn hwyrach na'r disgwyl ar hyn o bryd.

5.138 Yn y pen draw, sefydliadau sydd i benderfynu beth yw'r ffordd orau o gyrraedd eu defnyddwyr a chyfathrebu â'u cwsmeriaid. Gallai'r rhan fwyaf o sefydliadau hefyd newid eu prosesau i bostio llythyrau'n gynharach. Byddai busnesau'n parhau i gael dewis o opsiynau cyfathrebu, gan gynnwys y gwasanaeth Dosbarth Cyntaf presennol, gwasanaeth Ail Ddosbarth ychydig yn arafach a nifer o wasanaethau mynediad. Rydym yn cydnabod y gallai fod angen i fusnes ddefnyddio'r gwasanaeth Dosbarth Cyntaf drutach mewn achosion brys. Fodd bynnag, mae sefyllfaoedd o'r fath yn debygol o fod yn gyfyngedig, ac rydym yn credu y byddai hyn yn arwain at effeithiau niweidiol bach iawn ar y busnes sy'n anfon y llythyr, sy'n debygol o arwain at effaith fach ar y derbynnydd. Y rheswm am hyn yw bod y gost ychwanegol yn gost resymol, yn enwedig pan fydd yn ymwneud â gwasanaethau hanfodol fel bancio.

5.139 Rydym yn crynhoi ac yn asesu ymatebion rhanddeiliaid i'n newidiadau arfaethedig i reoleiddio gwasanaethau mynediad yn Adran 7. Mae ein casgliadau a'n penderfyniadau terfynol ar reoleiddio gwasanaethau mynediad hefyd yn Adran 7.

Effaith ar gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol

Ein safbwynt dros dro

5.140 Yn ein Hymgynghoriad, roeddem wedi nodi ein barn y byddai'r newidiadau arfaethedig yn rhoi mwy o hyblygrwydd gweithredol i'r Post Brenhinol a fyddai'n ei helpu i reoli ac i arbed costau'n fwy effeithiol. Roeddem wedi amcangyfrif y byddai ein pecyn cyffredinol o ddiwygiadau arfaethedig yn galluogi'r Post Brenhinol i wneud arbedion cost net posibl gwerth £250m i £425m. Dywedasom, pe bai hyn yn cael ei gyflawni, y byddai'r arbedion yn gwella perfformiad ariannol y Post Brenhinol yn sylweddol a byddai'n gwneud cyfraniad pwysig at gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol.

Ymatebion rhanddeiliaid

5.141 Dywedodd y Post Brenhinol y byddai ein cynigion yn helpu i roi'r gwasanaeth cyffredinol ar sylfaen sy'n fwy cynaliadwy yn ariannol.[319]

[319] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, paragraff 2.14.

5.142 Fodd bynnag, roedd nifer o ymatebwyr yn poeni y byddai'r cynnig i ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth yn llai aml yn cyflymu'r dirywiad strwythurol mewn llythyrau ymhellach wrth i bobl newid i fathau eraill o gyfathrebu.

5.143 Mynegodd Swyddfa'r Post Cyfyngedig bryder y gallai'r cyfuniad o ddanfon yn llai aml, newidiadau i ansawdd gwasanaeth a phrisiau Dosbarth Cyntaf uwch arwain at golli mwy o niferoedd a/neu wario llai ar wasanaethau post. Dywedodd fod adborth gan Bostfeistri yn dangos bod y gostyngiad yn nifer y llythyrau wedi cyflymu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn rhannol oherwydd ansawdd gwasanaeth gwael a chynnydd uwch na chwyddiant mewn prisiau.[320]

5.144 Roedd Cyngor ar Bopeth o'r farn ei bod yn annhebygol y bydd defnyddwyr yn newid o ddefnyddio'r gwasanaeth Dosbarth Cyntaf drutach i'r gwasanaeth Ail Ddosbarth rhatach os nad yw'r gwasanaeth Ail Ddosbarth newydd arfaethedig (danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, cael gwared ar ddanfon ar ddydd Sadwrn a gostyngiad yn y prif darged ansawdd gwasanaeth Ail Ddosbarth) yn cynnig yr hyn sydd ei angen arnynt o ran cyflymder a dibynadwyedd. O ganlyniad, dywedodd efallai na fyddai budd ariannol diwygio'r Post Brenhinol yn cael ei wireddu'n llawn.[321]

5.145 Yn yr un modd, roedd y diwydiant cardiau cyfarch yn poeni y byddai ein cynigion yn cael effaith negyddol ar ddibynadwyedd y gwasanaeth Ail Ddosbarth sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd yn wasanaeth mwy fforddiadwy. Maent yn credu y bydd hyn yn gwthio mwy o bobl i ffwrdd oddi wrth ddefnyddio gwasanaethau post, gan gyflymu'r gostyngiad yn nifer y llythyrau a dadsefydlogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol, yn hytrach na'i gryfhau.[322] Roedd gan yr MCF, [✂] ac UK Mail bryderon tebyg am anfonwyr yn newid i ddefnyddio cyfathrebiadau digidol a fyddai'n arwain at golli mwy o refeniw i'r Post Brenhinol.[323]

5.146 Dywedodd rhai ymatebwyr ein bod wedi canolbwyntio gormod ar gynaliadwyedd ariannol y Post Brenhinol o'i gymharu ag anghenion defnyddwyr.[324]

Ein hasesiad

5.147 Rydym eisoes wedi gweld gostyngiad sylweddol yn nifer y llythyrau dros gyfnod hir gyda'r rheoliadau presennol ar waith - fel y nodwyd yn Adran 2, cyrhaeddodd nifer y llythyrau eu hanterth tua 2005 ond maent wedi bod yn gostwng ers hynny ac maent bron wedi haneru ers 2011/12. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod perfformiad ansawdd gwasanaeth y Post Brenhinol ar y lefelau targed neu o'u cwmpas hyd at 2019/20. Felly, mae ein diwygiadau yn ymateb i'r duedd hon gan fod risg ar hyn o bryd i gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth

[320] Ymateb Swyddfa'r Post Cyfyngedig (POL) i Ymgynghoriad 2025, tt.2-3.
[321] Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, t.9.
[322] Gweler er enghraifft: Ymateb Abacus Cards i Ymgynghoriad 2025, tt.1-2; Ymateb Earlybird Designs i Ymgynghoriad 2025, t.3 a t.5; Ymateb Greeting Card Association (GCA) i Ymgynghoriad 2025, tt.4-5; Ymateb Paper Salad Publishing Limited i Ymgynghoriad 2025, t.1.
[323] Ymateb Mail Competition Forum (MCF) i Ymgynghoriad 2025, t.210; Ymateb UK Mail i Ymgynghoriad 2025, tt.1-2.
[324] Ymateb CWU i Ymgynghoriad 2025, t.4; ymateb UK Mail i Ymgynghoriad 2025, tt. 6-7; ymateb MCF i Ymgynghoriad 2025, tt. 10-11, ac ymateb Consumer Scotland i Ymgynghoriad 2025, t.9.

cyffredinol yn sgil y gostyngiad parhaus disgwyliedig yn y niferoedd sy'n arwain at gostau uned cynyddol ar gyfer danfon llythyrau.

5.148 Rydym yn nodi pryderon ymatebwyr y gallai danfon llythyrau Ail Ddosbarth yn llai aml arwain at rai defnyddwyr yn rhoi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau post os nad yw'n diwallu eu hanghenion mwyach. Fodd bynnag, nid ydym yn cytuno y byddai hyn o reidrwydd yn cyflymu'r gostyngiad yn nifer y llythyrau ac yn tanseilio cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol ymhellach. Yn hytrach, fel sy'n cael ei egluro'n fanylach yn Adran 8, rydym yn disgwyl i hyn fod yn addasiad untro i raddau helaeth wrth i ddefnyddwyr addasu eu defnydd i fanylebau newydd cynnyrch post. Rydym hefyd yn disgwyl, yn y mwyafrif helaeth o achosion, y byddai defnyddwyr yn gallu newid eu harferion anfon i bostio llythyrau Ail Ddosbarth ddiwrnod yn gynharach lle bo angen.

5.149 I grynhoi, mae ein gwaith modelu yn tybio y byddai rhywfaint o symud i Ail Ddosbarth o Ddosbarth Cyntaf pan fydd defnyddwyr yn credu y byddai Ail Ddosbarth yn diwallu eu hanghenion. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod mai dim ond ar gyfer is-set o ddefnyddwyr y byddai hyn yn gweithio ac rydym hefyd wedi ystyried defnyddwyr a fyddai'n gadael y farchnad neu'n newid i gynnyrch cystadleuwyr a ddarperir gan gwmnïau mynediad.

5.150 Yn gyffredinol, nid ydym yn cytuno y byddai ein cynigion yn cyflymu'r gostyngiad yn nifer y llythyrau. Rydym yn disgwyl rhai colledion o ran niferoedd, wrth i ddefnyddwyr addasu i'r amlder danfon Ail Ddosbarth newydd, ond mae'r rhain yn eithaf cyfyngedig, sef llai na 2% o gyfanswm nifer y llythyrau, ac maent yn golledion un-tro yn hytrach na cholledion mewn niferoedd blynyddol sy'n ychwanegol i'r dirywiad strwythurol. Bwriad ein newidiadau arfaethedig yw adlewyrchu realiti tueddiadau hirdymor o ran gostyngiad yn nifer y llythyrau, er mwyn caniatáu strwythurau danfon sy'n fwy addas ar gyfer y lefelau niferoedd a welir nawr ac a ddisgwylir yn y dyfodol.

5.151 Mewn ymateb i sylwadau ein bod wedi canolbwyntio gormod ar gynaliadwyedd ariannol ar draul anghenion defnyddwyr, yn ein Hymgynghoriad fe wnaethom gyflwyno asesiad o anghenion defnyddwyr gan ddefnyddio ymchwil a gomisiynwyd ochr yn ochr â'r dystiolaeth helaeth a ddatblygwyd ers i Ofcom ymgymryd â rheoleiddio'r post. Mae angen canolbwyntio ar gynaliadwyedd ariannol y Post Brenhinol gan ei fod yn gysylltiedig â chynaliadwyedd y gwasanaeth cyffredinol, sy'n golygu na fyddai gwasanaeth post cyffredinol ar gael i bob defnyddiwr heb y Post Brenhinol. Felly, rydym o'r farn bod risg sylweddol i'r gwasanaeth cyffredinol o ganlyniad i fethu cymryd camau i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol. O'r herwydd, mae ein dull gweithredu yn cyd-fynd â'n dyletswydd adran 29 i gyflawni ein swyddogaethau mewn ffordd a fydd, yn ein barn ni, yn sicrhau bod gwasanaeth cyffredinol yn cael ei ddarparu.

Ein casgliadau ynghylch effaith ar gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol

5.152 Dylai cwmpas y gwasanaeth cyffredinol adlewyrchu anghenion rhesymol defnyddwyr post gymaint ag sy'n rhesymol bosibl. Mae darparu'r gwasanaeth cyffredinol yn gosod cyfyngiadau ar hyblygrwydd masnachol a gweithredol y Post Brenhinol sy'n effeithio ar ei sylfaen gostau. Ar ben hynny, mae gofynion yr USO yn effeithio ar sut mae'r Post Brenhinol yn danfon llythyrau nad ydynt yn rhai USO, sef y rhan fwyaf o lythyrau ac sy'n cynnwys yr eitemau llythyrau sydd bwysicaf i ddefnyddwyr. Mae'r gofynion hyn hefyd yn effeithio ar y costau a gaiff y Post Brenhinol wrth ddanfon post.

5.153 Pe bai cwmpas yr USO yn mynd y tu hwnt i'r hyn sydd ei angen i ddiwallu anghenion rhesymol defnyddwyr, byddai'n gosod costau ar y Post Brenhinol nad oedd modd eu

cyfiawnhau. Byddai hyn yn ychwanegu risg at gynaliadwyedd ariannol cyffredinol y gwasanaeth cyffredinol a gallai arwain at brisiau uwch nag y byddai'n digwydd fel arall i ddefnyddwyr post er mwyn adennill y costau hyn. Er y byddai USO sy'n rhy benodol yn darparu gwasanaethau (yn enwedig danfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth chwe diwrnod yr wythnos) sy'n cael eu gwerthfawrogi gan rai defnyddwyr, nid ydym o'r farn y byddai'r gwerth ychwanegol i'r defnyddwyr hyn yn drech na'r risg i gynaliadwyedd y gwasanaeth cyffredinol sydd, yn y cyd-destun presennol, yn ddifrifol ac yn destun brys.

5.154 Rydym o'r farn y byddai'r newidiadau yn rhoi mwy o hyblygrwydd gweithredol i'r Post Brenhinol a allai ei helpu i reoli ac i arbed costau'n fwy effeithiol. Er enghraifft, dylai'r model danfon llythyrau bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos olygu bod y Post Brenhinol yn gallu newid o ddanfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth o 6 diwrnod i 2.5 diwrnod, gan arbed ar nifer y llwybrau danfon bob wythnos.

5.155 Yn Adran 4 rydym yn egluro y gallai newid cwmpas yr USO arwain at arbedion net sylweddol a fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol. Yn Adran 8, rydym yn asesu effaith ariannol ein pecyn o ddiwygiadau arfaethedig ar gynaliadwyedd ariannol darparu'r gwasanaeth cyffredinol. Rydym yn amcangyfrif y byddai ein pecyn cyfan o gynigion diwygio, gan gynnwys danfon llythyrau Ail Ddosbarth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos fel sy'n cael ei ddisgrifio yn yr adran hon, yn rhoi mwy o hyblygrwydd masnachol a gweithredol i'r Post Brenhinol i wireddu arbedion cost net posibl o £250m i £425m ym mlwyddyn ariannol 2025/26.

5.156 Pe bai'r Post Brenhinol yn llwyddo i wireddu'r arbedion posibl hyn, byddai'r rhain yn arwain at welliant sylweddol ym mherfformiad ariannol y Post Brenhinol a byddent yn gyfraniad pwysig at gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol. Fel sy'n cael ei egluro uchod, mae gan USO sy'n fwy na'r angen gostau sy'n llawer mwy na'r manteision, ac o ystyried perfformiad ariannol y Post Brenhinol dros y blynyddoedd diwethaf, mae'n peri risg sylweddol i gynaliadwyedd ariannol cyffredinol y gwasanaeth cyffredinol, ac felly darpariaeth y gwasanaeth cyffredinol ei hun, yn y dyfodol.

5.157 Rydym yn credu y byddai gwasanaeth cyffredinol sy'n gynaliadwy yn ariannol yn parhau i fod o fudd i bawb sy'n defnyddio'r post drwy gyfrannu at gydlyniant cymdeithasol a thwf economaidd drwy ddull dibynadwy o gyfathrebu a logisteg. Byddai o fudd arbennig i rai grwpiau o ddefnyddwyr sy'n fwy tebygol o ddweud eu bod yn dibynnu mwy ar wasanaethau post fel ffordd o gyfathrebu, er nad yw dibyniaeth o reidrwydd yn golygu mwy o ddefnydd neu wahaniaeth yn y math o wasanaeth post sydd ei angen. Fel y nodwyd uchod, byddai effeithiau niweidiol sylweddol ar bob defnyddiwr pe na bai'r gwasanaeth cyffredinol ar gael mwyach neu pe bai'n cael ei ddiraddio'n sylweddol.

5.158 Mae gwasanaeth cyffredinol sy'n cyd-fynd yn agosach ag anghenion y defnyddwyr ac sydd â chostau is yn cyfrannu at dwf cynhyrchiant, er enghraifft, drwy gefnogi'r Post Brenhinol i ddyrannu adnoddau'n well i ddiwallu anghenion ei gwsmeriaid, yn hytrach na chynnal adnoddau drud dros ben nad oes eu hangen er mwyn diwallu'r anghenion hynny.

5.159 Byddwn yn monitro cynnydd y Post Brenhinol o ran cyflawni'r arbedion cost net a amcangyfrifir o ddiwygio'r USO.

Effaith ar gymhellion ar y Post Brenhinol i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'w gwsmeriaid

Ein hasesiad dros dro

5.160 Yn ein Hymgynghoriad, fe wnaethom egluro y gallai'r model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos alluogi arbedion cost sylweddol a ddylai roi'r Post Brenhinol mewn gwell sefyllfa i wella ei berfformiad cyffredinol o ran ansawdd gwasanaeth. Fodd bynnag, fe wnaethom nodi y byddai'r model danfon arfaethedig yn ei gwneud yn anoddach i'r Post Brenhinol gyrraedd y targed ansawdd gwasanaeth D+3 presennol o 98.5% ar gyfer danfon post Ail Ddosbarth.

Ymatebion rhanddeiliaid

5.161 Cytunodd y Post Brenhinol ac Unite CMA y byddai'r model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos ar gyfer Ail Ddosbarth yn helpu i sicrhau gwasanaeth post dibynadwy. Dywedodd Unite CMA y byddai addasu amserlenni danfon yn galluogi'r Post Brenhinol i ganolbwyntio ar wella ansawdd gwasanaeth lle mae'n cyfrif fwyaf ac y byddai'r dull newydd yn sicrhau y gellid danfon post Dosbarth Cyntaf a phost blaenoriaeth arall yn fwy effeithiol, gan wella dibynadwyedd y gwasanaeth.[325]

5.162 I'r gwrthwyneb, roedd llawer o ymatebwyr (gan gynnwys unigolion preifat) yn poeni, gyda pherfformiad y Post Brenhinol yn dal yn is na lefelau targed ansawdd gwasanaeth, y byddai'r newid arfaethedig i ddanfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos (a gostyngiadau yn y prif darged ansawdd gwasanaeth Ail Ddosbarth) yn lleihau dibynadwyedd y gwasanaeth ymhellach ac yn arwain at fwy o lythyrau'n cael eu dal yn ôl. Nododd ACNI, [✂], NFSP, [✂] a Wine Merchant Magazine fod llawer o ddefnyddwyr eisoes yn profi gwasanaeth annibynadwy a mynegodd bryder y byddai'r newid arfaethedig yn arwain at ddirywiad pellach yn y gwasanaeth.[326]

5.163 Cyfeiriodd y GCA at ei ymateb i'n Cais am Fewnbwn a ddywedodd mai opsiwn gwell ar gyfer diwygio fyddai goruchwylio dychweliad cyflym a pharhaus i'r lefelau ansawdd gwasanaeth gofynnol gan y byddai'n adfer ymddiriedaeth yn y gwasanaeth ac felly'n cynyddu niferoedd a refeniw.[327] Yn yr un modd, dywedodd Cyngor ar Bopeth a Swyddfa'r Post Cyfyngedig fod yn rhaid i Ofcom fynd i'r afael â pherfformiad ansawdd gwasanaeth gwael y Post Brenhinol cyn i ni weithredu unrhyw newidiadau i'r USO. Ar ben hynny, roedd gan Cyngor ar Bopeth, ynghyd â CCNI, CCP-ACOD a Consumer Scotland amheuon ynghylch gallu'r Post Brenhinol i ddanfon eitemau Ail Ddosbarth cyn D+3 i wneud i'r model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos weithio.[328] Dywedodd yr MCF y gallai derbynwyr gael lefelau amrywiol o

[325] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, t.4 a y.16; Ymateb Unite CMA i Ymgynghoriad 2025, t.12.
[326] Ymateb Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon (ACNI) i Ymgynghoriad 2025, t.2 a tt.6-7; [✂]; Ymateb Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri (NFSP) i Ymgynghoriad 2025, t.3; [✂]; Ymateb The Wine Merchant Magazine i Ymgynghoriad 2025, tt.1-2.
[327] Ymateb The Greeting Card Association (GCA) i Ymgynghoriad 2025, t.14.
[328] Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, t.5 a t.33; ymateb Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon (CCNI) i Ymgynghoriad 2025, t.21; ymateb y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau (CCP-ACOD) i Ymgynghoriad 2025, t.6; ymateb Consumer Scotland i Ymgynghoriad 2025, t.47-49; ymateb Swyddfa'r Post Cyfyngedig (POL) i Ymgynghoriad 2025, t.2.

wasanaeth o wythnos i wythnos yn dibynnu ar nifer y cyfleoedd sydd ar gael i ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth o fewn D+3 yn yr amserlen danfon.[329]

5.164 Awgrymodd rhai ymatebwyr - [✂], [✂] a rhai unigolion preifat y dylai postio Ail Ddosbarth fod yn rhatach i adlewyrchu'r gwasanaeth arafach a ddisgwylir o ganlyniad i ddanfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos a gostwng y targed ansawdd gwasanaeth Ail Ddosbarth.[330]

Ein hasesiad

5.165 Rydym yn nodi pryderon rhai rhanddeiliaid ynghylch perfformiad ansawdd gwasanaeth gwael parhaus y Post Brenhinol. Rydym wedi ymchwilio ac wedi rhoi cosbau ariannol i'r Post Brenhinol am fethiannau ansawdd gwasanaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf a byddwn yn parhau i'w ddal i gyfrif.

5.166 Rydym o'r farn, ni waeth sut mae'r Post Brenhinol yn perfformio yn erbyn ei dargedau ansawdd gwasanaeth, bod diwygio yn fater brys ac angenrheidiol i gefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol, ac felly darparu'r gwasanaeth cyffredinol ei hun. Fel y nodwyd uchod, byddai gwasanaeth cyffredinol sy'n fwy na'r angen yn arwain at gostau uwch a allai arwain at brisiau uwch i ddefnyddwyr. Gall hefyd arwain at berfformiad gwael os bydd darparwr y gwasanaeth cyffredinol yn ei chael hi'n anodd fforddio gwneud buddsoddiadau i wella ansawdd y gwasanaeth. Rydym o'r farn bod angen i ni weithredu nawr ac na ddylem aros i ansawdd gwasanaeth gyrraedd lefel benodol cyn i ni roi newidiadau ar waith i fynd i'r afael â'r problemau sy'n wynebu'r gwasanaeth cyffredinol. Beth bynnag, er y gallai dychwelyd at dargedau ansawdd gwasanaeth y Post Brenhinol gynyddu hyder defnyddwyr mewn post, rydym o'r farn ei bod yn annhebygol iawn y byddai hyn yn arafu'r dirywiad strwythurol parhaus yn nifer y llythyrau i'r pwynt lle nad oedd angen diwygio mwyach i gefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol.

5.167 Yn ein Hymgynghoriad, roeddem yn cydnabod bod y targedau ansawdd gwasanaeth presennol wedi cael eu gosod bron i ddau ddegawd yn ôl, ac yn ystod y cyfnod hwn mae'r farchnad bost wedi newid yn sylweddol wrth i'r ffordd mae pobl yn defnyddio post esblygu. Roeddem wedi nodi sut mae'r newidiadau hyn wedi'i gwneud yn anoddach, ac yn ddrutach fesul eitem o bost, i gynnal perfformiad ar lefelau uchel o ansawdd gwasanaeth.[331] Fe wnaethom ddweud y gallai ein pecyn o gynigion arwain at arbedion cost sylweddol a ddylai roi'r Post Brenhinol mewn gwell sefyllfa i wella ei berfformiad cyffredinol o ran ansawdd gwasanaeth.

5.168 Rydym yn dal o'r farn y dylai symud i fodel danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos (ynghyd ag ailosod targedau ansawdd gwasanaeth yn briodol - gweler Adran 6) roi mwy o allu i'r Post Brenhinol ddarparu gwasanaeth dibynadwy o ansawdd uchel.[332] Yn Adran 4, rydym wedi egluro sut mae cyfradd galwadau'r Post Brenhinol wedi bod yn gostwng wrth i nifer y llythyrau ostwng, a sut mae hyn yn cynyddu cost danfon. Mae'r Post Brenhinol wedi pwysleisio bod cyfraddau galwadau isel hefyd yn ei gwneud yn anoddach ymdopi ag anwadalrwydd y niferoedd, gan gyfrannu at yr anhawster cynyddol o ran sicrhau ansawdd

[329] Ymateb y Fforwm Cystadleuaeth Post (MCF) i Ymgynghoriad 2025, t.3.
[330] [✂]; [✂].
[331] Ofcom, 2025. Ymgynghoriad: Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post, paragraff 6.16.
[332] Ni allai'r Post Brenhinol wneud yr arbedion cost amcangyfrifiedig o ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos pe na bai targedau ansawdd gwasanaeth hefyd yn cael eu lleihau.

uchel yn gyson. Mae'r Post Brenhinol yn amcangyfrif y dylai'r newid i ddanfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos gynyddu cyfraddau galwadau'n sylweddol o tua 40% i tua 70% ar lwybrau craidd, gan ddychwelyd i'r lefelau a welwyd ddiwethaf yn 2011/12 yn y bôn, a gwneud anwadalrwydd y niferoedd yn haws eu hamsugno.[333] Nodwn ymhellach fod y Post Brenhinol wedi dweud yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, er mwyn mynd i'r afael â pherfformiad ansawdd gwasanaeth a'i wella, y byddai'n buddsoddi rhai o'r arbedion adnoddau o ganlyniad i ddanfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos yn ôl i'w weithrediad.[334]

5.169 Rydym yn nodi sylwadau rhanddeiliaid ynghylch gostwng pris postio Ail Ddosbarth gan fod rhai defnyddwyr o'r farn y byddent yn cael gwasanaeth llai ac felly na ddylai fod yn ofynnol iddynt dalu cymaint amdano. Mae angen i'r gwasanaeth cyffredinol fod yn gynaliadwy yn ariannol ac er bod lleihau costau cyflenwi yn rhan o hyn, mae angen i'r Post Brenhinol hefyd osod prisiau i ganiatáu elw rhesymol ar y gwasanaeth cyffredinol. Mater i'r Post Brenhinol yw pennu pris ei wasanaethau ac mae cap diogelu eisoes ar waith ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth sy'n cyfyngu ar allu'r Post Brenhinol i godi prisiau ac yn sicrhau bod y gwasanaeth hwn yn fforddiadwy. Gweler y drafodaeth ar bris a fforddiadwyedd gwasanaethau post ym mharagraffau 5.82-5.100 uchod.

5.170 Beth bynnag, rydym o'r farn y byddai prisiau is yn cynyddu'r risgiau i gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol gan y byddai'n gwrthbwyso rhai o'r arbedion cost net ac yn lleihau manteision diwygio.

Ein casgliadau ynghylch effaith ar gymhellion ar y Post Brenhinol i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'w gwsmeriaid

5.171 Rydym yn dal o'r farn y gallai'r model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos alluogi arbedion cost sylweddol a ddylai roi'r Post Brenhinol mewn gwell sefyllfa i fuddsoddi mewn gwella ei berfformiad cyffredinol o ran ansawdd gwasanaeth a darparu gwasanaeth dibynadwy o ansawdd uchel yn gyson yn y dyfodol. Yn wir, mae'r Post Brenhinol wedi dweud y byddai'n ceisio ail-fuddsoddi rhywfaint o'r arbedion cost o ganlyniad i ddiwygio yn ei weithrediadau er mwyn gwella ansawdd.

5.172 Rydym yn cydnabod y byddai'r model danfon newydd yn ei gwneud hi'n anoddach i'r Post Brenhinol gyrraedd y targed ansawdd gwasanaeth presennol sef bod 98.5% o bost Ail Ddosbarth yn cael ei ddanfon o fewn tri diwrnod gwaith (D+3). Ar ben hynny, er nad yw'n ymwneud â'n cynnig i symud i ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, mae'r Post Brenhinol hefyd wedi datgan na all gyrraedd y targed ansawdd gwasanaeth presennol ar gyfer post Dosbarth Cyntaf am gost resymol a'u bod yn rhy uchel. Felly, rydym wedi adolygu'r targedau ansawdd gwasanaeth perthnasol fel rhan o'r pecyn o ddiwygio'r USO (gweler y cynigion ar dargedau ansawdd gwasanaeth yn Adran 6).

5.173 Fel rhan o'n gwaith mewnol, byddwn yn canolbwyntio ar fonitro camau gweithredu'r Post Brenhinol i wella ansawdd ei wasanaeth wrth iddo ddechrau gweithredu newidiadau i'r USO (gweler Adran 9).

---

[333] Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 27 Mai 2025.

[334] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, paragraff 3.69.

Effaith ar arloesedd a chystadleuaeth yn y diwydiant post

5.174 Yn ein Hymgynghoriad, dywedasom y byddai gwasanaeth cyffredinol sy'n gynaliadwy yn ariannol yn helpu'r Post Brenhinol i barhau i weithredu'r rhwydwaith ar y cyd sy'n darparu'r holl wasanaethau nad ydynt yn rhai USO, fel post busnes a pharseli cyfrifon. Dywedasom hefyd y byddai'n rhoi hyblygrwydd masnachol a gweithredol ychwanegol i'r Post Brenhinol i wneud mwy o arloesi gweithredol a masnachol a chyflwyno gwasanaethau a manylebau newydd a allai fod o fudd i ddefnyddwyr. Dywedasom y byddai hyn yn fwy na thebyg yn hyrwyddo twf economaidd a bod o fudd i'r gymdeithas ehangach.

Ymatebion rhanddeiliaid

5.175 Dywedodd CWU y dylai'r Post Brenhinol ddatblygu amrywiaeth o wasanaethau masnachol, llywodraeth a chymdeithasol arloesol i helpu i sicrhau ei gynaliadwyedd ariannol.[335] Dywedodd un ymatebydd fod ein cynigion yn mynd yn groes i ymgyrch y llywodraeth i sicrhau twf ac effeithlonrwydd a fyddai'n cael effaith niweidiol ar gost ac effeithlonrwydd busnesau bach a sefydliadau fel y GIG.[336]

Ein hasesiad a'n casgliadau

5.176 Rydym yn credu y byddai ein diwygiadau'n rhoi mwy o hyblygrwydd gweithredol i'r Post Brenhinol addasu'n well i newidiadau yn y galw ac i ddatblygu gwasanaethau arloesol ar gyfer rhai defnyddwyr fel y nodwyd gan CWU.

5.177 Mae diwygio'r USO yn cefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol a byddai'n galluogi'r Post Brenhinol i barhau i gynnal rhwydwaith sy'n darparu gwasanaethau i'r farchnad llythyrau gyfan, gan gefnogi cystadleuaeth ac arloesedd, er enghraifft o ran danfon parseli neu gynigion mynediad. Byddai hyn yn ei dro yn cefnogi busnesau amrywiol ac yn hyrwyddo twf economaidd ac o fudd i'r gymdeithas ehangach, ac felly byddai'n dda i'r economi yn gyffredinol.

Effeithiau eraill

Ymatebion rhanddeiliaid: yr effaith ar staff y Post Brenhinol

5.178 Soniodd rhai ymatebwyr am effaith ein cynigion ar staff y Post Brenhinol. Gofynnodd Gretton Books beth fyddai'r effaith ar staff didoli a dosbarthu'r Post Brenhinol.[337] Mynegodd CWU ac un ymatebydd preifat bryderon ynghylch effaith bosibl ein cynigion ar swyddi post.[338] Dywedodd [✂] y byddai llai o oriau a lefelau staffio is yn rhoi gweithwyr y Post Brenhinol dan ragor o bwysau ariannol gan fod goramser wedi cael ei leihau'n ddifrifol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.[339]

5.179 Roedd ymateb y Post Brenhinol i'n Hymgynghoriad yn amlinellu rhai o'r effeithiau disgwyliedig ar ei staff, gan gynnwys:

---

[335] Ymateb Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu (CWU) i Ymgynghoriad 2025, t.5.
[336] [✂]
[337] Ymateb Gretton Books i Ymgynghoriad 2025, tt.1-2.
[338] Ymateb Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu (CWU) i Ymgynghoriad 2025, t.1; [✂]
[339] [✂]

- Bydd newidiadau i strwythurau dyletswydd mewn swyddfeydd danfon yn effeithio ar batrymau shifftiau staff gweithredol.
- Mwy o opsiynau i staff o ran y dull danfon sydd orau ganddynt (e.e. faniau neu lwybrau cerdded) a gweithio'n llawn amser neu'n rhan amser.
- Gostyngiad yn yr angen i weithio ar ddydd Sadwrn a allai alluogi staff danfon i gael dydd Sadwrn ychwanegol i ffwrdd bob chwe wythnos.
- Mae angen llai o rolau danfon, ac mae'r Post Brenhinol yn disgwyl rheoli'r mwyafrif helaeth ohonynt drwy drosiant naturiol, gostyngiad mewn contractau asiantaeth/tymor byr a diswyddo gwirfoddol.[340]

5.180 Dywedodd y Post Brenhinol hefyd y byddai'n parhau i weithio gyda'i ddau undeb (CWU ac Unite CMA) ar ddiwygio'r USO.[341]

Ein hasesiad

5.181 Rydym yn nodi pryderon ymatebwyr ynghylch effaith bosibl ein cynigion ar staff y Post Brenhinol, e.e. colli swyddi. Y Post Brenhinol sy'n gyfrifol yn y pen draw am sut mae'n rheoli ei weithlu ei hun, gan gynnwys unrhyw newidiadau i ddyletswyddau gwaith a lefelau staffio o ganlyniad i newidiadau gweithredol sy'n deillio o ddiwygio unrhyw rwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol.

Ymatebion rhanddeiliaid: effaith ar Swyddfeydd Post

5.182 Mynegodd Swyddfa'r Post Cyfyngedig bryder y byddai'r cyfuniad o ddanfon yn llai aml, newidiadau i ansawdd gwasanaeth a phrisiau Dosbarth Cyntaf uwch yn arwain at fwy o ddefnyddwyr yn newid i ddulliau cyfathrebu eraill neu wasanaethau post rhatach (e.e. newid o ddefnyddio Dosbarth Cyntaf i Ail Ddosbarth). Dywedodd y byddai hyn yn arwain at ostyngiad sylweddol mewn cyflogau Postfeistri a cholli croes-werthiant adwerthu a fyddai'n cael effaith niweidiol ar gynaliadwyedd ariannol rhai canghennau Swyddfa'r Post. [✂]

5.183 Dywedodd [✂] fod llawer o siopau cyfleustra annibynnol yn is-bostfeistri neu bostfeistri sy'n rhedeg gwasanaethau Swyddfa'r Post o'u siopau. Ychwanegodd, mewn llawer o achosion, fod argaeledd gwasanaethau post lleol yn annog niferoedd ymwelwyr ond ei fod yn ymwybodol o'r golled mewn refeniw oherwydd llai o ymwelwyr a achosir gan darfu ar wasanaethau (e.e. perfformiad ansawdd gwasanaeth gwael y Post Brenhinol).[342]

Ein hasesiad

5.184 Mae'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau post mewn ffordd a gredwn a fydd yn sicrhau darparu gwasanaeth post cyffredinol. Nid yw ein gwaith rheoleiddio yn ymestyn i Swyddfa'r Post Cyfyngedig, sy'n eiddo i'r Llywodraeth ac sy'n darparu ystod eang o gynnyrch a gwasanaethau i'r cyhoedd drwy ei rwydwaith o ganghennau swyddfeydd post. Yn ogystal â gwasanaethau post, mae swyddfeydd post yn cynnig mynediad at wasanaethau bancio ac arian parod, a rhai o wasanaethau'r llywodraeth. Yr ydym yn cydnabod rôl bwysig swyddfeydd post yn y gymuned.

---

[340] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, paragraffau 2.7-2.8 a 2.15-2.18.
[341] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, paragraff 2.18.
[342] [✂]

5.185 Rydym wedi ystyried y pryderon a godwyd gan Swyddfa'r Post Cyfyngedig. Nodwn ei fod wedi cynnal dadansoddiad i amcangyfrif effaith ein cynigion ar rwydwaith Swyddfa'r Post. Er ein bod yn cydnabod y gallai ymddygiad defnyddwyr newid rhywfaint yn y tymor byr o ganlyniad i'n pecyn o gynigion, rydym o'r farn bod ei ddadansoddiad yn debygol o fod wedi gorbwysleisio effaith diwygio'r USO ar ganghennau swyddfeydd post. Er enghraifft, mae ein gwaith modelu ein hunain yn dangos bod cyfanswm y golled o ganlyniad i bobl yn newid i ddulliau cyfathrebu eraill yn llawer is na'i amcangyfrifon. Rydym hefyd yn ystyried tystiolaeth o'n hymchwil i anghenion defnyddwyr sy'n dangos y byddai anghenion defnyddwyr yn dal i gael eu diwallu i raddau helaeth pe baem yn gweithredu'r newidiadau arfaethedig i ddanfon post nad yw'n flaenoriaeth.

5.186 Am y rhesymau hyn, nid ydym yn credu y byddai ein pecyn o gynigion yn arwain at ostyngiad sylweddol pellach yn nifer y bobl sy'n anfon llythyrau yn ychwanegol at ddirywiad strwythurol cyffredinol y farchnad llythyrau. Ar ben hynny, mae amcangyfrifon Swyddfa'r Post Cyf o'r effaith yn tybio colledion o ran niferoedd oherwydd cynnydd mewn prisiau ond nid yw'n ystyried budd refeniw gwrthbwysol unrhyw gynnydd mewn prisiau. Mae hyn, ynghyd â'n barn y byddai llai o anfonwyr yn rhoi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau post yn gyfan gwbl, yn golygu, yn gyffredinol, nad ydym yn credu bod y dystiolaeth yn dangos y bydd effaith negyddol sylweddol.

Ymatebion rhanddeiliaid: effeithiau economaidd ehangach

5.187 Dywedodd y GCA, NFSP a [✂] nad oeddem wedi asesu'n ddigonol effaith economaidd ehangach ein newidiadau arfaethedig, yn enwedig ar ddiwydiannau i lawr y gadwyn gyflenwi.[343]

Ein hasesiad

5.188 Rydym yn nodi'r pryderon y mae rhanddeiliaid wedi'u codi mewn perthynas ag effaith ein cynigion ar eu busnes a/neu eu diwydiant. Rydym yn deall yr effeithiau ehangach y mae'r gostyngiad yn y defnydd o bost yn eu cael ar y sectorau hyn. Mae gennym ddyletswydd i gyflawni ein swyddogaethau mewn ffordd a fydd, yn ein barn ni, yn sicrhau gwasanaeth cyffredinol a rhaid i ni hefyd gydymffurfio â'n dyletswydd i hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr. Mae ein cynigion wedi'u cynllunio i gyflawni ein dyletswyddau statudol. Rydym yn egluro yn Adran 2 bod angen diwygio ar frys i gefnogi cynaliadwyedd y gwasanaeth cyffredinol ac i osgoi rhoi'r gorau i'w ddarparu. Pe na bai gwasanaeth cyffredinol yn bodoli, byddai hyn yn cael effeithiau negyddol sylweddol ar fusnesau a diwydiant ledled y DU. Rydym wedi egluro pam rydym yn credu bod ein diwygiadau yn agwedd angenrheidiol ar wneud y gwasanaeth cyffredinol yn gynaliadwy yn ariannol, ac felly rydym o'r farn eu bod yn angenrheidiol i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaeth cyffredinol er budd pob defnyddiwr a busnes yn y DU.

Effaith ar Ailgyfeirio

5.189 Ar wahân i'w ymateb i'r ymgynghoriad, dywedodd y Post Brenhinol wrthym y bydd post sy'n cael ei ailgyfeirio fel rhan o'i wasanaeth Ailgyfeirio yn newid o gael ei drin fel gwasanaeth Dosbarth Cyntaf i wasanaeth Ail Ddosbarth ar 16 Mehefin. O ganlyniad, os byddwn yn newid amlder danfon llythyrau Ail Ddosbarth i bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr

[343] Ymateb Greeting Card Association (GCA) i Ymgynghoriad 2025, t.3; Ymateb Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri (NFSP) i Ymgynghoriad 2025, t.3; [✂]

wythnos, bydd yn effeithio ar eitemau sy'n cael eu hailgyfeirio o dan y gwasanaeth Ailgyfeirio. Dywedodd y Post Brenhinol ei fod o'r farn mai bach iawn fyddai effeithiau'r newid i'w wasanaeth Ailgyfeirio ar ddefnyddwyr.

Ein hasesiad

5.190 Nodwn fod yn rhaid i'r Post Brenhinol ddarparu gwasanaeth ailgyfeirio fel rhan o'r gwasanaeth cyffredinol.[344] Ar hyn o bryd mae'n darparu gwasanaeth Ailgyfeirio am dri, chwe neu ddeuddeg mis fel rhan o'r USO[345], ac ar hyn o bryd mae eitemau sy'n cael eu hailgyfeirio yn cael eu trin fel gwasanaeth Dosbarth Cyntaf, sy'n golygu ei fod yn anelu at ddanfon eitemau y diwrnod gwaith nesaf ar ôl iddynt gael eu hailgyfeirio. Er bod y Gorchymyn yn gosod rhai o ofynion y gwasanaeth, fel bod yn rhaid i eitemau sy'n cael eu hailgyfeirio gael eu cludo "o fewn cyfnod rhesymol", nid ydym yn pennu telerau na manyleb y gwasanaeth.

5.191 Rydym yn deall bod y Post Brenhinol yn gwneud y newidiadau i'w wasanaeth Ailgyfeirio ni waeth a ydym yn bwrw ymlaen i ganiatáu iddo newid amlder danfon llythyrau Ail Ddosbarth. Fodd bynnag, rydym yn nodi, drwy newid y gwasanaeth Ailgyfeirio i gael ei drin fel gwasanaeth Ail Ddosbarth, y byddai'n lleihau nifer y llythyrau Dosbarth Cyntaf a allai helpu'r Post Brenhinol i gynyddu'r arbedion costau o ganlyniad i'n cynigion gan ei fod angen i'r rhan fwyaf o lythyrau gael eu danfon ar y model bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos.

5.192 O ran yr effaith ar bost sy'n cael ei ailgyfeirio pe baem yn caniatáu i'r Post Brenhinol ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, byddai'n golygu:

- Byddai eitemau wedi'u hailgyfeirio yn cael eu danfon pan fydd danfon Ail Ddosbarth wedi'i drefnu ar gyfer y cyfeiriad.
- Ni fyddai eitemau wedi'u hailgyfeirio yn cael eu danfon ar ddydd Sadwrn.
- Gallai eitemau sy'n cael eu hailgyfeirio rhwng dydd Mercher a dydd Sadwrn gyrraedd diwrnod yn hwyrach na nawr.

5.193 Rydym yn nodi barn y Post Brenhinol mai bach iawn fyddai'r effeithiau ar ddefnyddwyr. Rydym yn ymwybodol mai cyfran gymharol fach o ddefnyddwyr sy'n tanysgrifio i wasanaeth Ailgyfeirio ar unrhyw un adeg.[346] Serch hynny, byddwn yn monitro effaith y newidiadau i'r gwasanaeth ar ddefnyddwyr fel rhan o'n rhaglen barhaus i fonitro'r post.

Ein casgliadau

5.194 Rydym wedi ystyried yn ofalus yr wybodaeth sydd ar gael i ni, gan gynnwys ymatebion rhanddeiliaid i'n Hymgynghoriad, ac wedi asesu effeithiau ein cynigion i newid amlder danfon llythyrau Ail Ddosbarth.

5.195 Gan ystyried y dadansoddiad uchod, rydym o'r farn bod newid amlder danfon llythyrau Ail Ddosbarth o'r gwasanaeth presennol chwe diwrnod yr wythnos (dydd Llun i ddydd Sadwrn) i bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos (dydd Llun i ddydd Gwener) a dileu danfon yr

[344] Gorchymyn Gwasanaethau Post (Gwasanaeth Post Cyffredinol) 2012, paragraff 1 Atodlen 3.
[345] Gwasanaeth Ailgyfeirio'r Post Brenhinol.
[346] Canfu ein hymchwil yn 2024 fod 12% o ddefnyddwyr post wedi defnyddio'r gwasanaeth Ailgyfeirio yn ystod y 12 mis diwethaf. Gweler BMG, 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleid 17.

eitemau hynny ar ddydd Sadwrn yn cyd-fynd â'n hamcanion polisi, fel y nodir yn Adran 2, i sicrhau y bydd fframwaith rheoleiddio diwygiedig yn:

a) Arwain at fanteision i ddefnyddwyr drwy wasanaeth cyffredinol sy'n parhau i ddiwallu anghenion rhesymol defnyddwyr. Rydym o'r farn y bydd defnyddwyr yn elwa o'n diwygiadau oherwydd bydd cefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol yn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth cyffredinol yn parhau i gael ei ddarparu. Mae costau is darparu gwasanaeth cyffredinol sy'n cyd-fynd yn well ag anghenion defnyddwyr yn golygu y byddai defnyddwyr hefyd yn elwa o gynnydd is cyffredinol mewn prisiau yn y tymor hir. Rydym o'r farn y bydd anghenion rhesymol defnyddwyr yn dal i gael eu diwallu i raddau helaeth, gyda'r amlder danfon ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth yn cael ei newid i bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Bydd Dosbarth Cyntaf yn parhau i fod ar gael ar gyfer achlysuron pan fydd angen i ddefnyddwyr anfon eitemau brys. Nodwn y gallai ein penderfyniad arwain at anghenion rhesymol cyfran fach iawn o ddefnyddwyr ddim yn cael eu diwallu neu gallai achosi anawsterau iddynt. Rydym yn cydnabod yr effaith fwy y gallai'r newidiadau ei chael ar y nifer fach hwn o ddefnyddwyr ond rydym o'r farn mai dim ond mewn set gyfyngedig ac anaml o amgylchiadau y gallai'r sefyllfa hon ddigwydd. I'r graddau na fydd anghenion unrhyw ddefnyddwyr yn cael eu diwallu, rydym o'r farn bod yr effaith arnynt yn gymesur â'r manteision cyffredinol sy'n deillio o'n penderfyniad ac yn cael ei chyfiawnhau ganddynt. Rydym yn disgwyl y bydd defnyddwyr yn gallu addasu i'r newidiadau arfaethedig yn gyffredinol, gydag effaith gyfyngedig iawn, os o gwbl, arnynt. Rydym hefyd yn disgwyl y bydd effeithiau niweidiol peidio â diwygio'r USO - gan gynnwys y risg y byddai hyn yn ei hachosi i gynaliadwyedd y gwasanaeth cyffredinol - yn drech nag unrhyw effeithiau niweidiol posibl yn sgil diwygio.

b) Cefnogi cynaliadwyedd ariannol ac effeithlonrwydd y gwasanaeth cyffredinol. Rydym o'r farn bod angen diwygio ar frys i fynd i'r afael â'r risgiau difrifol i gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol, ac felly darparu'r gwasanaeth cyffredinol ei hun. Mae cymryd camau i gefnogi'r gwaith parhaus o ddarparu'r rhwydwaith i gyfleu pob post (eitemau USO a dim-USO) o fudd i bob defnyddiwr. Rydym yn amcangyfrif y bydd ein pecyn diwygio cyffredinol, gan gynnwys y model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos ar gyfer llythyrau USO Ail Ddosbarth fel y disgrifir yn yr adran hon, yn caniatáu i'r Post Brenhinol wireddu arbedion cost net posibl gwerth £250m i £425m yn 2025/26. Ein casgliad yw y dylai diwygio alluogi'r Post Brenhinol i leihau ei gostau danfon, o'r herwydd, mae'n gyfraniad pwysig at gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol. Fodd bynnag, ein barn ni yw, hyd yn oed os bydd y Post Brenhinol yn gwireddu'r arbedion costau drwy roi'r newidiadau arfaethedig ar waith yn llwyddiannus, ni fydd hyn yn ddigonol ar ei ben ei hun i sicrhau cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol. Yn ogystal â'n diwygiadau, rhaid i'r Post Brenhinol hefyd sicrhau twf sylweddol mewn parseli, rheoli'r gostyngiad yn nifer y llythyrau'n effeithiol, a gwella ei effeithlonrwydd drwy addasu ei rwydwaith i newidiadau o ran swmp a llwyth gwaith (gweler adran 8).

c) Cymell y Post Brenhinol i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'w gwsmeriaid. Gall gwasanaeth cyffredinol sy'n fwy na'r angen arwain at berfformiad gwael os bydd darparwr y gwasanaeth cyffredinol yn ei chael hi'n anodd fforddio gwneud buddsoddiadau i wella ansawdd y gwasanaeth. Rydym hefyd yn deall bod y gostyngiad yn nifer y llythyrau a'r gostyngiad mewn cyfraddau galwadau wedi golygu bod effaith amrywiadau annisgwyl mewn niferoedd yn fwy sylweddol ac yn anoddach eu rheoli,

gan gyfrannu at yr anhawster cynyddol o ran sicrhau ansawdd uchel yn gyson. Rydym o'r farn y gallai newidiadau i'r model gweithredol i ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos helpu'r Post Brenhinol i gyrraedd lefelau ansawdd uwch gan y byddai'n cynyddu'r gyfradd galwadau gan ei gwneud yn haws amsugno anwadalrwydd y niferoedd. Rydym hefyd o'r farn y bydd yr arbedion cost posibl o ganlyniad i'r model danfon newydd ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth a phost swmp heb flaenoriaeth yn cefnogi buddsoddiad mewn ansawdd gwasanaeth gwell ac y dylai arwain at gynnydd is mewn prisiau i ddefnyddwyr yn y tymor hir. Yn gyffredinol, dylai roi'r Post Brenhinol mewn sefyllfa well i wella ei berfformiad ansawdd gwasanaeth a darparu gwasanaeth dibynadwy o ansawdd uchel yn gyson yn y dyfodol. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod y byddai'r model danfon arfaethedig ei gwneud hi'n anoddach i'r Post Brenhinol gyrraedd y targed ansawdd gwasanaeth presennol ar gyfer post Ail Ddosbarth. Rydym yn nodi ein cynigion i newid targedau perthnasol fel rhan o'r gwaith cyffredinol o ddiwygio'r USO yn Adran 6. Fel rhan o'n gwaith mewnol, byddwn yn canolbwyntio ar fonitro camau gweithredu'r Post Brenhinol i wella ansawdd ei wasanaeth wrth iddo ddechrau gweithredu newidiadau i'r USO (gweler Adran 9).

d) Hybu arloesedd a chystadleuaeth yn y diwydiant post. Dylai diwygio'r USO, sy'n cefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol, alluogi'r Post Brenhinol i barhau i ddarparu gwasanaeth sy'n cefnogi'r diwydiant llythyrau cyfan, gan gefnogi cystadleuaeth ac arloesedd. Bydd hyn yn ei dro yn cefnogi busnesau amrywiol a ddylai hyrwyddo twf economaidd ac o fudd i'r gymdeithas ehangach, ac felly bydd yn dda i'r economi yn gyffredinol. Rydym hefyd o'r farn y bydd diwygio'r USO, drwy roi mwy o hyblygrwydd i'r Post Brenhinol ynghylch sut mae defnyddio ei adnoddau, yn galluogi'r Post Brenhinol i wneud datblygiadau arloesol mwy gweithredol a masnachol a fydd o fudd i ddefnyddwyr. Bydd hefyd yn galluogi'r Post Brenhinol i ddod yn fwy cynaliadwy yn ariannol a allai arwain at fwy o gapasiti iddo arloesi.

5.196 Gan ystyried y dystiolaeth sydd ar gael, gan gynnwys gwybodaeth a gyflwynwyd yn ymatebion rhanddeiliaid i'n Hymgynghoriad, rydym yn dod i'r casgliad y byddai manteision y newidiadau i amlder danfon llythyrau Ail Ddosbarth, a chostau a risgiau posibl diffyg gweithredu a allai olygu bod y gwasanaeth cyffredinol yn dod yn anghynaladwy ac yn methu, yn drech nag unrhyw gostau neu effeithiau niweidiol sy'n deillio o'r newidiadau. Rydym hefyd o'r farn nad yw effaith y newidiadau arfaethedig yn fwy na'r hyn sydd ei angen i gyflawni ein hamcanion polisi. Felly, rydym o'r farn ei fod yn gymesur a bod cyfiawnhad dros ein penderfyniad i ganiatáu i'r Post Brenhinol ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, a dileu'r gofynion rheoleiddio sydd arno i gasglu, prosesu a danfon llythyrau Ail Ddosbarth ar ddydd Sadwrn.

5.197 Rydym yn nodi isod y newidiadau a fydd yn cael eu gwneud i'n rheoliadau (y Gorchymyn ac Amod 1 DUSP) er mwyn newid amlder danfon llythyrau Ail Ddosbarth o chwe diwrnod yr wythnos i ganiatáu i'r Post Brenhinol ddanfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos.

5.198 Cyfeiriodd rhai rhanddeiliaid at pryd y dylai'r newidiadau ddod i rym. Mae eu sylwadau'n cael eu crynhoi a'u hasesu yn Adran 9.

Newidiadau i'r Gorchymyn Gwasanaeth Post Cyffredinol

5.199 Yn ein Hymgynghoriad, roeddem yn cynnig diwygio'r Gorchymyn Gwasanaeth Post Cyffredinol er mwyn gweithredu'r newidiadau i'r USO ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth fel nad oes angen eu casglu, eu prosesu na'u danfon ar ddydd Sadwrn ac y gellir eu danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos.

5.200 Roeddem hefyd yn cynnig gwneud rhai mân ddiwygiadau, gan gynnwys ychwanegu diffiniadau ar gyfer "llythyr" a "phecyn post", a dileu cyfeiriadau at y Deyrnas Unedig fel gwlad yn yr UE.

5.201 Fe wnaethom gynnal asesiad dros dro o'r graddau y mae'r farchnad llythyrau yn diwallu anghenion defnyddwyr post cyn cynnig addasu'r Gorchymyn, gyda'r bwriad o gwblhau'r asesiad hwnnw o dan adran 30(3) y Ddeddf cyn penderfynu a ddylid addasu'r Gorchymyn. Roeddem hefyd o'r farn y byddai'r addasiadau arfaethedig yn bodloni adran 30(2) y Ddeddf gan y byddai Dosbarth Cyntaf yn parhau i fodloni'r gofyniad sylfaenol o ddanfon a chasglu llythyrau o leiaf unwaith bob dydd Llun i ddydd Sadwrn. Ein barn dros dro oedd y byddai'r newidiadau arfaethedig i lythyrau Ail Ddosbarth yn gyfiawn, yn gymesur ac yn cyd-fynd â'n dyletswyddau cyffredinol.

Ymatebion rhanddeiliaid

5.202 Cytunodd y Post Brenhinol â'r diwygiadau arfaethedig i'r Gorchymyn a dywedodd y byddai'n ei alluogi i weithredu'r model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth.

5.203 Roedd rhai rhanddeiliaid yn cwestiynu a oes gennym y pwerau cyfreithiol i weithredu ein cynigion ar gyfer danfon llythyrau Ail Ddosbarth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos ac roedd rhai o'r farn y dylai newidiadau i'r gwasanaeth cyffredinol fod yn fater i'r Llywodraeth a'r Senedd. Dywedodd CWU a [✂] fod ein diwygiadau arfaethedig y tu allan i'n pwerau cyfreithiol ac y byddent yn gofyn am newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol yn lle hynny.[347] Yn benodol, dywedodd CWU fod ein cynigion ar gyfer danfon llythyrau Ail Ddosbarth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos a'r ffaith nad oes cap pris ar lythyrau Dosbarth Cyntaf yn anghydnaws ag adran 31 y Ddeddf sy'n nodi'r gofyniad i ddanfon llythyrau bob dydd Llun i ddydd Sadwrn ac yn nodi bod yn rhaid i'r gwasanaeth fod yn fforddiadwy.[348]

5.204 Dywedodd [✂] fod yr hyn a hepgorwyd o'n hymchwil anghenion defnyddwyr yn 2024 yn golygu ein bod wedi methu ag asesu anghenion rhesymol defnyddwyr post yn briodol ac felly roeddem yn torri adran 30(3) y Ddeddf.[349] Yn yr un modd, dywedodd Cyngor ar Bopeth na ellir defnyddio ein casgliadau ar anghenion rhesymol defnyddwyr post fel sail ddigonol ar gyfer newid. Ychwanegodd y dylai ein cynigion fod yn destun craffu seneddol gan ei fod o'r farn y byddai'r newidiadau'n cael effaith fawr ar y gwasanaeth cyffredinol a amlinellir yn y Ddeddf a hefyd ar y biliynau o lythyrau a anfonir gan ysbytai, llysoedd ac adrannau'r

[347] [✂]
[348] Ymateb Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu (CWU) i Ymgynghoriad 2025, t.6.
[349] Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, tt.10-11, t.40, t.69; [✂].

llywodraeth bob blwyddyn. Roedd yn ein hannog i gynghori'r Senedd ar ffordd ymlaen yn hytrach na bwrw ymlaen â newidiadau rheoleiddio.

Ein hasesiad

5.205 Mae'r fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol ar gyfer rheoleiddio'r post wedi'i grynhoi yn Adran 2 ac wedi'i nodi'n fanylach yn Atodiad A1. Mae Paragraff 2.12 a Thabl 2.1 hefyd yn nodi sut y gellir diwygio manyleb yr USO. Yn benodol, maen nhw'n egluro pwrpas amodau'r Gorchymyn a'r DUSP a sut gall Ofcom eu diwygio.

5.206 Mae Ofcom yn nodi cwmpas yr USO yn y Gorchymyn, sy'n gorfod cynnwys o leiaf y gofynion sylfaenol a nodir yn adran 31 o dan adran 30(2) y Ddeddf. Mae adran 31 yn nodi bod o leiaf un llythyr yn cael ei ddanfon i bob cyfeiriad yn y DU bob dydd o ddydd Llun i ddydd Sadwrn ac mae'n mynnu bod y gwasanaeth cyffredinol yn fforddiadwy. Wrth wneud y Gorchymyn yn 2012, aeth Ofcom ymhellach na'r gofynion sylfaenol drwy bennu dau ddosbarth o ddanfon llythyrau - blaenoriaeth (h.y. Dosbarth Cyntaf) a safonol (h.y. Ail Ddosbarth). O dan ein cynigion, bydd llythyrau Dosbarth Cyntaf yn dal i gael eu casglu a'u danfon chwe diwrnod yr wythnos (dydd Llun i ddydd Sadwrn), ac yn Adran 3, Atodiad A3 ac yn yr adran hon rydym wedi egluro ein casgliadau ar fforddiadwyedd. Rydym o'r farn bod modd gweithredu ein cynigion ar gyfer danfon llythyrau Ail Ddosbarth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos drwy newidiadau i'r Gorchymyn ac Amodau DUSP, a'u bod yn gydnaws ag adrannau 30(2) a 31 y Ddeddf.

5.207 Mewn ymateb i sylwadau rhanddeiliaid ein bod wedi methu asesu anghenion defnyddwyr post yn briodol, mae ein crynodeb a'n hystyriaeth o bryderon rhanddeiliaid ynghylch ein hymchwil a'n hasesiad o anghenion defnyddwyr 2024 yn Adran 3 ac Atodiad A3. Rydym wedi dod i'r casgliad bod ein sylfaen dystiolaeth yn ddigonol i gynnal asesiad o anghenion rhesymol defnyddwyr, a'n bod felly wedi cydymffurfio â'n dyletswyddau o dan adran 30 y Ddeddf.

5.208 Mewn ymateb i sylwadau rhanddeiliaid am graffu seneddol ar ddiwygio'r USO, mae'r Ddeddf wedi'i llunio mewn ffordd sy'n cadw pwerau penodol i'r Senedd ac sy'n rhoi pwerau penodol i eraill i Ofcom benderfynu ar y fframwaith rheoleiddio ar gyfer post. Rydym yn arfer pwerau a roddwyd i ni gan y Senedd yn y Ddeddf i addasu cwmpas yr USO drwy wneud newidiadau i'r Gorchymyn. Rydym wedi ymgynghori'n gyhoeddus ar arfer y pwerau hynny drwy ein Hymgynghoriad y gallai unrhyw un, gan gynnwys y llywodraeth ac ASau, ymateb iddynt.

Ein penderfyniad

5.209 Ar ôl i ni ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'n hasesiadau uchod, byddwn yn bwrw ymlaen i addasu'r Gorchymyn fel y cynigir i ganiatáu i'r Post Brenhinol newid amlder danfon llythyrau Ail Ddosbarth o chwe diwrnod yr wythnos i bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Mae'r addasiadau i'r Gorchymyn wedi'u nodi isod a'u cadarnhau yn Atodiad A6, sy'n cynnwys asesiad effaith rheoleiddiol a fersiwn dangosol o'r Gorchymyn ar gyfer cofrestru:

a) Cynnwys diffiniadau newydd ar gyfer "llythyrau blaenoriaeth a llythyrau eraill", sy'n golygu llythyrau Dosbarth Cyntaf a llythyrau USO eraill (fel llythyrau cofrestredig ac wedi'u hyswirio a rhyngwladol), a "llythyrau safonol", sy'n golygu llythyrau Ail Ddosbarth, gan gynnwys llythyrau safonol a llythyrau mawr;

b) Addasu'r diffiniad o "ddiwrnod gwaith" fel ei fod yn golygu dydd Llun i ddydd Sadwrn (ac eithrio gwyliau cyhoeddus) ar gyfer llythyrau Dosbarth Cyntaf a llythyrau eraill, a rhwng dydd Llun a dydd Gwener (ac eithrio gwyliau cyhoeddus) ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth. Gan fod amseroedd llwybro danfon yn cael eu cyfrifo ar sail "diwrnodau gwaith", mae'r newid hwn yn golygu y bydd dydd Sadwrn yn dal i gael ei gyfrif ar gyfer amseroedd llwybro llythyrau Dosbarth Cyntaf, ond nid ar gyfer amseroedd llwybro Ail Ddosbarth; ac

c) Addasu'r rhwymedigaethau danfon a chasglu fel bod:

   i) Llythyrau Dosbarth Cyntaf a llythyrau USO eraill yn dal i gael eu casglu a'u danfon chwe diwrnod yr wythnos o ddydd Llun i ddydd Sadwrn; a

   ii) Bydd llythyrau Ail Ddosbarth yn cael eu casglu bob dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener,[350] a'u danfon ar unrhyw ddiwrnod rhwng dydd Llun a dydd Gwener. Bydd y newid hwn i'r gwasanaeth danfon Ail Ddosbarth yn caniatáu i lythyrau Ail Ddosbarth gael eu danfon ar unrhyw ddiwrnod o'r wythnos, ond mae'r gofyniad bod llythyrau Ail Ddosbarth yn cael eu danfon gydag amser llwybro D+3 yn golygu y bydd angen danfon llythyrau Ail Ddosbarth o leiaf ddwywaith yr wythnos. Yn ymarferol, bydd y newidiadau hyn yn caniatáu model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos.

Profion cyfreithiol

5.210 Rydym o'r farn ein bod wedi bodloni gofynion y Ddeddf i addasu'r Gorchymyn gan ein bod wedi cynnal asesiad o'r graddau y mae'r farchnad ar gyfer darparu i ddefnyddwyr post yn y DU yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr post (gweler Adran 3 ac Atodiad A3).[351]

5.211 Bydd ein diwygiadau i'r Gorchymyn yn bodloni adran 30(2) o'r Ddeddf, sy'n mynnu bod y gwasanaeth cyffredinol yn cynnwys pob un o'r gwasanaethau a nodir yn adran 31 o leiaf. Bydd Dosbarth Cyntaf yn dal i fodloni gofynion sylfaenol danfon a chasglu llythyrau o leiaf unwaith bob dydd Llun i ddydd Sadwrn am brisiau fforddiadwy. Ni fydd unrhyw newidiadau i'r rhwymedigaethau danfon a chasglu ar gyfer parseli.

5.212 Fel y nodwyd yn ein hasesiad o'r effaith uchod, rydym wedi ystyried y dystiolaeth sydd ar gael wrth ystyried yr effeithiau ar ddefnyddwyr ac ar y Post Brenhinol. Ein casgliad yw bod y newidiadau i ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth yn gyfiawn ac yn gymesur. Rydym hefyd o'r farn bod y newidiadau'n gyson ag adran 29 y Ddeddf gan ein bod o'r farn y byddant yn sicrhau bod gwasanaeth post cyffredinol yn cael ei ddarparu drwy gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol, a'n dyletswyddau cyffredinol a nodir yn adran 3 Deddf Cyfathrebiadau 2003 gan y byddant yn hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr. Rydym hefyd wedi ystyried buddiannau gwahanol pobl yng ngwahanol rannau'r DU, a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol, ac anghenion pobl anabl, pobl hŷn, a'r rheini sydd ar incwm isel.

[350] Yn ymarferol, mae'r Post Brenhinol yn bwriadu i gasgliadau weithredu'r un mor aml chwe diwrnod yr wythnos ag ar hyn o bryd, h.y. byddai llythyrau Ail Ddosbarth yn dal i gael eu casglu o bwyntiau mynediad ddydd Sadwrn at ddibenion effeithlonrwydd gan y byddai'n dal yn rhaid i'r Post Brenhinol gasglu a phrosesu eitemau Dosbarth Cyntaf ar ddydd Sadwrn. Fodd bynnag, y dyddiad casglu tybiedig ar gyfer yr eitemau Ail Ddosbarth hynny fyddai dydd Llun at ddibenion cyfrifo amser llwybro.

[351] Adran 30(3) o'r Ddeddf.

Newidiadau i Amod 1 y DUSP

5.213 Yn ein Hymgynghoriad, roeddem yn cynnig diwygio Amod 1 y DUSP er mwyn alinio â'r newidiadau i'r Gorchymyn Gwasanaeth Post Cyffredinol er mwyn gweithredu'r newidiadau i'r USO ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth fel nad oes angen eu casglu, eu prosesu na'u danfon ar ddydd Sadwrn ac y gellir eu danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos.

5.214 Roeddem hefyd yn cynnig gwneud rhai mân ddiwygiadau, fel dileu cyfeiriadau at y Deyrnas Unedig fel gwlad yn yr UE.

5.215 Roeddem o'r farn bod ein haddasiadau arfaethedig yn gyson ag adran 36 y Ddeddf, gan ein bod o'r farn eu bod yn angenrheidiol i sicrhau bod y gwasanaeth llythyrau Ail Ddosbarth (safonol) a nodir yn y gorchymyn yn cael ei ddarparu. Roeddem hefyd o'r farn y byddent yn bodloni'r profion cyfreithiol ym mharagraff 1 o Atodlen 6 i'r Ddeddf, gan fod modd eu cyfiawnhau'n wrthrychol, nid oeddent yn gwahaniaethu'n ormodol, yn gymesur mewn perthynas â'r hyn y bwriedir iddynt ei gyflawni ac yn dryloyw o ran yr hyn y bwriedir iddynt ei gyflawni.

Ymatebion rhanddeiliaid a'n hasesiad

5.216 Ni chawsom unrhyw sylwadau penodol gan randdeiliaid am y newidiadau drafftio i Amod 1 y DUSP. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod y sylwadau gan CWU a [✂] sy'n cwestiynu ein pwerau i wneud newidiadau i'r USO fel y crynhoir ym mharagraff 5.203 yn berthnasol yma.

5.217 Mae'r fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol yr ydym yn gweithredu ynddo wedi'i grynhoi yn Adran 2 ac wedi'i nodi'n fanylach yn Atodiad A1. Mae Paragraff 2.12 a Thabl 2.1 hefyd yn nodi sut y gellir diwygio manyleb yr USO. Mae hyn yn cynnwys pwrpas amodau'r DUSP a sut gall Ofcom eu diwygio.

5.218 Fel sy'n cael ei egluro ym mharagraff 5.206 uchod, rydym yn dal o'r farn, fel y nodir yn ein Hymgynghoriad, na fyddai ein newidiadau arfaethedig yn gofyn am newid i'r gwasanaethau USO sylfaenol sy'n ofynnol o dan y Ddeddf ac y gellir eu rhoi ar waith drwy newidiadau i'r rheoliadau rydym yn eu gosod. Gellir gweithredu amlder danfon llythyrau Ail Ddosbarth drwy wneud newidiadau i amodau'r Gorchymyn a'r DUSP, ac mae gennym y pŵer i wneud hynny.

5.219 Felly, byddwn yn bwrw ymlaen â'r newidiadau i Amod 1 y DUSP fel y cynigir ac fel y nodir isod:

b) Cynnwys diffiniadau newydd ar gyfer "llythyrau blaenoriaeth a llythyrau eraill", sy'n golygu llythyrau Dosbarth Cyntaf a llythyrau USO eraill (fel llythyrau cofrestredig ac wedi'u hyswirio a rhyngwladol), a "llythyrau safonol", sy'n golygu llythyrau Ail Ddosbarth;
c) Addasu'r diffiniad o "ddiwrnod gwaith" fel ei fod yn golygu dydd Llun i ddydd Sadwrn (ac eithrio gwyliau cyhoeddus) ar gyfer llythyrau Dosbarth Cyntaf a llythyrau eraill, a rhwng dydd Llun a dydd Gwener (ac eithrio gwyliau cyhoeddus) ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth; ac
d) Addasu'r rhwymedigaethau danfon a chasglu fel bod llythyrau Dosbarth Cyntaf a llythyrau USO eraill yn dal i gael eu casglu a'u danfon chwe diwrnod yr wythnos o ddydd Llun i ddydd Sadwrn; a bydd llythyrau Ail Ddosbarth yn cael eu casglu bob dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener, a'u danfon ar unrhyw ddiwrnod rhwng dydd Llun a dydd Gwener.

5.220 Mae Atodiad A7 yn cynnwys hysbysiad statudol o'n diwygiadau i Amod 1 y DUSP.

Profion cyfreithiol

5.221 Rydym o'r farn bod y profion cyfreithiol yn y Ddeddf yn cael eu bodloni. Mae'r addasiadau i Amod 1 y DUSP yn angenrheidiol i sicrhau bod gwasanaeth a nodir yn y Gorchymyn yn cael ei ddarparu – h.y. y gwasanaeth llythyrau Ail Ddosbarth (safonol) – yn unol â'r safonau a nodir yno.[352]

5.222 Rydym hefyd yn ystyried ein haddasiadau i fodloni'r profion cyfreithiol ym mharagraff (1) Atodlen 6 i'r Ddeddf, gan eu bod, o ystyried y dadansoddiad uchod:

- **Yn gyfiawn yn wrthrychol:** Am y rhesymau a nodir yn yr adran hon, bydd y newidiadau i amlder danfon llythyrau Ail Ddosbarth yn dal i ddiwallu anghenion rhesymol defnyddwyr post i raddau helaeth, ac yn helpu i gefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol. Rydym wedi seilio ein dadansoddiad ar dystiolaeth, gan gynnwys anghenion defnyddwyr, a gwybodaeth a ddarparwyd gan randdeiliaid, gan gynnwys o ymatebion i'r ymgynghoriad.
- **Ddim yn gwahaniaethu'n ormodol:** Bydd y newidiadau i amlder danfon llythyrau Ail Ddosbarth yn berthnasol i'r Post Brenhinol fel y darparwr gwasanaeth cyffredinol dynodedig a byddant yn effeithio ar bob anfonwr a derbynnydd llythyrau Ail Ddosbarth a phob pwynt danfon yn y DU. Er ein bod yn cydnabod y gallai'r newidiadau effeithio mwy ar rai grwpiau o ddefnyddwyr, gan gynnwys rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, rydym o'r farn y bydd y gwasanaeth cyffredinol yn parhau i ddiwallu anghenion rhesymol defnyddwyr i raddau sylweddol, a bod unrhyw effaith ychwanegol a deimlir gan rai grwpiau yn gymesur gan nad yw'n fwy na'r angen a bod y manteision cyffredinol i ddefnyddwyr post yn drech na hynny.
- **Yn gymesur mewn perthynas â'r hyn y bwriedir iddynt ei gyflawni:** Rydym o'r farn bod y newidiadau'n gymesur gan y bydd eu manteision yn drech nag unrhyw effeithiau niweidiol sy'n deillio o'n penderfyniadau. Gallai ein penderfyniadau alluogi'r Post Brenhinol i wneud arbedion costau sylweddol, a ddylai yn ei dro gefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol ac arwain at fanteision i ddefnyddwyr. Mae'r rhain yn cynnwys cefnogi'r gwaith parhaus o ddarparu gwasanaeth cyffredinol i bob defnyddiwr. Yn gyffredinol, rydym o'r farn nad yw effaith ein penderfyniadau yn fwy na'r hyn sy'n angenrheidiol i gyflawni ein hamcanion polisi.
- **Yn dryloyw mewn perthynas â'r hyn y bwriedir iddynt ei gyflawni:** Mae'r adran hon yn egluro'r rhesymau dros y newidiadau i amlder danfon llythyrau Ail Ddosbarth ac effeithiau'r newidiadau ar ddefnyddwyr post. Mae'r addasiadau i'r Gorchymyn ac Amod 1 y DUSP yn cael eu hegluro uchod ym mharagraffau 5.209 a 5.219 ac maent wedi'u nodi'n glir yn Atodiadau A6 ac A7 i'r Datganiad hwn.

5.223 Rydym yn credu bod ein penderfyniad yn cyd-fynd â'n dyletswyddau yn adran 29 o'r Ddeddf, oherwydd bydd y newidiadau'n cyfrannu at barhau i ddarparu gwasanaeth cyffredinol drwy gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol a'i effeithlonrwydd.

5.224 Rydym hefyd o'r farn bod ein penderfyniad yn cyd-fynd â'n dyletswyddau cyffredinol a nodir yn adran 3 Deddf Cyfathrebiadau 2003, gan y bydd y newidiadau'n hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr mewn perthynas â phost drwy helpu i gefnogi'r gwaith parhaus o ddarparu gwasanaeth cyffredinol, yn ogystal ag mewn perthynas â phris. Fel yr esboniwyd uchod, rydym hefyd wedi ystyried buddiannau gwahanol pobl yng ngwahanol rannau'r DU,

[352] Adran 36(3).

a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol. Yr ydym hefyd wedi ystyried anghenion pobl anabl, pobl oedrannus, a'r rheini sydd ar incwm isel.

6. Newidiadau i dargedau ansawdd gwasanaeth yr USO

Pwrpas yr adran hon

Yn yr adran hon rydym yn nodi ein penderfyniadau ynghylch addasu'r targedau ansawdd gwasanaeth y mae'n rhaid i'r Post Brenhinol eu cyrraedd gyda gwasanaethau'r USO.

Ein penderfyniadau – yn gryno

Cafodd y targedau presennol eu gosod bron i ddau ddegawd yn ôl, ac mae'r farchnad bost wedi newid yn fawr ers hynny ac mae'r ffordd mae pobl yn ei ddefnyddio wedi esblygu. Gan ein bod bellach yn diwygio manyleb yr USO ar gyfer y dyfodol, mae'n briodol ein bod yn asesu a yw'r targedau'n dal yn briodol. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried goblygiadau newidiadau gweithredol i ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth i ansawdd gwasanaeth.

Rydym wedi penderfynu gwneud tri newid i'r targedau ar gyfer post Dosbarth Cyntaf:

- targed cenedlaethol D+1 diwygiedig o 90%, yn unol â marchnad bost sy'n esblygu;
- targed ardal cod post D+1 wedi'i ailosod o 87%, i gefnogi gwasanaeth cyffredinol a chyfartal;
- a tharged 'post hwyr' D+3 newydd o 99%, i gefnogi danfon post hwyr yn ddibynadwy.

Rydym wedi penderfynu gwneud dau newid i'r targedau ar gyfer post Ail Ddosbarth:

- targed D+3 cenedlaethol wedi'i addasu o 95%, sy'n adlewyrchu'r newid i ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos;
- a tharged 'post hwyr' D+5 newydd o 99%, i gefnogi danfon post hwyr yn ddibynadwy.

Ochr yn ochr â'r newidiadau hyn, byddwn yn parhau i ddefnyddio ein trefn monitro a gorfodi i sicrhau bod y Post Brenhinol yn cymryd y camau angenrheidiol i ddychwelyd ei ansawdd i'r lefelau y mae defnyddwyr yn eu disgwyl.

Cyflwyniad

Targedau ansawdd gwasanaeth presennol yr USO

6.1 Mae Ofcom yn mynnu bod y Post Brenhinol yn cyrraedd set o dargedau perfformiad ansawdd gwasanaeth sy'n ymwneud â darparu'r gwasanaethau cyffredinol. Mae'r targedau'n adlewyrchu nodweddion sylfaenol yr USO y mae unigolion a busnesau ledled y DU yn eu gwerthfawrogi fel prydlondeb, dibynadwyedd, cyffredinolrwydd a hygyrchedd. Er bod gan y Post Brenhinol gymhellion masnachol i ddarparu gwasanaethau ar y lefel ansawdd y mae ei gwsmeriaid yn ei disgwyl, mae ein targedau'n cydnabod bod angen set ychwanegol o gymhellion rheoleiddio i sicrhau lefel sylfaenol o ansawdd mewn perthynas â'r gwasanaeth cyffredinol.

6.2 Mae’r set hon o dargedau yn rhan bwysig o gymell y Post Brenhinol i ddarparu ei wasanaethau yn unol â manyleb yr USO, ac felly o ran sicrhau manteision i ddefnyddwyr o USO sy’n diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr. Mae’r targedau hefyd yn helpu i roi tryloywder i ddefnyddwyr post am berfformiad y Post Brenhinol, gan gefnogi unigolion a busnesau i ddeall natur y gwasanaethau maent yn talu amdanynt.

6.3 Mae'r Post Brenhinol wedi bod yn destun rhwymedigaethau perfformiad ers 2001, gyda'r set bresennol o dargedau mewn grym ers 2005/6. Maent yn ymdrin â pherfformiad yn erbyn cyflymder danfon disgwyliedig, gweithgareddau casglu, cwblhau llwybrau danfon, yn ogystal â pherfformiad ar draws ardaloedd cod post y DU. Mae’r targedau’n berthnasol i lythyrau ac i barseli. Mae Ofcom wedi goruchwylio’r targedau, fel y’u diffinnir yn amod 1 y DUSP, ers i ni ysgwyddo’r cyfrifoldeb dros reoleiddio’r post yn 2011.[353]

6.4 Mae targedau perfformiad cenedlaethol ar gyfer Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Post Brenhinol ddanfon o leiaf cyfran o eitemau (93% a 98.5% yn y drefn honno), yn unol ag amserlenni gofynnol y gwasanaethau hyn (D+1 A D+3 yn y drefn honno). Mae’r targedau hyn yn ystyrlon ac yn gyraeddadwy oherwydd eu bod o dan 100%, gan gydnabod bod rhai digwyddiadau'n siŵr o effeithio ar berfformiad danfon, ac y gallent fod y tu hwnt i reolaeth resymol y Post Brenhinol.

6.5 Mae’n rhaid i’r Post Brenhinol fonitro ei berfformiad yn genedlaethol yn erbyn y targedau hyn gan ddefnyddio methodolegau profi briodol ac adrodd ar ei berfformiad i Ofcom, i gyrff eiriolaeth defnyddwyr, ac i’r cyhoedd. Rhaid iddo gyrraedd y targedau drwy gydol y 12 mis sy’n dod i ben ar 31 Mawrth bob blwyddyn.[354] Os nad yw perfformiad y Post Brenhinol yn cyrraedd y lefelau targed, gallwn agor ymchwiliad ac ystyried a ddylid cymryd camau gorfodi.

6.6 Mewn cyd-destun rhyngwladol, mae'r DU wedi cynnal targedau mwy heriol na gwledydd Ewropeaidd tebyg fel Ffrainc, yr Almaen neu'r Eidal. Mae hyn yn cynnwys lefelau’r prif dargedau ar gyfer danfon Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth. Er bod gan rai gwledydd dargedau uwch ar gyfer gwasanaethau cyffredinol, mae poblogaeth neu ddaearyddiaeth y gwledydd hyn yn tueddu i fod yn llai, neu mae eu patrwm o ran defnyddio’r post yn wahanol iawn. Mae gan y DU hefyd rwymedigaethau mwy heriol ar gyfer perfformiad lleol ledled y DU, gan nad oes gan y rhan fwyaf o wledydd unrhyw beth sy’n cyfateb i’r targed ardal cod post (PCA) sy'n gofyn am lefel sylfaenol o berfformiad danfon Dosbarth Cyntaf ym mhob ardal cod post.

Ein Hymgynghoriad Ionawr 2025

6.7 Rydym wedi bod yn glir yn ystod y blynyddoedd diwethaf bod safon isel y gwasanaeth y mae unigolion a busnesau wedi'i gael gan y Post Brenhinol yn annerbyniol. Rydym wedi cymryd camau gorfodi cyson ac ailadroddus i ddal y Post Brenhinol i gyfrif am ei rwymedigaethau, gan roi cosb ariannol o £10.5m yn fwyaf diweddar am danberfformiad yn 2023/24, ac ers ein Hymgynghoriad rydym wedi agor ymchwiliad mewn perthynas â

[353] Tabl 1 o Amod 1 y DUSP sy’n nodi safonau domestig, targedau perfformiad a rhwymedigaethau monitro.
[354] Mae eithriad yn berthnasol ar gyfer cyfnod y Nadolig, ond mae DUSP 1.10.5 yn mynnu bod y Post Brenhinol yn rhoi gwybod i Ofcom
a'r cyrff eiriolaeth defnyddwyr a chyhoeddi, ddim hwyrach na dau fis o ddiwedd pob cyfnod y Nadolig ei berfformiad yn ystod cyfnod y Nadolig hwnnw.

2024/25. Ar yr un pryd, rydym wedi bod yn ymgysylltu â'r Post Brenhinol ar ei gamau gweithredu i wella ac adfer ar ôl y perfformiad gwael rydym wedi'i weld ers y pandemig. Rydym yn parhau i gredu bod ein dull o fonitro a gorfodi yn addas i'r diben ac ni fyddwn yn oedi cyn cymryd rhagor o gamau gorfodi i ddal y Post Brenhinol yn atebol i'w rwymedigaethau. Rydym yn dal yn glir bod angen gwasanaeth o ansawdd uchel ar ddefnyddwyr gan y Post Brenhinol, ac nid bwriad ystyried newidiadau i dargedau ansawdd gwasanaeth, fel y cynigiwyd yn ein Hymgynghoriad, yw delio â methiannau diweddar y Post Brenhinol yn hyn o beth.

6.8 Fodd bynnag, yng nghyd-destun diwygiadau i fanyleb yr USO, roeddem yn cydnabod yn ein Hymgynghoriad y gallai fod lle i addasu targedau a osodwyd ddau ddegawd yn ôl er mwyn iddynt adlewyrchu arferion a dewisiadau defnyddwyr yn well, natur y farchnad bost, a chynaliadwyedd ariannol buddsoddiadau mewn ansawdd. Yn y cyd-destun hwn, roeddem wedi ystyried sut gallai targedau wedi'u diweddaru greu cydbwysedd gwell i ddefnyddwyr, yn ogystal â chwarae rhan yn y gwaith o gefnogi gwasanaeth cyffredinol sy'n gynaliadwy'n ariannol, fel rhan o USO diwygiedig yn y dyfodol.

6.9 Roeddem wedi ystyried lle gallai newidiadau i dargedau presennol greu cydbwysedd mwy cymesur, yn ogystal â lle gellid cyflwyno targedau newydd i gefnogi ein hamcanion polisi yn well fel y nodir yn Adran 2. Fe wnaethom werthuso a allai diwygiadau gefnogi manteision i ddefnyddwyr drwy USO sy'n diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr, sy'n cefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol, ac yn cymell gwasanaeth cyffredinol dibynadwy o ansawdd uchel.

6.10 Yn gryno, roeddem yn cynnig y newidiadau canlynol i'r targedau ansawdd gwasanaeth mae'n rhaid i'r Post Brenhinol eu cyrraedd mewn perthynas â gwasanaethau USO blaenoriaeth a safonol:

- Y targed cenedlaethol Dosbarth Cyntaf i fynnu bod 90% o eitemau'n cael eu danfon y diwrnod canlynol (h.y. D+1), yn hytrach na'r targed presennol o 93%.
- Y targed ardal cod post Dosbarth Cyntaf i fynnu bod 87% o eitemau'n cael eu danfon y diwrnod canlynol (h.y. D+1) ym mhob un o'r 118 ardal cod post yn y DU, yn hytrach na'r targed presennol o 91.5%.
- Targed post hwyr Dosbarth Cyntaf newydd i fynnu bod 99.5% o eitemau'n cael eu danfon cyn pen tri diwrnod (h.y. D+3).
- Y targed Ail Ddosbarth i fynnu bod 95% o eitemau'n cael eu danfon cyn pen tri diwrnod (h.y. D+3), yn hytrach na'r targed presennol o 98.5%.
- Targed 'post hwyr' Ail Ddosbarth newydd i fynnu bod 99.5% o eitemau'n cael eu danfon cyn pen pum diwrnod (h.y. D+5).

Y targed cenedlaethol D+1 Dosbarth Cyntaf

Ein newid arfaethedig o 93% i 90%

6.11 Yn ein Hymgynghoriad, roeddem yn cydnabod bod defnyddwyr yn gwerthfawrogi lefelau uchel o ansawdd, ac yn elwa o gael eu post yn brydlon yn unol â'r hyn maen nhw wedi'i dalu. Fodd bynnag, roeddem hefyd yn cydnabod bod ansawdd uchel yn costio'n ddrud, ac yng nghyd-destun y cyfaddawd hwn, bod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn blaenoriaethu fforddiadwyedd a dibynadwyedd yn fwy na chyflymder eu post.

6.12 Fe wnaethom egluro yn ein Hymgynghoriad fod natur Dosbarth Cyntaf y diwrnod canlynol yn ei gwneud yn arbennig o ddrud i gyflawni ansawdd uchel, gan fod danfon eitemau y diwrnod canlynol yn llafur-ddwys ac yn caniatáu ychydig iawn o hyblygrwydd ar gyfer oedi neu darfu. Mae costau gwella perfformiad hefyd yn cynyddu'n sylweddol ar lefelau perfformiad uwch.

6.13 Roedd ein tystiolaeth felly'n dangos bod cost sylweddol ynghlwm wrth wasanaeth Dosbarth Cyntaf gyda lefelau ansawdd uchel iawn, sydd fwy na thebyg wedi dod yn fwy arwyddocaol i gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol dros y ddau ddegawd diwethaf. Fe wnaethom nodi ein dealltwriaeth, ar sail tystiolaeth gan y Post Brenhinol, bod costau cynnal targed o 93% yn sylweddol ac, o ystyried sefyllfa ariannol y busnes, y byddai'n debygol o orfod trosglwyddo'r costau hyn yn uniongyrchol i ddefnyddwyr drwy godi prisiau.

6.14 At ei gilydd, fe wnaethom asesu'r cyfaddawdu o ran cynnal y targed presennol o 93% a dod i'r casgliad nad oedd bellach yn creu cydbwysedd cymesur gan nad oedd cost a goblygiadau prisiau cysylltiedig y lefel darged hon yn adlewyrchu ein dealltwriaeth o flaenoriaethau defnyddwyr.

6.15 Felly, fe wnaethom werthuso lefelau targed eraill, sef 90%, 85%, ac 80%, o ran y cyfaddawdu cysylltiedig rhwng manteision i ddefnyddwyr, cymell gwasanaeth o ansawdd uchel, a chymorth ar gyfer gwasanaeth cyffredinol sy'n gynaliadwy'n ariannol. Ein casgliad dros dro oedd y gallai targed o 90% fod yn fwy priodol yng nghyd-destun ailgydbwyso ein fframwaith ansawdd gwasanaeth, gan leddfu baich cost sylweddol a chynnydd cysylltiedig posibl mewn prisiau, ar yr un pryd â chynnal lefel uchel o ansawdd i ddefnyddwyr yn y pen draw. Ar y sail honno, roeddem yn cynnig newid lefel darged Dosbarth Cyntaf o 93% i 90%.

Ymateb rhanddeiliaid i'n hymgynghoriad

6.16 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn anghytuno â'n cynnig am darged Dosbarth Cyntaf o 90%. Mynegodd llawer bryderon am berfformiad gwael diweddar y Post Brenhinol a theimlent fod addasu'r targed yn esgusodi tanberfformiad y Post Brenhinol, a allai arwain at erydu lefelau gwasanaeth ac ymddiriedaeth defnyddwyr yn y gwasanaeth yn y tymor hir.[355] Mynegodd ymatebwyr o'r diwydiannau cyhoeddi a chardiau cyfarch yn benodol bryderon ynghylch effaith targed is ar ymddiriedaeth defnyddwyr. Roeddent yn dweud y byddai targed Dosbarth Cyntaf is yn tanseilio hyder defnyddwyr mewn gwasanaeth sy'n sensitif i amser ac sy'n hanfodol i'w modelau busnes.[356]

6.17 Roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn bod y targed Dosbarth Cyntaf diwygiedig yn afresymol yng ngoleuni'r cynnydd diweddar mewn prisiau ar gyfer y gwasanaeth.[357] Dadleuodd rhai na fyddai targed perfformiad is yn cyd-fynd â dealltwriaeth defnyddwyr o Ddosbarth Cyntaf fel

[355] Er enghraifft [✂]; ymateb Cymdeithas Defnyddwyr Post i Ymgynghoriad 2025, t.5; Ymateb ymgyrch We Own It i Ymgynghoriad 2025.
[356] Er enghraifft: Ymateb Abacus Cards i Ymgynghoriad 2025, t.1; Ymateb Earlybird Designs i Ymgynghoriad 2025, t.3; [✂]; Ymateb y Greeting Card Association i Ymgynghoriad 2025, t.16.
[357] Er enghraifft: Ymateb UK Mail i Ymgynghoriad 2025, t.3; Ymateb y Greeting Card Association i Ymgynghoriad 2025, t.16; ymateb Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri i Ymgynghoriad 2025 t.4; ymateb House of Cards i Ymgynghoriad 2025, t.3; ymateb Democratiaid Rhyddfrydol Argyll a Bute i Ymgynghoriad 2025, t.2.

gwasanaeth 'blaenoriaeth' a bod perygl iddo greu'r canfyddiad nad yw Dosbarth Cyntaf yn opsiwn cyflym a dibynadwy mwyach.[358]

6.18 Ar ben hynny, roedd rhanddeiliaid yn rhannu pryderon am effaith targed Dosbarth Cyntaf is ar ddefnyddwyr yn yr Alban, Gogledd Iwerddon ac ardaloedd gwledig yn fwy cyffredinol. Er enghraifft, roedd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon yn cwestiynu a fyddai'r targed diwygiedig yn arwain at welliannau ystyrlon i ddefnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, a oedd yn aml yn profi amseroedd danfon arafach na defnyddwyr y tu allan i ardaloedd anoddach eu cyrraedd.[359]

6.19 Roedd UK Mail yn anghytuno â'n dadansoddiad bod niferoedd isel ac anwadalrwydd uchel yn cynyddu costau danfon eitemau Dosbarth Cyntaf. Yn hytrach, dywedodd y gallai danfon nwyddau ar faniau ganiatáu mwy o hyblygrwydd gweithredol ac amsugno newidiadau mewn niferoedd pe bai lefel briodol o ddylunio llwybrau deinamig yn cael ei defnyddio.[360]

6.20 Mynegodd rhai ymatebwyr gefnogaeth i'n cynnig i addasu'r targed Dosbarth Cyntaf i 90%. Yn gyffredinol, roedd y rhanddeiliaid hyn yn credu y byddai'r targed yn creu cydbwysedd ymarferol rhwng cynaliadwyedd ariannol, effeithlonrwydd gweithredol, anghenion defnyddwyr a fforddiadwyedd.[361]

6.21 Roedd nifer o ymatebion gan randdeiliaid yn adlewyrchu pryderon ynghylch effaith cadw'r targed Dosbarth Cyntaf presennol o 93% ar gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol. Er enghraifft, dywedodd y Bartneriaeth Bostio Strategol a'r Gymdeithas Data a Marchnata y gallai cadw'r targedau presennol gynyddu costau'n ddiangen.[362] Yn yr un modd, roedd eraill yn credu y gallai arbedion cost a wneir o ganlyniad i darged ansawdd Dosbarth Cyntaf is helpu i gadw costau i lawr i ddefnyddwyr.[363] Roedd ymatebwyr eraill hefyd o'r farn bod y cynnig yn adlewyrchu dewisiadau defnyddwyr heddiw[364] ac yn cydbwyso eu hanghenion â chostau danfon eitemau Dosbarth Cyntaf a'r effaith ganlyniadol ar brisiau.[365]

6.22 Ymysg y rheini a oedd yn cefnogi'r targed o 90%, cyfeiriodd rhai at y risg bosibl y byddai'n effeithio ar grwpiau defnyddwyr penodol. Er enghraifft, dywedodd Consumer Scotland er na ddylai addasu'r targed perfformiad cenedlaethol olygu bod ardaloedd gwledig ac anghysbell yn yr Alban yn cael canlyniadau gwaeth, roedd ei ymchwil gyda defnyddwyr gwledig ac incwm isel yn dangos yn gyffredinol bod cyfranogwyr yn fodlon derbyn newid yn y targed Dosbarth Cyntaf o 93% i 90%.[366]

6.23 Croesawodd y Post Brenhinol ein cynnig am darged Dosbarth Cyntaf o 90%, a oedd yn heriol ond yn gyraeddadwy yn ei farn ef. Dywedodd fod y targed yn rhoi digon o sicrwydd i ddefnyddwyr y bydd post yn cyrraedd yn brydlon, gan adlewyrchu economeg newidiol y

---

[358] Ymateb CFH Docmail Limited i Ymgynghoriad 2025, t.3; Ymateb y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol i Ymgynghoriad 2025, tt.2-3.
[359] Ymateb Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon i Ymgynghoriad 2025, tt.7-9.
[360] Ymateb UK Mail i Ymgynghoriad 2025, t.3. Rydym wedi rhoi sylw i'r cyflwyniad hwn yn Atodiad A5.
[361] Er enghraifft: ✂Ymateb y Bartneriaeth Bostio Strategol i Ymgynghoriad 2025, t.3; [✂]
[362] Ymateb Data and Marketing Association (DMA) i Ymgynghoriad 2025, t.3; Ymateb y Bartneriaeth Bostio Strategol i Ymgynghoriad 2025, t.3.
[363] Er enghraifft: [✂].
[364] Er enghraifft: Ymateb Cymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol i Ymgynghoriad 2025, t.3.
[365] Ymateb CCP-ACOD i Ymgynghoriad 2025, tt.7-8.
[366] Ymateb Consumer Scotland i Ymgynghoriad 2025, t.58.

rhwydwaith danfon ac o ganlyniad y costau sylweddol sy'n gysylltiedig â chyflawni targedau ansawdd gwasanaeth uchel iawn.[367]

6.24 Dim ond un ymatebydd oedd o blaid lefel darged is na'n cynnig. Awgrymodd Unite CMA y byddai targed trywydd o 80%, wedi'i godi'n raddol dros bum mlynedd, yn ateb realistig, cynaliadwy a llai costus.[368]

Ein hasesiad a'n penderfyniad

Nid yw targed o 93% yn creu'r cydbwysedd iawn mwyach o ystyried anghenion defnyddwyr, newidiadau yn y farchnad bost, a'r pwysau ar gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol

Nid oes angen lefel darged o 93% i fynd i'r afael ag anghenion rhesymol defnyddwyr ar gyfer danfon yn brydlon

6.25 Rydym yn cydnabod bod llawer o randdeiliaid yn gwrthwynebu gostyngiadau, gan ddadlau y byddai angen y lefel uchel bresennol er mwyn i Ddosbarth Cyntaf barhau i fod yn wasanaeth dibynadwy y gall defnyddwyr ymddiried ynddo i ddanfon yn brydlon. Rydym o'r farn bod o leiaf rai o'r pryderon hyn am lefelau gwasanaeth is yn ymateb i berfformiad ansawdd gwasanaeth diweddar y Post Brenhinol, sy'n is o lawer na'r lefel darged bresennol, gan gael effaith negyddol ar ymddiriedaeth a safbwyntiau defnyddwyr ynghylch dibynadwyedd. Yn y cyd-destun hwn, rydym yn cytuno nad yw'r perfformiad diweddar wedi bod yn ddigonol.

6.26 Mae ymatebion rhanddeiliaid i'n Hymgynghoriad, ynghyd â chanfyddiadau ein dadansoddiad o anghenion defnyddwyr, yn tanlinellu bod defnyddwyr yn gwerthfawrogi dibynadwyedd y gwasanaeth Dosbarth Cyntaf yn fawr iawn. Yn benodol, canfu ein hymchwil yn 2024 fod 88% o ddefnyddwyr yn dweud ei bod yn bwysig bod llythyrau a chardiau'n cael eu danfon yn brydlon.[369] Rydym yn cydnabod yr anghenion hyn ac rydym wedi ymrwymo i gynnal lefel darged uchel i ddiogelu anghenion defnyddwyr ar gyfer danfon yn brydlon.

6.27 Wedi dweud hynny, mae'r dystiolaeth sydd ar gael gennym yn dangos, er bod defnyddwyr yn disgwyl lefelau gwasanaeth o ansawdd uchel, nad yw eu dewisiadau'n amrywio'n sylweddol rhwng gwahaniaethau cymharol fach mewn lefelau ansawdd gwasanaeth, ar yr amod bod yr ansawdd gwasanaeth gofynnol yn dal yn weddol uchel yn gyffredinol. Mae hyn yn cyd-fynd ag ymchwil fwy diweddar a gomisiynwyd gan y Post Brenhinol yn 2024 a ganfu mai dim ond ychydig iawn o wahaniaeth a wnaeth gwahaniaethau rhwng targedau i farn defnyddwyr ynghylch pa mor dderbyniol yw gwasanaethau Dosbarth Cyntaf.[370]

6.28 Mae hyn yn dangos bod defnyddwyr yn fodlon derbyn addasiadau cynyddrannol am i lawr mewn lefelau ansawdd, yn enwedig pan fydd addasiadau o'r fath yn helpu i ddiogelu eu dewisiadau o ran fforddiadwyedd, y gwyddom sy'n aml yn cael blaenoriaeth yn hytrach na

[367] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, t.22.
[368] Ymateb CMA i Ymgynghoriad 2025, tt.14-17.
[369] Gweler Atodiad A3 ar ein hymchwil asesu anghenion defnyddwyr.
[370] Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 5 Rhagfyr 2024.

chyflymder danfon. Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth a gyflwynwyd i'n hymgynghoriad i newid ein safbwynt ar y pwynt hwn.

6.29 Felly, nid ydym yn credu bod y lefel darged bresennol o 93% yn gwbl angenrheidiol er mwyn sicrhau gwasanaeth dibynadwy a mynd i'r afael ag anghenion defnyddwyr o ran danfon yn brydlon, ac rydym yn dal yn hyderus y gall lefel darged ychydig yn is barhau i ddiogelu'r anghenion hynny.

Mae newidiadau strwythurol yn y farchnad bost yn golygu ei bod wedi dod yn fwy anodd cyrraedd lefel darged o 93% yn gyson

6.30 Fel y disgrifir yn Adrannau 2, 3, ac yn Atodiad A3, mae'r post a gwasanaethau cyfathrebu eraill yn cael eu defnyddio'n wahanol heddiw. Mae'r newidiadau strwythurol hyn yn y farchnad bost ac addasiadau gweithredol dilynol y Post Brenhinol wedi ei gwneud yn anoddach cyrraedd lefelau ansawdd uchel yn gyson. Yn benodol, mae'r gostyngiad yn nifer y llythyrau a'r cynnydd mewn parseli, ynghyd â gostyngiad mewn cyfraddau galwadau, wedi golygu bod effaith amrywiadau annisgwyl mewn niferoedd yn fwy sylweddol ac yn anoddach ei rheoli. Mae effaith yr ansefydlogrwydd hwn ar rwydwaith y Post Brenhinol wedi cynyddu ymhellach wrth iddo geisio gwneud arbedion effeithlonrwydd drwy wella cynhyrchiant. Mae ymdrechion i sicrhau enillion effeithlonrwydd yn hanfodol i gefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol. Maent hefyd yn gadarnhaol i ddefnyddwyr i'r graddau eu bod yn osgoi trosglwyddo gormod o gostau i unigolion ac i fusnesau drwy godi prisiau.

6.31 Fodd bynnag, mae'r mentrau effeithlonrwydd hyn wedi lleihau'r byffer adnoddau sydd ar gael i ddelio ag amrywiadau annisgwyl yn y galw o ran faint o bost sydd i'w brosesu a'i ddanfon [✂].[371] Mae hyn yn golygu, wrth i nifer yr eitemau post amrywio, bod llai o adnoddau segur mewn cyfnodau lle mae'r niferoedd yn isel, ond mae hefyd yn golygu, pan fydd cynnydd yn nifer yr eitemau post, bod llai o adnoddau ar gael i brosesu ac i ddanfon mwy o bost. Mae'r datblygiadau hyn wedi golygu bod y disgwyliad i ddanfon 93% o eitemau Dosbarth Cyntaf wedi dod yn anoddach dros amser.

6.32 Rydym yn nodi bod rhai rhanddeiliaid yn cytuno â'n dadansoddiad bod newidiadau yn y farchnad ac addasiadau gweithredol dilynol yn cyfiawnhau newid lefel y targed.[372] Mae hefyd yn cael ei gefnogi gan ymateb y Post Brenhinol, a oedd yn ailadrodd bod newidiadau strwythurol yn y farchnad bost wedi creu heriau mawr i economeg ei rwydwaith danfon.[373]

6.33 Er gwaethaf effaith y newidiadau hyn yn y farchnad, roedd nifer o randdeiliaid o'r farn bod addasu'r targed Dosbarth Cyntaf yn anaddas a chredent y byddai'n tanseilio safle Dosbarth Cyntaf fel gwasanaeth 'blaenoriaeth'.[374] Rydym yn cydnabod bod adegau, er yn anaml, pan fydd angen i ddefnyddwyr anfon neu dderbyn eitem ar frys, a bod y gwasanaeth diwrnod canlynol yn gynnyrch sy'n ymateb i'r angen achlysurol hwn. Fodd bynnag, rydym yn dal yn bendant nad yw lefel darged uchel iawn o 93% yn gwbl angenrheidiol i wireddu'r angen am

[371] Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 5 Rhagfyr 2024.
[372] Ymateb Data and Marketing Association (DMA) i Ymgynghoriad 2025, t.2; Ymateb y Bartneriaeth Bostio Strategol i Ymgynghoriad 2025, t.3.
[373] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, tt.70-73.
[374] Er enghraifft: ✂Ymateb CFH Docmail Limited i Ymgynghoriad 2025, t.3; Ymateb y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol i Ymgynghoriad 2025, t.2; [✂].

wasanaeth diwrnod canlynol o'r fath, ac y bydd yr angen am y gwasanaeth yn parhau i gael ei ddiwallu er gwaethaf addasiad bach i lefelau targed.

6.34 Mae asesiad o'r cyd-destun rhyngwladol yn tanlinellu nad yw targed uchel iawn, fel sydd ar waith ar hyn o bryd, yn hanfodol i gynnal natur flaenoriaethol gwasanaeth. Fel y nodwyd yn ein Hymgynghoriad, nid y DU yw'r unig wlad sy'n adolygu lefelau targed ar gyfer gwasanaethau'r diwrnod canlynol, gan fod llawer o wledydd wedi addasu i ddeinameg newidiol y farchnad drwy addasu'r targed perfformiad ar gyfer gwasanaeth y diwrnod canlynol.[375] Fel y dengys cymhariaeth ryngwladol, mae'r DU yn hanesyddol wedi cynnal targedau uwch na gwledydd tebyg ar gyfer gwasanaethau blaenoriaeth, ac mae'r gwledydd hynny sydd â lefelau targed o 93% neu uwch ar gyfer gwasanaethau diwrnod canlynol yn tueddu i fod yn llawer llai neu'n llai tebyg fel arall i'r DU.

6.35 Rydym hefyd yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng gwasanaethau USO blaenoriaeth a safonol (h.y. Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth) ac rydym wedi ystyried a fyddai angen targed o 93% i gynnal Dosbarth Cyntaf fel opsiwn blaenoriaeth yng nghyd-destun y gwahaniaeth rhwng y gwasanaethau hyn. Gellid dadlau bod agweddau ar Ddosbarth Cyntaf ar wahân i'r lefel darged, fel cyflymder danfon y diwrnod canlynol, yn bwysicach o ran gwahaniaethu'r gwasanaeth gydag Ail Ddosbarth, gyda ffenestr danfon arafach o dri diwrnod. Bydd y newid yn yr amserlen danfon ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth hefyd yn creu mwy o wahaniaeth rhwng y gwasanaethau Ail Ddosbarth a Dosbarth Cyntaf, gan y bydd yr olaf yn parhau i gael ei ddanfon y diwrnod canlynol, chwe diwrnod yr wythnos, o'i gymharu â danfon llythyrau Ail Ddosbarth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos heb ddanfon ar ddydd Sadwrn. Rydym wedi ystyried ymhellach y gwahaniaeth rhwng gwasanaethau blaenoriaeth a safonol yn ein hasesiad o'r targed 'post hwyr' arfaethedig, gan werthuso sut gallai gefnogi gwerth Dosbarth Cyntaf fel gwasanaeth blaenoriaeth. Rydym yn fodlon y gellid cynnal rhagoriaeth, a gwerth ychwanegol Dosbarth Cyntaf fel gwasanaeth blaenoriaeth, hyd yn oed gyda lefel darged is na 93%.

6.36 Gan ystyried y dystiolaeth sydd ar gael a'r ymatebion i'n Hymgynghoriad, rydym yn dal o'r farn bod newidiadau strwythurol yn y farchnad bost yn golygu ei bod hi wedi dod yn anoddach cyrraedd targedau ansawdd gwasanaeth uchel iawn yn gyson. Ar ben hynny, nid ydym yn derbyn bod lefel darged o 93% yn gwbl angenrheidiol i fod yn sail i bennu bod Dosbarth Cyntaf yn wasanaeth diwrnod canlynol dibynadwy, ac rydym o'r farn y gall targed ychydig yn is barhau i ddiwallu'r angen am opsiwn o'r fath yn y farchnad.

Mae baich costau lefel darged o 93% yn peri risg i gynaliadwyedd ariannol hirdymor y gwasanaeth cyffredinol

6.37 Fe wnaethom egluro yn ein Hymgynghoriad bod y targed presennol o 93% yn debygol o greu baich cost sylweddol ar y Post Brenhinol, sydd wedi dod yn fwy arwyddocaol o ran cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol wrth i sefyllfa ariannol y Post Brenhinol ddirywio.

6.38 Fel y nodir yn Adran 4, nid yw costau'n tyfu'n llinol ar y cyfan gyda newidiadau mewn niferoedd, ac mae rheoli ansefydlogrwydd yn dod yn fater mwy arwyddocaol gyda llai o niferoedd. Rydym yn credu bod hyn yn golygu, wrth i'r niferoedd ostwng, ei bod hi'n

[375] Ofcom, 2025. Ymgynghoriad: Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post. Paragraff 6.10.

anoddach gwireddu arbedion maint a'i bod yn ddrutach rheoli ansefydlogrwydd. Yn rhannol o ganlyniad i hynny, mae costau uned cyrraedd lefelau perfformiad targed wedi cynyddu ers 2005/6.

6.39 Ar ben hynny, mae gwella ansawdd gwasanaeth hefyd yn ddrutach ar lefelau perfformiad uwch, gan fod yn rhaid dileu ystod ehangach o wahanol ffynonellau methiant gweithredol er mwyn cyrraedd lefelau uchel, ac mae angen mwy o byffer adnoddau i weithredu fel darpariaeth wrth gefn ar gyfer amrywiadau annisgwyl o ystyried y caniateir llai o fethiant.

6.40 Felly, mae'r buddsoddiadau disgwyliedig er mwyn cyrraedd 93% yn sylweddol, yn enwedig o ystyried perfformiad presennol y Post Brenhinol. Er bod cryn ansicrwydd ynghylch maint y costau cynyddrannol sy'n gysylltiedig â gwella ansawdd, mae'r Post Brenhinol wedi darparu nifer o ffigurau dangosol lefel uchel. Amcangyfrifodd yn flaenorol bod angen £20-30m [✂] i wella perfformiad o 77% i 82.5%. Dywedodd y byddai angen buddsoddiad pellach o £60-80m y flwyddyn i wella i 90%, a buddsoddiad ychwanegol o £120-180m y flwyddyn i wella o 90% i 93%.[376]

6.41 Yng ngoleuni sefyllfa ariannol y Post Brenhinol, a gan dybio bod yr effaith ar enillion yn hytrach na phrisiau, byddai hyd yn oed baich costau ychwanegol gwella ansawdd gwasanaeth o 90% i 93% yn cael effaith sylweddol ar gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol.

6.42 Rydym hefyd yn dal yn bryderus y bydd yr angen i'r Post Brenhinol adennill costau am fuddsoddiadau er mwyn cyrraedd targed o 93% yn cael ei drosglwyddo i ddefnyddwyr drwy gynnydd uwch mewn prisiau, gan roi mwy o bwysau ar fforddiadwyedd y gwasanaeth cyffredinol nag y byddai fel arall gyda tharged is. Amcangyfrifodd y Post Brenhinol y gallai cynnydd ychwanegol mewn prisiau ar gyfer gwasanaethau Dosbarth Cyntaf sy'n gysylltiedig â chostau cyflawni 93% yn hytrach na tharged ychydig yn is o 90% fod yn sylweddol, yn gymaint â [377] am stamp Dosbarth Cyntaf. Er ein bod yn cydnabod bod camau eraill y gallai'r Post Brenhinol eu cymryd i liniaru maint y cynnydd mewn prisiau, mae'n ymddangos bod hwn yn amcangyfrif rhesymol, pe bai angen codi refeniw o stampiau Dosbarth Cyntaf yn unig i fuddsoddi mewn cyrraedd y targed ansawdd gwasanaeth presennol o'i gymharu â tharged ychydig yn is o 90%.

6.43 Byddai cynnydd o'r fath mewn prisiau yn groes i flaenoriaethau defnyddwyr o ran fforddiadwyedd yn hytrach nag ansawdd uchel iawn. Roedd ymatebwyr i'n Hymgynghoriad yn adleisio'r angen i wasanaethau Dosbarth Cyntaf barhau i fod yn fforddiadwy. Mynegodd llawer eu hanfodlonrwydd amlwg â'r cynnydd diweddar mewn prisiau ar gyfer eitemau Dosbarth Cyntaf a nodwyd y byddai gostwng targedau yn anaddas yng nghyd-destun cynnydd mewn prisiau.[378] Rydym o'r farn bod hyn yn cefnogi ein dealltwriaeth o flaenoriaethu fforddiadwyedd yn hytrach nag ansawdd uchel iawn.

6.44 Roedd nifer o randdeiliaid yn cytuno â'n dadansoddiad bod y baich costau sy'n gysylltiedig â chyflawni 93%, a'i gyfraniad at bwysau ar fforddiadwyedd, yn golygu ei bod yn rhesymol addasu'r lefel darged. Er enghraifft, dywedodd y Bartneriaeth Bostio Strategol: "Er bod

[376] Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 5 Rhagfyr 2024.
[377] Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 5 Rhagfyr 2024.
[378] Er enghraifft: Ymateb Cymdeithas Defnyddwyr Post i Ymgynghoriad 2025, t.5.

danfon y diwrnod canlynol yn dal yn hanfodol i lawer o'n haelodau o ran postio sy'n sensitif o ran amser, gallai anelu at feincnod o 93% o dan amodau presennol y farchnad arwain at gynnydd diangen mewn costau".[379] Yn yr un modd, ategwyd hynny gan y Gymdeithas Data a Marchnata: "Mae ein haelodau'n dal i ddibynnu ar berfformiad y diwrnod canlynol ar gyfer post sy'n sensitif o ran amser, ond maent hefyd yn cydnabod y gall anelu at 93% yn amgylchedd presennol y farchnad gynyddu costau'n ddiangen".[380]

6.45 I grynhoi, rydym yn dal o'r farn bod cadw'r targed o 93% yn gosod baich cost uchel iawn, sy'n faich mwy sylweddol ar y Post Brenhinol nag yn y gorffennol, ac yn arwain at fwy o gynnydd mewn prisiau i ddefnyddwyr yn y dyfodol. Gan ystyried hyn gyda'i gilydd yng nghyd-destun ein dealltwriaeth o ddewisiadau defnyddwyr, yn ogystal â chyflwr presennol y farchnad bost, rydym o'r farn nad yw'r targed o 93% yn sicrhau'r cydbwysedd cywir i ddefnyddwyr mwyach.

Mae 90% yn creu'r cydbwysedd cywir rhwng canlyniadau i ddefnyddwyr a'r baich ar y Post Brenhinol

Mae gostyngiad bach o'r lefel darged i 90% yn ymateb i anghenion rhesymol defnyddwyr

6.46 Rydym yn parhau i gredu bod lefel darged o 90% yn briodol i ddiogelu dewis defnyddwyr o ran fforddiadwyedd drwy helpu i liniaru'r risg o gynnydd uwch mewn prisiau i ddefnyddwyr nag a fyddai wedi digwydd fel arall yn y dyfodol. Roedd nifer o randdeiliaid, gan gynnwys y Post Brenhinol, yn cefnogi'r dadansoddiad hwn.[381]

6.47 Roedd rhai ymatebwyr yn rhannu pryderon y byddai targed Dosbarth Cyntaf o 90% yn effeithio'n anghymesur ar grwpiau defnyddwyr penodol, gan gynnwys defnyddwyr hŷn, defnyddwyr pleidleisio drwy'r post neu ddefnyddwyr gwledig. Er ein bod yn cydnabod y gallai amrywiaeth o grwpiau defnyddwyr fod yn fwy dibynnol ar bost, canfu ein hymchwil, er gwaethaf dibyniaeth gynyddol y grwpiau hyn ar wasanaethau post, fod eu hanghenion llythyrau yn debyg i anghenion defnyddwyr 'nodweddiadol' o ran eu bod yn blaenoriaethu dibynadwyedd a fforddiadwyedd yn gyffredinol, ac mai anaml y mae cyflymder danfon yn hollbwysig. Gwyddom hefyd fod defnyddwyr mewn lleoliadau gwledig yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn dibynnu ar y gwasanaeth post ac yn ystyried bod bodolaeth gwasanaethau post yn bwysig o ran mynd i'r afael â theimladau o unigrwydd.[382] Fodd bynnag, nid oes gennym dystiolaeth sy'n dangos bod mwy o ddibyniaeth ddatganedig ar wasanaethau post gan ddefnyddwyr yn yr ardaloedd hyn yn trosi'n anghenion gwahanol iawn.

6.48 Rydym yn dal o'r farn bod ein tystiolaeth ynghylch anghenion defnyddwyr yn cadarnhau bod gostyngiad bach yn y lefel darged i 90% yn diwallu, neu bron yn diwallu'n gyfan gwbl, anghenion rhesymol defnyddwyr. Er enghraifft, dangosodd ein hymchwil defnyddwyr o 2020 y byddai addasu'r targed cyflymder i 90% yn diwallu anghenion 97% o ddefnyddwyr preswyl. Roedd 91% o ddefnyddwyr busnesau bach a chanolig yn teimlo y byddai'r targed is o 90% yn diwallu eu hanghenion.[383] Mae parodrwydd defnyddwyr i fod yn agored i ostyngiadau bach iawn mewn lefelau ansawdd yn cael ei bwysleisio ymhellach wrth ei

[379] Ymateb y Bartneriaeth Bostio Strategol i Ymgynghoriad 2025, t.3.
Ymateb y Gymdeithas Data a Marchnata i Ymgynghoriad 2025, t.2.
[381] Er enghraifft: Ymateb y Gymdeithas Data a Marchnata i Ymgynghoriad 2025, t.2.
[382] Ofcom, 2025. Ymgynghoriad: Adolygiad o'r gwasanaeth post a rheoleiddio'r gwasanaeth post t.43.
[383] Ofcom, 2020, Adolygiad o anghenion defnyddwyr post, tt. 70-71

ystyried yng nghyd-destun fforddiadwyedd. Mae ein tystiolaeth ar sut mae defnyddwyr yn gweld y cyfaddawdu rhwng ansawdd a fforddiadwyedd yn dangos bod defnyddwyr yn fwy parod i dderbyn ansawdd is yn hytrach na phrisiau uwch. Er enghraifft, canfu ein hymchwil anghenion defnyddwyr yn 2020 fod defnyddwyr yn teimlo bod gostwng y targedau ansawdd gwasanaeth i 90% yn cyfateb i gynnydd o 1-5c mewn prisiau, o ran sut roedd hynny'n effeithio ar eu parodrwydd i dalu. Mae'r effaith fach iawn hon ar barodrwydd i dalu yn gwrthgyferbynnu'n llwyr â'r cynnydd mewn prisiau a fyddai'n angenrheidiol i wella o 90% i 93% fel y nodir uchod. Mae ein hasesiad o'r cyfaddawd rhwng fforddiadwyedd ac ansawdd yn rhoi hyder i ni bod lefel darged o 90% yn diwallu, neu bron yn diwallu'n gyfan gwbl, anghenion rhesymol defnyddwyr ar yr un pryd â diogelu dewisiadau defnyddwyr o ran fforddiadwyedd.

6.49 Gan edrych ar ddefnyddwyr mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell yn benodol, credwn fod ein rheolau presennol, gan gynnwys y targed ardal cod post a'r rhwymedigaethau ar gyfer monitro a chyhoeddi perfformiad, yn rhoi sicrwydd ar gyfer gwasanaeth cyfartal sylfaenol ledled y DU a chymhelliant i'r Post Brenhinol ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i gwsmeriaid mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell.

6.50 Mae targed o 90% hefyd yn uchel yn ôl safonau rhyngwladol, lle mae gwledydd o faint tebyg, o'u cymharu, wedi mabwysiadu targedau is. Er enghraifft, mae'r Eidal yn mynnu bod 80% a Gwlad Pwyl 82% o eitemau Dosbarth Cyntaf yn cyrraedd o fewn D+1. Mae hyn yn golygu bod y targed wedi'i addasu yn dal i adael y DU gyda tharged mwy heriol o'i gymharu â gwledydd tebyg a dylai sicrhau gwasanaeth o ansawdd digon uchel.

6.51 Rydym yn nodi bod un rhanddeiliad wedi awgrymu lefel is na 90%, gydag Unite CMA yn awgrymu lefel darged gychwynnol o 80%, gyda chynnydd graddol dros o leiaf bum mlynedd.[384] Fel y nodir yn ein Hymgynghoriad, mae gennym bryderon sy'n ymwneud â lefel darged o 80% (hyd yn oed am dymor byr), gan ein bod yn credu nad yw'n rhoi digon o sicrwydd o ran diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr. Nodwn na wnaeth y rhanddeiliad ddarparu rhagor o dystiolaeth a fyddai'n lliniaru'r pryderon hyn. Gan fod y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr wedi mynegi pryderon am y gostyngiad targed cymharol fach o 3 phwynt canran, rydym hefyd yn tybio na fyddai'r gostyngiad targed dros dro a awgrymir o 13 pwynt canran yn mynd i'r afael yn ddigonol ag anghenion defnyddwyr. Er ein bod yn gwerthfawrogi bod y rhanddeiliad wedi awgrymu cynnydd graddol i'r targed, mae ein pryderon sy'n ymwneud ag anghenion defnyddwyr yn parhau i fodoli.

6.52 Gyda'i gilydd, rydym yn dal o'r farn bod gostyngiad bach iawn yn y lefel darged bresennol i 90% yn ailgydbwyso costau a heriau cyrraedd targed o 93% yn erbyn anghenion a dewisiadau rhesymol defnyddwyr, gan gynnwys rhai grwpiau agored i niwed, gan barhau i fod yn ddigon heriol i gymell lefelau gwasanaeth o ansawdd uchel.

Mae lefel darged o 90% yn cyd-fynd â'r farchnad bost heddiw

6.53 Gan ystyried yr ymatebion i'n Hymgynghoriad a'n tystiolaeth ychwanegol, rydym o'r farn bod targed o 90% yn adlewyrchu realiti'r farchnad bost heddiw yn well. Mae nifer o randdeiliaid yn cefnogi'r dadansoddiad hwn. Er enghraifft, dywedodd y Bartneriaeth Bostio Strategol fod "targed o 90% yn cyd-fynd yn well â gweithrediadau post heddiw, o ystyried y

[384] Ymateb Unite CMA i Ymgynghoriad 2025, t.17.

gostyngiad parhaus yn nifer y llythyrau".[385] Mynegodd y Post Brenhinol hefyd ei gefnogaeth i'r targed, gan ddweud y byddai'n "adlewyrchu economeg newidiol y rhwydwaith danfon sy'n ei gwneud yn fwy costus cyrraedd targedau Ansawdd Gwasanaeth uwch".[386]

6.54 Nodwn fod rhai rhanddeiliaid yn ystyried addasiadau am i lawr i'r targed Dosbarth Cyntaf i ddarparu ar gyfer methiannau perfformiad diweddar a heriau gweithredol y mae'r Post Brenhinol yn eu hwynebu.[387] Rydym yn anghytuno bod gostwng y targed i 90% yn ategu tanberfformiad diweddar. Mae perfformiad diweddaraf y Post Brenhinol o 76.5% ar gyfer 2024/25 yn annerbyniol yng nghyd-destun y targedau presennol, ac rydym yn cydnabod y neges glir gan randdeiliaid nad yw'r lefel hon o ansawdd yn ddigonol. Drwy osod y lefel darged i 90% ac nid yn is, rydym yn dal i ddisgwyl i'r Post Brenhinol wella'n sylweddol o'i berfformiad presennol, a dylai defnyddwyr deimlo'r canlyniadau cadarnhaol.

6.55 Ar yr un pryd, roeddem yn cydnabod yn ein Hymgynghoriad y byddai lefelau targed is na 90% yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i ymateb i newidiadau mwy eithafol yn y dyfodol mewn niferoedd a newidiadau ehangach yn neinameg y farchnad bost. Er enghraifft, roeddem wedi cydnabod rhagolygon yn ein Hymgynghoriad sy'n dangos y bydd nifer y llythyrau'n parhau i ostwng 5-7% y flwyddyn. Ffactor ychwanegol a allai gynyddu'r angen am hyblygrwydd targed fyddai'r angen am arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol, y gwyddom eu bod yn gwrthdaro'n gyffredinol ag ansawdd gwasanaeth. Er ein bod yn ymwybodol y bydd y farchnad yn parhau i esblygu yn y dyfodol, rydym yn parhau i ystyried bod cyd-destun presennol y farchnad yn cyfiawnhau addasu i 90% ac yn pwysleisio bod y Post Brenhinol yn credu bod y targed hwn yn rhesymol.[388]

6.56 Gyda'i gilydd, rydym yn dod i'r casgliad bod targed Dosbarth Cyntaf o 90% yn darged priodol y gellir ei gyflawni ar gyfer gwasanaeth diwrnod canlynol yn y farchnad bost heddiw.

Mae lefel darged o 90% yn cefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol drwy leihau'n sylweddol y swm sydd ei angen i fuddsoddi o'i gymharu â thargedau uwch

6.57 Fel yr eglurwyd yn Adran 4, mae costau cynyddrannol gwella perfformiad yn cynyddu'n sylweddol ar lefelau perfformiad uwch, sy'n golygu y gallai hyd yn oed gostyngiadau bach mewn ansawdd arwain at arbedion cost sylweddol, ond wrth i dargedau gael eu gostwng ymhellach, mae pob canran o ostyngiad yn cynhyrchu llai o arbedion. Rydym yn dal o'r farn bod targed o 90% yn lleihau risgiau costau ychwanegol, a fyddai wedi bod yn angenrheidiol fel arall i gyrraedd targed uwch. Gallai hyn helpu i ddatgloi arbedion cost, o bosibl tua £120-180m y flwyddyn o'i gymharu â tharged o 93%. O ystyried sefyllfa'r Post Brenhinol o wneud colledion yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym o'r farn y gallai diogelu arbedion cost a allai ddigwydd gyda lefel darged o 90% gael effaith gadarnhaol sylweddol ar gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol.

6.58 Fe wnaethom nodi yn ein Hymgynghoriad y gallai gostyngiadau pellach i'r targed o bosibl ddatgloi arbedion cost ychwanegol, yn ogystal â chael y fantais o ganiatáu mwy o hyblygrwydd ar gyfer gwneud arbedion effeithlonrwydd, ac er mwyn ei gwneud hi'n haws delio â newidiadau o ran niferoedd. Fodd bynnag, fe wnaethom hefyd nodi y gallai lefelau

[385] Ymateb y Bartneriaeth Bostio Strategol i Ymgynghoriad 2025, t.3.
[386] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, t.21.
[387] Er enghraifft: Ymateb Pwyllgor Cynghori'r Alban i Ymgynghoriad 2025 t.7.
[388] Ar sail data gan Liberum Capital Limited a gyhoeddwyd ar 28 Mai 2024 a Peel Hunt LLP ar 18 Gorffennaf 2024 a 05 Medi 2024.

targed is arwain at symud oddi wrth Ddosbarth Cyntaf, wrth i ddefnyddwyr benderfynu nad yw'r dibynadwyedd yn ddigonol i fodloni eu disgwyliadau. Gallai canlyniad y symud hwn leihau neu wrthbwyso arbedion cost posibl, gan wneud y budd i gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol yn llai sicr. Felly, nid ydym wedi ein hargyhoeddi y byddai opsiynau mwy eithafol ar gyfer targedau is yn angenrheidiol nac yn fuddiol hyd yn oed ar hyn o bryd o safbwynt cefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol.

6.59 I grynhoi, ar sail ein dadansoddiad o anghenion defnyddwyr a deinameg y farchnad bost, yn ogystal â'r baich costau a'r risgiau i ddefnyddwyr a allai ddeillio o'r buddsoddiad sydd ei angen i gynnal y targed presennol, **rydym wedi penderfynu gwneud addasiad bach i'r targed Dosbarth Cyntaf i fynnu bod 90% o eitemau'n cael eu danfon y diwrnod canlynol (h.y. D+1).**

Targed ardal cod post Dosbarth Cyntaf D+1

Ein newid arfaethedig o 91.5% i 87%

6.60 Ar hyn o bryd, mae'r targed ardal cod post Dosbarth Cyntaf (PCA) yn mynnu bod 91.5% o bost yn cael ei ddanfon y diwrnod canlynol (h.y. D+1) ym mhob un o'r ardaloedd cod post yn y DU.[389] Yn ein Hymgynghoriad, roeddem yn cydnabod y cysylltiad rhwng targedau cenedlaethol Dosbarth Cyntaf a thargedau PCA, sef eu bod yn chwarae rolau ategol ond gwahanol, ac roeddem yn ailddatgan yr angen am ôl-stop daearyddol ar berfformiad. Heb darged o'r fath, byddai mwy o hyblygrwydd i'r Post Brenhinol orgyflawni mewn rhai ardaloedd i gydbwyso tanberfformiad mewn ardaloedd eraill, tra'n dal i gyrraedd y targed cenedlaethol.

6.61 Roeddem wedi nodi ein nod o ailosod y targed ar lefel a fyddai'n parhau i ddiogelu yn erbyn anghydraddoldeb daearyddol, ar yr un pryd â cheisio lleihau'r risgiau sy'n deillio o gam-alinio rhwng y targed PCA a'r targed cenedlaethol newydd arfaethedig. Fe wnaethom amlinellu ein dealltwriaeth o sut mae canlyniadau PCA yn debyg yn gyffredinol i'r cyfartaledd cenedlaethol gyda rhai'n gorgyflawni ac eraill yn tanberformio. Fe wnaethom egluro sut gallai amrywiad newid yng nghyd-destun lefel is o berfformiad cenedlaethol, sef y gallai fod ystod ychydig ehangach o berfformiad PCA.

6.62 Yn y cyd-destun hwn, fe wnaethom asesu nifer o opsiynau, gan gynnwys lleihau'r targed i 88.5% (i gynnal y bwlch presennol o 1.5 pwynt canran rhwng targedau cenedlaethol a thargedau PCA), neu ostwng i 86% neu 87% i ailosod y targed gan ystyried ein dealltwriaeth o amrywiadau lleol, cymhellion i wella perfformiad, a'n dull gorfodi.

6.63 Ein casgliad dros dro oedd y byddai targed cod post o 87% yn cyd-fynd â'r targed cenedlaethol o 90% ar sail y dystiolaeth sydd ar gael am berfformiad yn y gorffennol, gan osod terfyn ystyrlon ar amrywiadau daearyddol wrth ystyried agweddau ar ein dull gorfodi sefydledig, sef defnyddio cyfyngau hyder.

[389] Ac eithrio tair ardal cod post - Hebrides (HS), Kirkwall (KW), a Lerwick (ZE) – sydd wedi cael eu heithrio o'r targed oherwydd eu natur anghysbell. Mae'n rhaid i'r Post Brenhinol adrodd yn rheolaidd ar berfformiad yn yr ardaloedd hyn er mwyn bod yn dryloyw.

Ymateb rhanddeiliaid i'n Hymgynghoriad

6.64 Roedd bron pob un o'r ymatebwyr i'n Hymgynghoriad yn pwysleisio cefnogaeth i gadw'r targed PCA, ac eithrio'r Post Brenhinol, a ddywedodd nad oedd ei angen.[390] Roedd cydnabyddiaeth gyffredinol ar draws grwpiau defnyddwyr[391], busnesau,[392] sefydliadau'r sector cyhoeddus[393] ac ymatebwyr unigol o bwysigrwydd targed PCA fel amddiffyniad yn erbyn anghydraddoldeb daearyddol, sy'n sail i gyffredinolrwydd a chydraddoldeb y gwasanaeth cyffredinol. Yn benodol, pwysleisiodd rhanddeiliaid werth y targed o ran sicrhau bod defnyddwyr yn cael llinell sylfaen o wasanaeth na fyddai o reidrwydd yn cael ei ddarparu fel arall wrth gyrraedd y targed cenedlaethol. Er bod cefnogaeth gyffredinol i'r targed fel sicrwydd i ddefnyddwyr, gan gynnwys y rheini mewn ardaloedd anoddach eu cyrraedd, roedd rhai ymatebion yn pwysleisio pwysigrwydd penodol gwasanaeth sy'n gyfartal yn ddaearyddol at ddibenion fel post etholiadol a dosbarthu cyhoeddiadau.[394]

6.65 Yng nghyd-destun y gefnogaeth i rôl y targed PCA, roedd llawer o randdeiliaid, gan gynnwys ymatebwyr unigol, yn anghytuno â lleihau'r lefel darged, ar sail pryder ynghylch sut gallai hyn effeithio ar ganlyniadau i unigolion a busnesau.[395] Yn yr ystyr hwn, roedd gwrthwynebiad cyffredinol i newid y targed PCA yn adleisio ymatebion a oedd yn gwrthwynebu newidiadau i'r targed cenedlaethol.

6.66 Wedi dweud hynny, roedd rhai unigolion a busnesau, gan gynnwys y rheini a oedd yn cefnogi diwygiadau i'r targed cenedlaethol, yn cydnabod bod angen newid y targed PCA.[396] Nododd y rhanddeiliaid hyn y berthynas rhwng perfformiad ar lefel genedlaethol a lleol, gan dynnu sylw at amrywiadau naturiol mewn gwasanaethau ar draws gwahanol ardaloedd, yn ogystal â'r angen am hyblygrwydd gweithredol yng nghyd-destun ansawdd a chyfnewidiadau cost wrth symud ymlaen.

6.67 Ymysg y rheini a oedd o blaid ailosod y targed ar lefel is, roedd rhywfaint o gefnogaeth i'n lefel darged arfaethedig o 87%, er bod amrywiaeth o randdeiliaid yn ffafrio llai o ostyngiad o'r lefel bresennol o 91.5%.[397] Roedd rhai rhanddeiliaid yn cynnig y dylid gosod y targed PCA ar yr un lefel o 90% â'r targed cenedlaethol,[398] ac roedd amrywiaeth o randdeiliaid yn cydnabod y dylid gosod y targed PCA yn is na'r targed cenedlaethol, ond roeddent yn

---

[390] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, tt.37-39.
[391] Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, t.37; ymateb CCP-ACOD i ymgynghoriad 2025, t.7; ymateb Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon i ymgynghoriad 2025, t. 27
[392] Ymateb The Greeting Card Association i Gais am Fewnbwn 2025, t.16.[✂]
[393] [✂]; Ymateb Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol i Ymgynghoriad 2025, t.4; ymateb Cymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol i Ymgynghoriad 2025, t.3.
[394] Ymateb Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol i Ymgynghoriad 2025, t.4; [✂]
[395] Ymateb y Greeting Card Association i Ymgynghoriad 2025, t.16; Ymateb Earlybird Designs i Ymgynghoriad 2025, t.4; Ymateb House of Cards i Ymgynghoriad 2025, tt.3-4; Ymateb Gretton Books i Ymgynghoriad 2025, t.2; Ymateb Action with Communities in Rural England i Ymgynghoriad 2025 t.3; Ymateb CFH Docmail Limited i Ymgynghoriad 2025, t.4; Ymateb Tesco Bank i Ymgynghoriad 2025, t.3; Ymateb Democratiaid Rhyddfrydol Argyll a Bute i Ymgynghoriad 2025, t.2
[396] Ymateb y Gymdeithas Data a Marchnata i Ymgynghoriad 2025, t.2; Ymateb Unite CMA i Ymgynghoriad 2025, t.18; ymateb CCP-ACOD i ymgynghoriad 2025, t.7; Ymateb Citipost Mail i Ymgynghoriad 2025, t.6; ymateb Cymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol i Ymgynghoriad 2025, t.3
[397] Ymateb y Gymdeithas Data a Marchnata i Ymgynghoriad 2025, t.2; [✂]; Ymateb CCP-ACOD i Ymgynghoriad 2025, t.7
✂Ymateb BBS i Ymgynghoriad 2025, t.2; Ymateb y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol i Ymgynghoriad 2025, t.3; [✂].

feirniadol o'n rhesymeg dros beidio â chynnal y bwlch presennol o 1.5 pwynt canran i'r targed cenedlaethol (h.y. gosod y targed PCA ar 88.5%).[399]

6.68 Roedd ymateb y Post Brenhinol yn galw am ddadreoleiddio perfformiad PCA, gan nodi, pe baem yn ceisio cynnal y targed, y byddai angen ailwampio ein dull o osod a gorfodi'r targed yn fwy sylweddol. Roedd yn annog, wrth symud ymlaen, bod llai o ffocws ar danberfformiad PCA unigol mewn unrhyw flwyddyn benodol, gydag esemptiadau ar gyfer chwe PCA (h.y. y 5% sy'n perfformio waethaf yn y DU) i fethu'r lefel darged heb sbarduno ymchwiliad, ac yn hytrach dim ond adolygu perfformiad dros nifer o flynyddoedd i atal tanberfformiad parhaus. [400] Ni chafodd yr awgrymiadau hyn eu cefnogi gan randdeiliaid eraill, gyda Consumer Scotland, er enghraifft, yn anghytuno'n benodol â syniad y Post Brenhinol ynghylch esemptiadau PCA bob blwyddyn wrth symud ymlaen, yng ngoleuni'r risgiau y byddai hyn yn eu hachosi i allu'r targed i ganfod a datgymell tanberfformiad.[401]

6.69 Cyflwynodd nifer o randdeiliaid geisiadau eraill am newidiadau i'r targed PCA a oedd y tu allan i gwmpas ein cynigion gwreiddiol, fel Pwyllgor Cynghori'r Alban yn gofyn i ni osod targedau gwahaniaethol ar gyfer PCAau unigol,[402] Consumer Scotland yn gofyn i ni ailasesu'r esemptiad presennol ar gyfer tri PCA penodol anodd eu cyrraedd,[403] neu Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn awgrymu ein bod yn gosod ail darged PCA o D+2 er mwyn diogelu post hwyr.[404]

6.70 Ar ben hynny, er nad mewn ymateb uniongyrchol i ailosod lefel y PCA, fe wnaethom nodi bod rhanddeiliaid wedi mynegi pryder ynghylch canlyniadau posibl newidiadau arfaethedig eraill i dargedau ar gyfer anghydraddoldebau daearyddol, rhwng rhanbarthau'r DU neu rhwng defnyddwyr trefol, gwledig ac anghysbell.

Ein hasesiad a'n penderfyniad

Mae'r targed PCA yn dal i chwarae rhan bwysig o ran cefnogi gwasanaeth cyffredinol, ond mae angen ei ailosod i adlewyrchu newidiadau i'r targed cenedlaethol

6.71 Gan ystyried yr ymatebion i'n Hymgynghoriad, a oedd yn cefnogi'n gryf rôl barhaus i'r targed PCA o ran cymell llinell sylfaen o wasanaeth cyfartal i unigolion a busnesau ledled y DU, rydym yn parhau i gredu y dylid cynnal y targed PCA fel rhan o'r fframwaith ansawdd gwasanaeth.

6.72 Heb darged PCA, mae perygl y gellid cyrraedd y prif darged cenedlaethol drwy orgyflawni mewn rhai ardaloedd ar draul eraill, gyda'r potensial i ddefnyddwyr mewn ardaloedd eraill gael lefelau gwasanaeth annigonol oherwydd diffyg cymhelliant i'r Post Brenhinol fuddsoddi mewn perfformiad llinell sylfaen. Yng nghyd-destun prif darged cenedlaethol is, rydym yn

[399] Ymateb Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol i Ymgynghoriad 2025, t.4; ymateb Pwyllgor Cynghori'r Alban i Ymgynghoriad 2025, t.5-6; ymateb y Ffederasiwn Busnesau Bach i Ymgynghoriad 2025, t.6; [✂]; ymateb Swyddfa'r Post Cyfyngedig i Ymgynghoriad 2025, t.17

[400] O ystyried bod y targed presennol yn berthnasol i 118 o PCAs, byddai esemptiad ar gyfer chwech yn cynrychioli 5% o'r PCAs.

[401] Ymateb Consumer Scotland i Ymgynghoriad 2025, t.13.

[402] Ymateb Pwyllgor Cynghori'r Alban i Ymgynghoriad 2025 t.6.

[403] Ymateb Consumer Scotland i Ymgynghoriad 2025, t.44.

[404] Ymateb Swyddfa'r Post Cyfyngedig i Ymgynghoriad 2025, tt.17-18.

nodi bod y risg hon hyd yn oed yn fwy, gan fod y potensial i orgyflawni yn erbyn targed is yn haws mewn egwyddor. Rydym hefyd wedi ystyried pryderon rhanddeiliaid ynghylch amrywiadau daearyddol a godwyd mewn ymateb i'n cynnig i ostwng y prif darged cenedlaethol wrth gyrraedd y safbwynt hwn.

6.73 Wrth edrych tua'r dyfodol, er ein bod yn cydnabod pryderon am ostyngiadau i dargedau, credwn mai'r dull cywir ar gyfer y targed PCA yw ailosod y lefel mewn ffordd sy'n cynnal y lefel bresennol o sensitifrwydd i danberfformiad yng nghyd-destun y targed perfformiad cenedlaethol diwygiedig. Rydym o'r farn bod hyn yn adlewyrchu sylwadau rhanddeiliaid ar werth yr amddiffyniad daearyddol a ddarperir gan y targed PCA presennol a phryderon am y targed cenedlaethol newydd yn arwain at ganlyniadau anghymesur o waeth i rai ardaloedd. Ar ben hynny, rydym yn rheoli'r risg o osod lefel rhy uchel fel bod y targed PCA yn tanseilio'r targed cenedlaethol.

Mae ein dull o ailosod lefel darged PCA yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r ddeinameg sy'n cyfrannu at amrywiad mewn ansawdd gwasanaeth ledled y DU

6.74 O ystyried y dystiolaeth sydd ar gael, gan gynnwys ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym yn dal o'r farn bod digwyddiadau ar hap yn cyfrannu at rywfaint o amrywiad naturiol yng nghanlyniadau PCA, a bod yr amrywiad naturiol hwn yn debygol o gynyddu ychydig ar lefelau perfformiad is.

6.75 At ei gilydd, mae canlyniadau PCA unigol yn debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol mewn unrhyw gyfnod penodol, gyda rhai'n gorgyflawni ac eraill yn tanberfformio. Mae hyn oherwydd bod cyfran nid ansylweddol o'r methiannau a'r oedi sy'n cyfrannu at berfformiad ansawdd gwasanaeth ar y lefel leol yn deillio o ddigwyddiadau ar hap fel tarfu oherwydd y tywydd neu drafnidiaeth sy'n digwydd yn annibynnol mewn gwahanol rannau o'r DU. Mae modd cynllunio ar gyfer y digwyddiadau hyn yn gyffredinol, a'u lliniaru drwy gynyddu'r byffer o adnoddau sydd ar gael i ddelio â tharfu ar hap, ond mae'n anoddach rhagweld pryd yn union a ble yn union byddant yn digwydd. Wedi dweud hynny, nid ydym yn derbyn nad oes modd rhagweld pob ffynhonnell methiant, ac nid ydym ychwaith yn derbyn nad yw'r Post Brenhinol yn gallu rheoli amrywiadau PCA.

6.76 Rydym yn dal i ddisgwyl, ar lefel is o berfformiad cenedlaethol, y byddai gwahaniaeth ychydig yn fwy rhwng y PCAs sy'n perfformio waethaf a'r PCAs sy'n perfformio orau, o'i gymharu â senario lle'r oedd y targed cenedlaethol presennol yn cael ei gyrraedd. Mae llawer o gostau cyflawni perfformiad uchel yn ymwneud â lliniaru effaith digwyddiadau niweidiol ar hap, drwy gynnwys byffer yn y system a dileu swyddi pan fydd pethau'n mynd o chwith. Byddem yn disgwyl i'r mathau o arbedion cost sy'n gysylltiedig â pherfformiad cenedlaethol is olygu bod PCAs unigol ychydig yn fwy agored i ddigwyddiadau ar hap sy'n effeithio ar ansawdd perfformiad eu gwasanaeth. Yn fwy cyffredinol, mae effaith hapddigwyddiadau ar berfformiad hefyd yn fwy ar lefel PCA nag ydyw ar lefel genedlaethol, oherwydd bod llai o gyfuno perfformiad ac oherwydd bod y ffactorau sy'n achosi amrywiadau mewn perfformiad yn gyffredinol yn anoddach eu rhagweld a'u rheoli ar lefelau mwy lleol. Er ein bod yn disgwyl i'r berthynas hon barhau, rydym yn ymwybodol y gallai amcangyfrif ar sail perfformiad yn y gorffennol wyro tuag at oramcangyfrif faint mae

amrywiad yn cynyddu, wrth ystyried cyfnodau o berfformiad diweddar lle rydym wedi gweld anghydraddoldebau anarferol sylweddol ar draws PCAs a rhanbarthau.[405]

Mae targed o 87% ar gyfer perfformiad PCA yn gosod llinell sylfaen gymesur

6.77 Yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad, a'n dealltwriaeth o amrywiad PCA, rydym wedi adolygu ein cynnig i ailosod lefel darged PCA mewn perthynas â'r amcanion a nodir yn Adran 2. Mae hyn yn cynnwys cefnogi canlyniadau i ddefnyddwyr sef cael gwasanaeth cyfartal ledled y DU, cynaliadwyedd ariannol y buddsoddiadau disgwyliedig yn ansawdd y gwasanaeth cyffredinol, a rôl y targed PCA i gefnogi gwasanaeth cyffredinol o ansawdd uchel, er mwyn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr.

6.78 Wrth wneud hynny, rydym wedi defnyddio'r berthynas bresennol rhwng y targedau cenedlaethol a'r targedau PCA i lywio ein hasesiad o sut mae cynnal sensitifrwydd ein targed sefydledig presennol. Rydym wedi defnyddio hyn fel meincnod ychwanegol i werthuso lefelau targed yn erbyn amcangyfrifon o amrywiadau disgwyliedig canlyniadau PCA ar y lefel is o berfformiad cenedlaethol a ganiateir gan y targed cenedlaethol diwygiedig.

6.79 Rydym hefyd wedi adlewyrchu'r defnydd sefydledig o gyfyngau hyder sy'n adlewyrchu ansicrwydd wrth fesur canlyniadau ansawdd gwasanaeth. Wrth farnu a ddylid ymchwilio i danberfformiad neu sefydlu achos o dorri amodau, rydym yn asesu a yw canlyniadau'r Post Brenhinol, wedi'u haddasu i ffin uchaf y cyfwng hyder, yn is na'r lefel darged. Yng nghyd-destun y targed PCA, lle mae'r canlyniadau'n destun cyfwng hyder rhwng 1% a 2%, mae hyn yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i ba mor heriol yw'r targed. Rydym yn nodi nad oedd dadansoddiad y Post Brenhinol a oedd yn sail i'w ymateb i'n Hymgynghoriad, a lefel darged llinell sylfaen is arfaethedig, wedi ystyried yr arfer sefydledig hwn.

6.80 O ystyried y berthynas rhwng y targedau cenedlaethol presennol a thargedau PCA, ac o ystyried ein defnydd sefydledig o gyfyngau hyder i roi mantais ansicrwydd mesur i ganlyniadau PCA, byddem yn disgwyl, os bydd perfformiad cenedlaethol o gwmpas y lefel darged bresennol, y gallem weld un PCA yn tanberfformio mewn perthynas â'r targed tua phob yn ail flwyddyn.[406] Mae'r lefel hon o sensitifrwydd yn caniatáu i'r targed PCA nodi tanberfformiad, y gellir ymchwilio i'w achosion wedyn i benderfynu a oes materion difrifol neu systemig y mae angen mynd i'r afael â nhw. Oherwydd y ffordd y gall digwyddiadau annisgwyl a materion sydd y tu hwnt i reolaeth resymol y Post Brenhinol effeithio'n fwy sylweddol ar berfformiad PCA, efallai y bydd amgylchiadau lliniarol hefyd sy'n golygu nad oes angen ymchwiliad, neu yn y pen draw nad oes achos o dorri rhwymedigaeth yn cael ei ganfod, yn enwedig os yw'r tanberfformio'n ymylol.

6.81 Yng nghyd-destun perfformiad ar lefel y prif darged cenedlaethol diwygiedig, sef tua 90%, byddem yn disgwyl i darged o 87% fod â'r sensitifrwydd mwyaf tebyg i'r targed PCA presennol, gan gynnal yr un disgwyliad y gallai'r targed ddal un PCA mewn rhai blynyddoedd. I'r gwrthwyneb, byddai'r trothwy PCA o 88.5% a gefnogir gan rai rhanddeiliaid yn debygol o ddal sawl PCA yn rheolaidd bob blwyddyn oherwydd amrywiad cudd mewn perfformiad, sy'n cynrychioli targed llawer mwy heriol gyda risgiau o danseilio'r prif darged cenedlaethol. Yn yr un modd, mae'r trothwy PCA o 86% a gynigir gan y Post Brenhinol yn

[405] I gael trafodaeth bellach ar amcangyfrif amrywiad PCA, gweler Atodiad A4.

[406] Caiff hyn ei gadarnhau'n gyffredinol gan brofiad blaenorol, sy'n dangos bod hyn wedi digwydd e.e. yn 2015/16 a 2016/17.

fwy tebygol o lacio'r warchodaeth ddaearyddol a ddarperir gan y targed PCA yn sylweddol, gan na fyddai'n debygol o ddal unrhyw danberfformiad PCA o un flwyddyn i'r llall.[407]

6.82 Gan ystyried deinameg perfformiad PCA, rôl y targed PCA fel targed ategol i'r targed cenedlaethol sylfaenol ar gyfer Dosbarth Cyntaf, a'n hamcanion polisi, **rydym wedi penderfynu ailosod y targed PCA i fynnu bod 87% o eitemau Dosbarth Cyntaf yn cael eu danfon o fewn un diwrnod gwaith (h.y. D+1) ym mhob ardal cod post yn y DU ar wahân i Hebrides (HS), Kirkwall (KW), and Lerwick (ZE).**

Nid ydym yn credu ei bod yn briodol newid yr esemptiadau i'r targed PCA fel bod nifer penodol o PCAau yn cael methu'r targed bob blwyddyn

6.83 Ar hyn o bryd, mae tri esemptiad i'r targed ar gyfer y PCAs sy'n cwmpasu Kirkwall (y tir mawr ac Ynysoedd Orkney), Hebrides Allanol, ac Ynysoedd Shetland, sy'n adlewyrchu pa mor anghysbell yw'r lleoliadau hyn a'r gofynion logistaidd o ran eu cyrraedd. Fe wnaethom edrych ar hyn yn ein Hadolygiad o Reoliadau'r Gwasanaeth Post yn 2022, gan benderfynu yn erbyn rhagor o reoleiddio.[408] Serch hynny, rydym yn dal o'r farn bod mesurau diogelu ar gael i ddefnyddwyr yn y meysydd hyn, gyda gofynion adrodd a disgwyliadau wedi'u gosod ar gyfer casgliadau a danfoniadau USO sy'n cyfrannu at asesu perfformiad ar lefel genedlaethol. Byddwn yn parhau i fonitro perfformiad ar draws y PCAs hyn, a hynny'n cael ei arwain gan y data sy'n cael ei rannu a'i gyhoeddi gan y Post Brenhinol yn rheolaidd o dan ein rheoliadau.

6.84 Rydym hefyd wedi asesu awgrym y Post Brenhinol y dylid caniatáu iddo fethu'r lefel darged mewn chwe PCA heb dorri ei rwymedigaethau, gan ystyried ymatebion rhanddeiliaid eraill i'r cynnig hwn. Rydym yn parhau i anghytuno â chynnwys nifer sylweddol o esemptiadau ar gyfer tanberfformiad mewn unrhyw flwyddyn benodol. Rydym o'r farn bod gormod o risg y byddai esemptiadau o'r math hwn yn rhoi'r posibilrwydd i'r un PCAs fethu mewn blynyddoedd olynol, gan danseilio ein gallu i ganfod a mynd i'r afael â methiannau untro neu barhaus, gyda defnyddwyr mewn rhai codau post neu ranbarthau yn wynebu canlyniadau gwasanaeth o ansawdd cyson isel.

6.85 Ar ben hynny, ar sail ein dadansoddiad o lefelau targed a ddisgrifir uchod, byddem yn disgwyl i esemptiad awgrymedig y Post Brenhinol i chwe PCA fethu targed o 86% bob blwyddyn heb sbarduno ymchwiliad, olygu na fyddai bron dim posibilrwydd o fethu ar yr amod bod y prif darged cenedlaethol yn cael ei gyrraedd. Yn ein barn ni, gallai'r math hwn o esemptiad gyfrannu at lacio'n amhriodol y warchodaeth ddaearyddol bwysig a ddarperir gan y targed PCA.

Targed 'post hwyr' Dosbarth Cyntaf newydd

Ein cynnig o D+3 99.5%

6.86 Yn ein Hymgynghoriad, roeddem yn cydnabod efallai na fydd anghenion defnyddwyr am ddibynadwyedd a sicrwydd danfon yn cael eu diwallu'n llawn gan y prif dargedau, ac y gallai diffyg cymhelliant i weithredu ar eitemau post hwyr fod wedi arwain at oedi sylweddol ac annisgwyl mewn rhai achosion.

[407] Disgrifir rhagdybiaethau dadansoddol perthnasol ymhellach yn Atodiad A4.
[408] Ofcom, 2022. Datganiad: Adolygu rheoliadau'r gwasanaeth post.

6.87 Fe wnaethom nodi y dylai targed post hwyr newydd gymell y Post Brenhinol i wella ei ddibynadwyedd, ar yr un pryd â darparu tryloywder a hyder i ddefnyddwyr post. Ein barn ni oedd y dylai'r lefel darged gwmpasu bron pob post, ac y dylai'r dyddiad y mesurir y gynffon fod yn seiliedig ar gyd-destun Dosbarth Cyntaf.

6.88 Fe wnaethom asesu amrywiaeth o opsiynau, gan gynnwys y rheini a gyflwynwyd gan y Post Brenhinol: 96% D+2, 99.5% ar D+2, 99.5% ar D+3, a 99% ar D+5. Gwnaethom bwyso a mesur sut byddai'r opsiynau hyn yn cyflawni nodau sy'n ymwneud ag anghenion defnyddwyr, cymell gwasanaeth o ansawdd uchel, yn ogystal â'r dystiolaeth sydd ar gael ar gymesuredd gwahanol lefelau targed o ran costau i'r Post Brenhinol ac effeithiau cysylltiedig posibl ar brisiau i unigolion a busnesau.

6.89 Ein casgliad dros dro oedd mai targed D+3 99.5% fyddai'n cyflawni'r nodau a nodwyd gennym orau, o ran cwmpasu bron pob post yn ogystal â chyfyngu'r gynffon i ddau ddiwrnod gwaith ar ôl y prif darged a gorfodi gwahanu rhwng gwasanaethau Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth.

Ymateb rhanddeiliaid i'n Hymgynghoriad

6.90 Roedd ymatebion gan fusnesau,[409] gweithredwyr mynediad ac anfonwyr post mynediad,[410] grwpiau defnyddwyr[411] a'r Post Brenhinol yn cefnogi rôl targedau post hwyr newydd i raddau helaeth, yn enwedig yng nghyd-destun gostyngiadau i'r prif darged. O ystyried y bydd cyfran ychydig yn uwch o bost yn cael methu'r targedau danfon yn brydlon (10%, i fyny o 7%), ystyriwyd bod targedau post hwyr newydd i orfodi ôl-stop ar oedi yn chwarae rhan yn y gwaith o wella canlyniadau i ddefnyddwyr a busnesau. Roedd llawer o'r ymatebion yn pwysleisio bod y targedau hyn yn cyd-fynd ag anghenion defnyddwyr o ran dibynadwyedd, a'r potensial i dargedau post hwyr roi hyder ychwanegol i anfonwyr a derbynwyr. Roedd CWU yn cydnabod bod llawer o wledydd tebyg eisoes yn defnyddio'r math hwn o darged i gyfyngu ar faint yr oedi.[412]

6.91 Roedd cydnabyddiaeth o'r rôl y gallai'r targedau post hwyr ei chwarae o ran cymell y Post Brenhinol i sicrhau ei fod yn gweithredu ar oedi ar gyfer eitemau sy'n methu eu prif darged.[413] Roedd rhai rhanddeiliaid yn gadarnhaol am y budd cymhelliant hwn, ond roeddent yn glir y dylai targedau post hwyr barhau i fod yn eilradd i'r targedau danfon prydlon, gan chwarae rôl gefnogol. [414] Roedd rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys rhai

[409] Ymateb y Ffederasiwn Busnesau Bach i Ymgynghoriad 2025, t.6; ymateb y Gymdeithas Data a Marchnata i Ymgynghoriad 2025, t.2; Ymateb y Greeting Card Association i Ymgynghoriad 2025, t.16.
[410] Ymateb Cymdeithas Defnyddwyr Post i Ymgynghoriad 2025, t.5., t.4; Ymateb Mail Competition Forum i Ymgynghoriad 2025, t.3; Ymateb y Bartneriaeth Bostio Strategol i Ymgynghoriad 2025, t.4; Ymateb UK Mail i Ymgynghoriad 2025, t.3; Ymateb The Delivery Group i Ymgynghoriad 2025, t.1.
[411] Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, t.38; ymateb Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon i Ymgynghoriad 2025, t.28.
[412] Ymateb Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu (CWU) i Ymgynghoriad 2025, t.14.
[413] Ymateb Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon i Ymgynghoriad 2025, t.28; Ymateb The Delivery Group i Ymgynghoriad 2025, t.1.
[414] Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, t.38.

busnesau,[415] grwpiau defnyddwyr[416] a rhai ymatebwyr unigol, yn fwy amheus, ac yn poeni y gallai targedau post hwyr yn lle hynny normaleiddio amseroedd danfon arafach a thanseilio'r cymhellion i'r Post Brenhinol gyrraedd y prif darged, yn enwedig os oedd diffyg eglurder o ran sut mae'r targedau'n cael eu gorfodi.

6.92 Roedd rhanddeiliaid hefyd yn croesawu budd tryloywder y targedau post hwyr arfaethedig i raddau helaeth, gyda CCP-ACOD, yn benodol, yn awgrymu y dylai fod yn ofynnol i'r Post Brenhinol gyhoeddi ei berfformiad post hwyr ond na ddylai orfod cyrraedd lefel darged benodol.[417] Roedd eraill yn llai argyhoeddedig o'r budd tryloywder, a chyfeiriwyd at y risg y byddai defnyddwyr yn drysu ynghylch y safonau gwasanaeth perthnasol.[418]

6.93 Cododd y Post Brenhinol dystiolaeth fanwl newydd am ymarferoldeb gweithredol blaenoriaethu adfer eitemau a oedd wedi'u hoedi, gan ddweud bod natur integredig ei weithrediadau'n golygu mai prin yw'r cyfleoedd i fuddsoddi mewn gwella perfformiad post hwyr heb wella'r prif berfformiad hefyd. Nododd y Post Brenhinol y byddai ein lefel darged arfaethedig yn anghyson â'r gostyngiad yn y prif darged yn y fath fodd fel y byddai, i bob pwrpas, yn ofynnol iddo gyflawni'n uwch na 90% D+1 er mwyn cyrraedd y lefel darged arfaethedig ar gyfer post hwyr. Dywedodd y Post Brenhinol hefyd y byddai'r buddsoddiad hwn mewn prif perfformiad yn dod ar gost sylweddol ac na fyddai'n siŵr o gyflawni'r lefel arfaethedig o berfformiad ar gyfer post hwyr beth bynnag.[419] Dadleuodd Unite CMA hefyd y byddai cymhlethdod gweithrediadau yn golygu na fyddai'r lefelau targed arfaethedig yn ymarferol, gan wneud methiant yn anochel.[420]

6.94 Yng ngoleuni pwysigrwydd cyfyngu ar oedi, yn enwedig ar gyfer post Dosbarth Cyntaf, awgrymodd rhai rhanddeiliaid, gan gynnwys busnesau,[421] sefydliadau eraill[422] a rhai unigolion, nad oedd cynnig ein Hymgynghoriad yn ddigon heriol. Roedd rhai'n cynnig ein bod yn gosod y targed ar gyfer post hwyr Dosbarth Cyntaf ar 99.5% D+2 neu 99.9% D+3. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at faint o bost fyddai'n dal yn cael ei ddanfon yn arafach na D+3 o dan ein cynnig, a'r niwed posibl sy'n deillio o hynny. Roedd rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys rhai darparwyr post mynediad ac anfonwyr post mynediad, yn awgrymu bod gan y Post Brenhinol fwy o allu i wella post hwyr ac efallai y bydd yn gallu cyrraedd lefelau mwy heriol o dan fodel gweithredol USO newydd.

6.95 Roedd amrywiaeth o ymatebwyr ac unigolion o blaid y lefel rydyn ni'n ei chynnig, gan nodi bod 99.5% yn darged uchel, a bod D+3 yn ffin synhwyrol ar gyfer danfon eitemau Dosbarth

---

[415] Ymateb Quadient i Ymgynghoriad 2025, t.5; Ymateb Mail Competition Forum i Ymgynghoriad 2025, t.3.
[416] Ymateb Pwyllgor Cynghori'r Alban i Ymgynghoriad 2025, t.6; ymateb Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon i Ymgynghoriad 2025, t.8; ymateb Consumer Scotland i Ymgynghoriad 2025, t.61; ymatebion ymgyrch We Own It i Ymgynghoriad 2025.
[417] Ymateb CCP-ACOD i Ymgynghoriad 2025, t.7.
[418] Ymateb Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon i Ymgynghoriad 2025, t.8; Ymateb Swyddfa'r Post Cyfyngedig i Ymgynghoriad 2025, tt.18-19.
[419] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, tt.24-32.
[420] Ymateb Unite CMA i Ymgynghoriad 2025, tt.21-22.
[421] Ymateb Swyddfa'r Post Cyfyngedig i Ymgynghoriad 2025, tt.18-19; ymateb Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri i Ymgynghoriad 2025, t.4; ymateb UK Mail i Ymgynghoriad 2025, t.3; ymateb CFH Docmail Limited i Ymgynghoriad 2025, t.4; ymateb Citipost Mail i Ymgynghoriad 2025, t.7; ymateb Ffederasiwn y Busnesau Bach i Ymgynghoriad 2025, t.6; ymateb Tesco Bank i Ymgynghoriad 2025, t.3.
[422] []; Ymateb Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol i Ymgynghoriad 2025, t.4; ymateb Democratiaid Rhyddfrydol Argyll a Bute i Ymgynghoriad 2025, t.2.

Cyntaf wedi'u gohirio. [423] Wedi dweud hynny, nododd rhai fod D+3 yn hael, gan ganiatáu dau ddiwrnod danfon ychwanegol ar gyfer adfer post a oedd wedi'i oedi.[424]

6.96 I'r gwrthwyneb, mae'r Post Brenhinol ac Unite CMA ill dau yn nodi eu barn bod y lefel darged arfaethedig o 99.5% D+3 yn rhy heriol, ac yng ngoleuni'r dystiolaeth weithredol a nodir, na fyddai'n gymesur nac o reidrwydd yn gyraeddadwy. Amcangyfrif y Post Brenhinol o'r costau sy'n gysylltiedig â chyflawni ein targed arfaethedig ar gyfer post hwyr oedd £120m-£180m y flwyddyn ac amcangyfrifodd y byddai'n debygol y byddai buddsoddiad o'r fath hefyd yn codi'r prif berfformiad i 93% D+1.

6.97 Cafwyd cais hefyd am adolygiad o lefelau targedau post hwyr yn ystod y flwyddyn gyntaf oherwydd ansicrwydd ynghylch gweithrediadau yn y dyfodol,[425] yn ogystal â cheisiadau eraill am reoleiddio post hwyr ychwanegol y tu hwnt i gwmpas ein cynnig (e.e. cysylltu targedau post hwyr ag iawndal,[426] adroddiadau ychwanegol ar berfformiad post hwyr ar lefel PCA,[427]neu darged post hwyr ychwanegol y mae'n rhaid ei gyrraedd ym mhob PCA).[428]

Ein hasesiad a'n penderfyniad

Dylai fframwaith ansawdd y gwasanaeth fod yn fwy ymatebol i anghenion defnyddwyr o ran dibynadwyedd

6.98 Rydym yn gwybod bod dibynadwyedd danfon yn flaenoriaeth i ddefnyddwyr. Mae cael sicrwydd am sut bydd post yn cael ei ddanfon yn gyson yn mynd y tu hwnt i ddeall a fydd post yn cael ei ddanfon ar y dyddiad targed. Mae hefyd yn gofyn am ddealltwriaeth o'r ffenestr pan fydd eitem o bost yn debygol o gyrraedd, gan ei bod yn anochel bod rhywfaint o bost yn cael ei ddanfon yn gynnar, a rhywfaint yn hwyr. Mae gwneud y ffenestr hon mor gul a rhagweladwy â phosibl yn rhan bwysig o sicrhau gwasanaeth dibynadwy.

6.99 Er bod y targedau ansawdd gwasanaeth presennol yn mesur cyfran y post a ddanfonir yn ôl y fanyleb (h.y. ar amser), nid ydynt yn rhoi unrhyw dryloywder i ddefnyddwyr nac yn cymell y Post Brenhinol mewn perthynas ag eitemau sydd wedi methu eu dyddiad cyrraedd. Dylai targed newydd greu mesurau diogelu i ddefnyddwyr drwy osod ôl-stop ar gyfer eitemau sy'n methu'r targed prydlondeb (hyd at tua 10% o dan ein prif darged newydd). Dylai hefyd alluogi mwy o dryloywder ynghylch y gwasanaeth y mae defnyddwyr yn talu amdano, a faint o oedi y gallent ei ddisgwyl pe bai eitem yn methu ei phrif darged. Yn rhyngwladol, mae amrywiaeth o wledydd tebyg yn defnyddio targedau eilaidd a osodir ar ddyddiad hwyrach na'r prif darged prydlondeb[429]. Gan ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar bwysigrwydd dibynadwyedd, a'r cytundeb cyffredinol y gallai targed sy'n canolbwyntio ar

[423][✂]; ymateb BBS i Ymgynghoriad 2025, t.2; ymateb y Gymdeithas Data a Marchnata i Ymgynghoriad 2025, t.2 ; ymateb Greeting Card Association i Ymgynghoriad 2025, t.16; [✂]; ymateb Cymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol i Ymgynghoriad 2025, t. 3; Ymateb The Delivery Group i Ymgynghoriad 2025, t.1; ymateb Welsh Football Magazine i Ymgynghoriad 2025, t.2; ymateb Whistl i Ymgynghoriad 2025, t.2; [✂]
[424]Ymateb CCP-ACOD i Ymgynghoriad 2025, t.7.
[425]Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, t.42.
[426]Ymateb Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon i Ymgynghoriad 2025, t.28; Ymateb Swyddfa'r Post Cyfyngedig i Ymgynghoriad 2025, tt.17-18.
[427] Ymateb Consumer Scotland i Ymgynghoriad 2025, t.61.
[428]Ymateb Swyddfa'r Post Cyfyngedig i Ymgynghoriad 2025, tt.17-18.
[429] Cullen International, 2024: USO Quality Transit Times

ddibynadwyedd roi hyder ychwanegol i unigolion a busnesau, rydym yn cynnal ein barn am werth targed newydd.

Dylai targed newydd ategu rhwymedigaethau presennol y Post Brenhinol, gan ganolbwyntio ar alluogi mwy o dryloywder a chymhellion i weithredu ar oedi

6.100 Ein hasesiad o ragor o wybodaeth a gyflwynwyd gan randdeiliaid mewn ymateb i'n Hymgynghoriad yw bod cefnogaeth i agweddau tryloywder a chymhelliant y targedau post hwyr. Rydym yn nodi pryderon ynghylch y targedau newydd hyn yn creu cymhellion mwy cymhleth i'r Post Brenhinol a allai danseilio'r prif dargedau. Fodd bynnag, y prif dargedau ar gyfer danfon yn brydlon fydd y prif dargedau y bydd y Post Brenhinol yn atebol iddynt o hyd, ac mae gennym ddigon o ddisgresiwn o dan ein pwerau gorfodi i'n galluogi i addasu ein dull gweithredu ar gyfer amgylchiadau penodol unrhyw fethiannau yn y dyfodol mewn ffordd a fydd yn gwasanaethu buddiannau defnyddwyr orau. Er ein bod yn cydnabod rhai pryderon ynghylch dryswch defnyddwyr ynghylch targedau perthnasol, rydym o'r farn bod y fantais tryloywder o gael gwell dealltwriaeth o berfformiad y Post Brenhinol o ran eitemau post prydlon ac wedi'u gohirio yn drech na'r risg o hyn.

6.101 Rydym hefyd wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch i ba raddau y gall y Post Brenhinol gymryd camau i wella perfformiad post hwyr yn annibynnol heb godi'r perfformiad danfon yn brydlon hefyd. Roedd y dystiolaeth a nodwyd yn ymateb y Post Brenhinol i'r ymgynghoriad yn dangos bod ganddo rywfaint o hyblygrwydd, er ei fod yn llai na'r hyn roeddem yn ei ddeall yn flaenorol. Nododd y Post Brenhinol fod ganddo fesurau cadernid gweithredol busnes fel arfer sy'n mynd i'r afael ag oedi gyda phost ac mae wedi nodi ac wedi gwneud buddsoddiadau o'r blaen i dargedu post hwyr. Fodd bynnag, nododd fod mesurau o'r fath yn gyfyngedig.[430] Er nad ydym yn derbyn nad yw'r Post Brenhinol yn gallu cymryd unrhyw gamau penodol i atal, lliniaru na mynd i'r afael ag amlder na hyd yr oedi, rydym o'r farn bod cwmpas y camau gweithredu sydd ar gael i'r Post Brenhinol yn debygol o fod yn gymharol gyfyngedig o'i gymharu â chamau gweithredu sydd hefyd yn codi'r prif berfformiad.

6.102 Ein barn ni yw y dylai'r targed fod yn sensitif i faterion sy'n ymwneud yn benodol â dibynadwyedd, e.e. oedi estynedig ac anrhagweladwy, yn hytrach na thanberfformiad danfon yn brydlon, sy'n cael ei dracio gan y prif darged. Er ein bod o'r farn yn gyffredinol y dylai'r Post Brenhinol ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'w ddefnyddwyr, ni fyddai'n briodol i'r targed post hwyr hwn orfodi gofyniad de facto ar gyfer danfon yn brydlon sy'n uwch na'r prif darged. Mae ein safbwynt ar hyn hefyd yn ystyried pryderon rhanddeiliaid ynghylch y risgiau posibl y gallai targedau post hwyr danseilio'r prif dargedau presennol. Gallai'r math hwn o darged post hwyr sydd wedi'i gam-alinio arwain at ganslo'r manteision a ragwelir o adolygu'r prif darged i 90%, gan gynnwys cost sylweddol i'r Post Brenhinol, a allai gyfrannu at brisiau uwch i ddefnyddwyr. Nid oes gennym amcangyfrifon manwl gywir o'r costau cynyddrannol sy'n gysylltiedig â gwahanol lefelau ansawdd gwasanaeth, yn enwedig ar gyfer newidiadau bach ymylol mewn lefelau dibynadwyedd. Serch hynny, rydym yn ystyried bod yr wybodaeth rydym wedi'i chael gan y Post Brenhinol yn arwydd o raddfa debygol y costau. Mae'r Post Brenhinol wedi amcangyfrif y gallai cyrraedd targed o 99.5% ar gyfer D+3 olygu bod angen buddsoddiadau rhwng £120m a £180m y flwyddyn o bosibl, oherwydd bod y targed post hwyr hwn i bob pwrpas yn gofyn am berfformiad uwch o ran y

[430] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, tt.28-30.

prif darged. Mae wedi amcangyfrif o'r blaen y gallai cynnal y lefel hon o fuddsoddiad mewn ansawdd olygu bod angen trosglwyddo costau i ddefnyddwyr drwy godi prisiau'n sylweddol [✂].

6.103 Er nad ydym yn derbyn nad yw'r Post Brenhinol yn gallu cymryd unrhyw gamau penodol i atal, lliniaru na mynd i'r afael ag amlder na hyd yr oedi, rydym o'r farn bod cwmpas y camau gweithredu sydd ar gael i'r Post Brenhinol yn debygol o fod yn gymharol gyfyngedig o'i gymharu â chamau gweithredu sydd hefyd yn codi'r prif berfformiad.

6.104 O ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd gan y Post Brenhinol, yn enwedig ar y berthynas gymharol sefydlog rhwng y prif berfformiad a pherfformiad post hwyr, rydym yn disgwyl y dylai buddsoddiadau arfaethedig i gyrraedd y prif lefel Dosbarth Cyntaf newydd o 90% hefyd wella dibynadwyedd i ddefnyddwyr o'i gymharu â'r gwasanaeth presennol sy'n cael ei ddarparu. Yn unol â hynny, pan fydd y rhwydwaith yn gweithredu'n gyson, ni fyddem yn disgwyl i'w berfformiad ar D+3 ostwng llawer yn is na'r lefel sy'n gysylltiedig â pherfformiad o 90% ar gyfer D+1. Os bydd yn gwneud hynny, gallai hyn ddangos problemau posibl o ran dibynadwyedd y mae angen mynd i'r afael â nhw drwy'r ysgogiadau gweithredol sydd ar gael i'r Post Brenhinol.

Bydd targed post hwyr sydd wedi'i osod ar D+3, ac sy'n mynnu bod 99% o bost yn cael ei ddanfon, yn sensitif i faterion dibynadwyedd ar yr un pryd â chwarae rhan ategol i'r prif dargedau ar gyfer danfon yn brydlon

6.105 Rydym yn dal o'r farn mai D+3 yw'r amserlen fwyaf priodol ar gyfer y targed post hwyr hwn, er ein bod wedi penderfynu gosod lefel darged o 99%, sydd ychydig yn is na chynnig ein Hymgynghoriad, sef 99.5%. Yn ein barn ni, mae'r cyfuniad hwn o lefel a diwrnod danfon targed yn creu cydbwysedd mwy cymesur rhwng creu'r cymhellion iawn i'r Post Brenhinol ddarparu gwasanaeth dibynadwy o ansawdd uchel, a lleihau'r risg i gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol, a fydd yn cefnogi canlyniadau gwell i ddefnyddwyr.

6.106 Ar gyfer Dosbarth Cyntaf, mae'r dyddiad targed post hwyr o D+3 yn adlewyrchu orau anghenion defnyddwyr o ran dibynadwyedd yng nghyd-destun gwasanaeth blaenoriaeth. Yn benodol, dylai olygu nad oes bron dim post Dosbarth Cyntaf yn cael ei ddanfon yn hwyrach nag Ail Ddosbarth. Dylai hyn gefnogi'r gwerth a'r gwahaniaeth rhwng gwasanaethau USO blaenoriaeth a safonol. Ar yr un pryd, gan ei fod yn caniatáu dau ddiwrnod arall ar ôl y prif darged lle gall y Post Brenhinol adfer a danfon post sydd wedi'i oedi, mae'n rhesymol ei baru â lefel darged uchel.

6.107 Mae rhai rhanddeiliaid wedi eirioli dros ddyddiadau targed eraill a osodwyd naill ai'n gynharach neu'n hwyrach na D+3, ond rydym yn parhau i fod â phryderon am y ddau ddull. Yn ein Hymgynghoriad, fe wnaethom nodi, er bod gan rai gwledydd darged post hwyr D+2 ar gyfer gwasanaethau'r diwrnod canlynol, mae'r rhain fel arfer yn cael eu paru â lefelau targed is ac felly'n dal cyfran is o eitemau hwyr. Rydym yn cydnabod bod rhai rhanddeiliaid yn anghytuno bod yna gyfaddawd o'r fath rhwng dyddiadau targed cynharach a lefelau targed is, ond nid ydym wedi gweld digon o dystiolaeth y byddai lefelau targed mor uchel, a osodir mor fuan ar ôl y prif darged, yn gyraeddadwy ac yn gymesur. Er bod y Post Brenhinol wedi gofyn am darged post hwyr hwyrach, rydyn ni'n dal yn poeni y byddai gosod dyddiad targed ar D+4 neu D+5 yn golygu y gellid danfon post Dosbarth Cyntaf hwyr yn arafach na phost Ail Ddosbarth, ac na fyddai nifer y diwrnodau gwaith ychwanegol i ddanfon post Dosbarth Cyntaf hwyr (e.e. tri ar gyfer D+4) yn cyd-fyn â natur diwrnod nesaf y gwasanaeth blaenoriaeth.

6.108 O ran y lefel darged, ar ôl ystyried gwybodaeth newydd am ddeinameg gweithredol a chost sy'n ymwneud â phost hwyr, rydym nawr o'r farn y gallai ein cynnig yn yr Ymgynghoriad, sef 99.5% D+3, greu risgiau ychwanegol sy'n mynd yn groes i fuddiannau defnyddwyr. Y rheswm am hyn yw y byddai'r targed hwn yn debygol o greu'r angen am fuddsoddiad ychwanegol sylweddol, y byddai angen ei adfer drwy brisiau uwch a/neu greu risgiau pellach i gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol. Rydym felly wedi ailasesu ar ba lefel y byddai'r targed post hwyr yn sensitif i faterion dibynadwyedd gan osgoi'r angen am lefel prif berfformiad de facto sy'n uwch na'r prif darged. Mae'r Post Brenhinol wedi nodi, wrth gyflawni Dosbarth Cyntaf 90% D+1, bod ei amcangyfrif canolog o berfformiad cysylltiedig ar D+3 ychydig yn uwch na 99% [✂], a bod ei amcangyfrif canolog o berfformiad cysylltiedig ar D+4 ychydig yn uwch na 99.5% [✂].[431] Mae'r Post Brenhinol wedi nodi bod rhywfaint o ansicrwydd ynghylch faint o ddibyniaeth y gellir ei rhoi ar y gorffennol i lywio'r farn am berfformiad yn y dyfodol. Ar sail data perfformiad yn y gorffennol, ac wrth ystyried agweddau ar ddadansoddiad y Post Brenhinol a allai danamcanu perfformiad post hwyr, rydym o'r farn y gallai'r Post Brenhinol gyflawni'r lefelau hyn o leiaf, os nad perfformiad post hwyr ychydig yn uwch.[432] Ar y sail hon, rydym o'r farn bod targed o 99% D+3 yn cynrychioli lefel wedi'i graddnodi'n fwy priodol ar gyfer y targed o ran y dylai barhau i fod yn sensitif i fethiannau o ran dibynadwyedd fel oedi estynedig, ar yr un pryd â bod yn llawer llai tebygol na tharged 99.5% D+3 o arwain at lefel anghynaladwy o gost i'r Post Brenhinol ac felly prisiau uwch o bosibl i ddefnyddwyr. Nodwn, fodd bynnag, fod y Post Brenhinol wedi egluro nad yw wedi cynnal unrhyw amcangyfrifon o gostau sy'n gysylltiedig â'n lefelau targed terfynol ac mae wedi pwysleisio nad yw amcangyfrif costau cynyddrannol yn wyddor fanwl. Yn gryno, rydyn ni'n credu bod targed D+3 o 99% yn ystyrlon ac yn ddigon heriol a bod modd i'r Post Brenhinol ei gyflawni pan fydd yn cyrraedd y prif darged o 90% ar gyfer D+1.

6.109 Rydyn ni'n cydnabod y pryderon y mae'r Post Brenhinol wedi'u mynegi ynghylch targed D+3 o 99%, sef y byddai'n amcanu mai dim ond tua 76% o siawns y byddai ganddo o gyflawni'r lefel hon o berfformiad post hwyr wrth gyrraedd y prif darged o 90% D+1, ac ar y sail honno, mae'n dweud y byddai'n afrealistig. Fodd bynnag, rydym yn nodi nad yw'r tebygolrwydd amcangyfrifiedig hwn yn cyfrif am y defnydd sefydledig o gyfyngau hyder wrth benderfynu'n ffurfiol a yw'r lefel darged wedi'i chyrraedd, sy'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd y targed yn cael ei gyrraedd o'i gymharu ag amcangyfrif y Post Brenhinol.[433] Gan addasu ar gyfer hyn, ac ystyried agweddau eraill ar ddadansoddiad y Post Brenhinol a allai, yn ein barn ni, fod yn tanamcanu perfformiad post hwyr, rydym o'r farn y byddai'r Post Brenhinol yn fwy tebygol (92%-99% o siawns) o gyrraedd y targed hwn pan fo

[431] Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 27 Mai 2025.

[432] Gweler Atodiad A4 am esboniad pellach o'r gwahaniaethau methodolegol sy'n arwain at ddisgwyliad o'r potensial ar gyfer perfformiad uwch y cyfeirir ato yma

[433] Fel y disgrifir uchod mewn perthynas â'r targed PCA, mae perfformiad y Post Brenhinol yn cael ei fesur drwy sampl o eitemau post, ac felly mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch ei berfformiad gwirioneddol a allai fod ychydig yn uwch neu'n is na'r canlyniadau a fesurwyd. Felly, mae cyfwng hyder ynghylch canlyniadau mesuredig yn cael ei ystyried i sicrhau nad yw'r Post Brenhinol yn cael ei gosbi mewn senarios lle gallai ei berfformiad gwirioneddol fod wedi cyrraedd lefelau targed. Gan fod y byffer hwn yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd wrth benderfynu'n ffurfiol ar gydymffurfiaeth, mae'n codi'r holl ganlyniadau perfformiad i bob pwrpas, sy'n gallu gwneud gwahaniaeth nad yw'n ddibwys mewn achosion ymylol fel canlyniadau ar lefelau perfformiad uchel.

ar 90% D+1, pan fydd problemau dibynadwyedd yn absennol yn ei weithrediadau. Rydym o'r farn na fyddai lefelau targed hyd yn oed yn is (e.e. 98.5% D+3 neu 99% D+4) yn debygol o fod yn ddigon sensitif i faterion dibynadwyedd ac y gallent ddarparu amddiffyniad annigonol i ddefnyddwyr, sy'n cynrychioli lefel gwasanaeth debyg (neu is efallai) i'r prif darged presennol ar gyfer Ail Ddosbarth.

6.110 O ystyried rôl ddisgwyliedig targed post hwyr sy'n cael ei ystyried yn darged ategol i gefnogi dibynadwyedd, ein penderfyniad yw **cyflwyno targed post hwyr Dosbarth Cyntaf newydd sy'n mynnu bod 99% o eitemau'n cael eu danfon o fewn tri diwrnod (h.y. D+3).**

Rydym yn cydnabod yr angen am orfodaeth gydlynol a rhagweladwy

6.111 Ein disgwyliad ar gyfer gorfodi'r targed post hwyr mewn perthynas â'r prif darged yw bod y rhain ar wahân ond yn ategu ei gilydd, gyda nodau penodol. Y prif darged ar gyfer danfon post yn brydlon yw'r prif darged cyffredinol i sicrhau bod defnyddwyr yn cael y gwasanaeth maen nhw'n talu amdano mewn ffordd ddibynadwy. I'r gwrthwyneb, mae'r targed post hwyr yn ceisio sicrhau, lle nad yw eitemau'n cael eu danfon ar amser, nad yw defnyddwyr yn profi oedi estynedig neu annisgwyl. O ystyried y gwahaniaeth mewn amcanion, byddem yn ceisio eu gorfodi yn unol â hynny gan ddisgwyl bod y Post Brenhinol yn cydymffurfio â'r ddau darged.

6.112 Bydd y ddau darged, ynghyd â'r targed PCA a thargedau eraill sy'n rhan o'r fframwaith ansawdd gwasanaeth, yn cael eu gorfodi'n bragmatig yn unol â'n dull gweithredu sefydledig. Fel y nodir yn y canllawiau, mae ein dull gweithredu yn rhoi disgresiwn i ymchwilio i achosion methiant, gan ystyried unrhyw ffactorau lliniaru perthnasol, yn gyffredinol.

Y targed cenedlaethol D+3 Ail Ddosbarth

Ein newid arfaethedig o 98.5% i 95%

6.113 Fe wnaethom egluro yn ein Hymgynghoriad bod newidiadau i'r model danfon Ail Ddosbarth ar gyfer llythyrau yn debygol o'i gwneud hi'n anoddach sicrhau'r un lefel o ansawdd heb fuddsoddiad pellach, yn bennaf oherwydd bod llai o gyfleoedd i ddanfon llythyrau cyn D+3, yn ogystal â mwy o ddibyniaeth ar ddanfon llythyrau'n llwyddiannus ar yr adegau hyn o dan y model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos.

6.114 O ystyried y risgiau sylweddol i gynaliadwyedd ariannol hirdymor y gwasanaeth cyffredinol, a manyleb yr USO sydd ar hyn o bryd yn mynd y tu hwnt i anghenion defnyddwyr o ran amlder danfon Ail Ddosbarth, ein barn dros dro oedd bod cyfiawnhad dros newidiadau i dargedau ansawdd gwasanaeth Ail Ddosbarth er mwyn osgoi tanseilio arbedion cost posibl symud i fodel danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth.

6.115 Fe wnaethom asesu effaith debygol y newid i ddanfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos ar ansawdd gwasanaeth Ail Ddosbarth, er mwyn penderfynu ar newid cymesur i'r targed. Ein casgliad dros dro oedd y byddai newid y targed i 95% D+3 yn adlewyrchu'r addasiad i'r model danfon, gan gadw lefel uchel o wasanaeth i ddefnyddwyr yn y pen draw.

Ymateb rhanddeiliaid i'n Hymgynghoriad

6.116 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn anghytuno â'n cynnig am darged Ail Ddosbarth o 95%. Roedd sylwadau rhanddeiliaid yn adlewyrchu'n bennaf bryderon am y gostyngiad

cydamserol yn amlder danfon llythyrau Ail Ddosbarth a'r targed ansawdd gwasanaeth, yr oedd llawer o randdeiliaid yn ei ystyried yn niweidiol i hyder defnyddwyr yn nibynadwyedd post. Yn y cyd-destun hwn, dywedodd nifer o randdeiliaid y dylid cadw neu godi'r targed presennol o 98.5%[434] er mwyn caniatáu mwy o ddibynadwyedd ar adeg pan fydd yr amlder danfon yn cael ei ostwng.[435]

6.117 Roedd pryder a fynegwyd yn eang yn ymwneud â'r newidiadau i'r targed Ail Ddosbarth sy'n normaleiddio cyflymder danfon arafach a safonau ansawdd gwasanaeth gwannach, a dywedodd rhai ymatebwyr y byddai'n cael effaith negyddol ar ddanfon eitemau sy'n sensitif i amser fel post etholiadol neu gardiau cyfarch.[436] Er enghraifft, dywedodd [✂] fod 55% o'i holl ymholiadau gan gwsmeriaid yn ystod y tair blynedd diwethaf yn ymwneud â danfon yn hwyr neu beidio â danfon gan y Post Brenhinol, a dywedodd fod hynny'n niweidio ymddiriedaeth defnyddwyr yn y Post Brenhinol a busnesau sy'n dibynnu ar ddanfoniadau sy'n sensitif i amser.[437] Yn yr un modd, mynegodd y Comisiwn Etholiadol bryderon y gallai oedi mewn gohebiaeth sy'n gritigol o ran amser i bleidleiswyr atal etholwyr rhag bwrw eu pleidleisiau mewn etholiad.[438]

6.118 Dadleuodd un rhanddeiliad dros darged is. Awgrymodd Unite CMA y dylid gosod targed ansawdd gwasanaeth Ail Ddosbarth ar 85% a'i gynyddu'n raddol i 95% dros gyfnod o 2-3 blynedd. Dywedodd y byddai lefel darged o 85% yn caniatáu llwybr mwy realistig a chynaliadwy at wella ansawdd na lefel darged o 95%, a oedd, yn ei farn ef, yn rhoi straen gweithredol ar y Post Brenhinol.[439]

6.119 Roedd rhai ymatebwyr yn cytuno â'n cynigion i addasu'r targed Ail Ddosbarth i 95%. Ystyriwyd bod targed diwygiedig yn ateb ymarferol a phriodol i ailgydbwyso newidiadau yn anghenion a dewisiadau defnyddwyr.[440] Roedd rhanddeiliaid eraill o'r farn y byddai'r lefel darged yn adlewyrchu'r gostyngiad yn nifer y cyfleoedd danfon ar gyfer post Ail Ddosbarth o dan y model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos.[441]

6.120 Roedd nifer o'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn dibynnu ar ddanfon post busnes a marchnata yn brydlon yn credu bod targed o 95% yn ddigon uchel i sicrhau bod post o'r fath yn cyrraedd yn brydlon,[442] ac roedd eraill yn teimlo'n hyderus y byddai'r targedau post hwyr Ail Ddosbarth yn rhoi sicrwydd ychwanegol o ran dibynadwyedd.[443]

---

[434] Er enghraifft: Ymateb CFH Docmail Limited i Ymgynghoriad 2025, t.4; ymateb y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol i Ymgynghoriad 2025, t.4; ymateb Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon i Ymgynghoriad 2025, t.27.
[435] Er enghraifft: Ymateb BBS i Ymgynghoriad 2025, t.2; ymateb Welsh Football Magazine i Ymgynghoriad 2025, t.2; ymateb Cymdeithas Defnyddwyr Post i Ymgynghoriad 2025, t.5.
[436] Er enghraifft: Ymateb Abacus Cards i Ymgynghoriad 2025, t. 1; Ymateb y Greeting Cards Association i Ymgynghoriad 2025, t.16; [✂]
[437] [✂]
[438] Ymateb y Comisiwn Etholiadol i Ymgynghoriad 2025, t.2.
[439] Ymateb CMA i Ymgynghoriad 2025, tt.23-24.
[440] Er enghraifft: Ymateb CCP-ACOD i Ymgynghoriad 2025, tt.7-8.
[441] Er enghraifft: Ymateb Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol i Ymgynghoriad 2025, t.5.
[442] Er enghraifft: Ymateb Data and Marketing Association (DMA) i Ymgynghoriad 2025, t.2; Ymateb y Bartneriaeth Bostio Strategol i Ymgynghoriad 2025, t.4.
[443] Er enghraifft: Ymateb Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol i Ymgynghoriad 2025, t.5.

6.121 Roedd y Post Brenhinol yn cytuno â'n cynnig i ailgydbwyso'r targed Ail Ddosbarth i 95%, gan ddweud ei fod yn adlewyrchu'r model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos a'i fod yn cyd-fynd â thargedau a osodwyd gan reoleiddwyr post mewn gwledydd eraill.[444]

Ein hasesiad a'n penderfyniad

Byddai targed Ail Ddosbarth o 98.5% yn anoddach ei gyflawni o dan y model danfon newydd ac, os na chaiff ei addasu, byddai'n arwain at gostau ychwanegol

6.122 Gan ystyried ymatebion rhanddeiliaid a'r dystiolaeth sydd ar gael, rydym yn dal o'r farn y byddai cadw'r targed presennol o 98.5% yn rhoi mwy o faich ar y Post Brenhinol o dan y model danfon diwygiedig ar gyfer eitemau Ail Ddosbarth nag y mae'r targed ar hyn o bryd.

6.123 Yn ein Hymgynghoriad, fe wnaethom egluro y byddai'r targed Ail Ddosbarth presennol o 98.5% yn llawer anoddach ei gyflawni o dan y model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Y rheswm am hyn yw bod gan y Post Brenhinol lai o gyfleoedd i geisio danfon eitemau Ail Ddosbarth o fewn tri diwrnod gwaith, ac rydym yn disgwyl y byddai hyn yn effeithio ar ei berfformiad.

6.124 Fel y disgrifir yn Adran 5, mae'r model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos yn golygu y byddai pob cyfeiriad danfon yn cael ei wasanaethu bob yn ail ddiwrnod rhwng dydd Llun a dydd Gwener, gyda phatrwm bob yn ail wythnos rhwng danfon ar ddydd Llun, dydd Mercher, dydd Gwener, a danfon ar ddydd Mawrth a dydd Iau. Gan ddibynnu ar ba bryd y bydd llythyr Ail Ddosbarth yn cael ei bostio, a phatrwm danfon cyfeiriad y derbynnydd, byddai'r Post Brenhinol naill ai'n cael un cyfle danfon ar D+2, neu gyfleoedd danfon ar D+1 a D+3. Ar hyn o bryd, mae'r Post Brenhinol yn cael tri chyfle i ddanfon (h.y. ar D+1, D+2, a D+3), felly byddai'r newid i'r model danfon yn golygu bod ganddo un, neu ddau yn llai o gyfleoedd i ddanfon unrhyw lythyr Ail Ddosbarth penodol.

6.125 Rydym yn disgwyl i'r gostyngiad hwn mewn cyfleoedd danfon effeithio ar berfformiad y Post Brenhinol, gan ei gwneud yn anoddach cyrraedd y lefel darged o 98.5% i bob pwrpas. Efallai y bydd yn rhaid danfon rhai llythyrau yn gynt nag y byddai'n digwydd ar hyn o bryd er mwyn defnyddio'r unig gyfle i ddanfon llythyrau ar D+2. Fodd bynnag, mae'n debygol na fyddai modd cyflymu'r holl lythyrau a fyddai'n cael eu danfon ar hyn o bryd ar D+3 er mwyn eu prosesu a'u bod yn barod i'w danfon ar D+2. Yn yr achosion hyn, lle nad oedd modd danfon llythyrau ar D+2 i'r pwyntiau danfon gofynnol, byddai'r rhain yn cael eu gohirio tan D+4, ac felly byddent yn cael eu danfon yn hwyr. Yn fwy cyffredinol, byddai mwy o ddibyniaeth ar ddanfon eitemau'n llwyddiannus lle mae gan y Post Brenhinol gyfleoedd i wneud hynny, a byddai effaith unrhyw fethiannau'n cael ei waethygu.

6.126 Roedd nifer o randdeiliaid yn cydnabod effaith y model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos ar allu'r Post Brenhinol i gyrraedd y targed ansawdd gwasanaeth o 98.5%, ac wedyn yn cefnogi addasu'r targed. Er enghraifft, dywedodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol "o ystyried mai dim ond un neu ddau o gyfleoedd danfon fydd ar gael yn awr ar gyfer post Ail Ddosbarth yn y ffenestr D+3, mae'n ymddangos bod lleihau'r targed yn briodol."[445]

---

[444] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, t.35.
Ymateb Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol i Ymgynghoriad 2025, t.5.

6.127 Rydym hefyd yn credu y byddai cadw'r targed presennol yn arwain at gostau uchel i'r Post Brenhinol, gydag effeithiau negyddol ar gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol. Fe wnaethom egluro yn Adran 5 y gallai diwygiadau i'r model danfon ddatgloi arbedion cost a allai roi'r Post Brenhinol mewn gwell sefyllfa i wella ei berfformiad cyffredinol ac i sicrhau gwasanaeth o ansawdd uchel yn gyson. Fel y nodir yn Adran 4, rydym yn amcangyfrif y gallai'r arbedion o symud i wasanaeth danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos fod rhwng £250m a £425m, gan dybio bod potensial llawn diwygio yn cael ei wireddu.[446]

6.128 Fodd bynnag, o ystyried y byddai'n fwy heriol cyrraedd y targed presennol o dan y model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, byddai disgwyl i'r Post Brenhinol, i bob pwrpas, gynyddu ei gostau gweithredol, gan leihau cyfanswm yr arbedion o reidrwydd pe baem yn cadw'r lefel bresennol ar gyfer y targed.

6.129 Rydym hefyd yn cynnal y gallai diogelu'r arbedion cost o'r model darparu newydd helpu i gefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol ac felly ei ddarpariaeth barhaus er budd pob defnyddiwr. Roedd rhanddeiliaid yn croesawu'n benodol y manteision i ddefnyddwyr a allai ddeillio o ddiogelu'r arbedion cost hyn, yn enwedig o ran cadw costau eitemau Ail Ddosbarth dan reolaeth.[447] O ystyried ein hamcan polisi o gefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol a fforddiadwyedd, nid ydym yn credu ei bod yn briodol cadw'r targed.

Dylai addasiad cymesur i'r targed Ail Ddosbarth ddiogelu anghenion rhesymol defnyddwyr heb gynyddu'r baich cost ar y Post Brenhinol

6.130 Roedd nifer o randdeiliaid yn rhannu pryderon ynghylch addasu'r targed ansawdd gwasanaeth ar yr un pryd â danfon eitemau Ail Ddosbarth yn llai aml o dan y model diwrnod danfon amgen newydd.[448] Yn fwy cyffredinol, pwysleisiodd llawer o randdeiliaid bwysigrwydd cynnal gwasanaeth o ansawdd uchel yng nghyd-destun danfon yn llai aml. Rydym yn cydnabod bod defnyddwyr angen sicrwydd cryf o lefel uchel o ansawdd gwasanaeth, yn benodol yng nghyd-destun newidiadau i amlder danfon llythyrau Ail Ddosbarth. Felly, er bod cyfiawnhad dros addasu lefel darged, rydym yn dal o'r farn y dylai ganiatáu ar gyfer effaith y model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos ar lefelau ansawdd, a pheidio â mynd ymhellach fel y byddai'n gwanhau'r cymhelliant i'r Post Brenhinol.

6.131 Rydym yn nodi bod rhai rhanddeiliaid, er eu bod yn gyfran fach, yn ystyried bod addasu'r lefel darged am i lawr yn ffordd o ddarparu ar gyfer heriau perfformiad ansawdd gwasanaeth, sydd wedi arwain at ganlyniadau gwael yn ystod y blynyddoedd diwethaf.[449] Nid ydym yn derbyn yr asesiad hwn, ac nid ydym yn credu bod addasiad targed cymesur i ystyried effaith y model danfon newydd yn rhoi hyblygrwydd i'r Post Brenhinol ar gyfer tanberfformiad ehangach.

6.132 Ar ben hynny, rydym yn dal yn hyderus bod mynd ar drywydd newid bach i'r lefel darged, sy'n gwbl gymesur ag effaith y model danfon a nodwyd, yn parhau i ddiogelu anghenion

[446]Mae'r Post Brenhinol wedi nodi ymhellach yn ei ymateb i'r ymgynghoriad y byddai'n buddsoddi rhywfaint o'r arbedion adnoddau o'r model danfon newydd i fynd i'r afael â pherfformiad ansawdd gwasanaeth a'i wella. Yr ydym yn croesawu'r buddsoddiadau hynny a byddwn yn parhau i fonitro eu heffeithiolrwydd.

[447] Er enghraifft: [✂]

[448] Er enghraifft: Ymateb y Ffederasiwn Busnesau Bach i Ymgynghoriad 2025, t.6.

[449] Er enghraifft: Ymateb Pwyllgor Cynghori'r Alban i Ymgynghoriad 2025 t.4.

rhesymol defnyddwyr. Fel y soniwyd uchod, dangosodd ymchwil i anghenion defnyddwyr mai anaml y mae cyflymder danfon yn cael ei ystyried yn hollbwysig gan ddefnyddwyr yn gyffredinol.[450] Canfu ein hadolygiad o anghenion defnyddwyr post ymhellach y byddai gostyngiad yn y lefel darged i 90% ar gyfer post Ail Ddosbarth yn dal i ddiwallu anghenion 97% o ddefnyddwyr preswyl, a 91% o ddefnyddwyr busnesau bach a chanolig.[451] Gan ein bod yn gosod y targed Ail Ddosbarth bum pwynt canran yn uwch na'r targed o 90% a aseswyd yn ein hymchwil, rydym yn dal yn hyderus bod y targed Ail Ddosbarth o 95% yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr.

6.133 Roedd nifer o randdeiliaid yn cydnabod ein dadansoddiad o anghenion defnyddwyr, gan ddweud y byddai addasiad bach iawn i'r targed Ail Ddosbarth yn golygu y byddai eu hanghenion yn dal i gael eu diwallu. Er enghraifft, dywedodd y Gymdeithas Data a Marchnata (DMA) “Er bod llawer o aelodau DMA yn defnyddio Ail Ddosbarth ar gyfer cyfathrebiadau marchnata cost-sensitif a phost busnes arferol, mae sicrhau cyrraedd yn brydlon yn hanfodol. Mae'n ymddangos bod 95% yn dal i fod yn ganlyniad rhesymol.”[452]

6.134 Rydym hefyd yn cydnabod bod rhanddeiliaid yn poeni'n benodol am effaith y model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos ar ansawdd lefelau gwasanaeth mewn ardaloedd gwledig a/neu anghysbell. Rydym yn cydnabod bod yr USO yn arbennig o bwysig i ddefnyddwyr yn y meysydd hynny ac yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau lefelau ansawdd gwasanaeth rhesymol.

6.135 Er bod elfen o ansicrwydd, rydym yn disgwyl y gallai'r risg o amrywiadau mewn ardaloedd gwledig a/neu anghysbell fod yn is yn ymarferol. Y rheswm am hyn yw bod y Post Brenhinol yn disgwyl, oherwydd ymarferoldeb gweithredol danfon post mewn ardaloedd gwledig, sy'n aml yn cael eu gwneud drwy lwybrau un fan dros bellteroedd hir, efallai na fydd yn defnyddio'r model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos mewn rhai ardaloedd gwledig. Mae hyn yn golygu bod cwsmeriaid sy'n byw yn yr ardaloedd hynny yn debygol o gael eu post Ail Ddosbarth ochr yn ochr â'u post Dosbarth Cyntaf yn ystod yr wythnos fel arfer, gan addasu i ddydd Sadwrn, lle byddant fel arfer yn cael llythyrau a pharseli'r diwrnod canlynol yn unig.[453]

Mae targed Ail Ddosbarth D+3 o 95% yn adlewyrchu'r model danfon newydd ac yn parhau i fod yn ddigon heriol i sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr

6.136 Yn ein Hymgynghoriad, fe wnaethom gynnig lefel darged o 95% ar gyfer C+3 Rydym yn parhau i gredu bod yr addasiad lefel targed hwn yn gymesur ac yn rhesymol. Amcangyfrifodd y Post Brenhinol y gallai symud i amserlen danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos gael effaith o rhwng 1% a 3% [✂] yn llai na phost Ail Ddosbarth a ddanfonir ar D+3.[454] Mae ansicrwydd ynghlwm wrth yr amcangyfrif hwn, ac mae'n bosibl ei fod yn tanamcangyfrif yr heriau posibl o symud i'r model darparu newydd, sy'n golygu y gallai'r effaith wirioneddol ar gyflawni lefelau ansawdd fod yn uwch. Yn ymarferol, byddai'r

[450] Ofcom, 2025. Ymgynghoriad: Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post tt.78-79.
[451] Ofcom, 2020, Adolygiad o anghenion defnyddwyr post, tt. 70-71
[452] Er enghraifft: Ymateb y Gymdeithas Data a Marchnata i Ymgynghoriad 2025, t.2.
[453] Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 27 Mai 2025.
[454] Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 5 Rhagfyr 2024.

lefel darged newydd yn darparu ar gyfer y model darparu newydd ar yr un pryd â pharhau i ymestyn i gyflawni a darparu safon uchel i ddefnyddwyr.

6.137 O safbwynt gweithredol, byddai targed o 95% yn rhoi hyblygrwydd i'r Post Brenhinol ailgydbwyso effaith weithredol y model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos heb osod baich cost anghymesur o uchel. Felly, gallai'r lefel darged newydd ganiatáu i'r Post Brenhinol gyflawni'r arbedion cost net amcangyfrifiedig o symud i fodel danfon amgen ac, felly, cefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol.

6.138 I'r gwrthwyneb, rydym yn nodi bod un rhanddeiliad wedi awgrymu targed Ail Ddosbarth sylweddol is, gan ddweud y byddai 85% cychwynnol, wedi ei godi i 95% dros nifer o flynyddoedd, yn realistig ac yn rhesymol i roi cyfrif am y newidiadau gweithredol y mae'r Post Brenhinol yn eu hwynebu.[455] Nid oes gennym dystiolaeth y bydd y model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos yn effeithio ar lefelau ansawdd a fyddai'n cyfiawnhau addasiad am i lawr o 13 pwynt canran. Ar ben hynny, mae ein data'n dangos, er bod perfformiad Ail Ddosbarth diweddar yn is o lawer na'r targed, nad oedd erioed wedi gostwng i'r lefel o 85% a gynigir.[456] Fel y nodwyd uchod, rydym yn credu y dylai'r addasiad lefel darged fod yn gymesur ag effaith y model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, ac felly rydym yn credu bod y lefel darged a awgrymir yn anaddas.

6.139 Ar yr un pryd, rydym yn dal i gredu bod lefel darged o 95% yn ddigon heriol i gymell canlyniadau da i ddefnyddwyr, fel sy'n cael ei ddangos gan y dystiolaeth ynghylch anghenion defnyddwyr a gyflwynir uchod. Hefyd, wrth gymharu â gwledydd tebyg, mae 95% yn gosod safon uchel ar gyfer ansawdd, a dweud y gwir mae'n uwch na llawer o wledydd eraill yn Ewrop.[457]

6.140 Gan ystyried yr uchod i gyd, **rydym wedi penderfynu addasu'r targed Ail Ddosbarth i 95% D+3** i adlewyrchu'r model danfon newydd sy'n diwallu lefelau ansawdd gwasanaeth, diogelu arbedion cost posibl ac anghenion rhesymol defnyddwyr.

Targed 'post hwyr' Ail Ddosbarth newydd

Ein cynnig o D+5 99.5%

6.141 Yn ein Hymgynghoriad, roeddem yn cydnabod y gallai targed post hwyr Ail Ddosbarth newydd gefnogi dibynadwyedd yn yr un ffordd â'r targed post hwyr Dosbarth Cyntaf arfaethedig, er ein bod wedi nodi rhai gwahaniaethau mewn cyd-destun o ran y dyddiad targed o ystyried cyflymder danfon arafach post Ail Ddosbarth.

6.142 Fe wnaethom asesu dau opsiwn ar gyfer y targed, 99% D+5, a 99.5% D+5, gan nodi mai D+5 fyddai'r dyddiad mwyaf priodol i osod y targed yng nghyd-destun y model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Ein casgliad dros dro ar y lefel darged oedd y byddai'r Post Brenhinol yn cael mwy o gymhellion i reoli oedi o dan darged a oedd yn cwmpasu cyfran fwy o bost. Roeddem hefyd yn cydnabod y budd i ddealltwriaeth defnyddwyr o ganlyniad i

[455] Ymateb Unite CMA i Ymgynghoriad 2025, tt.23-24.
[456] Ofcom, 2024. Adroddiad Monitro'r Post.
[457] Cullen International, 2024: USO Quality Transit Times: Mae hyn yn cyd-fynd â tharged D+3 yr Almaen o 95%, a tharged Ffrainc ar gyfer ei gwasanaeth D+3 tra roedd yn gweithredu, ac yn uwch na gwledydd eraill Ewrop gan gynnwys (85% ar gyfer llythyrau D+3 Norwy, 85% ar gyfer llythyrau D+3 Gwlad Pwyl, a 93% ar gyfer llythyrau D+3 Sbaen).

dargedau post hwyr ar gyfer post Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth a oedd wedi'u halinio (h.y. y ddau ar 99.5% a'r ddau wedi'u gosod ddau ddiwrnod yn dilyn y prif darged).

Ymateb rhanddeiliaid i'n Hymgynghoriad

6.143 Ar y cyfan, cawsom ymatebion tebyg gan randdeiliaid i'n cynnig ar gyfer targed post hwyr Ail Ddosbarth i'r hyn a gawsom i'n cynnig ar gyfer targed post hwyr Dosbarth Cyntaf. Roedd yr ymatebwyr yn gefnogol ar y cyfan i gyflwyno targed newydd a oedd yn canolbwyntio ar ddibynadwyedd a thryloywder. Cawsom hefyd amrywiaeth o sylwadau ar ein cynnig a oedd yn benodol i gyd-destun Ail Ddosbarth.

6.144 Nododd rhanddeiliaid yn gyffredinol y gallai targedau post hwyr helpu i ddarparu diogelwch a hyder ychwanegol i unigolion a busnesau yng nghyd-destun gostyngiadau i brif dargedau, fel y cynigiwyd gennym ar gyfer Ail Ddosbarth.[458]

6.145 Nododd rhai ymatebwyr busnes hefyd werth cael targed post hwyr ar gyfer Ail Ddosbarth a oedd yn cyd-fynd â'r targed post hwyr Dosbarth Cyntaf, hynny yw, wedi'i osod ar yr un lefel a gyda'r un nifer o ddiwrnodau yn dilyn y prif dargedau prydlondeb, gan y gallai hyn helpu gyda dealltwriaeth a hyder defnyddwyr mewn dibynadwyedd.[459]

6.146 Roedd nifer o ymatebion, gan gynnwys y rheini gan y Post Brenhinol yn ogystal â gan ddarparwyr mynediad ac anfonwyr post mynediad, yn nodi tebygrwydd a gwahaniaethau gweithredol rhwng Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth sy'n berthnasol i osod targed post hwyr ar gyfer Ail Ddosbarth. Mae honiad y Post Brenhinol mai cyfyngedig yw ei allu i liniaru oedi neu adfer eitemau sydd wedi'u hoedi ar y cyfan yn berthnasol ar draws post Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth. Dywedodd y Post Brenhinol ymhellach y gallai fod yn anoddach sicrhau perfformiad uchel ar gyfer post hwyr Ail Ddosbarth o dan y model danfon newydd nag y mae ar hyn o bryd oherwydd y gostyngiad yn y cyfleoedd danfon llythyrau.[460]

6.147 Wedi dweud hynny, eglurodd y Post Brenhinol, yn wahanol i Ddosbarth Cyntaf, fod ganddo rai ffyrdd o addasu gweithrediadau i reoli eitemau Ail Ddosbarth sydd wedi'u gohirio, gan gynnwys drwy addasu ei algorithm 'danfon yn ôl manyleb'. Gallai hyn ryddhau llythyrau Ail Ddosbarth i'w danfon er mwyn cyrraedd dyddiad targed post hwyr, pan na fyddent fel arall yn cael eu danfon oherwydd y model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Roedd rhai rhanddeiliaid yn ategu'r hyblygrwydd ychwanegol hwn sydd gan y Post Brenhinol i wella'r broses o adfer oedi Ail Ddosbarth, ar sail eu hymgysylltiad â'r Post Brenhinol ar ei gynlluniau gweithredol ar gyfer y dyfodol.[461]

6.148 O ran y dyddiad targed roeddem yn ei gynnig ar gyfer Ail Ddosbarth (h.y. D+5), roedd rhai ymatebwyr, gan gynnwys darparwyr mynediad ac anfonwyr post mynediad, yn ogystal â sefydliadau eraill, yn galw am ffenestr amser fwy cyfyng rhwng y prif dargedau post a'r targedau post hwyr, gan sôn yn benodol am D+4.[462] Fodd bynnag, dywedodd sefydliadau eraill fod D+5 yn ddyddiad priodol yng nghyd-destun y gwasanaeth Ail Ddosbarth, o ystyried

---

[458] Er enghraifft: Ymateb Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol i Ymgynghoriad 2025, t.5; ymateb y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol i Ymgynghoriad 2025, t.4.
[459] Er enghraifft: Ymateb y Ffederasiwn Busnesau Bach i Ymgynghoriad 2025, t.7.
[460] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, t.36.
[461] Er enghraifft: Ymateb UK Mail i Ymgynghoriad 2025, tt.3-4.
[462] Ymateb Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri i Ymgynghoriad 2025, t.5; ymateb CCP-ACOD i Ymgynghoriad 2025, t.7; ymateb Tesco Bank i Ymgynghoriad 2025, t.4.

y model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos.[463] Nid oedd yr un rhanddeiliad o blaid dyddiad targed hwyrach na D+5.

6.149 Roedd amrywiaeth o ymatebwyr yn cytuno â'n cynnig targed o 99.5% D+5, er bod awgrymiadau hefyd ar gyfer lefelau targed eraill.[464] Yn yr un modd ag ymatebion ynghylch y targed post hwyr Dosbarth Cyntaf, dywedodd rhanddeiliaid y gallai caniatáu i 0.5% o bost gael ei ddanfon yn arafach na phum diwrnod ar ôl ei bostio achosi problemau i ddefnyddwyr ac i fusnesau.[465] Dywedodd rhai y byddai'n well ganddynt 99.9% D+5 fel lefel darged uwch, neu 99.5% D+4 fel amserlen fyrrach ar gyfer post hwyr.[466]

6.150 Cyfeiriodd rhanddeiliaid eraill at y ffaith bod targedau sy'n agosáu at 100% yn rhy ymestynnol ac nad ydynt yn gyffredin mewn diwydiannau tebyg.[467] Roedd y Post Brenhinol yn dadlau dros darged post hwyr is o 99% D+5, yng ngoleuni ei allu cyfyngedig i flaenoriaethu adfer eitemau a oedd wedi'u gohirio. Er iddo nodi bod ei ddadansoddiad yn rhagweld tebygolrwydd o tua un o bob pedwar o gyrraedd y lefel darged a ffefrir, wrth gyflawni'r prif darged Ail Ddosbarth o 95%, rydym yn nodi nad yw hyn yn ystyried y byffer ychwanegol a ddarperir gan y cyfyngau hyder a ddefnyddir wrth orfodi. Roedd y Post Brenhinol hefyd yn cydnabod bod ganddo opsiynau ar gyfer gwella post Ail Ddosbarth yn annibynnol ar y prif darged. Dywedodd ei fod, ar sail perfformiad yn y gorffennol yn unig, o'r farn bod perfformiad D+5 o 98% i 98.5% yn cyd-fynd â'r lefel darged newydd o 95% D+3. Serch hynny, roedd y Post Brenhinol yn cefnogi targed o 99% D+5 fel un ymestynnol ond cyraeddadwy yng ngoleuni'r ysgogiadau ychwanegol a nodwyd ganddo i reoli oedi, gan nodi, fodd bynnag, efallai na fydd angen y camau pellach hyn yn y pen draw i gyflawni'r targed a ffefrir, sef 99% D+5. Roedd Unite CMA yn dadlau dros darged is fyth o 97% D+5, gan fynnu mai dim ond 2% o bost sy'n cael ei ddanfon yn ystod y ddau ddiwrnod ar ôl y prif darged.[468] Ar nodyn mwy cyffredinol, cododd y Ffederasiwn Busnesau Bach y pwynt, er ei fod yn cefnogi targed post hwyr, y byddai am weld lefel na fyddai'n arwain at gost mor sylweddol i'r Post Brenhinol fel y byddai'n rhaid i brisiau godi i adennill buddsoddiadau mewn ansawdd.[469]

Ein hasesiad a'n penderfyniad

Bydd targed dibynadwyedd newydd yn ategu'r targed presennol ar gyfer Ail Ddosbarth yng nghyd-destun y model danfon diwygiedig

6.151 Gan ystyried yr ymatebion i'n Hymgynghoriad, rydym yn dal o'r farn y bydd targed post hwyr newydd ar gyfer Ail Ddosbarth yn chwarae rhan gadarnhaol o ran sicrhau manteision i ddefnyddwyr o ganlyniad i USO sy'n diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr. Wrth benderfynu a ddylid gosod targed post hwyr newydd ar gyfer Ail Ddosbarth, a sut i wneud

---

Ymateb Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol i Ymgynghoriad 2025, t.5.

[464] [✂]; Ymateb BBS i Ymgynghoriad 2025, t.3; ymateb y Gymdeithas Data a Marchnata i Ymgynghoriad 2025, t.3; [✂]; Ymateb The Delivery Group i Ymgynghoriad 2025, t.1; ymateb Welsh Football Magazine i Ymgynghoriad 2025, t.3; ymateb Whistl i Ymgynghoriad 2025, t.2.

[465] Ymateb Swyddfa'r Post Cyfyngedig i Ymgynghoriad 2025, tt.18-19.

[466] Er enghraifft: Ymateb UK Mail i Ymgynghoriad 2025, t.4; Ymateb CFH Docmail Limited i Ymgynghoriad 2025, t.4; Ymateb Citipost Mail i Ymgynghoriad 2025, t.8; Ymateb Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri i Ymgynghoriad 2025, t.5.

[467] Ymateb Swyddfa'r Post Cyfyngedig i Ymgynghoriad 2025, tt.18-19.

[468] Ymateb Unite CMA i Ymgynghoriad 2025, tt.25-27.

[469] Ymateb y Ffederasiwn Busnesau Bach i Ymgynghoriad 2025, t.7.

hynny, rydym wedi asesu'r dystiolaeth sydd ar gael yn ogystal â mewnbwn gan randdeiliaid am dargedau post hwyr yn gyffredinol, yn ogystal ag yng nghyd-destun penodol Ail Ddosbarth.

6.152 Yn ogystal â'r manteision cyffredinol o ran dibynadwyedd a thryloywder y gellir eu cyflawni drwy darged sy'n canolbwyntio ar adfer post sydd wedi'i oedi, rydym o'r farn bod yna fanteision ychwanegol yng nghyd-destun symud i ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Hynny yw, rydym yn cydnabod pryderon rhanddeiliaid am yr effaith y gallai'r newid yn y model danfon ei gael ar gysondeb eu post. Yn ein barn ni, gall targed dibynadwyedd sy'n canolbwyntio ar bost wedi'i oedi helpu i osod disgwyliad o ôl-stop ar gyfer y Post Brenhinol a defnyddwyr o ran pryd y dylai post gyrraedd.

6.153 Ar ben hynny, yng nghyd-destun y model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, rydym yn cydnabod bod y Post Brenhinol wedi dweud bod ganddo opsiynau i gyflymu'r broses o ddanfon eitemau Ail Ddosbarth hwyr lle byddent fel arall yn methu'r dyddiad targed olaf oherwydd y model newydd, a fyddai, yn ein barn ni, yn gadarnhaol i'r defnyddwyr ac na ddylai ddod ar gost sylweddol i'r Post Brenhinol. Er mwyn bod yn glir, rydym yn nodi nad yw'r opsiynau a nodwyd gan y Post Brenhinol ar gyfer Ail Ddosbarth yn berthnasol i eitemau Dosbarth Cyntaf.

6.154 Er ein bod yn croesawu bod y Post Brenhinol yn amlinellu rhai camau gweithredu a allai sicrhau mwy o ddibynadwyedd yng nghyd-destun targed post hwyr, rydym yn cydnabod ei safbwynt y gallai'r ysgogiadau gweithredol sydd ar gael i reoli post hwyr fod yn gyfyngedig neu'n gostus yn y pen draw. Ein hasesiad o'r dystiolaeth ddiweddaraf a ddarparwyd mewn ymateb i'n Hymgynghoriad yw bod y risg o ganlyniad i darged uchel ar gyfer post hwyr, sydd i bob pwrpas yn gofyn am brif berfformiad uwch, yn fwy na'r hyn a ddeallwyd yn flaenorol.

D+5 yw'r dyddiad mwyaf priodol ar gyfer targed post hwyr ar gyfer Ail Ddosbarth

6.155 Rydyn ni wedi asesu ymatebion rhanddeiliaid a oedd yn galw am ddyddiad targed cynharach na'n cynnig yn yr Ymgynghoriad o D+5, sef D+4. Mae'n ddealladwy y byddai'n well ganddynt gael D+4 sy'n adlewyrchu dymuniad i gyfyngu ar hyd yr oedi, ond byddem yn pwysleisio sawl pwynt. Yn weithredol, rydym yn deall po agosaf yw'r targed post hwyr i'r prif darged, y lleiaf o gyfle sydd i adfer ac ail-ddanfon eitemau sydd wedi'u gohirio, yn enwedig o ystyried bod rhai mathau o fethiannau sy'n cyfrannu at oedi yn cymryd mwy o amser i'w hadfer nag eraill. Mae hyn yn arbennig o wir o dan y model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth, lle na fyddai'r Post Brenhinol fel arfer yn cael cyfle i geisio ail-ddanfon heb gyflymu eitemau. Ni fyddai D+4 chwaith yn cyd-fynd â manyleb gwasanaeth Ail Ddosbarth, gan osod disgwyliad adfer diwrnod canlynol mwy heriol yng nghyd-destun bod danfon yn brydlon yn ffenestr tri diwrnod. Rydym hefyd yn nodi bod D+4 yn ddull llai cyffredin ymysg gwledydd tebyg eraill, gyda'r rhan fwyaf yn defnyddio D+5 yng nghyd-destun prif darged D+3.[470] Felly, rydym o'r farn y byddai'n well cyflawni amcanion y targed post hwyr drwy ffenestr danfon D+5.

6.156 Ar ben hynny, fel sy'n cael ei egluro yn ein Hymgynghoriad, rydyn ni'n rhagweld y byddai gosod targedau post hwyr sy'n cyd-fynd yn glir o fudd i ddealltwriaeth defnyddwyr, gyda'r ddau wedi'u gosod ar ddau ddiwrnod yn ar ôl y prif darged. Rydym yn cydnabod bod

[470] Cullen International, 2024: USO Quality Transit Times.

rhanddeiliaid wedi mynegi cefnogaeth i'r egwyddor hon, ac rydym wedi'i hystyried wrth ddod i'n penderfyniad.

Dylai targed o 99% roi hyder mewn gwasanaeth dibynadwy, yng nghyd-destun y model danfon newydd

6.157 Yn unol â'n dull o osod y targed post hwyr Dosbarth Cyntaf, rydym wedi ystyried yr ymatebion i'n Hymgynghoriad yn ogystal â thystiolaeth arall sydd ar gael i bennu lefel darged briodol sy'n sensitif i faterion dibynadwyedd. Rydym o'r farn y dylai lefel o'r fath nodi dirywiad mewn perfformiad post hwyr, heb osod lefel mor heriol fel ei bod yn gosod gofyniad de facto ar gyfer lefel o berfformiad danfon yn brydlon sy'n uwch na'r prif darged.

6.158 Rydym yn cydnabod bod rhanddeiliaid wedi gofyn am lefelau targed mwy heriol na'n cynnig o 99.5%, gan gynnwys 99.9%. Ar ôl pwyso a mesur y dystiolaeth, rydym o'r farn y byddai 99.9% bron yn sicr yn or-benodol, a fyddai'n gofyn am lefel uwch o brif berfformiad na fyddai'n alinio â'r prif darged, a hyd yn oed wedyn, efallai na fyddai modd ei gyflawni oherwydd bod rhywfaint o bost yn anochel yn cael ei golli neu ei ohirio.

6.159 Ar ben hynny, am resymau tebyg i'r rheini a ddisgrifiwyd yn flaenorol mewn perthynas â Dosbarth Cyntaf, rydym nawr o'r farn y byddai ein cynnig yn yr Ymgynghoriad, sef 99.5% D+3, yn anghymesur, o ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r dystiolaeth ychwanegol ar ffactorau gweithredol a chost sy'n ymwneud â mynd i'r afael â phost hwyr. Wrth ddod i'r casgliad hwn, rydym wedi ystyried nifer o ffactorau. Yn gyntaf, bod natur yr oedi yn cynnwys rhai mathau o fethiant na ellir eu hadfer, neu os gellir eu hadfer, lle nad yw cyflymder yr adferiad o fewn rheolaeth y Post Brenhinol, gan gynnwys colled a cham-ddanfon. Er ein bod yn deall mai cyfran fach iawn o'r post yn gyffredinol yw hyn, yng nghyd-destun asesu lefelau targed sy'n agos at 100%, mae'n dod yn arwyddocaol, ac felly'n cynyddu'r risg o ganlyniad i osod targed anghyraeddadwy. Yn ail, ein barn ni yw, lle mae gan y targed post hwyr y potensial i fynd y tu hwnt i allu'r Post Brenhinol i wella perfformiad post hwyr yn annibynnol ar y prif berfformiad, mae hyn yn creu risgiau o osod disgwyliad de facto uwch ar gyfer y prif berfformiad. Yn ôl amcangyfrifon o berfformiad post hwyr sy'n cyd-fynd â 95% D+3, ni fyddai gan y Post Brenhinol bron unrhyw siawns o gyflawni 99.5% D+5 heb fuddsoddiad pellach, a allai arwain at godi'r prif berfformiad mewn ffordd a allai fod yn anghyson â'r prif darged is ac arwain at gostau y gallai defnyddwyr orfod eu talu.[471] Er bod prif perfformiad uwch yn gadarnhaol ar y cyfan i ddefnyddwyr, a dylai'r Post Brenhinol geisio darparu'r gwasanaeth gorau posibl, fel sy'n cael ei egluro yng nghyd-destun Dosbarth Cyntaf, ni fyddai'n briodol i'r targed post hwyr gael ei gam-alinio'n sylweddol â'r prif darged yn y ffordd hon. Yn ein barn ni, mae perygl i hyn danseilio manteision gostwng y prif darged yn yr ystyr y gallai greu costau sy'n anghyson ag anghenion defnyddwyr, a allai arwain at gyfrannu at gynnydd mewn prisiau i ddefnyddwyr.

6.160 I'r gwrthwyneb, byddai lefel darged o 99% yng nghyd-destun y model gweithredol newydd ar gyfer Ail Ddosbarth yn dal i osod lefel gyffredinol uchel o ddibynadwyedd i ddefnyddwyr, a lefel darged heriol i'r Post Brenhinol, ond byddai'n gyrru cost llai anghynaladwy. Fel yr eglurwyd yn flaenorol, gall gwahaniaethau bach mewn targedau ar lefelau uchel arwain at oblygiadau cost sylweddol ac o bosibl gyfrannu at gynnydd mewn prisiau. O ystyried perfformiad y Post Brenhinol yn y gorffennol, yn ogystal â'r wybodaeth a ddarparwyd yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, rydym o'r farn bod y lefel hon yn cyd-fynd yn well â'r prif darged,

[471] Gweler Atodiad A4 am ragor o fanylion am amcangyfrifon sy'n ymwneud â pherfformiad post hwyr.

yn enwedig o ystyried y dystiolaeth ddiweddaraf am argaeledd opsiynau i'r Post Brenhinol gyflymu rhai eitemau er mwyn cyrraedd y targed post hwyr hwn, a chefnogaeth amlwg y Post Brenhinol i hyfywedd yr opsiwn hwn. Byddai hyn yn gosod lefel uchel o ddibynadwyedd yn gyffredinol sy'n cyd-fynd â dewisiadau defnyddwyr, gan osgoi'r goblygiadau cost a phrisio posibl sy'n gysylltiedig â'r cynnig uwch o 99.5%. Byddai hefyd yn cyd-fynd â gwledydd tebyg yn rhyngwladol.[472]

6.161 Ar ôl adolygu lefelau targed is, fel 97% D+5 a gynigiwyd gan Unite CMA, ein hasesiad yw bod lefelau is yn annhebygol o fod yn sensitif i faterion dibynadwyedd, ac felly'n amhriodol. Gallai'r lefel hon o wasanaeth fod yn is na'r perfformiad a welwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan godi amheuaeth ynghylch a fyddai'n diogelu'n ddigonol rhag problemau sy'n ymwneud ag oedi gyda phost Ail Ddosbarth.

6.162 Yng ngoleuni ein barn ddiweddaraf am yr ysgogiadau gweithredol sydd ar gael i'r Post Brenhinol, ac yn unol â hynny, cydbwysedd y canlyniadau i ddefnyddwyr, ein penderfyniad yw **cyflwyno targed post hwyr newydd ar gyfer post Ail Ddosbarth sy'n mynnu bod 99% o eitemau'n cael eu danfon o fewn pum diwrnod yn ystod yr wythnos (h.y. D+5).**

6.163 Wrth ddod i'r penderfyniad hwn, rydym hefyd wedi ystyried gwerth cysoni rhwng y targedau post hwyr Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth, gyda'r ddau wedi'u gosod ar 99%, a'r ddau wedi'u gosod ddau ddiwrnod ar ôl y prif darged perthnasol ar gyfer danfon yn brydlon. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, rydym yn bwriadu mabwysiadu dull cyson o orfodi ar gyfer targedau post hwyr Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth.

Gweithredu newidiadau i dargedau ansawdd gwasanaeth

Fframwaith wedi'i ddiweddaru ar gyfer ansawdd gwasanaeth

6.164 Yn gryno, rydym wedi penderfynu gwneud y newidiadau canlynol i'r targedau ansawdd gwasanaeth mae'n rhaid i'r Post Brenhinol eu cyrraedd mewn perthynas â gwasanaethau USO:

- Y targed cenedlaethol Dosbarth Cyntaf i fynnu bod 90% o eitemau'n cael eu danfon y diwrnod canlynol (h.y. D+1).
- Y targed ardal cod post Dosbarth Cyntaf i fynnu bod 87% o'r eitemau'n cael eu danfon y diwrnod canlynol (h.y. D+1) ym mhob ardal cod post yn y DU, ac eithrio Hebrides (HS), Kirkwall (KW), a Lerwick (ZE).
- Targed post hwyr Dosbarth Cyntaf newydd i fynnu bod 99% o eitemau'n cael eu danfon cyn pen tri diwrnod (h.y. D+3).
- Y targed Ail Ddosbarth i fynnu bod 95% o eitemau'n cael eu danfon cyn pen tri diwrnod (h.y. D+3).
- Targed 'post hwyr' Ail Ddosbarth newydd i fynnu bod 99% o eitemau'n cael eu danfon cyn pen pum diwrnod (h.y. D+5).

[472] Cullen International, 2024: USO Quality Transit Times.

Newidiadau eraill i'n trefn ansawdd gwasanaeth

6.165 Fel y nodwyd yn flaenorol, rydym yn ymwybodol bod gan y Post Brenhinol lawer mwy i'w wneud er mwyn adfer ansawdd ei wasanaeth i lefel sy'n cyflawni ei rwymedigaethau. Nid yw ac ni fydd ein targedau newydd yn esgusodi'r lefel annerbyniol o wasanaeth a ddarparwyd i unigolion a busnesau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rydym wedi bod yn glir ein bod yn bwriadu parhau i ddal y Post Brenhinol yn atebol i'w dargedau drwy ein rhaglen monitro a gorfodi.

6.166 Yn ein Hymgynghoriad, roeddem wedi canolbwyntio ar newidiadau arfaethedig i dargedau, ond rydym yn cydnabod bod llawer o ymatebion i'n Hymgynghoriad wedi galw arnom i wneud newidiadau ehangach i'n trefn gorfodi a monitro ansawdd gwasanaeth.

Ymateb rhanddeiliaid i'n Hymgynghoriad

6.167 Soniodd nifer o randdeiliaid am y drefn gorfodi ansawdd gwasanaeth, gan fynegi pryderon nad yw'r drefn yn sicrhau cydymffurfiad digonol â thargedau ansawdd gwasanaeth nac yn cymell gwelliant. O ganlyniad, mynegodd nifer o randdeiliaid eu cefnogaeth i adolygiad ehangach o'n dull gweithredu gyda'r bwriad o gryfhau ein mecanweithiau gorfodi.[473]

6.168 Roedd dirwyon yn y gorffennol am beidio â chydymffurfio yn cael eu hystyried yn annigonol o uchel a chredid eu bod yn rheswm dros fethiannau parhaus mewn ansawdd gwasanaeth.[474] Er enghraifft, dadleuodd Quadient a Consumer Scotland nad yw cosbau yn y gorffennol wedi atal y Post Brenhinol yn ddigonol. Roeddent yn credu ei bod wedi bod yn fwy cost-effeithiol i'r Post Brenhinol dalu dirwyon na buddsoddi mewn gwelliannau gweithredol i gyrraedd y targedau perfformiad. Roedd galw hefyd am fwy o dryloywder neu ragweladwyedd wrth gyfrifo cosbau sy'n gysylltiedig â methu targedau.

6.169 Awgrymodd rhai rhanddeiliaid newidiadau i'n proses orfodi. Er enghraifft, awgrymu y gallai camau gorfodi fod yn fwy amserol, gyda llai o amser rhwng methiant a chamau gorfodi.[475] Awgrym arall oedd y dylai ein hymchwiliadau gynnwys mwy o randdeiliaid trydydd parti, er mwyn cael cydbwysedd.[476]

6.170 Roedd awgrymiadau eraill a wnaed yn cynnwys cysylltu hyblygrwydd prisiau â pherfformiad ansawdd gwasanaeth, awgrymu mai dim ond os bydd safonau ansawdd gwasanaeth yn cael eu bodloni y dylid caniatáu i'r Post Brenhinol gynyddu pris gwasanaeth[477], a dadlau dros gynlluniau iawndal a fyddai'n ad-dalu defnyddwyr yn uniongyrchol am fethiannau ansawdd gwasanaeth.[478]

---

[473] Er enghraifft: Ymateb Cymdeithas Defnyddwyr Post i Ymgynghoriad 2025, t. 9; Ymateb Greeting Card Association i Ymgynghoriad 2025, t. 16; Ymateb Consumer Scotland i Ymgynghoriad 2025, t. 58; Ymateb Quadient i Ymgynghoriad 2025, t.5; Ymateb Citipost Mail i Ymgynghoriad 2025, t. 3; Ymateb y Mail Competition Forum i Ymgynghoriad 2025, t. 4.

[474] Er enghraifft: Ymateb Quadient i Ymgynghoriad 2025, t.5; Ymateb Citipost Mail i Ymgynghoriad 2025, t.3; Ymateb Consumer Scotland i Ymgynghoriad 2025, t.58.

[475] Ymateb Quadient i Ymgynghoriad 2025, t.5; Ymateb Citipost Mail i Ymgynghoriad 2025, t.3.

[476] Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, t.53.

[477] Er enghraifft: Ymateb Citipost Mail i Ymgynghoriad 2025, tt.3-4.

[478] Er enghraifft: Ymateb Quadient i Ymgynghoriad 2025, t.5; ymateb Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon i Ymgynghoriad 2025, t.32.

Ein hasesiad a'n penderfyniadau

Maint y cosbau a roddwyd hyd yma

6.171 Yn ein barn ni, mae'r cosbau rydym wedi'u rhoi i'r Post Brenhinol am fethiannau ansawdd gwasanaeth wedi bod yn briodol ac yn gymesur, fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf.[479] Mae Canllawiau Cosbau Ofcom yn nodi'r mathau o ffactorau y mae'n rhaid i ni eu hystyried wrth benderfynu ar faint unrhyw gosb ac yn egluro bod angen i unrhyw ddirwy fod yn briodol ac yn gymesur, ar ôl ystyried holl amgylchiadau'r achos yn ei gyfanrwydd.[480] Yn ogystal â'r ffactorau hyn, ac fel y nodir yn ein canllawiau gorfodi rheoleiddiol, rhaid i ni ystyried ein dyletswyddau statudol. Mae hyn yn cynnwys ein dyletswydd o dan adran 29 y Ddeddf i sicrhau bod gwasanaeth post cyffredinol yn cael ei ddarparu gan ystyried yr angen i'r gwasanaeth hwnnw fod yn gynaliadwy ac yn effeithlon yn ariannol, a'n dyletswydd gyffredinol o dan adran 3 Deddf Cyfathrebiadau 2003 i hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, lle bo hynny'n berthnasol drwy hyrwyddo cystadleuaeth.[481]

6.172 Efallai y bydd rhai o'r ffactorau a'r dyletswyddau'n pwyntio i wahanol gyfeiriadau a bydd y gosb a roddir yn ceisio cydbwyso'r dangosyddion gwahanol hyn i benderfynu ar ddirwy briodol a chymesur. Mae'r ffordd rydym wedi gwneud yr asesiad hwn a'r cosbau roeddem wedi'u rhoi i'r Post Brenhinol yn 2022/23 a 2023/24 wedi'u nodi yn ein dogfennau penderfyniad.[482]

Tryloywder ynghylch cyfrifo cosb

6.173 Fel y nodwyd uchod, wrth ddod i benderfyniad ynghylch swm unrhyw gosb, mae angen i ni ystyried holl amgylchiadau'r achos yn eu cyfanrwydd, gan ystyried y ffactorau a nodir yn ein Canllawiau Cosbau ac ystyried ein dyletswyddau statudol. Mae'r holl ffactorau sydd wedi cael eu hystyried i benderfynu ar gosb wedi'u nodi'n llawn yn ein dogfennau penderfyniad a gyhoeddir gennym ar ddiwedd ymchwiliad. Mae'r rhain ar gael ar wefan Ofcom.[483]

6.174 Er enghraifft, roedd ein penderfyniad yn 2023/24 yn egluro bod y gosb roeddem wedi'i rhoi i'r Post Brenhinol wedi cael ei phennu drwy gydbwyso'r ffactorau canlynol: y niwed sylweddol i ddefnyddwyr a oedd yn debygol o ddeillio o'r gwasanaeth gwael; yr oedi anochel i rai o fentrau'r Post Brenhinol i wella perfformiad; ein cydnabyddiaeth o sefyllfa ariannol y Post Brenhinol; a'r posibilrwydd o newidiadau posibl i ofynion yr USO yn y dyfodol, gan gynnwys y targedau. Ar ôl ystyried yr holl ffactorau hynny yn eu cyfanrwydd, fe wnaethom benderfynu bod y gosb a roddwyd yn briodol ac yn gymesur.[484]

Prydlondeb camau gorfodi

---

[479] Paragraff 7(1), Atodlen 7 i'r Ddeddf.

[480] Ofcom, 14 Medi 2017, Canllawiau Cosbau: Adran 392 Deddf Cyfathrebiadau 2003, gweler hefyd Adran 392 deddf Cyfathrebiadau 2003.

[481] Ofcom, 12 Rhagfyr 2022, Canllawiau Gorfodi Rheoleiddiol ar gyfer ymchwiliadau: Canllawiau; Deddf Gwasanaethau Post 2011 a Deddf Cyfathrebiadau 2003.

[482] Mae rhagor o fanylion am sut penderfynwyd ar swm y gosb yn yr ymchwiliadau hyn wedi'u nodi yn y ddogfen penderfyniad. Gweler Penderfyniad Ansawdd Gwasanaeth y Post Brenhinol 2023/24 a Phenderfyniad Ansawdd Gwasanaeth y Post Brenhinol 2022/23.

[483] Gweler er enghraifft, Penderfyniad Ansawdd Gwasanaeth y Post Brenhinol 2023/24, Adran 5 a Phenderfyniad Ansawdd Gwasanaeth y Post Brenhinol 2022/23., Adran 5.

[484] Penderfyniad Ansawdd Gwasanaeth y Post Brenhinol 2023/24, Adran 5

6.175 Rydym wedi ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid ynghylch prydlondeb ein hymchwiliadau ac yn benodol y bwlch rhwng methiant posibl ac unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd mewn ymateb. Mae'r targedau perfformiad y mae'n rhaid i'r Post Brenhinol eu cyrraedd, fel y nodir yn amod 1 y DUSP, yn dargedau blynyddol sy'n cael eu mesur ar gyfartaledd drwy gydol y cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Rydym yn penderfynu a ddylid ymchwilio ar ôl i ni gael cofnod cyflawn o berfformiad y Post Brenhinol dros y flwyddyn. Mae'r Post Brenhinol yn cwblhau, yn dilysu ac yn cyhoeddi'r data hwn yn ystod mis Mai. Mae'r data'n bwysig oherwydd mae'n galluogi Ofcom i wneud penderfyniadau clir, cadarn a gwrthrychol am berfformiad y Post Brenhinol a chanlyniad cymesur am unrhyw fethiant, os oes angen. Pan fyddwn yn penderfynu ymchwilio, mae hon yn weithdrefn orfodi ffurfiol lle rydym yn honni bod y Post Brenhinol wedi methu â chydymffurfio â rhwymedigaeth reoleiddiol. Felly, mae'n bwysig ein bod yn dilyn y broses briodol wrth ddod i benderfyniad ac, yn unol â'n canllawiau gorfodi ar gyfer ymchwiliadau, byddwn yn ceisio sicrhau bod camau gorfodi'n cael eu cymryd mewn ffordd deg, dryloyw, effeithlon ac amserol.[485]

Cynnwys rhanddeiliaid mewn ymchwiliadau

6.176 Rydym yn nodi'r farn, a arddelir gan rai rhanddeiliaid, y dylem, yn ystod ein hymchwiliadau rheoleiddio, ofyn am fwy o wybodaeth gan randdeiliaid trydydd parti (h.y. ar wahân i'r Post Brenhinol) er mwyn darparu cyd-destun ychwanegol. Mae'n bwysig pwysleisio y byddwn, yn ystod unrhyw ymchwiliad, yn casglu'r holl wybodaeth berthnasol sy'n angenrheidiol er mwyn i ni wneud penderfyniad. I'r perwyl hwnnw, mae gennym amrywiaeth o bwerau casglu gwybodaeth statudol y gallwn eu defnyddio i sicrhau bod gennym y dystiolaeth sydd ei hangen arnom, gan y Post Brenhinol neu bartïon eraill yn ôl yr angen, i'n helpu i wneud ein penderfyniadau. Nodwn fod canlyniadau difrifol i fethu â darparu ymateb cyflawn a chywir i gais ffurfiol am wybodaeth, gan gynnwys y posibilrwydd o gamau gorfodi pellach.

6.177 Mae ein hymchwiliadau diweddar wedi golygu arfer ein pwerau statudol yn ffurfiol, lle rydym wedi penderfynu bod y Post Brenhinol wedi torri ei rwymedigaethau rheoleiddio, ac wedi rhoi cosbau ariannol sylweddol. Fel gydag unrhyw ymchwiliad o'r fath, mae gan y Post Brenhinol amddiffyniadau gweithdrefnol penodol a hawl i amddiffyn ei hun. Dyna pam mae'r Post Brenhinol wedi cael cyfle i gyflwyno sylwadau i Ofcom yn ystod ein hymchwiliadau. Pan fydd wedi cyflwyno unrhyw sylwadau o'r fath, mae'r rhain wedi'u nodi, ynghyd â'n hasesiad, yn ein penderfyniadau cyhoeddedig.

Ysgogiadau ariannol eraill sy'n ymwneud â chydymffurfio ag ansawdd gwasanaeth

6.178 Nodwn fod rhanddeiliaid wedi rhannu awgrymiadau ar ysgogiadau posibl eraill, nad ydynt ar hyn o bryd yn rhan o'n hadnoddau gorfodi, y gellid eu defnyddio i gymell gwell perfformiad. Roedd y rhain yn cynnwys cysylltu perfformiad ansawdd gwasanaeth â phrisiau a chynlluniau iawndal awtomatig i ddefnyddwyr. Mae'r materion hyn y tu allan i gwmpas yr adolygiad hwn o'r USO. Fodd bynnag, cyn bo hir byddwn yn dechrau adolygu fforddiadwyedd a phrisiau gwasanaethau'r Post Brenhinol cyn i'r cap diogelu ar brisiau llythyrau Ail Ddosbarth ddod i ben ym mis Mawrth 2027.

[485]Ofcom, 31 Ionawr 2025, Canllawiau Gorfodi Rheoleiddiol ar gyfer Ymchwiliadau, para. 4.3.

Newidiadau i Amod 1 y DUSP

6.179 Yn ein Hymgynghoriad, fe wnaethom nodi addasiadau arfaethedig i Amod 1 y DUSP a fyddai'n gweithredu ein newidiadau arfaethedig i dargedau ansawdd gwasanaeth.

6.180 Mewn perthynas â'r cynigion ar gyfer newidiadau targed a nodwyd gennym yn ein Hymgynghoriad yn 2025, fe wnaethom egluro ein barn y byddai'r profion cyfreithiol perthnasol ar gyfer gwneud newidiadau i amodau'r DUSP, fel y nodir yn adran 36 a pharagraff 1 o Atodlen 6 i'r Ddeddf, yn cael eu bodloni yng ngoleuni ein barn bod addasiadau'n gyfiawn, yn anwahaniaethol, yn gymesur ac yn dryloyw.

Ymatebion rhanddeiliaid a'n hasesiad

6.181 Cawsom ymatebion gan y Post Brenhinol ac Unite CMA a oedd yn rhoi sylwadau ar weithredu newidiadau i dargedau ansawdd gwasanaeth. Roedd y ddau ymateb o'r farn y dylid cyflwyno'r newidiadau targed fesul cam, yn hytrach na chyflwyno'r newidiadau ar un adeg benodol.

6.182 Esboniodd y Post Brenhinol sut roedd yn rhagweld y byddai'n gwella ei berfformiad dros amser er mwyn cyrraedd y lefelau targed diwygiedig yn y pen draw. [✂]. Yng ngoleuni'r amser y mae'n disgwyl ei gymryd i gyrraedd y lefelau targed hyn, awgrymodd y Post Brenhinol y byddai'n fwy priodol barnu ei berfformiad ym mlwyddyn un drwy ganlyniadau gadael misol P12. Mewn perthynas â'r targedau post hwyr newydd, eglurodd y Post Brenhinol ei fod yn ansicr i ba raddau y bydd perfformiad yn y dyfodol yn dilyn y trawsnewid gweithredol yn debyg i berfformiad presennol a blaenorol, ac felly y dylid cynnal adolygiad o lefelau targed ar sail perfformiad yn y flwyddyn gyntaf.[486]

6.183 Gofynnodd Unite CMA i dargedau gael eu gosod i ddechrau ar lefelau sylweddol is (e.e. 80% D+1 ar gyfer Dosbarth Cyntaf), gyda chynnydd graddol bob blwyddyn dros gyfnod o 5-10 mlynedd, cyn sefydlogi yn y pen draw.

6.184 Mewn perthynas ag amseriad gweithredu, rydym wedi ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd gan y Post Brenhinol, yn ogystal â barn rhanddeiliaid eraill, ond ar y cyfan nid ydym yn credu y byddai'n briodol gweithredu fesul cam i ddod â'r targedau ansawdd gwasanaeth diwygiedig i rym. Rydym wedi bod yn glir nad yw'r newidiadau hyn yn esgusodi methiant presennol y Post Brenhinol, ac nad ydynt ychwaith i fod i ddarparu ar gyfer gwasanaeth o ansawdd gwael yn y dyfodol. Mae'n bwysig gwahanu, ar y naill law, ystyriaeth o'r camau y mae'n rhaid i'r Post Brenhinol eu cymryd i ddychwelyd i ddarparu gwasanaeth dibynadwy o ansawdd uchel, oddi wrth y cwestiwn, ar y llaw arall, sut i osod y targedau cywir ar gyfer y gwasanaeth cyffredinol diwygiedig. O'r herwydd, nid ydym yn credu ei bod yn briodol ymgorffori dull fesul cam yn ein gwaith o reoleiddio ansawdd gwasanaeth yn y dyfodol, a byddwn yn dod â'r newidiadau targed i rym ar un adeg benodol.

6.185 Fodd bynnag, mae ein penderfyniad ar amseriad gweithredu yn ystyried y ffaith bod targedau ansawdd gwasanaeth yn cael eu mesur a'u gorfodi'n flynyddol. Rydym yn cydnabod y gallai fod yn amhriodol newid y rhwymedigaethau hyn ganol blwyddyn. Wedi dweud hynny, o ystyried y cysylltiad rhwng y newidiadau targed a'r diwygiadau ehangach, ein barn ni yw y dylid dod â'r newidiadau targed i rym ar y pwynt priodol cyntaf. O'r herwydd, rydym wedi penderfynu y bydd y newidiadau i dargedau yn dod i rym o

[486] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, tt.39-43.

ddechrau'r cyfnod perfformiad blynyddol nesaf ym mis Ebrill 2026. Mae dyddiad gweithredu'r newidiadau hyn wedi'i nodi yn yr hysbysiad statudol o addasiadau i DUSP 1 yn Atodiad A7.

6.186 Bydd hyn yn golygu y bydd y targedau presennol yn parhau i fod yn berthnasol ar gyfer cyfnod 2025/26. Nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw faterion perthnasol yn deillio o hyn, er ein bod wedi nodi rhai mân ystyriaethau y byddwn yn eu hystyried wrth adolygu perfformiad yn 2025/26. Sef, bydd yn rhaid i'r gwaith o gyfrifo amseroedd llwybro ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth ystyried amseriad y newid yn y diffiniad o 'ddiwrnod gwaith' ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth a fydd yn cael ei wneud drwy addasiadau ar wahân i Amod 1 y DUSP a ddisgrifir yn Adran 5.

6.187 Mewn perthynas â'r awgrym ynghylch adolygu targedau yn y dyfodol, byddwn yn monitro datblygiadau, gan ystyried gwerth sicrwydd rheoleiddiol i'r Post Brenhinol a'r holl randdeiliaid.

6.188 Mae Atodiad A7 yn cynnwys hysbysiad statudol o'r addasiadau rydym wedi penderfynu eu gwneud i Amod 1 y DUSP.

Profion Cyfreithiol

6.189 O ran ein penderfyniadau terfynol, ac ar ôl ystyried yr ymatebion i'n Hymgynghoriad, rydyn ni o'r farn bod y set o newidiadau rydyn ni'n eu gwneud yn bodloni'r profion cyfreithiol perthnasol ar gyfer diwygio amodau'r DUSP. Yn unol ag adran 36(3) Ddeddf, rydym o'r farn bod angen yr addasiadau i sicrhau bod y gwasanaethau Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth a nodir yn y Gorchymyn yn cael eu darparu. Rydym hefyd o'r farn bod yr addasiadau'n bodloni'r prawf ym mharagraff 1 Atodlen 6 i'r Ddeddf oherwydd, gan ystyried y dadansoddiad uchod, maent:

- **Yn gyfiawn yn wrthrychol:** Rydym o'r farn bod modd cyfiawnhau addasiadau i dargedau ansawdd gwasanaeth drwy'r dystiolaeth rydym wedi'i hamlinellu, gan gynnwys y newidiadau sylweddol yng ngweithrediad y farchnad llythyrau, arwyddocâd y costau gweithredol cynyddol sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth cyffredinol, ac anghenion defnyddwyr. Rydym hefyd wedi ystyried gwybodaeth a ddarparwyd gan randdeiliaid. Wrth asesu diwygiadau i dargedau presennol, yn ogystal â chyflwyno targedau post hwyr newydd, mae ein hasesiad effaith wedi ystyried y cydbwysedd rhwng y dystiolaeth sydd ar gael ar gostau, manteision a risgiau, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, ymatebion rhanddeiliaid i'n Hymgynghoriad, dadansoddiad ystadegol o berfformiad yn y gorffennol a chymariaethau rhyngwladol. Yn achos y targed Dosbarth Cyntaf D+1 cenedlaethol a'r targed PCA cysylltiedig, mae modd cyfiawnhau gostyngiadau cymedrol er mwyn cefnogi cynaliadwyedd y gwasanaeth cyffredinol ar yr un pryd â sicrhau canlyniadau gwell i ddefnyddwyr, gan adlewyrchu'r cydbwysedd mae'n rhaid ei gael rhwng fforddiadwyedd prisiau, sicrhau gwasanaeth o ansawdd uchel, a dibynadwyedd. Rydym o'r farn bod newid y targed D+3 ar gyfer Ail Ddosbarth yn addasiad cymesur i'r model newydd ar gyfer danfon llythyrau Ail Ddosbarth, gan gynnal safon uchel i ddefnyddwyr ar yr un pryd. Mae ein penderfyniadau ynghylch cyflwyno targedau post hwyr newydd ar gyfer Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth yn adlewyrchu ein dealltwriaeth o anghenion defnyddwyr o ran dibynadwyedd ac ymarferoldeb gweithredol rhwydwaith y Post Brenhinol o ran post hwyr. Dylai'r targedau fynd i'r afael â bwlch mewn cymhellion a sicrhau, pan fydd eitemau'n cael eu gohirio, eu bod yn dal i gael eu danfon o fewn amser rhesymol.

- **Ddim yn gwahaniaethu'n ormodol:** Rydym o'r farn nad yw'r newidiadau i dargedau ansawdd gwasanaeth yn gwahaniaethu'n ormodol gan fod addasiadau i amodau'r DUSP ond yn berthnasol i'r Post Brenhinol. Rydym yn cydnabod bod rhywfaint o ansicrwydd am effeithiau dosbarthiadol y model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth. Rydym yn gwybod bod targedau is yn gyffredinol yn caniatáu ar gyfer mwy o amrywiaeth mewn perfformiad ar lefel leol. Byddwn yn parhau i fonitro amrywiadau daearyddol yn agos wrth i'r Post Brenhinol brofi'r model danfon newydd, a byddwn yn ystyried a oes angen unrhyw fesurau ychwanegol i sicrhau gwasanaeth cyffredinol a chyfartal. Rydym hefyd o'r farn y dylai diwygio'r targed PCA ar gyfer post Dosbarth Cyntaf, a chyflwyno targedau post hwyr ar gyfer post Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth, gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaeth sy'n fwy cyfartal ar draws y DU. Mae rhai defnyddwyr yn dweud eu bod yn fwy dibynnol ar bost, ond mae tystiolaeth yn awgrymu bod eu hanghenion yn debyg i anghenion 'defnyddwyr nodweddiadol'. Er y gallai'r newidiadau i'r prif dargedau Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth effeithio mwy ar y defnyddwyr hyn, mae'n debygol y byddant yn elwa mwy na'r defnyddiwr cyffredin o gyflwyno'r targedau post hwyr.
- **Yn gymesur mewn perthynas â'r hyn y bwriedir iddynt ei gyflawni:** Rydym wedi ystyried a disgrifio'r ffordd y gallai targedau Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth sy'n aros ar y lefelau presennol arwain at gostau anghymesur i'r Post Brenhinol, a allai yn y pen draw arwain at brisiau uwch i ddefnyddwyr sy'n gwrthdaro ag anghenion defnyddwyr, a gallai ychwanegu at y risgiau i gynaliadwyedd y gwasanaeth cyffredinol. Mae ein penderfyniadau i gyflwyno targedau post hwyr newydd yn adlewyrchu'r ddealltwriaeth ddiweddaraf o sensitifrwydd lefelau targed uchel. Rydym o'r farn bod y newidiadau yn gymesur o ran eu bod yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng yn canlyniadau i ddefnyddwyr – gan sicrhau gwasanaeth post dibynadwy a fforddiadwy o ansawdd uchel (gan gydnabod efallai y bydd rhywfaint o gyfaddawdu rhwng y rhain) – a'r baich ar y Post Brenhinol. Rydym o'r farn nad yw unrhyw effeithiau niweidiol sy'n deillio o'n penderfyniadau i newid y prif dargedau yn fwy na'r hyn sy'n angenrheidiol i gyflawni ein hamcanion polisi. Rydym hefyd o'r farn y bydd unrhyw effeithiau o'r fath yn cael eu gwrthbwyso drwy gyflwyno targedau post hwyr, a'r cyfraniad y bydd y penderfyniadau hyn yn ei wneud at gefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol ac felly ei ddarpariaeth barhaus er budd pob defnyddiwr.
- **Tryloyw mewn perthynas â'r hyn y bwriedir iddynt ei gyflawni:** Rydym wedi nodi ein rhesymeg yn llawn mewn perthynas â'r dull cyffredinol rydym wedi'i ddefnyddio wrth gyflwyno addasiadau i'r set o dargedau, yn ogystal â phob un o'r newidiadau unigol rydym wedi penderfynu eu gwneud, yn y Datganiad hwn. Mae manylion yr union newidiadau i Amod 1 y DUSP i'w gweld yn yr hysbysiad statudol yn Atodiad A7.

6.190 Rydym yn credu bod yr addasiadau yn cyd-fynd â'n dyletswyddau yn adran 29 o'r Ddeddf, gan y dylent gefnogi darparu gwasanaeth cyffredinol yn barhaus drwy gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol a'i effeithlonrwydd.

6.191 Rydym o'r farn bod yr addasiadau'n cyd-fynd â'n dyletswyddau yn adran 3 Deddf Cyfathrebiadau 2003 i hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, gan gynnwys mewn perthynas ag ansawdd gwasanaeth a phris. Rydym hefyd wedi ystyried buddiannau gwahanol pobl mewn gwahanol rannau o'r DU, a'r rheini sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.

7. Mynediad

Pwrpas yr adran hon

Yn yr adran hon rydym yn nodi ein penderfyniadau ar gyfer newidiadau i'r drefn reoleiddio sy'n rhoi rhwymedigaethau ar y Post Brenhinol i ddarparu mynediad i'w rwydwaith post.

Ein penderfyniadau – yn gryno

Post swmp yw'r rhan fwyaf o'r llythyrau a anfonir heddiw, h.y. y llythyrau a anfonir gan sefydliadau mawr megis banciau, adrannau'r llywodraeth, y GIG neu awdurdodau lleol. Fodd bynnag, nid yw post swmp yn rhan o'r USO.

Mae'r Post Brenhinol yn cynnig ei wasanaethau post swmp ei hun ar sail fasnachol, ond rydym hefyd yn mynnu bod y Post Brenhinol (drwy Amod Mynediad Darparwr Gwasanaeth Cyffredinol (Amod USPA)) yn cynnig mynediad i'w rwydwaith i gwmnïau post eraill er mwyn iddynt allu cynnig gwasanaethau post swmp sy'n cystadlu. Rhaid i'r Post Brenhinol hefyd gynnig mynediad yn uniongyrchol i ddefnyddwyr post mawr (gyda'i gilydd. Mae'r post sy'n cael ei anfon drwy wasanaethau mynediad (a elwir yn 'bost mynediad') yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r farchnad post swmp.

Mae angen model danfon wedi'i ddiweddaru ar gyfer llythyrau USO a phost mynediad er mwyn i'r Post Brenhinol gyflawni arbedion cost posibl yn sgil diwygio.

Rydym wedi penderfynu rheoleiddio'r gwaith o ddanfon gwasanaethau mynediad D+3 newydd o dan yr Amod USPA, a fydd yn ceisio danfon llythyrau o fewn tri diwrnod yn ystod yr wythnos ar ôl cael eu casglu gan yr anfonwr o dan yr un model danfon bob yn ail ddiwrnod yn yr wythnos â'r un sy'n cael ei gynnig ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth. Rydym yn credu y bydd y newid hwn yn parhau i ganiatáu marchnad gystadleuol ddynamig ar gyfer post swmp sy'n diwallu anghenion sefydliadau mawr a'u cwsmeriaid.

Rydym wedi penderfynu rhoi'r gorau i ddanfon ar ddydd Sadwrn ar gyfer gwasanaethau mynediad D+5, er mwyn gallu danfon y post hwn o dan y model danfon bob yn ail ddiwrnod yn yr wythnos.

Rydyn ni'n parhau i reoleiddio gwasanaethau mynediad D+2 ac rydyn ni wedi penderfynu diwygio gwasanaethau adwerthu cymharol y Post Brenhinol o fewn y rheolaeth gwasgu elw. Byddwn yn parhau i adolygu'r gwaith o reoleiddio mynediad D+2, gan ystyried cyfleoedd posibl ar gyfer dadreoleiddio.

Rydym hefyd wedi gwneud penderfyniadau ynghylch: tryloywder ein hasesiad o'r rheolaeth gwasgu elw ar wasanaethau mynediad, sut rydym yn diffinio gwasanaethau mynediad yn yr Amod USPA, a sut dylai'r Post Brenhinol gyhoeddi gwybodaeth am ansawdd gwasanaeth am fynediad D+3.

Cyflwyniad

7.1 O ran yr Amod USPA, mae Ofcom yn mynnu bod y Post Brenhinol yn cynnig mynediad i'w rwydwaith post i drydydd partïon, gan gynnwys cwmnïau post eraill a sefydliadau sy'n defnyddio llawer o bost, er mwyn iddynt allu defnyddio ei wasanaethau danfon llythyrau'r filltir olaf. Mae hyn yn galluogi'r cwmnïau post hyn i gasglu post swmp gan fusnesau a

sefydliadau eraill, ei ddidoli, a'i ddosbarthu i ganolfannau post am i mewn ("IMC")[487] y Post Brenhinol o lle mae'n cael ei ddanfon i unigolion ac i sefydliadau (gweler Ffigur 7.1 isod). Mae defnyddwyr post mawr sydd â mynediad hefyd yn gallu didoli eu post eu hunain a'i ddosbarthu i IMC y Post Brenhinol i'w ddanfon. Rydym yn galw hyn yn 'bost mynediad'. Mae'r post mynediad hwn yn sicrhau bod defnyddwyr post mawr yn elwa o gystadleuaeth pris a gwasanaeth wrth gasglu a didoli post ar yr un pryd â gallu manteisio ar sefyllfa unigryw'r Post Brenhinol o ran danfon llythyrau. Mae'r Post Brenhinol hefyd yn cynnig ei wasanaethau post swmp ei hun i fusnesau ac i sefydliadau drwy ei gangen manwerthu, Royal Mail Retail. Nid yw'r gwasanaethau adwerthu hyn yn cael eu rheoleiddio (er bod is-set ohonynt wedi'u cynnwys yn y rheolaeth gwasgu elw) ac maent yn cystadlu'n uniongyrchol â gweithredwyr mynediad am gwsmeriaid.

7.2 Mae post swmp, gan gynnwys post mynediad a phost manwerthu'r Post Brenhinol ei hun, yn cynrychioli'r rhan fwyaf o'r holl bost. Yn 2023/24, anfonwyd 9 biliwn o lythyrau. O hyn, mae post swmp yn cynrychioli 5.7 biliwn o eitemau, neu 63% o'r cyfanswm. Gyda 4.6 biliwn o lythyrau, mae post mynediad yn cynrychioli 83% o lythyrau post swmp.[488]

Ffigur 7.1: Cadwyn gwerth gwasanaeth post, gan gynnwys post o un pen i'r llall a phost mynediad



7.3 Mae'r Post Brenhinol yn defnyddio'r un rhwydwaith i ddanfon post swmp fel post un eitem sy'n cael ei anfon gan ddefnyddio gwasanaethau USO, ac ar hyn o bryd mae'n rhaid iddo ddanfon post mynediad o ddydd Llun i ddydd Sadwrn. O ystyried hyn, a bod y rhan fwyaf o'r llythyrau sy'n cael eu hanfon yn bost swmp, byddai'r penderfyniadau yn Adran 5 y Datganiad hwn ond yn galluogi'r Post Brenhinol i weithredu model danfon wedi'i

[487] Mae 'Canolfan Post am i Mewn' neu 'IMC' yn golygu'r rhan o'r ganolfan bost lle mae'r gweithgareddau'n ymwneud â'r prosesau didoli terfynol i ddanfon post (yn nalgylch y ganolfan bost honno) a dderbynnir o'r rhan ymhellach i fyny ffrwd rhwydwaith y Post Brenhinol, neu gan gwmnïau post eraill, i'r cyfeiriadau terfynol. Mae rhan ymhellach i fyny ffrwd rhwydwaith y Post Brenhinol yn cynnwys y prosesau sy'n ymwneud â chasglu a dosbarthu post i Ganolfannau Post am i Mewn.

[488] Mae gennym ffigurau ar gyfer 2024/25, ond nid yw'r rhain wedi cael eu cymeradwyo'n derfynol gan archwilwyr y Post Brenhinol. Yn 2024/25, anfonwyd [✂] o lythyrau. O hyn, mae post swmp yn cynrychioli [✂] o eitemau, neu [✂] o'r cyfanswm. Gyda [✂] o lythyrau, mae post mynediad yn cynrychioli [✂] o lythyrau post swmp.

foderneiddio ar gyfer lleiafrif o'r llythyrau yn y farchnad. Er mwyn sicrhau bod yr arbedion cost posibl yn sgil diwygio a'r manteision i ddefnyddwyr o gefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol yn ystyrlon, mae angen i'r Post Brenhinol hefyd allu danfon y rhan fwyaf o bost swmp o dan y model arfaethedig i ddanfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Yn unol â hynny, mae'r adran hon yn asesu effaith newidiadau i reoleiddio mynediad a fyddai'n cefnogi'r canlyniad hwn, ac mae'n nodi ein penderfyniadau i addasu'r Amod USPA.

Y farchnad post swmp

7.4 Yn yr adran hon, rydym yn nodi sut mae'r farchnad post swmp yn gweithredu a sut mae post mynediad yn gweithredu yn y farchnad post swmp.

Post Swmp

7.5 Mae post swmp yn cyfeirio at ystod o wasanaethau a ddarperir i anfonwyr llawer iawn o bost, fel arfer sefydliadau fel y GIG, asiantaethau'r llywodraeth, awdurdodau lleol a banciau. Mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu prisio ar ddisgownt sylweddol i gynnyrch Llythyrau safonol a stampiau Llythyrau Mawr, gyda'r disgowntiau'n adlewyrchu'r niferoedd mawr sy'n cael eu hanfon a'r ffordd mae'r post wedi cael ei gyflwyno gan gwsmeriaid post swmp neu gwmnïau mynediad, ymysg ffactorau eraill.

7.6 Mae gwasanaethau post swmp fel arfer ar gael i gwsmeriaid naill ai drwy gynigion manwerthu'r Post Brenhinol ei hun, neu drwy ddefnyddio cwmni mynediad fel sy'n cael ei esbonio ymhellach isod. Rydym yn defnyddio'r term 'post swmp' i sôn am yr holl bost sy'n cael ei anfon naill ai gan ddefnyddio cynigion manwerthu'r Post Brenhinol neu gan gwmni mynediad.

7.7 O'r gweithdai a gynhaliodd Ofcom gyda defnyddwyr post mawr yn 2019 ac yn 2020, rydym yn deall, er bod defnyddwyr mawr yn rhagweld y byddant yn defnyddio llai o bost yn y dyfodol, nad yw mathau eraill o gyfathrebu yn gallu cymryd eu lle yn llwyr. Mae rhai cwsmeriaid i ddefnyddwyr mawr yn dal i ffafrio gael biliau a chyfriflenni drwy'r post. Dywedodd llawer o ddefnyddwyr mawr wrthym hefyd fod prisiau, ansawdd gwasanaeth, cyflymder a/neu dracio yn ffactorau pwysig a oedd yn sail i'w penderfyniadau ynghylch faint o bost i'w anfon.[489] Mae hyn yn cyd-fynd â'r math o ymateb a gawsom gan ddefnyddwyr gwasanaethau post mawr yn ein proses CFI 2024.[490]

7.8 Rydym hefyd yn gwybod bod defnyddwyr yn fwy tebygol o boeni am dderbyn post sy'n debygol o fod wedi cael ei anfon drwy sianel post swmp. Er enghraifft, dywedodd pymtheg y cant o'r rhai a ddywedodd eu bod yn cael canlyniadau profion meddygol drwy lythyr na fyddai eu hanghenion yn cael eu diwallu gyda gwasanaeth llythyrau busnes safonol/Ail Ddosbarth a fyddai'n cymryd diwrnod yn hirach i gyrraedd a dim danfon ar ddydd Sadwrn. Dywedodd ychydig dros un o bob deg (12%) o'r derbynwyr yr un peth mewn perthynas â llythyrau apwyntiadau gofal iechyd. Y rhai a oedd yn derbyn llythyrau budd-daliadau (10%) a llythyrau sy'n ymwneud â chyllid, fel biliau ac anfonebau (9%), oedd y nesaf mwyaf

[489] Ofcom, 2020. Ymgynghoriad: Addasiadau i Amod Mynediad darparwr gwasanaeth cyffredinol ar gyfer rheoleiddio mynediad i rwydwaith post y Post Brenhinol tudalen 11

[490] PPA ac NHS England ymatebion i Gais am Fewnbwn 2024.

tebygol o ddweud na fyddai newid o'r fath i wasanaethau llythyrau'n diwallu eu hanghenion mwyach.[491]

Post mynediad

7.9 Mae post mynediad yn golygu post sy'n cael ei gasglu a'i ddidoli gan barti ar wahân i'r Post Brenhinol, cyn ei drosglwyddo i'r Post Brenhinol i'w ddanfon (yn gyffredinol yn y Ganolfan Post am i mewn yn unol â Ffigur 7.1 uchod). Gallai hyn fod yn gwmni post arall, neu'r cwsmer ei hun, yn dibynnu ar y cytundeb penodol sydd ar waith.[492] Rydym yn galw unrhyw barti sydd â mynediad yn 'gwmni mynediad'. Mae cwmnïau mynediad yn gwneud trefniadau gyda'r Post Brenhinol i ddanfon post i gwsmeriaid ar sail telerau safonol.

7.10 Fel y nodwyd, mae gweithrediadau adwerthu'r Post Brenhinol yn cystadlu â chwmnïau mynediad o ran darparu gwasanaethau post swmp. Gan fod gan y Post Brenhinol rwydwaith cenedlaethol o ganolfannau post a swyddfeydd danfon, mae'n elwa o arbedion maint sylweddol wrth ddanfon post, gan ei wneud yn fwy effeithlon yn y 'filltir olaf'. Oherwydd y byddai'r 'filltir olaf' yn ddrud iawn i gwmnïau mynediad ei efelychu, rydym yn mynnu bod y Post Brenhinol yn rhoi mynediad i'w rwydwaith i gefnogi cystadleuaeth effeithiol yn y farchnad post swmp. Mae ein trefn reoleiddio yn ceisio diogelu cwmnïau mynediad rhag ymddygiad gwrth-gystadleuol a allai ddeillio o safle cryf y Post Brenhinol yn y gadwyn gyflenwi post, er enghraifft drwy fynnu ei fod yn: darparu mynediad ar delerau, amodau a ffioedd teg a rhesymol;[493] cydymffurfio â rheolaeth i atal gwasgfa prisiau ar wasanaethau mynediad gorfodol;[494] a chyhoeddi gwybodaeth o'r fath sy'n rhesymol angenrheidiol er mwyn bod yn dryloyw am ansawdd gwasanaeth ei wasanaethau mynediad ymhellach i lawr y ffrwd.[495]

7.11 Ar hyn o bryd, mae'r Amod USPA yn mynnu bod y Post Brenhinol yn cynnig dau fath o wasanaeth mynediad ar gyfer llythyrau, ac mae'r naill a'r llall yn cynnwys danfon o ddydd Llun i ddydd Sadwrn:

- **Gwasanaethau mynediad D+2**
  Mae'n rhaid i'r Post Brenhinol gynnig mynediad yn ei IMCs ar gyfer Llythyrau a chynhyrchion Llythyrau Mawr 'D+2', er mwyn galluogi cwmnïau mynediad i gynnig gwasanaethau sy'n ceisio danfon post o fewn dau ddiwrnod gwaith ar ôl casglu'r post oddi wrth yr anfonwr. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r Post Brenhinol ddanfon llythyrau sy'n cael eu hanfon drwy ddefnyddio'r gwasanaeth hwn y diwrnod ar ôl i'r post gyrraedd ei rwydwaith oherwydd, yn unol â thabl 7.1, D yw'r diwrnod mae'r cwmni mynediad yn casglu'r post gan yr anfonwr.[496]

---

[491] BMG, 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleid 29.

[492] Rydym yn nodi bod amrywiaeth o ffyrdd i brosesu post mynediad a'i drosglwyddo i'r Post Brenhinol i'w ddanfon – hynny yw, drwy gwmnïau mynediad, drwy gytundebau asiantaeth neu drwy drefniadau Mynediad Uniongyrchol i Gwsmeriaid (CDA).

[493] Amod 3 yr USPA.

[494] Amod 6.1 yr USPA.

[495] Amod 8.1 yr USPA.

[496] Mae'r Amod USPA yn cyfeirio at yr amser llwybro ar gyfer y gwasanaethau hyn fel 'D+2 neu ddiweddarach'. Gall cwmni mynediad gasglu post oddi wrth ei gwsmeriaid ond ddim ei drosglwyddo i'r Post Brenhinol ar y diwrnod canlynol. Mewn sefyllfa o'r fath, mae D yn parhau i fod y diwrnod y cesglir y post ac felly byddai'r cwmni mynediad yn darparu gwasanaeth 'hwyrach na D+2' i'w gwsmeriaid.

- **Gwasanaethau mynediad D+5**
  Mae'n rhaid i'r Post Brenhinol hefyd gynnig mynediad yn ei IMCs ar gyfer cynnyrch Llythyrau 'D+5', er mwyn galluogi cwmnïau mynediad i gynnig gwasanaethau sy'n ceisio danfon post o fewn pum niwrnod gwaith ar ôl casglu'r post oddi wrth yr anfonwr. Unwaith eto, D yw'r diwrnod mae'r cwmni mynediad yn casglu'r post gan yr anfonwr, fel bod llythyrau sy'n cael eu hanfon drwy ddefnyddio'r gwasanaeth hwn yn cael eu danfon yn ymarferol o fewn pedwar diwrnod gwaith ar ôl trosglwyddo i'r IMC.[497]

Tabl 7.1: manyleb gwasanaethau mynediad

	D	D+1	D+2	D+3	D+4	D+5
Gwasanaethau mynediad D+2	**Y cwsmer yn rhoi'r post i'r cwmni mynediad**	**Y cwmni mynediad yn rhoi'r post i'r Post Brenhinol**	**Y Post Brenhinol yn danfon y post**			
Gwasanaethau mynediad D+5	**Y cwsmer yn rhoi'r post i'r cwmni mynediad**	**Y cwmni mynediad yn rhoi'r post i'r Post Brenhinol**	**Y Post Brenhinol yn danfon y post neu'n oedi cyn danfon**	**Y Post Brenhinol yn danfon y post neu'n oedi cyn danfon**	**Y Post Brenhinol yn danfon y post neu'n oedi cyn danfon**	**Y Post Brenhinol yn danfon gweddill y post**

7.12 Mae'r Post Brenhinol hefyd yn cynnig mynediad parseli a gwasanaeth llythyrau mynediad premiwm D+1 (h.y. y diwrnod canlynol), ond nid yw'r rhain yn cael eu rheoleiddio ac maent yn seiliedig ar delerau masnachol. Mae'r cynnyrch mynediad premiwm yn cludo swm bychan o bost gan fod y ffenestr danfon i gwmni mynediad drosglwyddo llythyrau premiwm i'r Post Brenhinol yn gul ac yn hwyr gyda'r nos. Mae hyn yn golygu bod lleoliad canolfan bost cwmni mynediad, o'i gymharu â chanolfan bost y Post Brenhinol, yn allweddol i fodloni'r ffenestr hon. Felly, mae'r heriau o ran cyflawni hyn, ochr yn ochr â'r pris uwch, yn golygu mai ychydig o alw sydd am y gwasanaeth llythyrau premiwm mynediad D+1.

Niferoedd a refeniw mynediad

7.13 Yn 2023-24, gwasanaethau mynediad D+2 oedd y rhan fwyaf o'r farchnad mynediad gyda 2.9 biliwn o lythyrau (61%) o gyfanswm o 4.8 biliwn o lythyrau mynediad, ac roedd gwasanaethau D+5 yn cynrychioli 1.9 biliwn (39%).
Fodd bynnag, cododd y niferoedd D+5 52%, a disgynnodd y niferoedd D+2 25% yn y flwyddyn hon, gyda niferoedd cyffredinol post mynediad yn disgyn o 5.1 biliwn i 4.8 biliwn. Er gwaethaf y gostyngiad yn niferoedd y post mynediad, roedd refeniw mynediad y Post

[497] Mae'r Amod USPA hefyd yn cyfeirio at yr amser llwybro ar gyfer y gwasanaethau hyn fel 'D+5 neu ddiweddarach'. Yn yr un modd â D+2, efallai na fydd cwmni mynediad yn trosglwyddo'r post i'r Post Brenhinol y diwrnod ar ôl iddo ei gasglu gan ei gwsmeriaid. Byddai felly'n darparu gwasanaeth 'hwyrach na D+5' i'w gwsmeriaid.

Brenhinol wedi cynyddu ychydig o £1.5bn i £1.6bn, oherwydd y cynnydd mewn prisiau mae'n debyg.[498]

7.14 Rydym wedi cael gwybodaeth gan y Post Brenhinol sy'n dangos bod niferoedd mynediad D+5 yn cynrychioli 49% o'r holl lythyrau mynediad yn y pedwar chwarter llawn diweddaraf yr oedd ganddo ddata ar eu cyfer, sy'n dangos bod y patrwm yn parhau o symud i ffwrdd o fynediad D+2 i D+5.[499] Rydym yn disgwyl mai rhan o'r rheswm dros hyn yw oherwydd bod galw am bost rhatach gydag amser danfon hirach. Fodd bynnag, rydym hefyd yn gwybod bod rhai defnyddwyr post mawr yn newid i wasanaethau mynediad D+5 o ganlyniad i sensitifrwydd prisiau a phryderon am ansawdd gwasanaeth.

Crynodeb o gynigion ymgynghoriad Ionawr 2025

7.15 Yn ein Hymgynghoriad, fe wnaethom nodi sut roedd cynigion i ddiwygio'r USO hefyd yn effeithio ar bost mynediad. Y rheswm am hyn yw, yn unol â'r adran uchod, post mynediad yw'r rhan fwyaf o'r holl bost ac felly dim ond drwy wneud diwygiadau ategol i reoleiddio mynediad y gellir gwireddu arbedion cost posibl yn sgil diwygio.

7.16 O ganlyniad i hynny, roeddem yn cynnig rheoleiddio gwasanaethau mynediad newydd D+3 (mewn perthynas â Llythyrau a Llythyrau Mawr), gan y byddai'r nifer sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn yn caniatáu i'r Post Brenhinol symud nifer y llythyrau D2 presennol i fodel bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, gan gefnogi'r pecyn ehangach o ddiwygiadau a'r potensial ar gyfer arbedion cost. Roeddem hefyd yn cynnig defnyddio rheolaeth gwasgu elw ar wasanaethau mynediad D+3 a chyflwyno rheoliadau ansawdd gwasanaeth newydd a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r Post Brenhinol gyhoeddi data chwarterol am ei berfformiad danfon D+3.

7.17 Awgrymodd y Post Brenhinol y dylai allu darparu gwasanaethau mynediad D+2 ar sail fasnachol heb ei rheoleiddio yn dilyn diwygio i wasanaethu'r galw gweddilliol na ellir ei wasanaethu gan wasanaethau mynediad D+3 newydd. O dan y diwygiadau arfaethedig, byddai angen danfon post D+2 ochr yn ochr â llythyrau Dosbarth Cyntaf, oherwydd y ffaith na allai'r Post Brenhinol fodloni manyleb danfon D+2 os yw'n danfon post o'r fath o dan y model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Felly, byddai angen danfon post D+2 ar lwybrau faniau ar y diwrnodau nad yw llwybr ar droed wedi'i drefnu, am gost uwch fesul uned.

7.18 Er mwyn gwireddu manteision cost yn sgil diwygio, awgrymodd y Post Brenhinol fod angen hyblygrwydd llawn o ran prisiau a'r gallu i dynnu mynediad D+2 yn ôl yn gyfan gwbl, er enghraifft pe bai niferoedd yn y gwasanaeth yn dal yn rhy uchel fel na allai wneud y gorau o arbedion o'r model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos.[500] Yn ein Hymgynghoriad, roeddem o'r farn y gallai fod rhywfaint o alw o hyd am fynediad D+2 wrth symud ymlaen a dywedom y byddem yn parhau i reoleiddio mynediad D+2, er y byddem yn barod i ailystyried a ddylid rheoleiddio mynediad D+2 pe bai'n ymddangos bod risg

[498]Mae gennym ffigurau ar gyfer 2024/25, ond nid yw'r rhain wedi cael eu cymeradwyo'n derfynol gan archwilwyr y Post Brenhinol. Roedd llythyrau D+2 yn [✂] biliwn yn 2024/25 a llythyrau D+5 yn [✂] biliwn yn yr un cyfnod.

[499] Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 5 Rhagfyr 2024.

[500] Y Post Brenhinol. 6 Rhagfyr 2024. Cyflwyniad i Ofcom ar D+2.

sylweddol i'r Post Brenhinol allu cyflawni'r arbedion cost posibl o ganlyniad i symud i fodel danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Roeddem hefyd yn cynnig rheoleiddio prisiau wedi'i ddiweddaru ar gyfer gwasanaethau mynediad D+2, o ystyried y newidiadau roeddem wedi'u cynnig i drefn brisio D+3.

7.19 Ar ben hynny, roeddem yn cynnig newidiadau i fanyleb gwasanaethau mynediad D+5 a newidiadau ategol i'r amod mynediad o ran sut mae gwasanaethau mynediad yn cael eu diffinio, yn ogystal â chynnig cyhoeddi rhagor o wybodaeth am sut rydym yn delio â'r rheolaeth gwasgu elw ar gyfer gwasanaethau mynediad.

7.20 Rydym yn nodi isod rywfaint o wybodaeth bellach rydym wedi'i chael ers ein Hymgynghoriad, sy'n berthnasol i'r cynigion a wnaethom.

Rhagor o wybodaeth a gyhoeddwyd ers ein hymgynghoriad

Llythyr y Post Brenhinol i'r diwydiant ar gynnyrch D+2

7.21 Ym mis Mawrth 2025, ysgrifennodd y Post Brenhinol at gwmnïau mynediad yn crynhoi'r trafodaethau un-i-un yr oedd wedi'u cael gyda nhw am y cynnyrch mynediad D+2 a fyddai'n dal ar gael ar ôl ein penderfyniad ar ddiwygio.[501] Rydym yn deall y bydd y cynhyrchion hyn ar gael ni waeth a ydym yn parhau i reoleiddio mynediad D+2.

7.22 Mae'r llythyr yn cadarnhau y bydd llai o gynnyrch ar gael ar gyfer mynediad D+2. Yn y dyfodol, Llythyrau Mailmark Post Busnes a Llythyrau Mawr, ynghyd â Llythyrau Mawr Mailmark Tanysgrifiadau Cylchgronau, fydd yr unig gynnyrch a fydd ar gael ar fynediad D+2. Mae hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd penodol cael opsiwn postio cyflymach i fusnesau a chyhoeddwyr ar gyfer mathau penodol o bost.

Llythyr y Post Brenhinol i'r diwydiant ar weithredu D+2

7.23 Yn ddiweddarach ym mis Mawrth 2025, roedd y Post Brenhinol wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gwmnïau mynediad am weithredu mynediad D+2 gan ragweld penderfyniad gan Ofcom i ganiatáu danfon llythyrau Ail Ddosbarth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos.[502] Mae'r Post Brenhinol wedi ceisio sicrhau na fyddai angen i gwsmeriaid gymryd unrhyw gamau gweithredol i symud nifer y llythyrau o'r mynediad D+2 presennol i fynediad D+3. Felly, byddai'r Post Brenhinol yn symud yr holl lythyrau D+2 presennol yn awtomatig i fynediad D+3 pe baem yn caniatáu cyflwyno'r model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, oni bai fod y cwsmer wedi cymryd camau i barhau â'r gwasanaeth D+2.

7.24 Byddai angen i gwsmeriaid sy'n dymuno parhau i ddefnyddio gwasanaethau mynediad D+2 cyflymach optio i mewn a mynd ati'n rhagweithiol i newid y ffordd maen nhw'n paratoi'r post. Er mwyn hwyluso hyn, byddai angen i'r Post Brenhinol gyflwyno codau cynnyrch D+2 newydd, a byddai angen i gwsmeriaid newid sut maen nhw'n cyflwyno post, gyda dynodwr gweledol newydd ar amlenni a ffyrdd newydd o gyflwyno Llythyrau a Llythyrau Mawr i'r Post Brenhinol wrth drosglwyddo. Er mwyn gwneud y newid hwn yn haws i gwsmeriaid,

[501] Y Post Brenhinol. 6 Mawrth 2025. Llythyr i'r diwydiant ar y gyfres o gynhyrchion D+2.
[502] Y Post Brenhinol. 27 Mawrth 2025. Llythyr i'r diwydiant ar weithredu D+2.

sicrhaodd y Post Brenhinol fod codau newydd ar gael o 2 Mehefin 2025 ymlaen, a nododd, ar gyfer y cyfnod rhwng 2 Mehefin a'n dyddiad cyhoeddi, na fyddai'n gorfodi defnyddio'r dynodwr gweledol newydd. Ar y llaw arall, ni fyddai angen i gwsmeriaid wneud unrhyw newidiadau i'r ffordd y mae eu post yn cael ei baratoi ar hyn o bryd gan ddefnyddio'r gwasanaeth D+2 er mwyn defnyddio'r gwasanaeth mynediad D+3 newydd, sy'n golygu mai dyma fyddai'r opsiwn diofyn.

Llythyrau meddygol a llythyrau'r GIG

7.25 Ym mis Ebrill 2025, anfonodd y Post Brenhinol, ynghyd ag amrywiol sefydliadau'r GIG a grwpiau cleifion, lythyr agored at Ofcom yn cadarnhau eu bod yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod darparwyr y GIG yn anfon post o fewn yr amserlenni cywir.[503] Mae NHS England a Darparwyr y GIG yn cefnogi'r broses honno, gan gyhoeddi canllawiau pellach i sefydliadau'r GIG.[504] Roedd y llythyr hefyd yn cadarnhau bod y ddwy ochr yn cytuno â chyflwyno cod bar sy'n benodol i'r GIG ar gyfer llythyrau'r GIG a fydd, yn ystod cyfnodau o darfu lleol neu genedlaethol, yn galluogi'r Post Brenhinol i ganfod ac optimeiddio'r gwaith o ddanfon llythyrau'r GIG. Mae hyn yn dangos gallu'r Post Brenhinol a defnyddwyr post mawr i ddod o hyd i'r atebion sy'n diwallu eu hanghenion masnachol neu sefydliadol orau.

Ein penderfyniadau

7.26 Yn yr adran hon, rydym yn nodi ein penderfyniadau i ddiwygio'r drefn mynediad. Mae hyn yn cynnwys ein penderfyniad ynghylch a ddylid ymestyn yr Amod USPA i fandadu gwasanaethau mynediad D+3 a chyflwyno rheoleiddio prisiau ac ansawdd gwasanaeth ar gyfer y gwasanaethau hynny. Rydyn ni hefyd wedi nodi ein penderfyniad i ddileu dydd Sadwrn o fanyleb mynediad D+5 a'n penderfyniadau ynghylch sut mae'r newidiadau hyn yn newid ein gwaith rheoleiddio presennol ar fynediad D+2.

7.27 Yn ogystal â'r cyflwyniadau a ddaeth i law mewn ymateb i'n Hymgynghoriad, roeddem wedi ymgysylltu â chwmnïau mynediad drwy'r Fforwm Cystadleuaeth Post (MCF) ac ar sail unigol. Buom hefyd yn ymgysylltu â'r Gymdeithas Defnyddwyr Post (MUA), sy'n cynrychioli defnyddwyr post mawr, a Gwasanaeth Masnachol y Goron (CCS), sy'n cynrychioli adrannau'r llywodraeth sy'n defnyddio post.

Gwasanaethau mynediad D+3

Cynigion ein Ymgynghoriad

7.28 Yn ein Hymgynghoriad, roeddem yn cynnig ymestyn yr Amod USPA i'w gwneud yn ofynnol i'r Post Brenhinol ddarparu gwasanaethau mynediad Llythyrau a Llythyrau Mawr D+3 i gwmnïau mynediad ar gais rhesymol. Fe wnaethom nodi y gall y Post Brenhinol gynnig gwasanaethau mynediad ar sail fasnachol yn unig, h.y. heb reoleiddio, a'i fod wedi bod yn ymgysylltu â'i gwsmeriaid mynediad ac yn paratoi i gyflwyno gwasanaeth mynediad D+3 masnachol. Roeddem yn cydnabod mai dim ond petai'r rhan fwyaf o lythyrau - gan gynnwys

[503] Y Post Brenhinol, sefydliadau'r GIG a grwpiau cleifion. 10 Ebrill 2025. Llythyr agored i Ofcom, tt. 83-85.
[504] Darparwyr y GIG. Delivery of patient letters: an opportunity to improve patient access and productivity. [Cyrchwyd 28 Mai 2025].

post swmp a llythyrau USO - yn symud i'r patrwm danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos y gallai'r Post Brenhinol gyflawni'r arbedion cost posibl yn sgil diwygio.

7.29 O ystyried yr uchod, roeddem o'r farn, pe baem yn bwrw ymlaen â'n cynigion i ganiatáu i lythyrau Ail Ddosbarth gael eu danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, y byddai'r Post Brenhinol yn cyflwyno mynediad D+3 pe baem yn penderfynu ei fandadu ai peidio. Roedd ein hasesiad felly'n canolbwyntio ar yr hyn y byddai rheoleiddio mynediad D+3 yn ei olygu, o'i gymharu â'r Post Brenhinol yn ei gyflwyno fel gwasanaeth heb ei reoleiddio.

7.30 Fe wnaethom ddweud ein bod yn disgwyl y byddai llawer iawn o bost mynediad D+3 presennol yn cael ei gludo ar ôl diwygio, gan y byddai'r Post Brenhinol yn ceisio symud cwsmeriaid i'r model bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Heb reoleiddio, ein pryder oedd bod sefyllfa unigryw'r Post Brenhinol fel cyfanwerthwr ac adwerthwr yn golygu y gallai gynnig mynediad D+3 ar delerau ac amodau llai ffafriol na'i weithrediadau adwerthu swmp ei hun, neu roi'r gorau i gynnig mynediad D+3 yn gyfan gwbl er mwyn ennill y niferoedd hynny ei hun. O'r herwydd, roeddem o'r farn bod angen mesurau diogelu rheoleiddiol i hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol.

7.31 Roedd ein hasesiad yn ystyried effaith symud o D+2 i D+3 ar wahanol sefydliadau fel y GIG, adrannau'r llywodraeth a sefydliadau ariannol, gan fod y cyrff hyn yn anfon llawer iawn o bost mynediad y mae defnyddwyr yn poeni amdano. Fe wnaethom nodi, ar y cyrion, y gallai rhywfaint o bost gael ei ddanfon ddiwrnod yn ddiweddarach (h.y. tri diwrnod ar ôl anfon yn hytrach na dau) gan ddefnyddio post mynediad D+3, er ein bod wedi egluro y byddai effaith hyn yn dibynnu i raddau helaeth ar sut roedd defnyddwyr post mawr wedi addasu i'r amserlen danfon newydd.

7.32 Yn gyffredinol, roedd ein dadansoddiad yn awgrymu na fyddai symud o'r gwasanaeth mynediad D+2 presennol i wasanaeth newydd D+3 bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos yn cael effaith negyddol sylweddol ar y rhan fwyaf o ddefnyddwyr. Roedd hyn naill ai oherwydd nad oedd y post yn sensitif i amser, neu oherwydd y gallai defnyddwyr y mae eu post yn sensitif i amser addasu eu gweithrediadau o ran trefnu post, ac y byddent yn dal i allu cael gafael ar wasanaethau cyflymach pan fo angen. Fe wnaethom ddweud ein bod yn disgwyl i'r gwaith o reoleiddio mynediad D+3 gefnogi cystadleuaeth yn y farchnad mynediad a rhoi manteision i ddefnyddwyr ar yr un pryd â chefnogi gallu'r Post Brenhinol i sicrhau arbedion cost posibl.

7.33 Fe wnaethom nodi y gallai rheoleiddio mynediad D+3 ei hun roi sicrwydd i'r farchnad y byddai'r gwasanaethau mynediad newydd yn cael eu darparu ar delerau teg a rhesymol ac yn dod gyda'r mesurau diogelu rheoleiddio sy'n berthnasol ar hyn o bryd i wasanaethau mynediad D+2 a D+5, sy'n berthnasol i baragraffau 7.72-7.76 isod. Roeddem o'r farn y byddai hyn o fudd i gwmnïau mynediad a defnyddwyr mawr. Byddai hefyd yn fuddiol i'r Post Brenhinol gan y byddai'n gwella hyder cwsmeriaid o ran symud i wasanaeth D+3 bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, gan gynyddu'r tebygolrwydd y bydd niferoedd yn symud o D+2 i D+3 ac felly'n cynyddu'r arbedion costau sy'n deillio o ddiwygio.

Mandadu mynediad i wasanaethau mynediad D+3

7.34 O dan wasanaethau mynediad D+3 newydd, D fyddai'r diwrnod y bydd cwmni mynediad yn casglu post gan ei gwsmer, a D+1 fyddai'r diwrnod y bydd y gweithredwr yn cwblhau'r

broses o drosglwyddo'r post[505] i'r Post Brenhinol yn yr IMC. Oherwydd byddai post D+3 yn cael ei ddanfon ochr yn ochr â llythyrau Ail Ddosbarth o dan y model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, byddai cyfran o'r post D+3 yn cael ei ddanfon ar D+2 a'r gweddill ar D+3, yn dibynnu ar ba bryd roedd y derbynnydd yn disgwyl i lythyrau Ail Ddosbarth gael eu danfon i'w gyfeiriad. Er enghraifft:

a) Ar gyfer pwyntiau danfon **llwybr A**, byddai llythyrau Ail Ddosbarth a phost mynediad D+3 yn cael eu danfon ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener.
b) Ar gyfer pwyntiau danfon **llwybr B**, byddai llythyrau Ail Ddosbarth a phost mynediad D+3 yn cael eu danfon ddydd Mawrth a dydd Iau.
c) Gan na fyddai dydd Sadwrn yn ddiwrnod danfon, byddai'r amlder danfon yn newid bob wythnos ar gyfer llwybr A a llwybr B i sicrhau bod y danfon yn gyfartal dros gyfnod o bythefnos i lwybr A a llwybr B.

7.35 Fel sy'n cael ei egluro yn Adran 5 ym mharagraff 5.9, byddai cwsmeriaid llwybr A a llwybr B yn dal i dderbyn llythyrau Dosbarth Cyntaf, mynediad D+2 a llythyrau eraill (fel rhai cofrestredig a rhyngwladol) bob dydd o ddydd Llun i ddydd Sadwrn. Ar ddiwrnodau pan ddisgwylir danfon llythyrau Ail Ddosbarth, byddai post Dosbarth Cyntaf a D+2 yn cael ei ddanfon ar hyd llwybrau cerdded ynghyd â llythyrau Ail Ddosbarth. Ar ddiwrnodau pan na ddisgwylir danfon post Ail Ddosbarth, byddai'r Post Brenhinol yn danfon post Dosbarth Cyntaf a mynediad D+2 mewn fan, gyda pharseli.

Tabl 7.2 – Sut byddai gwasanaethau mynediad D+3 yn gweithio ochr yn ochr â'r gwasanaethau rydym yn eu rheoleiddio ar hyn o bryd

	D	D+1	D+2	D+3	D+4	D+5
Gwasanaethau mynediad D+2	**Y cwsmer yn rhoi'r post i'r cwmni mynediad**	**Y cwmni mynediad yn rhoi'r post i'r Post Brenhinol**	**Y Post Brenhinol yn danfon y post**			
Gwasanaethau mynediad D+3	**Y cwsmer yn rhoi'r post i'r cwmni mynediad**	**Y cwmni mynediad yn rhoi'r post i'r Post Brenhinol**	**Y Post Brenhinol yn danfon post mynediad i X% o'r pwyntiau danfon**	**Y Post Brenhinol yn danfon post mynediad i weddill y pwyntiau danfon**		

[505] Dyma'r adeg pan fydd y Post Brenhinol yn casglu a/neu'n derbyn post gan gwmni mynediad. Fel y nodir uchod, mewn gwirionedd, gall trosglwyddo i'r Post Brenhinol ddigwydd yn hwyrach na'r diwrnod ar ôl i'r cwmni mynediad gasglu'r post oddi wrth yr anfonwr.

Gwasanaethau mynediad D+5	Y cwsmer yn rhoi'r post i'r cwmni mynediad	Y cwmni mynediad yn rhoi'r post i'r Post Brenhinol	Y Post Brenhinol yn danfon y post neu'n oedi cyn danfon	Y Post Brenhinol yn danfon y post neu'n oedi cyn danfon	Y Post Brenhinol yn danfon y post neu'n oedi cyn danfon	Y Post Brenhinol yn danfon gweddill y post

7.36 Felly, o dan ein cynigion, byddai rhywfaint o bost yn cael ei ddanfon y diwrnod ar ôl trosglwyddo, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, a byddai rhai'n cael eu danfon ddiwrnod yn hwyrach. Rydym yn rhagweld y byddai canran y post sy'n cael ei ddanfon yn unol â manyleb D+2 a manyleb D+3 yn amrywio dros amser, gan ddibynnu ar faint o bost sy'n cael ei ddanfon ar unrhyw wythnos benodol.

Ymatebion rhanddeiliaid

7.37 Roedd rhanddeiliaid yn cytuno'n gyffredinol â'n cynnig i ymestyn yr Amod USPA i gynnwys gwasanaethau mynediad D+3. Roedd yr MCF a'r MUA, sy'n cynrychioli cwmnïau mynediad a defnyddwyr mawr yn y drefn honno, yn cefnogi'r cynigion, gan nodi'r risgiau i gystadleuaeth pe bai llawer iawn o bost mynediad D+3 yn bodoli y tu allan i'n fframwaith rheoleiddio.[506]

7.38 Nododd The Delivery Group y byddai rheoleiddio mynediad D+3 yn rhoi hyder i ddefnyddwyr fuddsoddi yn eu systemau i fabwysiadu'r gwasanaethau hyn, a fyddai o fudd i ddefnyddwyr.[507]

7.39 Awgrymodd y Bartneriaeth Bostio Strategol a'r Gymdeithas Data a Marchnata fod y cynnig na fyddai dydd Sadwrn yn ddiwrnod danfon ar gyfer gwasanaethau mynediad D+3 yn rhesymol o ystyried bod llai o bost yn cael ei anfon, a nododd y gallai arbedion cost arwain at brisiau sefydlog yn y dyfodol.[508]

7.40 Roedd rhai rhanddeiliaid fel Consumer Scotland, [✂] a Tesco Bank yn dal i boeni am effaith symud o lythyrau mynediad D+2 i D+3 ar gyfer post hanfodol fel gofal iechyd, post ariannol a llythyrau gan sefydliadau cyhoeddus oherwydd bod y gwasanaeth yn arafach a'r diwrnod danfon yn fwy amrywiol.[509]

Ein hasesiad o'r ymatebion

7.41 Yn Adran 3 rydym yn ystyried anghenion defnyddwyr unigolion a busnesau bach a chanolig. Mae hynny'n cynnwys yr hyn y mae ar ddefnyddwyr ei angen gan bost y maent yn debygol o fod wedi'i gael drwy opsiynau post swmp, fel llythyrau gan y GIG a banciau. Yn yr adran hon, a'r adrannau canlynol, rydym yn canolbwyntio'n bennaf ar anghenion postwyr swmp ac yn ystyried newidiadau i'r ffordd maen nhw'n defnyddio rhwydwaith y Post Brenhinol.

---

[506] Ymateb Mail Competition Forum i Ymgynghoriad 2025, t.4; Ymateb y Gymdeithas Defnyddwyr Post i Ymgynghoriad 2025, t.6.
[507] Ymateb The Delivery Group i Ymgynghoriad 2025, t.2.
[508] Ymateb y Bartneriaeth Bostio Strategol i Ymgynghoriad 2025, t.5; ymateb y Gymdeithas Data a Marchnata i Ymgynghoriad 2025, t.3.
[509] Ymateb Consumer Scotland i Ymgynghoriad 2025, tt.64-65; [✂]; Ymateb Tesco Bank i Ymgynghoriad 2025, t.4.

7.42 Rydyn ni'n cytuno ag ymatebwyr ei bod hi'n briodol cyflwyno mynediad D+3, o ystyried bod llai o bost yn cael ei anfon a bod dydd Sadwrn yn llai perthnasol fel diwrnod danfon i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr. Mae hyn yn cefnogi ein hasesiad, ar gyfer y rhan fwyaf o ddefnyddwyr, mai cymharol fach fydd yr effaith y bydd symud o fynediad D+2 i D+3 yn ei chael. Gwyddom o'n hymchwil yn 2024, yn benodol, pe na bai llythyrau busnes safonol yn cael eu danfon ar ddydd Sadwrn, bod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn dweud na fyddai'n cael fawr o effaith arnynt neu y byddai'n anghyfleus ond na fyddai'n achosi pryder sylweddol.

7.43 Rydym hefyd yn cytuno â phryderon ymatebwyr y gallai'r Post Brenhinol, heb reoleiddio, fanteisio ar ei safle o un pen i'r llall o ran danfon post, gan arwain o bosibl at ganlyniadau niweidiol i ddefnyddwyr post mawr. Yng ngoleuni'r uchod, rydym o'r farn y byddai'n briodol rheoleiddio mynediad D+3 i gefnogi cystadleuaeth effeithiol yn y farchnad post swmp ac rydym yn cytuno ag ymatebwyr y gallent fod dan anfantais, heb y rheoliad hwn.

7.44 Er ein bod yn deall pryderon rhai ymatebwyr mewn perthynas ag amrywiant cyflymder a diwrnod danfon llythyrau mynediad D+3, ein barn ni yw y byddai gwasanaethau mynediad D+3 yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddefnyddwyr sy'n defnyddio gwasanaethau mynediad D+2 ar hyn o bryd. Rydym yn nodi, lle bo angen, y gall postwyr mawr, ac yn wir mae rhai eisoes yn, addasu sut maent yn defnyddio post o dan fodel danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, fel y nodir ym mharagraff 7.25. Rydym yn derbyn ei bod yn bwysig i ddefnyddwyr bod y llythyrau hyn yn parhau i gyrraedd yn ddibynadwy ac yn brydlon a gallai oedi sylweddol arwain at niwed. Fodd bynnag, nid ydym wedi gweld tystiolaeth sy'n awgrymu bod angen i'r rhan fwyaf o lythyrau gan sefydliadau a chyrff cyhoeddus nad ydynt yn rhai brys, hyd yn oed y rheini sy'n ymwneud â materion ariannol a meddygol, gyrraedd ar ddydd Sadwrn neu'n unol ag amserlen D+2. Os felly, gall postwyr mawr ddewis gwasanaeth cyflymach sy'n danfon ar ddydd Sadwrn i ddiwallu eu hanghenion. Er ein bod yn cydnabod y byddai gwasanaeth o'r fath yn ddrutach, byddem yn disgwyl i'r gwasanaeth hwn gael ei ddefnyddio ar gyfer eitemau blaenoriaeth yn unig yn hytrach nag ar gyfer pob post, a ddylai gyfyngu ar y gwariant cyffredinol ar bost ar gyfer yr anfonwr hwnnw. Y tu hwnt i hyn, ein hasesiad yw y bydd unrhyw effaith weddilliol yn gymesur yng nghyd-destun cynaliadwyedd ariannol yr USO.

Ein penderfyniad

7.45 Gan ystyried yr uchod i gyd, rydym wedi penderfynu addasu'r Amod USPA i fynnu bod y Post Brenhinol yn cynnig gwasanaethau mynediad D+3. Bydd hyn yn lliniaru'r risgiau i gystadleuaeth sy'n deillio o'r Post Brenhinol yn cynnig D+3 ar sail fasnachol heb ei rheoleiddio. Rydym hefyd yn disgwyl y bydd rheoleiddio mynediad D+3 yn arwain at fwy o hyder i bostwyr swmp fuddsoddi yn eu systemau er mwyn gallu defnyddio gwasanaethau mynediad D+3 ac y dylai hyn, yn ei dro, gyfrannu at y Post Brenhinol yn cyflawni'r arbedion cost net posibl o'r symud arfaethedig i fodel danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Yn y pen draw, dylai hyn arwain at ganlyniadau gwell i ddefnyddwyr drwy gefnogi cynaliadwyedd y gwasanaeth cyffredinol ac felly ei ddarpariaeth barhaus, yn ogystal â chaniatáu i'r Post Brenhinol ddefnyddio ei adnoddau am gost is ar yr un pryd â pharhau i ddiwallu anghenion defnyddwyr.

7.46 Ar ôl penderfynu y byddai'n briodol cyflwyno gwasanaeth mynediad D+3 i'r Amod USPA, rydym yn nodi isod ein penderfyniadau ar gwmpas y rheoleiddio, gan gynnwys y mesurau diogelu y byddwn eu hangen.

Hyd a lled gwasanaethau mynediad D+3

Nid yw gwasanaethau mynediad D+3 yn cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd

7.47 Ar hyn o bryd, mae'r Amod USPA yn diffinio 'Mynediad D+2' fel mynediad at rwydwaith post darparwr y gwasanaeth cyffredinol yn yr IMC at ddibenion darparu gwasanaethau manwerthu sy'n ceisio danfon llythyrau ddau ddiwrnod gwaith (neu'n hwyrach) ar ôl i'r anfonwr eu casglu. Dyma sut y disgrifiwyd mynediad D+2 ers i ni osod yr Amod USPA ar y Post Brenhinol am y tro cyntaf ym mis Mawrth 2012.[510][511]

7.48 Fe wnaethom ystyried a oedd y geiriad 'neu'n hwyrach' yn y diffiniad o 'Mynediad D+2' yn yr Amod USPA yn golygu cyflwyno a rheoleiddio gwasanaethau mynediad D+3. Dyma'r un cwestiwn roeddem wedi'i ystyried wrth benderfynu rheoleiddio gwasanaethau mynediad D+5 yn 2021, lle roeddem wedi nodi nad oedd y derminoleg D+2 (neu ddiweddarach) yn cwmpasu mynediad D+5 oherwydd y rhychwant danfon llawer hirach.[512]

7.49 Daethom i farn debyg gyda gwasanaethau mynediad D+3. Er y bydd y rhychwant danfon yn nes at fynediad D+2, rydym o'r farn y bydd gwasanaethau mynediad D+3 yn wahanol iawn i wasanaethau mynediad D+2 ac rydym yn disgwyl iddynt fod ag achos defnydd ar wahân ar gyfer cwsmeriaid. Y rheswm am hynny yw y bydd gwasanaethau mynediad D+3 yn cael eu danfon yn unol â model bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos y Post Brenhinol gyda llythyrau Ail Ddosbarth, tra bo mynediad D+2 yn wasanaeth chwe diwrnod a fydd yn fwy costus – ac felly'n ddrutach – i'w ddanfon. Felly, rydyn ni wedi dod i'r farn nad yw gwasanaethau mynediad D+3 yn cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd. Ni chafwyd unrhyw adborth gan randdeiliaid ar y pwynt hwn ac, o'r herwydd, rydym wedi penderfynu rheoleiddio mynediad D+3 fel gwasanaeth mynediad annibynnol.

Llythyrau Mawr

Cynigion ein Ymgynghoriad

7.50 Gwnaethom nodi bod y rhwymedigaeth bresennol i ddanfon mynediad D+2 yn berthnasol i Lythyrau a Llythyrau Mawr.[513] Mae'r rhwymedigaeth i ddanfon mynediad D+5 yn berthnasol i Lythyrau'n unig. Y rheswm am hyn yw y byddai cynnwys Llythyrau Mawr wedi bod yn aneconomaidd pan wnaethom gyflwyno gwasanaethau mynediad D+5 newydd yn 2021, gan nad yw peiriannau didoli'r Post Brenhinol yn gallu gohirio Llythyrau Mawr.[514]

7.51 Roeddem yn cydnabod y byddai llawer iawn o lythyrau'n debygol o symud o fynediad D+2 i D+3 pe byddem yn rhoi ein cynigion ar waith. Er mwyn cefnogi cwsmeriaid sy'n symud

---

[510] Ofcom, 2012. Sicrhau'r Gwasanaeth Post Cyffredinol, tudalen 142.

[511] Cyn y datganiad hwnnw ym mis Mawrth 2012, cyn ei integreiddio i Ofcom, cynhaliodd Ofcom ddadansoddiad o farchnadoedd post. Fel rhan o'r gwaith hwnnw, canfuwyd bod yna farchnad llythyrau D+1 a D+2 a marchnad llythyrau hwyrach na D+2. Yn ei hanfod, roedd yn diffinio marchnadoedd llythyrau yn ôl y rhai i'w danfon y diwrnod canlynol a'r rhai i'w danfon yn hwyrach na'r diwrnod canlynol.

[512] Ofcom, 2021. Addasiadau i Amod Mynediad darparwr gwasanaeth cyffredinol ar gyfer rheoleiddio mynediad i rwydwaith post y Post Brenhinol tt.8-9.

[513] Mae "llythyrau" yn golygu unrhyw eitem hyd at 240mm o hyd, 165mm o led, a 5mm o drwch, ac sy'n pwyso dim mwy na 100g. Mae "Llythyrau Mawr" yn golygu unrhyw eitem sy'n fwy na Llythyr a hyd at 353mm o ran hyd, 250mm o ran lled, a 25mm o ran trwch, ac sy'n pwyso dim mwy na 750g.

[514] Ofcom, 2021. Datganiad: Addasiadau i Amod Mynediad darparwr gwasanaeth cyffredinol ar gyfer rheoleiddio mynediad i rwydwaith post y Post Brenhinol t.28-29.

rhwng y gwasanaethau hyn, roeddem o'r farn y dylai mynediad D+3 hefyd fod yn berthnasol i Lythyrau a Llythyrau Mawr. Gwelsom hefyd fod y Post Brenhinol yn cynnig gohirio Llythyrau Mawr D+3 â llaw yn y swyddfa danfon er mwyn gallu eu danfon o dan y model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, gan nad yw'n gallu didoli Llythyrau Mawr gan ddefnyddio ei beiriannau didoli.

Ymatebion rhanddeiliaid

7.52 Roedd yr MCF a The Delivery Group yn cytuno â'n cynnig i reoleiddio Llythyrau a Llythyrau Mawr D+3 a nododd y bydd yn cefnogi cwsmeriaid sy'n symud rhwng gwasanaethau mynediad D+2 a D+3. Nododd yr MCF hefyd, yn absenoldeb rheoleiddio Llythyrau Mawr D+3, y gellid gorfodi defnyddwyr i ddefnyddio cynnyrch Llythyrau Mawr D+2 drutach.[515]

7.53 Nid oedd unrhyw ymatebion a oedd yn anghytuno â'n cynnig i fynnu bod y Post Brenhinol yn darparu mynediad D+3 ar gyfer Llythyrau Mawr ochr yn ochr â Llythyrau.

Ein penderfyniad

7.54 Gan ystyried ein cynigion cychwynnol a'r adborth gan ymatebwyr, rydym wedi penderfynu bod yn rhaid i'r Post Brenhinol gynnig mynediad D+3 mewn perthynas â Llythyrau a Llythyrau Mawr.

Gofynion adrodd ar berfformiad danfon

Cynigion ein Ymgynghoriad

7.55 Mae'r model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos yn golygu y bydd cyfran o'r post mynediad D+3 yn cael ei ddanfon D+2 a'r gweddill ar D+3 yn unol â Thabl 7.2 uchod.

7.56 Fe wnaethom nodi yn ein Hymgynghoriad ei bod yn rhaid i'r Post Brenhinol eisoes gydymffurfio â gofynion adrodd mewn perthynas â mynediad D+5 lle gellid danfon post dros sawl diwrnod.[516] Roeddem yn cynnig y dylai'r un gofynion fod yn berthnasol i fynediad D+3, a fyddai'n cynnwys pob un o'r canlynol:

a) Ffigur adrodd cyffredinol ar gyfer ansawdd gwasanaeth D+3, sy'n mesur faint o eitemau sy'n cael eu danfon erbyn D+3 ar draws y diwydiant, ac a gyhoeddir bob chwarter a bob blwyddyn. Gwnaethom egluro y gallai hyn helpu defnyddwyr i ddeall pa mor dda mae'r gwasanaeth wedi bod yn cyflawni yn unol â'r fanyleb, a chyfrannu at drafodaethau'r diwydiant.
b) Adroddiadau ansawdd gwasanaeth D+3 ar gyfer cwmnïau mynediad unigol a/neu gwsmeriaid post (a ddarperir ar sail unigol), sy'n nodi perfformiad gwirioneddol eu post eu hunain, sy'n cynnwys mesur cyffredinol o'r post a ddanfonir erbyn D+3 a dadansoddiad o'r post a ddanfonir ar D+2 a D+3. Roeddem yn disgwyl y gallai hyn eu helpu i fonitro eu gwasanaeth eu hunain, er mwyn llywio penderfyniadau am brynu a dewis cynnyrch yn y dyfodol.
c) Dadansoddiad sydd ar gael i'r cyhoedd o'r perfformiad danfon ar ddiwrnod D+3 i bob eitem, gan fesur faint o eitemau sy'n cael eu danfon ar D+2 a D+3. Fe wnaethom ddweud nad oeddem yn disgwyl i'r dosbarthiad hwn fod yn union 50/50 ar draws D+2 a

[515] Ymateb Mail Competition Forum i Ymgynghoriad 2025, t.4; Ymateb The Delivery Group i Ymgynghoriad 2025, t.5.
[516] Gweler Amod 8 USPA.

D+3 ac roeddem yn cydnabod y gallai'r rhaniad ym mherfformiad diwrnod danfon amrywio yn ôl gwahanol ffactorau (gan gynnwys proffil post unigol, niferoedd post arall, amser o'r flwyddyn, ac ati). Gwnaethom egluro y gallai darparu'r wybodaeth hon alluogi darpar gwsmeriaid i wneud dewisiadau mwy gwybodus am eu defnydd o'r gwasanaeth, drwy allu gweld y perfformiad cyfartalog gwirioneddol. Dywedasom hefyd y byddai hefyd yn rhoi pwynt cyfeirio i helpu defnyddwyr mynediad D+3 gweithredol i ddeall sut mae eu post yn cael ei ddanfon o'i gymharu â'r farchnad gyfan.

7.57 Roeddem o'r farn na fyddai gan gwmnïau mynediad D+3 a defnyddwyr mawr un diwrnod danfon hysbys fel y maen sydd ganddynt gyda mynediad D+2. Dywedasom y gallai darparu'r wybodaeth hon mewn perthynas â danfon alluogi cwmnïau mynediad i gael sgyrsiau mwy gwybodus gyda'r Post Brenhinol am ansawdd gwasanaeth, ac y byddai'n caniatáu i ddefnyddwyr post mawr wneud penderfyniadau mwy gwybodus am y gwasanaethau maent yn eu prynu. Felly, roeddem wedi awgrymu y dylai fod yn rhaid i'r Post Brenhinol ddarparu'r wybodaeth uchod ac roeddem yn cynnig bod y Post Brenhinol yn dechrau adrodd bob chwarter mewn perthynas ag ail chwarter y flwyddyn ariannol llawn ar ôl i'r rhwymedigaethau ddod i rym, ac yn flynyddol mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol lawn gyntaf ar ôl i'r rhwymedigaethau ddod i rym.

Ymatebion rhanddeiliaid

7.58 Dywedodd MUA fod ei aelodau'n cefnogi'r cynnig i gymhwyso'r gofynion presennol ar gyfer mynediad D+5 i'r gwasanaethau mynediad D+3 newydd sy'n cael eu rheoleiddio. Nododd y bydd y gyfran o'r post sy'n cael ei ddanfon D+2 a D+3 o ddiddordeb sylweddol i ddefnyddwyr post mawr wrth gynllunio pa wasanaeth i'w ddefnyddio a chynllunio adnoddau canolfannau galwadau. Cytunodd MCF â'r cynnig am resymau tebyg.[517]

7.59 Fodd bynnag, roedd MCF a MUA yn anghytuno â'n cynnig y dylid dechrau adrodd yn ystod ail chwarter llawn y flwyddyn ariannol ar ôl i'r rhwymedigaethau newydd ddod i rym. Awgrymodd y ddau sefydliad na ddylid oedi cyn darparu gwybodaeth am ansawdd gwasanaeth. Nododd y naill a'r llall fod y Post Brenhinol eisoes yn adrodd ar berfformiad ar gyfer post mynediad D+2 a D+5 a'i fod felly'n gallu darparu adroddiadau D+3 tebyg yn ddi-oed.[518]

7.60 Cytunodd y Post Brenhinol y dylai ddarparu ffigur ansawdd gwasanaeth cyffredinol ar gyfer mynediad D+3 fel y mae'n ei wneud ar hyn o bryd gyda mynediad D+2. Fodd bynnag, roedd y Post Brenhinol yn anghytuno bod darparu dadansoddiad o ddydd i ddydd ar gyfer danfoniadau D+3 yn angenrheidiol ac yn fewnweledol. Roedd yn dadlau, yn wahanol i D+5, mai'r metrig hanfodol ar gyfer D+3 yw cadarnhad o ddanfon o fewn dau ddiwrnod i drosglwyddo i'r Post Brenhinol yn hytrach na dosbarthu ar draws diwrnodau unigol, a allai fod yn gamarweiniol i gwsmeriaid gan mai dim ond cyfartaledd cenedlaethol mae'n ei ddangos. Ychwanegodd y Post Brenhinol ei fod yn datblygu adnodd chwilio aml-gyfeiriad i helpu cwsmeriaid i ragweld dyddiadau danfon post.[519]

---

[517] Ymateb Mail Competition Forum i Ymgynghoriad 2025, tt.4-5; Ymateb y Gymdeithas Defnyddwyr Post i Ymgynghoriad 2025, t.6.
[518] Ymateb Mail Competition Forum i Ymgynghoriad 2025, tt.4-5; Ymateb y Gymdeithas Defnyddwyr Post i Ymgynghoriad 2025, t.6.
[519] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, tt.78-79.

Ein penderfyniad

7.61 Rydym yn cytuno â MUA a MCF y bydd darparu gwybodaeth am ansawdd y gwasanaeth ar gyfer D+3 yn ddefnyddiol i ddefnyddwyr, gan gynnwys dadansoddiad o'r post sy'n cael ei ddanfon D+2 a D+3. Rydym yn derbyn dadl y Post Brenhinol y bydd y ffigurau hyn yn cynrychioli proffil cyfartalog cenedlaethol, ond roedd hwn yn ffactor roeddem yn ei gydnabod yn ein Hymgynghoriad ac yn bwynt roedd ymatebwyr cefnogol yn gwybod amdano wrth ymateb. Ar gyfer defnyddwyr mawr sy'n anfon ymgyrchoedd cenedlaethol drwy'r post, rydym yn parhau i ystyried y byddai darparu'r wybodaeth hon yn ddefnyddiol o ystyried ei bod yn cael ei gwireddu yn hytrach na data rhagfynegol. Felly, rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynnig i fynnu bod y Post Brenhinol yn darparu'r wybodaeth a nodir ym mharagraff 7.56.

7.62 Rydym yn nodi bod y Post Brenhinol yn tracio ansawdd gwasanaeth ar gyfer y cynnyrch mynediad sy'n cael eu rheoleiddio ar sail canlyniadau'r arolwg.[520] Mae'n bosibl y bydd angen i'r Post Brenhinol ddiwygio ei arolwg mynediad D+2 i ystyried ein gofynion adrodd ar fynediad D+3 neu ddechrau arolwg newydd yn gyfan gwbl. Er ein bod o'r farn ei bod yn gymesur disgwyl i'r Post Brenhinol wneud hyn, a'n bod yn nodi nad yw'r Post Brenhinol wedi awgrymu y byddai hyn yn gostus, nid ydym o'r farn y byddai'n rhesymol gorfodi gofynion adrodd ansawdd gwasanaeth D+3 o ddyddiad ein penderfyniad gan na fyddai hyn yn rhoi amser i'r Post Brenhinol wneud trefniadau priodol. Felly, rydym wedi penderfynu bod yn rhaid i'r Post Brenhinol ddechrau adrodd bob chwarter mewn perthynas ag ail chwarter y flwyddyn ariannol lawn ar ôl i'r rhwymedigaethau ddod i rym (h.y. Ch4 2025/2026), ac yn flynyddol mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol lawn gyntaf ar ôl i'r rhwymedigaethau ddod i rym (h.y. Blwyddyn Ariannol 2026/2027). Mae hyn yn cyd-fynd â'r dull roeddem wedi'i ddefnyddio wrth roi'r drefn ansawdd gwasanaeth mynediad D+5 ar waith, a oedd yn caniatáu digon o amser i'r Post Brenhinol drefnu i'w systemau adrodd gael eu sefydlu a sicrhau bod sylfaen ddigonol o gwmnïau mynediad a chwsmeriaid post i sicrhau amcangyfrif sy'n gynrychioladol yn ystadegol.[521]

Prisio gwasanaethau mynediad D+3

Cynigion ein Ymgynghoriad

7.63 Oherwydd sefyllfa monopoli'r Post Brenhinol, rydym wedi nodi ein bod yn poeni ers tro byd am y risgiau i gystadleuaeth yn y farchnad post swmp os nad oedd gennym ryw fath o reoleiddio prisiau ar gyfer gwasanaethau mynediad. Gwnaethom nodi, yn hytrach na rheolaethau prisio uniongyrchol, yn wreiddiol fe wnaethom osod prawf gwasgu elw ex-ante ar fynediad D+2 i atal y Post Brenhinol rhag codi tâl am ei wasanaethau manwerthu swmp ar lefel debyg neu is na'r tâl mae'n ei godi gan gwmnïau mynediad am fynediad cyfatebol i'w rwydwaith. Mae hyn er mwyn sicrhau bod prisiau'n aros ar lefel sy'n caniatáu i gwmnïau

[520] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, t.78.
[521] Ofcom, 2021. Addasiadau i Amod Mynediad darparwr gwasanaeth cyffredinol ar gyfer rheoleiddio mynediad i rwydwaith post y Post Brenhinol t.38.

mynediad effeithlon gystadlu'n effeithiol.[522] Fe wnaethom gymhwyso'r rheolaeth gwasgu elw hon i fynediad D+5 adeg ei gyflwyno yn 2021.[523] [524]

7.64 Gwnaethom egluro fod y rheolaeth gwasgu elw yn cynnwys dau brawf - y prawf basged a'r prawf contract - mae'n rhaid eu cynnal ar ddechrau pob blwyddyn ariannol a'u diweddaru bob chwarter. Mae'r profion hyn yn ymwneud â phrawf gwasgu elw ar fasged o wasanaethau adwerthu'r Post Brenhinol ac ar y contractau adwerthu y mae'n eu llofnodi gyda chwsmeriaid yn y drefn honno. Rhaid i'r profion ddefnyddio'r refeniw a'r costau a ragwelir, oherwydd mae Amod 6 USPA yn mynnu bod gan y Post Brenhinol ddisgwyliad rhesymol ei fod yn pasio'r profion yn y flwyddyn ariannol honno.[525]

7.65 Rydym wedi canfod bod risg o wasgu elw mewn perthynas â mynediad D+3. Roeddem o'r farn bod y risg hon yn cyfateb i'r risgiau a nodwyd gennym wrth osod rheolaeth ar fynediad D+2 a D+5, ac nid oeddem wedi nodi unrhyw reswm pam na fyddai dull tebyg o reoleiddio prisiau yn briodol nac yn rhesymol ar gyfer gwasanaethau mynediad D+3. O'r herwydd, roeddem yn cynnig y dylai'r gwasanaethau mynediad D+3 newydd fod yn ddarostyngedig i'r un prawf o dan y rheolaeth gwasgu elw ag a nodir yn awr yn Amod 6 USPA.

7.66 Gan ein bod wedi sefydlu'r risg ddamcaniaethol o wasgfa ar elw, roeddem wedi ystyried lle gallai ddigwydd yn ymarferol drwy nodi gwasanaethau adwerthu swmp y Post Brenhinol sy'n debyg neu'n cyfateb i'r gwasanaethau mynediad D+3 arfaethedig. Cyfeirir at y rhain fel Gwasanaethau Adwerthu Perthnasol at ddibenion yr Amod USPA.[526] Fe wnaethom nodi, o ystyried ein cynigion ar gyfer danfon llythyrau Ail Ddosbarth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, y byddai llawer o'r Gwasanaethau Adwerthu Perthnasol ar gyfer mynediad D+2, fel y nodir ar hyn o bryd yn Amod 6 USPA, yn cael eu danfon yn lle hynny yn unol â manyleb debyg i fynediad D+3. Roedd hyn yn cynnwys cael eu danfon yn unol ag amser llwybro tebyg a hefyd o dan y model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Felly, roeddem o'r farn y byddai'r rhestr bresennol o Wasanaethau Manwerthu Perthnasol D+2 yn cystadlu'n uniongyrchol â gwasanaethau mynediad D+3 ac y byddai risg o wasgfa ar elw rhwng y gwasanaethau manwerthu swmp a chyfanwerthu hyn. Yn unol â hynny, roeddem yn cynnig y rhain fel y Gwasanaethau Adwerthu Perthnasol at ddibenion y rheolaeth gwasgu elw D+3, ac roeddem hefyd yn cynnig cael gwared ar hen gynnyrch nad yw'r Post Brenhinol yn eu cynnig mwyach.

Ymatebion rhanddeiliaid

7.67 At ei gilydd, roedd rhanddeiliaid, gan gynnwys y Post Brenhinol, yn cefnogi ein penderfyniad i ddefnyddio rheolaeth gwasgu elw ar wasanaethau mynediad D+3 a defnyddio cynnyrch

[522] Ofcom, 2012. Sicrhau'r Gwasanaeth Post Cyffredinol, tudalen 8.
[523] Amod 6 yr USPA.
[524] Ofcom, 2021. Addasiadau i Amod Mynediad darparwr gwasanaeth cyffredinol ar gyfer rheoleiddio mynediad i rwydwaith post y Post Brenhinol tudalennau 29-33.
[525] Ar ôl hynny, mae'n rhaid i'r Post Brenhinol gyflwyno rhagolygon a gwybodaeth ariannol go iawn yn chwarterol sy'n dangos ei fod yn cydymffurfio â'r prawf basged. Rhaid iddo hefyd roi manylion unrhyw gontractau pwrpasol newydd yr ymrwymwyd iddynt sy'n dangos eu bod yn cydymffurfio â'r prawf contract.
[526] Gweler Amod 6.8 USPA.

adwerthu swmp Ail Ddosbarth y Post Brenhinol fel y Gwasanaethau Manwerthu Perthnasol.[527]

7.68 Fodd bynnag, gofynnodd UK Mail, CFH Docmail, yr MCF, a The Delivery Group i bost adwerthu swmp Ail Ddosbarth heb ei ddidoli gael ei gynnwys yn y rheolaeth gwasgu elw fel gwasanaeth adwerthu perthnasol.[528]

7.69 Awgrymodd The Delivery Group, MUA, MCF, UK Mail a Whistl hefyd fod angen i Ofcom ystyried rhyw fath o reolaeth prisiau ar brisiau mynediad y Post Brenhinol gan nad oedd y drefn gwasgu elw yn ddigonol.[529]

Ein penderfyniad

7.70 Mae ein hamcanion o ran rheoleiddio prisiau mynediad D+3 yr un fath â'r rhai gyda'r gwasanaethau D+2 a D+5 presennol, sef atal strategaethau prisio gwrthgystadleuol gan y Post Brenhinol ar ei opsiynau manwerthu a chyfanwerthu lle ceir risg o wasgu elw. Rydym o'r farn y byddai rheolaeth gwasgu elw ar fynediad D+3 yn cyflawni'r amcan hwn ac rydym yn nodi cytundeb ar y pwynt hwn mewn ymateb i'n Hymgynghoriad. Felly, rydym wedi penderfynu y bydd gwasanaethau adwerthu swmp Ail Ddosbarth y Post Brenhinol yn cael eu hychwanegu at Amod 6 USPA fel y Gwasanaethau Adwerthu Perthnasol ar gyfer rheolaeth gwasgu elw gwasanaethau mynediad D+3. Byddwn hefyd yn tynnu rhai cynhyrchion penodol, fel llythyrau OCR a llythyrau o didoli uchel, o'r rhestr o Wasanaethau Manwerthu Perthnasol gan eu bod yn hen gynnyrch nad yw'r Post Brenhinol yn eu cynnig mwyach.

7.71 Cawsom nifer sylweddol o ymatebion ynghylch rheoli prisiau ac yn cynnwys llythyrau adwerthu swmp Ail Ddosbarth heb eu didoli o fewn y rheolaeth gwasgu elw. Am y rhesymau a nodir yn 7.143-7.166, rydym wedi cynnal ein safbwynt i beidio â defnyddio rheolaethau prisiau mewn post mynediad, ac rydym wedi penderfynu peidio ag ehangu'r Gwasanaethau Adwerthu Perthnasol yn y rheolaeth gwasgu elw i gynnwys post adwerthu swmp heb ei ddidoli y Post Brenhinol.

Rhwymedigaethau mynediad D+3 ategol

Yr hyn roedden ni'n ei gynnig

7.72 Dywedasom fod effeithiolrwydd cystadleuaeth yn y farchnad post swmp ymhellach i fyny'r ffrwd yn dibynnu ar ganiatáu mynediad ar delerau ac amodau nad ydynt yn rhoi cwmnïau mynediad dan anfantais i wasanaethau manwerthu swmp y Post Brenhinol.

7.73 Gwnaethom nodi, ar gyfer mynediad D+2 a D+5, rydym yn mynnu bod y Post Brenhinol yn cynnig mynediad ar delerau ac amodau teg a rhesymol ac nad ydynt yn gwahaniaethu'n

---

[527] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, t.89; Ymateb y Fforwm Cystadleuaeth Post i Ymgynghoriad 2025, t.5; ymateb Cymdeithas Defnyddwyr Post i Ymgynghoriad 2025, t.6; ymateb Tesco Bank i Ymgynghoriad 2025, t.4; ymateb Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon i Ymgynghoriad 2025, t.29; ymateb Mail UK i Ymgynghoriad 2025, t.4-5.

[528] Ymateb UK Mail i Ymgynghoriad 2025, t.5; Ymateb CFH Docmail i Ymgynghoriad 2025, t.6; Ymateb y Fforwm Cystadleuaeth Post i Ymgynghoriad 2025, t.5; Ymateb The Delivery Group i Ymgynghoriad 2025, t.2.

[529] Ymateb The Delivery Group i Ymgynghoriad 2025, t.2. Ymateb y Gymdeithas Defnyddwyr Post i Ymgynghoriad 2025, t.7; Ymateb y Fforwm Cystadleuaeth Post i Ymgynghoriad 2025, t.6; Ymateb y Gymdeithas Defnyddwyr Post i Ymgynghoriad 2025, t.7; Ymateb The Delivery Group i Ymgynghoriad 2025, t.2; Ymateb Whistl i Ymgynghoriad 2025, t.3.

ormodol. Rydym hefyd yn gosod mesurau diogelu eraill sy'n ymwneud â'r broses ar gyfer gweithredwyr post a defnyddwyr gwasanaethau post i wneud cais am gontractau mynediad neu amrywiadau i gontractau presennol; gofynion hysbysu a chyhoeddi; a gwybodaeth sy'n ymwneud ag ansawdd gwasanaeth. Mae'r gofynion ychwanegol hyn yn ceisio taro'r cydbwysedd cywir rhwng diogelu cwmnïau mynediad a hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol, a rhoi digon o hyblygrwydd masnachol i'r Post Brenhinol o ran sut mae'n rheoli ei fusnes.

7.74 Nid oeddem yn gweld unrhyw reswm pam na ddylem ddefnyddio'r un amodau i fynediad D+3, ac roeddem o'r farn bod yr amddiffyniadau hyn yn rhan o'r mesurau diogelu angenrheidiol i hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol yn y farchnad mynediad.

Ymatebion rhanddeiliaid

7.75 Nodwn na chawsom unrhyw adborth penodol ar y cynigion hyn a sut maen nhw'n berthnasol i wasanaethau mynediad D+3. Cawsom ymatebion ar USPA 3, 5 ac 8 a sut maent yn berthnasol i bob gwasanaeth mynediad ac mae'r pwyntiau hyn yn cael eu trafod ym mharagraffau 7.219-7.233.

Ein penderfyniad

7.76 Rydym wedi penderfynu gosod y gofynion canlynol ar y Post Brenhinol mewn perthynas â mynediad D+3:

d) darparu mynediad D+3 ar delerau, amodau a thaliadau teg a rhesymol (Amod 3 USPA);
e) mabwysiadu proses resymol, dryloyw ac amserol i gwmnïau mynediad wneud ceisiadau am gontractau mynediad (neu amrywiadau i gontractau mynediad presennol) (Amod 4 USPA);
f) peidio â gwahaniaethu'n ormodol yn erbyn unrhyw bersonau penodol neu yn erbyn disgrifiad o bersonau mewn perthynas â materion mynediad, a chyfyngu ar ddefnyddio gwybodaeth a geir mewn cysylltiad â rhoi mynediad (Amod 5 USPA);
g) rhoi digon o rybudd am newidiadau i delerau ac amodau safonol i gwmnïau mynediad (Amod 7 USPA); a
h) chyhoeddi gwybodaeth am ansawdd gwasanaeth ar gyfer ei wasanaethau mynediad (Amod 8 USPA).

Gwasanaethau mynediad D+5

7.77 Ar hyn o bryd, mae'r USPA yn mynnu bod y Post Brenhinol yn danfon llythyrau mynediad D+5 o ddydd Llun i ddydd Sadwrn. Fel yr amlinellwyd uchod, er mwyn gwireddu arbedion costau diwygio yn llawn, rhaid i'r Post Brenhinol allu danfon y rhan fwyaf o lythyrau bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Mae hyn yn cynnwys llythyrau D+5, a oedd yn cynrychioli 39% o'r farchnad post mynediad yn y flwyddyn ariannol flaenorol.[530] Rydym felly'n asesu effaith addasu'r rhwymedigaeth mynediad D+5 bresennol i roi'r gorau i ddanfon ar ddydd Sadwrn.

[530]Mae gennym ffigurau ar gyfer 2024/25, ond nid yw'r rhain wedi cael eu cymeradwyo'n derfynol gan archwilwyr y Post Brenhinol. Yn 2024/25, roedd tua 50% o lythyrau yn llythyrau mynediad D+5.

Cynigion ein Ymgynghoriad

7.78 Yn ein Hymgynghoriad, fe wnaethom nodi bod gwasanaethau mynediad D+5 wedi cael eu cyflwyno gan y Post Brenhinol yn fwy diweddar, yn 2021, gan alluogi'r Post Brenhinol a chwmnïau mynediad i gynnig y rhain fel opsiynau 'economi' i'w cwsmeriaid. Fe wnaethom nodi bod y gwasanaethau hyn o fudd i ddefnyddwyr post mawr a defnyddwyr terfynol oherwydd eu prisiau is o'u cymharu â gwasanaethau mynediad D+2. Ar ben hynny, mae'r Post Brenhinol yn elwa drwy ohirio danfon post, gan leihau nifer yr ymweliadau wythnosol â chyfeiriadau unigol ar yr un pryd â chynyddu faint sy'n cael ei ddanfon ar bob ymweliad. Gall y model darparu hwn alluogi arbedion cost sylweddol, gan ddod â rhai o'r arbedion maint a gollwyd yn ôl, a gyflawnwyd pan oedd nifer y llythyrau'n llawer uwch, fel y trafodwyd yn 4.51-4.62.

7.79 Fe wnaethom dynnu sylw at y ffaith bod gwasanaethau mynediad D+5 wedi tyfu o ran arwyddocâd yn y farchnad mynediad gyfan, gan ddod yn fwyfwy gwerthfawr i ddefnyddwyr y mae'n well ganddynt ddanfon yn arafach ac am gost is.

7.80 Roeddem wedi ystyried yr opsiwn o gynnal y rheoliadau mynediad D+5 presennol, a fyddai'n golygu bod angen danfon bob chwe diwrnod yr wythnos. Gwelsom y byddai hyn yn cymhlethu model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos y Post Brenhinol ac yn cyfyngu ar arbedion posibl o gyfuno post, gan danseilio'r cymorth y dylai'r arbedion hyn ei ddarparu yn y pen draw i gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol a'r manteision i ddefnyddwyr yn sgil diwygio.

7.81 O ganlyniad, fe wnaethom archwilio effaith bosibl cael gwared ar ddydd Sadwrn fel diwrnod danfon ar gyfer mynediad D+5. Wrth gyflwyno'r gwasanaethau hyn, fe wnaethom nodi bod disgwyl i gwsmeriaid fod yn llai pryderus am union amseriad danfon, gan ffafrio pris is yn hytrach na sicrwydd danfon. Ers eu cyflwyno, nid yw'r gwasanaethau hyn erioed wedi gwarantu danfon ar ddiwrnodau penodol, gan ein harwain i ystyried na fyddai dileu danfon ar ddydd Sadwrn yn effeithio'n sylweddol ar ddefnyddwyr.[531]

7.82 Felly, fe wnaethom gynnig dileu danfon ar ddydd Sadwrn o'r fanyleb ar gyfer mynediad D+5. Daethom i'r casgliad dros dro y byddai manteision sylweddol y newid hwn yn cyfiawnhau'r effaith fach iawn ar ddefnyddwyr mawr a defnyddwyr terfynol, yn benodol yr arbedion cost posibl o ddiwygio a ddylai gefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol, a'r manteision i ddefnyddwyr sy'n deillio o hynny.

7.83 Ar wahân, roeddem hefyd wedi awgrymu, gan y bydd y Post Brenhinol yn cynnig gwasanaethau mynediad Llythyrau Mawr D+3 drwy eu gohirio â llaw, y gallai hefyd gynnig mynediad D+5 i wasanaethau Llythyrau Mawr drwy ohirio'r eitemau hynny â llaw yn y swyddfa danfon ond, gan nad oeddem yn ymwybodol o'r galw am wasanaeth o'r fath, nid oeddem yn bwriadu ei orfodi.

Ymatebion rhanddeiliaid

7.84 Roedd nifer o randdeiliaid wedi defnyddio cwestiwn yr Ymgynghoriad, a oedd yn cyfeirio at gael gwared ar ddydd Sadwrn o fanyleb danfon mynediad D+5, fel procsi ar gyfer cael

[531] Ofcom, 2021. Datganiad: Addasiadau i Amod Mynediad darparwr gwasanaeth cyffredinol ar gyfer rheoleiddio mynediad i rwydwaith post y Post Brenhinol tudalen 24.

gwared ar ddanfon ar ddydd Sadwrn yn gyffredinol. Mae'r sylwadau hyn wedi cael eu cofnodi yn Adran 5. Yn yr Adran hon, rydym yn ymdrin â'r effaith yn yr ecosystem mynediad os bydd gwasanaethau mynediad D+5 yn cael eu darparu bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos yn hytrach nag o ddydd Llun i ddydd Sadwrn fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

7.85 Roedd rhai rhanddeiliaid yn cytuno ei bod yn synhwyrol tynnu Sadyrnau oddi ar fanyleb danfon mynediad D+5, o ystyried yr arbedion cost posibl neu oherwydd y byddai'r fanyleb ddiwygiedig yn cynrychioli patrymau postio'n fwy cywir. Roedd BBS yn cydnabod manteision cost rhoi'r gorau i ddanfon ar ddydd Sadwrn, ac awgrymodd y Gymdeithas Data a Marchnata fod y symud yn cynrychioli newid gweithredol bach.[532] Roedd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol yn cytuno â'n cynigion, gan nodi rhai amgylchiadau lle gellid defnyddio mynediad D+5 at ddibenion etholiadol ond gan awgrymu nad oes angen danfon ar ddydd Sadwrn ar y gwasanaeth hwn.[533]

7.86 Roedd y Bartneriaeth Bostio Strategol (SMP) ac Unite CMA hefyd yn cydnabod y manteision posibl o ran arbedion cost. Roedd y SMP yn cydnabod nad oedd danfon post blaenoriaeth isel am chwe diwrnod yn gynaliadwy. Nododd Unite CMA ei gefnogaeth i'r cynnig gan dynnu sylw at fanteision cynaliadwyedd ariannol, effeithlonrwydd gweithredol, a chysondeb â chynigion ehangach.[534]

7.87 Mynegodd rhai rhanddeiliaid bryderon am yr effaith ar ansawdd gwasanaeth os bydd dydd Sadwrn yn cael ei dynnu o'r fanyleb danfon ar gyfer mynediad D+5. Nododd Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer yr Alban y gallai dileu dydd Sadwrn waethygu oedi os bydd llythyr D+5 yn methu â bodloni'r fanyleb. Roedd gan CFH Docmail bryderon tebyg gan nodi ei bod yn bwysig bod unrhyw eitemau hwyr yn cael eu monitro o dan y cynnig. Roedd [✂] yn tynnu sylw at y ffaith y byddai cael gwared ar Sadyrnau o D+5 yn effeithio ar gyhoeddwyr cylchgronau sy'n dibynnu ar ddanfon ar ddydd Sadwrn i sicrhau bod defnyddwyr yn cael cyhoeddiad ar gyfer y penwythnos.[535]

7.88 Nododd nifer o randdeiliaid newidiadau mae'r Post Brenhinol wedi'u gwneud i'r Contract Llythyrau Mynediad (ALC), sy'n ymwneud yn benodol â llythyrau mynediad D+5. Er ein bod yn rheoleiddio telerau mynediad ar lefel uchel, mae llawer o fanylion y cytundebau masnachol rhwng y Post Brenhinol a chwmnïau mynediad yn yr ALC, sy'n cynnwys gwybodaeth fel trosglwyddo post, niferoedd sylfaenol, targedau ansawdd, amrywiadau a chytundebau iawndal. Mae'r Post Brenhinol wedi gwneud newidiadau i gontractau a fydd yn dod i rym o ddyddiad ein penderfyniad, ar yr amod ein bod yn bwrw ymlaen â'n cynigion.

7.89 Nid yw'r newidiadau cytundebol hynny ar hyn o bryd yn darparu ar gyfer dileu Sadyrnau o fanyleb danfon gwasanaethau D+5. Mae rhanddeiliaid yn nodi bod hyn yn golygu bod yn rhaid i'r Post Brenhinol ddarparu cyfnod rhybudd o 70 diwrnod cyn gweithredu unrhyw newidiadau i gontractau a glynu wrth y rhwymedigaethau cytundebol presennol yn ystod y 70 diwrnod hynny. Mae hynny'n golygu y bydd angen i'r Post Brenhinol ddanfon llythyrau mynediad D+5 ar ddydd Sadwrn, chwe diwrnod yr wythnos. Mae'r Post Brenhinol wedi

---

[532] Ymateb BBS i Ymgynghoriad 2025, t.3; ymateb y Gymdeithas Data a Marchnata i Ymgynghoriad 2025, t.4-5.
[533] Ymateb Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol i Ymgynghoriad 2025, t.5.
[534] Ymateb y Bartneriaeth Bostio Strategol i Ymgynghoriad 2025, t.5; Ymateb Unite CMA i Ymgynghoriad 2025, t.32.
[535] Ymateb Pwyllgor Cynghori'r Alban i Ymgynghoriad 2025, t.7; Ymateb CFH Docmail i Ymgynghoriad 2025, t.5; [✂]

cadarnhau y bydd yn ceisio gwneud y newid cytundebol hwn os byddwn yn bwrw ymlaen â'n cynigion, ac mae'n nodi y gallai cwmnïau mynediad gytuno ar amserlen fyrrach ar gyfer gweithredu.[536]

7.90 Roedd The Delivery Group yn anghytuno â'n datganiad ynghylch Llythyrau Mawr D+5, yr awgrymodd fod galw amdanynt a bod cwsmeriaid post wedi gofyn am gynnyrch o'r fath.[537]

7.91 Roedd y Post Brenhinol yn anghytuno â'n datganiad ynghylch rheoleiddio Llythyrau Mawr mynediad D+5. Nododd ei fod yn dal yn aneconomaidd iddo ddanfon Llythyrau Mawr D+5. Dywedodd y Post Brenhinol y bydd yn gohirio Llythyrau Mawr D+3 â llaw gan nad yw'n bosibl prosesu Llythyrau Mawr drwy ei beiriannau didoli dilyniannau. Bydd yr angen hwn i ddidoli â llaw yn arwain at gost ychwanegol a risg uwch o gamgymeriadau dynol. Pe bai Llythyrau Mawr D+5 hefyd ar gael, yna byddai hyn yn cynyddu'r gost a'r risg o gamgymeriad dynol ymhellach ac mae'n broses fwy cymhleth ynddo'i hun o ystyried nifer y diwrnodau y gellir danfon D+5.[538]

Ein hasesiad o ymatebion rhanddeiliaid

7.92 Rydym yn cytuno â'r ymatebwyr mai effaith gyfyngedig fydd dileu dydd Sadwrn o'r fanyleb danfon ar gyfer mynediad D+5 yn ei chael ar y rhan fwyaf o ddefnyddwyr.

7.93 Nid oedd danfon ar ddiwrnod penodol erioed yn rhywbeth a oedd yn cael ei gynnig ym manyleb cynnyrch D+5 ac roedd y diwrnod danfon bob amser wedi'i fwriadu i fod yn hyblyg o fewn y fanyleb honno. Ar ben hynny, dangosodd ein Hymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024 fod danfon yn ystod yr wythnos yn bwysig i 80% o ddefnyddwyr preswyl ac 82% o ddefnyddwyr busnesau bach a chanolig, tra bod danfon ar ddydd Sadwrn yn llai hanfodol, yn bwysig i ddim ond 57% o ddefnyddwyr preswyl a 35% o fusnesau bach a chanolig.

7.94 Rydym yn nodi pryderon am yr effaith ar ansawdd gwasanaeth os bydd eitem bost yn methu â bodloni manyleb ar ddydd Gwener. Mae pryderon yn canolbwyntio ar lythyrau sy'n methu cael eu danfon ar y diwrnod danfon olaf posibl i fodloni'r fanyleb (D+5) pan fo hynny'n ddydd Gwener. Mae'r Post Brenhinol yn cyhoeddi data chwarterol ar fynediad D+5 ar draws pob diwrnod danfon posibl. Mae'r data ar gyfer Ch4 2024/25, sy'n nodweddiadol o'r rhan fwyaf o chwarteri, yn cadarnhau bod y rhan fwyaf o lythyrau mynediad D+5 yn cael eu danfon ar y diwrnod danfon cyntaf (yn unol â thabl 7.1 sef D+2) gyda dim ond canran fach o bost yn dal i aros i gael ei ddanfon ar ôl y fanyleb (yn unol â thabl 7.1 sef D+5).[539] Rydyn ni'n cydnabod y byddai oedi tan ar ôl y penwythnos mewn achosion pan fydd post mynediad D+5 i fod i gael ei ddanfon ar ddydd Gwener ond yn methu'r danfoniad hwnnw, a dydd Gwener yw'r diwrnod olaf o fewn y ffenestr danfon benodol. Fodd bynnag, fel mae'r dystiolaeth yn ei awgrymu, rydyn ni o'r farn y byddai'r senario hwn yn anghyffredin, gan ei fod yn dibynnu ar fethu â bodloni manyleb danfon llythyr D+5 (mae lefelau ansawdd gwasanaeth ar hyn o bryd yn 97.9%) a bod y diwrnod a gollwyd yn digwydd yn benodol ar ddydd Gwener. Beth bynnag, rydym o'r farn y byddai'r niwed sy'n gysylltiedig ag oedi o'r fath yn fach, gan fod llythyrau D+5 yn cael eu defnyddio ar gyfer post llai brys.

---

[536] Ymateb Whistl i Ymgynghoriad 2025, t.5; Ymateb y Fforwm Cystadleuaeth Post i Ymgynghoriad 2025, t.7; Ymateb Swyddfa'r Post i Ymgynghoriad 2025, t.19.
[537] Ymateb The Delivery Group i Ymgynghoriad 2025, t.3.
[538] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, t.79.
[539] Y Post Brenhinol. Q4 2024/25. Adroddiad Ansawdd Gwasanaeth a Chwynion, t.14.

7.95 Rydym yn cytuno bod cylchgronau a llythyrau cyhoeddiadau yn bwysig i ddefnyddwyr. Fodd bynnag, nid yw mynediad D+5 ar gael mewn fformat Llythyr Mawr a dim ond ar gyfer llythyrau busnes a hysbysebu y mae ar gael. Ein barn ni yw mai ychydig iawn o gylchgronau neu gyhoeddiadau, os o gwbl, fydd yn defnyddio gwasanaethau mynediad D+5, ac felly ni ddylai dileu dydd Sadwrn o'r fanyleb danfon D+5 effeithio arnynt.

7.96 Rydym yn nodi pryderon am y Contract Llythyrau Mynediad. Ein barn ni yw bod hwn yn fater cytundebol i'r Post Brenhinol ei ddatrys os yw'n dymuno rhoi newidiadau ar waith i fynediad D+5 heb y cyfnod rhybudd y cytunwyd arno.

7.97 Yn olaf, nid oedd ein Hymgynghoriad yn bwriadu cyflwyno'r posibilrwydd o reoleiddio Llythyrau Mawr D+5. Er ein bod yn cydnabod y gallai fod rhywfaint o alw am y gwasanaeth hwn, rydym yn cytuno â'r Post Brenhinol bod rhwymedigaeth i ddarparu Llythyrau Mawr D+5 yn ychwanegu cymhlethdod sylweddol at eu gweithrediad, ynghyd â mwy o gost a risg o fethiannau ansawdd gwasanaeth oherwydd camgymeriadau dynol. Felly, ni fyddwn yn rheoleiddio gwasanaethau Llythyrau Mawr D+5.

Ein penderfyniad

7.98 Ar ôl ystyried ymatebion rhanddeiliaid fel y nodir uchod, rydym wedi penderfynu dileu dydd Sadwrn o'r rhwymedigaeth danfon ar gyfer gwasanaethau mynediad D+5.

Gwasanaethau mynediad D+2

Safbwynt ein Hymgynghoriad ar reoleiddio mynediad D+2

7.99 Yn ein Hymgynghoriad, fe wnaethom dynnu sylw at y ffaith y gallai fod galw tymor byr sylweddol o hyd am fynediad D+2 ar ôl diwygio, ac roeddem yn cydnabod y gallai newid i fodel danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos beri heriau i rai defnyddwyr mynediad, sy'n golygu bod angen amser i addasu eu gweithrediadau. Fe wnaethom dynnu sylw at sectorau fel post cyllid a chyhoeddi lle'r oeddem yn disgwyl y byddai rhywfaint o alw parhaus am y llythyrau hynny nad ydynt yn gallu symud i ddanfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos.

7.100 Ein barn ni oedd, er y byddai'r Post Brenhinol yn parhau i gynnig mynediad D+2 ar sail fasnachol pe na bai'n ofynnol o dan reoliadau, roedd hyn hefyd yn golygu y gallai dynnu'r gwasanaeth yn ôl ar unrhyw adeg (yn amodol ar unrhyw gytundeb contract). Fe wnaethom nodi bod y Post Brenhinol wedi sôn am yr angen i allu tynnu'r gwasanaeth yn ôl ar fyr rybudd fel rheswm pam y dylid dadreoleiddio'r gwasanaeth. Roedd gennym bryderon am ddadreoleiddio mynediad D+2 yn rhy gynnar, gan adael llawer iawn o bost heb ddiogelwch rheoleiddiol, fyddai'n cael effaith negyddol ar ddefnyddwyr a chystadleuaeth. Fe wnaethom ddweud y byddem yn parhau i reoleiddio gwasanaethau mynediad D+2 ond fe wnaethom nodi y byddem yn monitro pa mor effeithiol roedd y niferoedd wedi newid i wasanaethau arafach, gan asesu unrhyw effaith sy'n dod i'r amlwg ar arbedion cost a chynaliadwyedd ariannol y Post Brenhinol yn sgil parhau i reoleiddio D+2.

Cynigion ein Ymgynghoriad

7.101 Ar ôl nodi ein safbwynt ar reoleiddio mynediad D+2, fe wnaethom egluro bod gwasanaethau mynediad D+2 yn cael eu diogelu ar hyn o bryd gan reolaeth gwasgu elw, sydd wedi'i dylunio i atal y Post Brenhinol rhag prisio gwasanaethau mynediad mewn ffordd

a fyddai'n rhoi cwmnïau mynediad dan anfantais annheg neu'n annog pobl i symud i gynnyrch adwerthu swmp y Post Brenhinol ei hun. Mae'r rheolaeth hon yn berthnasol i set o gynnyrch adwerthu swmp Ail Ddosbarth y Post Brenhinol fel meincnodau i asesu a oes gwasgfa elw'n digwydd.

7.102 Ar ôl cynnig cyflwyno gwasanaethau mynediad D+3, fe wnaethom nodi y byddai'r cynnyrch adwerthu swmp Ail Ddosbarth sydd wedi'u rhestru ar hyn o bryd fel y Gwasanaethau Adwerthu Perthnasol ar gyfer mynediad D+2, ar ôl diwygio, yn debycach yn ôl manyleb danfon i fynediad D+3. O'r herwydd, roeddem yn cynnig y dylai'r gwasanaethau hyn ddod yn Wasanaethau Manwerthu Perthnasol ar gyfer y rheolaeth D+3, fel y nodir yn 7.70.

7.103 O ganlyniad i hyn, fe wnaethom asesu a fyddai perygl o hyd o wasgfa ar elw o ran mynediad D+2 ac, os felly, mewn perthynas â pha rai o wasanaethau adwerthu swmp y Post Brenhinol. Roedd ein hasesiad cychwynnol yn dangos mai opsiynau post swmp premiwm a fyddai'n cael eu danfon chwe diwrnod yr wythnos ac a fyddai'n cystadlu'n agos yn y farchnad, er nad ydynt yr un fath â'i gilydd, fyddai gwasanaethau mynediad D+2 a gwasanaethau adwerthu swmp Dosbarth Cyntaf. Heb reolaeth gwasgu elw, byddai risg y gallai'r Post Brenhinol brisio gwasanaethau adwerthu swmp Dosbarth Cyntaf mewn ffordd a fyddai'n rhoi cwmnïau mynediad D+2 dan anfantais, gan danseilio cystadleuaeth o bosibl. Daethom i'r casgliad dros dro bod angen cadw'r rheolaeth gwasgu elw ar gyfer mynediad D+2 ac roeddem yn cynnig y dylai cynnyrch adwerthu swmp Dosbarth Cyntaf ddod yn Wasanaeth Adwerthu Perthnasol.

Ymatebion rhanddeiliaid

7.104 Cyfeiriodd nifer o randdeiliaid at ein dadansoddiad o reoleiddio mynediad D+2 a'n cynigion i sicrhau mai gwasanaethau adwerthu swmp Dosbarth Cyntaf yw'r Gwasanaethau Adwerthu Perthnasol at ddibenion rheolaeth gwasgu elw D+2.

7.105 Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a ymatebodd i'n cwestiwn yn cytuno y dylid parhau i reoleiddio mynediad D+2 gan awgrymu bod esemptiad TAW yn reswm pwysig. Nododd ymatebwyr fel UK Mail, MCF a Citipost, pe bai gwasanaethau mynediad D+2 yn cael eu rheoleiddio, i rai cwsmeriaid byddai'r pris 20% yn uwch oherwydd rheolau TAW a byddai hyn yn gwneud y gwasanaeth yn anatyniadol.[540]

7.106 Roedd CFH Docmail yn cytuno â'n cynnig ar y sail eu bod yn disgwyl i gystadleuaeth ddatblygu rhwng mynediad D+2 a phost adwerthu swmp Dosbarth Cyntaf y Post Brenhinol, gan nodi bod y rheoliadau'n cefnogi'r gystadleuaeth hon.[541] Roedd MUA a The Delivery Group yn cefnogi hyn, gan nodi, heb reoleiddio, y gellid cynnig mynediad D+2 ar delerau ac amodau llai ffafriol.[542] Cytunodd Quadient y dylai D+2 barhau i gael ei reoleiddio am gyfnod interim, o leiaf nes bydd y farchnad wedi ymateb i newid.[543]

[540] Ymateb UK Mail i Ymgynghoriad 2025, t.4; Ymateb y Fforwm Cystadleuaeth Post i Ymgynghoriad 2025, t.7; Ymateb Citipost i Ymgynghoriad 2025, t.5.
[541] Ymateb CFH Docmail i Ymgynghoriad 2025, t.5.
[542] Ymateb y Gymdeithas Defnyddwyr Post i Ymgynghoriad 2025, t.6; Ymateb The Delivery Group i Ymgynghoriad 2025, t.2.
[543] Ymateb Quadient i Ymgynghoriad 2025, tt.6-7.

7.107 Roedd Tesco Bank a [✂] yn cytuno â'n cynnig y dylai mynediad D+2 barhau i fod yn ddarostyngedig i reolaeth gwasgu elw. [544] Roedd The Delivery Group ac UK Mail yn cytuno y dylai gwasanaethau adwerthu Dosbarth Cyntaf ddod yn wasanaethau adwerthu perthnasol ar gyfer D+2 yn y rheolaeth gwasgu elw, ond yn yr un modd â'r gwasanaethau adwerthu perthnasol ar gyfer mynediad D+3, roeddent yn dadlau y dylid cynnwys amrywiadau heb eu didoli.[545]

7.108 Roedd Unite CMA yn anghytuno â'n cynnig, gan awgrymu y dylid dileu mynediad D+2 o reoleiddio, bod ein cynnig yn mynd yn groes i ddiwygiadau eraill ac y byddai'n gadael niferoedd ar wasanaethau blaenoriaeth yn uwch am fwy o amser nag y mae angen iddynt fod.[546]

Ymateb y Post Brenhinol a gwybodaeth ychwanegol

7.109 Fel y trafodwyd yn flaenorol, mae gan y Post Brenhinol bryderon sylweddol am reoleiddio gwasanaethau mynediad D+2 ac mae'r adran hon yn crynhoi ei ymateb i'n Hymgynghoriad a'r sylwadau dilynol.

Effaith ar ddanfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos

7.110 Dywedodd y Post Brenhinol y byddai cynnal lefel rhy uchel o bost D+2 (llythyrau y mae'n rhaid eu danfon bob dydd gan fod yn rhaid eu danfon y diwrnod ar ôl iddynt ymuno â rhwydwaith y Post Brenhinol) yn arwain at anawsterau logistaidd, costau gweithredol uwch, a methiant posibl i weithredu danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Tynnodd y Post Brenhinol sylw at y ffaith y gallai cynnydd yn nifer yr eitemau D+2 lesteirio'r gwaith o gyflwyno'r model danfon newydd, gan nodi y gallai [✂] o eitemau ychwanegol bob blwyddyn fygwth defnyddio, ac y byddai [✂] yn debygol o atal y newid yn gyfan gwbl.[547]

7.111 Mae'r Post Brenhinol wedi rhoi gwybod i ni fod angen iddo gadw'r niferoedd yn is na [✂] y flwyddyn ar gyfer post y diwrnod canlynol, gan gynnwys llythyrau mynediad, adwerthu a rhyngwladol. Byddai'r cynnydd yn y niferoedd a ddisgrifir yn y paragraff blaenorol yn golygu na fyddai digon o gapasiti ar lwybrau faniau i ddanfon post a pharseli blaenoriaeth yn brydlon.[548] Yn y sefyllfa hon, byddai angen i'r Post Brenhinol naill ai gynnwys llwybrau danfon hirach, gan effeithio ar ei fodel danfon, neu ddefnyddio mwy o faniau, gan gynyddu costau.[549]

7.112 Pe bai senario o'r fath yn digwydd mewn digon o ardaloedd i wneud y llwybrau faniau'n anymarferol oherwydd bod y cyfraddau galwadau mor uchel, yna mae'r Post Brenhinol yn awgrymu y byddai angen iddo ddychwelyd i'r model danfon presennol, gan o bosibl golli'r arbedion costau posibl yn sgil diwygio. Mae'r Post Brenhinol yn awgrymu mai ei gynllun wrth gefn i osgoi'r senario hwn bob amser fu tynnu mynediad D+2 yn ôl, rhywbeth mae'n dweud mai dim ond os nad yw'r gwasanaeth yn cael ei reoleiddio y gall ei wneud.[550]

---

[544] Ymateb Tesco Bank i Ymgynghoriad 2025, t.4; [✂]
[545] Ymateb The Delivery Group i Ymgynghoriad 2025, t.3. Ymateb UK Mail i Ymgynghoriad 2025, t.5.
[546] Ymateb Unite CMA i Ymgynghoriad 2025, t.34.
[547] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, t.48.
[548] O dan ein cynigion, byddai post a pharseli â blaenoriaeth yn cael eu danfon ar lwybrau faniau, yn hytrach na llwybrau cerdded ar y diwrnod nad oedd llwybr cerdded wedi'i drefnu.
[549] Y Post Brenhinol. 21 Mai 2025. Cyflwyniad i Ofcom ar D+2.
[550] Y Post Brenhinol. 21 Mai 2025. Cyflwyniad i Ofcom ar D+2.

7.113 Roedd y Post Brenhinol yn dadlau na allai prisio ar ei ben ei hun reoli newidiadau mewn niferoedd yn effeithiol, gan ddweud bod ymatebion cwsmeriaid i newidiadau diweddar mewn prisiau yn awgrymu sensitifrwydd cyfyngedig i gynnydd mewn prisiau. Roedd hefyd yn dadlau y byddai cyfyngiadau rheoleiddiol yn cyfyngu ar ei allu i dynnu'n ôl neu addasu'r gwasanaeth D+2 yn gyflym pe bai angen.[551] Mae hefyd yn honni y gall cynnydd mewn prisiau gael effeithiau ansicr ac efallai na fydd bob amser yn siapio'r galw yn y ffyrdd a fwriadwyd.

Wrth fanylu mwy ar brisio, mae'r Post Brenhinol hefyd wedi awgrymu bod yr ysgol brisio ar gyfer gwasanaethau blaenoriaeth yn cyfyngu ar ei ryddid prisio. Y rheswm am hyn yw bod angen i'r Post Brenhinol gadw'r bwlch rhwng cynnyrch â blaenoriaeth fel mynediad D+2, mynediad premiwm ac adwerthu swmp Dosbarth Cyntaf er mwyn i bob cynnyrch gael ei bwynt prisio ei hun. Mae'r Post Brenhinol yn dadlau, gan fod disgwyl i'r pris mynediad D+2 godi i £1.20, y premiwm mynediad i £1.30 a'r pris adwerthu swmp Dosbarth Cyntaf isaf i £1.37, nad oes ganddo fawr o le i godi mwy ar brisiau mynediad D+2.

Yr effaith ar gwsmeriaid

7.114 Dywedodd y Post Brenhinol na fyddai'r rhan fwyaf o gwsmeriaid yn cael problemau sylweddol wrth drosglwyddo o wasanaethau D+2 i D+3. Yn hytrach, roedd y Post Brenhinol yn dadlau, ar sail ymgysylltu'n helaeth â chwsmeriaid, mai dim ond lleiafrif bach o gwsmeriaid fyddai'n ei chael hi'n anodd symud i D+3.[552]

7.115 Tynnodd y Post Brenhinol sylw pellach at fesurau ehangach i gefnogi cwsmeriaid drwy'r cyfnod pontio, gan gynnwys cyflwyno codau cynnyrch D+2 newydd yn gynnar ar gyfer profion gweithredol, a sicrhau cyfnodau rhybudd priodol ar gyfer unrhyw wasanaethau sy'n cael eu tynnu'n ôl. Dywedodd y Post Brenhinol y byddai'n anghymesur cynnal rheolaethau rheoleiddio dros fynediad D+2 i fynd i'r afael â'r ychydig iawn o alw gweddilliol. Nododd y bydd yn parhau i gynnig gwasanaeth adwerthu swmp Dosbarth Cyntaf, Premiwm Mynediad y Diwrnod Canlynol a chynnal gwasanaeth mynediad D+2 masnachol.[553]

Yr effaith ar gystadleuaeth

7.116 Roedd y Post Brenhinol yn anghytuno â'n pryderon y byddai absenoldeb cynnyrch D+2 sy'n cael ei reoleiddio yn cael effaith negyddol ar gystadleuaeth. Dadleuodd nad oedd llawer o gymhelliant i symud niferoedd mynediad i wasanaethau adwerthu swmp Dosbarth Cyntaf oherwydd costau gweithredol uwch sy'n gysylltiedig â danfon y diwrnod canlynol, a fyddai'n dod yn fwy amlwg ar ôl y diwygiadau. Pwysleisiodd nad oedd strategaethau prisio hanesyddol yn dangos unrhyw fwriad i leihau prisiau adwerthu swmp Dosbarth Cyntaf yn sylweddol er mwyn denu cwsmeriaid mynediad.[554]

7.117 Ar ben hynny, dywedodd y Post Brenhinol ei bod yn debygol mai bach iawn fyddai unrhyw newid posibl mewn niferoedd o lythyrau mynediad i lythyrau Adwerthu, gan achosi risg fach iawn i gwmnïau mynediad. Gofynnodd y Post Brenhinol i Ofcom roi'r gorau i reoleiddio

[551] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, t.49.
[552] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, t.49.
[553] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, tt.51-53.
[554] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, t.54.

mynediad D+2 a monitro ymatebion i'r farchnad ar ôl diwygio, gan symud i reoleiddio dim ond os oes angen, ar ôl adolygiadau yn y dyfodol.[555]

7.118 Yn olaf, awgrymodd y Post Brenhinol fod rheoleiddio mynediad D+2 yn ehangu ein trefn reoleiddio ac y byddai'n dod â gwasanaethau adwerthu swmp Dosbarth Cyntaf i'r maes rheoleiddio am y tro cyntaf. Roedd yn dadlau y byddai ein cynigion yn golygu y byddai categori post, sef mynediad D+2, yn anghysondeb yn y farchnad post swmp gan na fyddai ganddo wir gymaryddion adwerthu. Mae'r Post Brenhinol o'r farn bod y cynnig hwn yn mynd yn groes i nodau diwygio'r USO i sicrhau cynaliadwyedd a fforddiadwyedd.[556]

Ein hasesiad o ymatebion rhanddeiliaid

7.119 Cawsom nifer sylweddol o ymatebion a rhagor o wybodaeth am gynnal rheoleiddio mynediad D+2, ac felly rydym wedi mynd i'r afael ag ymatebion rhanddeiliaid o dan ddau bennawd isod. Yn gyntaf, rydyn ni'n trafod ein hasesiad o reoleiddio gwasanaethau mynediad D+2. Yn ail, rydyn ni'n nodi ein penderfyniad ar ein dull gweithredu ar gyfer prisio D+2 ar ôl diwygio.

Ein hasesiad o reoleiddio mynediad D+2

7.120 Nid yw'n sicr sut bydd y farchnad yn ymateb i'n penderfyniadau ar fynediad, ond mae tystiolaeth gan ymatebwyr yn awgrymu y byddai rhywfaint o niferoedd yn aros ar fynediad D+2 ar ôl unrhyw ddiwygio, o leiaf yn y tymor byr. Ategir y farn hon mewn ymatebion i'n Hymgynghoriad gan weithredwyr mynediad a defnyddwyr post mawr, gan gynnwys sefydliadau ariannol a chyhoeddwyr a allai fod angen gwasanaeth cyflymach o hyd. Rydym hefyd yn tynnu sylw at 3.148-3.169 sy'n dangos bod cyflymder yn dal yn bwysig i rai defnyddwyr mewn perthynas â rhai mathau o lythyrau, yn enwedig rhai gan gyrff cyhoeddus, llythyrau sy'n ymwneud â materion ariannol a meddygol, a rhai cylchgronau sy'n sensitif i amser. Felly, er ein bod yn disgwyl y gall y rhan fwyaf o bost D+2 symud i opsiynau eraill nad ydynt yn flaenoriaeth, mae cynnal opsiynau postio cyflymach yn dal yn bwysig ar gyfer rhai mathau o lythyrau ac anfonwyr.

7.121 Rydym yn nodi pryder y Post Brenhinol ei bod yn rhaid iddo optimeiddio llythyrau ar wasanaethau nad ydynt yn flaenoriaeth y gellir eu danfon yn unol â model bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, ac rydym yn derbyn y cynsail y gallai gormod o lythyrau ar lwybrau faniau â blaenoriaeth danseilio'r model danfon arfaethedig. Fodd bynnag, yn ein hasesiad cychwynnol, nid oeddem wedi cael ein darbwyllo y byddai parhau i reoleiddio gwasanaethau mynediad D+2 yn cael yr effaith honno.

7.122 Mewn ymateb i'r awgrym y byddai cynnal rheoleiddio D+2 yn effeithio ar y gallu i symud niferoedd i D+3, rydym yn nodi bod y Post Brenhinol yn cynnig y bydd yr holl lythyrau mynediad D+2 presennol yn cael eu symud yn awtomatig i fynediad D+3 os byddwn yn penderfynu bwrw ymlaen â'n cynigion. Mae hyn yn golygu y byddai angen i gwsmeriaid optio i mewn i aros ar y gwasanaethau mynediad D+2 cyflymach a drutach ar ôl diwygio. Rydym o'r farn y byddai hyn yn rhoi hyblygrwydd sylweddol i'r Post Brenhinol symud nifer fawr o lythyrau i fodel danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, ac yn gyflym. Byddai'r broses yn gorfodi cwsmeriaid i ystyried eu cyfuniad postio, ac yn bwysig iawn,

[555] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, t.54.
[556] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, t.55.

prisiau. Pris cyfanwerthu Llythyr Mailmark Busnes Mynediad D+2 ar gynllun cenedlaethol yw £0.59. Os byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynigion hyn, mae'r Post Brenhinol wedi dweud mai'r un pris cyfanwerthol ar gyfer llythyrau D+2 fyddai £1.20.[557] Nid oes gennym unrhyw dystiolaeth bod yna nifer sylweddol o gwsmeriaid na fyddent yn ymateb i gynnydd o dros 100% mewn prisiau. O ystyried yr opsiwn o ddefnyddio'r gwasanaeth D+3, byddem yn disgwyl i'r cynnydd sylweddol hwn mewn prisiau yrru'r mwyafrif helaeth iawn o'r niferoedd i'r gwasanaeth D+3.

7.123 Hyd yn oed gyda'r cynnydd mawr iawn hwn mewn prisiau, byddai'r hyblygrwydd yn dal yn bodoli rhwng y pris mynediad D+2 newydd a'r premiwm mynediad fel y nodwyd yn 7.114. Mae hyn yn dangos y byddai gan y Post Brenhinol y gallu i gynyddu'r pris D+2 ymhellach, pe bai'n credu bod angen symud rhagor o niferoedd i D+3, hyd yn oed heb newid prisiau ar gyfer Adwerthu Dosbarth Cyntaf na Stampiau Dosbarth Cyntaf. Pe bai niferoedd D+2 yn parhau i fod yn uchel, er gwaethaf y cynnydd mawr mewn prisiau a amlinellwyd, ein barn ni yw y byddai'r prisiau D+2 yn cynhyrchu refeniw ychwanegol sylweddol i'r Post Brenhinol, a gallai hyn wrthbwyso'n sylweddol y costau danfon uwch yn sgil yr angen i ddefnyddio mwy o faniau neu wneud llwybrau'n hirach.

7.124 Rydym hefyd yn nodi bod gan y Post Brenhinol opsiynau, nad ydynt yn ymwneud â phrisio, ar gael i reoli niferoedd ar wasanaethau mynediad D+2. Er enghraifft, fel y trafodwyd yn 7.23, dywedodd y Post Brenhinol y byddai'n lleihau ei gyfres o gynnyrch pe baem yn bwrw ymlaen â diwygio, sy'n golygu y bydd gan ddefnyddwyr mawr lai o opsiynau gwasanaeth i ddewis ohonynt os ydynt yn dymuno defnyddio gwasanaethau mynediad D+2. Mae hyn yn dangos bod gan y Post Brenhinol hyblygrwydd masnachol o fewn cyfyngiadau rheoleiddio mynediad wrth ystyried ei gymysgedd o gynnyrch.

7.125 O ystyried yr uchod, rydym o'r farn bod risg isel na fyddai'r Post Brenhinol yn gallu symud digon o bost mynediad D+2 presennol i fynediad D+3, oherwydd y mesurau gweithredol a phrisio mae'n bwriadu eu rhoi ar waith. Rydyn ni'n nodi bod y Post Brenhinol wedi cydnabod, ar sail trafodaethau gyda'i gwsmeriaid, y bydd y rhan fwyaf o'r mynediad D+2 presennol yn symud i D+3, ac y bydd y gwasanaeth D+2 yn gwasanaethu cwsmeriaid sy'n symud i lawr o adwerthu swmp Dosbarth Cyntaf.[558] Rydym yn gwerthfawrogi y bydd angen i'r Post Brenhinol wneud penderfyniadau ar faterion gweithredol a phrisio penodol wrth iddo geisio gwireddu arbedion cost.

7.126 Mae'r Post Brenhinol wedi awgrymu bod rheoleiddio'n llesteirio ei allu i reoli gwasanaethau mynediad D+2, gan fod risg bob amser y gallai cwmni mynediad godi anghydfod yn ei erbyn am beidio â gweithredu'n deg nac yn rhesymol. Fodd bynnag, byddai ein barn am yr hyn sy'n deg ac yn rhesymol mewn cam gorfodi sy'n ymwneud â mynediad D+2 yn ystyried amrywiaeth eang o ffactorau, gan nodi ein dyletswydd i gyflawni ein swyddogaethau mewn ffordd a fydd, yn ein barn ni, yn sicrhau gwasanaeth post cyffredinol gan ystyried ei gynaliadwyedd ariannol ar yr un pryd.

7.127 I grynhoi, er ein bod yn disgwyl y byddai llawer iawn o'r niferoedd yn symud o fynediad D+2 i D+3, rydym yn disgwyl y bydd galw o hyd am gynnyrch mynediad â blaenoriaeth i wasanaethu anghenion penodol anfonwyr, yn enwedig wrth i'r farchnad addasu i'r newidiadau a gyflwynwyd gan ein diwygiadau. Mewn amgylchiadau o'r fath, rydyn ni'n

[557] Y Post Brenhinol. Rhestr brisiau cyfanwerthu. [Cyrchwyd 16 Mai 2025.]
[558] Y Post Brenhinol. 9 Mehefin 2025. Llythyr at Ofcom ar weithredu'r drefn mynediad yn y dyfodol.

poeni am yr effaith ar gwmnïau mynediad a'u cwsmeriaid os nad yw D+2 yn dal i gael eu rheoleiddio, o leiaf wrth i'r farchnad addasu i ddiwygio. Rydyn ni hefyd yn credu y bydd y Post Brenhinol yn gallu darparu digon o gymhellion i gwsmeriaid symud i fynediad D+3, gan sicrhau bod y niferoedd ar y lefelau sydd eu hangen arno i weithredu'r model bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos a gwireddu'r arbedion costau posibl yn sgil diwygio. Bydd rheoleiddio mynediad D+3 yn annog cwsmeriaid i fanteisio ar y gwasanaethau hynny, yn yr un modd â'r Post Brenhinol yn symud cwsmeriaid yn awtomatig o D+2 i D+3. Ar ben hynny, rydym o'r farn bod gan y Post Brenhinol ddigon o hyblygrwydd prisio ar hyn o bryd i reoli niferoedd ar ei wasanaethau mynediad D+2.

7.128 Serch hynny, byddwn yn parhau i adolygu'r mater hwn, gan gynnwys sut mae'r farchnad yn datblygu ar ôl diwygio, ac yn parhau i fod yn agored i ddadreoleiddio os yw hynny'n briodol. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd niferoedd D+2 yn gostwng i lefel lle nad yw'n gymesur mwyach i reoleiddio'r gwasanaeth. Fel arall, mae'n bosibl y daw tystiolaeth i'r amlwg bod lefel y niferoedd D+2 yn cael cymaint o effaith ar allu'r Post Brenhinol i gyflawni'r arbedion cost posibl o'n diwygiadau arfaethedig, ac ar gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol, y dylem ailystyried a yw'r cydbwysedd priodol yn cael ei daro gyda'r angen i ddiogelu defnyddwyr a chystadleuaeth.

Prisio gwasanaethau mynediad D+2

7.129 Rydym yn cytuno â'r ymatebwyr y dylai cynhyrchion adwerthu swmp Dosbarth Cyntaf ddod yn Wasanaethau Adwerthu Perthnasol ar gyfer mynediad D+2 yn y dyfodol, ac y byddai cynnal rheolaeth gwasgu elw yn helpu cystadleuaeth, gan sicrhau elw sylfaenol rhwng gwasanaethau mynediad D+2 a gwasanaethau adwerthu swmp Dosbarth Cyntaf.

7.130 Rydym yn nodi anghytundeb y Post Brenhinol ynghylch cynnwys llythyrau adwerthu swmp Dosbarth Cyntaf mewn rheoliadau am y tro cyntaf, gan awgrymu bod hyn yn ehangu rheoleiddio. Rydyn ni wedi egluro uchod pam rydyn ni'n credu ei bod hi'n briodol parhau i reoleiddio mynediad D+2, o leiaf wrth i'r farchnad addasu i ddiwygio.

7.131 Mae ein dull gweithredu yn angenrheidiol oherwydd bod gwasanaethau mynediad D+3 wedi cael eu cyflwyno. Bydd y Gwasanaethau Adwerthu Perthnasol sy'n cael eu defnyddio ar gyfer y rheolaeth gwasgu elw mynediad D+2 bresennol yn dod yn Wasanaethau Adwerthu Perthnasol ar gyfer y rheolaeth gwasgu elw mynediad D+3. Ar ben hynny, rydym wedi nodi pryderon o ran cystadleuaeth rhwng gwasanaethau mynediad D+2 yn y dyfodol ac adwerthu swmp Dosbarth Cyntaf a fydd yn dod yn llawer mwy tebyg o ran proffil danfon ar ôl diwygio. Felly, rydym yn disgwyl i'n cynnig hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol rhwng cwmnïau mynediad a'r Post Brenhinol.

7.132 Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried bod ymatebwyr wedi tynnu sylw at gwsmeriaid a allai symud rhwng y ddau wasanaeth ar ôl diwygio. Mae cystadleuaeth effeithiol yn dda i ddefnyddwyr sy'n elwa o ddewis a'r ffaith bod cystadleuwyr yn cael eu cymell i gynnig prisiau gwell. Gall costau postio a danfon is leihau gorbenion i fusnesau, tra gall marchnadoedd cystadleuol arwain at welliannau mewn cynhyrchiant, gan gyfrannu at dwf economaidd.

Ein penderfyniad

7.133 Gan ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynir uchod, byddwn yn parhau i reoleiddio gwasanaethau mynediad D+2, o leiaf wrth i'r farchnad ymateb i ddiwygio. Rydym o'r farn bod risg isel y bydd niferoedd ar y gwasanaethau hynny'n aros mor uchel fel eu bod yn

tanseilio cyflwyno'r model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, ac rydym yn credu y gall y Post Brenhinol ddefnyddio ysgogiadau prisio ac anariannol i reoli'r risg hon. Fodd bynnag, byddem yn barod i adolygu'r rheoliad hwn os yw'n ymddangos, er enghraifft, bod mynediad D+2 yn fygythiad i gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol.

7.134 Felly, rydym wedi penderfynu y byddai cael rheolaeth gwasgu elw ar D+2 yn taro'r cydbwysedd priodol rhwng rhoi digon o hyblygrwydd masnachol i'r Post Brenhinol a diogelu cwmnïau mynediad a'u cwsmeriaid. Rydym wedi penderfynu nodi mai Mailmark Dosbarth Cyntaf y Post Brenhinol a llythyrau busnes â llaw yw'r Gwasanaethau Adwerthu Perthnasol ar gyfer mynediad D+2. Yn yr un modd â'n penderfyniad i barhau i reoleiddio mynediad D+2, mae hwn yn fater y byddwn yn parhau i'w adolygu wrth i'r model gweithredu newydd gael ei roi ar waith.

Penderfyniadau eraill sy'n ymwneud â'r Amod USPA

7.135 Yn ein Hymgynghoriad, roeddem yn cynnig cynyddu tryloywder o ran sut rydym yn monitro cydymffurfiad y Post Brenhinol â'n rheolaeth gwasgu elw ac roeddem yn cynnig gwneud newidiadau i'r ffordd rydym yn diffinio gwasanaethau mynediad. Rydym hefyd wedi cael nifer o ymatebion ar bynciau eraill, ac rydym yn eu hystyried isod.

Prisiau mynediad

7.136 Yn yr adran hon rydym yn trafod sawl maes sy'n berthnasol i brisiau mynediad. Yn gyntaf, rydym yn gwneud penderfyniad ar ein cynigion i gynyddu tryloywder o ran gweinyddu'r rheolaeth gwasgu elw. Yn ail, rydym yn trafod rheolaethau prisiau. Yn drydydd, rydym yn ystyried a ddylai cynnyrch adwerthu swmp Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth heb eu didoli y Post Brenhinol gael eu cynnwys yn y rheolaeth gwasgu elw ar gyfer gwasanaethau mynediad D+2 a D+3 yn y drefn honno. Yn olaf, rydym yn trafod y dyddiad dechrau rheoleiddiol effeithiol ar gyfer y rheolaeth gwasgu elw.

Tryloywder rheoli'r wasgfa ar elw

Cynigion ein Ymgynghoriad

7.137 Fe wnaethom egluro ei bod yn ofynnol i'r Post Brenhinol gyflwyno gwybodaeth reolaidd i Ofcom ynghylch cydymffurfio â'r rheolaeth gwasgu elw, gan gynnwys rhagolygon, canlyniadau gwirioneddol, a manylion contractau. Roeddem yn cydnabod pryderon rhanddeiliaid ynghylch tryloywder ein dull blaenorol, gan nodi nad oedd asesiadau cydymffurfio yn cael eu cyfleu'n allanol oni bai fod ymchwiliad yn cael ei gychwyn yn ffurfiol. Er mwyn gwella hyder a thryloywder yn y farchnad, roeddem yn cynnig cyhoeddi sylw blynyddol yn ein Hadroddiad Monitro Post ar gydymffurfiad y Post Brenhinol â'r rheolaeth gwasgu elw, tra'n cynnal ein proses bresennol os canfyddir diffyg cydymffurfio.

Ymatebion rhanddeiliaid

7.138 Roedd busnesau a sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau yn cytuno â'n cynigion i gynyddu tryloywder gwasgu elw. Dywedodd Tesco Bank, y Gymdeithas Data a Marchnata a [✂] fod

mwy o dryloywder ynghylch prisiau i'w groesawu gan ei fod yn helpu busnesau i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth.[559]

7.139 Roedd cwmnïau mynediad yn cytuno â'n cynigion ond yn gofyn i ni fynd ymhellach, gan gyhoeddi datganiad cydymffurfio bob tro y bydd y Post Brenhinol yn codi prisiau.[560] Gofynnodd UK Mail yn benodol i ni gyhoeddi rhagolygon cydymffurfio'r Post Brenhinol a'r canlyniadau gwirioneddol y mae'n eu cyflawni mewn perthynas â'r rheolaeth gwasgu elw.[561]

7.140 Nid oedd gan y Post Brenhinol unrhyw bryderon ynghylch Ofcom yn gwneud datganiad am ei gydymffurfiad â'r rheolaeth gwasgu elw yn ein Hadroddiad Monitro Post a chyhoeddi gwybodaeth lefel uchel am gydymffurfio. Fodd bynnag, gofynnodd y Post Brenhinol am sicrwydd ein bod yn ymatal rhag rhannu gwybodaeth sensitif a fyddai'n rhoi cipolwg i gystadleuwyr ar ei strategaeth prisiau adwerthu.[562]

Ein penderfyniad

7.141 Gan ystyried yr adborth cadarnhaol rydym wedi'i gael ar y mater hwn, rydym wedi penderfynu cadarnhau ein cynnig a byddwn yn gwneud datganiad am gydymffurfiad y Post Brenhinol â'r rheolaeth gwasgu elw wrth symud ymlaen yn ein Hadroddiad Monitro Post blynyddol.

7.142 Nodwn alwadau gan gwmnïau mynediad i fynd ymhellach. Rydym yn rhagweld y bydd yr wybodaeth a ddarparwn yn grynodeb lefel uchel o gydymffurfiad y Post Brenhinol. Byddwn yn nodi'n union sut rydym yn bwriadu gwneud hyn yn ein Hadroddiad Monitro Post 2025. Gan nodi pryder y Post Brenhinol ynghylch cyfrinachedd, gallwn gadarnhau na fyddwn yn datgelu unrhyw wybodaeth sy'n fasnachol sensitif.

Rheoli prisiau

Cynigion ein Ymgynghoriad

7.143 Fe wnaethom nodi ceisiadau gan rai rhanddeiliaid am fesurau diogelu hyblygrwydd ychwanegol a rheolaethau prisiau sy'n benodol i gynnyrch ochr yn ochr â'r rheolaeth gwasgu elw bresennol. Fodd bynnag, fe wnaethom gyfeirio at ein Hadolygiad o Reoleiddio Gwasanaethau Post yn 2022, lle daethom i'r casgliad nad oedd angen gosod capiau prisiau ar ffioedd mynediad y Post Brenhinol, gan bwysleisio pwysigrwydd rhoi hyblygrwydd masnachol i'r Post Brenhinol reoli cynyddu costau unedau a chynnal hyfywedd ariannol wrth i niferoedd llythyrau ostwng. Roeddem hefyd wedi ystyried ein dyletswyddau statudol o ran rheolaethau prisiau, gan gynnwys asesu cystadleuaeth yn y farchnad mynediad. O ystyried safle cryf gweithredwyr mynediad yn y farchnad post swmp, fe wnaethom benderfynu bod y rheoliadau presennol yn cefnogi cystadleuaeth yn effeithiol, ac ni welsom unrhyw dystiolaeth a fyddai'n cyfiawnhau gweithredu rheolaethau prisiau.

---

[559] Ymateb Tesco Bank i Ymgynghoriad 2025, t.4; [✂]; ymateb y Gymdeithas Data a Marchnata i Ymgynghoriad 2025, tt.4-5.
[560] Ymateb Mail Competition Forum i Ymgynghoriad 2025, tt.7-8; Ymateb CFH Docmail i Ymgynghoriad 2025, t.6.
[561] Ymateb UK Mail i Ymgynghoriad 2025, t.5.
[562] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, t.79.

Ymatebion rhanddeiliaid

7.144 Roedd MCF, Whistl, UK Mail, The Delivery Group a'r Bartneriaeth Bostio Strategol i gyd yn anghytuno â'n barn ar reoli prisiau. Roeddent yn awgrymu, er gwaethaf ansawdd sy'n gostwng, bod y Post Brenhinol yn dal i godi prisiau'n sylweddol ar gynnyrch mynediad. Awgrymwyd felly ein bod yn ailystyried rheolaethau prisiau gan fod y rhanddeiliaid hyn o'r farn bod y Post Brenhinol yn camddefnyddio ei sefyllfa fonopoli.[563]

Ein penderfyniad

7.145 Roeddem wedi ystyried y cais am fesurau rheoli prisiau ond nid ydym wedi cael ein darbwyllo eto mai dyma'r ffordd gywir o reoleiddio prisiau ar gyfer y farchnad post swmp.

7.146 Er enghraifft, mae'r farchnad mynediad yn cynnwys nifer o wasanaethau (D+2, D+3 a D+5), ac mae gan bob un ohonynt is-gynnyrch ynddynt gyda phroffiliau costau a niferoedd penodol. Byddai dylunio capiau prisiau a'u diweddaru'n rheolaidd ar gyfer pob cynnyrch yn creu cymhlethdod rheoleiddiol, yn peri risg o gam-alinio â symudiadau costau gwirioneddol ac o bosibl yn tanseilio gallu'r Post Brenhinol i ymateb yn hyblyg i bwysau gweithredol ac ariannol.

7.147 Am y rhesymau hyn, ochr yn ochr â'n barn bod cwmnïau mynediad yn llwyddo i gystadlu â'r Post Brenhinol, rydym yn dod i'r casgliad y byddai gosod rheolaethau prisiau, gan rwystro hyblygrwydd masnachol y Post Brenhinol, yn anghymesur.

Cynnwys post adwerthu heb ei ddidoli yn y rheolaeth gwasgu elw

7.148 Mewn ymateb i'n Hymgynghoriad, awgrymodd nifer o gwmnïau mynediad y dylid rhestru opsiynau post adwerthu swmp heb eu didoli'r Post Brenhinol fel gwasanaethau adwerthu perthnasol at ddibenion y rheolaeth gwasgu elw. Mae hyn yn berthnasol i lythyrau adwerthu Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth.

7.149 Rydym wedi egluro ym mharagraff 7.66 sut mae Gwasanaethau Adwerthu Perthnasol yn gweithredu yng nghyd-destun y rheolaeth gwasgu elw. Mae ein dull gweithredu yn y cyfnod ar ôl 2012, ers i ni oruchwylio rheoleiddio mynediad, wedi canolbwyntio ar opsiynau post adwerthu swmp a ddidolir fel y Gwasanaethau Adwerthu Perthnasol at ddibenion y rheolaeth gwasgu elw. Y rheswm am hyn yw ein bod wedi barnu bod y gwasanaethau hynny'n debyg iawn i'r gwasanaethau y mae gweithredwyr mynediad yn eu darparu, ac felly mewn cystadleuaeth uniongyrchol.

7.150 Isod, rydym yn egluro beth yw post heb ei ddidoli cyn trafod ymatebion rhanddeiliaid a nodi ein penderfyniad.

Beth yw post heb ei ddidoli (post adwerthu swmp Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth heb ei ddidoli)

7.151 Mae post heb ei ddidoli yn cyfeirio at fath o bost swmp sy'n cael ei roi i'r Post Brenhinol neu gwmni mynediad, nad yw'n cael ei wahanu na'i drefnu mewn unrhyw ffordd ar sail ei

[563] Ymateb y Fforwm Cystadleuaeth Post i Ymgynghoriad 2025, t.6; Ymateb Whistl i Ymgynghoriad 2025, t.3; Ymateb UK Mail i Ymgynghoriad 2025, t.5; Ymateb The Delivery Group i Ymgynghoriad 2025, t.2; Ymateb y Bartneriaeth Bostio Strategol i Ymgynghoriad 2025, t.6

gyrchfan, cynnyrch (Dosbarth Cyntaf neu Ail Ddosbarth, Llythyr neu Lythyr Mawr), neu gyflwyniad.

7.152 Mae hyn yn wahanol i bost wedi'i ddidoli, lle mae cwsmeriaid yn didoli post ymlaen llaw i gynwysyddion ar wahân yn dibynnu ar ei gyrchfan. Bydd defnyddwyr post mawr sy'n trefnu eu post ymlaen llaw yn aml yn allanoli'r dasg hon i fusnes, a elwir weithiau'n 'Gwmni Postio', sydd â'r gallu meddalwedd i drefnu data cyfeiriadau yn erbyn data'r Post Brenhinol ei hun ar godau post a chyfeiriadau.

7.153 Gan fod didoli post yn fwy llafurddwys i'r Post Brenhinol neu i gwmni mynediad o'i gymharu â phost heb ei ddidoli, mae gostyngiadau fel arfer ar gael i gwsmeriaid sy'n dewis didoli eu post ymlaen llaw cyn iddo gael ei gyflwyno, tra bod post heb ei ddidoli yn aml yn ddrutach.

Ymatebion rhanddeiliaid

7.154 Roedd MCF, CFH Docmail, The Delivery Group, a UK Mail i gyd yn dadlau y dylid cynnwys post adwerthu swmp heb ei ddidoli yn y rheolaeth gwasgu elw.[564] Dywedodd y rhanddeiliaid hyn nad yw cwmnïau mynediad a'r Post Brenhinol bellach yn cystadlu am bost swmp wedi'i ddidoli ymlaen llaw, oherwydd bod cwmnïau mynediad wedi sicrhau cyfran mor fawr o'r farchnad. Yn hytrach, maent yn awgrymu bod cystadleuaeth rhwng gwasanaethau post swmp heb eu didoli sy'n cael eu cynnig gan gwmnïau mynediad a'r Post Brenhinol. Maent yn dadlau bod y Post Brenhinol, heb unrhyw reoliad gwasgu elw, wedi prisio rhai o'i gynnyrch adwerthu swmp heb eu didoli yn agos at y prisiau y mae'n eu codi am wasanaethau mynediad, neu hyd yn oed yn is na hynny.[565]

7.155 Ar ben hynny, mae MCF yn nodi, pan fydd cwmni mynediad yn prosesu post heb ei ddidoli, bod yn rhaid i'r gweithredwr ysgwyddo costau didoli yn ogystal â phris mynediad arferol y Post Brenhinol, gan adael fawr o elw i'r gweithredwr.[566]

7.156 Awgrymodd MCF ac UK Mail fod yr angen i gynnwys post adwerthu swmp heb ei ddidoli yn y rheolaeth gwasgu elw hyd yn oed yn fwy amlwg mewn post adwerthu swmp Dosbarth Cyntaf. Y rheswm am hynny yw bod pryder y byddai'r Post Brenhinol yn dileu, fel opsiwn postio, rai gwasanaethau adwerthu swmp Dosbarth Cyntaf wedi'u didoli neu heb eu didoli - nad ydynt fel post swmp yn destun rheoleiddio - pe bai niferoedd llythyrau ar lwybrau blaenoriaeth yn dal yn rhy uchel ar ôl diwygio. Pe bai'r Post Brenhinol yn gwneud hyn, yna mae MCF ac UK Mail yn dadlau na fyddai yna gynnyrch cymharol ar gyfer gwasanaethau mynediad D+2, gan roi rhyddid llwyr i'r Post Brenhinol ynghylch prisiau i bob pwrpas.[567]

Ein hasesiad o ymatebion rhanddeiliaid

7.157 Nid ydym wedi ystyried o'r blaen a ddylid cynnwys post adwerthu swmp heb ei ddidoli yn y rheolaeth gwasgu elw ers i ni ddechrau rheoleiddio'r post yn 2012. Felly, fe wnaethom ddechrau drwy ystyried y dadansoddiad presennol o'r farchnad post swmp er mwyn deall y

---

[564] Ymateb y Fforwm Cystadleuaeth Post i Ymgynghoriad 2025, t.5; Ymateb CFH Docmail i Ymgynghoriad 2025, t.5; Ymateb The Delivery Group i Ymgynghoriad 2025, t.2; Ymateb UK Mail i Ymgynghoriad 2025, t.5. Ymateb UK Mail i Ymgynghoriad 2025, t.4; Ymateb CFH Docmail Limited i Ymgynghoriad 2025, t.4; Ymateb Citipost Mail i Ymgynghoriad 2025, t.8; Ymateb Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri i Ymgynghoriad 2025, t.5.

[566] Ymateb y Fforwm Cystadleuaeth Post i Ymgynghoriad 2025, t.5.

[567] Ymateb UK Mail i Ymgynghoriad 2025, t.5; Ymateb Mail Competition Forum i Ymgynghoriad 2025, t.5.

ddeinameg bresennol. Yn gyntaf, roeddem wedi edrych ar gyfran y Post Brenhinol o niferoedd post wedi'u didoli a heb eu didoli, ochr yn ochr â chyfran cwmnïau mynediad o niferoedd wedi'u didoli a heb eu didoli, a sut mae'r cyfrannau hyn wedi esblygu dros amser.

[✂]

7.158 O ystyried y cais gan gwmnïau mynediad i gynnwys post heb ei ddidoli yn y rheolaeth gwasgu elw ar gyfer post adwerthu swmp Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth, rydym wedi ystyried y farchnad swmp heb ei didoli yn ei chyfanrwydd. Mae ein dadansoddiad yn awgrymu bod cwmnïau mynediad yn gywir i honni mai cyfyngedig yw presenoldeb y Post Brenhinol o ran cyflenwi post swmp wedi'i ddidoli. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae cyfran y Post Brenhinol o'r farchnad post wedi'i ddidoli wedi disgyn i [✂] o gyfanswm y farchnad post swmp, ac mae post mynediad wedi'i ddidoli bellach yn cynrychioli [✂] o gyfanswm y farchnad.

7.159 Mae gan y Post Brenhinol a chwmnïau mynediad gyfran gyfartal yn fras o bost heb ei ddidoli yn y farchnad post swmp. Mae'r cyfrannau hynny wedi aros yn sefydlog yn ystod y chwe blynedd ariannol diwethaf, sy'n awgrymu nad yw'r Post Brenhinol yn ennill niferoedd post heb eu didoli oddi wrth gwmnïau mynediad.

7.160 O ystyried hyn, mae data'r farchnad yn awgrymu, er gwaethaf pryderon rhanddeiliaid am strategaeth brisio'r Post Brenhinol ar gyfer post heb ei ddidoli, nad yw'n ennill llawer iawn o bost heb ei ddidoli nac yn cymryd llawer o niferoedd oddi wrth gwmnïau mynediad. Nid yw'r sefydlogrwydd yng nghyfrannau'r farchnad yn cefnogi'r ddadl bod prisiau'r Post Brenhinol yn cael effaith eithriol oherwydd, hyd yn oed os yw maint yr elw'n gul, neu'n gulach nag ar gyfer post wedi'i ddidoli, mae'n ymddangos bod cwmnïau mynediad yn cystadlu'n effeithiol.

7.161 Nodwn hefyd fod y rheolaeth gwasgu elw bresennol yn cynnwys prawf basged a phrofion contract, fel yr eglurir yn 7.66. Yn syml, rydym yn mynnu bod gan y fasged o Wasanaethau Adwerthu Perthnasol y Post Brenhinol ar gyfer y cynhyrchion mynediad hynny gyfanswm refeniw ymhellach i fyny'r gadwyn sy'n fwy na neu'n hafal i gyfanswm y costau ymhellach i fyny'r gadwyn y mae'r Post Brenhinol yn eu hwynebu mewn perthynas â'r fasged honno o Wasanaethau Adwerthu Perthnasol. Fel rhan o'r prawf contract, rydym hefyd yn mynnu, ym mhob contract newydd gyda chwsmer, bod gan gynigion Gwasanaeth Adwerthu Perthnasol y Post Brenhinol gyfanswm refeniw i fyny'r gadwyn sy'n fwy na neu'n hafal i 50% o gyfanswm y costau i fyny'r gadwyn y mae'r Post Brenhinol yn eu hwynebu mewn perthynas â'r gwasanaethau hynny (mae'r costau i fyny'r gadwyn hyn yn amcangyfrif o'r costau cynyddrannol i fyny'r gadwyn). Bwriad y prawf gwasgu elw yn ei gyfanrwydd yw sicrhau bod y gwahaniaeth rhwng prisiau mynediad y Post Brenhinol a'r prisiau adwerthu cyfatebol yn gyson ag egwyddorion sy'n caniatáu cystadleuaeth effeithlon, ac felly'n atal gwasgfa elw rhag digwydd.

7.162 Yn y dyfodol, bydd y prawf basged yn cynnwys asesiad o'r Gwasanaethau Adwerthu Perthnasol ar gyfer gwasanaethau mynediad D+2, D+3 a D+5 mewn un fasged. Felly, mae'r prawf basged yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i'r Post Brenhinol o ran prisiau, gan ei fod yn cyfuno'r Gwasanaethau Adwerthu Perthnasol ar gyfer yr holl wasanaethau mynediad sy'n cael eu rheoleiddio mewn un fasged. Mae hyn yn golygu bod gan y Post Brenhinol ryddid

prisio ar wasanaethau unigol, ar yr amod bod y gwasanaethau hynny, gyda'i gilydd, yn pasio'r prawf basged.[568]

7.163 Rydym yn poeni y byddai cynnwys post adwerthu Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth heb ei ddidoli yn y fasged sengl yn achosi iddo ehangu'n sylweddol. Byddai hynny'n cynyddu'r posibilrwydd o draws-gymhorthdal, lle gallai'r Post Brenhinol wireddu colledion ymhellach i fyny'r gadwyn ar gynhyrchion cystadleuol er mwyn ennill niferoedd a gwrthbwyso'r effaith ar y fasged drwy brisiau uwch ar gynnyrch lle gallai pwysau cystadleuol fod yn llai dwys. Er ein bod yn disgwyl i brofion contract barhau i roi llawer iawn o sicrwydd ynghylch atal gwasgu elw, rydym o'r farn y gallai cynnwys post heb ei ddidoli yn y prawf basged ddarparu gormod o hyblygrwydd ac arwain at lai o ddiogelwch mewn perthynas â'r cynhyrchion hynny sydd eisoes wedi'u cwmpasu ganddo.

7.164 Gwyddom hefyd fod proffil post heb ei ddidoli'n bwysig. Gall rhywfaint o bost swmp heb ei ddidoli fod yn rhanbarthol ei natur a chael ei ddosbarthu mewn ardal sydd wedi'i diffinio'n ddaearyddol. Oherwydd maint rhwydwaith cenedlaethol y Post Brenhinol, mae hyn yn golygu, mewn amgylchiadau o'r fath, y gall costau casglu a dosbarthu is ar gyfer traffig heb ei ddidoli wrthbwyso unrhyw arbedion cost o ddidoli'r post ymlaen llaw. Nid yw'n glir i ni y byddai'n economaidd hyfyw i gystadleuwyr brosesu'r post rhanbarthol hwn.

Ein penderfyniad

7.165 Ar sail y dystiolaeth, rydym o'r farn bod yna gystadleuaeth effeithiol o ran darparu post swmp heb ei ddidoli. Mae cyfrannau sefydlog y farchnad o bost heb ei ddidoli rhwng cwmnïau mynediad a'r Post Brenhinol dros amser yn awgrymu nad yw'r Post Brenhinol yn gwasgu elw gydag effaith o ennill cwsmeriaid oddi wrth gwmnïau mynediad. Beth bynnag, rydym yn poeni y byddai ychwanegu mathau o bost heb eu didoli at y rheolaeth gwasgu elw yn ehangu'r fasged ac yn cynyddu'r siawns y byddai'r Post Brenhinol yn croes-gymorthdalu.

7.166 Gan ystyried yr uchod i gyd, rydym wedi penderfynu peidio ag ychwanegu mathau o bost heb eu didoli at y rheolaeth gwasgu elw. Yng ngham 2 ein gwaith, byddwn yn ailedrych ar ai dyma'r dull cywir o ymdrin â phrisio mynediad, wrth i ni ystyried fforddiadwyedd yn fwy cyffredinol.

Rhoi'r drefn gwasgu elw newydd ar waith

7.167 Yn ein Hymgynghoriad, roeddem yn cynnig bod ein rheoliadau'n dod i rym yn syth ar ôl ein penderfyniad terfynol. Fodd bynnag, rydym yn nodi bod y ddogfen hon wedi cael ei chyhoeddi ganol mis Gorffennaf, ran o'r ffordd drwy Ch2 blwyddyn ariannol 2025/26.

7.168 Fel y nodwyd yn 7.62, at ddibenion asesu cydymffurfiad â'r profion gwasgu elw, mae'r Post Brenhinol yn cyflwyno rhagolygon refeniw a chostau i Ofcom, gan fod Amod 6 USPA yn mynnu bod gan y Post Brenhinol ddisgwyliad rhesymol ei fod yn pasio'r profion yn y flwyddyn ariannol honno. Felly, cawsom ragolygon gwasgu elw'r Post Brenhinol ar gyfer blwyddyn ariannol bresennol 2025/26 cyn dechrau'r flwyddyn ariannol, ar sail y rheolaeth gwasgu elw bresennol.

[568]Rydym yn nodi bod y Post Brenhinol hefyd yn cael ei gyfyngu gan y 'Prawf Contract' ar gyfer cynhyrchion adwerthu perthnasol, sy'n mynnu bod refeniw i fyny'r gadwyn o bob contract unigol yn fwy na neu'n hafal i 50% o FAC y cynhyrchion adwerthu hynny.

7.169 Yn ogystal â'r rhagolygon hyn, mae'r Post Brenhinol hefyd yn darparu alldro chwarterol gwirioneddol ei ganlyniadau gwasgu elw, ac rydym wedyn yn cymharu hynny â'r rhagolygon. Mae'n cyflwyno'r wybodaeth hon ar ddiwedd y chwarter dilynol, er enghraifft mae'n cyflwyno gwybodaeth ar gyfer Ch1 ar ddiwedd Ch2.

7.170 Mae hyn yn golygu, ar ôl cyflwyno ein diwygiadau, na fydd y rhagolygon a ddarparwyd gan y Post Brenhinol ar gyfer y flwyddyn ariannol hon yn berthnasol mwyach. Ar ben hynny, byddai'n rhaid i'r Post Brenhinol gyflwyno data ar gyfer Ch2 2025/26 ar ddiwedd Ch3 2025/2026, ond bydd ein penderfyniad i addasu'r rheolaeth gwasgu elw wedi dod i rym yn ystod y chwarter hwn. O'r herwydd, rydym yn cynnig ateb interim i'n gwaith o fonitro cydymffurfiad y Post Brenhinol â'r rheolaeth gwasgu elw tan ddechrau blwyddyn ariannol 2026/27, pan fyddwn yn dychwelyd i'r fformat arferol, ar sail y rheolaeth newydd. Yn y cyfamser, byddwn yn:

a) Eithrio'r Post Brenhinol rhag darparu alldro o'i berfformiad gwasgu elw Ch2 2025/26. Y rheswm am hyn yw y bydd y perfformiad yn cael ei ystumio gan y ffaith ei fod yn cwmpasu'r hen drefn gwasgu elw a'r un newydd. Mewn amgylchiadau o'r fath, rydym o'r farn na fydd llawer o werth i'r wybodaeth.

b) Fodd bynnag, ar ddiwedd Ch2 2025/26, sef diwedd mis Medi, rydym yn disgwyl i'r Post Brenhinol ddarparu rhagolygon i Ofcom ar gyfer ei gydymffurfiad â'r rheolaeth gwasgu elw ar gyfer Ch3 a Ch4 2025/26, ar gyfer y prawf basged a chontract.

c) Rydym yn disgwyl cael alldro Ch3 ar ddiwedd Ch4, ac alldro Ch4 ar ddiwedd Ch1 2026/27.

7.171 Rydym o'r farn bod y dull hwn yn cydbwyso'r angen i fonitro gwasgfa elw yn erbyn cymhlethdod asesu cydymffurfiad â'r rheolaeth am gyfnod pan newidiodd y Gwasanaethau Adwerthu Perthnasol i wasanaethau gyda phroffiliau cost a refeniw gwahanol. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, bydd y Post Brenhinol yn ddarostyngedig i'r rheolaeth gwasgu elw newydd o'r dyddiad y daw ein haddasiadau i'r Amod USPA i rym.

Newid sut mae gwasanaethau mynediad yn cael eu diffinio

Cynigion ein Ymgynghoriad

7.172 Awgrymodd MCF fod y ffordd rydym yn diffinio gwasanaethau mynediad yn ddryslyd oherwydd bod ein diffiniadau'n cyfeirio at amseroedd danfon sy'n cael eu cyfrif o'r diwrnod y cafodd post ei gasglu gan y cwmni mynediad, nid y diwrnod y cafodd ei drosglwyddo i'r Post Brenhinol.[569] Gwnaethom egluro yn ein Hymgynghoriad, yn unol â Thabl 7.1, bod 'D' h.y. y diwrnod mae'r cwmni mynediad yn casglu post gan yr anfonwr, yn lluniad rheoleiddio oherwydd nid yw D bob amser yn digwydd un diwrnod cyn i gwmni mynediad anfon post i'r Post Brenhinol yn yr IMC.

7.173 Ein safbwynt ni oedd y dylai'r diffiniadau wahaniaethu'n well rhwng y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan y cwmni mynediad i'w gwsmeriaid a rhwymedigaethau danfon y Post Brenhinol. Roeddem yn cynnig diwygio'r Amod USPA i'w gwneud yn glir bod gwasanaethau mynediad D+2 a D+5 yn cynnwys y ddau nod danfon o'r pwynt casglu a'r targedau danfon o'r adeg trosglwyddo i'r Post Brenhinol. Nod hyn oedd cydnabod y gwahaniaeth rhwng y

[569]MCF, 10 Gorffennaf 2024. Cyflwyniad i Ofcom am y newidiadau i USO/mynediad sy'n cael eu trafod.

gwasanaeth y mae cwmni mynediad yn cael mynediad ato, yr amser danfon targed ar ei gyfer sy'n cael ei fesur o'r diwrnod y mae'r cwmni mynediad yn casglu post gan ei gwsmer, a'r rhwymedigaeth danfon ar y Post Brenhinol, lle mae'r amser llwybro targed yn cael ei gyfrifo o'r diwrnod y mae'r cwmni mynediad yn trosglwyddo post yn yr IMC. Fe wnaethom egluro y byddai hyn yn rhoi mwy o eglurder drwy nodi mewn un lle yn yr Amod USPA beth y gallai cwsmeriaid mynediad a'u defnyddwyr ei ddisgwyl. Roeddem hefyd yn cynnig y dylai adroddiadau'r Post Brenhinol ar berfformiad danfon barhau i fod yn seiliedig ar nifer y diwrnodau ar ôl trosglwyddo, gan helpu cwsmeriaid i ddeall pryd mae post yn debygol o gael ei ddanfon.

7.174 Roeddem yn cynnig y byddai hyn hefyd yn berthnasol i wasanaethau mynediad D+3 ar ôl diwygio ac mewn perthynas ag adrodd ar ansawdd gwasanaeth, yn unol â'n penderfyniad yn 7.61-7.62.

Ymatebion rhanddeiliaid

7.175 Roedd MCF yn cytuno â'n cynigion i newid sut rydym yn diffinio gwasanaethau mynediad.[570] Roedd y Gymdeithas Data a Marchnata, y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol a [✂] i gyd yn cefnogi'r cynnig, gan nodi rhesymau fel helpu cynllunio gweithredol, dealltwriaeth o'r cyflymderau danfon sydd ar gael a sicrhau bod y farchnad yn agored.[571]

Ein penderfyniad

7.176 O ystyried y cytundeb ynghylch y cynigion a wnaethom yn yr Ymgynghoriad, rydym wedi penderfynu cadarnhau ein cynnig a diwygio sut mae gwasanaethau mynediad yn cael eu diffinio yn yr Amod USPA i wahaniaethu'n gliriach rhwng y gwasanaeth y rhoddir mynediad i gwmni mynediad iddo, a'r rhwymedigaeth danfon ar y Post Brenhinol. Mae'r geiriad wedi'i ddiweddaru wedi'i gadarnhau yn yr hysbysiad statudol o'n haddasiadau i'r Amod USPA yn Atodiad A8.

Ansawdd Gwasanaeth

7.177 Ar hyn o bryd mae'r fframwaith rheoleiddio yn mynd i'r afael ag ansawdd gwasanaethau mynediad drwy alluogi defnyddwyr i fonitro sut mae'r Post Brenhinol yn danfon eitemau ar ôl eu rhoi yn ei rwydwaith, i gefnogi'r trefniadau contract, gan gynnwys targedau perfformiad, rhwng cwmnïau mynediad a'r Post Brenhinol. Mae hyn yn hytrach na defnyddio rheoliadau mwy rhagnodol i osod targedau perfformiad penodol.

7.178 Felly, mae Amod 8 USPA yn ei gwneud yn ofynnol i'r Post Brenhinol gyhoeddi'r holl wybodaeth sy'n rhesymol angenrheidiol at ddibenion sicrhau tryloywder o ran ansawdd y gwasanaeth mae'n ei ddarparu mewn perthynas â mynediad D+2 a D+5; rydym nawr wedi penderfynu y bydd hyn yn berthnasol hefyd i wasanaethau mynediad D+3. Mewn perthynas â'i wasanaethau mynediad D+5, mae'n rhaid i'r Post Brenhinol hefyd adrodd yn gyhoeddus ar y gyfran o bost sy'n cael ei ddanfon ar D+2, D+3, D+4 a D+5. Mae'r Post Brenhinol yn cyflawni'r gofyniad hwn drwy gyhoeddi ei 'Adroddiad Ansawdd Gwasanaeth a Chwynion'[572] bob chwarter, yn ogystal â chyhoeddi crynodeb blynyddol ychwanegol.

---

[570] Ymateb y Fforwm Cystadleuaeth Post i Ymgynghoriad 2025, t.9.
✂ Ymateb y Gymdeithas Data a Marchnata i Ymgynghoriad 2025, tt.4-5; Ymateb y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol i Ymgynghoriad 2025, t.8; [✂].
[572] Y Post Brenhinol, Adroddiad Ansawdd Gwasanaeth a Chwynion Chwarterol. Ch4 2023/24, t.9.

7.179 Mae'r Post Brenhinol a chwmnïau mynediad hefyd wedi cytuno ar gyfres o dargedau ansawdd gwasanaeth drwy gytundeb contract. Ar hyn o bryd, mae'r rhain yn 95% ar gyfer post mynediad D+2 ac yn 97.5% ar gyfer post mynediad D+5. Mae cwmnïau mynediad a'r Post Brenhinol wedi cytuno ar lefelau ar wahân, sy'n golygu ei bod yn rhaid i'r Post Brenhinol dalu iawndal os nad ydynt yn cael eu bodloni. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae'r targedau ansawdd gwasanaeth a'r iawndal am fynediad yn annibynnol ar y targedau ansawdd gwasanaeth rydym wedi'u gosod ar gyfer gwasanaethau USO, fel sy'n cael ei drafod yn Adran 6.

Data adrodd ar ansawdd gwasanaeth mynediad

Safbwynt ein Ymgynghoriad

7.180 Rydym wedi nodi y gallai'r cynnig i ddanfon post mynediad D+3 a D+5 bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos ychwanegu mwy o ansicrwydd i gwmnïau mynediad a'u cwsmeriaid ynghylch pa bryd y bydd llythyrau'n cael eu danfon i'r gyrchfan dan sylw, ar y diwrnod y danfonir y llythyr a p'un a ydyw yn cael ei anfon yn brydlon. I ddangos hyn, rhoesom enghraifft o lythyr mynediad D+3 sydd i fod i gael ei ddanfon erbyn dydd Iau ar wythnos benodol. Amserlen danfon llwybr cerdded y cyfeiriad hwnnw yr wythnos honno yw dydd Mawrth a dydd Iau. Fodd bynnag, os nad yw'r llythyr yn cael ei ddanfon yn brydlon, yna ni fyddai'n cael ei ddanfon ddydd Gwener, gan nad yw'r cyfeiriad ar amserlen danfon ar lwybr cerdded y diwrnod hwnnw, ac ni fydd yn cael ei ddanfon ddydd Sadwrn gan nad yw hwnnw'n ddiwrnod danfon ar gyfer mynediad D+3. Mae hynny'n golygu y byddai'r llythyr yn cael ei ddanfon ar y cynharaf ar y dydd Llun canlynol, pan fydd y llwybr cerdded yn danfon nesaf i'r cyfeiriad. O dan y system bresennol, ni fyddai cwmnïau mynediad a'u cwsmeriaid yn gwybod bod y llythyr wedi cael ei ddanfon yn hwyr.

7.181 Roeddem wedi tynnu sylw at adborth a oedd yn awgrymu, er mwyn gwrthbwyso'r senario uchod, y dylem fynnu bod y Post Brenhinol yn sganio llythyrau Mailmark wrth ddanfon er mwyn helpu cwmnïau mynediad a'u cwsmeriaid i ddeall pan fydd post wedi cael ei ddanfon. Mae gan lythyrau Mailmark god bar wedi'i argraffu sy'n cynnwys mwy o wybodaeth ynghylch o le daw llythyr a lle mae'n mynd. Mae'r Post Brenhinol yn defnyddio hyn i sganio ar wahanol adegau yn ystod y gadwyn gwerth post ond nid wrth ddanfon. Awgrymwyd y byddai'r cais hwn yn rhoi mwy o sicrwydd i ddefnyddwyr ynghylch pryd mae post wedi cael ei ddanfon ac y byddai'n ddefnyddiol i rai rhannau o'r farchnad.

7.182 Fodd bynnag, ein barn yw na fyddai mynnu bod pob llythyr Mailmark yn cael ei sganio cyn ei bostio mewn pwynt cyfeiriad yn gymesur â'r buddion sydd ar gael ar hyn o bryd. Byddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r Post Brenhinol fuddsoddi'n sylweddol mewn systemau, a allai leihau unrhyw arbedion cost y byddai'r Post Brenhinol yn eu cyflawni drwy ddiwygio.

Ymatebion rhanddeiliaid

7.183 Awgrymodd MCF ein bod wedi edrych yn rhy gul ar gostau sganio cod bar Mailmark i'r Post Brenhinol, gan ddadlau bod y Post Brenhinol yn gallu darparu gwybodaeth ragfynegol well ar sail y broses sganio mae'n ei defnyddio yn ei Ganolfannau Post am i Mewn.[573] Nododd Citipost y byddai'n gymharol rad i'r Post Brenhinol sganio sampl fach iawn o lythyrau ar bob

[573] Ymateb y Fforwm Cystadleuaeth Post i Ymgynghoriad 2025, t.8.

llwybr cerdded i ddarparu data bod y llwybr cerdded dan sylw wedi cael ei gyflawni mewn gwirionedd.[574]

7.184 Nododd BBS fod gan y Post Brenhinol ddata dros nos ar gael ar gyfer pwyntiau danfon a fydd yn dangos pryd y bydd cyfeiriad penodol yn disgwyl danfoniad D+3, neu pryd nad yw'n cael ei ddanfon a phryd y bydd yn cael ei ddanfon â fan gyda phost Dosbarth Cyntaf a D+2. Awgrymodd y byddai darparu'r wybodaeth hon mewn fformat data agored yn caniatáu i ddefnyddwyr wneud y gorau o sut maen nhw'n bwydo post i'r system.[575]

Ein penderfyniad

7.185 Gallai rhannu data ychwanegol gymryd amser a mynnu buddsoddiad ar ran y Post Brenhinol. Yn ein trafodaethau blaenorol â'r Post Brenhinol, awgrymodd y byddai ymestyn adroddiadau Mailmark y tu hwnt i'w fanyleb bresennol yn anghymesur. Er enghraifft, dywedodd y byddai sganio wrth ddanfon yn cymryd amser, yn llafur-ddwys ac yn gost-ddwys.[576]

7.186 Gwnaethom nodi hefyd, ar hyn o bryd, mae gan y Post Brenhinol ddau opsiwn i gwsmeriaid sydd am ddefnyddio data i gael gwell dealltwriaeth o daith eu heitemau sy'n cael eu hanfon: opsiwn mwy dwys, sy'n llawn data o'r enw Mailmark Direct Data ac opsiwn lefel crynodeb i gwsmeriaid sydd angen defnyddio gwybodaeth Mailmark yn ysgafnach, a elwir yn adroddiadau PDF Mailmark.

a) Mae Mailmark Direct Data yn rhoi mynediad i gwsmeriaid sy'n postio eu post Mailmark ar lefel eitem. Nid yw'r data'n ddata 'amser real', ac mae'r statws danfon yn seiliedig ar sganiau didoli cyn i'r post gyrraedd y swyddfa danfon.

b) Mae adroddiadau PDF Mailmark yn rhoi crynodeb data o eManifest[577] drwy ddarlun gweledol o sganio data. Mae'r wybodaeth ar gael drwy wefan y Post Brenhinol. Mae'r adroddiadau'n rhoi trosolwg cyflym o gyfanswm niferoedd eManifest a sut mae post yn perfformio o ran y prosesu a'r danfon a ragwelir.[578]

7.187 Er mwyn osgoi'r senario a ddisgrifir yn 7.180, nodwn [✂].

7.188 Er y gallai gwybodaeth well am ddanfon fod o ddefnydd i gwmnïau mynediad a defnyddwyr post mawr er mwyn cynllunio eu gweithrediadau'n well, rydym o'r farn y byddai mynnu bod y Post Brenhinol yn ehangu ei adroddiadau Mailmark neu'r data ymlaen llaw y mae'n ei ddarparu ar ddanfon i gyfeiriadau drwy reoleiddio yn anghymesur.

7.189 Mae'r Post Brenhinol eisoes yn cynnig atebion data ar sail fasnachol, ac mae'n dal yn agored i gwmnïau mynediad a'r Post Brenhinol gytuno ar ragor o welliannau lle mae gwerth masnachol i wneud hynny. Byddai gorfodi rhannu data ychwanegol yn galw am uwchraddio

---

[574] Ymateb Citipost i Ymgynghoriad 2025, t.3.
[575] Ymateb BBS i Ymgynghoriad 2025, tt.3-4.
[576] Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 5 Rhagfyr 2024.
[577] Mae eManifest yn cyfeirio at y maniffest electronig sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl am swp o eitemau post sy'n cael eu hanfon drwy wasanaeth Mailmark y Post Brenhinol. Mae'n cysylltu codau bar Mailmark ar eitemau unigol o bost â manylion postio penodol fel gwybodaeth am yr anfonwr, math o bost, a niferoedd.
[578] Y Post Brenhinol, 20 Mehefin 2024. Cyflwyniad i Ofcom, tt.5-15.

systemau, sy'n gostus, tanseilio arbedion effeithlonrwydd posibl yn sgil diwygio, a chreu risg o or-reoleiddio maes lle mae trefniadau masnachol eisoes wedi sicrhau gwelliannau. Felly, credwn ei bod yn fwy priodol i unrhyw ddatblygiadau pellach mewn gwybodaeth danfon barhau i gael eu negodi'n fasnachol rhwng y Post Brenhinol a'i gwsmeriaid.

Gorfodaeth ac iawndal ansawdd gwasanaeth

Safbwynt ein Ymgynghoriad

7.190 Yn ein Hymgynghoriad, roeddem wedi ystyried a ddylem gynyddu'r gofynion rheoleiddio ar y Post Brenhinol o ran ansawdd gwasanaeth mynediad. Fodd bynnag, roedd ein dadansoddiad o ddata perfformiad diweddar yn dangos bod post mynediad, gan gynnwys gwasanaethau D+2 a D+5, at ei gilydd wedi cyflawni perfformiad danfon uwch neu debyg na phost USO Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth cyfatebol. Roedd hyn yn dangos nad oedd unrhyw dystiolaeth bod y Post Brenhinol yn blaenoriaethu post USO ar draul post mynediad, hyd yn oed yn ystod cyfnodau prysur. Daethom i'r casgliad felly nad oedd gosod targedau ansawdd gwasanaeth ychwanegol yn benodol ar gyfer post mynediad yn debygol o arwain at welliannau ystyrlon na newid cymhellion gweithredol y Post Brenhinol, o ystyried bod y ddau fath o bost yn cael eu prosesu drwy'r un rhwydwaith.

7.191 Yng ngoleuni hyn, ni welsom unrhyw achos clir dros reoleiddio ansawdd gwasanaeth mynediad ymhellach. Fe wnaethom nodi bod trefniadau iawndal ac ansawdd mynediad eisoes yn cael eu negodi'n fasnachol rhwng y Post Brenhinol a chwmnïau mynediad, yn amodol ar y gofynion rheoleiddio presennol ar gyfer telerau teg a rhesymol. Roeddem hefyd wedi tynnu sylw at y ffaith bod cwmnïau'n cadw'r hawl i fynegi pryderon gydag Ofcom neu i gyflwyno anghydfod mynediad ffurfiol os ydynt yn credu bod y Post Brenhinol wedi torri'r rhwymedigaethau hyn.

Ymatebion rhanddeiliaid

7.192 Awgrymodd MCF fod y pŵer negodi anghyfartal rhwng cwmnïau mynediad a'r Post Brenhinol yn rhwystr rhag sicrhau rhagor o gytundeb masnachol ar ansawdd gwasanaeth mynediad. Gofynnodd i Ofcom fynegi barn bod y Post Brenhinol yn mynd ymhellach ynghylch ansawdd gwasanaeth mynediad.[579] Awgrymodd Whistl fod angen i ni fod yn dal y Post Brenhinol i gyfrif yn fwy manwl ac yn fwy rheolaidd am fethiannau ansawdd gwasanaeth.[580] Cytunodd The Delivery Group a Citipost y dylem fod yn gorfodi'n fwy rheolaidd yn erbyn methiannau ansawdd gwasanaeth.[581]

Ein penderfyniad

7.193 Nid ydym yn credu bod digon o dystiolaeth newydd wedi cael ei darparu i newid ein safbwynt ar reoleiddio ansawdd gwasanaeth ymhellach. Byddem yn poeni pe bai'n ymddangos bod y Post Brenhinol yn camddefnyddio ei sefyllfa fonopoli, gan gyfyngu ar ansawdd i gwmnïau mynediad ar yr un pryd â chynnal ansawdd yn ei wasanaethau o un pen i'r llall, ond nid yw'n ymddangos bod hyn yn wir. Yn hytrach, mae'n ymddangos bod rhwystredigaethau cwmnïau mynediad ynghylch ansawdd gwasanaeth y Post Brenhinol yn deillio o ansawdd gwasanaeth gwael y Post Brenhinol yn gyffredinol. Ein hasesiad felly yw

[579] Ymateb y Fforwm Cystadleuaeth Post i Ymgynghoriad 2025, t.8.
[580] Ymateb Whistl i Ymgynghoriad 2025, t.2.
[581] Ymateb The Delivery Group i Ymgynghoriad 2025, tt.1-2; Ymateb Citipost Mail i Ymgynghoriad 2025, tt.3-4.

bod angen i'r Post Brenhinol sicrhau lefelau uwch o ansawdd gwasanaeth ar draws ei weithrediadau danfon llythyrau yn gyffredinol, ac nid yw rheoleiddio ychwanegol wedi'i dargedu ar ansawdd gwasanaeth mynediad yn debygol o gyfrannu at hynny. Rydym o'r farn y dylai diwygio alluogi arbedion cost sylweddol, a ddylai roi'r Post Brenhinol mewn sefyllfa well i wella ei berfformiad cyffredinol o ran ansawdd gwasanaeth yn gyffredinol, yn hytrach na dim ond ar gyfer mynediad.

7.194 Ar ben hynny, rydym yn nodi bod y trefniadau presennol ar gyfer ansawdd gwasanaeth mynediad yn cynnwys cytundebau masnachol sy'n mynd y tu hwnt i reoleiddio, fel adroddiadau misol ar lefelau ansawdd gwasanaeth ac iawndal sy'n cael ei dalu bob chwarter. Gellir cyferbynnu'r trefniadau hyn â'r broses ar gyfer gorfodi ansawdd gwasanaeth USO, sy'n cael ei wneud yn flynyddol.

7.195 Rydym o'r farn bod y trefniant masnachol presennol sydd gan gwmnïau mynediad gyda'r Post Brenhinol yn nes at y math o drefn orfodi ac iawndal y mae cwmnïau mynediad yn gofyn amdani. Mae hyn yn wir o'i gyferbynnu â'r mecanweithiau presennol ar gyfer gorfodi ansawdd gwasanaeth USO. O'r herwydd, rydym wedi penderfynu cadarnhau safbwynt ein ymgynghoriad ac ni fyddwn yn cyflwyno rhagor o reoleiddio ar ansawdd gwasanaeth mynediad.

7.196 Rydym yn nodi galwadau i graffu ar ansawdd gwasanaeth y Post Brenhinol yn rheolaidd. Rydym eisoes yn cyflawni'r dasg hon yn ein cyfarfodydd misol â'r Post Brenhinol ac mae angen tryloywder o ran ansawdd gwasanaeth.[582] O'r herwydd, er mai dim ond yn flynyddol y byddwn yn gorfodi ynghylch methiannau ansawdd gwasanaeth, byddwn yn trafod pryderon yn rheolaidd.

Post mynediad hwyr

Safbwynt ein Ymgynghoriad

7.197 O ran ansawdd gwasanaeth USO, roeddem yn cynnig cyflwyno targedau post hwyr newydd i adlewyrchu'r ffaith bod defnyddwyr post yn gwerthfawrogi dibynadwyedd dros gyflymder danfon, ac i ddarparu cymhellion ar gyfer danfon eitemau sydd wedi methu eu dyddiad danfon yn gyflym. Ar gyfer post Dosbarth Cyntaf, roeddem yn cynnig y byddai'n rhaid danfon 99.5% o fewn tri diwrnod i bostio. Ar gyfer post Ail Ddosbarth, roeddem yn cynnig y byddai'n rhaid danfon 99.5% o fewn pum niwrnod i bostio.

7.198 Fel y nodir uchod, nid ydym yn rheoleiddio targedau ansawdd gwasanaeth ar gyfer mynediad. Felly, yn ein Hymgynghoriad, nid oeddem yn cynnig y byddai rheoleiddio'n ei gwneud yn ofynnol i'r Post Brenhinol ddefnyddio targedau post hwyr ar gyfer llythyrau mynediad ac ni wnaethom unrhyw sylw ar y mater hwn.

Ymatebion rhanddeiliaid

7.199 Roedd MCF yn cytuno â'r cynnig ar gyfer targedau post hwyr a gofynnodd iddynt gael eu hefelychu ar gyfer mynediad D+2 a D+3 a'u hystyried mewn trefniadau iawndal. Os nad ydym yn bwriadu rheoleiddio ar y sail hon, gofynnodd MCF i ni fynegi barn.[583]

---

[582] USPA 8.

[583] Ymateb y Fforwm Cystadleuaeth Post i Ymgynghoriad 2025, tt.8-9.

7.200 Roedd Whistl, UK Mail a The Delivery Group i gyd yn cytuno'n benodol y dylai targedau post hwyr fod yn berthnasol i bost mynediad, gan nodi bod y rhan fwyaf o'r holl bost yn cael ei anfon drwy gwmnïau mynediad ac yn cwmpasu llawer o'r post y mae pobl yn dibynnu arno fwyaf. Byddai ymestyn post hwyr i fynediad yn cydnabod yr angen am ddibynadwyedd o ran USO a phost mynediad.[584]

Ein penderfyniad

7.201 Nodwn fod y Post Brenhinol i fod i ddechrau trafodaethau gyda chwmnïau mynediad am y drefn ansawdd gwasanaeth mynediad yn y dyfodol.[585] Gwyddom fod cwmnïau mynediad yn bwriadu gofyn i dargedau post hwyr gael eu hefelychu yn y Contract Llythyrau Mynediad. Mewn amgylchiadau o'r fath, ac o ystyried yr egwyddor mai dim ond pan fo angen y dylem ymyrryd, mae'n well i'r Post Brenhinol a chwmnïau mynediad geisio dod i gytundeb masnachol ar dargedau post hwyr yn hytrach na bod Ofcom yn gosod rheoliadau ychwanegol.

7.202 Felly, rydym wedi penderfynu na fyddwn yn rheoleiddio targedau post hwyr ar gyfer mynediad, ond byddwn yn monitro trafodaethau'r diwydiant ar y mater hwn yn ogystal â lefelau ansawdd gwasanaeth mynediad yn y dyfodol ar ôl diwygio.

Gwahardd y Post Brenhinol rhag defnyddio gwybodaeth a gafwyd drwy roi mynediad i'w rwydwaith post

Safbwynt ein Ymgynghoriad

7.203 Fe wnaethom nodi bod Amod 5.3 USPA yn mynnu bod y Post Brenhinol yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau nad yw gwybodaeth a geir drwy ddarparu mynediad yn cael ei datgelu i unrhyw un o'i fusnesau masnachu neu unigolion cysylltiedig, nac yn cael ei defnyddio ganddynt, gydag esemptiadau penodol wedi'u nodi yn Amod 5.4 USPA. Bwriad y darpariaethau hyn yw atal y Post Brenhinol rhag cael mantais gystadleuol ar gwmnïau mynediad drwy gamddefnyddio gwybodaeth sy'n fasnachol sensitif. Yn ein Hadolygiad o Reoleiddio Gwasanaethau Post yn 2022, fe wnaethom asesu a oedd y cyfyngiadau hyn yn dal yn briodol a dod i'r casgliad y dylent barhau, gan gydnabod rôl ddeuol y Post Brenhinol fel cyfanwerthwr a chystadleuydd yn y farchnad.[586]

7.204 Roeddem yn cydnabod pryderon diweddar a godwyd yn dilyn yr anghydfod rhwng Whistl a'r Post Brenhinol,[587] gan gynnwys awgrymiadau gan MCF y gallai llacio'r rheolau hyn gefnogi ceisiadau newydd am wasanaeth mynediad yn well a sicrhau tegwch i gwmnïau mynediad. Fodd bynnag, roeddem o'r farn bod rhesymau cryf o hyd dros gadw mesurau diogelu llym ar gyfer rhannu gwybodaeth er mwyn osgoi unrhyw fantais fasnachol annheg i'r Post Brenhinol. Nid cynnig newidiadau i USPA 5 oedd ein safbwynt, ond roeddem wedi ymrwymo i barhau i adolygu'r mater ac ystyried ymyrryd os oedd tystiolaeth yn y dyfodol yn dangos bod angen diwygio.

---

[584] Ymateb Whistl i Ymgynghoriad 2025, t.2; Ymateb UK Mail iYmgynghoriad 20205, t.4; Ymateb The Delivery Group i Ymgynghoriad 2025, t.1.

[585] Fforwm Cystadleuaeth Post. 30 Ebrill 2025. Llythyr at y Post Brenhinol.

[586] Ofcom, 2022. Atodiad 6 - Rheoleiddio Mynediad - tystiolaeth ategol tudalennau 11-12

[587] Ofcom, 2023. Anghydfod rhwng Whistl a'r Post Brenhinol.

Ymatebion rhanddeiliaid

7.205 Unwaith eto, gofynnodd MCF, Citipost a The Delivery Group i Ofcom ailystyried y sefyllfa hon. Mae Citipost o'r farn bod darpariaethau i wahardd y Post Brenhinol rhag defnyddio data a geir drwy ddarparu mynediad bellach yn llesteirio arloesedd a chystadleuaeth. Roedd MCF a The Delivery Group yn cytuno â'r pwynt hwn, gan ddadlau bod USPA 5.3 wedi cael ei ddrafftio ar adeg pan oedd cystadleuaeth mynediad yn egino. Gan mai post mynediad yw'r rhan fwyaf o'r holl bost erbyn hyn, roedd yr ymatebwyr yn dadlau bod y rheoliad hwn yn ddiangen. Dywedasant fod angen datblygu cynnyrch mynediad newydd ar gyfer y farchnad a gall y Post Brenhinol atal hyn drwy gyfeirio at reoliadau rhannu gwybodaeth i gynyddu costau datblygu gwasanaethau newydd.[588]

Ein penderfyniad

7.206 Fe wnaethom ystyried sylwadau pellach gan MCF, Citipost, a The Delivery Group, a oedd yn dadlau bod y cyfyngiadau presennol ar ddefnydd y Post Brenhinol o ddata sy'n ymwneud â mynediad bellach yn rhy gyfyngol, gan lesteirio arloesedd a chystadleuaeth mewn marchnad fwy aeddfed lle mai post mynediad sy'n cynrychioli'r rhan fwyaf o'r niferoedd.

7.207 Ar ôl adolygu'r safbwyntiau hyn, ein penderfyniad yw cynnal y mesurau diogelu presennol ar gyfer rhannu gwybodaeth o dan Amod 5 USPA. Rydym yn parhau i gredu bod y rheolau hyn yn chwarae rhan bwysig o ran atal y Post Brenhinol, fel cyfanwerthwr a chystadleuydd, rhag defnyddio gwybodaeth sy'n fasnachol sensitif er mantais iddo, sy'n dal yn risg sylweddol o ystyried ei safle yn y farchnad. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan randdeiliaid a byddwn yn parhau i adolygu'r maes hwn yn fanwl, gan barhau i fod yn agored i ailedrych ar ein dull gweithredu os daw tystiolaeth i'r amlwg bod y drefn bresennol yn llesteirio datblygu gwasanaethau mynediad newydd yn sylweddol neu'n ystumio cystadleuaeth.

Telerau teg a rhesymol

Safbwynt ein Ymgynghoriad

7.208 Fe wnaethom nodi bod Amod 3 USPA ar hyn o bryd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Post Brenhinol ddarparu gwasanaethau mynediad D+2 a D+5 ar delerau, amodau a ffioedd teg a rhesymol, ac fe wnaethom gynnig ymestyn y gofyniad hwn i gynnwys y gwasanaethau mynediad D+3 arfaethedig. Roedd MCF wedi galw am ddiffiniad mwy penodol a gorfodadwy o delerau, amodau a thaliadau "teg a rhesymol".

7.209 Fe wnaethom egluro, er nad yw ein fframwaith rheoleiddio yn diffinio'n benodol beth sy'n cael ei ystyried yn deg ac yn rhesymol, mae'n sefydlu safonau sylfaenol o ran danfon, tryloywder a phrisiau, sy'n cefnogi trafodaethau masnachol rhwng y Post Brenhinol a chwmnïau mynediad. Roeddem wedi ailddatgan ein safbwynt hirsefydlog bod dull rhagnodol yn ddiangen ac y gallai fynd yn hen ffasiwn yn gyflym. Mae'n dal yn well gennym i'r telerau hyn gael eu negodi'n fasnachol, gydag Ofcom ar gael i ddatrys anghydfodau wrth iddynt godi. O ystyried effeithiolrwydd y dull presennol o gefnogi cystadleuaeth, fe

---

Ymateb UK Mail i Ymgynghoriad 2025, t.9; Ymateb The Delivery Group i Ymgynghoriad 2025, tt.3-4; Ymateb Citipost i Ymgynghoriad 2025, t.5.

wnaethom ddweud nad oeddem yn gweld sail dros ailedrych ar y ddarpariaeth hon na'i rhagnodi ymhellach ar hyn o bryd.

Ymatebion rhanddeiliaid

7.210 Gofynnodd MCF, Citipost a The Delivery Group i ni adolygu'r ddarpariaeth reoleiddio hon eto. Nododd Citipost fod y diffyg diffiniad o'r hyn sy'n deg neu'n rhesymol, ochr yn ochr â'r broses gwyno hir, yn gwneud y ddarpariaeth yn anymarferol. Roedd MCF a The Delivery Group o'r farn nad yw ein dull gweithredu nad yw'n rhagnodol yn cydnabod yn ddigonol yr anghydbwysedd o ran pŵer negodi rhwng cwmnïau mynediad a'r Post Brenhinol. Mae'r naill a'r llall hefyd yn dadlau bod cyflwyno achosion i Ofcom yn aml yn anymarferol gan fod gwneud cwyn neu gyflwyno anghydfod i Ofcom yn brosesau sy'n golygu llawer o gost ac amser.[589]

Ein penderfyniad

7.211 Ar ôl ystyried sylwadau rhanddeiliaid yn ofalus, ein penderfyniad yw cadw at y dull gweithredu presennol. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau mynediad gael eu darparu yn unol â thelerau, amodau a thaliadau teg a rhesymol, ond nid yw'n rhagnodi diffiniadau penodol o ystyr hyn. Rydym yn dal o'r farn mai'r dull hwn, sy'n seiliedig ar safonau rheoleiddio sylfaenol a'r Contract Llythyrau Mynediad, yw'r ffordd fwyaf effeithiol o hyd o gefnogi hyblygrwydd a chystadleuaeth yn y farchnad. Rydym yn cydnabod y pryderon a fynegwyd ynghylch anghydbwysedd o ran prosesau a phŵer, ond nid ydym wedi ein hargyhoeddi y byddai trefn fwy rhagnodol yn gwasanaethu'r farchnad yn well, gan ei bod mewn perygl o fynd yn hen ffasiwn yn gyflym ac y gallai gyfyngu ar y mathau o anghydfodau y gallai gweithredwr mynediad eu cyflwyno. Rydym o'r farn bod ein prosesau presennol ar gyfer ymgysylltu â phryderon y diwydiant yn effeithiol a'n bod yn ymgysylltu'n agored â phryderon a fynegir gan gwmnïau mynediad.

Casgliad

7.212 Yn gryno, rydym wedi penderfynu gwneud y newidiadau canlynol mewn perthynas â rheoleiddio post mynediad:

a) Ei gwneud yn ofynnol i'r Post Brenhinol ddarparu gwasanaethau mynediad D+3 sy'n danfon yn ystod yr wythnos, ar gyfer Llythyrau a Llythyrau Mawr. Byddwn yn diwygio'r rheolaeth gwasgu elw fel mai cynnyrch post adwerthu swmp Ail Ddosbarth y Post Brenhinol yw'r Gwasanaethau Adwerthu Perthnasol. Byddwn yn mynnu bod y Post Brenhinol yn rhannu gwybodaeth am ansawdd gwasanaeth bob chwarter ynghylch danfon post D+3;
b) Newid manyleb danfon gwasanaethau mynediad D+5 i roi'r gorau i ddanfon ar ddydd Sadwrn, sy'n golygu mai dim ond yn ystod yr wythnos y bydd D+5 yn cael ei ddanfon;
c) Diwygio'r rheolaeth gwasgu elw ar gyfer gwasanaethau mynediad D+2, a fydd nawr yn cynnwys post adwerthu swmp Dosbarth Cyntaf y Post Brenhinol fel y Gwasanaethau Adwerthu Perthnasol. Byddwn ni'n parhau i adolygu hyn, a'r gwaith ehangach o reoleiddio mynediad D+2; a

Ymateb UK Mail i Ymgynghoriad 2025, tt.9-19; Ymateb The Delivery Group i Ymgynghoriad 2025, tt.3-4; Ymateb Citipost i Ymgynghoriad 2025, t.5.

d) Chynyddu tryloywder y rheolaeth gwasgu elw a nodi sut bydd y rheolaeth yn gweithredu am weddill y flwyddyn ariannol hon, o ystyried y bydd y drefn gwasgu elw yn newid ran o'r ffordd drwy Ch2 2025/26.

e) Rydym hefyd wedi penderfynu gwneud newidiadau i'r ffordd rydym yn diffinio gwasanaethau mynediad.

7.213 Nid yw post swmp yn rhan o fanyleb yr USO, ond mae llythyrau sy'n cael eu danfon drwy wasanaethau post swmp yn bwysig i ddefnyddwyr, i fusnesau mawr, ac i gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol. Fel y nodir uchod, gan mai post swmp yw'r rhan fwyaf o'r holl bost, mae'n rhaid i unrhyw newidiadau i'r USO gael eu hailadrodd mewn mynediad er mwyn i'r Post Brenhinol gael cyfle i wireddu arbedion cost llawn model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos.

7.214 Felly, rydym wedi penderfynu rheoleiddio gwasanaethau mynediad D+3 i'w danfon bob yn ail ddiwrnod yn yr wythnos. Rydym yn disgwyl i'r cynigion hyn roi manteision i ddefnyddwyr post mawr drwy barhau i gefnogi'r defnydd o wasanaethau post swmp yn y dyfodol, gan ehangu'r dewis i ddefnyddwyr a chynnal mesurau diogelu rheoleiddiol. Mae hyn yn bwysig oherwydd mai llythyrau post swmp yw'r rhan fwyaf o'r holl lythyrau sy'n cael eu hanfon ac mae'r farchnad mynediad yn cyfrif am gyfran sylweddol o refeniw'r Post Brenhinol, sy'n helpu i gefnogi cynaliadwyedd y gwasanaeth cyffredinol. Dylai rheoleiddio mynediad D+3 ei wneud yn opsiwn mwy deniadol i gwsmeriaid mynediad, gan gefnogi'r newid angenrheidiol mewn niferoedd o fynediad D+2 i'r gwasanaeth hwn, er mwyn galluogi'r Post Brenhinol i gyflawni'r arbedion cost a ragwelir yn sgil diwygio ar yr un pryd â sicrhau bod cwmnïau mynediad yn parhau i elwa o warchodaeth reoleiddiol. Dylai rhoi'r gorau i ddanfon ar ddydd Sadwrn o fynediad D+5 hefyd gyfrannu at y canlyniad hwn. Ein barn ni felly yw y byddai'r newidiadau arfaethedig i'r farchnad mynediad yn cefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol, ac felly ei ddarpariaeth barhaus, er budd defnyddwyr.

7.215 Rydym hefyd wedi penderfynu gwella'r broses o oruchwylio ansawdd gwasanaethau mynediad drwy fynnu bod y Post Brenhinol yn adrodd yn rheolaidd ar berfformiad gwasanaethau mynediad D+3. Yn gyffredinol, rydym yn disgwyl i'r penderfyniad hwn gymell y Post Brenhinol i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i gwmnïau mynediad.

7.216 Rydym wedi egluro y bydd rheoleiddio mynediad D+3 a'r gwaith parhaus o reoleiddio mynediad D+2 yn cefnogi cystadleuaeth effeithiol yn y farchnad post swmp ac yn tarfu llai ar gwsmeriaid yn dilyn y newid yn amserlen danfon y Post Brenhinol ar gyfer post nad yw'n flaenoriaeth. Fodd bynnag, rydyn ni wedi ymrwymo i barhau i adolygu ein gwaith o reoleiddio mynediad ar gyfer Ch2 a monitro sut mae'r farchnad yn ymateb i'r diwygiadau hyn. Dylai marchnad gystadleuol sicrhau canlyniadau gwell i ddefnyddwyr, gan gynnwys prisiau is, mwy o arloesi a datblygu gwasanaethau.

7.217 Mae dileu dydd Sadwrn o fanyleb danfon D+5 yn cyd-fynd â'r diwygiadau ehangach i symud post nad yw'n flaenoriaeth i'r model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, ac mae manteision posibl hynny wedi cael eu disgrifio'n helaeth yn y ddogfen hon.

7.218 Yn gyffredinol, rydym yn disgwyl i'n penderfyniadau ar fynediad gefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol, o ystyried mai post mynediad yw'r rhan fwyaf o lythyrau. Felly, dim ond os caiff rheoleiddio mynediad ei ddiwygio hefyd y gellir cyflawni'r arbedion cost y gellir eu gwneud drwy ddiwygio'r USO. Bydd ein penderfyniad yn cymell ansawdd drwy reoleiddio'r gofynion adrodd ar ansawdd gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau mynediad D+3 newydd, ac yn olaf bydd ein diwygiadau'n parhau i gefnogi cystadleuaeth o ran danfon post, mewn perthynas â phost blaenoriaeth a phost nad yw'n flaenoriaeth.

Newidiadau i'r Amod USPA

Safbwynt ein Ymgynghoriad

7.219 Yn ein Hymgynghoriad, fe wnaethom gynnig nifer o newidiadau i'r Amod USPA ac egluro pam ein bod o'r farn bod y profion cyfreithiol perthnasol a oedd yn caniatáu i ni osod neu addasu Amod USPA wedi'u bodloni.

7.220 Fe wnaethom gynnal asesiad dros dro o anghenion y farchnad mynediad a defnyddwyr post mawr cyn cynnig addasu'r Amod USPA.

Ymatebion rhanddeiliaid

7.221 Nododd y Post Brenhinol, yn ein newidiadau arfaethedig i'r Amod USPA, ein bod wedi ceisio symleiddio'r geiriad yn y Gwasanaethau Adwerthu Perthnasol a restrir yn USPA 6 at ddibenion y rheolaeth gwasgu elw. Yn benodol, roeddem yn cynnig diwygio'r geiriad ar gyfer Llythyrau Mawr Sort Plus RM 48 i Llythyrau Mawr 48 y Post Brenhinol. Nododd y Post Brenhinol y byddai hyn yn arwain at gynnwys gwasanaethau ychwanegol yn y rheolaeth gwasgu elw.[590]

7.222 Fel y nodwyd yn 7.22, bydd y Post Brenhinol yn lleihau'r cynnyrch y mae'n ei gynnig ar gyfer gwasanaethau mynediad D+2. Felly, mae wedi nodi na fydd gwasanaethau mynediad cymharol yn bodoli mwyach ar gyfer rhai Gwasanaethau Adwerthu Perthnasol, gan gynnwys llythyrau hysbysebu, llythyrau mawr a llythyrau cardiau pleidleisio ac y dylid eu tynnu o'r rheolaeth gwasgu elw.[591]

7.223 Ni chafwyd unrhyw adborth penodol pellach ar ein haddasiadau i'r Amod USPA mewn ymateb i'n Hymgynghoriad. Fodd bynnag, rhoddodd rhai rhanddeiliaid sylwadau am ddyddiad dechrau rheoleiddiol effeithiol ein haddasiadau. Rydym yn trafod yr ymatebion hyn yn Adran 9.

Ein penderfyniadau

7.224 Nid bwriad ein diwygiadau arfaethedig i'r Amod USPA oedd ehangu cwmpas y gwasanaethau sy'n cael eu cynnwys gan Llythyrau Mawr 48 y Post Brenhinol y tu hwnt i'r rheini sydd wedi'u didoli ymlaen llaw. O'r herwydd, byddwn yn gwneud diwygiadau i'r Amod USPA terfynol fel ei fod yn rhestru Llythyrau Mawr 48 y Post Brenhinol wedi'u didoli ymlaen llaw yn USPA 6 fel Gwasanaethau Adwerthu Perthnasol ar gyfer mynediad D+3.

7.225 Gan fod y Post Brenhinol wedi cadarnhau na fydd bellach yn cynnig gwasanaethau mynediad D+2 ar gyfer llythyrau hysbysebu, llythyrau mawr neu lythyrau cardiau pleidleisio, rydym wedi penderfynu diwygio ein haddasiadau arfaethedig i'r Amod USPA i dynnu'r Gwasanaethau Adwerthu Perthnasol canlynol o'r rheolaeth gwasgu elw D+2, gan nad oes ganddynt yr hyn sy'n cyfateb i fynediad mwyach:

a) Llythyr Hysbysebu y Post Brenhinol, Didoli Uchel,
b) Llythyr Hysbysebu y Post Brenhinol, Didoli Isel,
c) Llythyrau Cardiau Pleidleisio; a

[590] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, tt.79-80.
[591] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, tt.81-82.

d) Llythyrau Mawr 24 y Post Brenhinol.

7.226 Ar ôl egluro hynny, a gan nad oedd unrhyw adborth pellach ar ein haddasiadau penodol i'r Amod USPA, byddwn yn bwrw ymlaen i addasu'r Amod fel y cynigiwyd. Er mwyn gweithredu ein penderfyniadau, rydym wedi penderfynu gwneud yr addasiadau canlynol.

7.227 Er mwyn rheoleiddio mynediad D+3, byddwn yn gwneud y canlynol:

i) Mewnosod diffiniad newydd o "ddiwrnod yn yr wythnos", i olygu unrhyw ddiwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul nac yn ŵyl gyhoeddus;
ii) Mewnosod diffiniad newydd o "Fynediad D+3", i olygu mynediad at rwydwaith y Post Brenhinol yn yr IMC er mwyn darparu gwasanaethau manwerthu sy'n ceisio danfon Llythyrau a Llythyrau Mawr dair gwaith yr wythnos ar ôl casglu, i'w Post Brenhinol eu danfon heb fod yn hwyrach na'r ail ddiwrnod yn yr wythnos ar ôl trosglwyddo yn yr IMC. Er mwyn osgoi dechrau cyfrifo'r amseroedd llwybro ar ddydd Sadwrn, rydym yn cynnig bod y diffiniad yn datgan, os bydd llythyrau'n cael eu trosglwyddo ar ddydd Sadwrn, yna ystyrir bod y trosglwyddo wedi digwydd ar y diwrnod nesaf yn yr wythnos;
iii) Mewnosod diffiniad newydd o "Gwmni Mynediad D+3", sy'n golygu cwmni post sydd â Mynediad D+3 neu'n ceisio hynny, a diweddaru'r diffiniad o "Gwmni Mynediad" i gynnwys Cwmni Mynediad D+3;
iv) Mewnosod diffiniad newydd o "Gontract Mynediad D+3", sy'n golygu contract rhwng y Post Brenhinol a chwmni neu ddefnyddiwr post er mwyn darparu Mynediad D+3;
v) Defnyddio darpariaethau sylweddol yr Amod USPA i fynediad D+3 drwy gyfeirio at y diffiniadau uchod fel y bo'n briodol (gweler Amodau 2.1A, 2.2, 4.1, 4.1A, 4.3, 4.4, 5.1, 6.8, 7.3, 7. 4, 8.1, ac 8.1B yr USPA). Bydd yr addasiadau hyn yn golygu bod yn rhaid i'r Post Brenhinol gynnig mynediad D+3 yn amodol ar yr un rhwymedigaethau rheoleiddiol â'r rhai sy'n bodoli ar gyfer mynediad D+2 a D+5. Mae hyn yn cynnwys y rheolaeth gwasgu elw, y gwasanaethau manwerthu perthnasol a bennir yn yr addasiadau arfaethedig i Amod 6.8 USPA; a
vi) Mewnosod Amod 8.1ZA newydd USPA, a fydd yn golygu bod yn rhaid i'r Post Brenhinol adrodd ar gyfran y llythyrau mynediad D+3 sy'n cael eu danfon ar D+2 'r gyfran sy'n cael eu danfon ar D+3.

7.228 Byddwn hefyd yn addasu Amod 4.2 USPA i'w gwneud yn ofynnol i'r Post Brenhinol gyhoeddi Datganiad o Broses sy'n cwmpasu Mynediad D+3 o fewn tri mis ar ôl i'n haddasiadau ddod i rym.

7.229 O ran mynediad D+5, rydym wedi penderfynu addasu:

i) Y diffiniad o "Fynediad D+5" i gyfeirio at ddanfon yn ystod yr wythnos, yn hytrach na diwrnodau gwaith, a fydd yn dileu'r rhwymedigaeth i ddanfon ar ddydd Sadwrn;
ii) Y diffiniad o "Fynediad D+5" i ddatgan, os caiff llythyrau eu trosglwyddo ar ddydd Sadwrn, yna pennir bod y trosglwyddo wedi digwydd ar y diwrnod nesaf yn yr wythnos, a fydd yn osgoi dechrau cyfrifo amseroedd llwybro ar ddydd Sadwrn; ac
iii) Y rhwymedigaeth ansawdd gwasanaeth yn Amod 8.1A USPA fel ei fod yn mynnu bod y Post Brenhinol yn adrodd ar sawl diwrnod yn yr wythnos yn hytrach na diwrnod gwaith ar ôl trosglwyddo cafodd post ei ddanfon, gan na fydd dydd Sadwrn yn ddiwrnod danfon mwyach.

7.230 Rydyn ni wedi penderfynu diweddaru'r Gwasanaethau Adwerthu Perthnasol ar gyfer y rheolaeth gwasgu elw ar gyfer Mynediad D+2 yn Amod 6.8 USPA.

7.231 Mae paragraffau 7.172 i 7.176 uchod yn disgrifio ein haddasiadau i fynnu bod y Post Brenhinol yn danfon post mynediad nifer penodol o ddiwrnodau ar ôl trosglwyddo yn yr IMC.

7.232 Byddwn hefyd yn gwneud rhai mân addasiadau, er enghraifft i ddiweddaru'r diffiniad o "Ganllawiau Cyfrifyddu Rheoleiddiol" fel ei fod yn cyfeirio at y canllawiau fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd, yn hytrach na dyddiad penodol.

7.233 Mae Atodiad A8 i'r Datganiad hwn yn hysbysiad statudol o'r addasiadau rydym wedi penderfynu eu gwneud i'r Amod USPA. Mae Atodlen 1 i Atodiad A8 yn gopi o'r Amod USPA gyda'n haddasiadau.

Ein hasesiad o'n haddasiadau i'r Amod USPA yn erbyn y profion statudol

7.234 O dan adran 38(4) o'r Ddeddf, dim ond os ydym o'r farn ei bod yn briodol i'r canlynol y cawn osod neu addasu Amod USPA:

a) Hyrwyddo effeithlonrwydd;
b) Hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol; a
c) Rhoi manteision sylweddol i ddefnyddwyr gwasanaethau post.

7.235 Yn yr adran hon rydym wedi nodi pam ein bod yn credu bod ein penderfyniadau yn cyflawni'r canlyniadau hyn. Rydym yn nodi eu bod yn cyd-fynd yn agos â'n hamcanion polisi, ac felly rydym yn cyfeirio'n benodol at y crynodeb ym mharagraffau 7.212 i 7.218 uchod sydd hefyd yn cefnogi pam mae ein penderfyniadau yn bodloni'r profion hyn.

Y prawf rheolaeth pris a nodir yn adran 38(5) o'r Ddeddf

7.236 O dan adran 38(5) o'r Ddeddf, ni chawn osod rheolaethau prisiau oni bai ei bod yn ymddangos i ni y gallai darparwr y gwasanaeth cyffredinol fel arall:

a) Gosod a chynnal rhai o'i brisiau neu'r cwbl ar lefel rhy uchel gyda chanlyniadau niweidiol i ddefnyddwyr gwasanaethau post, neu
b) Gosod gwasgfa ar brisiau sy'n arwain at ganlyniadau niweidiol i ddefnyddwyr gwasanaethau post.

7.237 Rydym wedi egluro uchod ym mharagraffau 7.63-7.71 a 7.129-7.132 ein bod o'r farn bod risg i'r Post Brenhinol wasgu'r elw mewn perthynas â darparu mynediad D+2 a D+3, ac y gallai gwasgfa pris o'r fath arwain at ganlyniadau niweidiol i ddefnyddwyr gwasanaethau post.

6.192 Felly, rydym o'r farn bod ein rheolaeth gwasgu elw mewn perthynas â'r gwasanaethau mynediad D+2 a'r gwasanaethau mynediad D+3 yn bodloni'r prawf yn adran 38(5) y Ddeddf.

Y ffactorau a nodir yn adran 38(8) o'r Ddeddf

7.238 Mae adran 38(8) o'r Ddeddf yn mynnu ein bod yn ystyried, yn benodol, bum ffactor wrth benderfynu mewn achos penodol pa rwymedigaethau i'w gosod mewn Amod USPA:

a) hyfywedd technegol ac economaidd, gan ystyried cyflwr datblygiad y farchnad, gosod a defnyddio cyfleusterau a fyddai'n gwneud y mynediad arfaethedig yn ddiangen;

b) ymarferoldeb rhoi'r mynediad arfaethedig;

c) y buddsoddiad a wnaed gan y darparwr gwasanaeth cyffredinol dan sylw mewn perthynas â'r materion y cynigir mynediad ar eu cyfer;

d) yr angen i sicrhau cystadleuaeth effeithiol yn y tymor hir; ac

e) unrhyw hawliau i eiddo deallusol sy'n berthnasol i'r cynnig.

7.239 Rydym eisoes wedi egluro uchod pam ein bod o'r farn bod angen ymestyn yr Amod USPA i wasanaethau mynediad D+3 er mwyn sicrhau cystadleuaeth effeithiol yn y farchnad post swmp ymhellach i fyny'r ffrwd yn y dyfodol. Felly, mae angen ein penderfyniad i reoleiddio gwasanaethau mynediad D+3 er mwyn cynnal cystadleuaeth effeithiol yn y tymor hir.

7.240 Yn hynny o beth, rydym hefyd yn nodi bod y Post Brenhinol eisoes wedi cyhoeddi y bydd yn cyflwyno'r math hwn o fynediad ac yn gofyn i gwsmeriaid cyfanwerthol bleidleisio ar ei gyflwyno. O'r herwydd, rydym o'r farn bod ein penderfyniadau ynghylch gwasanaethau mynediad D+3 yn ymarferol, yn ogystal ag yn ymarferol yn dechnegol ac yn economaidd. Ar ben hynny, rydym yn credu nad oes gan gwmnïau mynediad opsiwn ymarferol ar wahân i ddefnyddio rhwydwaith post y Post Brenhinol i ddanfon gwasanaethau post swmp o un pen i'r llall. Felly, nid ydym yn credu bod cyfleusterau ar wahân i rai'r Post Brenhinol a fyddai'n gwneud mynediad D+3 yn ddiangen.

7.241 Rydym hefyd wedi ystyried y ffactorau hyn mewn perthynas â'n rheolaeth gwasgu elw arfaethedig. Rydym o'r farn, heb reolaeth o'r fath, efallai na fydd cystadleuaeth yn effeithiol oherwydd gallu'r Post Brenhinol i brisio'n wrthgystadleuol. Yn y cyd-destun hwnnw, rydym wedi penderfynu gosod math o reolaeth ar sail yr hyn rydym yn ei ystyried yn fesur priodol o gostau ac sy'n rhoi cyfle i'r Post Brenhinol godi prisiau i adennill ei gostau, gan ystyried buddsoddiad yn ei rwydwaith.

7.242 Nid ydym yn credu bod unrhyw hawliau i eiddo deallusol sy'n berthnasol i'n penderfyniadau.

Y prawf cyffredinol a nodir ym mharagraff 1 o Atodlen 6 i'r Ddeddf

7.243 Yn ogystal â'r profion statudol penodol uchod, rhaid i ni hefyd fod yn fodlon bod y prawf cyffredinol ym mharagraff 1 o Atodlen 6 i'r Ddeddf yn cael ei fodloni mewn perthynas â'n haddasiadau i'r Amod USPA.

7.244 Yn hynny o beth, rydym o'r farn, gan ystyried y dadansoddiad uchod, bod yr addasiadau:

a) **Yn gyfiawn yn wrthrychol**: Rydym wedi egluro uchod ein bod o'r farn y bydd addasu'r Amod USPA i fynnu mynediad yn yr IMC i ddarparu'r gwasanaethau mynediad D+3 newydd yn hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol ymhellach i fyny'r ffrwd, yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd ac yn rhoi manteision sylweddol i ddefnyddwyr gwasanaethau post. Rydym hefyd wedi egluro y bydd cyflwyno mynediad D+3, a rhoi'r gorau i ddanfon ar ddydd Sadwrn o fynediad D+5, yn helpu'r Post Brenhinol i gyflawni'r arbedion costau sy'n deillio o ddiwygio'r gwasanaeth cyffredinol drwy gefnogi newid yn y niferoedd oddi wrth wasanaethau'r diwrnod canlynol. Dylai hyn arwain at ganlyniadau gwell i ddefnyddwyr, gan gynnwys cefnogi'r gwaith parhaus o ddarparu'r gwasanaeth cyffredinol. Ar ben hynny, rydym wedi egluro'r rhesymau pam fod cyfiawnhad dros reolaeth gwasgu elw mewn perthynas â gwasanaethau mynediad D+2 a D+3 er mwyn diogelu rhag y risg y bydd y Post Brenhinol yn gorfodi gwasgfa prisiau ar y gwasanaethau hyn. Rydym wedi ystyried effaith ehangach ein penderfyniadau, ac wedi seilio ein hasesiad ar y dystiolaeth sydd ar gael i ni, gan gynnwys gwybodaeth a ddarparwyd gan y Post Brenhinol a rhanddeiliaid yr effeithir arnynt, fel cwmnïau mynediad a defnyddwyr gwasanaethau mynediad.
b) **Ddim yn gwahaniaethu'n ormodol:** Yn yr un modd â'r mynediad D+2 a D+5 sydd ar gael ar hyn o bryd, mae ein penderfyniad i reoleiddio mynediad i D+3 yn adlewyrchu

safle'r Post Brenhinol fel yr unig gwmni post sydd â rhwydwaith danfon ymhellach i lawr y ffrwd sy'n gallu hwyluso cyfranogiad cwmnïau mynediad yn y marchnadoedd perthnasol. Felly, rydym o'r farn na fydd yn gwahaniaethu'n ormodol. Rydym yn nodi y bydd pris mynediad D+2 yn cynyddu, ac y bydd cyflwyno cynnyrch D+3 sy'n cael ei reoleiddio yn ddewis arall priodol i ddefnyddwyr a allai fod yn arbennig o sensitif i bris. O ran ein penderfyniadau i roi'r gorau i ddanfon ar ddydd Sadwrn o D+5 ac addasu'r rheolaeth gwasgu elw D+2, bydd y rhain yn effeithio ar bob defnyddiwr yn yr un modd.

c) **Yn gymesur mewn perthynas â'r hyn y bwriedir iddynt ei gyflawni:** Rydym o'r farn y bydd manteision diwygio yn drech nag unrhyw effaith niweidiol fydd yn deillio o'n penderfyniadau i reoleiddio mynediad D+3 ac addasu'r rheolaeth gwasgu elw D+5, a'u bod yn cynrychioli'r ymyriadau sylfaenol i hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol yn y farchnad post swmp, ar yr un pryd â chefnogi cynaliadwyedd ariannol ac effeithlonrwydd y gwasanaeth cyffredinol. Bydd manteision diwygio hefyd yn drech na'n penderfyniad i ddileu danfon ar ddydd Sadwrn o fynediad D+5, a dyma'r ymyriad sylfaenol sydd ei angen i gefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol.

d) **Yn dryloyw:** Mae'r rhesymau dros ein penderfyniadau a'u heffaith wedi'u nodi'n llawn yn yr adran hon. Mae ein haddasiadau i'r Amod USPA yn cael eu hegluro uchod a'u nodi'n glir yn yr hysbysiad statudol a gyhoeddir yn Atodiad 8 y Datganiad hwn.

7.245 Rydym o'r farn bod ein penderfyniadau yn cyd-fynd â'n dyletswyddau yn adran 29 o'r Ddeddf. Dylent gyfrannu at barhau i ddarparu gwasanaeth cyffredinol drwy gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol a'i effeithlonrwydd drwy gynorthwyo'r Post Brenhinol i wireddu arbedion cost llawn diwygio.

7.246 Rydym hefyd o'r farn bod ein penderfyniadau yn cyd-fynd â'n dyletswyddau o dan adran 3 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 i hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, lle bo hynny'n briodol, drwy hyrwyddo cystadleuaeth. Yn benodol, rydym wedi egluro ein bod o'r farn y bydd ein penderfyniadau yn hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol ymhellach i fyny'r ffrwd ac y bydd buddiannau defnyddwyr hefyd yn cael eu hyrwyddo mewn perthynas â dewis, pris, ansawdd gwasanaeth a gwerth am arian, o ystyried y bydd cwmnïau mynediad yn gallu cynnig gwasanaethau manwerthu ar sail mynediad D+2, D+3 neu D+5 wedi'i reoleiddio. Dylai'r arbedion costau y gallai'r Post Brenhinol eu gwireddu o ganlyniad i'n cynigion hefyd arwain at fanteision i ddefnyddwyr, gan gynnwys cefnogi'r gwaith parhaus o ddarparu gwasanaeth cyffredinol er budd pob defnyddiwr.

7.247 Yn olaf, rydym yn nodi ein dyletswydd barhaus o dan adran 6(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 i adolygu ein gwaith rheoleiddio gyda'r bwriad o sicrhau nad yw'n gosod nac yn cynnal beichiau sy'n ddiangen neu sydd wedi dod yn ddiangen. Fel sy'n cael ei egluro ym mharagraff 7.128, byddwn yn monitro ymateb y farchnad i gyflwyno mynediad D+3, ac rydym yn agored i ailystyried a yw ein gwaith o reoleiddio gwasanaethau mynediad D+2 yn dal yn briodol.

8. Effaith ein cynigion ar gynaliadwyedd ariannol

Pwrpas yr adran hon

Mae'r adran hon yn nodi ein hamcangyfrifon o'r arbedion posibl y gallai'r Post Brenhinol eu gwneud o ganlyniad i'n penderfyniadau i newid ein rheoliadau, ac mae'n cymharu ein hamcangyfrif ni ag amcangyfrifon y Post Brenhinol gan ddefnyddio ei gynigion ei hun. Rydym wedyn yn ystyried effaith hyn ar gynaliadwyedd ariannol darparu'r gwasanaeth cyffredinol.

Yn fyr

- Gallai newid pa mor aml caiff llythyrau Ail Ddosbarth eu danfon, newidiadau cysylltiedig i'r rhwymedigaeth mynediad ac adolygu targedau ansawdd gwasanaeth yr USO, yn unol â'n penderfyniadau a nodir yn Adrannau 5 i 7, arwain at arbedion cost sylweddol i'r Post Brenhinol. Rydym yn amcangyfrif y gallai'r arbedion posibl ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 fod yn £250m i £425m. Bydd gwireddu'r arbedion yn gyflym yn her weithredol fawr iawn, a fydd yn golygu newidiadau i bob agwedd ar biblinell danfon y Post Brenhinol.
- Ni fyddai'r arbedion cost yn unig yn ddigon i sicrhau cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol. Yn ogystal â'n diwygiadau, rhaid i'r Post Brenhinol hefyd sicrhau twf sylweddol mewn parseli, rheoli'r gostyngiad yn nifer y llythyrau'n effeithiol, a gwella ei effeithlonrwydd drwy addasu ei rwydwaith i newidiadau o ran swmp a llwyth gwaith.
- Fodd bynnag, mae'r arbedion posibl, o ran yr arbedion cost o ganlyniad i symud i'r model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos a goblygiadau cost is targedau ansawdd gwasanaeth is, yn elfen bwysig o ddychwelyd y gwasanaeth cyffredinol i gynaliadwyedd ariannol hirdymor.

Cyflwyniad

8.1 Rydym yn egluro yn Adran 4 y dyletswyddau sy'n berthnasol i wneud ein penderfyniadau ynghylch diwygio, gan gynnwys ein dyletswydd i ystyried cynaliadwyedd ariannol darparu'r gwasanaeth cyffredinol. Felly, rydym wedi ystyried effaith ariannol ein penderfyniadau yn Adrannau 5 i 7. Yn ein Hymgynghoriad, fe wnaethom nodi sut roeddem wedi modelu'r arbedion cost posibl y gellid eu gwneud drwy ddiwygio.

8.2 Yn ein Hymgynghoriad, fe wnaethom nodi ein bod wedi datblygu ymhellach y modelu a ddefnyddiwyd yn ein Cais am Fewnbwn, a oedd yn sail i'n hamcangyfrifon o gost net yr USO ac arbedion net posibl newidiadau i gwmpas y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol a mynediad. Cafodd manylion y modelu hwn eu nodi yn Atodiad 7 y CFI.[592] Fe wnaethom hefyd egluro sut roeddem wedi datblygu ein model ar sail adborth a gafwyd ar y CFI. Yn yr

[592] Ofcom, 2024. Gweler Atodiad 7 - Ein dull o gyfrifo costau net.

Adran hon, byddwn yn egluro'r newidiadau rydym wedi'u gwneud i'r modelu roeddem wedi'i ddefnyddio ar gyfer y CFI yn dilyn ymatebion rhanddeiliaid i'n Hymgynghoriad.

8.3 Mae'r model rydym wedi'i ddefnyddio yn amcangyfrif o'r gwaelod i fyny o refeniw'r Busnes a Gofnodwyd a chostau cyfran danfon y Busnes a Gofnodwyd. Mae'n modelu cynnyrch y Post Brenhinol yn fanwl, gan gynnwys sut gallai defnyddwyr newid rhwng ac oddi wrth gynnyrch mewn ymateb i newidiadau i'r gwasanaeth maen nhw'n ei gael. Mae hefyd yn modelu rhwydwaith danfon y Post Brenhinol ar lefel ddaearyddol fanwl, gan lunio amcangyfrifon o'r amser sy'n gysylltiedig â llwybrau danfon ar sail niferoedd, gwybodaeth ddaearyddol ac asesiadau peirianneg manwl o'r amser sydd ei angen i gyflawni pob rhan o lwybr danfon.

8.4 Fel rhan o'i ymateb i'r Cais am Fewnbwn, rhoddodd y Post Brenhinol ei gynnig hefyd i ni newid cwmpas yr USO, a oedd yn cynnwys ei waith modelu o effaith ariannol elfennau allweddol y newidiadau arfaethedig, sef yr arbedion net y gellid eu gwireddu pe bai'r newidiadau hynny'n cael eu rhoi ar waith. Fel y nodir yn Adran 5, rydym wedi canolbwyntio ein hasesiad ar gynigion y Post Brenhinol o ystyried y byddent yn arwain at lai o newidiadau i'r USO o'i gymharu â'r opsiynau yn ein CFI, y gellid eu rhoi ar waith yn gyflymach drwy newidiadau i'n rheoliadau ac o ystyried ein bod o'r farn mai'r Post Brenhinol sydd yn y sefyllfa orau i wybod beth sy'n ymarferol i'w weithredu. Roedd ein Hymgynghoriad yn egluro ein dull o amcangyfrif yr arbedion net posibl ac yn cymharu hyn â dull gweithredu'r Post Brenhinol.

8.5 Rydym hefyd wedi craffu ar waith modelu'r Post Brenhinol ei hun i ddeall ei ddisgwyliadau ynghylch sut gallai costau a refeniw newid o ganlyniad i newidiadau i'r gwasanaeth cyffredinol a'r rhwymedigaeth mynediad.

8.6 Rydym wedi amcangyfrif yr arbedion net posibl y gallai'r Post Brenhinol eu cyflawni ar ôl i'r diwygio gael ei roi ar waith. Fel yr esboniwyd yn ein Hymgynghoriad, rydym wedi cael yr amcangyfrifon hyn o'n gwaith modelu o gostau a refeniw'r Post Brenhinol. Rydym wedi modelu'r prif sbardunau cost a refeniw a sut byddai'r diwygiad arfaethedig yn effeithio ar y rhain. Fodd bynnag, bydd i ba raddau y gwireddir yr arbedion posibl hyn, ac a wireddir y potensial yn llawn, yn dibynnu ar allu'r Post Brenhinol i wneud y gorau o'r hyblygrwydd masnachol a gweithredol ychwanegol y mae'r diwygiadau'n ei ddarparu.

Amcangyfrif y Post Brenhinol o effaith ariannol ei ddiwygiadau arfaethedig

8.7 I gefnogi ei ymateb i'r Cais am Fewnbwn, cynhyrchodd y Post Brenhinol ei waith modelu ei hun i amcangyfrif arbedion net elfennau allweddol ei gynigion.[593] Mae'r model yn rhagweld yr arbedion a fyddai'n cael eu gwneud ym mlwyddyn ariannol 2025/26 pe bai model danfon bob yn ail ddiwrnod yr wythnos ar gyfer llythyrau heb flaenoriaeth yn cael ei fabwysiadu. Mae'r model hwn yn amcangyfrif arbedion net blynyddol a allai fod hyd at £300m ym mlwyddyn ariannol 2025/26.[594] Byddai disgwyl arbedion cost a cholledion refeniw tebyg bob blwyddyn, o'i gymharu â sefyllfa wrthffeithiol yr USO fel y mae wedi'i gwmpasu ar hyn o bryd, er y byddant yn newid ar sail newidiadau mewn niferoedd a'r newidiadau

Ymateb y Post Brenhinol i'r Cais am Fewnbwn 2024

[594] Ymateb y Post Brenhinol i Gais am Fewnbwn 2024, t.7.

canlyniadol yng ngweithrediadau gwrthffeithiol y Post Brenhinol. Ers ein Hymgynghoriad, nid yw'r Post Brenhinol wedi darparu amcangyfrifon wedi'u diweddaru o arbedion net posibl.

8.8 Mae amcangyfrif y Post Brenhinol yn seiliedig ar fodel o'r brig i lawr a gynhyrchwyd gan y Post Brenhinol ac sy'n seiliedig ar ei gynllun busnes ar gyfer 2023.[595] Roedd yn ystyried pa effaith y byddai'r newidiadau gweithredol a phrisiau wedi'i chael ar y niferoedd a ragwelwyd ar gyfer y flwyddyn honno ac yn cynhyrchu amrywiaeth o ganlyniadau posibl. O'r rhain, amcangyfrifodd y Post Brenhinol yr effaith ar gostau a refeniw.

8.9 Fel ein model ni, nid oedd ei waith modelu yn ystyried costau pontio ond yn hytrach yn edrych ar yr arbedion cost a'r effeithiau refeniw a fyddai'n cael eu gwneud ar ôl cyflwyno model gweithredu newydd. Roedd gwaith modelu'r Post Brenhinol hefyd yn canolbwyntio ar un flwyddyn benodol, er bod ei fodel hefyd wedi amcangyfrif yr effaith dros amser. Mae dull modelu o'r brig i lawr y Post Brenhinol yn wahanol i'n dull modelu o'r gwaelod i fyny, ac rydym yn trafod gwahaniaethau rhwng ein dulliau gweithredu a'n canlyniadau yn nes ymlaen yn yr adran hon.

Tabl 8.1: Amcangyfrifon y Post Brenhinol o arbedion posibl o ddanfon bob yn ail ddiwrnod, BC 2025/26

	£m
Effaith ar refeniw	-100
Arbedion mewn costau	400
Arbedion net	300

Ffynhonnell: Model USO y Post Brenhinol

8.10 Rydym wedi adolygu model y Post Brenhinol ac wedi'i gymharu â'n model ni, gan addasu ein rhagdybiaethau i'n galluogi i wirio'r canlyniadau. Yn yr is-adran nesaf byddwn yn egluro'r newidiadau rydym wedi'u gwneud i'n gwaith modelu ers y Cais am Fewnbwn a'r Ymgynghoriad, yr ymatebion a gawsom i'r Ymgynghoriad, ac yn trafod allbynnau'r model wedi'i ddiweddaru.

Amcangyfrif Ofcom o effaith ariannol ein diwygiadau i'r strwythur danfon

8.11 Fel y nodir yn yr Ymgynghoriad, fe wnaethom ddatblygu'r model a gynhyrchwyd ar gyfer y Cais am Fewnbwn i amcangyfrif yr arbedion net posibl yn sgil ein cynnig i ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth, mynediad D+3 a D+5 yn llai aml.

8.12 Rydym wedi gwneud nifer o newidiadau i'n model i wella ei ddefnydd at y diben hwn.

[595] Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 5 Rhagfyr 2024.

Adborth rhanddeiliaid a'n hymateb

Tryloywder ynghylch effaith ein cynigion

8.13 Ymatebodd y Greeting Card Association i'n hymgynghoriad gan ddadlau ein bod wedi methu ag egluro effaith debygol ein cynigion yn dryloyw.[596]

8.14 Rydym yn cydnabod nad ydym wedi cyhoeddi ein model o gostau a refeniw'r Post Brenhinol o'r blaen, nac ochr yn ochr â'r ddogfen hon, ac mai dim ond disgrifiadau o'r dadansoddiad sydd wedi'u cynnwys a rhai allbynnau allweddol o'r modelu hwn rydym wedi'u darparu. Er bod yn rhaid i ni fod yn dryloyw wrth nodi'r rhesymau dros ein cynigion a'n penderfyniadau, rydym hefyd yn rhwym wrth ddyletswyddau cyfreithiol i beidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol rhanddeiliaid a gawn wrth gyflawni ein swyddogaethau, oni bai fod rhai eithriadau'n berthnasol.[597] Felly, rhaid i ni gael cydbwysedd priodol rhwng y dyletswyddau hyn sy'n cystadlu â'i gilydd.

8.15 Yn yr un modd â chyhoeddiadau blaenorol,[598] nid ydym yn credu y byddai'n briodol cyhoeddi ein model. Mae ein model nid yn unig yn dibynnu ar ddata sy'n gyfrinachol i'r Post Brenhinol, ond mae hefyd yn seiliedig ar weithrediadau'r Post Brenhinol sydd eu hunain yn fasnachol sensitif. Felly, er mwyn cyhoeddi mewn ffordd na fyddai'n datgelu gwybodaeth fasnachol sensitif, byddai angen i ni olygu rhannau mor fawr o'r model fel na fyddai'r fersiwn nad yw'n gyfrinachol yn ddefnyddiol iawn fel canllaw i randdeiliaid ar sut rydym wedi dod i'n casgliadau.

8.16 Yn hytrach, rydym wedi disgrifio ein gwaith modelu mor fanwl â phosibl er mwyn rhoi cymaint â phosibl o wybodaeth nad yw'n gyfrinachol i randdeiliaid. Mae'r disgrifiadau mwyaf manwl o'n gwaith modelu ar gael yn Atodiad 7 y CFI[599] ac Atodiad 6 Adolygiad 2020 o Anghenion Defnyddwyr,[600] gyda rhagor o wybodaeth ar gael yn Adrannau 8 yr Ymgynghoriad a'r ddogfen hon. Rydym o'r farn bod hyn yn taro cydbwysedd priodol rhwng ein dyletswyddau, gan roi digon o wybodaeth i randdeiliaid ddeall y rhesymau dros ein penderfyniadau ar yr un pryd â diogelu gwybodaeth gyfrinachol y Post Brenhinol.

Amseru cynigion mewn perthynas â chynlluniau peilot y Post Brenhinol

8.17 Yn ei ymateb, dadleuodd CWU mai dim ond ar ôl cwblhau'r cynlluniau peilot a chael gwybod beth sy'n bosibl y byddai modd llunio barn wybodus am yr arbedion posibl.[601]

8.18 Fel y nodwyd yn ein hymgynghoriad, fe wnaethom lunio ystod eang ar gyfer effaith bosibl ein cynigion. Mae hyn yn adlewyrchu amrywiaeth o dybiaethau ynghylch effaith newidiadau ar y galw gan ddefnyddwyr a'r gweithredu. Rydym yn disgwyl y byddai cynlluniau peilot y Post Brenhinol yn debygol o'n galluogi i fireinio ein hamcangyfrifon, ond nid ydym yn cytuno bod eu canlyniadau'n angenrheidiol er mwyn cael unrhyw ddealltwriaeth ystyrlon o effeithiau cost a refeniw posibl newidiadau i'r USO. Rydym ni a'r Post Brenhinol wedi cynnal

[596] Ymateb The Greeting Card Association i Ymgynghoriad 2025, Tabl 1.
[597] Adran 56 PSA 2011.
[598] Er enghraifft, ein Hadolygiad o Anghenion Defnyddwyr 2020.
[599] Ofcom, 2024. Gweler Atodiad 7 - Ein dull o gyfrifo costau net.
[600] Ofcom, 2020, Adolygiad o Anghenion Defnyddwyr Post
[601] Ymateb CWU i Ymgynghoriad 2025, paragraff 11.

dadansoddiad sydd, yn ein barn ni, yn darparu asesiad ystyrlon o'r arbedion posibl, hyd yn oed er ein bod yn cydnabod yr ansicrwydd ynghylch materion penodol.[602]

8.19 Rydym yn deall bod y Post Brenhinol wedi cynnal y cynlluniau peilot i brofi agweddau gweithredol y model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos yn hytrach na mireinio ei waith modelu arbedion net y diwygiadau. Beth bynnag, byddai ansicrwydd sylweddol ynghylch union effaith y diwygiadau ar gyllid y Post Brenhinol yn parhau ar ôl y cynlluniau peilot. Felly, nid ydym o'r farn y byddai'r gwerth ychwanegol y gallai'r cynlluniau peilot ei ddarparu i'r modelu ariannol yn drech na'r oedi yn ein penderfyniadau y byddai hyn wedi'i olygu.

8.20 Ar ben hynny, fel y nodir yn Adrannau 1 a 4, rydym o'r farn ei bod yn bwysig gwneud y penderfyniadau hyn nawr, o ystyried y pryderon o ran cynaliadwyedd ariannol sydd gennym mewn perthynas â'r Busnes a Gofnodwyd. Fel y nodir yn Adran 5, rydym o'r farn bod y sylfaen dystiolaeth bresennol yn ddigonol i'n galluogi i asesu effaith ein penderfyniad terfynol, yn enwedig y dystiolaeth rydym wedi'i chasglu ar anghenion rhesymol defnyddwyr, dirywiad strwythurol y farchnad llythyrau a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol. Nid ydym yn credu ei bod yn briodol aros nes bydd cynlluniau peilot y Post Brenhinol wedi'u cwblhau cyn i ni amcangyfrif yr arbedion posibl y gellid eu gwneud.

Costau a manteision rhanbarthol

8.21 Gofynnodd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon i Ofcom fodelu costau a manteision ar lefel ranbarthol ac roedd am gael sicrwydd y bydd yr arbedion yn cael eu cyflawni'n unffurf ledled y DU.[603]

8.22 Mae natur yr arbedion y gellir eu cyflawni oherwydd newidiadau i'r USO yn cael eu disgrifio o baragraff 4.51 yn y ddogfen hon. Gan eu bod yn deillio'n bennaf o symleiddio gweithrediadau mewn swyddfeydd danfon, cynnal llai o lwybrau danfon gyda niferoedd mwy, byddem yn disgwyl y bydd arbedion yn digwydd ledled y DU yn hytrach na dim ond mewn rhanbarthau penodol. Fodd bynnag, efallai y bydd rhai ardaloedd penodol, ar draws y gwahanol ranbarthau, yn gweld mwy o arbedion nag eraill oherwydd ffactorau penodol fel y dulliau danfon sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd a'r cymysgedd niferoedd sy'n cael ei ddanfon yn yr ardal honno.

Effeithlonrwydd llwybrau danfon parseli

8.23 Fel y nodir yn ein Hymgynghoriad, fe wnaethom adolygu ein gwaith modelu llwybrau parseli. Roeddem o'r farn bod un o allbynnau ein gwaith modelu, sef nifer y parseli sy'n cael eu danfon o fewn awr, yn afresymol yn weithredol. Fe wnaethom nodi bod elfennau amser a fyddai'n codi'n ymarferol ar goll o'n gwaith modelu. Er enghraifft, nid oedd ein modelu blaenorol yn cynnwys yr amser roedd ei angen ar weithiwr post i barcio ac i nôl eitemau o fan, ac roedd yn tybio cyflymder gyrru afrealistig o uchel ar gyfer y llwybrau hyn. Rydym wedi gwneud newidiadau sydd wedi lleihau nifer y eitemau sy'n cael eu danfon yr awr y gall llwybrau parseli eu cyflawni i lefel y credwn y gellir ei chyflawni'n ymarferol. Mae hyn wedi

[602] Gweler er enghraifft y manylion fel y nodir yn Ofcom, 2024, Atodiad 7 - Ein Dull o gyfrifo'r gost net.
[603] Ymateb Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon i Ymgynghoriad 2025, t.7.

ychwanegu at sylfaen gostau'r rhwydwaith wedi'i ailgwmpasu sydd wedi'i fodelu, ac wedi lleihau'r arbedion net sydd wedi'u modelu.

Newid mewn niferoedd o ganlyniad i ymateb defnyddwyr i ddiwygiadau

8.24 Isod, rydym yn nodi'r ymatebion a gawsom gan randdeiliaid mewn perthynas â pha gynnyrch y byddai defnyddwyr yn newid iddynt yn dilyn diwygiadau, sut byddai niferoedd yn newid oherwydd y newidiadau gweithredol i'r diwygiadau, a sut byddai defnyddwyr yn ymateb i newidiadau prisio o dan USO diwygiedig.

Newid llwybrau

8.25 Roedd ein Hymgynghoriad yn nodi sut, yn ein gwaith modelu, rydym yn ystyried effaith pob newid i gynnig cynnyrch y Post Brenhinol drwy ystyried y newid oherwydd newidiadau gweithredol a'r newid oherwydd pris.[604] Roedd hyn yn cynnwys ystyried sut byddai defnyddwyr yn newid pa gynhyrchion roeddent wedi'u prynu mewn ymateb i newidiadau gweithredol a phrisiau.

8.26 Mae ein gwaith modelu yn ystyried pedwar llwybr penodol ar gyfer niferoedd yr effeithir arnynt, gyda rhai cwsmeriaid yn uwchraddio i gynnyrch drutach y Post Brenhinol (e.e. defnyddiwr newid Ail Ddosbarth yn newid i Ddosbarth Cyntaf), eraill yn newid am i lawr (ee i'r gwrthwyneb), eraill yn newid i gynnyrch mynediad sy'n dal i ddefnyddio rhwydwaith danfon y Post Brenhinol, a rhai yn gadael y farchnad yn gyfan gwbl. Mae i ba raddau rydym yn tybio y bydd cwsmeriaid yn defnyddio pob un o'r llwybrau hyn yn amrywio yn ôl cynnyrch.

8.27 Dadleuodd Cyngor ar Bopeth ei bod yn annhebygol y bydd defnyddwyr yn israddio o Ddosbarth Cyntaf i Ail Ddosbarth gan fod y gwasanaeth yn cael ei ddiraddio ac nad yw targedau ansawdd gwasanaeth yn dal i gael eu cyrraedd.[605]

8.28 Nid ydym yn derbyn y ddadl hon. Mae ein gwaith modelu yn tybio y bydd rhywfaint o symud i Ail Ddosbarth o Ddosbarth Cyntaf pan fydd defnyddwyr yn credu y byddai Ail Ddosbarth yn diwallu eu hanghenion. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod mai dim ond ar gyfer is-set o ddefnyddwyr y bydd hyn yn gweithio ac rydym hefyd wedi ystyried defnyddwyr a fyddai'n gadael y farchnad neu'n newid i gynnyrch cystadleuwyr.

Newidiadau gweithredol

8.29 Fe wnaethom egluro yn ein Hymgynghoriad ein bod wedi cynnal ein dull gweithredu i raddau helaeth ar gyfer effeithiau gweithredol newid yr amlder danfon, gan ddefnyddio'r un tybiaethau ag ar gyfer ein senarios danfon 2.5 diwrnod o'r modelu yn y Cais am Fewnbwn.

8.30 Roedd MCF yn dadlau ein bod yn diystyru'n ormodol effaith yr anhwylustod i gwsmeriaid sy'n aros ddiwrnod yn ddiweddarach i dderbyn eu post, gan ddweud ei fod yn "debygol o

[604] Mae manylion y dull gweithredu hwn ar gael yn Nhabl A7.3 Atodiad 7 (Ein dull o gyfrifo'r gost net) yn y Cais am Fewnbwn yn 2024.

[605] Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025 paragraff 1.7.

wthio'r rheini sy'n derbyn llythyrau meddygol, budd-daliadau a chyfathrebiadau ariannol at ddulliau electronig".[606]

8.31 Nid ydym wedi modelu'n benodol effaith ar anfonwyr post sefydliadol fel ysbytai, adrannau'r llywodraeth a banciau o ganlyniad i gwsmeriaid sydd weithiau'n derbyn post ddiwrnod yn hwyrach nag y byddent o dan gwmpas presennol yr USO. Nid oes gennym unrhyw dystiolaeth i gadarnhau na mesur addasiad i gyfrif am honiad MCF. Fodd bynnag, rydym yn nodi ein bod wedi modelu effaith fwy cyffredinol ar niferoedd o ganlyniad i'r newid i ddanfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, yn unol â'r dull a nodir yn Atodiad 7 y CFI (ac a drafodir yn fwy penodol o baragraff A7.62).

8.32 Nodwn fod y gostyngiad tymor hir yn nifer y llythyrau wedi bod yn digwydd wrth i anfonwyr, gan gynnwys anfonwyr mawr, newid i ddulliau electronig. Rydym yn disgwyl i'r duedd hon barhau ac mae hyn wedi'i gofnodi yn ein hamcanestyniadau o'n canlyniadau, a nodir yn nes ymlaen yn yr Adran hon. Fodd bynnag, nid ydym yn disgwyl y bydd y newidiadau i'r patrwm danfon Ail Ddosbarth eu hunain yn cynyddu'r dirywiad strwythurol a'r newid i gyfathrebu electronig yn sylweddol.

Newid prisiau

8.33 Nododd [✂] ei bod yn ymddangos nad oeddem wedi dadansoddi effaith newidiadau yng nghostau uned Dosbarth Cyntaf (a fyddai'n cynyddu o dan ein cynigion) ar brisiau ac felly niferoedd.[607]

8.34 Mae Adran 5 yn cynnwys trafodaeth ehangach ar yr effaith bosibl y gallai ein diwygiadau ei chael ar brisiau, o baragraff 5.82 yn y ddogfen hon. O ran sut rydym wedi modelu newidiadau i brisiau yn benodol, fe wnaethom egluro yn ein Hymgynghoriad ein bod wedi mireinio'r tybiaethau a wnaethom mewn perthynas ag effaith y newidiadau i brisiau Dosbarth Cyntaf, o'i gymharu â'r CFI. Rydym wedi diweddaru ein tybiaethau i ddangos nifer mwy yn gadael y farchnad oherwydd cynnydd posibl ym mhrisiau llythyrau Dosbarth Cyntaf.

8.35 Rydym yn nodi ei bod hi'n gallu bod yn anodd iawn amcangyfrif effaith newidiadau i brisiau ar niferoedd. Rydym o'r farn bod mwy o ansicrwydd am yr effaith hon o'i chymharu ag effaith y newidiadau arfaethedig i ddanfon ar gostau danfon, yr ydym wedi'u disgrifio uchod.[608]

8.36 Nododd UK Mail yn ei ymateb i'n Hymgynghoriad ein bod, yn y CFI, wedi nodi bod ein gwaith modelu'n tybio y byddai'r Post Brenhinol yn cynnig gostyngiad pris ar rai cynnyrch Post Swmp a Mynediad o ystyried y newidiadau gweithredol.[609] Dadleuodd UK Mail nad yw hyn yn digwydd yn ymarferol ac y dylem ddiwygio ein modelau.[610]

8.37 Fel rhan o'r gwaith o fodelu'r Ymgynghoriad, fe wnaethom ddiweddaru ein tybiaethau prisio i gael gwared ar y gostyngiadau mewn prisiau y cyfeirir atynt gan UK Mail. Nid ydym wedi eu hailgyflwyno ar gyfer y Datganiad hwn.

---

[606] Ymateb y Fforwm Cystadleuaeth Post i Ymgynghoriad 2025, t.3.
[607] [✂]
[608] Rydym yn trafod prisiau ymhellach yn Adran 5, paragraff 5.82 i 5.100.
[609] Atodiad 7 i'r CFI, Tabl A7.3.
[610] Ymateb UK Mail i Ymgynghoriad 2025, t.2.

Ansawdd gwasanaeth

8.38 Gofynnodd Consumer Scotland pa waith modelu roeddem wedi'i wneud ar gyfran y post Ail Ddosbarth y byddai angen ei symud i D+2 er mwyn i'r Post Brenhinol gyrraedd ei dargedau Ansawdd Gwasanaeth.[611]

8.39 Mae'r targedau Ail Ddosbarth newydd wedi cael eu gosod i roi cyfrif am y ffaith, ar gyfer tua hanner y llythyrau Ail Ddosbarth, mai'r diwrnod danfon olaf a fydd ar gael fydd D+2 yn hytrach na D+3. Rydym wedi canfod bod hyn yn debygol o effeithio ar swm cymharol fach ond sylweddol o bost Ail Ddosbarth. Rydym wedi canfod mai dim ond rhwng 1% a 3% [✂] o bost y byddai angen ei ddanfon ar D+3 ond i gyfeiriad lle nad oes ond llythyr nad yw'n flaenoriaeth yn cael ei ddanfon ar D+2. Y rheswm am hyn yw bod y mwyafrif helaeth o lythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth ar hyn o bryd yn barod i'w danfon ar D+2, gyda D+3 yn cael ei ddefnyddio'n fwy fel ôl-stop ar gyfer lleiafrif o lythyrau.

8.40 Dyma un o'r rhesymau dros ein penderfyniad i leihau'r prif darged ansawdd gwasanaeth Ail Ddosbarth o 98.5% i 95%, fel sy'n cael ei egluro ym mharagraffau 6.113 i 6.140. Felly, nid ydym yn credu y dylai fod angen i'r Post Brenhinol gyflymu post i D+2 y tu hwnt i'r hyn sy'n cael ei wneud o dan y targedau a'r strwythur danfon presennol, ac nid ydym wedi modelu unrhyw gostau ychwanegol.

8.41 Yn ei ymateb, dywedodd [✂] nad oedd unrhyw amcangyfrif wedi'i wneud o beth fyddai proffil galw post wedi bod pe bai targedau Ansawdd Gwasanaeth wedi cael eu cyrraedd yn gyson, a bod hyn yn tanseilio ein dadansoddiad a nodir yn yr Ymgynghoriad.[612] Rydym yn mynd i'r afael ag a yw hyn yn effeithio ar ein dadansoddiad o'r perfformiad ariannol hanesyddol uchod. Isod, rydym yn ystyried a yw hyn yn effeithio ar ein hamcangyfrif o effaith diwygio.

8.42 Mewn theori, y gymhariaeth ddelfrydol ar gyfer deall effaith bosibl newid yn yr USO fyddai cymharu costau a refeniw disgwyliedig y Post Brenhinol wrth gyflawni manyleb lawn holl gwmpasau presennol ac arfaethedig yr USO. Fodd bynnag, mae heriau ymarferol wrth wneud hynny.[613] Mae'n anodd iawn amcangyfrif yn gadarn yr effaith, os o gwbl, y gallai methiant ansawdd gwasanaeth fod wedi'i chael ar niferoedd, yn enwedig oherwydd bod dechrau methiant diweddar y Post Brenhinol i gyrraedd ei dargedau ansawdd gwasanaeth yn gyson wedi cyd-daro â dechrau pandemig Covid-19.

8.43 Ar ben hynny, byddai angen rhoi cyfrif am addasiadau o'r fath yn (a) ein gwaith modelu arbedion net ein diwygiadau a (b) sefyllfa ariannol wrthffeithiol y Post Brenhinol yn absenoldeb y diwygiadau hyn, ond gan dybio bod y Post Brenhinol yn cyrraedd y targedau ansawdd gwasanaeth gofynnol o dan y ddwy senario. Byddai unrhyw addasiad felly'n arwain at newid llai sylweddol yn lefel yr arbedion net a fodelwyd yn sgil y newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth cyffredinol, gan y byddai'n gwrthbwyso i raddau helaeth (ond nid yn gyfan gwbl) ac yn arwain at ychydig iawn o newid i'n hallbynnau.

---

[611] Ymateb Consumer Scotland i Ymgynghoriad 2025, t.49.

[612] [✂]

[613] Nodwn ein bod wedi addasu'r sylfaen gostau i addasu ar gyfer tanberfformio o ran ansawdd gwasanaethau, gan fod hwn yn faes lle credwn y gallwn amcangyfrif addasiad yn gredadwy gyda digon o gywirdeb i gyfiawnhau ei gynnwys. Nid ydym yn credu ei bod yn bosibl asesu'n gredadwy a yw methiannau Ansawdd Gwasanaeth wedi lleihau niferoedd o gwbl, heb sôn am amcangyfrif addasiad niferoedd, fel yr awgrymir gan [✂].

Tybiaethau elastigedd pris

8.44 Fe wnaethom egluro yn ein Hymgynghoriad sut rydym yn defnyddio tybiaethau elastigedd prisiau i bennu lefel gyffredinol y niferoedd mae newid penodol mewn pris yn effeithio arno, gan adlewyrchu is-set o ddefnyddwyr sy'n rhoi gorau i anfon rhai o'u llythyrau Dosbarth Cyntaf neu'r cwbl mewn ymateb i gynnydd mewn prisiau.[614]

8.45 I rai cwsmeriaid, bydd hyn yn golygu newid i lythyrau Ail Ddosbarth yn hytrach na dewis peidio ag anfon llythyr o gwbl. Byddai'r niferoedd Ail Ddosbarth ychwanegol hyn yn rhoi refeniw i'r Post Brenhinol a byddai'r llythyrau'n cael eu danfon am gost is i'r Post Brenhinol o'i gymharu â Dosbarth Cyntaf. Felly, mae gan y Post Brenhinol gymhelliant i ystyried yr effaith hon wrth bennu prisiau llythyrau Dosbarth Cyntaf, gan arwain at brisiau Dosbarth Cyntaf uwch a llai o lythyrau Dosbarth Cyntaf nag y byddai heb yr effaith hon. O ran elastigedd prisiau, mae'r cymhelliant hwn yn golygu ein bod, ar gyfer llythyrau Dosbarth Cyntaf, wedi codi ein elastigeddau pwynt terfynol uwchlaw elastigedd uned.

8.46 Er bod hyn yn lleihau enillion refeniw Dosbarth Cyntaf yn benodol yn sgil codi prisiau, nid yw'n golygu bod cynnydd mewn prisiau yn gwbl negatif o ran refeniw i'r Post Brenhinol yn ein gwaith modelu. Y rheswm am hyn yw y bydd rhywfaint o'r niferoedd mae cynnydd mewn prisiau yn effeithio arnynt yn newid i gynnyrch eraill (cynnyrch rhatach fel arfer, ond nid bob tro) y Post Brenhinol ac felly byddant yn dal i ddenu rhywfaint o refeniw.

8.47 Mewn ymateb i'n Hymgynghoriad, dadleuodd y GCA fod cynllun Ofcom yn dibynnu ar ostyngiad cyflym yn nifer y llythyrau heb gynyddu cyfanswm refeniw llythyrau.[615]

8.48 Nid ydym yn cytuno â'r cymeriadu bod newid yr USO yn golygu cyflymu gostyngiad yn nifer y llythyrau. Rydym yn disgwyl rhai colledion o ran niferoedd oherwydd newidiadau gweithredol, ond mae'r rhain yn eithaf cyfyngedig, sef llai na 2% o gyfanswm nifer y llythyrau, ac maent yn golledion untro yn hytrach na cholledion blynyddol mewn niferoedd. Fodd bynnag, bwriad ein newidiadau arfaethedig yw adlewyrchu realiti tueddiadau hirdymor o ran gostyngiad yn nifer y llythyrau, er mwyn caniatáu strwythurau danfon sy'n fwy addas ar gyfer y lefelau niferoedd a welir nawr ac a ddisgwylir yn y dyfodol.

Effeithlonrwydd

8.49 Rydym wedi cynnwys rhagdybiaeth effeithlonrwydd sy'n berthnasol i gostau cyn ac ar ôl diwygio yn ein gwaith modelu, er mwyn sicrhau nad yw arbedion posibl yn cael eu chwyddo o ganlyniad i sylfaen gost aneffeithlon o uchel. Fel y nodwyd yn ein Hymgynghoriad, rydym wedi cynnal dull modelu'r CFI o ddefnyddio golwg lefel uchel ar enillion effeithlonrwydd, gyda rhagdybiaeth sylfaenol o leihau costau 9% i gyfrif am arbedion effeithlonrwydd.[616]

8.50 Mae'r gwelliannau effeithlonrwydd hyn yn cael effaith debyg i'r hyn a drafodir ym mharagraff 8.43 uchod, gydag effaith gyfyngedig ar ein hallbynnau terfynol oherwydd bod y rhan fwyaf o'r effaith yn gwrthbwyso rhwng allbynnau'r model cyn ac ar ôl diwygio.

---

[614] Yn fwy cyffredinol, mae ein dull o ddefnyddio elastigeddau wedi'i nodi yn Atodiad 7 y CFI. Gweler paragraffau A7.72 i A7.78.

[615] Ymateb The Greeting Card Association i Ymgynghoriad 2025, paragraff 2.3.

[616] Mae ein dull modelu o ran effeithlonrwydd wedi'i nodi ym mharagraffau A7.97-A7.98 yn Atodiad 7 (Ein dull o gyfrifo costau net) yn y Cais am Fewnbwn yn 2024.

8.51 Ymatebodd nifer o randdeiliaid i'n Hymgynghoriad ynghylch y ffordd rydym wedi ystyried effeithlonrwydd fel rhan o'n gwaith modelu. Roedd [✂] a Cyngor ar Bopeth yn dadlau nad oeddem wedi ystyried a yw'r Post Brenhinol yn cydymffurfio â'r USO mewn ffordd gost-effeithiol fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf.[617]

8.52 Yr ymarfer modelu rydym wedi'i gynnal oedd amcangyfrif yr arbedion posibl y gellid eu gwneud o'n penderfyniadau sy'n ymwneud â'r USO a'r rhwymedigaeth mynediad. Nid ydym wedi cynnal cyfrifiad cost net fel y nodir yn adrannau 44 a 45 y Ddeddf. Fodd bynnag, rydym wedi addasu ein gwaith modelu i ystyried yr arbedion effeithlonrwydd y mae'r Post Brenhinol wedi dweud y mae'n disgwyl eu gwneud.

8.53 Fel rydym yn ei egluro yn Adran 4, rydym yn dal o'r farn nad yw'r Post Brenhinol wedi gwneud cymaint o gynnydd ag y byddem yn ei ddisgwyl i wella effeithlonrwydd. Er mwyn helpu i fynd i'r afael â hyn, yn ein Hadolygiad o Reoliadau'r Gwasanaeth Post yn 2022,[618] fe wnaethom gyflwyno rhagor o ofynion adrodd i'r Post Brenhinol er mwyn cael mwy o dryloywder cyhoeddus am ei gynnydd ar effeithlonrwydd. Fodd bynnag, rydym hefyd yn dal o'r farn bod yna gymhellion masnachol i'r Post Brenhinol sicrhau effeithlonrwydd a'i bod yn annhebygol iawn y byddai unrhyw reoliadau pellach a roddir ar waith yn benodol i hyrwyddo effeithlonrwydd uwch yn effeithiol. Nid bwriad ein newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth cyffredinol yw digolledu'r Post Brenhinol am ei aneffeithlonrwydd; eu bwriad yw diwallu anghenion defnyddwyr yn well, a rhoi mwy o hyblygrwydd gweithredol a masnachol i'r Post Brenhinol i ddarparu'r gwasanaeth cyffredinol a phost arall am gostau is, gan gyfrannu at sicrhau cynaliadwyedd ariannol ar gyfer y gwasanaeth cyffredinol.

Adeiladu ein hystod

8.54 O ystyried bod modelu newidiadau sylweddol i rwydwaith y Post Brenhinol yn golygu llawer o ansicrwydd, mae'n briodol modelu ystod ar gyfer ein hamcangyfrif o arbedion net. Rydym wedi gwneud hyn drwy fodelu ystodau ar gyfer gwahanol fewnbynnau allweddol. Nid yw'r rhain wedi newid ers ein Hymgynghoriad. Dyma'r mewnbynnau rydym wedi'u hamrywio i greu ein hystod:

a) **Elastigedd** – rydym wedi ystwytho ein tybiaethau elastigedd drwy luosi a rhannu â ffactor o 1.2 (h.y. byddai elastigedd rhagdybiaeth sylfaenol o 1 yn troi'n ystod o 0.83 i 1.2);
b) **Patrymau newid** – rydym wedi profi amrywiaeth o ffyrdd mae cwsmeriaid yn ymateb i newidiadau mewn prisiau drwy newid i gynnyrch arall neu adael y farchnad; ac
c) **Effeithlonrwydd** – rydym wedi cynnwys amrywiaeth o enillion effeithlonrwydd o 5%-14% (achos sylfaenol: 9%) i addasu'r sylfaen gostau ar gyfer gwneud arbedion.

Rhagweld yr arbedion hyd at 2025/26 a goblygiadau amseru

8.55 Mae ein model yn defnyddio blwyddyn sylfaen 2021/22 fel yr esbonnir yn yr Ymgynghoriad. Oherwydd y baich adnoddau y byddai diweddaru'r flwyddyn sylfaen yn ei olygu i'r Post Brenhinol ac Ofcom, nid ydym wedi ceisio diweddaru blwyddyn sylfaen y gwaith modelu ar gyfer y ddogfen hon. Fodd bynnag, mae hyn yn ei gwneud yn anoddach cymharu ein hamcangyfrifon â rhai'r Post Brenhinol, gan eu bod yn ymwneud â blynyddoedd gwahanol.

[617] [✂]; Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025 paragraff 1.9.
[618] Ofcom, 2022. Datganiad: Adolygu Rheoliadau'r Gwasanaeth Post.

Fel yr eglurwyd yn ein Hymgynghoriad, er mwyn helpu i gymharu, rydym wedi rhagamcanu ein hamcangyfrifon ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26, sy'n cyfateb i'r flwyddyn mae modelu'r Post Brenhinol wedi canolbwyntio arni. Rydym wedi diweddaru'r rhagolwg hwnnw gan roi cyfrif am yr wybodaeth ddiweddaraf.

8.56 Rydym wedi rhagamcanu'r effeithiau cost a refeniw ar wahân ac yn ystyried nifer o ffactorau allweddol rydym yn disgwyl a fyddai'n arwain at wahaniaethau mewn allbynnau pe baem yn seilio ein modelu ar flwyddyn ariannol 2025/26.

8.57 I ragamcanu costau, rydym wedi:

a) Cyfrif am newid cymysgedd a lefelau niferoedd (gan gynnwys sut gallai pobl newid sut maent yn defnyddio gwahanol gynnyrch llythyrau'r Post Brenhinol), sy'n sbarduno newidiadau yn nifer yr oriau rydym yn disgwyl y gellid eu harbed o dan fodel danfon gweithredol newydd. Mae hyn yn lleihau'r arbedion cost posibl ychydig (er enghraifft, oherwydd bod llai o lythyrau'n golygu llai o arbedion o ganlyniad i newid y ffordd gellid danfon y llythyrau hyn);
b) Cyfrif am dwf i'r gyfradd cyflogau sy'n golygu bod arbed awr yn 2025/26 yn werth mwy nag arbed awr yn 2021/22, gan gynyddu'r arbedion posibl; a
c) Tynnu arbedion costau a fyddai fel arall yn cael eu cyfrif ddwywaith, sy'n ymwneud â chynlluniau 'danfon yn ôl y fanyleb'[619] y Post Brenhinol sydd ag effaith debyg i'r arbedion rydym wedi'u modelu – dal post i gael ei ddanfon mewn bwndeli mwy pan fo'n bosibl.

8.58 Effaith gyffredinol y ffactorau hyn yw lleihau rhywfaint ar faint o arbedion cost rydym yn disgwyl y gellid eu gwneud, fel y nodir yn fanylach isod.

8.59 I ragamcanu refeniw, rydym wedi:

a) Cyfrif am newid cymysgedd a lefelau niferoedd sydd yn lleihau rhywfaint ar y sylfaen refeniw gyffredinol y mae effeithiau arni, gan fod ein newidiadau i amlder danfon yn canolbwyntio ar lythyrau a dim ond yn cael effeithiau eilaidd ar barseli; a
d) Cyfrif am godi prisiau a gyflwynwyd ers 2021/22, sy'n lleihau effaith codi prisiau Dosbarth Cyntaf wrth i'r cynnydd mewn prisiau ddechrau o sylfaen uwch ac felly mae'n gynnydd llai yn gyfrannol. Mae hyn yn lleihau'r enillion refeniw posibl o godi prisiau gan fod y rhain eisoes wedi cael eu gwireddu.

8.60 Effaith gyffredinol y ffactorau hyn yw lleihau refeniw wedi'i fodelu ym mlwyddyn ariannol 2025/26 o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen (2021/22) ar ôl gwneud ein newidiadau i amlder y ddarpariaeth, yn enwedig ar ben uchaf ein hystod lle mae'r effeithiau sy'n gysylltiedig â phrisiau fwyaf, fel sy'n cael ei egluro ymhellach isod.

8.61 Er mwyn osgoi amheuaeth, er bod y ffigurau yn ein modelu wedi cael eu rhagamcanu ymlaen i flwyddyn ariannol 2025/26, nid yw hyn yn golygu ein bod yn disgwyl i raddfa'r newidiadau hyn mewn costau a refeniw fod yn gyraeddadwy ym mlwyddyn ariannol 2025/26. Yn hytrach, fel yr eglurwyd, rydym o'r farn y bydd yn cymryd rhywfaint o amser i'r

[619] Nod y mentrau hyn yw lleihau sawl gwaith bydd un llythyr yn cael ei ddanfon ar ei ben ei hun i bwynt danfon drwy ddal post yn ôl sy'n barod i'w ddanfon yn gynharach nag y gallai fod tra'n aros o fewn y fanyleb (e.e. gellid cadw llythyr Ail Ddosbarth a fyddai'n cael ei ddanfon ar D+2 yn ôl i D+3). Drwy ddal post yn ôl fel hyn, mae cyfran o'r llythyrau hyn yn cael eu paru â llythyr arall sy'n mynd i'r un cyfeiriad, ac felly bydd post yn cael ei ddanfon mewn un ymweliad yn hytrach na dau ymweliad dros ddau ddiwrnod, gan arbed costau.

Post Brenhinol gyflwyno'r newidiadau a gwireddu eu manteision. Rydym wedi rhagamcanu ein modelu ymlaen at flwyddyn ariannol 2025/26 er mwyn rhoi cymhariaeth well â modelu'r Post Brenhinol o'r manteision net ac i ystyried rhai deinameg sydd wedi digwydd ers blwyddyn ariannol 2021/22, sef y flwyddyn y mae gennym ffigurau manwl ar ei chyfer i lywio'r gwaith modelu o'r gwaelod i fyny.

8.62 Byddem yn disgwyl i'n newidiadau gymryd dros flwyddyn i'w gweithredu cyn y byddai manteision llawn diwygio'n cael eu gwireddu, gyda rhai manteision yn cael eu gwireddu'n gyflymach a'r gweddill yn cael eu cyflwyno'n raddol dros amser. Byddai'r Post Brenhinol wedyn yn parhau i elwa o sylfaen gostau is a gyflawnir drwy ddiwygio.

8.63 Mae amcangyfrifon y Post Brenhinol a'n hamcangyfrifon wedi'u modelu o broffidioldeb yn weithrediadau 'cyflwr terfynol', gan gymharu costau a refeniw gyda'n diwygiadau a hebddynt. Nid ydynt yn rhoi cyfrif am gostau gweithredu'r newidiadau nac am amseriad pryd y gellid gwireddu arbedion llawn y diwygio. Mae'r ffactorau hyn yn gysylltiedig â'i gilydd - byddai rhoi model gweithredu newydd ar waith yn gyflymach yn arwain at wireddu arbedion cost yn gyflymach, ond gallai olygu costau pontio uwch ar ffurf diswyddo gwirfoddol, costau diwygio llwybrau neu gostau gweinyddol eraill.

Ein hamcangyfrif o arbedion net o newidiadau i'r gwasanaeth cyffredinol

8.64 Gan ddefnyddio ein model diweddaraf a rhagamcanu arbedion, rydym wedi amcangyfrif yr arbedion posibl y gallai'r Post Brenhinol eu gwneud o'i gymharu â sefyllfa wrthffeithiol lle nad yw'r gwasanaeth cyffredinol yn newid. Mae ein hamcangyfrif o arbedion net ein penderfyniadau wedi'u nodi yn Nhabl 8.2 isod.

Tabl 8.2: Amcangyfrif Ofcom o arbedion net 2025/26, £ miliynau (m)

	Ystod (£m)
Arbedion ariannol	£375m i £450m
Colledion refeniw	-£125m i -£25m
Arbedion net	£250m i £425m

Ffynhonnell: Modelu Ofcom. Sylwer - mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r £25m agosaf.

Cymharu ein hamcangyfrif ni ag amcangyfrif y Post Brenhinol

8.65 Fel yr eglurwyd yn ein Hymgynghoriad, mae nifer o wahaniaethau mawr yn y dulliau cyffredinol y mae'r Post Brenhinol ac Ofcom wedi'u mabwysiadu o ran modelu. Mae ein model ni yn fodel o'r gwaelod i fyny, gan ddefnyddio blwyddyn sylfaen 2021/22, ac mae'r Post Brenhinol o'r brig i lawr i raddau helaeth ac yn seiliedig ar ddata blwyddyn sylfaen mwy diweddar. O ystyried y gwahaniaethau yn y dull modelu, ni fyddem yn disgwyl i'n hamcangyfrifon fod yr un fath.

8.66 Er ein bod wedi rhagamcanu ein hallbynnau i'w cyflwyno ar gyfer yr un flwyddyn allbwn ag y mae'r Post Brenhinol wedi'i dewis, mae rhai gwahaniaethau mawr mewn allbynnau i'w disgwyl o ystyried y gwahaniaethau yn y dull gweithredu. Rydym yn nodi bod amcangyfrif o arbedion net y Post Brenhinol tuag at ben isaf ein hystod.

8.67 Nid ydym yn argyhoeddedig y byddai effeithiau refeniw mor eithafol ag y mae'r Post Brenhinol wedi'i fodelu. Yn benodol, rydym yn rhagweld y byddai mwy o bost yn defnyddio cynnyrch rhatach yn hytrach na gadael y farchnad yn gyfan gwbl ac felly byddai'n dal i gynhyrchu refeniw i'r Post Brenhinol. Mae hyn yn gwneud i ni ddisgwyl refeniw gwell yn gyffredinol yn dilyn newid yng nghwmpas y gwasanaeth cyffredinol na'r Post Brenhinol.

8.68 Mae ein barn am gostau (yn hytrach na refeniw) yn cyd-fynd yn agosach â'r Post Brenhinol ac nid ydym wedi gweld unrhyw wahaniaethau mawr rhwng ei ddisgwyliadau o ran symudiadau costau â'r rheini sy'n cael eu hamcangyfrif gan ein modelu costau wedi'i ddiweddaru.

8.69 Yn gyffredinol, o ystyried yr ansicrwydd ynghylch unrhyw refeniw a ragwelir yn dilyn newid mawr mewn gweithrediadau a strategaeth brisio, rydym o'r farn bod ein hamcangyfrifon ni a rhai'r Post Brenhinol yn gredadwy ac yn cyd-fynd yn fras â'i gilydd.

8.70 Rydym yn credu bod yr arbedion posibl o'n diwygiadau yn sylweddol ac, os cânt eu gwireddu, y byddent yn gwella cynaliadwyedd ariannol darparu'r gwasanaeth cyffredinol yn sylweddol.

Ansawdd gwasanaeth

8.71 Er bod cryn ansicrwydd ynghylch maint y costau cynyddrannol sy'n gysylltiedig â gwella ansawdd, mae'r Post Brenhinol wedi darparu nifer o amcangyfrifon dangosol lefel uchel sydd wedi hysbysu ein dealltwriaeth. Fel y nodir yn Adran 6, rydym yn diwygio'r targed Dosbarth Cyntaf cenedlaethol D+1 i 90%. Yn yr adran honno rydym hefyd yn nodi amcangyfrif y Post Brenhinol o'r costau sy'n gysylltiedig â'r gwahanol lefelau o dargedau ansawdd gwasanaeth (gweler paragraff 6.40). Nid ydym wedi ystyried y newid hwn mewn targedau ansawdd gwasanaeth yn ein model arbedion net, sy'n canolbwyntio ar yr arbedion net sy'n deillio o'r newidiadau gweithredol sy'n cael eu datgloi gan newidiadau i amlder danfon llythyrau Ail Ddosbarth. Mae arbedion cost sy'n deillio o leihau'r prif dargedau ansawdd gwasanaeth ar wahân i'r amcangyfrifon arbedion net a nodir uchod.

8.72 Mae'r Post Brenhinol wedi amcangyfrif y byddai'n costio £120m i £180m y flwyddyn i wella o 90% i 93% o ran y post Dosbarth Cyntaf sy'n cael ei ddanfon o fewn D+1. Byddai gostwng y targed cenedlaethol Dosbarth Cyntaf yn arbed y costau hynny i'r Post Brenhinol. Fel sy'n cael ei drafod yn Adran 6, ar sail y dystiolaeth, rydym nawr o'r farn, er y byddai cynigion ein Hymgynghoriad ar gyfer targedau post hwyr wedi arwain at risg o ran rhagor o fuddsoddiad, na ddylai ein targedau terfynol fynnu buddsoddiad rhagweithiol y tu hwnt i'r hyn sy'n angenrheidiol i gyflawni'r prif dargedau, yn absenoldeb materion dibynadwyedd yn y rhwydwaith. Nodwn, fodd bynnag, fod y Post Brenhinol wedi egluro nad yw wedi cynnal unrhyw amcangyfrifon o gostau sy'n gysylltiedig â'n lefelau targed terfynol ac mae wedi pwysleisio nad yw amcangyfrif costau cynyddrannol yn wyddor fanwl.

8.73 Fodd bynnag, fel y trafodwyd yn Adran 6, ar hyn o bryd nid yw perfformiad y Post Brenhinol yn cyrraedd y targedau presennol, gan gynnwys y rheini ar gyfer Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth. Felly, mae'r arbedion hyn eisoes wedi cael eu gwireddu yn y dadansoddiad ariannol a gyflwynir yn Adran 4 ac, felly, ni ddylid eu hystyried fel arbedion cost ychwanegol, o'u cymharu â'r lefelau cost presennol, y gallai'r Post Brenhinol eu cyflawni drwy'r newidiadau rydym yn eu gwneud.

8.74 Mae’r Post Brenhinol wedi amcangyfrif bod angen buddsoddi £20-30m [✂] i wella o 77% i 82.5%, a buddsoddiad arall o £60-80m y flwyddyn i wella’r perfformiad hwnnw i 90%.[620]

Yr effaith bosibl ar gynaliadwyedd ariannol yr USO

8.75 Un o’n hamcanion polisi allweddol yw sicrhau bod y fframwaith rheoleiddio sy’n sail i’r USO yn cefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol. Fodd bynnag, ni all fframwaith rheoleiddio ar ei ben ei hun warantu ei gynaliadwyedd ariannol. Mae llawer o elfennau angenrheidiol cynaliadwyedd ariannol y tu allan i’r maes reoleiddio, gan gynnwys perfformiad masnachol cynnyrch nad yw'n USO sy'n defnyddio'r un rhwydwaith danfon â'r gwasanaeth cyffredinol, y newidiadau yn y galw am lythyrau a gwasanaethau danfon parseli dros amser, ac effeithlonrwydd y rhwydwaith.

8.76 Fel y nodir uchod, rydym yn amcangyfrif y byddai ein newidiadau'n caniatáu i'r Post Brenhinol wireddu arbedion net yn 2025/26 o £250m i £425m, ac amcangyfrif y Post Brenhinol yw hyd at £300m. Byddai cyflawni’r arbedion net hyn yn arwain at gynnydd sylweddol yng nghyfradd enillion y Busnes a Gofnodwyd[621], h.y. ei EBIT. O’i gymharu ag enillion 2023/24 y Post Brenhinol, gallai ein cynigion gynyddu’r EBIT tua 4%-6% yn ôl ein hamcangyfrif neu hyd at tua 4% yn ôl amcangyfrif y Post Brenhinol.[622]

8.77 Fel sy'n cael ei egluro yn Adran 4, rydym o'r farn bod yr ystod EBIT 5-10% yn gyson â chyfradd enillion masnachol, a gallai'r diwygiadau gyfrannu'n sylweddol at adfer yr EBIT i'r ystod hon ac at gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol.[623] Er mwyn rhoi’r amcangyfrifon hyn yng nghyd-destun EBIT y Busnes a Gofnodwyd, rydym yn dangos yr effeithiau hyn yn unol ag EBIT 2023/24 yn Ffigur 8.1 isod. Nodwn nad oedd y Post Brenhinol wedi cyrraedd ei dargedau ansawdd gwasanaeth yn y flwyddyn honno ac, felly, nid yw'r costau ychwanegol y byddai wedi'u hwynebu pe bai wedi cyrraedd y targedau hyn wedi cael eu cynnwys yn y cyflwyniad hwn o ffigurau EBIT.

[620] Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o’r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 5 Rhagfyr 2024.
[621] Rydym yn nodi pam mai'r Busnes a Gofnodwyd yw'r endid priodol i'w ystyried ym mharagraff 4.2 Adran 4.
[622] O'i gymharu ag enillion 2024/25, gallai ein cynigion gynyddu'r EBIT [✂], neu hyd at [✂] yn ôl amcangyfrif y Post Brenhinol.
[623] Er enghraifft, gallai graddfa ein hamcangyfrifon o’r arbedion net wneud yn iawn yn rhannol neu’n gyfan gwbl am golled EBIT y Post Brenhinol sef -6.3% ym mlynyddoedd ariannol 2022/23 a 2023/24. Mae hyn cyn ystyried y costau pontio a fyddai, yn y tymor byr, yn lleihau effaith y diwygio ar EBIT y Post Brenhinol.

Ffigur 8.1: Amcangyfrif o effaith y cynigion ar EBIT y Post Brenhinol



	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19*	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24*
EBIT Margin	3.9%	5.6%	5.0%	4.6%	4.4%	1.6%	0.4%	2.7%	3.6%	-6.3%	-6.3%

*Ffynhonnell: Datganiadau Ariannol Rheoleiddiol y Post Brenhinol, datganiadau heb eu harchwilio gan y Post Brenhinol a dadansoddiad Ofcom. *Ffigurau wedi'u haddasu i 52-wythnos*

8.78 Mae ein dadansoddiad o ragolygon EBIT y Busnes a Gofnodwyd yn awgrymu, er y byddai arbedion posibl diwygio'r gwasanaeth cyffredinol yn cael effaith sylweddol, mae'n annhebygol o fod yn ddigon, ynddo'i hun, i sicrhau bod yr EBIT yn dychwelyd i'r ystod 5-10% a chynaliadwyedd ariannol tymor hir y gwasanaeth cyffredinol. Bydd angen i'r Post Brenhinol hefyd sicrhau twf sylweddol mewn parseli, rheoli'r gostyngiad yn nifer y llythyrau'n effeithiol, a gwella ei effeithlonrwydd drwy addasu ei rwydwaith i newidiadau o ran swmp a llwyth gwaith.

Heriau cyflawni'r arbedion disgwyliedig

8.79 Ymatebodd nifer o randdeiliaid i'n Hymgynghoriad gan ddadlau y byddai'r diwygiadau'n ansefydlogi yn hytrach na gwella cynaliadwyedd ariannol y Busnes a Gofnodwyd.[624] Ar ben hynny, gofynnodd CCP-ACOD beth fyddai'n digwydd pe bai'r newidiadau'n cael eu rhoi ar waith ac nad oedd EBIT yn cymeradwyo, gan ystyried a fyddai rhagor o newidiadau'n cael eu cynnig gan y Post Brenhinol.[625]

8.80 Mae ein hamcangyfrif ni ac amcangyfrif y Post Brenhinol o arbedion net diwygio'r gwasanaeth cyffredinol yn tybio bod potensial llawn y diwygio'n cael ei wireddu. Rydym yn cydnabod, yn ymarferol, bydd maint yr arbedion net gwirioneddol y gellir eu gwireddu yn dibynnu ar lwyddiant y Post Brenhinol o ran rhoi'r newidiadau gweithredol angenrheidiol ar waith, gan gynnwys cyflwyno'r model danon newydd bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Bydd gwireddu'r arbedion net sy'n cael eu datgloi gan ein newidiadau, a gwneud hynny'n gyflym, yn her weithredol fawr iawn, a fydd yn golygu newidiadau i bob agwedd ar biblinell danfon y Post Brenhinol. Mae'n anochel y bydd yn anodd gwneud newidiadau mawr i systemau cymhleth o'r fath a bydd yn cymryd amser i'r newidiadau ymsefydlu ac i gael trefn ar y manylion.

[624] Ymateb Abacus Cards i Ymgynghoriad 2025; ymateb Card Factory i Ymgynghoriad 2025; Ymateb Hallmark i Ymgynghoriad 2025; Ymateb Paper Salad i Ymgynghoriad 2025; Ymateb Paper Tiger i Ymgynghoriad 2025.
[625] Ymateb CCP-ACOD i Ymgynghoriad 2025, t.8.

8.81 Bydd yr arbedion net gwirioneddol hefyd yn dibynnu ar ymatebion cwsmeriaid y Post Brenhinol i'r newidiadau yn lefelau'r gwasanaeth (e.e. peidio â danfon llythyrau Ail Ddosbarth ar ddydd Sadwrn mwyach a bod mynediad yn cael ei ddarparu ar D+2, D+3 a D+5), a hefyd ar ymatebion cwsmeriaid i brisiau newydd (e.e. unrhyw gynnydd mewn llythyrau Dosbarth Cyntaf a mynediad D+2).

8.82 O ystyried yr heriau hyn, rydym wedi ceisio rhoi cymaint o hyblygrwydd â phosibl i'r Post Brenhinol yn y diwygiadau hyn, gan sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'n dyletswyddau eraill tuag at anghenion defnyddwyr a fforddiadwyedd.

Casgliad

8.83 Fel sy'n cael ei egluro yn Adran 4, mae perfformiad ariannol y Post Brenhinol dros y blynyddoedd diwethaf yn golygu bod risgiau sylweddol i gynaliadwyedd ariannol yr USO. Bydd y diwygiadau hyn yn cefnogi cynaliadwyedd yr USO, oherwydd:

a) Byddai'r diwygiadau'n rhoi'r hyblygrwydd gweithredol a masnachol pellach sydd ei angen ar y Post Brenhinol i drawsnewid ei rwydwaith a'i bortffolio o gynnyrch ac i fynd i'r afael yn fwy effeithiol â'r heriau mae'n eu hwynebu;
b) Mae ein hamcangyfrif o £250m i £425m (sy'n cyfateb i gynyddu'r EBIT 4%-6%, o'i gymharu ag enillion 2023/24) ac amcangyfrif y Post Brenhinol o hyd at £300m (sy'n cyfateb i gynyddu'r EBIT hyd at 4%) ar gyfer arbedion net posibl newidiadau i'r strwythur danfon yn cynrychioli cynnydd sylweddol yng nghyfradd elw'r rhwydwaith Busnes a Gofnodwyd; ac
c) Mae amcangyfrif y Post Brenhinol o £120m i £180m (sy'n cyfateb i ostyngiad 2023/24 yr EBIT o 1.5%-2.5%) i fynd o ansawdd gwasanaeth 90% Dosbarth Cyntaf i'r targedau presennol yn cyflwyno rhwystr ariannol sy'n cael ei ddileu gan ein newidiadau.

8.84 Fodd bynnag, er ein bod yn credu bod y diwygiadau yn angenrheidiol i gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol, mae ein dadansoddiad yn awgrymu nad yw'n ddigon ar ei ben ei hun. Bydd cynaliadwyedd ariannol tymor hir y gwasanaeth cyffredinol hefyd yn dibynnu ar y Post Brenhinol yn gwireddu arbedion net llawn posibl y diwygiadau, gan sicrhau twf sylweddol mewn parseli, rheoli'r gostyngiad yn nifer y llythyrau yn effeithiol, a gwella ei effeithlonrwydd drwy addasu ei rwydwaith i'r newidiadau o ran swmp a llwyth gwaith.

9. Y camau nesaf a diweddariad ar waith arall

Pryd y dylai'r model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos ddod i rym

9.1 Roeddem yn cynnig yn ein Hymgynghoriad y dylai'r newidiadau i'n rheoliadau ynghylch gwasanaethau danfon a mynediad Ail Ddosbarth ddod i rym ar unwaith.[626] Roedd hyn oherwydd bod angen diwygio ar frys, gan ganiatáu i'r Post Brenhinol ddechrau'r broses o weithredu'n gyflym a sicrhau rhywfaint o'r arbedion cost yn 2025/26.

9.2 Mae'r Post Brenhinol yn amcangyfrif y bydd gweithredu newidiadau gweithredol i ganiatáu iddo weithredu'r model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos ar draws ei rwydwaith yn cymryd tua 12-18 mis.[627]

Ymateb i'r ymgynghoriad

9.3 Ailadroddodd y Post Brenhinol na all ddechrau'r broses weithredu yn rhy agos at gyfnod y Nadolig. Mae'r Post Brenhinol wedi datgan bod ei gynlluniau presennol yn tybio y gall y gwaith o ddiwygio'r USO ddechrau ar 1 Gorffennaf 2025, a fyddai'n caniatáu iddo ddechrau gwireddu rhai manteision cyn y byddai angen iddo oedi'r broses yn ystod cyfnod prysur y Nadolig. Byddai wedyn yn parhau â'r broses weithredu yn y flwyddyn newydd. Yn ymateb y Post Brenhinol, dywedodd, pe bai penderfyniad Ofcom yn cael ei ohirio tan ar ôl mis Gorffennaf 2025, ei bod yn debygol iawn na fyddai'n dechrau cael ei roi ar waith tan fis Ionawr 2026.[628]

9.4 Hefyd, rhoddodd y Post Brenhinol ragor o wybodaeth i ni am ei farn ar ddyddiad dechrau rheoleiddio, gan gredu y dylai hyn fod ar unwaith yn unol â'n hymgynghoriad. Tynnodd sylw at y ffaith ei fod wedi rhoi gwybod i'r farchnad am y newidiadau hyn ym mis Rhagfyr 2024 er mwyn rhoi digon o amser i gwmnïau mynediad a defnyddwyr mawr addasu. Roedd hefyd yn nodi, ar sail trafodaethau â chwsmeriaid, ei fod yn credu bod y gadwyn gyflenwi yn barod ar gyfer y newidiadau. Nododd y Post Brenhinol y gallai unrhyw oedi gael effaith ddifrifol ar ei allu i weithredu'r model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, tra byddai effaith gweithredu ar unwaith ar y farchnad yn fach.[629]

9.5 I'r gwrthwyneb, cyflwynodd nifer o ymatebwyr sylwadau i ni am bwysigrwydd cael dyddiad dechrau rheoleiddio hysbys ar gyfer y drefn newydd, am amrywiaeth o resymau.[630]

---

[626] Amod 1 y DUSP a'r Amod USPA.
[627] Ymateb y Post Brenhinol i CFI 2024, t.45.
[628] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, t.14.
[629] Y Post Brenhinol. 9 Mehefin 2025. Llythyr at Ofcom ar weithredu'r drefn mynediad yn y dyfodol, tt.1-7.
[630] Ymateb MCF 2 o 2 i Ymgynghoriad 2025, t.3, ymateb MUA i Ymgynghoriad 2025, t.9, Ymateb The Delivery Group i Ymgynghoriad 2025, tt. 4-5; Ymateb y Bartneriaeth Bostio Strategol i Ymgynghoriad 2025, t.6; Ymateb

9.6 Nododd MCF, fel sy'n cael ei egluro yn Adran 7, fod y Post Brenhinol yn bwriadu symud cwsmeriaid yn awtomatig o D+2 i D+3 yn syth ar ôl diwygio. Dywedodd y byddai hyn yn creu anhawster i gwsmeriaid mynediad sydd ar hyn o bryd ar fynediad D+2 ac sydd eisiau aros ar y gwasanaeth hwnnw ar ôl diwygio, gan nad yw defnyddwyr post mawr yn gwybod pryd y bydd Ofcom yn cyhoeddi ei benderfyniadau terfynol a beth fydd y penderfyniadau hynny.[631] Felly, nid yw defnyddwyr wedi gallu cynllunio sut y gallent ddefnyddio gwasanaethau mynediad D+2 wrth symud ymlaen. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd defnyddwyr yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau mynediad D+2 os ydynt yn dal i gael eu rheoleiddio, oherwydd mae hynny'n golygu y byddant wedi'u heithrio rhag TAW ac yn unol â'r sefyllfa bresennol yn destun rheolaeth gwasgu elw a gofyniad i ddarparu yn unol â thelerau, amodau a thaliadau teg a rhesymol.[632]

9.7 Dywedodd MCF, heb wybodaeth ymlaen llaw am ein penderfyniadau ac yn wyneb dechrau'r drefn reoleiddio newydd ar unwaith, fod gweithredwyr mynediad a defnyddwyr post mawr wedi bod yn amharod, cyn ein penderfyniad, i fuddsoddi yn y newidiadau y mae angen eu gwneud i ddefnyddio gwasanaethau mynediad D+2. Mae newidiadau o'r fath yn cynnwys diweddariadau meddalwedd, newid sut mae post yn cael ei gyflwyno ac adolygu prosesau mewnol ar draws y gadwyn gyflenwi i ddarparu ar gyfer safonau gwasanaeth newydd.[633] Byddai buddsoddi yn yr ochr weithredol hon o fynediad D+2 yn y dyfodol wedi arwain at risg o gostau gwastraffus pe baem yn penderfynu peidio â rheoleiddio D+2, a bod defnyddwyr yn penderfynu nad oeddent eisiau defnyddio'r gwasanaeth.

9.8 Felly, awgrymwyd na ddylai dyddiad dechrau dod i rym y drefn reoleiddio newydd fod ar ddiwrnod ein penderfyniad ond yn hytrach yn ddyddiad yn y dyfodol. Byddai hyn yn caniatáu i ddefnyddwyr mawr ystyried eu cymysgedd bostio a'u defnydd o wahanol wasanaethau yn y dyfodol gyda sicrwydd ynghylch penderfyniad Ofcom a phris gwasanaethau.

9.9 Roedd ymatebwyr eraill hefyd yn teimlo y byddai unrhyw newid i ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos yn ddryslyd i ddefnyddwyr ac roeddent am gael rhagor o wybodaeth am sut bydd newidiadau'n cael eu cyfleu i ddefnyddwyr, gan gynnwys yr amrywiaeth o sianeli cyfathrebu.[634] Teimlai Cyngor ar Bopeth a Swyddfa'r Post y dylid cael digon o amser i ganiatáu i ddefnyddwyr ddeall sut y bydd y newidiadau'n effeithio arnynt.[635] Roedd Tesco Bank yn teimlo y bydd dealltwriaeth defnyddwyr o'r newidiadau hyn yn bwysig ac nid oedd yn glir o'r cynigion sut bydd defnyddwyr yn cael gwybod am unrhyw newidiadau a'u heffaith bosibl, os cânt eu rhoi ar waith.[636]

Quadient i Ymgynghoriad 2025, t.7; Ymateb Citipost Mail i Ymgynghoriad 2025, t.5; ymateb BBS i Ymgynghoriad 2025, t.3; Ymateb Whistl i Ymgynghoriad 2025, tt. 4-5; Ymateb CFH Docmail i Ymgynghoriad 2025, t.6.

[631] Ymateb MCF 2 o 2 i Ymgynghoriad 2025, tt.2-3.

[632] Ymateb MCF 2 o 2 i Ymgynghoriad 2025, t.2.

[633] Ymateb MCF 2 o 2 i Ymgynghoriad 2025, t.2; Ymateb BBS i Ymgynghoriad 2025, t.3; Ymateb The Delivery Group i Ymgynghoriad 2025, tt. 4-5; Ymateb Whistl i Ymgynghoriad 2025, t.4; Ymateb CFH Docmail i Ymgynghoriad 2025, t.6.

[634] Ymateb CCP-ACOD i Ymgynghoriad 2025, t.2 ac ymateb Consumer Scotland i Ymgynghoriad 2025, tt.50-51.

[635] Ymateb Swyddfa'r Post i Ymgynghoriad 2025, t.13; ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, t.34;

[636] Ymateb Tesco Bank i Ymgynghoriad 2025, t.1.

9.10 Mae'r Post Brenhinol hefyd wedi ymgynghori ar newidiadau i Gynllun Post y DU ac wedi cyhoeddi penderfyniad[637] ar hyn ond roedd rhai ymatebwyr yn teimlo nad oedd digon o amser wedi cael ei neilltuo i'r farchnad ymateb i ganlyniad ein penderfyniad, ac i gyfleu newidiadau i wasanaethau post i ddefnyddwyr post gyda mewnbwn statudol.[638]

Ein penderfyniad

9.11 Rydym wedi ystyried yn ofalus y mewnbwn gan randdeiliaid, ac ar y cyfan rydym o'r farn na ddylai ein gwaith rheoleiddio ddod i rym ar unwaith ar ôl cyhoeddi ein Datganiad. Yn hytrach, rydym o'r farn y dylid caniatáu cyfnod byr cyn i'r newidiadau ddod i rym. Bydd hyn yn rhoi amser i randdeiliaid addasu i'r newidiadau, heb achosi gormod o oedi cyn rhoi model danfon newydd ar waith. Bydd hyn yn lleihau'r risg o darfu, fel anfonwyr yn gweld bod angen iddynt anfon eu post ar y gwasanaeth mynediad D+3 pan fyddai'n well ganddynt ddefnyddio'r gwasanaeth mynediad D+2. Bydd hefyd yn caniatáu amser i'r Post Brenhinol barhau â'r broses bwysig o roi gwybod i ddefnyddwyr am y newidiadau. Fe wnaethom hefyd ysgrifennu at y Post Brenhinol a'i gwneud yn glir bod unrhyw ohebiaeth yn y dyfodol â rhanddeiliaid ynghylch y cynigion yn amodol ar benderfyniadau Ofcom.[639]

9.12 Felly, rydym wedi penderfynu y dylai Gorchymyn Gwasanaethau Post (Gwasanaeth Post Cyffredinol) (Diwygiad) 2025 ddod i rym ar ddydd Llun 28 Gorffennaf 2025, ac y dylai'r addasiadau i Amod 1 DUSP ac yna Amod USPA ddod i rym ar yr un dyddiad.[640] Penderfyniad y Post Brenhinol wedyn fydd pryd i ddechrau rhoi unrhyw newidiadau i'w weithrediadau ar waith.

9.13 Rydym o'r farn bod y dyddiad hwn yn taro cydbwysedd priodol rhwng yr angen i randdeiliaid y diwydiant addasu i'n penderfyniad a'r amserlen a ddymunir gan y Post Brenhinol i ddechrau rhoi'r diwygiadau ar waith. Dylai'r dyddiad hwn alluogi'r Post Brenhinol i ddechrau gwireddu manteision diwygio cyn cyfnod y Nadolig, gan ei fod yn golygu y bydd y newidiadau'n dod i rym cyn diwedd mis Gorffennaf 2025.[641]

9.14 Rydym yn disgwyl i'r Post Brenhinol gyfleu newidiadau i wasanaethau'n glir i ddefnyddwyr, gan gynnwys unrhyw ddiweddariadau pellach i delerau ac amodau, wrth iddo addasu ei rwydwaith yn unol â'r USO diwygiedig. Mae Adran 5 yn rhoi rhagor o wybodaeth am hyn.

---

[637] Ymgynghoriadau a hysbysiadau - Dim ond ar ôl i ni gyhoeddi ein penderfyniad y bydd newidiadau'n rhoi'r Cynllun Post newydd ar waith. Tan hynny, mae'r fframwaith rheoleiddio presennol yn dal ar waith a bydd Cynllun presennol y Post Brenhinol yn dal mewn grym.

[638] Ymateb BBS i Ymgynghoriad 2025, t.3, ymateb CFH Docmail i Ymgynghoriad 2025, t.6, ymateb CCNI i Ymgynghoriad 2025, t.31, ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, t.34, ac ymateb Consumer Scotland i Ymgynghoriad 2025, t.15.

[639] Llythyr i'r Post Brenhinol ynghylch amlder danfon Ail Ddosbarth. 3 Mehefin 2025.

[640] Yr eithriad yw gweithredu'r targedau ansawdd gwasanaeth newydd, a fydd yn dod i rym o 1 Ebrill 2026 ymlaen. Gweler paragraffau 6.184 i 6.186 Adran 6 a'r hysbysiad statudol yn Atodiad A7.

[641] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, t.14.

Trefniadau newydd ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch y gwasanaeth cyffredinol

9.15 Mae'r drafodaeth am ddyfodol y gwasanaeth cyffredinol dros y blynyddoedd diwethaf wedi dangos y ffyrdd amrywiol y mae'n parhau i chwarae rhan bwysig ym mywydau pobl. Wrth i'r gwasanaeth ddatblygu dros amser, mae'n hanfodol bod cyfathrebu clir ac effeithiol rhwng y Post Brenhinol a defnyddwyr y gwasanaeth cyffredinol fel bod anghenion defnyddwyr, a'r heriau o'u diwallu, yn cael eu deall yn iawn gan bawb, gan arwain at fwy o hyder yn y gwasanaeth. Yn y tymor byrrach, bydd angen canolbwyntio ar broses y Post Brenhinol o weithredu'r newidiadau i'r gwasanaeth cyffredinol sy'n cael eu galluogi gan y penderfyniadau rydym wedi'u nodi yn y Datganiad hwn.

9.16 Felly, ochr yn ochr â'n penderfyniadau yn y ddogfen hon, rydym hefyd yn gofyn i'r Post Brenhinol sefydlu fforwm addas iddo ymgysylltu'n gadarnhaol â rhanddeiliaid dros y ddwy flynedd nesaf. Dylai ddarparu mecanwaith i'r Post Brenhinol glywed gan randdeiliaid am brofiadau a safbwyntiau pobl a busnesau fel defnyddwyr y gwasanaeth cyffredinol, yn ogystal â chaniatáu i'r Post Brenhinol drafod cynnydd y model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Mater i'r Post Brenhinol fydd penderfynu ar aelodaeth, ond o ystyried y bydd y ffocws ar y gwasanaeth cyffredinol, rydym yn disgwyl y byddai'r grŵp hwn yn dod o blith y cyrff defnyddwyr statudol a grwpiau'r diwydiant sydd wedi cymryd rhan yn ein prosesau ymgynghori i sicrhau ei fod yn cynnwys amrywiaeth eang o fuddiannau ledled y DU.

9.17 Rydym yn disgwyl i'r Post Brenhinol roi gwybod i Ofcom sut bydd yn rhoi fforwm o'r fath ar waith erbyn 29 Awst 2025, gyda'r bwriad o gynnal y cyfarfod cyntaf yn yr hydref.

Cynlluniau peilot y Post Brenhinol

9.18 Mae'r Post Brenhinol wedi cynnal rhaglen beilot ers mis Chwefror 2025, sydd wedi golygu treialu ei fodel gweithredu arfaethedig mewn cymysgedd o leoliadau yn y DU. Mae'r Post Brenhinol wedi dweud bod angen cynnal y cynlluniau peilot er mwyn gallu rhoi unrhyw newidiadau rheoleiddio ar waith cyn gynted â phosibl ar ôl i ni gyhoeddi ein Datganiad, os byddwn yn bwrw ymlaen â'n cynigion. Yn ein Hymgynghoriad, roeddem wedi datgan, o ystyried yr effeithiau cymharol fach ar ddefnyddwyr a'r manteision posibl y gellid eu gwireddu drwy hwyluso gweithredu cyflymach pe byddem yn penderfynu bwrw ymlaen â'n cynigion, y byddem yn annhebygol o gymryd camau gorfodi pe bai'n bwrw ymlaen â chynlluniau peilot yn y ffordd a gynigiwyd. Roeddem wedi dweud y byddem yn monitro effeithiau unrhyw gynlluniau peilot ar ddefnyddwyr a, petai'n ymddangos bod effaith sylweddol ar ddefnyddwyr, efallai y byddwn yn ystyried dull gweithredu gwahanol.[642]

9.19 Rydym wedi monitro'r gwaith o gyflwyno'r cynlluniau peilot hyn drwy ein rhaglen fonitro, yn benodol i ganfod unrhyw effeithiau niweidiol ar ddefnyddwyr. Roedd hyn yn cynnwys diweddariadau misol ar statws y safleoedd peilot a oedd yn cael eu defnyddio. Wrth gyflwyno'r gyfran gyntaf o leoliadau peilot, darparodd y Post Brenhinol ddiweddariadau ar y gwaith paratoi technegol a'r effaith gychwynnol ar staff a chwsmeriaid, gan gynnwys

[642] Ofcom, 2025. Ymgynghoriad: Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post t.163.

anfonwyr post swmp. Ar ôl i nifer o leoliadau peilot ddod yn fyw, darparodd y Post Brenhinol adroddiadau misol yn erbyn set o ddangosyddion perfformiad allweddol. Rhannodd y Post Brenhinol ei ganfyddiadau allweddol ar feysydd fel prosesu, dosbarthu a phrofiad y cwsmer. Nid yw ein gwaith monitro wedi dangos effeithiau sylweddol ar ddefnyddwyr mewn lleoliadau peilot, ac yng ngoleuni hynny rydym wedi cynnal y dull gweithredu roeddem wedi'i egluro yn yr Ymgynghoriad. Mae'r cynlluniau peilot wedi rhoi cyfle i'r Post Brenhinol ddeall sut gellir rhoi newidiadau ar waith yn weithredol ar draws ei rwydwaith, ac rydym yn disgwyl i'w ganfyddiadau gael eu cynnwys yn y broses weithredu.

Y diweddaraf am waith pellach sydd ar y gweill

9.20 Yn ein Hymgynghoriad, rydym yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ein camau nesaf a gwaith arall, a oedd yn cynnwys ein cynllun ar gyfer diwygio rheoleiddio'r gwasanaeth post ymhellach y tu hwnt i'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad. Rydym yn rhoi diweddariad pellach ar ein rhaglen waith isod.

Monitro gweithrediad y model danfon newydd

9.21 Mae gennym raglen waith monitro post a byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad nesaf yn Ch3 2025/26. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn parhau i fonitro perfformiad ansawdd gwasanaeth y Post Brenhinol wrth iddo geisio adfer ei berfformiad tuag at y targedau rheoleiddio newydd a'i berfformiad ariannol.

9.22 Byddwn yn dechrau gwaith newydd penodol i fonitro sut mae'r Post Brenhinol yn rhoi'r newidiadau i'r USO a gwasanaethau mynediad ar waith dros y ddwy flynedd nesaf. Byddwn yn gweithio gyda'r Post Brenhinol i nodi unrhyw broblemau o ran rhoi newidiadau ar waith, i asesu a yw'r arbedion cost wedi cael eu gwireddu drwy drawsnewid ei rwydwaith, yn dilyn ein haddasiadau i Amod 1 y DUSP a'r Amod USPA, ac i ddeall pa effeithiau, os o gwbl, y mae'r newidiadau'n eu cael ar brofiad y defnyddiwr.

9.23 Byddwn yn gweithio gyda'r holl randdeiliaid allweddol gan gynnwys y diwydiant, undebau llafur, cyrff defnyddwyr a'r Llywodraeth, yn ogystal ag ymgysylltu â'r Post Brenhinol, ei riant-gwmni, International Distributions Services Plc, a'i berchennog newydd, EP Group.

Adolygiad o fforddiadwyedd a phrisiau

9.24 Bydd ein gwaith polisi pellach ar bost yn canolbwyntio ar faterion fforddiadwyedd a phrisiau sydd, yn ôl ein dealltwriaeth ni, yn peri pryder penodol i randdeiliaid. Adolygodd Ofcom ei ddull gweithredu cyffredinol ar gyfer prisio yn ein Hadolygiad o Reoleiddio'r Gwasanaeth Post yn 2022[643] a nodi ei ddull gweithredu presennol ar gyfer fforddiadwyedd yn y Datganiad Cap Diogelu yn 2024.[644]

9.25 Yn ein gwaith pellach, byddwn yn adolygu ein dull o brisio gwasanaethau USO a gwasanaethau mynediad ac yn ystyried ai ein dull gweithredu presennol yw'r un mwyaf priodol o hyd. Mae llawer o randdeiliaid wedi dadlau o blaid cyflwyno rheolaethau prisiau

[643] Ofcom, 2022. Datganiad: Adolygu rheoliadau'r gwasanaeth post.
[644] Ofcom, 2024. Datganiad: Adolygiad o gapiau diogelu Ail Ddosbarth.

newydd ar wasanaethau USO y tu hwnt i'r rheolaeth bresennol ar Ail Ddosbarth, ac mae rhai wedi dadlau o blaid cysylltu rheolaethau o'r fath â pherfformiad ansawdd gwasanaeth. Mae rhanddeiliaid eraill wedi dadlau o blaid newid y dull o reoleiddio prisiau gwasanaethau mynediad, symud oddi wrth ddull gwasgfa elw at reolaethau ar ffioedd y Post Brenhinol, neu ddefnyddio prawf gwasgu elw a rheolaethau prisiau. Mae'r Post Brenhinol wedi cwestiynu a oes problem o ran fforddiadwyedd ac wedi awgrymu, os oes problem, y dylid mabwysiadu rheoleiddio wedi'i dargedu'n well sy'n caniatáu ar gyfer atebion pwrpasol.

9.26 Byddwn yn cynnal adolygiad o brisiau a fforddiadwyedd a fydd yn ystyried y pwyntiau a godwyd gan randdeiliaid ac yn ymgynghori ar ein dull gweithredu cyn i'r rheolaeth bresennol ar brisiau llythyrau Ail Ddosbarth ddod i ben ym mis Mawrth 2027. Bwriadwn gyhoeddi ymgynghoriad yn Ch4 2025/26.[645]

Cyfeiriad a Chasglu

9.27 Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr i'n Hymgynghoriad eto at faterion grwpiau agored i niwed penodol, er enghraifft pobl ddigartref, a'u gallu i gael gafael ar bost lle nad oes ganddynt gyfeiriad lle gallant dderbyn post, y cyfeirir ato'n aml fel Cyfeiriad a Chasglu. Mae hyn yn ymwneud ag a oes modd dylunio gwasanaeth i roi cyfeiriad arall i'r defnyddwyr hyn, er enghraifft Swyddfa'r Post, lle maent yn derbyn post.

9.28 Rydym yn cydnabod bod hwn yn fater pwysig ac rydym wedi ymrwymo o hyd i chwarae rhan wrth geisio dod o hyd i ffordd ymlaen. Fodd bynnag, mae'n mynd y tu hwnt i gwmpas cylch gwaith Ofcom gan ei fod yn debygol o gynnwys camau sy'n cael eu cymryd gan Swyddfa'r Post, nad yw Ofcom yn eu rheoleiddio, yn ogystal â'r Post Brenhinol, ac o bosibl y Llywodraeth. Byddwn yn parhau i gydlynu rhanddeiliaid i wneud cynnydd ar y mater hwn. Yn dilyn trafodaeth bwrdd crwn ym mis Hydref 2024, gofynnwyd i randdeiliaid allweddol weithio gyda'i gilydd i ddylunio sut gallai gwasanaeth Cyfeiriad a Chasglu edrych, ac ystyried dyluniad cynllun peilot ar raddfa fach i brofi'r fenter hon.[646] Mae rhanddeiliaid allweddol wedi gofyn i ni gydlynu cyfarfod bwrdd crwn arall yn ystod hydref 2025 er mwyn i randdeiliaid rannu eu canfyddiadau, a byddwn yn cefnogi hynny.

[645] Ofcom, 2025. Datganiad - Cynllun Gwaith 2025–26, p.11.
[646] Ofcom, 2025. Ymgynghoriad: Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post t.164.

A1. Fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol

Trosolwg

A1.1 Mae'r Atodiad hwn yn amlinellu:

- Dyletswyddau statudol Ofcom mewn perthynas â gwasanaethau post;
- Rhwymedigaethau'r Post Brenhinol fel y darparwr gwasanaeth cyffredinol dynodedig; a
- Phwerau Ofcom mewn perthynas â gosod, addasu a dirymu amodau rheoleiddio.

Dyletswyddau statudol Ofcom

Dyletswyddau mewn perthynas â phost

A1.2 Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 (CA 2003)[647] yn nodi dyletswyddau cyffredinol Ofcom sy'n berthnasol ar draws ein holl swyddogaethau. O dan adran 3(1), ein prif ddyletswydd yw hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau a hybu buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle y bo hynny'n briodol.

A1.3 Mae Deddf Gwasanaethau Post 2011 (PSA 2011)[648] yn cynnwys y fframwaith cyfreithiol ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau post.

A1.4 Mae PSA 2011 hefyd yn gosod dyletswydd benodol ar Ofcom mewn perthynas â phost, y mae'n rhaid i ni ei thrin yn gyfartal â'n dyletswydd o dan CA 2003 lle bo hynny'n bosibl. Y ddyletswydd honno yw cyflawni ein swyddogaethau mewn perthynas â gwasanaethau post mewn ffordd a fydd, yn ein barn ni, yn sicrhau y darperir gwasanaeth post cyffredinol.[649]

A1.5 Er nad yw "darparu gwasanaeth post cyffredinol" wedi'i ddiffinio yn PSA 2011, rhaid darllen y cymal hwn yn unol ag adrannau 30 i 33.[650] Mae'r adrannau hyn yn mynnu bod Ofcom, drwy orchymyn, yn nodi'r gwasanaethau y mae'n rhaid eu darparu fel rhan o'r gwasanaeth cyffredinol. Rhaid i'r gwasanaethau hyn gynnwys o leiaf y gofynion sylfaenol y cyfeirir atynt isod yn A1.16.

[647] Communications Act 2003 p.21 (legislation.gov.uk)
[648] Deddf Gwasanaethau Post 2011 p.5 (legislation.gov.uk).
[649] Adran 29(1) PSA 2011.
[650] Adran 65(2)(a) PSA 2011.

A1.6 Wrth gyflawni ein dyletswydd o dan PSA 2011, rhaid i Ofcom ystyried yr angen i ddarparu'r gwasanaeth post cyffredinol: (a) yn gynaliadwy yn ariannol; a (b) yn effeithlon cyn diwedd cyfnod rhesymol[651] ac i'w ddarpariaeth barhau i fod yn effeithlon ar bob adeg ddilynol. Mae'r angen i fod yn gynaliadwy yn ariannol yn cynnwys yr angen am gyfradd enillion masnachol rhesymol[652] i ddarparwr y gwasanaeth cyffredinol ar unrhyw wariant a wynebir ganddo at ddibenion darparu gwasanaeth post cyffredinol, neu mewn cysylltiad â hynny[653] .

A1.7 Nid yw PSA 2011 yn mynnu ein bod yn rhoi mwy o bwyslais ar gynaliadwyedd ariannol nac effeithlonrwydd. Rhaid i ni ystyried y ddau wrth ddod i benderfyniad ynghylch y ffordd orau o gyflawni ein swyddogaethau.

Ystyriaethau eraill o dan CA 2003

A1.8 Mae nifer o ffactorau eraill y mae'n rhaid i ni eu hystyried wrth arfer ein prif ddyletswydd o dan CA 2003.

A1.9 Mae Adran 3(5) Deddf Darlledu 2003 yn darparu bod yn rhaid i Ofcom, wrth gyflawni ein dyletswydd i hyrwyddo buddiannau defnyddwyr, roi sylw penodol i fuddiannau'r defnyddwyr hynny mewn perthynas â dewis, pris, ansawdd gwasanaeth a gwerth am arian.

A1.10 Rhaid i ni hefyd, ym mhob achos, ystyried yr egwyddorion sy'n datgan y dylai gweithgareddau rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at achosion lle mae angen cymryd camau, yn ogystal ag unrhyw egwyddorion eraill sy'n ymddangos i ni fel rhai sy'n cynrychioli'r ymarfer rheoleiddio gorau.[654] Mae'r egwyddorion hynny'n cynnwys sicrhau bod ein hymyriadau'n seiliedig ar dystiolaeth, yn gymesur, yn gyson, yn atebol ac yn dryloyw o ran ystyriaeth ac o ran canlyniadau; ein bod yn ceisio defnyddio'r mecanweithiau rheoleiddio lleiaf ymwthiol i gyflawni ein hamcanion polisi; a'n bod yn ymgynghori'n eang â'r holl randdeiliaid perthnasol ac yn asesu effaith camau rheoleiddio cyn rheoleiddio marchnad.

A1.11 Pan fydd yn ymddangos i ni eu bod yn berthnasol yn yr amgylchiadau, rhaid i ni hefyd ystyried y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):

i) pa mor ddymunol yw hybu cystadleuaeth mewn marchnadoedd perthnasol;
ii) pa mor ddymunol yw annog buddsoddi ar arloesi mewn marchnadoedd perthnasol;
iii) anghenion pobl anabl, yr henoed a'r rheini sydd ar incwm isel;
iv) barn defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol a'r cyhoedd yn gyffredinol;
v) y diddordebau gwahanol sydd gan bobl yn y gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig, y gwahanol gymunedau ethnig yn y Deyrnas Unedig a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol; ac

[651]Diffinnir "cyfnod rhesymol" yn adran 29(5) PSA 2011 fel cyfnod sy'n dechrau ar y diwrnod y daw darpariaethau perthnasol PSA 2011 i rym yn gyffredinol, y mae Ofcom yn ystyried, o dan yr holl amgylchiadau, ei fod yn rhesymol.

[652]Rydym yn defnyddio elw Busnes a Gofnodir (EBIT) yn yr ystod 5% i 10% fel dangosydd cyntaf o p'un a yw'r Post Brenhinol yn ennill elw masnachol ar ei ddarpariaeth gwasanaeth cyffredinol. Gallai elw sy'n gyson o dan 5% ddangos bod y gwasanaeth cyffredinol yn wynebu heriau cynaliadwyedd.

[653]Adran 29(4) PSA 2011.

[654]Adran 3(3) CA 2003.

vi) i ba raddau, yn amgylchiadau'r achos, y mae hyrwyddo neu ddiogelu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yn rhesymol ymarferol.[655]

A1.12 Er bod yn rhaid i ni, lle bo'n bosibl, drin ein dyletswyddau o dan adran 3 CA 2003 ac adran 29 PSA 2011 yn gyfartal, byddai'r olaf yn cael blaenoriaeth pe bai gwrthdaro rhyngddynt[656].

A1.13 Mae Adran 6(1) Deddf Cyfathrebiadau 2003 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn parhau i adolygu ein gwaith rheoleiddio gyda'r bwriad o sicrhau nad yw'n gosod na chynnal beichiau sy'n ddiangen neu sydd wedi dod yn ddiangen.

A1.14 Yn unol ag adran 2B CA 2003, rhaid i ni hefyd ystyried Datganiad Blaenoriaethau Strategol (SSP) Llywodraeth y DU ar gyfer telegyfathrebiadau, rheoli sbectrwm radio a gwasanaethau post.[657] Mae'r SSP yn nodi prif amcan y Llywodraeth sef sicrhau bod gwasanaeth post cyffredinol sy'n gynaliadwy ac yn effeithlon yn ariannol yn cael ei ddarparu, yn amodol ar y ffaith bod y Llywodraeth am gael marchnad bost gystadleuol sy'n sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr ac i eraill sy'n defnyddio gwasanaethau post.

Gweithredu'r fframwaith rheoleiddio i ddarparu'r gwasanaeth post cyffredinol

A1.15 Pennir manyleb y gwasanaeth post cyffredinol gan gyfuniad o ddeddfwriaeth a rheoliadau:

a) y gofynion sylfaenol a bennir gan y Senedd yn adran 31 PSA 2011;

b) Gorchymyn Gwasanaethau Post (Gwasanaeth Post Cyffredinol) 2012 (y Gorchymyn)[658] a bennir gan Ofcom, sy'n gorfod adlewyrchu'r gofynion sylfaenol ac sy'n ychwanegu cwmpas manwl y gwasanaethau y mae'n rhaid eu cynnig;[659] a

c) yr amodau rheoleiddio sy'n rhoi'r ddeddfwriaeth uchod ar waith drwy osod rhwymedigaethau rhwymol ar y darparwr gwasanaeth cyffredinol dynodedig, Royal Mail Group Limited (Y Post Brenhinol), gan gynnwys targedau ansawdd gwasanaeth allweddol.

Y gofynion sylfaenol

A1.16 Mae Adran 31 PSA 2011 yn nodi gofynion amrywiol y mae'n rhaid eu cynnwys, o leiaf, yn y gwasanaeth post cyffredinol:

a) Danfon llythyrau o leiaf unwaith bob dydd Llun i ddydd Sadwrn a phecynnau post eraill bob dydd Llun i ddydd Gwener i gartref neu eiddo pob unigolyn neu berson arall yn y Deyrnas Unedig neu i bwyntiau adnabyddadwy o'r fath fel y'u cymeradwywyd gan Ofcom.

e) Casgliadau llythyrau o leiaf unwaith bob dydd Llun i ddydd Sadwrn a phecynnau post eraill bob dydd Llun i ddydd Gwener er mwyn eu trosglwyddo ymlaen mewn cysylltiad â

[655] Adran 3(4) CA 2003.
[656] Adran 3(6A) CA 2003.
[657] Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, 2019. Datganiad Blaenoriaethau Strategol.
[658] Gorchymyn y Gwasanaethau Post (Gwasanaeth Post Cyffredinol) 2012 (legislation.gov.uk).
[659] Adran 30(1) CA 2003.

darparu'r gwasanaeth cyffredinol (gan gynnwys trosglwyddo ymlaen y tu allan i'r Deyrnas Unedig).

f) Gwasanaeth cludo pecynnau post o un lle i'r llall drwy'r post am brisiau fforddiadwy a bennir yn unol â thariff cyhoeddus sy'n unffurf ledled y Deyrnas Unedig (gan gynnwys cludo y tu allan i'r Deyrnas Unedig).

g) Gwasanaeth eitemau cofrestredig am brisiau fforddiadwy a bennir yn unol â thariff cyhoeddus sy'n unffurf ledled y Deyrnas Unedig.

h) Gwasanaeth eitemau wedi'u hyswirio am brisiau fforddiadwy a bennir yn unol â thariff cyhoeddus sy'n unffurf ledled y Deyrnas Unedig.

i) Darparu'n ddi-dâl y gwasanaethau post hynny a bennir yn y gorchymyn gwasanaeth post cyffredinol i'r disgrifiadau hynny o bobl ddall neu rannol ddall a bennir.

j) Gwasanaeth cyfleu deisebau a chyfarchion deddfwriaethol cymwys yn rhad ac am ddim.

Y Gorchymyn Gwasanaeth Post Cyffredinol 2012

A1.17 Mae adran 30(1) PSA 2011 yn mynnu bod Ofcom yn gwneud gorchymyn sy'n nodi: (a) disgrifiad o'r gwasanaethau y mae'n ystyried y dylid eu darparu yn y DU fel gwasanaeth post cyffredinol, a (b) y safonau y mae'r gwasanaethau hynny i gydymffurfio â hwy.

A1.18 Er bod yn rhaid i'r Gorchymyn Gwasanaeth Cyffredinol gynnwys, o leiaf, pob un o'r gwasanaethau a restrir yn y gofynion sylfaenol, gall osod gwasanaethau ychwanegol y tu hwnt i'r rhain. Er enghraifft, fel y nodir isod, mae'r Gorchymyn yn mynnu bod y darparwr gwasanaeth cyffredinol yn darparu dau ddosbarth o wasanaethau un eitem - blaenoriaeth a safonol - ond dim ond un dosbarth sydd ei angen ar gyfer y gofynion sylfaenol. Mae'r Gorchymyn hefyd yn mynnu bod y ddau ddosbarth hyn o wasanaethau'n cael eu darparu o fewn amser llwybro penodol (h.y. cyfnod danfon targed), mae Llofnodwyd yn ychwanegol at y ddau ddosbarth hyn o wasanaeth, Danfon Arbennig y Diwrnod Canlynol erbyn 1pm, a rhai gwasanaethau derbynwyr.

A1.19 Mae'r gwasanaeth cyffredinol yn cynnwys y gwasanaethau canlynol:

a) y gwasanaethau danfon a ddisgrifir yn Erthygl 6 y Gorchymyn;

b) y gwasanaethau casglu a ddisgrifir yn Erthygl 7 y Gorchymyn; a'r

c) gwasanaethau a ddisgrifir yn Atodlenni 1, 2 a 3 i'r Gorchymyn.[660]

A1.20 Dyma'r gwasanaethau danfon a ddisgrifir yn Erthygl 6:

a) Danfon llythyrau sy'n tarddu o unrhyw le yn y byd o ddydd Llun i ddydd Sadwrn o leiaf unwaith y dydd; a

b) Danfon pecynnau post eraill sy'n tarddu o unrhyw le yn y byd o leiaf unwaith bob dydd Llun i ddydd Gwener.

A1.21 Mae'r gwasanaethau casglu a ddisgrifir yn Erthygl 7 yn un casgliad o leiaf:

a) bob dydd Llun i ddydd Sadwrn o bwyntiau mynediad ar gyfer llythyrau ar gyfer y gwasanaethau o un pen i'r llall am brisiau fforddiadwy a'r gwasanaethau am ddim o'r dechrau i'r diwedd; a

[660] Erthygl 5 y Gorchymyn.

b) phob dydd Llun i ddydd Gwener o bwyntiau mynediad ar gyfer pecynnau post eraill ar gyfer y gwasanaethau o un pen i'r llall am brisiau fforddiadwy a'r gwasanaethau am ddim o'r dechrau i'r diwedd.

A1.22 Mae'r gwasanaethau o un pen i'r llall am brisiau fforddiadwy yn Atodlen 1 yn cynnwys:

a) Gwasanaeth un eitem â blaenoriaeth (h.y. Dosbarth Cyntaf) ar gyfer cludo pecynnau post ar wahân i eitemau wedi'u hyswirio, gydag amser llwybro D+1;[661]
b) Gwasanaeth un eitem safonol (h.y. Ail Ddosbarth) ar gyfer cludo pecynnau post ar wahân i eitemau wedi'u hyswirio, gydag amser llwybro D+3;
c) Gwasanaeth cofrestredig ac yswiriedig ar gyfer eitemau sy'n pwyso dim mwy na 10 cilogram gydag amser llwybro D+1;
d) Gwasanaeth dychwelyd i'r anfonwr;
e) Gwasanaethau sy'n dod i mewn ac yn mynd allan ar gyfer cludo pecynnau post i'r UE ac oddi yno; a
f) Gwasanaethau sy'n dod i mewn ac yn mynd allan ar gyfer cludo pecynnau post i ac o weddill y byd.

A1.23 Cyn gwneud neu addasu gorchymyn gwasanaeth post cyffredinol, rhaid i Ofcom gynnal asesiad o i ba raddau y mae'r farchnad ar gyfer darparu gwasanaethau post yn y DU yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr y gwasanaethau hynny.[662]

Amodau Darparwr Gwasanaeth Cyffredinol Dynodedig (DUSP)

A1.24 Er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth post cyffredinol yn cael ei ddarparu, mae adran 36 PSA 2011 yn grymuso Ofcom i osod Amodau DUSP ar y darparwr gwasanaeth cyffredinol dynodedig, sef y Post Brenhinol. Efallai y byddwn hefyd yn addasu neu'n dirymu Amodau DUSP presennol.[663] Mae'r amodau rheoleiddio hyn, sef y ffordd mae Ofcom yn mynnu bod y Post Brenhinol yn cydymffurfio â'r USO, yn nodi'n fanylach agweddau ar y gwasanaethau y mae'n rhaid eu darparu fel rhan o'r gwasanaeth post cyffredinol. Er enghraifft, maent yn gosod safonau ansawdd gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau allweddol a gofynion ynghylch dosbarthiad daearyddol pwyntiau mynediad (e.e. blychau post).

A1.25 Rydym wedi arfer ein pwerau i osod amodau ac wedi gosod set o Amodau DUSP ar y Post Brenhinol fel y darparwr gwasanaeth cyffredinol dynodedig. Ar ddyddiad y Datganiad hwn, mae dau Amod DUSP mewn grym:

a) Amod 1 y DUSP,[664] sy'n cynnwys (ymhlith pethau eraill):
    i) Rhwymedigaethau'r Post Brenhinol i ddarparu'r gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn; a

[661]Diffinnir "amser llwybro" yn Erthygl 3(1) y Gorchymyn, wedi'i fynegi gan ddefnyddio fformiwla D + n, gyda 'D' yn golygu'r dyddiad casglu tybiedig a'r 'n' golygu nifer y diwrnodau gwaith ar ôl y dyddiad casglu tybiedig. Diffinnir 'diwrnod gwaith' fel unrhyw ddiwrnod nad yw'n ddydd Sul nac yn ŵyl gyhoeddus, a diffinnir y dyddiad casglu tybiedig yn Erthygl 3(2) y Gorchymyn fel y diwrnod y cesglir y pecyn post, yn ddarostyngedig i eithriadau penodol.
[662]Adran 30(3) PSA 2011.
[663]Paragraff 2(1) o atodlen 6 i PSA 2011
[664]Amodau 1 Darparwr Gwasanaeth Cyffredinol Dynodedig (ofcom.org.uk).

ii) Targedau ansawdd gwasanaeth pendant ar gyfer y gwasanaethau hynny - yn benodol, mae'n rhaid i'r Post Brenhinol ddanfon 93% o bost Dosbarth Cyntaf erbyn D+1 a 98.5% o bost Ail Ddosbarth erbyn D+3.

b) Amod 3 y DUSP[665] sy'n gosod cap diogelu ar bris llythyrau Ail Ddosbarth.

Mynediad

Amod Mynediad USP

A1.26 Yn ogystal ag Amodau'r DUSP, mae Ofcom wedi gosod amod mynediad darparwr gwasanaeth cyffredinol (Amod USPA) ar y Post Brenhinol,[666] sy'n mynnu bod y Post Brenhinol yn cynnig mynediad i'w rwydwaith danfon cenedlaethol i gwmnïau llythyrau sy'n gystadleuwyr.[667]

A1.27 O dan yr Amod USPA, mae'n rhaid i'r Post Brenhinol ddarparu dau wasanaeth mynediad: gwasanaeth llythyrau D+2 a gwasanaeth llythyrau D+5.[668] Rhaid iddo ddarparu'r gwasanaethau hyn yn unol â thelerau, amodau a thaliadau teg a rhesymol.[669] Mae darparu'r gwasanaethau hyn hefyd yn ddarostyngedig i reolaeth gwasgu elw.[670]

Addasu'r fframwaith rheoleiddio

Addasu'r Gorchymyn

A1.28 Dim ond ar ôl asesu i ba raddau y mae'r farchnad ar gyfer darparu gwasanaethau post yn y DU yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr post y cawn addasu'r Gorchymyn.[671]

A1.29 Cyn gwneud unrhyw addasiadau i'r Gorchymyn, rhaid i ni wneud y canlynol:

a) rhoi hysbysiad o'n cynnig i wneud Gorchymyn i'r bobl hynny y mae'n ymddangos i ni y bydd y cynnig yn debygol o effeithio arnynt;
b) cyhoeddi hysbysiad o'n cynnig sy'n nodi effaith gyffredinol y Gorchymyn[672] mewn ffordd sy'n briodol yn ein barn ni er mwyn ei ddwyn i sylw pobl rydyn ni'n credu y mae'n debygol y bydd yn effeithio arnynt; a
c) ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir i ni cyn yr amser a bennir yn yr hysbysiad, na chaiff fod yn llai na 30 o ddiwrnodau ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad.[673]

[665] Amod 3 Darparwr Gwasanaeth Cyffredinol Dynodedig - Rheolaeth diogelu cap prisiau ar gyfer llythyrau safonol ail ddosbarth a llythyrau mawr (ar 1 Ebrill 2024) (ofcom.org.uk).
[666] Amod Mynediad Darparwr Gwasanaeth Cyffredinol (ofcom.org.uk).
[667] O dan adran 38 PSA 2011.
[668] Amod 2 yr USPA.
[669] Amod 3 yr USPA.
[670] Amod 6 yr USPA.
[671] Adran 30(3) PSA 2011.
[672] Adran 403(5) CA 2003. Rhaid i ni hefyd ddatgan ein bod yn bwriadu gwneud y gorchymyn dan sylw a nodi cyfeiriad ble gellir cael copi o'r gorchymyn arfaethedig.
[673] Adran 403(4) i (6) CA 2003.

Addasu Amodau'r DUSP

A1.30 Er mwyn gosod amod DUSP (gan gynnwys amod DUSP wedi'i addasu), rhaid i ni ystyried ei bod yn angenrheidiol sicrhau bod gwasanaeth a nodir yn y Gorchymyn yn cael ei ddarparu, yn unol â'r safonau a nodir yno.[674]

A1.31 Rhaid i ni hefyd fod yn fodlon bod yr addasiad yn un: (a) y gellir ei gyfiawnhau'n wrthrychol; (b) nad yw'n gwahaniaethu'n ormodol yn erbyn personau penodol neu ddisgrifiad penodol o bersonau; ac (c) ei fod yn gymesur ac yn dryloyw o ran yr hyn y bwriedir iddo ei gyflawni.[675]

A1.32 Mae'r weithdrefn ar gyfer gosod, dirymu neu addasu amod wedi'i nodi ym mharagraff 3 Atodlen 6 i PSA 2011:

a) Cyn gosod, addasu neu ddirymu amod, rhaid i ni gyhoeddi hysbysiad sy'n: (i) datgan ein cynnig; (ii) nodi effaith ein cynnig; (iii) rhoi ein rhesymau dros y cynnig; a (iv) pennu'r cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau am y cynnig (sy'n gorfod bod yn fis o leiaf gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad).

b) Yna, dim ond pan fyddwn wedi gwneud y canlynol y gallwn roi cynnig ar waith: (i) ystyried pob sylw a wnaed i ni; a (ii) ystyried pob rhwymedigaeth ryngwladol ar y Deyrnas Unedig yr hysbyswyd ni ohonynt gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

c) Rhaid i ni wedyn gyhoeddi hysbysiad yn nodi'r gosodiad neu'r addasiad neu'n datgan bod yr Amod DUSP wedi cael ei ddirymu mewn ffordd sy'n briodol ar gyfer ei ddwyn i sylw'r bobl rydyn ni'n credu sy'n debygol o gael eu heffeithio ganddo.

Addasu'r Amod USPA

A1.33 Gall Ofcom ond gosod amod USPA (gan gynnwys amod wedi'i addasu) pan fydd yn ymddangos i ni ei bod yn briodol ar gyfer:

a) Hyrwyddo effeithlonrwydd;

b) Hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol; a

c) Rhoi manteision sylweddol i ddefnyddwyr gwasanaethau post.[676]

A1.34 Rhaid i ni ystyried:

a) Hyfywedd technegol ac economaidd, gan ystyried cyflwr datblygiad y farchnad, gosod a defnyddio cyfleusterau a fyddai'n gwneud y mynediad arfaethedig yn ddiangen;

b) Ymarferoldeb rhoi'r mynediad arfaethedig;

c) Y buddsoddiad a wnaed gan y darparwr gwasanaeth cyffredinol dan sylw mewn perthynas â'r materion y cynigir mynediad ar eu cyfer;

d) Yr angen i sicrhau cystadleuaeth effeithiol yn y tymor hir; ac

e) Unrhyw hawliau i eiddo deallusol sy'n berthnasol i'r cynnig.[677]

---

[674] Adran 36(3) PSA 2011.
[675] Paragraff 1 o Atodlen 6 PSA 2011.
[676] Adran 38(4) PSA 2011.
[677] Adran 38(8) PSA 2011.

A1.35 Rhaid i ni hefyd fod yn fodlon bod yr addasiad: (a) y gellir ei gyfiawnhau'n wrthrychol; (b) nad yw'n gwahaniaethu'n ormodol yn erbyn personau penodol neu ddisgrifiad penodol o bersonau; ac (c) ei fod yn gymesur ac yn dryloyw o ran yr hyn y bwriedir iddo ei gyflawni.[678]

A1.36 Mae profion pellach y mae'n rhaid eu bodloni a ffactorau i'w hystyried os ydym yn ceisio gosod rheolaethau prisiau yn yr amod mynediad:

a) Rhaid iddi ymddangos i ni y gallai'r Post Brenhinol fel arall osod a chynnal rhywfaint neu'r cyfan o'i brisiau ar lefel rhy uchel, neu fel arall osod gwasgfa ar brisiau, gyda chanlyniadau niweidiol i ddefnyddwyr gwasanaethau post.[679]

b) Rhaid i ni ystyried y costau hynny a wynebir gan y Post Brenhinol wrth ddarparu'r rhwydwaith post y rhoddir mynediad iddo fel sy'n briodol yn ein barn ni.[680]

c) Efallai y byddwn yn ystyried y prisiau y mae gwasanaethau ar gael amdanynt mewn marchnadoedd cystadleuol cymharol ac yn penderfynu beth rydym yn ei ystyried yn effeithlonrwydd drwy ddefnyddio dulliau cyfrifo costau.[681]

A1.37 Mae'r weithdrefn ym mharagraff A1.32 uchod hefyd yn berthnasol i osod neu addasu amod USPA.

Dyletswyddau eraill

Dyletswydd twf economaidd

A1.38 Mae Adran 108 o Ddeddf Dadreoleiddio 2015[682] yn nodi dyletswydd Ofcom i ystyried y dymuniad i hyrwyddo twf economaidd wrth arfer ei swyddogaethau rheoleiddio. Er mwyn ystyried hyrwyddo twf economaidd, bydd Ofcom yn arfer ei swyddogaethau rheoleiddio mewn ffordd sy'n sicrhau bod camau rheoleiddio'n cael eu cymryd dim ond pan fydd eu hangen, a bod unrhyw gamau a gymerir yn gymesur.

A1.39 Mae canllawiau statudol y llywodraeth ar y ddyletswydd hon[683] yn darparu y dylai rheoleiddwyr ystyried twf tymor canolig a thymor hir drwy sicrhau bod penderfyniadau polisi allweddol a dewisiadau strategol yn cael eu llywio gan ystyriaeth o ysgogwyr allweddol twf economaidd. Mae'r ysgogwyr sy'n berthnasol i'r diwydiant post yn ein barn ni yn cynnwys arloesi, cystadleuaeth, effeithlonrwydd a chynhyrchiant, masnach a chynaliadwyedd amgylcheddol. Felly, rydym wedi ystyried y sbardunau hyn wrth lunio'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn, sydd wedi'u dylunio i roi sail fwy cynaliadwy i'r gwasanaeth cyffredinol er mwyn iddo allu cefnogi busnesau ac aelwydydd ledled y DU.

Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus

A1.40 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Deddf 2010)[684] yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu,

[678] Paragraff 1 o Atodlen 6 PSA 2011.
[679] Adran 38(5) PSA 2011.
[680] Adran 38(6) PSA 2011.
[681] Adran 38(7) PSA 2011.
[682] Deddf Dadreoleiddio 2015 p.21 (legislation.gov.uk)
[683] Yr Adran Busnes a Masnach, 2024. Dyletswydd o ran Twf: Canllawiau Statudol.
[684] Deddf Cydraddoldeb 2010 p.15 (legislation.gov.uk)

aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig canlynol: oed; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodweddion hynny.

A1.41 Mae Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 (Deddf 1998)[685] hefyd yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau sy'n ymwneud â Gogledd Iwerddon, i roi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i ystyried y dymuniad i hyrwyddo cysylltiadau da ar draws ystod o gategorïau a amlinellir yn Neddf 1998. Mae Cynllun Cydraddoldeb Diwygiedig Gogledd Iwerddon Ofcom yn egluro sut rydym ni'n cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol o dan Ddeddf 1998.

Dyletswydd y Gymraeg

A1.42 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011[686] wedi sefydlu fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar rai sefydliadau i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'r safonau a roddwyd ar Ofcom wedi cael eu rhestru yn hysbysiad cydymffurfio Ofcom a ddaeth i rym ar 25 Ionawr 2017.[687]

A1.43 Mae Safonau Llunio Polisïau'r Gymraeg yn mynnu bod Ofcom yn asesu: (a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth lunio polisi newydd neu adolygu neu ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli.

[685] Deddf Gogledd Iwerddon 1998 p.47 (legislation.gov.uk).
[686] Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 mccc 1 (legislation.gov.uk).
[687] Comisiynydd y Gymraeg, 2017. Hysbysiad Cydymffurfio.

A2. Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

A2.1 Mae'r Atodiad hwn yn cynnwys ein hasesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. Rydym ni hefyd wedi ystyried yn ofalus a fydd ein penderfyniadau yn y ddogfen hon yn cael effaith benodol ar nodweddion gwarchodedig penodol (gan gynnwys hil, oedran, anabledd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil a chrefydd neu gred yn y DU, a hefyd dibynyddion a barn wleidyddol yng Ngogledd Iwerddon), ac yn benodol a allant wahaniaethu yn erbyn pobl o'r fath neu effeithio ar gyfle cyfartal neu gysylltiadau da. Rydym hefyd yn ystyried y canlyniadau posibl pe na baem yn ymyrryd, o ystyried y risgiau i barhau i ddarparu'r gwasanaeth cyffredinol.

A2.2 Mae gan Ofcom ddyletswyddau amrywiol i asesu'r effeithiau ar grwpiau penodol pan fyddwn yn cyflawni ein swyddogaethau. Mae'r grwpiau hyn wedi'u nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Gogledd Iwerddon 1998 a Deddf Cyfathrebiadau 2003. Er mwyn helpu gyda'n hasesiad, rydym wedi defnyddio ymchwil sydd eisoes wedi cael ei chomisiynu. Edrychwch ar Atodiad A1 i gael rhagor o wybodaeth am ddyletswyddau Ofcom.

Safbwynt ein ymgynghoriad

A2.3 Ein barn dros dro oedd y byddai manteision ein cynigion i ddiwygio'r gwasanaeth post, a chostau a risgiau posibl peidio â gweithredu, yn drech nag unrhyw gostau neu effeithiau niweidiol a fyddai'n deillio o'r cynigion. Fe wnaethom nodi'r grwpiau y byddai ein cynigion yn debygol o effeithio'n benodol arnynt, sy'n cynnwys defnyddwyr sy'n fwy dibynnol ar bost, fel y rheini heb fynediad at y rhyngrwyd, sydd â symudedd cyfyngedig, sy'n byw mewn lleoliadau gwledig, a defnyddwyr hŷn.

A2.4 Roeddem yn cydnabod y gallai fod effeithiau penodol ychwanegol ar brosesau'r sector cyhoeddus sydd â therfynau amser statudol, fel pleidleisio drwy'r post, gweithdrefnau'r llys a hawlio rhai budd-daliadau. Roeddem yn cydnabod y gallai hyn effeithio ar grwpiau penodol o ddefnyddwyr fel y rheini heb fynediad i'r rhyngrwyd, sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol neu sy'n agored i niwed yn ariannol.

Cyflwyniad i'n hasesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

A2.5 Rydym yn ystyried isod effaith ein penderfyniadau ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig penodol. Rydym hefyd yn ystyried yr effeithiau ar grwpiau eraill fel y rheini heb fynediad i'r rhyngrwyd, sydd â symudedd cyfyngedig, sy'n byw mewn lleoliadau gwledig, defnyddwyr hŷn, gwahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol, a'r rheini sy'n byw mewn gwahanol rannau o'r DU. Pan fo'n berthnasol, rydym yn crynhoi ac yn mynd i'r afael ag ymatebion rhanddeiliaid i safbwynt ein hymgynghoriad yn ein hasesiad. Lle bo'n briodol, caiff yr ymatebion eu rhannu'n themâu allweddol.

A2.6 Rydym yn ystyried effeithiau'r holl benderfyniadau rydym wedi'u nodi yn ein dogfen. Mae hyn yn cynnwys newidiadau i amlder danfon llythyrau Ail Ddosbarth, newidiadau i dargedau ansawdd gwasanaeth presennol, a newidiadau i'r rhwymedigaethau mynediad.

A2.7 Yn gyffredinol, mae ein hymchwil yn awgrymu y bydd ein penderfyniadau'n cael effaith fuddiol ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig penodol. Fodd bynnag, rydym yn

cydnabod y gallai rhai pobl gael eu heffeithio'n niweidiol, yn enwedig y rhai yn y grwpiau canlynol:

a) Defnyddwyr sy'n dibynnu mwy ar wasanaethau post, gan gynnwys y rheini heb fynediad i'r rhyngrwyd, y rheini sydd â symudedd cyfyngedig, sy'n byw mewn lleoliadau gwledig, a defnyddwyr hŷn.

b) Grwpiau incwm isel sy'n fwy tebygol o ddibynnu ar lythyrau sy'n sensitif i amser i gael gafael ar wasanaethau cyhoeddus, fel llythyrau meddygol, profion meddygol, a budd-daliadau.

Grwpiau sy'n fwy tebygol o ddibynnu ar bost

Ymatebion rhanddeiliaid

A2.8 Tynnodd Consumer Scotland sylw at rai effeithiau penodol ar bobl sydd â nam ar eu synhwyrau, gan gynnwys y rheini sydd angen fformatau eraill fel print bras neu Braille.[688]

A2.9 Nododd ymatebydd unigol y gallai fod yn well gan rai grwpiau, fel rhai pobl ag awtistiaeth, ddefnyddio llythyrau yn hytrach na dewisiadau digidol eraill, ac y gallent gael profiad gwell gyda fformat ffisegol.

A2.10 Dywedodd Consumer Scotland nad ydym wedi ystyried anghenion lleiafrifoedd ethnig yn ddigonol.[689] Dywedodd CWU y dylem fod wedi ystyried anghenion cleifion canser.[690]

A2.11 Nododd CWU, o dan ein cynigion, y gellid danfon llythyrau Ail Ddosbarth fwy na diwrnod yn hwyrach nag y maent ar hyn o bryd, a allai gael effaith niweidiol ar brofion meddygol.[691]

A2.12 Darparodd llawer o ymatebwyr unigol wybodaeth anecdotaidd am eu profiadau o ansawdd gwasanaeth gwael, gan ganolbwyntio'n benodol ar lythyrau meddygol a'r effaith ar bobl anabl, yn ogystal â phryderon ehangach ynghylch fforddiadwyedd, ond nid oeddent yn mynd i ragor o fanylion.

A2.13 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr sefydliadol yn cytuno y byddai'r grwpiau a nodwyd gennym yn cael eu heffeithio'n andwyol. Fodd bynnag, dywedodd rhai sylwadau nad oeddem wedi ystyried maint llawn yr effeithiau, nad oeddem wedi ystyried rhai grwpiau o gwbl ac nad oedd ein mesurau lliniaru'n mynd yn ddigon pell. Roedd llawer o'r sylwadau hyn yng nghyd-destun gwasanaeth o ansawdd gwael.

A2.14 Rhoddodd Consumer Scotland ddarlun gweledol o raddfa effaith, o 'ychydig o anhwylustod' i 'niwed mawr'.[692] Tynnodd Pwyllgor Cynghori'r Alban sylw at y ffaith bod pobl yn wynebu heriau dwys, fel byw mewn lleoliad anghysbell a chael eu hallgáu'n ddigidol.[693] Dywedodd CWU ein bod wedi labelu rhai effeithiau fel rhai sylweddol ond mai ein hasesiad cyffredinol oedd bod yr effeithiau'n gyfyngedig.[694]

[688] Ymateb Consumer Scotland i Ymgynghoriad 2025, t.18.
[689] Ymateb Consumer Scotland i Ymgynghoriad 2025, t.19.
[690] Ymateb CWU i Ymgynghoriad 2025, t.7.
[691] Ymateb CWU i Ymgynghoriad 2025, tt.6-7.
[692] Ymateb Consumer Scotland i Ymgynghoriad 2025, t.17.
[693] Ymateb ACS i Ymgynghoriad 2025, t.1.
[694] Ymateb CWU i Ymgynghoriad 2025, t.7.

A2.15 Cafwyd sylw cyffredinol gan Gyngor ar Bopeth nad yw'r EIA yn ystyried fforddiadwyedd a chostau byw.[695]

Ein hasesiad cyffredinol

A2.16 Rydym yn deall bod rhai grwpiau'n fwy tebygol o ddibynnu ar wasanaethau post nag eraill. Mae ein hymchwil wedi canfod bod yna rai grwpiau defnyddwyr (defnyddwyr hŷn, defnyddwyr gwledig, y rheini heb fynediad i'r rhyngrwyd a'r rheini sydd â symudedd cyfyngedig) y mae eu hamgylchiadau neu eu nodweddion yn golygu eu bod yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn dibynnu mwy ar wasanaethau post, er nad yw mwy o ddibyniaeth o reidrwydd yn golygu mwy o ddefnydd. [696] O'n hymchwil blaenorol, rydym yn cydnabod bod defnyddwyr hŷn yn tueddu i werthfawrogi natur ffisegol llythyrau yn fwy na grwpiau eraill, oherwydd eu bod yn eu hystyried yn fwy diogel a bod ganddynt lai o siawns o fynd ar goll.[697]

A2.17 O ran llythyrau sy'n cael eu hanfon a'u derbyn, mae'r grwpiau penodol hyn yn rhyngweithio â phost mewn ffordd debyg i'r cyfartaledd, ond roeddent yn teimlo eu bod yn fwy dibynnol[698]. Rydym yn egluro yn Adran 5 y Datganiad hwn pam rydym o'r farn y byddai'r diwygiadau rydym wedi penderfynu eu gwneud i'r USO yn parhau i ddiwallu anghenion rhesymol defnyddwyr i raddau helaeth.

A2.18 Felly, bydd pobl yn dal i allu cael gafael ar y gwasanaethau post sydd eu hangen arnynt a byddwn yn parhau i osod safonau ansawdd gwasanaeth y mae'n rhaid i'r Post Brenhinol eu cyrraedd.[699] Er y bydd post Ail Ddosbarth a phost swmp arall nad yw'n flaenoriaeth yn cael ei ddanfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos yn hytrach na bob dydd o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, rydym yn disgwyl y bydd hyn yn gyffredinol yn cael effaith gyfyngedig ar ddefnyddwyr post, gan gynnwys y rheini sy'n fwy dibynnol ar bost - ni fyddant yn cael post nad yw'n flaenoriaeth ar ddydd Sadwrn mwyach (er y byddant yn parhau i dderbyn llythyrau Dosbarth Cyntaf), ac efallai y bydd rhai llythyrau Ail Ddosbarth a llythyrau eraill nad ydynt yn flaenoriaeth y maent yn eu hanfon a'u derbyn (os cânt eu hanfon o ddydd Mercher i ddydd Sul) yn cael eu danfon ddiwrnod yn hwyrach na nawr (ac eithrio dydd Sul). Er y gallai hyn ei gwneud yn ofynnol i bobl - gan gynnwys unigolion, busnesau bach a chanolig, a defnyddwyr post mawr - ystyried newid eu harferion anfon mewn perthynas â llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth, bydd hyn wedi'i gyfyngu i anfon rhai llythyrau o'r fath ddiwrnod yn gynharach er mwyn iddynt gyrraedd o fewn yr un amserlen â nawr. Rydym yn disgwyl y bydd hwn yn addasiad rhesymol yn y mwyafrif helaeth o achosion. Bydd post Dosbarth Cyntaf a phost blaenoriaeth arall yn dal i gael eu danfon bob dydd o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, ac ni fydd unrhyw newidiadau i ddanfon parseli.

A2.19 Rydym yn derbyn, o dan ein targedau ansawdd gwasanaeth sylfaenol diwygiedig, y bydd cyfran fach yn fwy o bost yn cael methu ei amser llwybro targed nag ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rydym o'r farn y bydd cyflwyno targedau dibynadwyedd ar gyfer post hwyr - a fydd

---

[695] Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, tt.16-28.
[696] Ofcom, 2025. Ymgynghoriad: Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post tt.41-44.
[697] Jigsaw, 2023. Deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau post – adroddiad ar ganfyddiadau ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar grwpiau a allai fod yn agored i niwed, sleid 22.
[698] BMG, 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleidiau 11 a 13.
[699] Rydym yn cydnabod bod perfformiad diweddar y Post Brenhinol yn erbyn targedau ansawdd gwasanaeth wedi bod yn wael ac y gallai hyn gael effaith benodol ar ddefnyddwyr sy'n fwy dibynnol ar bost.

yn mynnu bod y Post Brenhinol yn danfon 99% o bost Dosbarth Cyntaf o fewn tri diwrnod gwaith, a 99% o bost Ail Ddosbarth o fewn pum diwrnod gwaith - o fudd i bob defnyddiwr drwy wella dibynadwyedd cyffredinol y gwasanaeth cyffredinol. Disgwyliwn i'r targedau newydd hyn fod o fudd arbennig i grwpiau sy'n fwy dibynnol ar bost.

A2.20 Fel sy'n cael ei egluro yn Adran 2 y Datganiad hwn, mae angen diwygio'r USO ar frys, gan nad yw'n gynaliadwy ar hyn o bryd. Rydym yn egluro yn Adrannau 4 ac 8 pam bod diwygio yn agwedd angenrheidiol ar gefnogi cynaliadwyedd y gwasanaeth cyffredinol a sicrhau ei fod yn parhau i gael ei ddarparu er budd pob defnyddiwr. Felly, rydym o'r farn bod effaith niweidiol bosibl diffyg gweithredu, a'r risg y byddai hyn yn ei hachosi i'r gwasanaeth cyffredinol, yn llawer mwy nag unrhyw effaith niweidiol yn sgil ein penderfyniadau, yn enwedig i ddefnyddwyr sy'n fwy dibynnol ar bost.

A2.21 Yn y cyd-destun hwnnw, rydym yn troi isod i ystyried ymhellach effaith ein penderfyniadau ar grwpiau penodol o ddefnyddwyr a chymunedau ledled y DU.

Ein hasesiad o'r effaith ar grwpiau penodol o bobl

Pobl â nam ar y synhwyrau

A2.22 Ni fydd ein penderfyniadau yn atal llythyrau rhag cael eu hanfon mewn fformatau eraill. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod, os bydd unigolyn yn gofyn am lythyr arall mewn fformat gwahanol, efallai y bydd yn wynebu oedi o ddiwrnod ychwanegol o'i gymharu â'r trefniadau presennol os bydd yr anfonwr yn dewis defnyddio gwasanaeth Ail Ddosbarth ac yn dewis postio ar ôl dydd Mercher. Rydym yn disgwyl i effaith hyn fod yn gyfyngedig yn y mwyafrif helaeth o achosion.

A2.23 Fel rydym yn sôn uchod, bydd anfonwyr yn dal i gael gwasanaeth llythyrau Dosbarth Cyntaf fel opsiwn. Gan fod nifer y llythyrau sy'n cael eu hanfon mewn fformatau amgen yn gymharol isel, rydym yn disgwyl y dylai'r rheini sy'n anfon llythyrau amnewid mewn fformat amgen sy'n sensitif o ran amser allu amsugno'r costau hyn, ac felly gallu anfon eitemau Dosbarth Cyntaf lle bo angen. Felly, dylai'r effaith ar ddefnyddwyr fod yn fach iawn.

Lleiafrifoedd ethnig a'r rheini sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu arnynt

A2.24 Rydym yn cydnabod y gallai'r grwpiau penodol a amlygwyd gan randdeiliaid, fel lleiafrifoedd ethnig, y rheini sydd ag awtistiaeth, a chleifion canser fod yn fwy dibynnol ar wasanaethau post neu gael mwy o ddefnydd ohonynt nag eraill. Roedd canfyddiadau ein hymchwil yn dangos mai dim ond ychydig o wahaniaeth a nododd rhai grwpiau o ran sut y byddai newidiadau amrywiol yn effeithio arnynt, o'i gymharu â'r cyfanswm cyffredinol.[700] Er enghraifft, mae pobl sydd â chyflyrau sy'n effeithio arnynt yn fwy tebygol o ddweud na fyddai'r newidiadau arfaethedig yn diwallu eu hanghenion am samplau/profion meddygol y maent yn eu hanfon, gyda gwahaniaeth bach iawn o'i gymharu â'r cyfanswm cyffredinol (15% o'i gymharu â'r cyfanswm cyffredinol o 12%).[701] Yn yr un modd, mae grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o ddweud bod danfon ar ddydd Sadwrn yn bwysig iawn

[700] BMG, 2025. Tablau Data Preswyl Anghenion Defnyddwyr Post. Gweler y tablau data preswyl am ddadansoddiad llawn o'r gwahanol grwpiau yr adroddwyd arnynt. Roedd hyn yn cynnwys cyflyrau fel golwg, clyw, symudedd, deheurwydd, anawsterau anadlu, gwybyddol, niwroamrywiaeth, iechyd meddwl ac unrhyw gyflwr arall sy'n effeithio.

[701] BMG, 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleid 43.

(32% o'i gymharu â'r cyfanswm cyffredinol o 23%) ac mae pobl sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu neu'n effeithio arnynt hefyd yn fwy tebygol o ddweud bod danfon ar ddydd Sadwrn yn bwysig iawn (26% o'i gymharu â'r cyfanswm cyffredinol o 23%).[702] Dywedodd pobl â chyflyrau sy'n effeithio neu'n cyfyngu arnynt hefyd eu bod ychydig yn fwy tueddol o ddweud y byddai'r newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth yn achosi anhwylustod mawr neu niwed neu anhawster sylweddol iddynt (39% o'i gymharu â'r cyfanswm cyffredinol o 33%).[703] Mae pobl sydd ag iechyd meddwl sy'n ymwneud â chyflyrau cyfyngol hefyd yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn defnyddio Ail Ddosbarth oherwydd ystyriaethau ariannol (74% wedi nodi hyn fel rheswm dros wneud hynny, o'i gymharu â'r cyfanswm cyffredinol o 66%).[704]

A2.25 Er gwaethaf mwy o ddibyniaeth ar wasanaethau post, credwn fod yr anghenion llythyrau ar gyfer grwpiau penodol fel lleiafrifoedd ethnig a'r rheini sydd ag amodau cyfyngol, yn eithaf tebyg i ddefnyddwyr 'nodweddiadol' o ran eu bod yn blaenoriaethu dibynadwyedd a fforddiadwyedd, ac mai anaml y mae cyflymder danfon yn hollbwysig. Wrth dderbyn ac anfon llythyrau sensitif i amser sy'n ymwneud â gofal iechyd, roedd rhai carfannau ychydig yn fwy tebygol o adrodd am effeithiau negyddol. Er enghraifft, mae pobl sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu arnynt yn fwy tebygol o ddweud na fyddai newidiadau'n diwallu eu hanghenion am lythyrau meddygol a gwaith papur budd-daliadau, o ran anfon a derbyn llythyrau.[705]

A2.26 Er bod ein hymchwil wedi canfod bod rhai grwpiau o ddefnyddwyr y mae eu hamgylchiadau neu eu nodweddion yn golygu eu bod yn fwy tebygol o ddibynnu mwy ar wasanaethau post, nid yw mwy o ddibyniaeth o reidrwydd yn golygu mwy o ddefnydd. Bydd rhai pobl yn defnyddio llythyrau at ddibenion penodol neu'n amlach oherwydd un o'u nodweddion, er enghraifft derbyn llythyrau apwyntiadau meddygol a allai fod yn gysylltiedig ag anabledd. Gall llawer o ddewisiadau neu anghenion unigol eraill olygu bod defnyddiwr yn fwy dibynnol ar lythyrau. Fel y soniwyd uchod, nid yw ein penderfyniadau'n atal llythyrau rhag cael eu hanfon mewn fformatau amgen a bydd gwasanaethau blaenoriaeth yn parhau.

A2.27 Rydym yn derbyn y gallai'r grŵp hwn wynebu oedi o ddiwrnod ychwanegol o'i gymharu â'r trefniadau presennol os bydd yr anfonwr yn dewis defnyddio gwasanaeth Ail Ddosbarth ac yn dewis postio rhwng dydd Mercher a dydd Sul. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl i effaith hyn fod yn gyfyngedig yn y mwyafrif helaeth o achosion. Er y gallai hyn ei gwneud yn ofynnol i bobl ystyried newid eu harferion anfon mewn perthynas ag anfon llythyrau, rydym o'r farn bod hwn yn addasiad rhesymol i'w wneud yn y rhan fwyaf o amgylchiadau.

Llythyrau sensitif i amser a grwpiau incwm isel

A2.28 Rydym yn nodi efallai y bydd angen i garfan o ddefnyddwyr anfon llythyrau sy'n sensitif o ran amser, ac efallai y bydd angen iddynt ddefnyddio gwasanaethau drutach lle na fyddai eitem yn cyrraedd mewn pryd oherwydd y gallai rhai llythyrau Ail Ddosbarth gyrraedd diwrnod yn hwyrach na nawr.

A2.29 Rydym yn cydnabod bod pobl ar incwm isel yn fwy tebygol o berthyn i'r grŵp hwn ac y gallent fod yn fwy tebygol o wynebu heriau gwaeth neu allgáu digidol, gan eu gwneud yn

[702] BMG, 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleid 19.
[703] BMG, 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleid 31.
[704] BMG, 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleid 16.
[705] BMG, 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleidiau 33 a 43.

fwy dibynnol ar dderbyn llythyrau, neu fod cost anfon llythyrau'n bwysicach. Gallai hefyd effeithio ar fynediad unigolion at wasanaethau cyhoeddus. Er enghraifft, mae rhai budd-daliadau'n ei gwneud yn ofynnol i hawlwyr gyflwyno tystiolaeth helaeth o fewn amserlenni penodol, lle gallai methu'r dyddiad cau arwain at oedi cyn cael taliadau budd-dal. Gallai hyn fod yn arbennig o niweidiol i bobl sy'n agored i niwed yn ariannol. Fodd bynnag, byddai cyrff yn y sector cyhoeddus yn parhau i gael mynediad at wasanaethau cyflymach sy'n lliniaru unrhyw risgiau sensitifrwydd o ran amser, er y byddai hynny'n costio mwy i'r anfonwr. Efallai y bydd defnyddwyr gwasanaethau llysoedd a thribiwnlysoedd, lle mae'n ofynnol yn aml i bartïon anfon eitemau o fewn terfynau amser caeth, hefyd yn cael eu heffeithio oherwydd efallai y bydd angen iddynt anfon eitemau drwy wasanaeth drutach. Gallai hyn hefyd fod yn arbennig o niweidiol i bobl sy'n agored i niwed yn ariannol.

A2.30 Er ein bod yn cydnabod y gallai ein penderfyniadau effeithio'n benodol ar y grwpiau hyn, rydym yn credu y bydd yr effaith hon yn gyfyngedig ar y cyfan oherwydd yn y rhan fwyaf o achosion dylai defnyddwyr allu addasu eu harferion anfon i sicrhau bod terfynau amser yn cael eu bodloni. Beth bynnag, bydd amrywiaeth o wasanaethau post ar gael o hyd, gan gynnwys gwasanaethau cyflymach. Er ein bod yn derbyn y bydd y gwasanaethau cyflymach hyn yn costio mwy, rydym yn disgwyl mai anaml iawn y bydd gan ddefnyddwyr ddim dewis ond defnyddio gwasanaeth drutach.

Profion a samplau meddygol

A2.31 Mae rhai grwpiau'n fwy tebygol o ddefnyddio llythyrau ar gyfer profion a samplau meddygol, fel y rheini sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu neu'n effeithio arnynt.[706] Rydym yn deall na ddylai ein cynigion gael effaith niweidiol ar y rhan fwyaf o brofion meddygol drwy'r post. Bydd y rhan fwyaf o'r profion meddygol sy'n cael eu hanfon drwy Ail Ddosbarth ar hyn o bryd yn parhau i allu cael eu danfon drwy ddefnyddio'r gwasanaeth hwn heb amharu ar sefydlogrwydd y prawf. Rydym yn deall y gallai rhai samplau, fel y rheini sy'n defnyddio gwaed ffres neu sydd angen canlyniadau cyflym, olygu bod angen gwasanaeth cyflymach a drutach i gynnal sefydlogrwydd y sampl a darparu canlyniadau sy'n sensitif i amser o fewn cyfnod penodol o amser. Fel sy'n wir ar hyn o bryd, ni fyddai'r gwasanaeth Ail Ddosbarth yn briodol, a byddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r anfonwr ddefnyddio gwasanaeth gwahanol. Er bod Dosbarth Cyntaf yn ddrutach, rydym o'r farn ei fod yn gost resymol pan fo'r prawf yn feddygol angenrheidiol, fodd bynnag rydym yn cydnabod y gallai rhai defnyddwyr sydd angen anfon profion meddygol fod o grŵp incwm isel ac y gallai hyn effeithio'n benodol arnynt. Hefyd, mae cyfran fawr o brofion post meddygol hanfodol yn cael eu hariannu gan wasanaethau cyhoeddus.

A2.32 Rydym yn dal o'r farn, ar wahân i achosion penodol iawn fel samplau gwaed ffres, y gallai'r rhan fwyaf o brofion meddygol barhau i ddefnyddio gwasanaeth Ail Ddosbarth arafach heb unrhyw niwed i sefydlogrwydd y prawf. Felly, dylai effaith niweidiol bosibl ein penderfyniadau ar ddefnyddwyr sy'n anfon profion meddygol drwy'r post fod yn gyfyngedig.

[706] BMG, 2025. Tablau Data Preswyl Anghenion Defnyddwyr Post. Gweler Tabl 52 data preswyl am ragor o wybodaeth.

Effeithiau ar draws gwahanol rannau o'r DU

Ymatebion rhanddeiliaid

A2.33 Nododd rhai ymatebwyr y byddai ein cynigion yn cael effeithiau amrywiol ar draws gwahanol rannau o'r DU. Tynnodd Unite sylw at y ffaith y gallai fod ganddynt lai o ddewisiadau cyfathrebu amgen ar gyfer pobl sy'n byw mewn lleoliadau gwledig ac anghysbell, gan ymwreiddio allgáu digidol o bosibl.[707]

A2.34 Tynnodd Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon a Phwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon sylw at heriau penodol i ddefnyddwyr post yng Ngogledd Iwerddon.[708]

A2.35 Nododd Consumer Scotland nad oeddem wedi ystyried anghenion pobl sy'n byw ar ynysoedd sydd wedi'u heithrio o ansawdd gwasanaeth.[709]

Ein hasesiad

A2.36 Rydym yn cydnabod bod ein penderfyniadau'n debygol o effeithio ar wahanol rannau o'r DU i wahanol raddau, yn enwedig lle mae heriau dwysach yn bodoli mewn llawer o leoedd gwledig ac anghysbell. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn awgrymu y bydd lefel yr amrywiad yn gymharol fach.

A2.37 Er mwyn rhoi cyd-destun, mae ein tystiolaeth yn awgrymu y gallai pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig fod yn fwy dibynnol ar wasanaethau post, ond bod eu hanghenion yn eithaf tebyg i anghenion defnyddwyr 'nodweddiadol'.[710] Fodd bynnag, rydym yn nodi y gallai'r effaith ar ddefnyddwyr, mewn rhai ardaloedd gwledig yn benodol, fod yn gyfyngedig oherwydd, efallai na fydd yn ymarferol i'r Post Brenhinol wneud unrhyw newidiadau i'r llwybrau danfon gan eu bod fel arfer yn cael eu gwneud ar lwybrau un fan sy'n tueddu i gwmpasu pellteroedd hirach.

A2.38 O ran effaith ein penderfyniadau i newid amlder danfon Ail Ddosbarth, gwelsom mai dim ond 4% o bobl ledled y DU a ddywedodd na fyddai'r newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth yn diwallu eu hanghenion am o leiaf un math o lythyr maen nhw'n ei anfon neu'n ei dderbyn ac y byddai o leiaf un o'r newidiadau, gan ystyried popeth, yn cael effaith sylweddol iawn.

A2.39 Rydym wedi edrych ar yr effaith a nodwyd ar bobl mewn lleoliadau penodol ac ymysg nifer o grwpiau gwahanol, ac mae ein tystiolaeth yn awgrymu nad oes llawer o amrywiad.[711] Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o'r 4%, wedi'i rannu yn ôl gwahanol grwpiau. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod, i'r graddau na fyddai anghenion rhesymol unigolyn yn cael eu diwallu drwy leihau cyflymder llythyrau, y gallai'r effaith fod yn fwy pe bai gan yr unigolyn hwn un neu fwy o'r nodweddion a nodwyd.

[707] Ymateb Unite i Ymgynghoriad 2025, t.5.
[708] Ymateb CCNI i Ymgynghoriad 2025, t.12; ymateb ACNI i Ymgynghoriad 2025, tt. 2-4.
[709] Ymateb Consumer Scotland i Ymgynghoriad 2025, t.28.
[710] BMG, 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleidiau 61-62.
[711] BMG, 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleid 51.

Tabl A2.1 dadansoddiad o'r grwpiau a nododd na fyddai'r gwasanaeth arfaethedig newydd yn diwallu eu hanghenion ar gyfer o leiaf un math o lythyr y maent yn ei anfon neu'n ei dderbyn ac y byddai o leiaf un o'r newidiadau'n cael effaith sylweddol iawn

Grŵp	Canran y grŵp a nododd na fyddai'r gwasanaeth arfaethedig newydd yn diwallu eu hanghenion ar gyfer o leiaf un math o lythyr a anfonir/a dderbynnir, ac o ystyried popeth, byddai o leiaf un o'r newidiadau yn cael effaith sylweddol iawn
Holl oedolion y DU	4%
16-34 (oed)	7%
Unrhyw gyflwr sy'n effeithio/cyfyngu	7%
Cael trafferthion ariannol	7%
Derbyn budd-daliadau	5%
Gwledig anghysbell	4%
Gwledig	3%
65+ (oed)	2%
Dim cysylltiad â'r rhyngrwyd	2%
Cymru	6%
Lloegr	5%
Yr Alban	3%
Gogledd Iwerddon	1%

A2.40 Mae defnyddwyr preswyl yng Nghymru (6%) a Lloegr (5%) ychydig yn fwy tebygol o ddweud y byddai'r newidiadau arfaethedig yn golygu na fyddai'r gwasanaeth yn diwallu eu hanghenion mwyach mewn perthynas ag o leiaf un math o lythyr maent yn ei anfon ac o ystyried popeth, byddai o leiaf un o'r newidiadau'n cael effaith sylweddol iawn. Y ffigurau cyfatebol yw 3% ar gyfer yr Alban ac 1% ar gyfer Gogledd Iwerddon.[712] Roedd defnyddwyr mewn ardaloedd Gwledig Anghysbell yn fwy tebygol o adrodd am effeithiau is o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig, er bod y grŵp hwn ychydig yn fwy tebygol o dderbyn llythyrau (84%) bob wythnos, o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 82%.[713]

A2.41 Yn Adran 6, rydym yn nodi ein penderfyniad i gadw'r targed ardal cod post (PCA) Dosbarth Cyntaf, ar lefel sydd wedi'i haddasu ychydig i adlewyrchu'r newid i'r prif darged Dosbarth Cyntaf, er mwyn sicrhau bod gwahanol ardaloedd yn cael eu diogelu. Rydym yn cydnabod cyd-destun unigryw Gogledd Iwerddon, yn enwedig yr heriau logistaidd sy'n gysylltiedig â gwahaniad ffisegol oddi wrth Brydain Fawr. Bydd Gogledd Iwerddon yn parhau i fod yn ddarostyngedig i darged ansawdd gwasanaeth PCA, sy'n golygu y dylai defnyddwyr a busnesau fel ei gilydd gael yr un llinell sylfaen o wasanaeth â gweddill y DU. Credwn fod yr

[712] BMG, 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleid 51.
[713] BMG, 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleidiau 11, 61-62.

effeithiau ar grwpiau cymdeithasol penodol yng Ngogledd Iwerddon yn cael eu hystyried fel rhan o'r EIA ehangach. Efallai y bydd yr effaith ar ddefnyddwyr mwy dibynnol yn gwaethygu mewn rhai rhannau o'r DU sydd hefyd yn wynebu heriau logistaidd, fel y rheini mewn lleoliadau gwledig ac anghysbell, Gogledd Iwerddon a'r ynysoedd yn yr Alban sydd wedi'u heithrio o'r ansawdd gwasanaeth.

A2.42 Rydym wedi egluro uchod pam rydym o'r farn, yn gyffredinol, mai cyfyngedig fydd effeithiau niweidiol posibl ein penderfyniadau. Felly, yng ngoleuni'r dystiolaeth a nodir uchod, rydym yn disgwyl y bydd yr effaith gyfyngedig hon yn weddol debyg ar draws gwahanol rannau o'r DU, gan gynnwys ardaloedd gwledig a gwledig anghysbell a phedair Gwlad y DU.

Deunydd etholiadol

Ymatebion rhanddeiliaid

A2.43 Dywedodd y Comisiwn Etholiadol fod gan rai prosesau etholiadol derfynau amser statudol byr, fel ceisiadau am Dystysgrifau Awdurdod Pleidleisio (VAC).[714] Nododd Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban a Chymdeithas Aseswyr yr Alban hefyd derfynau amser statudol llym, yn enwedig yng nghyd-destun heriau logistaidd yr Alban yn ogystal â fforddiadwyedd.[715]

Ein hasesiad

A2.44 Yn Adran 5, rydym yn nodi ymatebion rhanddeiliaid a'n safbwynt ar yr effaith y bydd newidiadau i ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth yn ei chael ar gategorïau penodol o bost, gan gynnwys deunydd etholiadol fel cardiau pleidleisio, pleidleisiau post, a VACs. Roedd hyn yn cynnwys gweinyddwyr etholiadol yn nodi pwysigrwydd sicrhau bod deunyddiau etholiadol yn cyrraedd yn brydlon gan fod amserlen etholiad, sy'n cael ei phennu gan y gyfraith, yn dynn.

A2.45 Rydym yn deall y gallai rhai grwpiau fod yn fwy tebygol o ddibynnu ar VACs nag eraill, gan gynnwys y rheini ar incwm isel, oherwydd efallai nad ydynt wedi talu am ID â llun arno. Gallai hyn atal y garfan hon rhag cymryd rhan mewn prosesau democrataidd yn brydlon. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl y bydd y gwasanaeth Ail Ddosbarth diwygiedig yn debygol o barhau i fod yn addas ar gyfer y rhan fwyaf o ddeunydd etholiadol sy'n cael ei anfon gan unigolion. Mewn achosion sy'n sensitif i amser, bydd y gwasanaeth Dosbarth Cyntaf presennol yn parhau i fod ar gael. O ystyried natur achlysurol etholiadau, rydym yn credu y bydd pobl yn gallu defnyddio Dosbarth Cyntaf os oes angen.

Cydlyniant cymdeithasol a chynnwys diwylliannol

Ymatebion rhanddeiliaid

A2.46 Dywedodd nifer o ymatebwyr unigol eu bod yn defnyddio llythyrau i gadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu ac i rai, mae'r postmon yn rhan o'u cymuned leol.

A2.47 Dywedodd ymatebydd [✂] [✂].[716]

---

[714] Ymateb y Comisiwn Etholiadol i Ymgynghoriad 2025, tt.1-6.
[715] Ymateb ar y cyd Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban (EMB) a Chymdeithas Aseswyr yr Alban (SAA) i Ymgynghoriad 2025, tt. 1-3.
[716] [✂]

A2.48 Mynegodd Tesco Bank bryderon y bydd ein cynigion yn golygu y gallai mwy o fusnesau ddewis defnyddio cyfathrebiadau digidol yn hytrach na llythyrau i arbed arian, gan leihau'r opsiynau cyswllt ar gyfer pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.[717]

Ein hasesiad

A2.49 Yn dilyn ein penderfyniadau, byddem yn pwysleisio y bydd llythyrau'n parhau i gael eu danfon ac y bydd unigolion yn parhau i gael dewis o wasanaethau sydd ar gael iddynt. Felly bydd defnyddwyr hefyd yn gallu parhau i ddefnyddio llythyrau a chardiau i gadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu. Bydd postmyn yn parhau i ddanfon eitemau i gartrefi, er y byddant yn defnyddio llai o lwybrau cerdded.

A2.50 Gan nad yw'r rhan fwyaf o gylchgronau a chynnwys diwylliannol arall yn sensitif i amser, rydym yn disgwyl i'n penderfyniad gael effaith niweidiol gyfyngedig, os o gwbl. Ar gyfer cylchgronau sy'n sensitif i amser, bydd gan gyhoeddwyr yr opsiynau Dosbarth Cyntaf o hyd, fel adwerthu swmp Dosbarth Cyntaf a'r gwasanaeth mynediad D+2 sydd ar gael. Rydym yn cydnabod y gallai hyn gynyddu costau a allai wedyn gael eu trosglwyddo i gwsmeriaid, a allai effeithio'n benodol ar bobl ar incwm isel a allai ei chael hi'n anodd ymdopi ag unrhyw gynnydd mewn prisiau sy'n deillio o hynny. Fodd bynnag, mae'r penderfyniad i drosglwyddo costau i ddefnyddwyr yn benderfyniad masnachol i fusnesau.

A2.51 Yn gyffredinol, rydym yn cydnabod y gallai rhai defnyddwyr ystyried bod diwrnod ychwanegol o aros am bost Ail Ddosbarth, a danfoniadau llai aml o bosibl, yn rhwystredig, a allai gyfrannu at deimlo'n ynysig, yn enwedig i'r rheini sydd â llai o ddewisiadau cyfathrebu amgen neu sydd wedi'u heithrio'n ddigidol. Dangosodd ein hymchwil blaenorol fod defnyddwyr mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell yn ystyried bod bodolaeth gwasanaethau post yn bwysig o ran mynd i'r afael â theimladau o unigrwydd (e.e. oherwydd bod eu darpariaeth symudol yn gyfyngedig yn aml).[718]

Dyletswyddau statudol eraill

Ymatebion rhanddeiliaid

A2.52 Dywedodd ymatebydd sefydliadol [✂] nad oedd Ofcom wedi ystyried y dyletswyddau sector cyhoeddus a amlinellir yn Neddf Anghenion Gwledig (Gogledd Iwerddon) 2016.[719]

A2.53 Gofynnodd rhai ymatebwyr i ni ystyried yr effaith ar ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg. Gofynnodd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon i ni ystyried yr effaith ar ieithoedd lleiafrifol, gan gynnwys Gwyddeleg a Phwyleg.[720] Gofynnodd unigolyn i ni ystyried yr effaith ar Aeleg yr Alban.

[717] Ymateb Tesco Bank i Ymgynghoriad 2025, t.1.
[718] Jigsaw, 2023. Deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau post – adroddiad ar ganfyddiadau ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar grwpiau a allai fod yn agored i niwed, sleid 21.
[719] [✂]
[720] Ymateb ACNI i Ymgynghoriad 2025, t.4.

Ein hasesiad

A2.54 Nid yw Ofcom yn rhwym wrth y dyletswyddau a nodir yn Neddf Anghenion Gwledig (Gogledd Iwerddon) 2016.[721] Fodd bynnag, o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, rhaid i Ofcom ystyried pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.[722] Rydym wedi ystyried effaith ein penderfyniadau ar wahanol rannau o'r DU ym mharagraffau A2.33 i A2.42 uchod, ac fel rhan o'n hasesiad effaith yn Adran 5 y Datganiad hwn.

A2.55 Nid ydym yn credu y bydd ein penderfyniadau'n trin unrhyw iaith yn llai ffafriol na'r Saesneg, nac yn cael effaith andwyol benodol ar ieithoedd penodol.

Casgliad

A2.56 Rydym yn cydnabod y gallai ein penderfyniadau effeithio mwy ar rai grwpiau nag eraill. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl i effaith ein penderfyniadau fod yn gyfyngedig gan fod y newidiadau rydym yn eu gwneud i'r USO eu hunain yn gyfyngedig, fel sy'n cael ei egluro ym mharagraff A2.18 uchod.

A2.57 Rydym yn disgwyl y gellir lliniaru llawer o effeithiau niweidiol cyfyngedig rhai danfoniadau Ail Ddosbarth arafach a danfoniadau eraill nad ydynt yn flaenoriaeth, a diffyg danfoniadau ar ddydd Sadwrn, drwy addasiadau bach i arferion anfon defnyddwyr, yn ogystal ag argaeledd gwasanaeth llythyrau Dosbarth Cyntaf. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai defnydd cynyddol o Ddosbarth Cyntaf olygu effaith benodol ar rai grwpiau fel y rheini sy'n agored i niwed yn ariannol neu ar incwm isel. Gallai pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol sydd ag ychydig neu ddim opsiynau cyfathrebu eraill hefyd gael eu heffeithio'n benodol oherwydd rhwystrau cyfathrebu dwysach.

A2.58 Rydym wedi nodi yn Adran 2 pam rydym yn credu bod diwygio yn agwedd angenrheidiol ar yr angen brys i gefnogi cynaliadwyedd y gwasanaeth cyffredinol. Rydym yn credu bod angen diwygio er mwyn sicrhau bod gwasanaeth cyffredinol yn cael ei ddarparu er budd pob defnyddiwr, gan gynnwys y rheini sy'n dibynnu mwy ar bost am wahanol resymau. Felly, rydym o'r farn bod manteision y newidiadau, a'r effeithiau niweidiol a fyddai'n deillio o'r ffaith nad yw'r gwasanaeth cyffredinol ar gael mwyach neu ei fod wedi dirywio'n sylweddol, yn drech nag unrhyw effeithiau niweidiol sy'n deillio o'n cynigion. Rydym hefyd o'r farn y bydd unrhyw effeithiau niweidiol yn gymesur o ran na fyddant yn fwy na'r hyn sy'n angenrheidiol i gyflawni ein hamcanion polisi o sefydlu fframwaith rheoleiddio diwygiedig, sy'n arwain at fanteision i ddefnyddwyr drwy wasanaeth cyffredinol sy'n diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr, yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar gynaliadwyedd ariannol ac effeithlonrwydd y gwasanaeth cyffredinol, yn cymell y Post Brenhinol i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel, ac yn annog arloesedd a chystadleuaeth yn y diwydiant post. Felly, rydym o'r farn bod y cynigion yn gyfiawn ac yn gymesur.

A2.59 Rydym yn nodi'r pryderon a godwyd gan randdeiliaid ynghylch fforddiadwyedd Dosbarth Cyntaf. Rydym yn disgwyl y dylai ein penderfyniadau arwain at brisiau is i ddefnyddwyr yn y tymor hir, ac nid ydym yn credu y byddai prisiau Dosbarth Cyntaf yn uwch o dan sefyllfa

[721]Gweler yr Atodlen i Ddeddf Anghenion Gwledig (Gogledd Iwerddon) 2016 i weld y cyrff cyhoeddus sydd o fewn y cwmpas.
[722]Gweler Adran 3(4)(l) Rhan 1 Deddf Cyfathrebiadau 2003.

wrthffeithiol resymol lle byddai anghenion defnyddwyr yn cael eu diwallu. Rydym yn nodi ein hasesiad o bris a fforddiadwyedd gwasanaethau post yn Adran 5. Byddwn yn gwneud rhagor o waith ar fforddiadwyedd, fel yr amlinellir yn Adran 9.

A2.60 Rydym yn deall bod rhai rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon ynghylch sut byddwn yn monitro a yw'r newidiadau'n arwain at effeithiau niweidiol i ddefnyddwyr. Byddwn yn parhau i wneud hyn drwy fonitro perfformiad y Post Brenhinol drwy ein rhaglen monitro post, gan gynnwys ein traciwr post.[723]

[723] Adroddiadau monitro post blynyddol Ofcom.

A3. Asesiad o Anghenion Defnyddwyr Post

Pwrpas yr Atodiad hwn

A3.1 Mae'n rhaid i Ofcom asesu i ba raddau mae marchnad gwasanaethau post y DU yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr y gwasanaethau hynny cyn unrhyw addasiad posibl i'r Gorchymyn.[724]

A3.2 Yn yr atodiad hwn, gan ddefnyddio ymchwil i anghenion defnyddwyr, data am y farchnad a thystiolaeth arall, rydym yn nodi asesiad terfynol Ofcom o anghenion rhesymol defnyddwyr sy'n anfon ac yn derbyn llythyrau ac i ba raddau mae marchnad llythyrau bresennol y DU yn diwallu'r anghenion hynny.

Yn fyr

A3.3 Mae'r ffordd mae unigolion a busnesau'n defnyddio gwasanaethau post wedi newid, oherwydd bod mwy a mwy yn defnyddio cyfathrebiadau digidol a'r gostyngiad dilynol yn y ddibyniaeth ar wasanaethau post ar gyfer cyfathrebu personol a busnes.

A3.4 Er mwyn canfod anghenion rhesymol defnyddwyr, rydym wedi cyfeirio at ein corff helaeth o ymchwil, gan gynnwys ein hymchwil defnyddwyr diweddaraf a oedd yn profi'n benodol ymatebion defnyddwyr i newidiadau posibl i'r USO ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth.[725] Rydym hefyd wedi ystyried ymchwil ychwanegol a gyflwynwyd gan randdeiliaid mewn ymateb i'n Hymgynghoriad.

A3.5 Mae llawer o'r post mae llawer o ddefnyddwyr yn dibynnu arno ar gyfer cyfathrebiadau swyddogol fel apwyntiadau ysbyty, llythyrau meddygol, biliau a llythyrau budd-daliadau yn cael ei anfon gan ddefnyddio post swmp yn hytrach na gwasanaethau USO. Felly, mae ein hasesiad hefyd yn ystyried anghenion unigolion a busnesau bach a chanolig fel rhai sy'n derbyn post swmp.

A3.6 Fe welsom fod ar ddefnyddwyr angen gwasanaeth llythyrau sy'n ddibynadwy, yn fforddiadwy ac yn rheolaidd. Bydd angen iddynt bob amser ddefnyddio gwasanaethau post i anfon a derbyn llythyrau, ond mae'r ddibyniaeth ar wasanaethau post i anfon llythyrau wedi gostwng yn sylweddol ac nid oes angen danfon llythyrau chwe diwrnod yr wythnos ar ddefnyddwyr ar gyfer y rhan fwyaf o lythyrau maent yn eu hanfon a'u derbyn. Rydym felly wedi canfod bod gan ddefnyddwyr angen rhesymol, er achlysurol, am wasanaeth danfon blaenoriaeth cyflymach, chwe diwrnod yr wythnos ar y diwrnod canlynol. Nid oes ganddynt angen rhesymol i lythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth gael eu danfon ar ddydd Sadwrn. Nid oes angen i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr gael llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth bob amser o fewn tri diwrnod gwaith, er y gallai fod angen hyn yn rhesymol ar rai defnyddwyr.

A3.7 Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael i ni, rydym wedi dod i'r casgliad bod marchnad llythyrau bresennol y DU yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr i raddau helaeth, ac ar y cyfan yn rhagori ar anghenion rhesymol defnyddwyr yn achos amlder danfon llythyrau nad ydynt

[724] Adran 30(3) o Ddeddf Gwasanaethau Post 2011.
[725] BMG, 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024

yn flaenoriaeth. Rydym yn disgwyl y byddai'r farchnad yn parhau i ddiwallu anghenion rhesymol defnyddwyr i raddau sylweddol pe bai llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth yn cael eu danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, ond rydym yn cydnabod efallai na fydd rhai anghenion rhesymol rhai defnyddwyr yn cael eu diwallu ar yr adegau prin pan fydd angen iddynt anfon llythyr i gyrraedd ar ddydd Sadwrn ac na allant fforddio Dosbarth Cyntaf.

A3.8 Rydym yn cydnabod bod rhai grwpiau'n dweud eu bod yn dibynnu mwy ar bost. Rydym wedi canfod bod anghenion defnyddwyr o'r fath yn debyg i ddefnyddwyr 'nodweddiadol', yn enwedig mewn perthynas â chyflymder danfon llythyrau Ail Ddosbarth a phost swmp nad yw'n bost brys. Felly, rydym yn dod i'r casgliad bod y farchnad hefyd yn diwallu eu hanghenion i raddau helaeth heddiw ac y byddai'n parhau i wneud hynny drwy newid amlder danfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth i bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, cyn belled bod gwasanaeth danfon y diwrnod canlynol yn dal ar gael.

Cyflwyniad

A3.9 Amcan gwasanaeth post cyffredinol yw gwarantu bod gwasanaeth post o ansawdd da yn cael ei ddarparu am brisiau fforddiadwy, a'i fod ar gael i bawb yn y DU. Mae'n adlewyrchu'r casgliad bod y gwasanaeth mor bwysig i ddefnyddwyr, i fusnesau ac i gymdeithas yn gyffredinol bod angen ymyrryd i sicrhau bod pawb yn gallu cael gafael ar wasanaethau ar yr un telerau, sef rhywbeth na fyddai'r farchnad yn gallu ei wneud fel arall. Fodd bynnag, bwriad y gwasanaeth cyffredinol yw dim ond diwallu'r anghenion rhesymol hynny nad ydynt yn cael eu diwallu'n ddigonol gan y farchnad ehangach fel arall.

A3.10 Roedd ein Cais am Fewnbwn yn 2024 yn galw am ddadl genedlaethol ar ddyfodol y gwasanaeth post cyffredinol.[726] Yn y Cais am Fewnbwn, fe wnaethom nodi opsiynau i ddiwygio'r USO a fyddai'n gallu, yn ein barn ni, parhau i ddiwallu anghenion rhesymol defnyddwyr, gan greu arbedion cost ac arwain at ganlyniadau da i ddefnyddwyr o ran parhau i ddarparu'r gwasanaeth cyffredinol.

A3.11 Mae Ofcom yn nodi'r gwasanaethau y mae'n rhaid eu darparu fel rhan o'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol (USO) drwy Orchymyn Gwasanaethau Post (Gwasanaeth Post Cyffredinol) 2012 (y Gorchymyn).[727] Byddai mabwysiadu unrhyw un o'r opsiynau diwygio a nodir yn y Cais am Fewnbwn yn ei gwneud yn ofynnol i ni wneud newidiadau i'r Gorchymyn. Cyn addasu'r Gorchymyn, mae adran 30(3) Deddf Gwasanaethau Post 2011 yn mynnu ein bod yn cynnal asesiad o'r graddau mae'r farchnad ar gyfer gwasanaethau post yn y DU yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr. Mae'r atodiad hwn yn cynnwys yr asesiad hwnnw.

A3.12 Ym mis Ionawr 2025, fe wnaethom gyhoeddi Ymgynghoriad yn cynnig newidiadau i amlder danfon Ail Ddosbarth.[728] Roeddem yn cynnig ein bod yn newid cwmpas yr USO i ddisodli danfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth chwe diwrnod yr wythnos gyda danfon llythyrau o'r fath bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos (dydd Llun i ddydd Gwener).[729]

[726] Ofcom, 2024. Cais am Fewnbwn: Dyfodol y Gwasanaeth Post Cyffredinol
[727] Gorchymyn y Gwasanaethau Post (Gwasanaeth Post Cyffredinol) 2012.
[728] Ofcom, 2025. Ymgynghoriad: Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post.
[729] Mae llythyrau Heb Flaenoriaeth yn cyfeirio at Lythyrau Busnes Safonol ac Ail Ddosbarth (er enghraifft llythyrau gan sefydliadau fel y GIG, cynghorau lleol, banciau a busnesau eraill).

Roedd y newid arfaethedig hwn yn adlewyrchu'r ffaith bod casgliadau dros dro o'n hasesiad o anghenion defnyddwyr post wedi canfod nad oes angen dau wasanaeth chwe diwrnod yr wythnos ar ddefnyddwyr mwyach i ddiwallu eu hanghenion rhesymol ac mai'r bwriad yw cefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth. [730]

A3.13 Er bod yr asesiad hwn yn ystyried anghenion defnyddwyr yn gyffredinol, o ystyried y cynigion a wnaethom ar gyfer newidiadau i amlder danfon Ail Ddosbarth, mae'n canolbwyntio ar anghenion rhesymol defnyddwyr sy'n ymwneud ag amlder a chyflymder danfon llythyrau ac i ba raddau mae'r farchnad yn diwallu'r anghenion hynny. Rydym wedyn yn mynd ymlaen i asesu i ba raddau y byddai newidiadau i'r USO mewn perthynas â'r ddwy nodwedd hyn yn parhau i ddiwallu anghenion defnyddwyr. Yn ogystal ag amlder a chyflymder, mae ein hasesiad hefyd yn ystyried anghenion rhesymol eraill sy'n berthnasol i ddiwygio, fel dibynadwyedd a fforddiadwyedd.

A3.14 Ein dull o asesu anghenion rhesymol defnyddwyr fu edrych ar sut mae'r ffordd mae unigolion a busnesau bach a chanolig yn defnyddio gwasanaethau post wedi newid. Rydym wedi dadansoddi ein corff helaeth o ymchwil defnyddwyr i ddod i gasgliadau am beth mae busnesau bach a chanolig ac unigolion ei angen gan wasanaethau post ac a yw'r anghenion hyn yn rhesymol. Wrth gynnal ein hasesiad terfynol o anghenion defnyddwyr, rydym hefyd wedi dadansoddi ymchwil a thystiolaeth a gyflwynwyd i ni gan randdeiliaid fel rhan o'n Hymgynghoriad.[731] Rydym wedi canolbwyntio ar anghenion busnesau bach a chanolig yn hytrach na'r holl ddefnyddwyr busnes gan fod busnesau a sefydliadau mwy yn tueddu i ddefnyddio gwasanaethau post swmp yn hytrach na chynnyrch USO i anfon llythyrau.[732] Fodd bynnag, rydym wedi ystyried anghenion busnesau bach a chanolig a defnyddwyr unigol o ran y llythyrau maent yn eu derbyn gan sefydliadau a busnesau mawr drwy wasanaethau post swmp, gan fod llawer o'r llythyrau sy'n cael eu hystyried yn bwysig iawn gan ddefnyddwyr yn cael eu hanfon gan ddefnyddio post swmp, er enghraifft llythyrau sy'n ymwneud â materion meddygol ac ariannol. Rydym yn disgwyl i anghenion anfonwyr post swmp gyd-fynd i raddau helaeth ag anghenion eu defnyddwyr.

A3.15 Wrth asesu anghenion rhesymol defnyddwyr gwasanaethau post, rydym wedi ystyried beth mae defnyddwyr wedi ei ddweud yn ein hymchwil am sut maen nhw'n defnyddio gwasanaethau post a beth maen nhw ei angen ganddyn nhw. Rydym yn ystyried bod gwahaniaeth rhwng defnyddwyr yn ystyried bod agwedd ar wasanaeth yn bwysig, neu eu bod yn ffafrio'r agwedd honno, ac a yw'n angen rhesymol. Er bod gan rai defnyddwyr ffafriaeth benodol, efallai y byddwn yn dod i'r casgliad nad yw ffafriaeth yn angen rhesymol. Er mwyn hysbysu ein casgliadau, rydym wedi edrych ar anghenion defnyddwyr yn gyffredinol, ac wedi ystyried y costau sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaeth ac effaith darparu gwasanaeth ar ddefnyddwyr, ar gymdeithas yn gyffredinol, ac ar y Post Brenhinol fel y darparwr gwasanaeth cyffredinol dynodedig. Er enghraifft, os oes gan grŵp o ddefnyddwyr angen am wasanaeth am bris sy'n is na'r gost y gallai'r darparwr gwasanaeth cyffredinol dynodedig ddarparu'r gwasanaeth hwnnw amdano yn rhesymol, yna efallai y byddwn yn ystyried nad yw'n angen rhesymol. Yn yr un modd, efallai y byddwn yn gweld

[730] Ofcom, 2025. Ymgynghoriad: Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post.
[731] Mae'r ymatebion hyn a'n hasesiad wedi'u nodi'n fanwl yn Adran 3 ein Datganiad.
[732] Mae gwasanaethau post swmp yn cael eu defnyddio gan sefydliadau mawr sy'n anfon nifer fawr o lythyrau. Fel sy'n cael ei egluro yn Adran 2, mae gwasanaethau post swmp yn cael eu cynnig gan y Post Brenhinol ar sail fasnachol, ond mae Ofcom hefyd yn mynnu bod y Post Brenhinol yn rhoi mynediad i'w rwydwaith danfon i gwmnïau post swmp sy'n cystadlu.

nad yw angen yn rhesymol os oes ei angen ar grŵp bach o ddefnyddwyr ond nad oes ei angen ar ddefnyddwyr wrth ei ystyried yn ei gyfanrwydd. Wrth wneud y penderfyniadau hyn, rydym hefyd yn ystyried anghenion grwpiau agored i niwed.

A3.16 Ar ôl sefydlu'r hyn rydym yn ei ystyried yn anghenion rhesymol defnyddwyr, rydym wedi asesu i ba raddau mae'r farchnad bresennol ar gyfer gwasanaethau post yn y DU yn diwallu'r anghenion hynny.

Cwmpas ein Hasesiad

Parseli

A3.17 Rydym wedi canolbwyntio ein hasesiad ar anghenion rhesymol defnyddwyr sy'n anfon ac yn derbyn llythyrau yn unig. Nid yw'n cynnwys parseli. Fel sy'n cael ei egluro yn ein Hymgynghoriad, nid ydym yn credu bod anghysondeb rhwng manyleb yr USO ar gyfer parseli ac anghenion defnyddwyr.[733] Roedd ein Cais am Fewnbwn yn nodi'r dystiolaeth a arweiniodd at y casgliad hwn.[734]

Defnyddwyr busnes a llythyrau sy'n cael eu hanfon drwy ddefnyddio post swmp

A3.18 Gan fod yn rhaid i ni gynnal asesiad o dan adran 30 cyn addasu cwmpas yr USO, rydym wedi canolbwyntio ein hasesiad ar anghenion rhesymol defnyddwyr o ran y llythyrau USO un eitem maent yn eu hanfon a'u derbyn. Fodd bynnag, post swmp - sy'n cael ei ddefnyddio gan ddefnyddwyr mawr fel banciau, cyrff cyhoeddus a'r GIG - yw'r rhan fwyaf o'r holl lythyrau ac mae'n cael ei ddanfon ochr yn ochr â llythyrau un eitem gan ddefnyddio'r rhwydwaith USO. Yn yr un modd â llythyrau un eitem, mae'n cael ei ddanfon bob dydd o ddydd Llun i ddydd Sadwrn. Gan mai'r Post Brenhinol yw'r unig weithredwr sydd â rhwydwaith danfon llythyrau cenedlaethol, mae'n bwysig bod y rhwydwaith hwn yn cefnogi danfon llythyrau post swmp.

A3.19 Fel arfer, nid yw defnyddwyr yn gwahaniaethu rhwng USO un eitem a gwasanaethau post swmp wrth feddwl am eu hanghenion o ran derbyn post. Mae ein hymchwil wedi canfod bod y post mae llawer o ddefnyddwyr yn dibynnu arno ar gyfer gohebiaeth swyddogol yn cael ei anfon fel arfer gan ddefnyddio gwasanaethau post swmp, megis apwyntiadau ysbyty, llythyrau meddygol, biliau, llythyrau budd-daliadau a dogfennau fel pasbortau. O'r herwydd, mae cyfranogwyr yn ein hymchwil yn aml wedi trafod gwasanaethau nad ydynt yn rhai USO wrth feddwl am yr hyn sydd ei angen arnynt gan wasanaethau post.

A3.20 O ystyried yr uchod, mae ein hasesiad yn ystyried anghenion unigolion a busnesau bach a chanolig fel derbynwyr post swmp ac, o ganlyniad, mae'n ystyried yn anuniongyrchol anghenion busnesau a sefydliadau mawr fel anfonwyr, y disgwyliwn y byddai'n cyd-fynd ag anghenion eu cwsmeriaid a'u defnyddwyr. Fodd bynnag, nid yw gwasanaethau post swmp yn rhan o'r USO. Mae'r rhan fwyaf o bost swmp yn cael ei drin gan gwmnïau mynediad, sy'n golygu bod darparu'r rhan fwyaf o bost swmp yn cael ei ategu gan reoleiddio

[733] Ofcom, 2025. Ymgynghoriad: Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post t.12.

[734] Ofcom, 2024. Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol - Cais am Fewnbwn, tudalen 68.

mynediad Ofcom ac yn cael ei bennu gan y trefniadau masnachol rhwng y Post Brenhinol a'r cwmnïau mynediad. Mae'r Post Brenhinol hefyd yn cynnig gwasanaethau manwerthu swmp, nad ydynt yn cael eu rheoleiddio, ac mae'r Post Brenhinol a'i gwsmeriaid yn cytuno ar delerau'r gwasanaethau hyn o dan gontract. Rydym wedi ystyried ymhellach anghenion sefydliadau a busnesau sy'n defnyddio gwasanaethau post swmp mewn cysylltiad â'n cynigion i newid yr Amod mynediad darparwr gwasanaeth cyffredinol, fel y nodir yn Adran 7 yr Ymgynghoriad.[735]

Rôl gymdeithasol ehangach gwasanaethau post

A3.21 Cawn ar ddeall i rai defnyddwyr, yn enwedig pobl hŷn, pobl sydd â symudedd cyfyngedig a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig mwy anghysbell, bod gwasanaethau post yn dal yn bwysig ar gyfer cydlyniant cymdeithasol a bod gweithwyr y Post Brenhinol yn chwarae rhan bwysig mewn cymunedau lleol. Er ei fod yn sicr yn bwysig, nid yw'r rôl gymdeithasol gymunedol ehangach a'r gwerth sy'n gysylltiedig â danfoniadau'r Post Brenhinol a'i weithwyr, ac yn y post yn gyffredinol, wedi bod yn rhan o'n hasesiad o anghenion defnyddwyr. Y rheswm am hyn yw ein bod, yn unol â'r gofyniad yn y Ddeddf, wedi canolbwyntio ar y gwasanaethau post sy'n cael eu darparu gan y farchnad ac y gall y farchnad eu darparu. Fodd bynnag, rydym wedi ystyried y manteision cymdeithasol ehangach hyn wrth asesu effaith y newidiadau arfaethedig i amlder danfon llythyrau Ail Ddosbarth yn Adran 5 ein Hymgynghoriad.[736]

Ein Tystiolaeth

A3.22 I wneud yr asesiad hwn, rydym wedi defnyddio ein sylfaen dystiolaeth helaeth ar sut mae unigolion a busnesau bach a chanolig yn defnyddio gwasanaethau post i anfon ac i dderbyn llythyrau. Rydym hefyd wedi ystyried tystiolaeth ar anghenion defnyddwyr a gyflwynwyd gan randdeiliaid fel rhan o'u hymateb i'n Hymgynghoriad. Rydym hefyd wedi edrych ar nodweddion y gwasanaethau post mae defnyddwyr yn eu gwerthfawrogi, y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt a sut mae hyn wedi newid.

Ymchwil ar anghenion defnyddwyr

A3.23 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Ofcom wedi comisiynu ymchwil i'n helpu i ddeall anghenion rhesymol defnyddwyr post. Mae'r rhaglen ymchwil hon yn rhoi sylfaen dystiolaeth fawr i ni o sut mae defnyddwyr preswyl a busnesau bach a chanolig yn defnyddio gwasanaethau post ar draws y DU, beth maent yn ei werthfawrogi, anghenion gwahanol grwpiau o ddefnyddwyr (e.e. defnyddwyr hŷn a phobl mewn lleoliadau gwledig), newid arferion defnyddwyr a thueddiadau ehangach. Rydym wedi defnyddio'r corff hwn o ymchwil i lywio ein hasesiad:

- Yn 2020, fe wnaethom gynnal ymchwil feintiol gyda defnyddwyr preswyl a busnesau bach a chanolig er mwyn deall eu hanghenion. Roedd yr ymchwil yn cynnwys ymarfer ar y cyd ar sail dewis, i'n helpu i ddeall ac i fesur pwysigrwydd a gwerth cymharol gwahanol

[735] Ofcom, 2025. Ymgynghoriad: Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post t.114-151.
[736] Ofcom, 2025. Ymgynghoriad: Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post t.68-88.

elfennau o'r gwasanaeth post.[737] Fe wnaethom hefyd gynnal ymchwil ansoddol (gweithdai a chyfweliadau manwl) gyda defnyddwyr post preswyl a busnesau bach a chanolig er mwyn deall eu hanghenion.[738]

- Yn 2020, fe wnaethom gynnal arolwg ar-lein ymysg sampl gynrychioladol o oedolion yn y DU yng nghyd-destun cyfyngiadau a oedd yn gysylltiedig â COVID-19.[739]
- Yn 2023, fe wnaethom gynnal ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar ddefnyddwyr agored i niwed, i'n helpu i ddeall beth sydd ei angen ar ddefnyddwyr preswyl gan wasanaeth post.[740] Fe wnaethom hefyd gynnal arolwg ar-lein ymysg sampl gynrychioladol o oedolion yn y DU.[741]
- Yn 2024, fe wnaethom gynnal ymchwil feintiol gyda samplau cynrychioliadol o oedolion a busnesau bach a chanolig yn y DU. Roedd yr ymchwil yn gofyn i ddefnyddwyr am nifer o wahanol gategorïau o lythyrau maent yn eu hanfon a'u derbyn. Mae'r samplau'n golygu ein bod yn gallu dadansoddi'r canlyniadau yn ôl grwpiau demograffig a math o fusnes, gan gynnwys y rhai a allai fod yn dibynnu'n drwm ar wasanaethau llythyrau.[742]
- Rydym hefyd yn cynnal arolygon tracio post blynyddol sy'n darparu data ar brofiadau ac agweddau defnyddwyr preswyl a busnesau bach a chanolig i lywio ein gwaith monitro post a'n helpu i ddeall profiad defnyddwyr unigol a busnesau bach a chanolig o'r marchnadoedd post a sut maen nhw'n newid o un flwyddyn i'r llall. Mae'r traciwr diweddaraf rydym wedi adrodd arno yn berthnasol i fis Gorffennaf 2023 i fis Mehefin 2024.[743]

Adolygiadau o anghenion defnyddwyr

A3.24 Ers ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros reoleiddio gwasanaethau post yn 2011, mae Ofcom wedi cynnal dau adolygiad cynhwysfawr o anghenion defnyddwyr, yn 2013 ac yn 2020. [744][745]

737 Jigsaw, 2020. Ymchwil Defnyddwyr Post y DU: Adroddiad Ymchwil Meintiol
[738] Jigsaw, 2020. Anghenion Defnyddwyr Post y DU: Adroddiad Ymchwil Ansoddol,
[739] Jigsaw, 2020. Adroddiad Ymchwil Dilynol Anghenion Post
[740] Jigsaw, 2023. Deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau post – adroddiad ar ganfyddiadau ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar grwpiau a allai fod yn agored i niwed
[741] Yonder, 2023. Ymchwil arolwg defnyddwyr ar bost
[742] BMG, 2025. Post Users Needs Research Report 2024.
[743]https://www.ofcom.org.uk/siteassets/resources/documents/postal-services/monitoring-reports/2023-2024/post-monitoring-report-2023-24.pdf?v=384016 Jigsaw, 2024. Traciwr Post Preswyl – Adroddiad Blynyddol Gorffennaf 2023 – Mehefin 2024 BVA BDRC, 2024. Arolwg Defnyddwyr Post Busnesau Bach a Chanolig – Adroddiad – Adroddiad Blynyddol Gorffennaf 2023 – Mehefin 2024, a'r Traciwr Post Preswyl Gorffennaf 2023 – Mehefin 2024 tablau data wedi'u pwysoli , Traciwr Post Busnesau Bach a Chanolig Gorffennaf 2023 – Mehefin 2024 tablau data wedi'u pwysoli
[744] Ofcom, 2013. Adolygiad o anghenion defnyddwyr post
[745] Ofcom, 2020. Adolygiad o anghenion defnyddwyr post. Cynhaliwyd yr adolygiad hwn o dan adran 34 o'r Ddeddf, sy'n nodi y gall Ofcom gynnal adolygiad i weld a allai'r gofynion sylfaenol adlewyrchu anghenion rhesymol defnyddwyr yn well, ac ar ôl hynny gall yr Ysgrifennydd Gwladol addasu'r gofynion hynny. Nid yw'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn yn golygu newid y gofynion sylfaenol, felly mae'r adran hon wedi'i chyfyngu i'n hasesiad o anghenion rhesymol defnyddwyr ac a yw'r farchnad bresennol ar gyfer llythyrau yn diwallu'r anghenion hynny fel sy'n ofynnol o dan adran 30(3) o'r Ddeddf.

Data'r farchnad

A3.25 Rydym yn casglu amrywiaeth o ddata marchnad ar wasanaethau post sy'n dangos y newidiadau yn y farchnad llythyrau, a gyhoeddwyd fel rhan o'n hadroddiad monitro post blynyddol.[746]

Cais am Fewnbwn

A3.26 Ym mis Ionawr 2024 fel wnaethom gyhoeddi Cais am Fewnbwn yn galw am ddadl genedlaethol ar ddyfodol y gwasanaeth post cyffredinol. Rydym wedi ystyried yr ymatebion i'r Cais am Fewnbwn, yn ogystal ag adborth o'r pedwar digwyddiad a gynhaliwyd gennym ledled y DU ym mis Mawrth 2024 a chyfarfodydd dilynol gyda grwpiau defnyddwyr, wrth gynnal yr asesiad hwn o anghenion defnyddwyr a dylunio'r ymchwil defnyddwyr newydd sy'n cael ei ddefnyddio yn yr asesiad hwn.[747]

Ymchwil a gyflwynwyd mewn ymateb i'n Hymgynghoriad ym mis Ionawr 2025

A3.27 Roedd nifer o ymatebwyr i'n Hymgynghoriad wedi cyflwyno neu gyfeirio at ymchwil roedden nhw wedi'i chynnal ar anghenion defnyddwyr ac, mewn rhai achosion, safbwyntiau defnyddwyr ar ein newidiadau arfaethedig i amlder danfon Ail Ddosbarth.

- **Y Post Brenhinol** - ymchwil feintiol gyda 3,000 o ddefnyddwyr preswyl a 300 o fusnesau bach a chanolig a gynhaliwyd gan Illuminas yn 2023.[748]
- **Cyngor ar Bopeth** - arolwg meintiol o 3,351 o oedolion a gynhaliwyd gan Accent ar 6 i 26 Chwefror 2025. Roedd hyn yn cynnwys arolwg ar-lein o 3,000 o oedolion, 251 o gyfweliadau wyneb yn wyneb ag oedolion sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol a 100 o gyfweliadau dros y ffôn ag oedolion sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, anghysbell.[749] Cynhaliwyd pum grŵp ffocws ansoddol o 10 defnyddiwr post yng Nghymru a Lloegr gan Savanta, ym mis Gorffennaf a mis Awst 2024.[750]
- **Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon** - 11 grŵp ffocws gyda defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon a gynhaliwyd rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2023 gan Cognisense.[751] Cynhaliwyd arolwg meintiol gyda 1,000 o ddefnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon ar-lein ym mis Ionawr 2025.[752]
- **Consumer Scotland** - arolwg meintiol o 1,004 o ddefnyddwyr yn yr Alban a gynhaliwyd gan IFF yn 2025.[753] Cynhaliwyd cyfweliadau ansoddol â 34 o ddefnyddwyr gwledig incwm isel yn yr Alban gan Thinks yn 2024.[754]

---

[746] Ofcom, 2024. Adroddiad monitro'r post – Gwasanaethau post yn y flwyddyn ariannol 2023-24

[747] Ofcom, 2024. Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol

[748] Y Post Brenhinol, 2024. Ymchwil Defnyddwyr a Busnesau Bach a Chanolig Rhagfyr 2023.

[749] Canfyddiadau yn ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad Ionawr 2025, tud. 25.

[750] Cyngor ar Bopeth, 2025. The full package: what consumers need from a changing postal service.

[751] Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon, 2024. Qualitative study on the impact on consumers of changes to Royal Mail's universal service obligation.

[752] Canfyddiadau yn Ymateb CCNI i Ymgynghoriad 2025.

[753] IFF, 2025. Consumer Scotland Royal Mail Universal Service Obligation, Survey Research March 2025.

[754] Thinks, 2025. Post and low-income rural consumers.

- **Cymdeithas Cardiau Cyfarch** - cynhaliwyd arolwg meintiol o 1,000 o oedolion yn y DU gan One Pulse ym mis Mawrth 2025.[755]
- **Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB)** - Mynegai Busnesau Bach Ch1 2024 - arolwg meintiol o 1,000 a mwy o aelodau'r Ffederasiwn Busnesau Bach a gynhaliwyd gan Verve.[756]
- **Countryside Alliance** - arolwg o'r aelodau a'r cefnogwyr - methodoleg a maint y sampl heb eu nodi.[757]
- **Swyddfa'r Post Cyfyngedig** - arolwg meintiol o 2,001 o oedolion yn y DU a gynhaliwyd ar-lein ym mis Ionawr 2025 gan Dynata.[758]

Marchnad llythyrau'r DU

A3.28 Wrth asesu a yw marchnad llythyrau'r DU yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr, rydym yn ystyried y farchnad llythyrau gyfan, nid dim ond gwasanaethau USO.

A3.29 Mae tair prif ran i'r farchnad llythyrau yn y DU ar hyn o bryd:

- **Gwasanaethau llythyrau 'un eitem' o un pen i'r llall:** Llythyrau sengl safonol (e.e. llythyrau personol, biliau, cardiau cyfarch, gwasanaethau ffrancio) a llythyrau mawr, a anfonir yn bennaf gan unigolion a busnesau bach a chanolig drwy ddefnyddio blwch post neu swyddfa bost, sy'n cael eu casglu a'u danfon gan y Post Brenhinol.[759] Y Post Brenhinol yw'r unig ddarparwr gwasanaethau llythyrau un eitem ac mae'n darparu amrywiaeth o wasanaethau llythyrau USO, gan gynnwys y Dosbarth Cyntaf, Ail Ddosbarth a Danfon Arbennig y Diwrnod Canlynol (Wedi'i warantu erbyn 1pm). Felly, mae defnyddwyr gwasanaethau llythyrau un eitem yn dal i ddibynnu bron yn gyfan gwbl ar y Post Brenhinol i'w galluogi i gasglu ac i ddanfon llythyrau fel rhan o'r gwasanaeth cyffredinol.

  Mae'r Post Brenhinol hefyd yn cynnig gwasanaethau post wedi'u ffrancio i fusnesau ac i sefydliadau fel opsiwn talu a phostio mewnol, yn ogystal â stampiau. Mae hyn yn golygu bod busnesau a sefydliadau eraill yn gallu prynu neu lesio peiriannau ffrancio sy'n argraffu'r marc post yn uniongyrchol ar lythyrau. Mae'r Post Brenhinol yn cynnig gwasanaethau post wedi'u ffrancio am brisiau is o'i gymharu â gwasanaethau rheolaidd â stamp o fewn yr USO. Mae prisiau cynnyrch Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth wedi codi yn ystod y blynyddoedd diwethaf.[760] Mae stampiau Dosbarth Cyntaf wedi codi o £1.10 ym mis Ebrill 2023 i £1.70 o fis Ebrill 2025. Mae pris llythyr safonol Ail Ddosbarth dros y pedair blynedd diwethaf wedi cynyddu o £0.61 yn 2019-20 i £0.87 o fis Ebrill 2025 ymlaen.[761]

---

[755]Canfyddiadau yn Ymateb GCA i Ymgynghoriad 2025.
[756]Canfyddiadau yn Ymateb FSB i Ymgynghoriad 2025.
[757]Canfyddiadau yn Ymateb y Countryside Alliance i Ymgynghoriad 2025.
[758]Swyddfa'r Post, 2025. Stampiau Nadolig.
[759] Caiff llythyrau fod hyd at 24cm o hyd, 16.5cm o led a hyd at a chan gynnwys 0.5cm o drwch, gan bwyso dim mwy na 100g. Caiff llythyrau mawr fod hyd at 35.3cm o hyd, 25cm o led a hyd at a chan gynnwys 2.5cm o drwch, gan bwyso dim mwy na 750g.
[760] Gweler Ofcom, 2022. Adolygu Rheoliadau'r Gwasanaeth Post 2022, tudalen 126. paragraff 5.244
[761] Ofcom, 2024. Adroddiad Monitro'r Post 2023-24,, t. 9.

- **Gwasanaethau manwerthu busnes o un pen i'r llall (dim-USO):** Pan fydd y Post Brenhinol yn casglu llawer iawn o bost yn uniongyrchol gan fusnesau mwy (neu sefydliadau eraill) ac yn ei ychwanegu at ei rwydwaith i'w ddidoli, ei ddosbarthu a'i ddanfon.

- **Gwasanaethau post mynediad busnes (dim-USO):** Mae cwmnïau mynediad yn cystadlu'n uniongyrchol â gwasanaethau manwerthu'r Post Brenhinol am bost swmp gan fusnesau mawr a sefydliadau fel banciau, adrannau'r llywodraeth a'r GIG. Mae'r cwmnïau mynediad hyn yn casglu ac yn didoli post cyn ei roi yn rhwydwaith y Post Brenhinol ar gyfer ei ddanfon y filltir olaf.

Beth yw anghenion rhesymol defnyddwyr gwasanaethau post?

A3.30 Rydym wedi asesu i ba raddau mae'r farchnad yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr gwasanaethau post mewn dau gam: yn gyntaf rydym wedi ymchwilio i sut mae'r defnydd o wasanaethau post a'r ddibyniaeth arnynt wedi newid, y nifer cynyddol sy'n defnyddio gwasanaethau cyfathrebu digidol a'r gostyngiad dilynol yn nifer y llythyrau. Rydym yn dod i gasgliadau ynghylch yr hyn sydd ei angen yn rhesymol ar unigolion a busnesau bach a chanolig gan wasanaethau post. Yn yr ail gam, rydym yn asesu i ba raddau y mae marchnad llythyrau bresennol y DU yn diwallu'r anghenion rhesymol hyn.

Y farchnad llythyrau a sut mae unigolion a sefydliadau yn defnyddio gwasanaethau post

A3.31 Yn yr atodiad hwn rydym yn nodi'r ffactorau sydd wedi arwain at ostyngiad yn y ddibyniaeth ar wasanaethau post i lawer o ddefnyddwyr a'r gostyngiad dilynol yn nifer y llythyrau sy'n cael eu hanfon a'u derbyn. Er gwaethaf y gostyngiad yn nifer y llythyrau, rydym yn nodi bod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn credu y bydd wastad angen iddynt ddefnyddio gwasanaethau post i anfon llythyrau. Rydym hefyd yn nodi grwpiau defnyddwyr sy'n dweud eu bod yn dibynnu mwy ar wasanaethau post.

Mae'r ffaith bod mwy o opsiynau digidol ar gael a mwy yn eu defnyddio yn arwain at ostyngiad yn nifer y llythyrau

A3.32 Mae defnyddwyr yn ffafrio cyfathrebu digidol fwyfwy ar draul llythyrau at ddibenion cyfathrebu personol a busnes. Mae ein harolwg tracio preswyl diweddaraf yn dangos bod defnyddwyr yn parhau i symud oddi wrth bost ac at gyfathrebu digidol. Mae nifer y defnyddwyr preswyl sy'n gweld y post fel sianel bwysig i gyfathrebu â theulu a ffrindiau wedi gostwng o 75% yn 2016/17 i 64% yn 2023/24.[762] Dangosodd ymchwil a gyflwynwyd mewn ymateb i'n Hymgynghoriad gan Gyngor ar Bopeth fod post yn dal yn ddull

[762] Jigsaw, 2024. Traciwr Post Preswyl – Adroddiad Blynyddol Gorffennaf 2023 – Mehefin 2024 sleid 5.

cyfathrebu pwysig i rai, roedd dwy ran o dair o ddefnyddwyr yn credu bod post yn hanfodol neu'n ddefnyddiol i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau.[763]

Ffigur A3.1: Pwysigrwydd sianeli i gyfathrebu â ffrindiau a theulu (Net hanfodol/gweddol bwysig)



Ffynhonnell: Traciwr Post Preswyl. C4. Gan feddwl am sut rydych chi'n cyfathrebu â ffrindiau a theulu, pa mor bwysig yw pob un o'r sianeli cyfathrebu hyn i chi? Sylfaen: Pob cyfranogwr (ar fisoedd eilrif) - Dangosir maint y sampl ar y siart.

A3.33 E-bost hefyd nawr yw'r dull mae pobl yn ei ffafrio i gysylltu â phob perthynas roedd ein harolwg yn gofyn amdanynt heblaw teulu, ac eithrio meddygon teulu lle'r oedd y ffôn yn cael ei ffafrio.

Ffigur A3.2: Dewisiadau cysylltu – Y dull a ffefrir i dderbyn gohebiaeth gan



Ffynhonnell: Traciwr Post Preswyl. C2_1. Pa ddull fyddai orau gennych dderbyn gohebiaeth gan... Sail: Pob cyfranogwr 2022-23 (n=5564), 2023-24 (n=6160).

A3.34 Mae'r duedd o symud at ddewisiadau digidol amgen hefyd yn berthnasol i ddefnyddwyr busnesau bach a chanolig. Canfu ein harolwg yn 2024 fod llai nag un busnes bach a chanolig o bob pump (18%) yn cael llythyr bob dydd, a bod llai na phedwar o bob deg (36%) yn anfon llythyrau'n amlach nag oddeutu unwaith yr wythnos.[764] Canfu ein harolwg tracio busnes diweddaraf fod ychydig o dan hanner y busnesau bach a chanolig wedi dweud eu bod wedi symud rhywfaint o'u post i ddulliau cyfathrebu eraill yn ystod y flwyddyn

[763] Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, t.14.
[764] BMG, 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleidiau 69, 72.

ddiwethaf.[765] Canfu ein hymchwil yn 2020 hefyd fod llawer o fusnesau bach a chanolig wedi symud, neu eu bod yn ystyried symud cyfathrebiadau allweddol ar-lein. Roeddent yn fwyaf tebygol o ddweud y byddent yn ystyried symud trafodion ariannol (75%) a gohebiaeth gyffredinol (75%) i ddewisiadau digidol amgen.[766]

A3.35 Mae ein hymchwil yn awgrymu bod y cam hwn hefyd yn berthnasol i amrywiaeth o grwpiau defnyddwyr a allai fod yn dibynnu mwy ar bost, gan gynnwys defnyddwyr hŷn, aelwydydd incwm isel, lleoliadau gwledig, a phobl â symudedd cyfyngedig. Mae ein harolwg tracio preswyl diweddaraf wedi canfod bod y rhan fwyaf o'r grwpiau hyn yn dweud ei bod yn well ganddynt ddefnyddio e-bost yn hytrach na llythyrau lle bynnag y bo modd.[767]

A3.36 Roedd cyfranogwyr yn ein hymchwil ansoddol yn 2023, a oedd yn canolbwyntio ar anghenion a phrofiad grwpiau a allai fod yn agored i niwed, hefyd wedi dweud bod nifer y llythyrau roedden nhw wedi'u hanfon a'u derbyn (yn enwedig yr eitemau a anfonwyd) yn dal i ddisgyn. Roedd hyn yn bennaf oherwydd eu bod yn newid i ddewisiadau digidol amgen:

"Adnewyddu pasbort a phethau felly, mae'n rhaid i chi ddefnyddio'r post .... Ond fel arall, rwy'n ei wneud ar-lein a bod yn onest ... rydw i wedi mynd yn ddi-bapur fwy neu lai"

Cwsmer â Symudedd Cyfyngedig, 60au, Lloegr [768]

A3.37 Mae'r cynnydd yn y nifer sy'n defnyddio dulliau digidol amgen a'r gostyngiad dilynol yn nifer y llythyrau yn cyd-fynd â thueddiadau rhyngwladol. Er enghraifft, y gwledydd sydd â'r nifer isaf o lythyrau y pen heddiw ac sydd wedi gwneud y newidiadau mwyaf radical i fanylebau eu USO, yn aml oedd y rhai cyntaf i gael cynlluniau trawsnewid digidol a oedd yn aml yn cael eu harwain gan y llywodraeth i fynnu neu gefnogi'r nifer sy'n defnyddio cyfathrebiadau digidol (e.e. Denmarc, Norwy a Gwlad Belg).[769]

Bydd y cynnydd mewn cysylltiadau symudol a band eang a'r nifer sy'n eu defnyddio yn parhau i wthio pobl at ddulliau digidol

A3.38 Mae gan bron i bob eiddo yn y DU (98%) fynediad at fand eang cyflym iawn erbyn hyn ac mae 75% o'r eiddo hyn yn defnyddio'r gwasanaethau hyn.[770] Mae argaeledd symudol hefyd yn parhau i dyfu, gyda 4G yn cyrraedd y tu allan i fwy na 99% o eiddo'r DU.[771] Mae cyfran yr unigolion sy'n gallu defnyddio'r rhyngrwyd gartref hefyd yn uchel iawn; mae 94% o

[765] BVA BDRC, 2024. Arolwg Defnyddwyr Post Busnesau Bach a Chanolig – Adroddiad Blynyddol Gorffennaf 2023 – Mehefin 2024 sleid 18.
[766] Jigsaw, 2020. Ymchwil Defnyddwyr Post y DU: Adroddiad Ymchwil Meintiol, t.44.
[767] Arolwg tracio defnyddwyr post preswyl, Gorffennaf 2023-Mehefin 2024, tabl 42.
[768] Jigsaw, 2023. Deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau post – adroddiad ar ganfyddiadau ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar grwpiau a allai fod yn agored i niwed, sleid 27.
[769] Ofcom, 2024. Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol, tudalen 45.
[770] Mae band eang cyflym iawn yn cael ei ddiffinio fel gwasanaethau sydd â chyflymder llwytho i lawr o 30Mbit yr eiliad o leiaf
[771] Ofcom, 2024.Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd y DU 2024, tudalen 4.

unigolion yn y DU sy'n 16 oed a hŷn yn dweud bod ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd gartref.[772]

A3.39 Mae defnyddio ffonau clyfar i gael mynediad at y rhyngrwyd a gwasanaethau cyfathrebu hefyd yn dod yn fwyfwy cyffredin. Mae naw deg tri y cant o unigolion 16 oed a hŷn yn y DU yn dweud eu bod nhw neu rywun yn eu cartref yn berchen ar ffôn clyfar.[773] Ym mis Mai 2024, roedd 75% o'r amser a dreuliwyd ar-lein bob dydd gan oedolion ar-lein yn y DU ar ffonau clyfar, dyfeisiau tabled a chyfrifiaduron, yn cael ei dreulio ar ffonau clyfar. Roedd apiau cyfathrebu ffonau clyfar fel WhatsApp, Gmail a Facebook Messenger ymysg y rheini sydd â'r cyrhaeddiad dyddiol uchaf ymysg oedolion ar-lein yn y DU ym mis Mai 2024.[774]

A3.40 Rydym yn cydnabod bod pobl heb fynediad i'r rhyngrwyd naill ai drwy gysylltiadau sefydlog neu symudol, sy'n golygu mai cyfyngedig yw eu gallu i newid i gyfathrebu digidol, os gallant wneud hynny o gwbl. Mae'r grŵp hwn yn cael ei drafod yn fanylach ym mharagraffau A3.55-A3.59.

Mae dibyniaeth ar bost yn lleihau, ond mae gwasanaethau post yn dal yn bwysig i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr

A3.41 Mae pwysigrwydd post fel dull cyfathrebu yn lleihau i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr. Canfu ein harolwg olrhain preswyl diweddaraf fod defnyddwyr preswyl, ar y cyfan, yn credu eu bod yn anfon llai o lythyrau nag oeddent ddwy flynedd yn ôl. Mae mwy o bobl hefyd yn gweld gwasanaethau post fel rhywbeth i'w ddefnyddio fel dewis olaf. Yn 2023/2024, dywedodd hanner y defnyddwyr preswyl mai dim ond os nad oedd dewis arall y byddent yn defnyddio'r post, o'i gymharu â 32% o bobl yn 2015/2016.[775]

A3.42 Er bod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn dibynnu llai ar lythyrau at ddibenion cyfathrebu personol a busnes, mae gwasanaethau post yn dal yn bwysig ac yn cael eu defnyddio gan bron bob preswylydd yn y DU. Canfu ein harolwg a gynhaliwyd yn ystod hydref 2024 fod bron pob un o aelwydydd y DU yn dal i gael llythyrau, gydag 82% yn dweud eu bod yn gwneud hynny o leiaf bob wythnos. Mae'r mwyafrif helaeth (95%) o oedolion yn parhau i anfon llythyrau, gyda hanner (50%) yn gwneud hynny o leiaf unwaith y mis.[776] Ategir y canfyddiad hwn gan ymchwil a gyflwynwyd gan sefydliadau defnyddwyr fel rhan o'u hymatebion i'n Hymgynghoriad:

- Canfu ymchwil Cyngor ar Bopeth bod 86% o bobl wedi cael llythyr neu ddogfen bwysig drwy'r post yn ystod y chwe mis diwethaf.[777]
- Canfu Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon (CCNI) fod bron i naw defnyddiwr o bob deg yn derbyn llythyrau, gyda 68% yn gwneud hynny bob mis o leiaf.[778]

---

[772] Ofcom Traciwr Technoleg 2024. CE1. A oes gennych chi neu unrhyw un yn eich cartref fynediad i'r rhyngrwyd gartref (drwy unrhyw ddyfais, e.e. cyfrifiadur personol, ffôn symudol, ac ati) ac os felly, a ydych chi'n bersonol yn defnyddio'r rhyngrwyd gartref? Sylwch: Nododd 1% o unigolion nad oeddent yn gwybod a oedd ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd gartref.
[773] Ofcom, Traciwr Technoleg 2024. CM2 A yw unrhyw rai o'r ffonau symudol yn eich cartref yn ffôn clyfar? Sylwch: Nododd 1% o unigolion 'nad oeddent yn gwybod' a oedd ganddynt ffôn clyfar
[774] Ofcom,2024, Ein Gwlad Ar-lein 2024, t.2 a t.27.
[775] Jigsaw, 2024. Traciwr Post Preswyl – Adroddiad Blynyddol Gorffennaf 2023 – Mehefin 2024 sleid 6.
[776] BMG, 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleidiau 11, 13.
[777] Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, t.14.
[778] Ymateb CCNI i Ymgynghoriad 2025, t.14.

A3.43 Mae'r rhan fwyaf o bobl yn credu y bydd wastad angen iddynt ddefnyddio'r gwasanaeth post i anfon neu i dderbyn llythyrau rywbryd. Canfu ein harolwg tracio preswyl diweddaraf fod wyth person o bob deg yn cytuno y bydd wastad pethau mae angen eu hanfon drwy'r post.[779] Mae'r gyfran uchel hon o ddefnyddwyr sy'n dweud y byddai angen iddynt ddefnyddio'r gwasanaeth post bob amser wedi aros yr un fath dros y blynyddoedd. Canfu ein harolygon meintiol ar gyfer 2023 a 2020 hefyd fod wyth o bob deg o bobl yn cytuno bod rhai pethau y bydd wastad angen iddynt eu hanfon drwy'r post.[780]

Mae data ymchwil defnyddwyr a'r farchnad yn dangos bod nifer y llythyrau'n gostwng yn gyflym

A3.44 Mae'r gostyngiad yn y ddibyniaeth ar lythyrau a newid i gyfathrebiadau digidol wedi arwain at ostyngiad serth yn nifer y llythyrau sy'n cael eu hanfon a'u derbyn. Ceir tystiolaeth dda o'r gostyngiad hwn drwy ddata'r farchnad ac adroddiadau defnyddwyr am newidiadau yn eu hymddygiad eu hunain.

A3.45 Mae gwaith monitro parhaus Ofcom ar y farchnad post yn dangos bod nifer y llythyrau i gyfeiriadau yn y DU wedi gostwng 54% ers 2011-12, i 6.6 biliwn o eitemau yn 2023/24, 9.0% yn is o un flwyddyn i'r llall.[781]

Ffigur A3.3: Cyfanswm nifer y llythyrau â chyfeiriad arnynt yn y DU (mewn miliynau), gan gynnwys post o un pen i'r llall a phost mynediad



[779] Jigsaw, 2024. Traciwr Post Preswyl – Adroddiad Blynyddol Gorffennaf 2023 – Mehefin 2024 sleid 6.
[780] Yonder, 2023. Ymchwil Arolwg Defnyddwyr ar Bost, sleid 5.
[781] Ofcom, 2024. Adroddiad Monitro'r Post, t. 9.

Ffynhonnell: *Ofcom. Mae o un pen i'r llall y Post Brenhinol yn gyfrifiad gan Ofcom ac mae'n cyfeirio at gyfanswm llythyrau'r Post Brenhinol heb gynnwys llythyrau mynediad. Nid yw'r ffigurau'n cynnwys llythyrau rhyngwladol na llythyrau heb gyfeiriad megis hysbysebion a phost etholiad.*

A3.46 Yn ôl ffigurau'r Post Brenhinol ei hun, danfonodd y busnes 6.7 biliwn o lythyrau â chyfeiriad arnynt yn 2023/24 o'i gymharu ag 20 biliwn o lythyrau yn 2004/5, gostyngiad o 67% mewn niferoedd mewn 19 mlynedd, sy'n tynnu sylw at faint a thuedd gyson y gostyngiad yn nifer y llythyrau.[782] Mae'r Post Brenhinol yn disgwyl y bydd nifer y llythyrau blynyddol yn ystod y pum mlynedd nesaf yn nes at 4 biliwn ar y gyfradd hon.[783] Mae adroddiadau diweddar gan froceriaid hefyd yn pwysleisio'r gostyngiad cyflym yn nifer y llythyrau, a rhagwelir y bydd nifer y llythyrau'n disgyn 5-7% y flwyddyn yn y tymor canolig.[784]

A3.47 Mae niferoedd mynediad yn dal i gynrychioli'r rhan fwyaf o lythyrau sy'n cael eu hanfon sef 4.8 biliwn o eitemau, ond mae cyfanswm y niferoedd mynediad hefyd yn gostwng.

Mae ein hymchwil yn dangos bod defnyddwyr yn dweud yn gyson eu bod yn anfon ac yn derbyn llai o lythyrau

A3.48 Canfu ein hymchwil diweddar fod chwech oedolyn o bob deg (60%) yn dweud bod eu cartref yn derbyn llythyrau bob dydd neu ychydig o weithiau'r wythnos a dywedodd un o bob pump (22%) eu bod yn anfon llythyrau o leiaf oddeutu unwaith yr wythnos. Ymysg busnesau bach a chanolig, dywedodd 58% eu bod yn derbyn llythyrau bob dydd neu ychydig o weithiau'r wythnos a dywedodd tua hanner (51%) eu bod yn anfon llythyrau tua unwaith yr wythnos neu'n amlach.[785]

A3.49 Canfu ein harolwg tracio preswyl diweddaraf fod defnyddwyr ar draws pob math o bost yn credu eu bod yn cael llai nag yr oeddent ddwy flynedd yn ôl. Soniodd defnyddwyr am ostyngiad net ym mhob math o bost llythyrau a dderbyniwyd, gyda nifer y llythyrau a dderbyniwyd yn gostwng o bump yr wythnos yn 2017/18 i dri yr wythnos yn 2023/24.[786]

A3.50 Mae ein harolwg tracio preswyl diweddaraf hefyd yn dangos bod nifer y llythyrau sy'n cael eu hanfon wedi disgyn yn sylweddol, er eu bod wedi dechrau sefydlogi'n ddiweddar. Yn 2015/16, dywedodd 83% o ddefnyddwyr preswyl eu bod wedi anfon llythyr yn ystod y mis diwethaf; erbyn 2021/22 roedd hyn wedi disgyn i 73% ac wedi disgyn yn fwy serth i 58% yn 2022/23. Mae wedi aros yn sefydlog ar 57% yn 2023/24.[787]

A3.51 Mae busnesau bach a chanolig hefyd yn anfon llai o lythyrau. Yn ein traciwr busnesau bach a chanolig diweddaraf, roedd 18% o fusnesau bach a chanolig yn honni bod nifer y post a anfonwyd yn ystod y 12 mis diwethaf wedi gostwng, gyda 61% o'r busnesau bach a chanolig hyn yn priodoli'r gostyngiad yn nifer y llythyrau sy'n cael eu hanfon. Fodd bynnag,

[782] IDS 2024, ids_annual-report-2023-24.pdf, tudalen, 25
[783] IDS, 2024.ids_annual-report-2023-24.pdf ,P.25. ac IDS, The future of letter deliveries.
[784] Ar sail data gan Liberum Capital Limited a gyhoeddwyd ar 28 Mai 2024 a Peel Hunt LLP ar 18 Gorffennaf 2024 a 05 Medi 2024.
[785] BMG, 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleidiau 11, 13, 69, 72. Cafodd yr ymchwil hwn ei gynnal yn ystod hydref 2024 ac mae'n seiliedig ar gof yr ymatebwyr, felly efallai nad yw'n llawn ystyried amrywiadau mewn anfon/derbyn llythyrau.
[786] Arolwg tracio defnyddwyr post preswyl, Gorffennaf 2023-Mehefin 2024, tablau 186-193.
[787] Arolwg tracio defnyddwyr post preswyl, Gorffennaf 2023-Mehefin 2024, tabl 168. Data arolwg blaenorol ar gael o: https://www.ofcom.org.uk/research-statistics-and-data/statistical-release-calendars/

dywedodd 13% o fusnesau bach a chanolig fod faint o bost roeddent wedi'i anfon yn ystod y 12 mis diwethaf wedi cynyddu. Er bod llawer o'r cynnydd hwnnw mewn post yn barseli a phecynnau (58%), roedd 20% yn llythyrau (er bod hyn yn ostyngiad o 34% yn 2022/23) a 36% yn llythyrau mawr.[788]

Dywed rhai grwpiau eu bod yn dibynnu mwy ar wasanaethau post

A3.52 Er gwaethaf y gostyngiad ym mhwysigrwydd llythyrau fel math o gyfathrebu i lawer o ddefnyddwyr, mae rhai grwpiau defnyddwyr y mae llythyrau'n dal yn sianel gyfathrebu arbennig o bwysig iddynt.

A3.53 Mae ein hymchwil wedi canfod bod rhai grwpiau o ddefnyddwyr y mae eu hamgylchiadau neu eu nodweddion yn golygu eu bod yn fwy tebygol o ddibynnu mwy ar wasanaethau post, er nad yw mwy o ddibyniaeth o reidrwydd yn golygu mwy o ddefnydd.

A3.54 Mae'r grwpiau hyn yn ddefnyddwyr heb fynediad i'r rhyngrwyd, defnyddwyr â symudedd cyfyngedig, defnyddwyr mewn lleoliadau gwledig, a defnyddwyr hŷn. Er bod y grwpiau hyn yn dweud eu bod yn fwy dibynnol ar bost, canfu ein hymchwil hefyd fod eu hanghenion yn debyg yn fras i anghenion defnyddwyr 'nodweddiadol' (gweler paragraff A3.150).

Defnyddwyr heb fynediad i'r rhyngrwyd

A3.55 Er bod llawer iawn yn defnyddio'r rhyngrwyd a band eang, mae 5% o oedolion dros 16 oed heb ryngrwyd gartref. Dywedodd y rhan fwyaf (82%) o'r rhai heb fynediad i'r rhyngrwyd gartref eu bod yn annhebygol (neu'n ansicr) o gael mynediad gartref yn ystod y 12 mis nesaf. Dywedodd dros chwarter (27%) y bobl heb fynediad i'r rhyngrwyd gartref nad oeddent yn debygol o'i gael yn ystod y 12 mis nesaf oherwydd rhesymau'n ymwneud â chostau. Soniwyd hefyd am resymau eraill, fel bod y rhyngrwyd yn rhy gymhleth (13%) a gallu gofyn i rywun arall fynd ar-lein ar eu rhan (17%).[789]

A3.56 I rai defnyddwyr, efallai na fydd hi'n bosibl newid i ddulliau digidol amgen oherwydd seilwaith digidol gwael lle maen nhw'n byw. Er bod gan y rhan fwyaf o'r DU fynediad at seilwaith digidol cyflym a dibynadwy, ac mae hyn yn gwella drwy'r amser, mae rhai rhannau o'r DU nad oes ganddynt fynediad at gysylltedd da. Nid oes gan nifer fach o eiddo'r DU (60,000 neu 0.2% o eiddo'r DU) fynediad at fand eang boddhaol ac mae rhai ardaloedd sydd â chysylltedd symudol gwael o hyd.[790][791]

A3.57 Nid yw hi mor hawdd i ddefnyddwyr heb fynediad at y rhyngrwyd fanteisio ar ddewisiadau digidol amgen ac felly maent yn dweud eu bod yn dibynnu mwy ar wasanaethau post.

---

[788] BVA BDRC, 2024. Arolwg Defnyddwyr Post Busnesau Bach a Chanolig – Adroddiad Blynyddol Gorffennaf 2023 – Mehefin 2024, sleid 17.

[789] Ofcom, Traciwr Technoleg 2024, QE1. A oes gennych chi neu unrhyw un yn eich cartref fynediad i'r rhyngrwyd gartref (drwy unrhyw ddyfais, e.e. cyfrifiadur personol, ffôn symudol, ac ati) ac os felly, a ydych chi'n bersonol yn defnyddio'r rhyngrwyd gartref? Sylwch: Dywedodd 1% o unigolion nad oeddent yn gwybod a oedd ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd gartref, QE15 Pa mor debygol ydych chi o gael mynediad i'r rhyngrwyd gartref yn ystod y 12 mis nesaf a QE16 Am pa rai o'r rhesymau hyn nad ydych yn debygol o gael mynediad i'r rhyngrwyd gartref yn y 12 mis nesaf

[790] Mae deddfwriaeth y DU yn diffinio bod 'band eang boddhaol' yn gallu darparu cyflymder llwytho i lawr o 10 Mbit yr eiliad o leiaf a chyflymder llwytho i fyny o 1 Mbit yr eiliad.

[791] Ofcom, 2024. Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd y DU 2024, tudalen 20 Nid oes gan 58,000 neu 0.2% o eiddo (preswyl a busnesau bach) fynediad at fand eang boddhaol, sydd wedi disgyn o 61,000 yn 2023.

Canfu ein hymchwil ansoddol yn 2023 nad oedd hi mor hawdd i ddefnyddwyr heb fynediad i'r rhyngrwyd ddefnyddio dewisiadau digidol heb gymorth gan eraill a'u bod yn dibynnu mwy ar wasanaethau post am lythyrau 'swyddogol', er enghraifft gan awdurdod lleol, y GIG neu fanc. Mae'r defnyddwyr hyn hefyd yn teimlo'n fwy hyderus gyda chopïau caled o ddogfennau. Canfu'r ymchwil hefyd fod y grŵp hwn yn gwerthfawrogi anfon post personol (er enghraifft, llythyrau a chardiau pen-blwydd) gan fod hyn yn rhoi ymdeimlad o gysylltiad. Fodd bynnag, canfu ein hymchwil yn 2023 hefyd fod llawer o ddefnyddwyr heb fynediad i'r rhyngrwyd fel arfer yn fodlon defnyddio'r ffôn i gyfathrebu â chwmnïau lle bo hynny'n bosibl, neu i ddibynnu ar ffrindiau neu deulu i hwyluso defnyddio'r rhyngrwyd lle bo angen.[792]

A3.58 Canfu ymchwil a gyflwynwyd gan Gyngor ar Bopeth fod y rheini sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn anaml yn fwy tebygol o ddioddef niwed sy'n gysylltiedig ag oedi neu fforddiadwyedd, sy'n tynnu sylw at eu dibyniaeth gynyddol ar bost ar gyfer cyfathrebiadau swyddogol:

- Canfu'r ymchwil fod dwy ran o dair (64%) o'r rheini sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn llai aml na dyddiol yn profi niwed pan fydd eu llythyrau'n cael eu gohirio, o'i gymharu â 50% o'r boblogaeth gyffredinol.[793]
- Roedd y rheini sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn llai aml nag yn wythnosol yn llawer mwy tebygol o gael trafferth prynu stamp Ail Ddosbarth yr wythnos nesaf o'i gymharu â'r rheini sy'n defnyddio'r rhyngrwyd bob dydd (22% o'i gymharu ag 8%).[794]

A3.59 Canfu ein hymchwil arolwg yn 2024 fod y rheini heb fynediad i'r rhyngrwyd gartref, a'r rheini nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd o gwbl, yn dweud eu bod yn cael llythyrau'n llai aml na grwpiau eraill.[795] Gellid egluro hyn drwy'r ffaith y gallai grwpiau heb fynediad i'r rhyngrwyd gartref neu nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd o gwbl hefyd gael llai o ddefnydd o wasanaethau cyfathrebu yn gyffredinol. Fodd bynnag, nid yw eu niferoedd defnydd is o reidrwydd yn golygu bod y grŵp hwn yn dibynnu llai ar bost llythyrau.

Defnyddwyr â symudedd cyfyngedig

A3.60 Gall defnyddwyr â symudedd cyfyngedig fel arfer dreulio mwy o amser gartref a dibynnu mwyar wasanaethau cyfathrebu yn gyffredinol fel ffordd o gysylltu ag eraill.

A3.61 Canfu ein harolwg tracio preswyl diweddaraf fod defnyddwyr nad oeddent yn gallu gadael eu cartref heb gymorth yn fwy tebygol o deimlo eu bod wedi'u hynysu oddi wrth gymdeithas os nad oeddent yn gallu anfon neu dderbyn post (63% o'i gymharu â 56% i bob defnyddiwr). Mae'r grŵp hwn hefyd yn fwy tebygol o weld post fel ffordd bwysig o gyfathrebu â ffrindiau a theulu (74% o'i gymharu â 64% o'r holl ddefnyddwyr).[796] Canfu ein hymchwil yn 2024 fod pobl yr effeithiwyd arnynt gan gyflwr sy'n gysylltiedig â symudedd yn llawer mwy tebygol o fod wedi derbyn llythyrau apwyntiadau gofal iechyd a gwaith papur sy'n gysylltiedig â budd-daliadau gartref yn ystod y mis diwethaf.[797] Yn yr un modd, canfu ein cyfweliadau ansoddol yn 2023 fod y defnyddwyr hyn yn aml yn dibynnu ar lythyrau i

[792] Jigsaw, 2023. Deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau post – adroddiad ar ganfyddiadau ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar grwpiau a allai fod yn agored i niwed, sleid 19.
[793] Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, t.18.
[794] Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, t.21.
[795] BMG, 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024 data defnyddwyr preswyl, tabl 23
[796] Arolwg tracio defnyddwyr post preswyl, Gorffennaf 2023-Mehefin 2024, tablau 45, 54.
[797] BMG, 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024 data defnyddwyr preswyl, tabl 27.

gael gwybod am apwyntiadau ysbyty neu am unrhyw fudd-daliadau maen nhw'n eu cael.[798] Roedd ymchwil Cyngor ar Bopeth hefyd yn dangos bod pobl â chyflyrau iechyd hirdymor neu anableddau yn fwy tebygol o ddibynnu ar bost a dioddef canlyniad negyddol pe bai eu post yn cael ei ohirio.[799]

Defnyddwyr mewn lleoliadau gwledig

A3.62 Mae defnyddwyr mewn lleoliadau gwledig yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn dibynnu ar wasanaethau post. Gall hyn fod yn gysylltiedig â seilwaith gwaeth nag ardaloedd trefol a bod cymunedau mwy ynysig yn gwerthfawrogi'r cysylltiadau mae gwasanaethau post yn eu darparu. Er ei fod yn gwella, mae darpariaeth band eang cyflym iawn preswyl yn dal yn is mewn ardaloedd gwledig yn y DU (89%) nag mewn ardaloedd trefol (98%).[800]

A3.63 Canfu ein hymchwil ansoddol yn 2023 fod defnyddwyr mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell yn ystyried bod bodolaeth gwasanaethau post yn bwysig o ran mynd i'r afael â theimladau o unigrwydd (e.e. oherwydd bod eu darpariaeth symudol yn gyfyngedig yn aml).[801]

A3.64 Canfu ein harolwg tracio preswyl diweddaraf, sy'n monitro agweddau a phrofiadau ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU, fod defnyddwyr yn yr Alban (61%), yn enwedig rhanbarth Ucheldiroedd ac Ynysoedd yr Alban, yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o gytuno y byddent yn teimlo eu bod wedi'u hynysu oddi wrth gymdeithas pe na allent anfon neu dderbyn post.[802] Canfu ymchwil ansoddol a gynhaliwyd gan Consumer Scotland, ar gyfer cymunedau gwledig yr Alban, yn enwedig y rheini mewn ardaloedd ar ynysoedd, y gall oedi gyda llythyrau hanfodol fel gan wasanaethau iechyd gael effeithiau sylweddol sy'n ymwneud ag amseroedd teithio hir (fel ar fferi) i'r tir mawr, sy'n golygu bod angen i bost sy'n ymwneud ag apwyntiadau gyrraedd mewn da bryd er mwyn gallu cynllunio teithiau o'r fath.[803]

A3.65 Cyflwynodd y Gynghrair Cefn Gwlad ganfyddiadau arolwg o'u haelodau a'u cefnogwyr sy'n dangos bod trigolion cefn gwlad yn rhoi pwys ar bost, mae'n well gan 43% o'u haelodau a'u cefnogwyr gyfathrebu drwy lythyr, gyda 40% yn dibynnu ar hynny ar gyfer anghenion eu busnes neu eu cartref.[804]

A3.66 Nid yw'r ffaith bod mwy o ddefnyddwyr yn dweud eu bod yn dibynnu mwy ar wasanaethau post yn yr ardaloedd hyn o reidrwydd yn golygu bod yr anghenion yn wahanol. Yn yr un modd, nid yw mwy o ddibyniaeth ar bost o reidrwydd yn golygu mwy o ddefnydd. Canfu ein hymchwil yn 2024 fod canran y defnyddwyr mewn ardaloedd gwledig a gwledig anghysbell sy'n derbyn post o leiaf unwaith yr wythnos yn debyg iawn i'r defnyddiwr cyffredin. Canfu ein hymchwil fod 82% o ddefnyddwyr yn dweud eu bod yn cael llythyrau o leiaf unwaith yr wythnos, roedd hyn yn 84% ar gyfer defnyddwyr mewn ardaloedd gwledig

[798] Jigsaw,2023. Deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau post – adroddiad ar ganfyddiadau ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar grwpiau a allai fod yn agored i niwed, sleid 20.
[799] Cyngor ar Bopeth, 2023. Dyfodol y Gwasanaeth Post Cyffredinol, t.8.
[800] Ofcom, 2024. Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd y DU 2024, tudalen 13.
[801] Jigsaw, 2023. Deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau post – adroddiad ar ganfyddiadau ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar grwpiau a allai fod yn agored i niwed, sleid 21.
[802] Arolwg tracio defnyddwyr post preswyl, Gorffennaf 2023-Mehefin 2024, tabl 45.
[803] Thinks, 2025. Post and low-income rural consumers, t.23.
[804] Ymateb y Countryside Alliance i Ymgynghoriad 2025, t.1.

a gwledig anghysbell.[805] Canfu ymchwil a gyflwynwyd gan CCNI fod y rheini sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yng Ngogledd Iwerddon (18%) yn llai tebygol na thrigolion trefol Gogledd Iwerddon (32%) o dderbyn llythyrau o leiaf bob wythnos.[806]

A3.67 Canfu ein hymchwil diweddaraf fod defnyddwyr preswyl mewn ardaloedd gwledig ar draws y DU yr un mor debygol neu'n llai tebygol na'r cyfartaledd o ddweud na fydd eu hanghenion yn cael eu diwallu mwyach drwy leihau cyflymder danfon llythyrau. Roedd yr un peth yn wir am Gymru, yr Alban, a Gogledd Iwerddon, o'i gymharu â chyfartaledd y DU.[807]

Defnyddwyr hŷn

A3.68 Mae ein hymchwil yn dangos bod defnyddwyr hŷn yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn dibynnu mwy ar y gwasanaeth post. Mae pobl hŷn yn llai tebygol o fod â mynediad i'r rhyngrwyd gartref, felly maen nhw'n llai tebygol o newid i ddewisiadau digidol. Canfu ymchwil Ofcom nad oes gan 13% o bobl 65 oed a hŷn fynediad i'r rhyngrwyd gartref, ac mae gan 2% arall fynediad i'r rhyngrwyd gartref ond nid ydynt yn ei ddefnyddio. Mae'r rhan fwyaf (95%) o bobl dros 65 oed heb fynediad i'r rhyngrwyd gartref yn dweud eu bod yn annhebygol o'i gael yn ystod y 12 mis nesaf a dywedodd cyfran fawr (80%) mai diffyg diddordeb neu angen oedd y rheswm am hynny.[808] Mae defnyddwyr hŷn hefyd yn llai tebygol o fod â mynediad i'r rhyngrwyd drwy ffôn clyfar: Mae 12% o bobl dros 65 oed yn dweud nad oes yr un o'r ffonau symudol yn eu cartref yn ffonau clyfar.[809]

A3.69 Mae defnyddwyr hŷn yn fwy tebygol o werthfawrogi'r gwasanaeth post fel ffordd o gadw mewn cysylltiad a chael copïau ffisegol o ddogfennau. Canfu ein harolwg tracio preswyl diweddaraf fod pobl 65 oed a hŷn yn llai tebygol o lawer na grwpiau iau o gytuno ei bod yn well ganddynt anfon negeseuon e-bost yn hytrach na llythyrau lle bo hynny'n bosibl (59%, o'i gymharu â 75% o bobl rhwng 16 a 54 oed).[810] Roedd defnyddwyr hŷn a gafodd eu cyfweld yn ein harolwg ansoddol yn 2023 hefyd yn tueddu i werthfawrogi natur ffisegol llythyrau yn fwy na grwpiau eraill, er enghraifft oherwydd eu bod yn eu hystyried yn fwy diogel a bod ganddynt lai o siawns o fynd ar goll.[811]

A3.70 Roedd defnyddwyr hŷn hefyd yn fwy tebygol o gytuno y byddent yn teimlo eu bod wedi'u hynysu oddi wrth gymdeithas pe na allent anfon neu dderbyn post (69% ymysg pobl 65 oed a hŷn o'i gymharu â 45% o bobl 16-34 oed).[812] Canfu ein hymchwil feintiol yn 2023 hefyd

[805] BMG, 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleid 11.
[806] Ymateb CCNI i Ymgynghoriad 2025, t.14.
[807] BMG, 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024 data defnyddwyr preswyl, tabl 204.
[808] Ofcom, 2024., Traciwr Technoleg QE1. A oes gennych chi neu unrhyw un yn eich cartref fynediad i'r rhyngrwyd gartref (drwy unrhyw ddyfais, e.e. cyfrifiadur personol, ffôn symudol, ac ati) ac os felly, a ydych chi'n bersonol yn defnyddio'r rhyngrwyd gartref? Sylwch: Dywedodd 1% o unigolion nad oeddent yn gwybod a oedd ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd gartref, QE15 Pa mor debygol ydych chi o gael mynediad i'r rhyngrwyd gartref yn ystod y 12 mis nesaf a QE16 Am pa rai o'r rhesymau hyn nad ydych yn debygol o gael mynediad i'r rhyngrwyd gartref yn y 12 mis nesaf?
[809] Ofcom, 2024. Traciwr Technoleg. CM2 A yw unrhyw rai o'r ffonau symudol yn eich cartref yn ffôn clyfar? Sylwch: Nododd 1% o unigolion 'nad oeddent yn gwybod' a oedd ganddynt ffôn clyfar
[810] Arolwg tracio defnyddwyr post preswyl, Gorffennaf 2023-Mehefin 2024, tabl 42.
[811] Jigsaw, 2023. Deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau post – adroddiad ar ganfyddiadau ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar grwpiau a allai fod yn agored i niwed, sleid 22.
[812] Arolwg tracio defnyddwyr post preswyl, Gorffennaf 2023-Mehefin 2024, tabl 45.

fod defnyddwyr dros 55 oed yn fwy tebygol o gytuno y byddent yn teimlo eu bod wedi'u datgysylltu oddi wrth gymdeithas pe na allent anfon neu dderbyn post.[813]

A3.71 Er eu bod yn dweud eu bod yn dibynnu mwy ar bost, yn gyffredinol canfu ein hymchwil er bod y grwpiau hyn o ddefnyddwyr yn dweud eu bod yn dibynnu mwy ar wasanaethau post, i'r rhan fwyaf o grwpiau roedd eu anghenion danfon llythyrau yn debyg i ddefnyddwyr 'nodweddiadol' o ran eu bod yn blaenoriaethu dibynadwyedd a fforddiadwyedd, ac nad oedd cyflymder danfon yn hollbwysig yn aml.

Anghenion rhesymol pobl a busnesau bach a chanolig am lythyrau

A3.72 Yn yr adran hon rydym wedi ystyried beth sydd ei angen ar ddefnyddwyr gan wasanaethau post, ac a yw'r anghenion hyn yn rhesymol. Rydym wedi dadansoddi ein corff o ymchwil defnyddwyr ac ymchwil a gyflwynwyd gan randdeiliaid mewn ymateb i'n Hymgynghoriad i drafod nodweddion penodol gwasanaethau post y mae defnyddwyr yn dweud sydd eu hangen arnynt ac y maent yn eu gwerthfawrogi. Roedd hyn yn cynnwys ystyried a oes gan rai grwpiau anghenion gwahanol neu benodol oherwydd eu nodweddion neu eu hamgylchiadau. Rydym wedi cynnal y dadansoddiad hwn yng nghyd-destun ehangach gostyngiad parhaus yn y ddibyniaeth ar bost a gostyngiad yn nifer y llythyrau, fel y nodir yn yr adran uchod.

A3.73 Rydym wedi trefnu ein dadansoddiad o'r hyn mae defnyddwyr yn ei werthfawrogi a'i angen a'n hasesiad o anghenion rhesymol defnyddwyr o dan y nodweddion allweddol canlynol:

- Amlder danfon
- Cyflymder;
- Dibynadwyedd; a
- Phris.

Amlder danfon

A3.74 Canfu ein hymchwil, yn y rhan fwyaf o achosion y byddai danfon bump neu hyd yn oed dair gwaith yr wythnos yn diwallu'r rhan fwyaf o anghenion defnyddwyr ac, i lawer, nid oedd dydd Sadwrn yn cael ei ystyried yn ddiwrnod danfon hollbwysig. Pan ofynnwyd iddynt ystyried newidiadau penodol i amlder danfon llythyrau busnes Ail Ddosbarth a safonol, teimlai'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr na fyddai'n achosi problem fawr neu na fyddai'n cael fawr o effaith pe na baent yn cael eu danfon ar ddydd Sadwrn mwyach, er y byddai'n anghyfleus i rai. Dywedodd nifer fach o ddefnyddwyr y byddai'r newidiadau hyn yn cael effaith negyddol fawr ac na fyddai'r gwasanaeth post yn diwallu eu hanghenion mwyach.

Byddai danfon ar bump neu hyd yn oed dri diwrnod yr wythnos yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddefnyddwyr

A3.75 Mae ein hymchwil wedi canfod yn gyson bod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn ystyried bod danfon pum diwrnod yr wythnos (hynny yw, o ddydd Llun i ddydd Gwener) yn bwysig. Canfu ein hymchwil diweddar fod 80% o ddefnyddwyr preswyl ac 82% o fusnesau bach a

[813] Yonder, 2023. Ymchwil Arolwg Defnyddwyr ar Bost, sleid 8.

chanolig wedi dweud ei bod yn bwysig bod llythyrau'n cael eu danfon o ddydd Llun i ddydd Gwener.[814] Mae pwysigrwydd danfon o ddydd Llun i ddydd Gwener wedi aros yn weddol sefydlog: Roedd 79% o ddefnyddwyr yn 2023 yn cytuno ei bod yn bwysig bod llythyrau'n cael eu danfon i'w cartref o ddydd Llun i ddydd Gwener o'i gymharu ag 81% yn 2020.[815]

A3.76 Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn dadlau y byddai danfon llythyrau bum niwrnod yr wythnos yn ddigon i ddiwallu anghenion y rhan fwyaf o ddefnyddwyr, cyn belled â bod y gwasanaeth yn ddibynadwy, ond bod unrhyw ostyngiad pellach i dri diwrnod neu un diwrnod yr wythnos yn llai derbyniol.[816]

A3.77 Mae ein hymchwil mewn blynyddoedd blaenorol wedi canfod bod defnyddwyr yn gyffredinol yn fodlon ystyried lleihau amlder danfon a chasglu.

A3.78 Canfu ein hymchwil ansoddol yn 2023 fod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn fodlon ystyried casglu a danfon llythyrau ar lai o ddiwrnodau, oherwydd teimlwyd nad oedd y rhan fwyaf o lythyrau'n rhai brys. Roedd rhai cyfranogwyr hefyd wedi awgrymu opsiynau eraill i helpu i gadw'r prisiau i lawr, fel cyfuno Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth (h.y. un opsiwn cyflymder danfon). Canfu'r ymchwil hefyd y byddai derbyn llythyrau bob dau i dri diwrnod yn dderbyniol i'r mwyafrif, gan gynnwys y rhan fwyaf o grwpiau 'agored i niwed'.[817] Roedd yr ymchwil a oedd wedi cyfrannu at ein Hadolygiad o Anghenion Defnyddwyr Post yn 2020 hefyd wedi canfod bod pobl yn fodlon derbyn danfon ar lai o ddiwrnodau. Roedd ein hymchwil ar y cyd yn rhagfynegi y byddai gwasanaeth post gyda llythyrau'n cael eu danfon bum diwrnod yr wythnos (dydd Llun i ddydd Gwener) yn dal i ddiwallu anghenion y mwyafrif helaeth o ddefnyddwyr (96.8%).[818]

A3.79 Canfu ymchwil gan Gyngor ar Bopeth, wrth ystyried unrhyw newidiadau i ddiwrnodau danfon, fod defnyddwyr yn ffafrio danfoniadau mwy dibynadwy yn hytrach na danfon yn amlach, yn enwedig ar gyfer dogfennau pwysig fel llythyrau gan y GIG a chyfriflenni banc.[819]

A3.80 Mae gostyngiad pellach o dri diwrnod yr wythnos yn llai poblogaidd. Roedd llawer o ymatebwyr unigol i'r Cais am Fewnbwn yn teimlo na fyddai gostyngiad o'r fath yn dderbyniol i ddefnyddwyr.[820] Roedd yr ymchwil a gyfrannodd at ein hadolygiad o anghenion defnyddwyr yn 2020 wedi canfod bod lleihau'r danfon i dri diwrnod yr wythnos yn llai poblogaidd, yn enwedig ymysg busnesau bach a chanolig a chwsmeriaid anabl. Fodd bynnag, roedd yn dal yn dderbyniol i'r mwyafrif, gyda'n dadansoddiad ar y cyd yn rhagweld y byddai'n dderbyniol i 85.4% o bobl. [821]

A3.81 Roedd ein hymchwil ansoddol yn 2023 yn awgrymu y byddai derbyn llythyrau bob dau i dri diwrnod yn dderbyniol i'r mwyafrif, gan gynnwys y rhan fwyaf o grwpiau agored i niwed.

---

[814] BMG, 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleidiau 19, 80.
[815] Yonder, 2023. Ymchwil Arolwg Defnyddwyr ar Bost, sleid 9.
[816] Ofcom, 2024. Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol: crynodeb o'r ymatebion i'n Cais am Fewnbwn.
[817] Jigsaw, 2023. Deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau post – adroddiad ar ganfyddiadau ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar grwpiau a allai fod yn agored i niwed, sleid 5.
[818] Jigsaw, 2020. Ymchwil Defnyddwyr Post y DU: Ymchwil Meintiol, t.3.
[819]Cyngor ar Bopeth, 2025. The full package: what consumers need from a changing postal service. t12.
[820] Ofcom, 2024. Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol. – crynodeb o'r ymatebion i'n Cais am Fewnbwn a'r camau nesaf
[821] Jigsaw, 2020.Ymchwil Defnyddwyr Post y DU: Ymchwil Meintiol, t.3.

“Rwy’n meddwl y byddai’r rhan fwyaf o bobl yn derbyn bod llythyrau ond yn cael eu danfon unwaith neu ddwywaith yr wythnos, ond mae angen i’r Post Brenhinol fod yn dryloyw am hynny a dweud y byddai angen i bobl fod yn drefnus” Defnyddiwr nodweddiadol, hŷn, Aberdeen[822]

Nid yw llawer o ddefnyddwyr yn ystyried bod danfon ar ddydd Sadwrn yn hollbwysig

A3.82 Un o ganfyddiadau cyson ein hymchwil oedd pwysigrwydd cymharol isel danfon ar ddydd Sadwrn i ddefnyddwyr wrth gymharu â danfon o ddydd Llun i ddydd Gwener. Yn 2024, roedd 57% o ddefnyddwyr yn cytuno ei bod yn bwysig iddynt fod llythyrau’n cael eu danfon ar ddydd Sadwrn.[823] Mae hyn wedi disgyn o 63% yn 2020.[824] Roedd ein hymchwil ansoddol yn 2023 hefyd wedi canfod bod y rhan fwyaf o bobl yn meddwl y byddai danfon ar bedwar neu bum niwrnod yr wythnos yn addas iddynt ac nad oedd angen cynnwys y penwythnos gan fod llawer o bobl yn teimlo na fyddent yn debygol o ymgysylltu â’r post bryd hynny.[825] Mae hyn hefyd yn gyson â chanlyniadau ein model ymchwil ar y cyd a eglurir uchod ym mharagraff A3.75.

A3.83 Canfu ein hymchwil yn 2024 fod pedwar busnes bach a chanolig o bob deg (39%) sy’n cael llythyrau yn dweud naill ai nad ydynt yn cael llythyrau ar ddydd Sadwrn neu os ydynt, nad ydynt yn eu hagor tan y dydd Llun neu ar ôl hynny.[826]

Ffigur A3.4: Canlyniadau ymchwil 2024 ar bwysigrwydd danfon ar ddydd Sadwrn i oedolion yn y DU



Ffynhonnell: BMG, Ionawr 2025, Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, Pwysigrwydd a nodwyd gan oedolion y DU.

[822] Jigsaw, 2023. Deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau post – adroddiad ar ganfyddiadau ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar grwpiau a allai fod yn agored i niwed, sleid 49.
[823] BMG, 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleid 19. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys 34% o ddefnyddwyr a ddywedodd ei bod yn weddol bwysig bod llythyrau'n cael eu danfon i'ch cartref ar ddydd Sadwrn a 23% o ddefnyddwyr a ddywedodd ei fod yn bwysig iawn.
[824] Yonder, 2023. Ymchwil Arolwg Defnyddwyr ar Bost, sleid 9.
[825] Jigsaw, 2023. Deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau post – adroddiad ar ganfyddiadau ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar grwpiau a allai fod yn agored i niwed, sleid 49.
[826] BMG, 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleid 85.

Ffigur A3.5: Canlyniadau ymchwil 2024 ar bwysigrwydd danfon ar ddydd Sadwrn i fusnesau bach a chanolig



Ffynhonnell: BMG, Ionawr 2025, Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, Pwysigrwydd a nodwyd gan fusnesau bach a chanolig y DU

Mae danfon ar ddydd Sadwrn yn dal yn bwysig i rai defnyddwyr

A3.84 Fodd bynnag, mae danfon llythyrau ar ddydd Sadwrn yn dal yn bwysig i rai grwpiau. Canfu ein hymchwil yn 2024 mai defnyddwyr sy'n anfon eitemau sy'n cael eu gwerthu ar-lein ar farchnadoedd ar-lein drwy wasanaeth llythyrau, tanysgrifwyr cylchgronau, y rhai sydd mewn gwaith, grwpiau lleiafrifoedd ethnig, a'r rhai sydd â phlant yn y cartref oedd fwyaf tebygol o ddweud bod danfon ar ddydd Sadwrn yn bwysig. Roedd lleiafrif o fusnesau bach a chanolig (35%) hefyd yn dweud bod danfon ar ddydd Sadwrn yn bwysig.[827] Ategir y canfyddiad hwn gan ddata a gyflwynwyd gan y Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB) a ganfu fod chwarter (26%) o fusnesau bach yn ystyried bod danfon llythyrau chwe diwrnod yr wythnos yn un o agweddau pwysicaf gwasanaethau llythyrau'r Post Brenhinol ar gyfer eu hanghenion busnes yn y dyfodol, gyda 9% yn ei ystyried fel yr agwedd bwysicaf iddynt yn y dyfodol.[828]

A3.85 Canfu ein hymchwil blaenorol hefyd fod rhai grwpiau'n fwy tebygol o ddweud bod angen danfon chwe diwrnod yr wythnos (gan gynnwys dydd Sadwrn). Canfu ein hymchwil meintiol yn 2023 fod defnyddwyr 55 oed neu hŷn (68%) a'r rhai mewn ardaloedd gwledig (66%) ychydig yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddweud bod danfon llythyrau chwe diwrnod yr wythnos yn bwysig iddyn nhw (63%).[829] Roedd llawer o ymatebwyr unigol i'r Cais am Fewnbwn yn teimlo y byddai angen gwasanaeth chwe diwrnod yr wythnos o hyd, yn enwedig i ddefnyddwyr hŷn, cymunedau gwledig a'r rhai nad oeddent yn gallu defnyddio dewisiadau digidol, neu y byddai'n well ganddynt beidio â gwneud hynny. Pan ofynnwyd iddynt ystyried danfon yn llai aml, roedd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn teimlo

[827] BMG, 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024 data defnyddwyr preswyl, Tabl 15; a, BMG, Ionawr 2025, Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleid 80.
[828] Ymateb FSB i Ymgynghoriad 2025, tt.3-4.
[829] Yonder, 2023. Ymchwil Arolwg Defnyddwyr ar Bost, sleid 12.

na fyddai hyn yn effeithio arnynt, ond roedd rhai grwpiau yn teimlo y byddai'r newidiadau'n cael effaith negyddol arnynt.

A3.86 Canfu ymchwil a gyflwynwyd gan Cyngor ar Bopeth y byddai 29% o ddefnyddwyr yn hoffi i'r Post Brenhinol barhau i ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth chwe diwrnod yr wythnos. Fodd bynnag, rydym yn nodi bod yr ymchwil hwn yn asesu cefnogaeth defnyddwyr i'r newidiadau arfaethedig i ddanfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth, yn hytrach nag asesu'r effaith bosibl ar anghenion defnyddwyr.[830]

Ni fyddai'r newidiadau arfaethedig i ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth a llythyrau busnes safonol yn effeithio ar y rhan fwyaf o ddefnyddwyr, ond roedd rhai yn teimlo y byddai'n cael effaith negyddol arnynt

A3.87 Roedd ein hymchwil yn 2024 yn gofyn yn benodol i ddefnyddwyr preswyl a busnesau bach a chanolig am eu barn ar y cynnig i roi'r gorau i ddanfon ar ddydd Sadwrn a danfon llythyrau busnes safonol ac Ail Ddosbarth yn llai aml (rydym yn trafod ein canfyddiadau ar gyflymder danfon ym mharagraffau A3.111-A3.114).[831] Dywedodd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr na fyddai'r newidiadau hyn yn cael fawr ddim effaith arnynt, os o gwbl. Roedd rhai yn teimlo, er y byddai'r newidiadau arfaethedig yn anghyfleus, ni fyddent yn broblem fawr iddynt.

A3.88 Cyflwynodd y Post Brenhinol ei ymchwil yn 2023 yn ei ymateb a ganfu na fyddai danfon llythyrau bum diwrnod yr wythnos yn hytrach na chwe diwrnod yr wythnos yn cael unrhyw effaith gyffredinol ac y byddai gwasanaeth o'r fath yn diwallu anghenion 93% o ddefnyddwyr a 94% o fusnesau yn llawn neu gan fwyaf.[832]

A3.89 Canfu ein hymchwil yn 2024, wrth ystyried popeth gyda'i gilydd roedd saith o bob deg (71%) yn dweud, pe na bai llythyrau Ail Ddosbarth na llythyrau busnes safonol yn cael eu danfon ar ddydd Sadwrn mwyach, na fyddai'n cael dim effaith, neu na fyddent yn sylw ar unrhyw wahaniaeth. Roedd busnesau bach a chanolig, llawer ohonynt yn gweithio ac yn masnachu o ddydd Llun i ddydd Gwener, hyd yn oed yn llai tebygol o ddweud y byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael effaith. Dim ond 1% a 7% yn y drefn honno o fusnesau bach a chanolig a ddywedodd y byddai'r newidiadau arfaethedig (anfon llythyrau busnes safonol yn arafach, posibilrwydd danfon llythyrau Ail Ddosbarth yn arafach, a dim danfon llythyrau busnes safonol na llythyrau Ail Ddosbarth ar ddydd Sadwrn) yn cael effaith negyddol sylweddol iawn neu sylweddol ar eu sefydliad.[833]

A3.90 Roedd rhai defnyddwyr yn teimlo y byddai'r newidiadau hyn yn cael effaith negyddol arnynt. Dywedodd 17% pe na bai llythyrau Ail Ddosbarth na llythyrau busnes safonol yn cael eu danfon ar ddydd Sadwrn mwyach, y byddai'n cael effaith negyddol fach, a dywedodd 3% a 7% arall yn y drefn honno y byddai hyn yn cael effaith negyddol sylweddol iawn arnynt neu effaith negyddol sylweddol (ond nid sylweddol iawn).

---

[830] Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad Ionawr 2025, t.36.

[831] Fel rhan o'i ymateb i'n Cais am Fewnbwn cyhoeddodd y Post Brenhinol ei gynnig ar ddiwygio a oedd yn cynnwys rhoi'r gorau i ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth ar ddydd Sadwrn a danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Yn ein Hymgynghoriad roeddem yn cynnig dileu'r gofyniad ar y Post Brenhinol i ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth chwe diwrnod yr wythnos a chaniatáu iddo ddanfon llythyrau o'r fath bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos (dydd Llun i ddydd Gwener).

[832] Y Post Brenhinol, 2023. Ymchwil Defnyddwyr a Busnesau Bach a Chanolig, sleid 10.

[833] BMG, 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleidiau 47, 100.

A3.91 Pobl sy'n defnyddio gwasanaethau post i anfon ac i dderbyn llythyrau meddygol oedd fwyaf tebygol o ddweud na fyddai eu hanghenion yn cael eu diwallu ac y byddent yn wynebu niwed neu anawsterau sylweddol o ganlyniad i lythyrau Ail Ddosbarth a phost busnes safonol yn cymryd diwrnod yn hirach i'w danfon a ddim yn cael eu danfon ar ddydd Sadwrn. Mae ein hymchwil hefyd yn dangos bod masnachwyr ar-lein sy'n defnyddio'r gwasanaeth llythyrau i anfon eitemau maent wedi'u gwerthu (fel eu prif ffynhonnell incwm) yn fwy tebygol o ddweud y byddai danfon yn llai aml yn golygu na fyddai gwasanaethau post yn diwallu eu hanghenion mwyach.[834]

A3.92 Dywedodd pymtheg y cant o'r rhai a ddywedodd eu bod yn cael canlyniadau profion meddygol drwy lythyr na fyddai eu hanghenion yn cael eu diwallu gyda gwasanaeth llythyrau busnes safonol/Ail Ddosbarth a fyddai'n cymryd diwrnod yn hirach i gyrraedd a dim danfon ar ddydd Sadwrn. Dywedodd ychydig dros un o bob deg (12%) o'r derbynwyr yr un peth mewn perthynas â llythyrau apwyntiadau gofal iechyd. Y rhai a oedd yn derbyn llythyrau budd-daliadau (10%) a llythyrau sy'n ymwneud â chyllid, fel biliau ac anfonebau (9%), oedd y nesaf mwyaf tebygol o ddweud na fyddai newid o'r fath i wasanaethau llythyrau'n diwallu eu hanghenion mwyach.[835]

A3.93 Mae'r canlyniadau hyn yn adlewyrchu canfyddiadau ein hymchwil ansoddol yn 2023 a ganfu fod defnyddwyr a oedd yn fwyaf dibynnol ar lythyrau ar gyfer gohebiaeth feddygol, fel cyfranogwyr hŷn a phobl â phroblemau symudedd cronig, yn llai agored i newid amlder danfon.[836] Adlewyrchir hyn hefyd mewn ymchwil ansoddol a gyflwynwyd gan CCNI a ganfu fod amlder y gwasanaeth yn hanfodol i'r rhai a dderbyniai nifer sylweddol o apwyntiadau meddygol drwy'r post.[837]

A3.94 Mae ymchwil a gyflwynwyd gan Consumer Scotland hefyd yn adlewyrchu'r canfyddiadau hyn. Canfu ei ymchwil yn 2025 fod 18% o ddefnyddwyr yn yr Alban sy'n anfon neu'n derbyn post gweinyddol hanfodol yn dweud y byddai'r newidiadau arfaethedig i ddanfon Ail Ddosbarth yn achosi anawsterau sylweddol iddynt ac na fyddai'r gwasanaeth yn diwallu eu hanghenion yn ddibynadwy mwyach.[838]

Dywedodd nifer fach o ddefnyddwyr y byddai'r newidiadau arfaethedig i ddanfon llythyrau busnes safonol ac Ail Ddosbarth yn golygu na fyddai eu hanghenion yn cael eu diwallu mwyach

A3.95 Yn gyffredinol, canfu ein hymchwil fod 4% o ddefnyddwyr preswyl yn dweud na fyddai eu hanghenion yn cael eu diwallu mwyach mewn perthynas ag o leiaf un math o lythyr maent yn ei anfon neu'n ei dderbyn ac y byddai'r newidiadau, gan ystyried popeth, yn cael effaith negyddol sylweddol iawn arnynt. Dywedodd 7% arall na fyddai eu hanghenion yn cael eu diwallu mwyach ac y byddai'r newidiadau'n cael effaith sylweddol. Dywedodd y rhan fwyaf o fusnesau bach a chanolig y byddai'r gwasanaeth arfaethedig newydd yn parhau i ddiwallu eu hanghenion, gyda dim ond cyfran fach iawn (1%) yn dweud, o ystyried popeth, na

[834] BMG, 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleidiau 29, 39 a BMG 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024 data defnyddwyr preswyl, Tabl 204.
[835] BMG, 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleid 29.
[836] Jigsaw, 2023. Deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau post – adroddiad ar ganfyddiadau ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar grwpiau a allai fod yn agored i niwed, sleid 47.
[837]Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon, 2024. Qualitative study on the impact on consumers of changes to Royal Mail's universal service obligation, t.14.
[838] IFF, 2025. Consumer Scotland Royal Mail Universal Service Obligation, Survey Research March, tabl 3.

fyddai'r newidiadau'n diwallu eu hanghenion mwyach, ac y byddent yn cael effaith sylweddol iawn ar o leiaf un math o lythyr maent yn ei anfon neu'n ei dderbyn. Dywedodd 3% arall o fusnesau bach a chanolig na fyddai eu hanghenion yn cael eu diwallu mwyach ac y byddai'r newidiadau'n cael effaith sylweddol.[839]

A3.96 Roedd ymchwil a gyflwynwyd gan Consumer Scotland yn dangos bod 6% o ddefnyddwyr yn yr Alban sy'n anfon post personol, 8% o ddefnyddwyr sy'n derbyn post personol a 18% o ddefnyddwyr sy'n anfon ac yn derbyn post gweinyddol hanfodol yn dweud y byddai'r newidiadau arfaethedig i ddanfon heb flaenoriaeth yn achosi anawsterau sylweddol iddynt ac na fyddai'r gwasanaeth yn diwallu eu hanghenion yn ddibynadwy mwyach. [840]

A3.97 Cyflwynodd y Greetings Card Association (GCA) ymchwil a ganfu fod tri o bob pedwar o bobl yn credu nad lleihau danfoniadau'r Post Brenhinol yw'r cyfeiriad iawn i Brydain a'i fod yn gam yn ôl ac nad yw'n cyd-fynd â disgwyliadau modern.[841] Fodd bynnag, mae'r cwestiwn wedi'i eirio mewn ffordd sy'n gwahodd barn defnyddwyr ynghylch a yw'r newidiadau arfaethedig i ddanfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth yn cyd-fynd â'u disgwyliadau ehangach o ran gwasanaethau post (gan gynnwys parseli) a'u rôl mewn cymdeithas, yn hytrach nag a fyddai'r gwasanaeth newydd yn parhau i ddiwallu eu hanghenion.

Ffigur A3.6: Crynodeb o ymatebion defnyddwyr preswyl i'r newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth

[839] BMG, 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleid 50.
[840] IFF, 2025. Consumer Scotland Royal Mail Universal Service Obligation, Survey Research March, tabl 3.
[841] Ymateb GCA i Ymgynghoriad 2025, t.13.



Ffynhonnell: BMG, Ionawr 2025, Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleid 50.

Ffigur A3.7: Crynodeb o ymatebion defnyddwyr busnesau bach a chanolig i'r newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth



Ffynhonnell: BMG, Ionawr 2025, Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleid 102.

Casgliad – Amlder danfon

A3.98 Rydym wedi dadansoddi ein hymchwil ni ac hymchwil a gyflwynwyd gan randdeiliaid mewn ymateb i'n Hymgynghoriad ar anghenion defnyddwyr o ran amlder danfon. Yn gyffredinol, mae'r ymchwil defnyddwyr ychwanegol a gyflwynwyd gan randdeiliaid ar amlder danfon yn cyd-fynd â'n canfyddiadau, ond rydym yn cydnabod bod rhai gwahaniaethau. Lle bo hynny'n wir, rydym yn rhoi mwy o bwyslais ar ein hymchwil wrth ddod i gasgliadau am anghenion rhesymol defnyddwyr o ran amlder danfon. Yn gyffredinol, y rheswm am hyn yw bod ein casgliadau yn seiliedig ar ddadansoddiad o'n corff mawr o ymchwil defnyddwyr ansoddol a meintiol a data marchnad a gasglwyd dros ddegawd. Ar ben hynny, yn wahanol i rywfaint o'r ymchwil a gyflwynwyd gan ymatebwyr, roedd ein hymchwil yn 2024 yn ceisio deall teimlad defnyddwyr tuag at y newidiadau arfaethedig i ddanfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth, neu eu dealltwriaeth o hynny, yn ogystal â'r effeithiau posibl ar anghenion defnyddwyr am wahanol fathau o lythyrau maen nhw'n eu hanfon a'u derbyn.

A3.99 Dywedodd defnyddwyr fod angen gwasanaeth y diwrnod canlynol, chwe diwrnod yr wythnos, er mai dim ond yn bur anaml y byddai angen iddynt anfon neu dderbyn llythyr brys. O'r herwydd, heb wasanaeth o'r fath, byddai adegau - er eu bod yn gyfyngedig - lle na fyddai cyfran sylweddol o anghenion defnyddwyr yn cael eu diwallu. Felly rydym o'r farn bod gan ddefnyddwyr angen rhesymol am wasanaeth llythyrau blaenoriaeth chwe diwrnod yr wythnos, y diwrnod canlynol.

A3.100 Ar yr amod bod gwasanaeth blaenoriaeth yn cael ei ddarparu ar ddydd Sadwrn, nid ydym o'r farn bod angen rhesymol i lythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth gael eu danfon bob dydd chwe diwrnod yr wythnos, gan gynnwys ar ddydd Sadwrn. Y rheswm am hyn yw:

- Roedd ein model ymchwil ar y cyd yn rhagweld, ar gyfer mwyafrif helaeth iawn o ddefnyddwyr (96.8%), y byddai gwasanaeth post sy'n danfon llythyrau bum diwrnod yr wythnos (dydd Llun i ddydd Gwener) yn dal i ddiwallu eu hanghenion, ac y byddai danfon ar dri diwrnod yr wythnos yn dal yn dderbyniol i fwyafrif mawr o ddefnyddwyr (85.4%);
- Mae ymchwil ansoddol yn 2023 yn awgrymu y byddai derbyn llythyrau bob dau i dri diwrnod yn dderbyniol i'r mwyafrif, gan gynnwys y rhan fwyaf o grwpiau agored i niwed.
- Pan ofynnir iddynt am eu blaenoriaethau o ran post, mae defnyddwyr yn rhoi pwysigrwydd cymharol isel ar ddanfon ar ddydd Sadwrn o'i gymharu â danfon yn ystod yr wythnos ac agweddau eraill ar wasanaethau post, fel dibynadwyedd a fforddiadwyedd;
- Dim ond cyfran fach iawn o ddefnyddwyr a ddywedodd y byddent yn teimlo effaith sylweddol arnynt pe bai llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth yn cael eu danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos;
- Dywed lleiafrif o ddefnyddwyr fod angen danfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth iddynt ar ddydd Sadwrn, yn enwedig gohebiaeth feddygol. Nodwn fod llythyrau fel gohebiaeth feddygol yn cael eu hanfon yn bennaf drwy wasanaethau post swmp nad ydynt yn rhai USO. Rydym yn deall ei bod yn bwysig bod llythyrau o'r fath yn cyrraedd yn gyflym, er nad yw llythyr sy'n cyrraedd yn gyflym o reidrwydd yn golygu bod angen iddo gyrraedd ar ddydd Sadwrn (rydym yn rhoi sylw i gyflymder danfon ym mharagraffau A3.111-A3.114 isod). Serch hynny, rydym yn derbyn y gall fod adegau - er eu bod yn achlysuron prin - lle mae angen i lythyr o'r fath gyrraedd ar ddydd Sadwrn, oherwydd ei fod yn fater brys. Lle bo hynny'n wir, rydym o'r farn bod hyn yn cefnogi'r canfyddiad ym mharagraff A3.99 uchod bod angen rhesymol i ddefnyddwyr gael gwasanaeth llythyrau blaenoriaeth sy'n danfon ar ddydd Sadwrn;
- Rydym hefyd yn ystyried y byddai costau sylweddol yn gysylltiedig â danfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth bob dydd, gan gynnwys dydd Sadwrn, lle byddai hyn ond yn gwasanaethu anghenion nifer cyfyngedig o bobl.

A3.101 Rydym yn cydnabod bod anghenion defnyddwyr o ran nifer y danfoniadau nad ydynt yn flaenoriaeth yn ystod yr wythnos yn rhyngweithio ag anghenion sy'n ymwneud â chyflymder a dibynadwyedd. Rydyn ni'n trafod y rhain isod.

Cyflymder

A3.102 Mae ein hymchwil yn dangos, o'i gymharu â nodweddion eraill gwasanaethau post, yn gyffredinol nid yw defnyddwyr yn ystyried bod cyflymder danfon yn bwysig ar gyfer y rhan fwyaf o eitemau maen nhw'n eu hanfon ac, ar gyfer pob math o lythyr mae defnyddwyr yn ei anfon drwy Ail Ddosbarth, mae'r rhan fwyaf yn fodlon derbyn cyflymder danfon arafach. Fodd bynnag, mae cefnogaeth gref i wasanaeth danfon y diwrnod canlynol ar gyfer yr achlysuron pan fydd angen i ddefnyddwyr anfon neu dderbyn eitem frys.

Yn gyffredinol, nid yw defnyddwyr yn ystyried bod cyflymder danfon yn hollbwysig

A3.103 Canfu ein hymchwil, i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr sy'n anfon ac yn derbyn llythyrau, fod dibynadwyedd a sicrwydd cyrraedd yn bwysicach o lawer na chyflymder danfon.[842] Mae bodolaeth a mabwysiadu mwy a mwy o ddulliau cyfathrebu ar unwaith a throsglwyddo dogfennau fel e-bost a llwyfannau ar-lein wedi lleihau pwysigrwydd cyflymder ymhellach fel nodwedd allweddol o ddanfon llythyrau gan fod modd anfon llawer o ohebiaeth a dogfennau brys ar unwaith drwy ddulliau eraill.

A3.104 Er mwyn deall anghenion defnyddwyr o ran cyflymder danfon gwahanol, gofynnodd ein hymchwil yn 2024 i ddefnyddwyr preswyl pa mor hir ar ôl postio y byddai arnynt angen i wahanol fathau o lythyrau gyrraedd wrth anfon drwy bost Ail Ddosbarth. Ar gyfer pob math o lythyr, dywedodd llai na chwarter yr holl ddefnyddwyr (rhwng 15% a 24%) y byddent fel arfer angen i'r eitemau gyrraedd drwy bost Ail Ddosbarth o fewn tri diwrnod gwaith i'w postio. Nid oedd y mwyafrif a oedd yn weddill naill ai'n anfon y math penodol hwnnw o lythyr, byddent yn ei anfon fel Dosbarth Cyntaf, fel arfer byddent angen iddo gyrraedd o fewn pedwar i bum diwrnod gwaith ar ôl postio, neu roeddent yn dweud na fyddai'n bwysig pe bai'n cymryd mwy na phum niwrnod i'w ddanfon.[843] Mynegodd defnyddwyr busnesau bach a chanolig ofynion tebyg, gyda rhwng 9% a 25%, yn dibynnu ar y math o lythyr, yn dweud eu bod fel arfer angen i'r rhain gyrraedd o fewn tri diwrnod gwaith i bostio wrth anfon drwy bost Ail Ddosbarth.[844][845]

Nid yw defnyddwyr yn ystyried bod cyflymder mor bwysig â nodweddion eraill gwasanaethau post

A3.105 Roedd ein hymchwil diweddaraf hefyd yn cadarnhau nad yw cyflymder danfon yn cael ei ystyried yn bwysig yn gyffredinol o'i gymharu â nodweddion eraill gwasanaethau post. Fe wnaethom ofyn i'r ymatebwyr gwblhau ymarfer cyfnewid pwysigrwydd.[846] Roedd canlyniadau'r ymarfer hwn yn awgrymu bod diogelwch gwybodaeth bersonol/sensitif a pheidio â cholli na difrodi llythyrau tua phum gwaith yn fwy tebygol o gael eu hystyried yn bwysig wrth gymharu â danfon llythyrau Ail Ddosbarth o fewn tri diwrnod gwaith. Yn yr un modd, roedd gwasanaeth llythyrau fforddiadwy dros ddwywaith yn fwy tebygol o gael ei ystyried yr un mor bwysig wrth gymharu â danfon llythyrau Ail Ddosbarth o fewn tri diwrnod gwaith.

A3.106 Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau ein hymchwil flaenorol. Yn ein hymchwil ansoddol yn 2023 roedd defnyddwyr yn cydnabod yn gryf nad oedd y rhan fwyaf o lythyrau'n rhai brys ac felly pur anaml oedd cyflymder y danfon yn hollbwysig.[847] Yn 2020, roedd pobl yn teimlo o'r holl eitemau y byddai angen iddynt eu hanfon, na fyddai angen i lai na thraean ohonynt gyrraedd erbyn y diwrnod canlynol.[848] Mae hyd yn oed rhywfaint o barodrwydd i

[842] BMG, 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleidiau 22, 84, a Jigsaw, 2023. Deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau post – adroddiad ar ganfyddiadau ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar grwpiau a allai fod yn agored i niwed, sleid 32.
[843] BMG, 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleid 23.
[844] BMG, 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleid 86.
[845] Wrth eithrio'r rhai a ddywedodd y byddent yn defnyddio gwasanaeth Dosbarth Cyntaf.
[846] Methodoleg MaxDiff, sy'n cael ei hegluro'n llawn yn ein hadroddiad ymchwil.
[847] Jigsaw, 2023. Deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau post – adroddiad ar ganfyddiadau ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar grwpiau a allai fod yn agored i niwed, sleid 49.
[848] Jigsaw, 2020. Ymchwil Defnyddwyr Post y DU: Adroddiad Ymchwil Meintiol, tudalen 43.

dderbyn cynnyrch arafach: yn ein hymchwil meintiol yn 2023, byddai 34% o bobl yn fodlon derbyn gwasanaeth llythyrau arafach (yn cyrraedd o fewn pum niwrnod ar ôl anfon) a byddent yn defnyddio cynnyrch o'r fath pe bai ar gael.[849] Roedd ymchwil defnyddwyr y Post Brenhinol yn cefnogi'r casgliad hwn, gan ganfod y byddai danfon llythyrau Ail Ddosbarth o fewn tri i bedwar diwrnod gwaith yn diwallu anghenion 93% o ddefnyddwyr.[850] Cyflwynodd CCNI ymchwil gyda'r ymateb i'r Ymgynghoriad a ganfu fod cyflymder yn bwysig i rai defnyddwyr. Canfu'r ymchwil hefyd fod 89% o'r ymatebwyr a oedd yn anfon neu'n derbyn llythyrau yn teimlo ei bod yn bwysig bod llythyrau'n cael eu danfon iddynt o fewn amser penodol, gyda 44% yn teimlo bod hyn yn bwysig iawn.[851] Fodd bynnag, gellid dehongli hyn yn fwy fel yr angen i lythyrau gyrraedd yn ddibynadwy yn hytrach nag awgrymu bod angen iddo gyrraedd yn gyflymach.

A3.107 Roedd canfyddiad ein harolwg tracio busnesau bach a chanolig diweddaraf ychydig yn wahanol ar gyfer defnyddwyr busnesau bach a chanolig. Canfu'r traciwr fod cyflymder bellach yn ystyriaeth gynyddol i lawer o fusnesau bach a chanolig, gydag 81% o fusnesau bach a chanolig yn cytuno bod danfon yn gyflym yn ystyriaeth bwysig wrth ddewis darparwr neu wasanaeth i anfon llythyrau, i fyny o 72% yn 2020/21.[852] Fodd bynnag, efallai mai un esboniad am hyn yw bod llai o lythyrau'n cael eu hanfon a bod mwy o ddulliau digidol yn cael eu defnyddio, sy'n golygu, er bod busnesau bach a chanolig yn anfon llai o lythyrau, bod amser yn bwysig neu'n hollbwysig i gyfran uwch ohonynt.

A3.108 Cadarnhaodd ein hymchwil diweddaraf hyn pan wnaethom ofyn i fusnesau bach a chanolig gwblhau ymarfer cyfnewid pwysigrwydd.[853] Roedd canlyniadau'r ymarfer hwn yn awgrymu bod diogelwch gwybodaeth bersonol/sensitif a pheidio â cholli na difrodi llythyrau tua phum ac wyth gwaith yn y drefn honno'n fwy tebygol o gael eu hystyried yn bwysig wrth gymharu â danfon llythyrau Ail Ddosbarth o fewn tri diwrnod gwaith. Yn yr un modd, roedd gwasanaeth llythyrau fforddiadwy dair gwaith yn fwy tebygol o gael ei ystyried yr un mor bwysig â danfon llythyrau Ail Ddosbarth o fewn tri diwrnod gwaith.

Mae parhau i ddarparu gwasanaeth y diwrnod canlynol yn cael ei ystyried yn bwysig ar gyfer yr achlysuron pan fydd angen i ddefnyddwyr anfon llythyr brys

A3.109 Canfu ein hymchwil arolwg yn 2024 fod 78% o ddefnyddwyr preswyl a 68% o ddefnyddwyr busnesau bach a chanolig yn dweud ei bod yn bwysig bod gwasanaeth llythyrau danfon y diwrnod canlynol ar gael (fel y Dosbarth Cyntaf presennol).[854] Mae'r canfyddiad hwn yn cyd-fynd â chanfyddiadau ymchwil blaenorol ar bwysigrwydd gwasanaethau danfon y diwrnod canlynol.[855]

A3.110 Er gwaethaf y pwysigrwydd a roddir ar argaeledd gwasanaeth danfon y diwrnod canlynol, mae llawer o bobl yn teimlo mai dim ond o bryd i'w gilydd y byddai angen iddynt

---

[849] Yonder, 2023. Ymchwil Arolwg Defnyddwyr ar Bost, sleid 5.
[850] Y Post Brenhinol, 2023. Ymchwil Defnyddwyr a Busnesau Bach a Chanolig, sleid 10.
[851] Ymateb CCNI i Ymgynghoriad 2025, tt.15-16.
[852] BVA BDRC, 2024. Arolwg Defnyddwyr Post Busnesau Bach a Chanolig – Adroddiad Blynyddol Gorffennaf 2023 – Mehefin 2024, sleid 4.
[853] Methodoleg MaxDiff, sy'n cael ei hegluro'n llawn yn ein hadroddiad ymchwil.
[854] Mae cyfran y defnyddwyr a gytunodd â'r datganiad hwn yn ein harolwg yn 2024 yn uwch na phan ofynnwyd cwestiynau tebyg yn y gorffennol. Mae'n debyg bod hyn oherwydd bod geiriad y cwestiwn wedi newid, gyda'n harolwg diweddaraf yn nodi y byddai hwn yn wasanaeth fel y Dosbarth Cyntaf presennol.
[855] Yonder, 2023. Ymchwil Arolwg Defnyddwyr ynghylch Post, sleid 9 a BVA BDRC, 2024. Arolwg Defnyddwyr Post Busnesau Bach a Chanolig – Adroddiad Blynyddol Gorffennaf 2023 – Mehefin 2024, sleid 4.

ddefnyddio'r gwasanaethau hyn. Roedd yr enghreifftiau a roddwyd yn ein hymchwil ansoddol yn 2023 o ba bryd roedd pobl yn credu y byddai angen opsiwn danfon y diwrnod canlynol arnynt yn cynnwys cardiau cyfarch mae'r defnyddiwr yn hwyr yn eu hanfon (e.e. ar gyfer pen-blwydd), a phan mae eitemau'n arbennig o bwysig a/neu frys, ond roedd yr achlysuron hyn yn cael eu hystyried yn rhai prin.[856] Fodd bynnag, fel y nodwyd mewn ymateb i'n Cais am Fewnbwn, efallai y bydd amgylchiadau lle bydd yn rhaid i gwsmeriaid anfon eitemau pwysig yn rheolaidd gan ddefnyddio gwasanaeth danfon y diwrnod canlynol, e.e. cwsmeriaid â chyflyrau meddygol penodol sy'n anfon profion gwaed.[857]

Casgliad – Cyflymder danfon

A3.111 Gan ddefnyddio ein hymchwil ni ac ymchwil a gyflwynwyd gan randdeiliaid mewn ymateb i'n Hymgynghoriad, rydym wedi asesu anghenion rhesymol defnyddwyr o ran cyflymder ac wedi canfod bod adegau, er yn anaml, pan fydd angen i ddefnyddwyr anfon neu dderbyn eitem ar frys. Pe na bai gwasanaeth blaenoriaeth y diwrnod canlynol ar gael fel, yna ni fyddai anghenion cyfran fawr o ddefnyddwyr yn cael eu diwallu ar yr achlysuron prin hyn. Felly, rydym o'r farn ei bod yn rhesymol i ddefnyddwyr fod angen gwasanaeth llythyrau blaenoriaeth y diwrnod canlynol.

A3.112 Rydym o'r farn nad oes angen i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr gael llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth bob amser cyn pen tri diwrnod gwaith. Y rheswm am hyn yw:

a) Roedd cydnabyddiaeth gref ymysg defnyddwyr nad yw'r rhan fwyaf o lythyrau'n rhai brys ac felly anaml y mae cyflymder danfon yn hollbwysig;

b) Canfu ein hymchwil ddiweddaraf nad oedd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr fel arfer angen llythyrau Ail Ddosbarth i gyrraedd cyn pen tri diwrnod gwaith ar ôl eu hanfon, am un o'r rhesymau canlynol: nid oeddent yn anfon y math o lythyr roedden ni wedi gofyn amdano, roeddent yn defnyddio Dosbarth Cyntaf, neu yn dweud y byddai pedwar i bum diwrnod gwaith yn dderbyniol. Dywedodd cyfran fach na fyddai ots pe bai'n cymryd mwy na phum diwrnod gwaith i'w danfon;

c) Roedd canlyniadau'r ymarfer hwn yn awgrymu bod diogelwch gwybodaeth bersonol/sensitif a pheidio â cholli na difrodi llythyrau tua phum gwaith yn fwy tebygol o gael eu hystyried yn bwysig wrth gymharu â danfon llythyrau Ail Ddosbarth o fewn tri diwrnod gwaith. Yn yr un modd, roedd gwasanaeth llythyrau fforddiadwy dros ddwywaith yn fwy tebygol o gael ei ystyried yr un mor bwysig wrth gymharu â danfon llythyrau Ail Ddosbarth o fewn tri diwrnod gwaith.

A3.113 Fodd bynnag, mae rhai defnyddwyr wedi dweud bod angen i lythyrau Ail Ddosbarth gyrraedd o fewn tri diwrnod gwaith, er eu bod yn y lleiafrif:

a) O ran defnyddwyr preswyl, dywedodd rhwng 15% (ar gyfer gwaith papur sy'n ymwneud â budd-daliadau) a 24% (ar gyfer cardiau cyfarch) y byddent fel arfer angen i lythyrau a anfonir drwy Ail Ddosbarth gyrraedd o fewn tri diwrnod i'w postio; a

---

[856] Jigsaw, 2023. Deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau post – adroddiad ar ganfyddiadau ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar grwpiau a allai fod yn agored i niwed, sleid 32.

[857] Mae'r BIMDG (British Inherited Metabolic Diseases Group) a'r elusen NSPKU (sy'n cefnogi pobl sydd â'r cyflwr metabolig genetig PKU) yn amcangyfrif bod gan oddeutu 2,000 - 4,000 o bobl yn y DU gyflwr sy'n golygu eu bod yn gorfod anfon profion gwaed rheolaidd, e.e. Bob 48 awr.

b) O ran busnesau bach a chanolig, dywedodd rhwng 9% (ar gyfer post marchnata wedi'i gyfeirio) a 25% (ar gyfer biliau ac anfonebau i gwsmeriaid) y byddent fel arfer angen i lythyrau a anfonir drwy Ail Ddosbarth gyrraedd o fewn tri diwrnod i'w postio.

A3.114 O'r herwydd, er nad oes angen i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr gael llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth cyn pen tri diwrnod gwaith, mae'n ymddangos y byddai'n rhesymol i rai defnyddwyr fod angen hyn, er yn anaml. Fodd bynnag, o ystyried ein canfyddiadau ym mharagraff A3.100 uchod nad oes gan ddefnyddwyr angen rhesymol i dderbyn post nad yw'n flaenoriaeth ar ddydd Sadwrn, nid ydym yn credu bod angen rhesymol i lythyr nad yw'n flaenoriaeth gyrraedd o fewn tri diwrnod gwaith yn golygu bod yn rhaid iddo gyrraedd ar ddydd Sadwrn.

Dibynadwyedd

A3.115 Mae dibynadwyedd, sef eitemau sy'n cyrraedd o fewn amser rhesymol a rhagweladwy ar ôl postio, yn cael ei ystyried yn nodwedd bwysig o wasanaethau post a dywedodd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr wrthym eu bod yn ei flaenoriaethu dros gyflymder ac amlder. Canfu ein hymchwil diweddar fod 88% o ddefnyddwyr preswyl a 89% o ddefnyddwyr busnesau bach a chanolig wedi dweud ei bod yn bwysig eu bod yn gallu bod yn hyderus eu bydd llythyrau/cardiau yn cael eu danfon yn brydlon.[858] Cyflwynodd yr FSB ddata o'u mynegai busnesau bach Ch1 2024 a oedd yn cefnogi'r canfyddiad hwn. Canfu'r ymchwil hwn fod dros 6 o bob 10 (62%) o fusnesau bach yn dweud mai dibynadwyedd yw un o agweddau pwysicaf gwasanaethau llythyrau'r Post Brenhinol.[859]

A3.116 Mae hyn yn cyd-fynd â'n hymchwil yn 2020 ac yn 2023 lle roedd 87% ac 88% o ddefnyddwyr yn cytuno ei bod yn bwysig bod 90% o'r llythyrau sy'n cael eu hanfon yn cael eu danfon yn brydlon. Roedd defnyddwyr hŷn (dros 55) a defnyddwyr mewn lleoliadau gwledig ychydig yn fwy tebygol o gytuno â'r datganiad hwn.[860]

A3.117 Canfu ein hymchwil ansoddol yn 2023, wrth feddwl am ddibynadwyedd, fod defnyddwyr yn dweud bod angen iddyn nhw fod yn siŵr y byddai'r eitemau maen nhw'n eu hanfon drwy'r post yn cyrraedd yn ddiogel ac o fewn amser rhesymol. Canfu'r ymchwil hefyd ei bod yn arbennig o bwysig i ddefnyddwyr bod cyfathrebiadau pwysig sy'n dibynnu ar amser, fel apwyntiadau ysbyty, biliau a dogfennau swyddogol eraill, yn cyrraedd mewn da bryd.[861]

A3.118 Roedd ymchwil a gyflwynwyd gan grwpiau defnyddwyr yn cefnogi ein canfyddiadau bod dibynadwyedd yn bwysig i ddefnyddwyr, yn enwedig ar gyfer llythyrau sy'n ymwneud â materion ariannol a meddygol.

A3.119 Canfu ymchwil feintiol a gyflwynwyd gan Consumer Scotland:

- Roedd wyth deg y cant o ddefnyddwyr sy'n anfon ac yn derbyn post gweinyddol hanfodol yn teimlo bod sicrwydd ynghylch amserlenni danfon a'r diwrnod yn bwysig neu'n bwysig iawn.[862]

[858] BMG, 2025. Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleidiau 19, 80.
[859] Ymateb FSB i Ymgynghoriad 2025, t.6.
[860] Yonder, 2023. Ymchwil Arolwg Defnyddwyr ar Bost, sleidiau 9 a 12.
[861] Jigsaw, 2023. Deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau post – adroddiad ar ganfyddiadau ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar grwpiau a allai fod yn agored i niwed, sleid 32.
[862] IFF, 2025 Consumer Scotland Royal Mail Universal Service Obligation, Survey Research March, tabl 17.

- Roedd chwe deg chwech y cant o ddefnyddwyr sy'n derbyn post personol yn teimlo bod sicrwydd ynghylch amserlenni danfon a'r diwrnod yn bwysig neu'n bwysig iawn.[863]

A3.120 Cyflwynodd Cyngor ar Bopeth ymchwil yn dangos y niwed a achosir i ddefnyddwyr gan wasanaethau post annibynadwy; fel colli apwyntiadau iechyd a cholli gwybodaeth am ddirwyon, biliau a budd-daliadau.[864] Roedd busnesau bach a chanolig hefyd wedi colli cwsmeriaid neu wedi wynebu oedi cyn talu o ganlyniad i lythyrau hwyr.[865]

Casgliad – Dibynadwyedd

A3.121 Gan ddefnyddio ein hymchwil ni ac ymchwil a gyflwynwyd gan randdeiliaid mewn ymateb i'n Hymgynghoriad, rydym wedi asesu beth yw anghenion defnyddwyr o ran dibynadwyedd y gwasanaeth ac wedi canfod pan fyddant yn anfon ac yn derbyn llythyrau, bod defnyddwyr yn disgwyl i lythyrau gyrraedd o fewn cyfnod rhesymol a rhagweladwy. Mae dibynadwyedd yn arbennig o bwysig i'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau post ar gyfer cyfathrebiadau sy'n ymwneud â materion ariannol a meddygol. Felly, rydym o'r farn bod angen rhesymol am wasanaeth llythyrau ar ddefnyddwyr sy'n ddibynadwy.

Pris

A3.122 Mae cefnogaeth gref gan ddefnyddwyr i wasanaethau post fod ar gael am bris sy'n fforddiadwy ac yn unffurf. Er bod pris anfon post yn fforddiadwy i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr, mae'n bosibl bod y cynnydd diweddar mewn prisiau stampiau a chostau byw wedi arwain at newid yn agweddau ac ymddygiad rhai defnyddwyr dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae fforddiadwyedd ac unffurfiaeth pris yn bwysig i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr

A3.123 Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn nodi'n gyson bod cost anfon llythyrau a fforddiadwyedd yn bwysig. Canfu ein hymchwil diweddar fod 90% o ddefnyddwyr preswyl ac 86% o fusnesau bach a chanolig wedi dweud ei bod yn bwysig bod pris anfon llythyrau'n parhau i fod yn fforddiadwy.[866] Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau ein hymchwil yn 2020 ac yn 2023, lle'r oedd 90% a 91% o ddefnyddwyr yn y drefn honno'n cytuno ei bod yn bwysig bod pris anfon llythyrau'n cael ei gadw'n fforddiadwy.[867] Mae ymchwil a gyflwynwyd gan y Post Brenhinol yn cefnogi'r canfyddiad hwn. Canfu ei ymchwil meintiol yn 2023 fod cynnal gwasanaeth fforddiadwy yn bwysig i 95% o ddefnyddwyr preswyl a 96% o ddefnyddwyr busnesau bach a chanolig.[868]

[863] IFF, 2025Consumer Scotland Royal Mail Universal Service Obligation, Survey Research March, tabl 161.
[864]Cyngor ar Bopeth, 2025. Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, tt.17-19.
[865]Cyngor ar Bopeth, 2025. Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, tt.17-19.
[866] BMG, 2025 Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleidiau 19, 80.
[867] Yonder, 2023. Ymchwil Arolwg Defnyddwyr ar Bost, sleid 9.
[868] Y Post Brenhinol, 2023. Ymchwil Defnyddwyr a Busnesau Bach a Chanolig, sleid 8.

A3.124 Roedd ein hymchwil ddiweddar yn cynnwys cyfnewid (Max Diff), a ganfu fod fforddiadwyedd yn gymharol bwysig i ddefnyddwyr preswyl (yn enwedig defnyddwyr hŷn) a busnesau bach a chanolig o'i gymharu ag agweddau eraill ar y gwasanaeth.[869]

A3.125 Mae ein hymchwil hefyd wedi canfod, er nad oes llawer o ymwybyddiaeth o'r USO ar gyfer gwasanaethau post, bod defnyddwyr yn cefnogi nodweddion cyffredinol i raddau helaeth fel prisio unffurf ar ôl i hynny gael ei egluro iddynt. Mae ein harolwg tracio preswyl diweddaraf yn dangos bod prisiau unffurf yn dal yn nodwedd werthfawr, gyda 82% o bobl yn dweud bod yr un pris i anfon i unrhyw le yn y DU yn ffactor pwysig wrth anfon llythyrau.[870] Mae busnesau bach a chanolig hefyd yn gwerthfawrogi prisiau unffurf, gyda 81% o fusnesau bach a chanolig yn dweud bod hyn yn ffactor pwysig wrth ddewis darparwr i anfon llythyrau.[871]

A3.126 Mae ymchwil a gyflwynwyd gan y Post Brenhinol yn cefnogi'r canfyddiad hwn. Canfu ei ymchwil meintiol yn 2023 fod 82% o ddefnyddwyr preswyl ac 87% o ddefnyddwyr busnesau bach a chanolig yn teimlo ei bod yn bwysig bod prisiau unffurf (bod llythyrau'n cael eu danfon am yr un pris ac ar yr un cyflymder yn unrhyw le yn y DU) yn cael eu cynnal.[872]

A3.127 Mae'r farn hon yn cyd-fynd â chanfyddiadau ymchwil blaenorol, gyda phobl hŷn a phobl mewn ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o gefnogi cyffredinolrwydd a nodweddion yr USO. Yn 2023, canfu ein hymchwil fod 66% o'r bobl a holwyd yn cytuno â'r syniad o brisiau cyffredinol.[873] Pan ofynnwyd am brisiau cyffredinol yn ein hymchwil ansoddol yn 2023, roedd llawer o bobl yn cefnogi'r cysyniad; gan deimlo ei fod yn syml, yn ddealladwy ac yn deg:

"Rwy'n credu y dylen nhw ei gadw fel y mae... ac mai un pris yw anfon i ble bynnag. Os ydw i'n anfon rhywbeth i Aberdeen ac yna rhywbeth i Brighton, does dim rhaid i mi ymchwilio i hynny felly rwy'n creu ei fod yn haws os yw popeth yr un fath" Defnyddiwr nodweddiadol, hŷn, Plymouth. [874]

Ychydig iawn mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn ei wario ar bost, ond mae prisiau cynyddol wedi bod yn sbarduno rhai newidiadau mewn ymddygiad

A3.128 Er gwaethaf y pwysigrwydd uchel a gofnodwyd o ran fforddiadwyedd anfon post, ychydig iawn mae aelwydydd yn ei wario ar bost ar gyfartaledd. Ar gyfartaledd, mae aelwyd yn y DU yn gwario £0.60c yr wythnos neu 0.11% o wariant wythnosol ei aelwyd ar wasanaethau post sy'n cynrychioli cyfran fach iawn a swm absoliwt bach iawn o gyfanswm gwariant defnyddwyr.[875]

---

[869] BMG, Ionawr 2025, Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleidiau 22, 84, a BMG, Ionawr 2025, Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024 data defnyddwyr preswyl, tabl 117.
[870] Arolwg tracio defnyddwyr post preswyl, Gorffennaf 2023-Mehefin 2024, tabl 206.
[871] BVA BDRC, 2024. Arolwg Defnyddwyr Post Busnesau Bach a Chanolig – Adroddiad Blynyddol Gorffennaf 2023 – Mehefin 2024, sleid 4.
[872] Y Post Brenhinol, 2023. Ymchwil Defnyddwyr a Busnesau Bach a Chanolig, sleid 8.
[873] Yonder, 2023. Ymchwil Arolwg Defnyddwyr ar Bost, sleid 17.
[874] Jigsaw, 2023. Deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau post – adroddiad ar ganfyddiadau ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar grwpiau a allai fod yn agored i niwed sleid 46.
[875] ONS, 2024. Gwariant teuluoedd yn y DU - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol: Ebrill 2022 i Mawrth 2023, Ffigur 3: Gwariant wythnosol cyfartalog aelwydydd yn y DU, y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 2023 (Ffynhonnell: Arolwg Costau Byw a Bwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol).

A3.129 Er nad yw aelwydydd yn gwario llawer ar bost ar gyfartaledd, mae costau byw a'r cynnydd mewn prisiau stampiau wedi dod â chost anfon llythyrau i'r amlwg ym meddyliau llawer o ddefnyddwyr.[876] Mae ein hymchwil wedi gweld bod ystyriaethau cost yn sbarduno rhai mathau o ymddygiad, er enghraifft:

- **Anfon llai o bost** - Mae chwech o bob deg (62%) o ddefnyddwyr preswyl yn cytuno eu bod yn anfon llai o lythyrau oherwydd y gost ac mae chwarter busnesau bach a chanolig yn dweud eu bod wedi gwario llai ar bost yn y 12 mis diwethaf.[877]
- **Defnyddio cynnyrch rhatach** – Dywedodd chwe deg chwech y cant o ddefnyddwyr preswyl ac 80% o fusnesau bach a chanolig sy'n defnyddio stampiau Ail Ddosbarth eu bod yn gwneud hynny i arbed arian oherwydd mai dyma oedd yr opsiwn rhataf.[878] Canfu ein hymchwil ansoddol yn 2023 hefyd fod codi prisiau ac ystyriaethau cost yn cymell rhai ymatebwyr i ddefnyddio post Ail Ddosbarth yn amlach, yn enwedig ar gyfer cardiau a llythyrau personol.[879]
- **Gwario llai mewn meysydd eraill** – Roedd rhai grwpiau defnyddwyr, er enghraifft y rhai nad oeddent yn gallu gadael eu cartref heb gymorth, grwpiau lleiafrifoedd ethnig a chwsmeriaid anabl, yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwario llai ar hanfodion i fforddio anfon llythyrau neu gardiau.[880]

A3.130 Cyflwynodd grwpiau defnyddwyr ymchwil a oedd yn dangos bod fforddiadwyedd post yn broblem i rai defnyddwyr. Fodd bynnag, roedd rhai o'r canfyddiadau ymchwil hyn yn tynnu sylw at faterion fforddiadwyedd a achosir yn bennaf gan ddefnyddwyr incwm isel sydd angen prynu stampiau ar fyr rybudd a/neu mewn lluosrifau, a safbwyntiau bod cynnydd mewn prisiau yn annheg yn hytrach nag o reidrwydd yn anfforddiadwy:

- Canfu CCNI fod 33% o'r ymatebwyr yng Ngogledd Iwerddon yn teimlo nad oedd isafswm y gost bresennol o anfon llythyr Ail Ddosbarth yn fforddiadwy.[881]
- Canfu ymchwil gan Consumer Scotland fod 19% o ymatebwyr yn yr Alban yn dweud y byddai pryniant o'r fath (h.y. llyfr o wyth stamp Ail Ddosbarth) naill ai'n weddol anodd neu'n anodd iawn pe bai eu angen yn ystod yr wythnos nesaf.[882]
- Canfu ymchwil a gyflwynwyd gan Gyngor ar Bopeth fod pobl sydd â chyflyrau iechyd hirsefydlog yn llawer mwy tebygol o gael trafferth fforddio llyfr o stampiau Ail Ddosbarth a byddai un oedolyn o bob tri yn ei chael hi'n anodd fforddio llyfr o wyth stamp Dosbarth Cyntaf pe bai'n rhaid iddynt eu prynu yr wythnos nesaf, a byddai un o bob pedwar

[876] Mae'r Post Brenhinol wedi codi pris llythyr safonol Ail Ddosbarth dros y pedair blynedd diwethaf o £0.61 yn 2019-20 i £0.87 ym mis Ebrill 2025. Yn ddiweddar, mae'r Post Brenhinol wedi cyflwyno cynnydd pellach yn y tariff ar gyfer rhai gwasanaethau wedi'u ffrancio a stampiau Dosbarth Cyntaf o 21 Ebrill 2025. Mae stampiau Dosbarth Cyntaf wedi cynyddu o £1.10 ym mis Ebrill 2023 i nawr fod yn £1.70 ym mis Ebrill 2025, ac mae stampiau Ail Ddosbarth wedi cynyddu o £0.75 ym mis Ebrill 2023 i £0.87 ym mis Ebrill 2025.
[877] Arolwg tracio defnyddwyr post preswyl, Gorffennaf 2023-Mehefin 2024, Tabl 47 a BVA BDRC, 2024. Arolwg Defnyddwyr Post Busnesau Bach a Chanolig – Adroddiad Blynyddol Gorffennaf 2023 – Mehefin 2024, sleid 13.
[878] BMG, Ionawr 2025, Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024, sleidiau 18, 77.
[879] Jigsaw, 2023. Deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau post – adroddiad ar ganfyddiadau ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar grwpiau a allai fod yn agored i niwed, sleid 37.
[880] Arolwg tracio defnyddwyr post preswyl, Gorffennaf 2023-Mehefin 2024, tabl 178.
[881] Ymateb CCNI i Ymgynghoriad 2025, t.17.
[882] Ymateb Consumer Scotland i Ymgynghoriad 2025, t.44.

oedolyn yn y DU yn ei chael hi'n anodd fforddio llyfr o stampiau Ail Ddosbarth pe bai'n rhaid iddynt eu prynu yr wythnos nesaf.[883]

- Cyflwynodd Cyngor ar Bopeth ymchwil hefyd a ganfu fod dwy ran o dair (68%) o bobl yn credu bod y cynnydd pum mlynedd yng nghost stamp Dosbarth Cyntaf yn annheg.[884]
- Nododd ymchwil ansoddol gan CCNI, wrth ymateb i'r newidiadau arfaethedig i amlder danfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth, fod defnyddwyr wedi mynegi rhwystredigaeth ynghylch y syniad o brisiau'n cynyddu, ac amlder danfon a chasglu'n gostwng. [885]
- Cyfeiriodd Swyddfa'r Post Cyfyngedig hefyd at ei hymchwil ar gardiau Nadolig, a oedd yn adleisio canfyddiadau ein traciwr post preswyl bod cynnydd mewn prisiau stampiau wedi arwain at rai defnyddwyr yn newid eu hymddygiad, fel newid cynnyrch neu anfon llai o lythyrau: Fodd bynnag, rydym yn nodi bod y Nadolig yn adeg pan allai defnyddwyr wario mwy ar bost nag arfer, felly gall costau fod yn fwy amlwg i ddefnyddwyr yn ystod y cyfnod hwn:
- Newidiodd chwarter yr ymatebwyr o leiaf rai o'u pryniannau stampiau ar gyfer cardiau Nadolig o Ddosbarth Cyntaf i Ail Ddosbarth oherwydd cynnydd mewn prisiau.[886]
- Anfonodd un o bob tri o bobl lai o gardiau Nadolig yn 2024 nag mewn blynyddoedd blaenorol oherwydd y cynnydd mewn prisiau stampiau.[887]
- Yn yr un modd, canfu cyfweliadau ansoddol CCNI fod cost gynyddol stampiau, dros y blynyddoedd, yn atal rhai cyfranogwyr hŷn rhag anfon cynifer o gardiau Nadolig ag yr oeddent yn ei wneud ar un adeg, ac mewn rhai achosion roeddent yn cyfyngu ar anfon cardiau i bobl nad oeddent yn eu gweld yn rheolaidd yn unig. Nododd rhai ei bod yn costio mwy i anfon cerdyn nag y mae'n ei gostio i brynu un ac na allent gyfiawnhau'r gwariant yng nghanol yr argyfwng costau byw.[888]

Casgliad - Pris

A3.131 Gan ddefnyddio ein hymchwil ni ac ymchwil a gyflwynwyd gan randdeiliaid mewn ymateb i'n Hymgynghoriad, rydym wedi asesu anghenion defnyddwyr o ran pris ac wedi canfod bod gallu anfon post am bris fforddiadwy a chyffredinol yn bwysig iawn i'r mwyafrif o ddefnyddwyr, hyd yn oed y defnyddwyr hynny mae cost post yn rhan fach iawn o wariant cyffredinol eu cartref. Felly, rydym o'r farn bod angen rhesymol am wasanaeth llythyrau ar ddefnyddwyr sy'n fforddiadwy ac yn gyffredinol.

[883] Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, t.21. a t.23.
[884] Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, t.25.
[885] Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon, 2024. Qualitative study on the impact on consumers of changes to Royal Mail's universal service obligation, t.24.
[886] Swyddfa'r Post, 2025. Stampiau Nadolig, sleid 2.
[887] Swyddfa'r Post, 2025. Stampiau Nadolig, sleid 2.
[888] Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon, 2024. Qualitative study on the impact on consumers of changes to Royal Mail's universal service obligation, t.17.

I ba raddau mae'r farchnad bresennol yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr?

A3.132 Ar ôl nodi anghenion rhesymol defnyddwyr uchod, rydym yn nodi isod ein casgliadau ynghylch i ba raddau y mae'r farchnad yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr ar gyfer pob un o'r nodweddion allweddol rydym wedi'u trafod uchod. Yna, rydym yn nodi ein casgliad cyffredinol ynghylch i ba raddau y mae'r farchnad yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr yn gyffredinol.

Amlder Danfon

A3.133 Fel y nodwyd ym mharagraff A3.99 uchod, rydym o'r farn bod gan ddefnyddwyr angen rhesymol am wasanaeth llythyrau blaenoriaeth chwe diwrnod yr wythnos. Mae Dosbarth Cyntaf a Danfon Arbennig wedi'i Warantu erbyn 1pm yn cael eu danfon chwe diwrnod yr wythnos, gan gynnwys ar ddydd Sadwrn. Rydym felly'n dod i'r casgliad bod yna gynnyrch yn y farchnad sy'n diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr o ran pa mor aml mae eitemau blaenoriaeth yn cael eu danfon.

A3.134 Rydym wedi nodi ym mharagraff A3.100 uchod nad oes gan ddefnyddwyr yn gyffredinol angen rhesymol i lythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth gael eu danfon ar ddydd Sadwrn, cyn belled bod yna wasanaeth blaenoriaeth sy'n danfon ar ddydd Sadwrn. Ar sail ein tystiolaeth, rydym o'r farn y byddai anghenion rhesymol y mwyafrif helaeth o ddefnyddwyr yn dal i gael eu diwallu pe bai amlder danfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth yn cael ei newid i bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Rydym yn derbyn efallai na fydd anghenion rhesymol cyfran fach o ddefnyddwyr yn cael eu diwallu drwy ddanfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl mai dim ond ar yr adegau prin pan fyddant angen i lythyr gyrraedd ar ddydd Sadwrn, ond nad ydynt yn gallu fforddio Dosbarth Cyntaf, y byddai hyn yn digwydd.

A3.135 Ar hyn o bryd, mae llythyrau Ail Ddosbarth a llythyrau eraill nad ydynt yn flaenoriaeth yn cael eu danfon chwe diwrnod yr wythnos. Rydym felly'n dod i'r casgliad bod yna gynnyrch yn y farchnad sy'n diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr o ran pa mor aml mae eitemau nad ydynt yn flaenoriaeth yn cael eu danfon, ac sy'n rhagori ar hynny yn y rhan fwyaf o achosion. Rydym o'r farn y byddai danfon eitemau nad ydynt yn flaenoriaeth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos yn parhau i ddiwallu anghenion rhesymol y mwyafrif helaeth o ddefnyddwyr.

A3.136 Gan ystyried yr uchod i gyd, rydym yn dod i'r casgliad bod marchnad llythyrau'r DU i raddau helaeth yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr o ran amlder danfon, ac, yn achos llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth, ei bod ar y cyfan yn mynd y tu hwnt i'r anghenion hynny.

Cyflymder danfon

A3.137 Fel y nodwyd ym mharagraff A3.111 uchod, rydym wedi canfod bod gan ddefnyddwyr angen rhesymol am wasanaeth llythyrau blaenoriaeth y diwrnod canlynol sy'n danfon ar ddydd Sadwrn. Gan fod Dosbarth Cyntaf a Danfon Arbennig wedi'i Warantu erbyn 1pm yn cael eu danfon y diwrnod canlynol, gan gynnwys ar ddydd Sadwrn, mae cynnyrch yn y farchnad sy'n diwallu'r angen rhesymol hwn gan ddefnyddwyr.

A3.138 Ym mharagraffau A3.112 ac A3.114 uchod, rydym wedi canfod nad oes angen danfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth ar y rhan fwyaf o ddefnyddwyr o fewn tri diwrnod gwaith. Felly, rydym o'r farn y byddai anghenion rhesymol y rhan fwyaf o ddefnyddwyr o ran cyflymder danfon yn dal i gael eu diwallu drwy ddanfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr

wythnos. Fodd bynnag, mae'n ymddangos y gallai fod cyfran fach o ddefnyddwyr sydd angen danfon llythyrau Ail Ddosbarth o fewn tri diwrnod gwaith yn rhesymol, er nad yw hynny'n digwydd yn aml (er nad yw hynny'n cynnwys danfon llythyrau ar ddydd Sadwrn). Gan fod llythyrau Ail Ddosbarth yn cael eu danfon o fewn tri diwrnod gwaith ar hyn o bryd, mae marchnad llythyrau'r DU yn diwallu'r angen hwn. O dan fodel danfon bob yn ail ddiwrnod, mae'n bosibl na fydd anghenion rhesymol defnyddwyr y gwasanaethau hyn yn cael eu diwallu. Rydym yn trafod effaith hyn yn Adran 5.

A3.139 Rydym yn cydnabod y gallai fod cyfran fach o ddefnyddwyr hefyd nad yw eu hanghenion rhesymol yn cael eu diwallu lle mae arnynt angen i llythyr gyrraedd y diwrnod canlynol ond nad ydynt yn gallu fforddio Dosbarth Cyntaf. Rydym yn disgwyl mai dim ond ar achlysuron prin iawn y byddai hyn yn digwydd o ystyried pa mor anaml yn gyffredinol y mae angen i ddefnyddwyr anfon eitem ar Ddosbarth Cyntaf. Rydym yn disgwyl y byddai'r defnyddwyr hyn yn yr un sefyllfa pe bai llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth yn cael eu danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos.

A3.140 Gan ystyried hyn i gyd, rydym yn dod i'r casgliad bod marchnad llythyrau'r DU yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr i raddau helaeth mewn perthynas â chyflymder danfon llythyrau, ac y byddai'n diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr i raddau sylweddol pe bai llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth yn cael eu danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos.

Dibynadwyedd

A3.141 Rydym yn dod i'r casgliad ym mharagraff A3.121 uchod bod angen rhesymol am wasanaeth dibynadwy ar ddefnyddwyr.

A3.142 Mae Ofcom yn gosod targedau ansawdd gwasanaeth i gefnogi gwasanaeth dibynadwy o ansawdd uchel drwy gymell y Post Brenhinol i ddanfon eitemau ar amser a bod yn dryloyw ynghylch ei berfformiad. Rydym o'r farn y byddai'r farchnad i raddau helaeth yn diwallu'r angen rhesymol am ddibynadwyedd pe bai'r Post Brenhinol yn cyrraedd ei dargedau neu'n agos at eu cyrraedd. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod y Post Brenhinol wedi methu cyrraedd y targedau hynny yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac y gellir felly ystyried nad yw'r farchnad yn diwallu'r angen hwn ar hyn o bryd mewn nifer o achosion. Mae Ofcom wedi rhoi cosbau ariannol i'r Post Brenhinol ac ar hyn o bryd mae'n ymchwilio i'w berfformiad yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.[889][890]

Pris

A3.143 Rydym yn dod i'r casgliad ym mharagraff A3.131 uchod bod angen rhesymol i ddefnyddwyr gael gwasanaeth post sy'n fforddiadwy ac yn gyffredinol. Mae post yn fforddiadwy i'r rhan fwyaf o bobl, ond mae ymchwil yn dangos y gallai fod grŵp bach o ddefnyddwyr y gallai post, yn enwedig Dosbarth Cyntaf, fod yn anfforddiadwy iddynt.

A3.144 Yn ddiweddar, fe wnaethom adolygu fforddiadwyedd cynnyrch gwasanaeth cyffredinol yn ein Datganiad ar Adolygiad 2024 o'r capiau diogelu Ail Ddosbarth. Fe wnaethom nodi nad oes un dull gweithredu o ran fforddiadwyedd sy'n gallu bod yn ddiffiniadol ynghylch a yw pris nwydd neu wasanaeth yn fforddiadwy ai peidio. Mae hyn, yn rhannol, oherwydd bod

[889] Ofcom, 2024. Decision finding Royal Mail contravened its Quality of Service performance targets in 2023/24 and imposing a financial penalty.
[890] https://www.ofcom.org.uk/post/royal-mail/Investigation-into-royal-mails-quality-of-service-performance-in-202425

incwm a defnydd, ac i ba raddau y mae defnyddwyr yn ystyried bod eu defnydd yn hanfodol, yn amrywio'n sylweddol. Fe wnaethom egluro mai'r ffordd fwyaf priodol o asesu fforddiadwyedd gwasanaethau post oedd ystyried a yw rhywun yn dioddef niwed sylweddol o ganlyniad i'r prisiau presennol. Roeddem o'r farn bod asesu a yw rhywun wedi gwario llai ar bost oherwydd pris gwasanaethau post neu wedi parhau i brynu gwasanaethau post ond wedi gorfod gwario llai ar wariant hanfodol arall, yn brocsi priodol ar gyfer penderfynu a ydynt wedi dioddef niwed sylweddol o ganlyniad i brisiau post.[891]

A3.145 Ar y sail hon, fe wnaethom benderfynu cadw cap ar bris llythyrau Ail Ddosbarth i sicrhau eu bod yn fforddiadwy a gwelsom fod y cynhyrchion gwasanaeth cyffredinol eraill yn fforddiadwy. Roedd hyn yn cynnwys canfod bod Dosbarth Cyntaf yn fforddiadwy. Roeddem yn ystyried mai ond yn anaml y mae'n hanfodol neu'n bwysig anfon llythyr Dosbarth Cyntaf, sy'n golygu nad yw'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn dioddef niwed sylweddol o ganlyniad i brisiau Dosbarth Cyntaf. Roeddem yn cydnabod y bydd rhai achosion lle mae angen cyflymder danfon Dosbarth Cyntaf a allai, ynghyd â'r pris, arwain at broblemau fforddiadwyedd i ddefnyddwyr. Fodd bynnag, roeddem o'r farn mai dim ond mewn set gyfyngedig o amgylchiadau y mae hyn yn digwydd pan fydd defnyddiwr yn wynebu anhawster ariannol sylweddol neu ar incwm isel iawn a bod angen iddo anfon llythyrau Dosbarth Cyntaf yn aml. Dywedasom na fydd post byth yn fforddiadwy i rai defnyddwyr, beth bynnag fo'r pris.[892]

A3.146 Ni chyflwynodd ymatebwyr dystiolaeth i gefnogi casgliad bod prisiau presennol wedi mynd yn anfforddiadwy ers mis Ionawr 2024. Mae ymchwil a gyflwynwyd gan sefydliadau defnyddwyr a Swyddfa'r Post Cyf mewn ymateb i'n Hymgynghoriad yn dangos y gallai rhai defnyddwyr, yn enwedig y rheini ar incwm isel, ei chael hi'n anodd fforddio stampiau, yn enwedig mewn lluosrifau, ar adeg o ddefnydd uchel fel Nadolig neu ar fyr rybudd. Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau ein hymchwil ein hunain.[893] Roedd rhywfaint o'r ymchwil a gyflwynwyd gan randdeiliaid yn dangos bod defnyddwyr yn ystyried bod Dosbarth Cyntaf yn cynnig gwerth gwael am arian neu bod cynnydd mewn prisiau Dosbarth Cyntaf yn annheg, yn hytrach na darparu tystiolaeth o broblemau fforddiadwyedd o reidrwydd.

A3.147 Er gwaethaf pwysigrwydd uchel fforddiadwyedd, mae gwariant cyfartalog aelwydydd ar bost yn dal yn isel iawn - 60c yr wythnos neu 0.11% o wariant wythnosol aelwydydd, sy'n cynrychioli cyfran fach iawn a swm absoliwt o gyfanswm gwariant.[894] Mae ein data o fis i fis o'n traciwr yn dangos bod digwyddiadau hunan-gofnodedig o ran materion fforddiadwyedd sy'n ymwneud â llythyrau (yn gyffredinol ac yn benodol ar gyfer Dosbarth Cyntaf) wedi aros yn weddol gyson ers diwedd 2023.[895] Mae hyn wedi parhau i fod yn wir er gwaethaf y cynnydd mewn prisiau ers mis Ionawr 2024.

A3.148 Gan ystyried hyn oll, rydym o'r farn ei bod yn dal yn briodol dibynnu ar ein dadansoddiad o fis Ionawr 2024 ymlaen, er gwaethaf y cynnydd diweddar mewn prisiau Dosbarth Cyntaf.

---

[891] Ofcom, 2024. Adolygiad o gapiau diogelu Ail Ddosbarth 2024, paragraffau 5.18 i 5.21.
[892] Ofcom, 2024. Adolygiad o gapiau diogelu Ail Ddosbarth 2024, paragraffau 5.116 i 5.137.
[893] Mae'r canfyddiadau hyn yn ymwneud yn bennaf â Dosbarth Cyntaf ond mae rhai defnyddwyr, yn gyffredinol y rheini sydd ar incwm isel iawn neu incwm sefydlog, hefyd yn sôn am broblemau fforddiadwyedd gydag Ail Ddosbarth.
[894] ONS, 2024. Gwariant teuluoedd yn y DU - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol: Ebrill 2022 i Mawrth 2023, Ffigur 3: Gwariant wythnosol cyfartalog aelwydydd yn y DU, y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 2023 (Ffynhonnell: Arolwg Costau Byw a Bwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol).
[895] Arolwg Tracio Post Preswyl, 2023-2024.

Felly, rydym o'r farn bod y farchnad i raddau helaeth yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr o ran gwasanaeth cyffredinol sy'n fforddiadwy ac yn gyffredinol.

Casgliad cyffredinol

A3.149 Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael i ni, rydym wedi dod i'r casgliad bod marchnad llythyrau bresennol y DU yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr i raddau helaeth, ac ar y cyfan yn rhagori ar anghenion rhesymol defnyddwyr yn achos amlder danfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth. Rydym yn disgwyl y byddai'r farchnad yn parhau i ddiwallu anghenion rhesymol defnyddwyr i raddau helaeth pe bai llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth yn cael eu danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos.

A3.150 Rydym yn cydnabod bod rhai grwpiau'n dweud eu bod yn dibynnu mwy ar bost. Rydym wedi canfod bod anghenion defnyddwyr o'r fath yn debyg i ddefnyddwyr 'nodweddiadol', yn enwedig o ran cyflymder danfon eitemau nad ydynt yn flaenoriaeth, ac felly rydym yn dod i'r casgliad bod y farchnad hefyd yn diwallu eu hanghenion i raddau sylweddol heddiw ac y byddai'n parhau i wneud hynny drwy newid amlder danfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth i bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, ar yr amod bod gwasanaeth danfon y diwrnod canlynol yn dal ar gael.

A4. Manylion ystadegol ategol am newidiadau i dargedau ansawdd gwasanaeth

A4.1 Mae'r Atodiad hwn yn nodi manylion atodol ar elfennau o ddadansoddiad ystadegol sydd wedi cyfrannu at ein hasesiad o newidiadau i'r targed ardal cod post Dosbarth Cyntaf, yn ogystal â'n hasesiad o opsiynau ar gyfer y targedau post hwyr Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth newydd.

Targed ardal cod post (PCA) Dosbarth Cyntaf

A4.2 Mae'r dadansoddiad sydd wedi cyfrannu at ein hasesiad o lefelau targed PCA posibl yn cynnwys nifer o ddewisiadau methodolegol rydym yn eu trafod isod. Fel y nodir yn Adran 6, wrth newid y prif darged D+1 ar gyfer post Dosbarth Cyntaf, mae angen i ni hefyd addasu'r targed PCA Dosbarth Cyntaf i'w atal rhag dod yn darged rhwymol de facto ar gyfer perfformiad cenedlaethol ac atal y Post Brenhinol rhag gallu gwireddu'r arbedion cost cysylltiedig. Rydym am gynnal swyddogaeth targedau PCA, er bod hynny yng nghyd-destun y brif lefel darged newydd ar gyfer Dosbarth Cyntaf.

A4.3 Ein dull o gyflawni hyn yw gwneud addasiad cymesur, gan nodi'r lefel sy'n cynnal sensitifrwydd y targed PCA presennol i raddau helaeth wrth ganfod a datgymell tanberfformiad. Yn gyntaf, rydym yn ceisio dod o hyd i frasamcan o ddosbarthiad canlyniadau PCA o amgylch y prif ganlyniadau cenedlaethol, yna'n ystyried sut i gymhwyso'r brasamcan hwn i amcangyfrif dosbarthiad canlyniadau PCA sy'n cyd-fynd â'r lefel darged genedlaethol newydd. Mae hyn yn cynnwys amcangyfrif amrywiant

canlyniadau PCA, yn ogystal ag ystyried addasiadau sy'n ymwneud â'n defnydd o gyfyngau hyder wrth orfodi.

Dewis o ran defnyddio dosbarthiad normal

A4.4 Y dybiaeth allweddol gyntaf yn ein dadansoddiad yw y **gellir brasamcanu dosbarthiad y canlyniadau PCA mewn blwyddyn benodol drwy ddosbarthiad normal**, gyda gorberfformiad a thanberfformiad sy'n eithaf cymesur ynghylch cymedr y dosbarthiad sy'n debyg i'r canlyniad perfformiad cenedlaethol.

A4.5 Rydym yn arsylwi'r berthynas hon o berfformiad yn y gorffennol, gan weld bod canlyniadau fel arfer yn cael eu dosbarthu'n normal pan fydd perfformiad cenedlaethol yn agos at lefelau targed, gan weld canlyniadau sy'n cael eu dosbarthu'n llai normal yn ystod cyfnodau mwy diweddar lle rydym wedi gweld methiant perfformiad ehangach, gan gynnwys problemau gydag ardaloedd lleol lle mae tanberfformio difrifol. Dangosir hyn yn yr histogramau isod, sy'n dangos i ba raddau y mae dosraniadau perfformiad ansawdd gwasanaeth PCA o ddwy flynedd wahanol yn cyd-fynd â dosbarthiad normal damcaniaethol.

Ffigur A4.1: Histogramau o ganlyniadau perfformiad PCA a welwyd, wedi'u troshaenu â dosbarthiadau normal damcaniaethol i'w cymharu



Ffynhonnell: Canlyniadau perfformiad PCA a gyhoeddwyd gan y Post Brenhinol

A4.6 O ystyried, pan oedd y Post Brenhinol yn cyrraedd ei brif darged cenedlaethol Dosbarth Cyntaf i raddau helaeth mewn blynyddoedd cynharach, ac roedd dosbarthiad normal yn nodweddu dosbarthiad PCA yn dda, rydym o'r farn ei bod yn briodol defnyddio dosbarthiad normal i fodelu perfformiad PCA yn y dyfodol o dan dybiaeth bod y Post Brenhinol yn cyflawni ei brif darged cenedlaethol Dosbarth Cyntaf. Mae'r dosbarthiad normal yn cael ei ddefnyddio'n aml i fodelu'r tebygolrwydd o arsylwi nifer o ddigwyddiadau annibynnol ar hap.

A4.7 Fel y disgrifir yn Adran 6, rydym yn disgwyl i ganlyniadau PCA gael eu gyrru'n rhannol gan ffynonellau methiant annibynnol sy'n cael eu dosbarthu'n lleol, ac yn rhannol gan benderfynyddion daearyddol mwy rhagweladwy o berfformiad. Mewn amgylchiadau arferol pan fydd gweithrediadau'r Post Brenhinol yn rheoli penderfynyddion daearyddol disgwyliedig perfformiad, byddem yn disgwyl y byddai hyn yn gadael y ffynonellau methiant annibynnol sy'n cael eu dosbarthu'n lleol fel prif ysgogiadau'r gwahaniaethau mewn perfformiad rhwng PCAs. Mae cael llawer o ganlyniadau annibynnol a bennir ar hap yn nodwedd allweddol o ymddangosiad dosbarthiad normal, sy'n darparu cymorth damcaniaethol pellach ar gyfer ein defnydd o ddosbarthiad normal.

A4.8 Arwyddocâd gallu brasamcanu canlyniadau PCA drwy ddosbarthiad normal yw ei fod yn darparu fframwaith mathemategol lle gellir amcangyfrif canlyniadau ar wahanol lefelau perfformiad cenedlaethol (fel y lefel darged genedlaethol newydd o 90% D+1). Pennir dosbarthiad normal gan ei **gymedr**, sy'n nodi pwynt canol y dosbarthiad, a'i **wyriad safonol**, sy'n nodi i ba raddau y mae'r dosbarthiad yn lledaenu o amgylch y pwynt canol hwn. Ar gyfer data a ddosbarthir yn normal, dylai tua 95% o arsylwadau ddod o fewn dau wyriad safonol y naill ochr a'r llall i'r cymedr, a 99.7% o arsylwadau o fewn tri gwyriad safonol.

Nodi'r gwerthoedd mewnbynnu ar gyfer y dosbarthiad

A4.9 Er mwyn nodi'r lefel briodol ar gyfer gosod y targed PCA, mae angen i ni bennu dosbarthiad normal sy'n amcangyfrif yr ystod o berfformiad lefel PCA y byddem yn disgwyl ei weld wrth i'r Post Brenhinol gyrraedd y prif darged newydd ar gyfer Dosbarth Cyntaf D+1. Nid oes angen i ni nodweddu dosbarthiad perfformiad ar lefel PCA pe bai'r Post Brenhinol yn methu'r targed Dosbarth Cyntaf D+1 cenedlaethol oherwydd ein pwrpas yma yw sefydlu'r targed PCA priodol ar gyfer targed cenedlaethol penodol. Gan mai perfformiad cenedlaethol yw'r cyfuniad o berfformiad wedi'i bwysoli ar draws PCAau, gallwn dybio y bydd cymedr y dosbarthiad PCA yn debyg i'r brif lefel darged. Yna mae angen i ni bennu gwyriad safonol (sy'n disgrifio'r amrywiant) y dosbarthiad.

A4.10 Fel y disgrifir yn Adran 6, rydym yn disgwyl y dylai'r **amrywiad rhwng canlyniadau PCA gynyddu ychydig ar lefelau is o berfformiad cenedlaethol** oherwydd effaith gynyddol ansefydlogrwydd ar lefel leol ar rwydwaith sy'n gweithredu ar lefel is o ran adnoddau. Mewn geiriau eraill, os caiff y rhwydwaith ei sefydlu gyda'r adnoddau angenrheidiol i gyrraedd targed lefel genedlaethol is, mae llai o adnoddau ar gael ar bob lefel leol i ymateb i oedi os byddant yn codi o'i gymharu â'r hyn y byddai disgwyl iddo fod ar lefel darged genedlaethol uwch. Rydym felly'n tybio y byddai'r gwyriad safonol ar lefel prif berfformiad o 90% yn fwy na'r hyn a welir pan fo'r Post Brenhinol wedi bod yn cyflawni'r prif darged blaenorol o 93%.

A4.11 Dyma hefyd yr hyn a welwn mewn data hanesyddol ar yr amrywiad ym mherfformiad ansawdd gwasanaeth blynyddol PCA, fel y dangosir yn Ffigur A4.2 isod. Rydym wedi croeswirio'r duedd hon drwy edrych hefyd ar ganlyniadau chwarterol PCA, sy'n cefnogi ein rhagdybiaeth. Fodd bynnag, nodwn fod amrywiad mewn canlyniadau chwarterol fel mater o drefn yn uwch na'r canlyniadau blynyddol cysylltiedig, oherwydd cyfnodau byrrach sy'n arwain at lai o gyfuno a chyfartaleddu canlyniadau mewn PCA penodol, sy'n arwain at fwy o amrywiad. Am y rheswm hwn, nid ydym wedi defnyddio canlyniadau chwarterol yn uniongyrchol i amcangyfrif amrywiadau yn y dyfodol yng nghanlyniadau blynyddol PCA.

Ffigur A4.2: Y berthynas a welwyd rhwng perfformiad cenedlaethol ac amrywiant canlyniadau PCA



Ffynhonnell: **Dadansoddiad Ofcom o ganlyniadau perfformiad PCA y Post Brenhinol 2012/13 i 2024/25 (Canlyniadau chwarterol) a [✂] (Canlyniadau blynyddol)**[896]

A4.12 Mae'r Post Brenhinol wedi cyflwyno dadansoddiad sy'n amcangyfrif y berthynas rhwng perfformiad yn erbyn y prif darged a dosbarthiad perfformiad ar draws PCAs, ar sail atchweliad llinol o ddata blaenorol, gan ddefnyddio perfformiad cenedlaethol fel unig newidyn annibynnol i ragweld gwyriad safonol canlyniadau PCA. Gan ddefnyddio hyn i ragweld y gwyriad safonol sy'n gysylltiedig â pherfformiad cenedlaethol o 90%, amcangyfrif y Post Brenhinol yw [✂] rhwng 1.5% a 2.15%.[897]

A4.13 Fodd bynnag, mae gennym reswm dros gredu y gallai amcangyfrif y Post Brenhinol ar sail data blaenorol fod ychydig yn uwch na'r hyn y byddem yn disgwyl ei weld yn y dyfodol o dan weithrediadau sydd ag adnoddau i gyrraedd targed cenedlaethol o 90%. Fel y nodwyd yn Adran 6, mae'n anodd datgysylltu'r berthynas hon o amrywiad o dan amodau rhwydwaith arferol, o'r cynnydd mewn amrywiant ar lefelau is sydd wedi cael ei sbarduno gan fethiannau gweithredol, yn enwedig mannau problemus lleol yn ystod y blynyddoedd diwethaf fel rhan o danberfformiad mwy difrifol. Yn yr ystyr hwn, gall data'r gorffennol wyro tuag at ragfynegi'n ormodol faint o gynnydd mewn amrywiadau ar lefelau perfformiad is o'i gymharu â'r hyn y byddem yn disgwyl ei weld ar lefelau perfformiad ychydig yn is sy'n cael ei sbarduno gan newid bwriadol i weithrediadau er mwyn cyrraedd targed rheoleiddio newydd.

A4.14 Felly, yn ogystal ag amcangyfrif canolog [✂] ar sail data blaenorol, rydym hefyd wedi ystyried gwerth wedi'i dalgrynnu i lawr [✂]. Mae'r Post Brenhinol wedi dweud y gallai'r amrywiad ar lefelau is fod yn fwy na'r disgwyl, ac mae wedi awgrymu talgrynnu i fyny [✂]. Fel y disgrifir uchod, ar y cyfan rydym yn llai argyhoeddedig y byddai'r amrywiad yn uwch yn hytrach nag yn is na'r amcangyfrif. Mae'r amcangyfrifon hyn yn sail i'n brasamcan o siâp

[896] Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 27 Mai 2025.
[897] Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 27 Mai 2025.

dosbarthiad canlyniadau PCA pan fydd y perfformiad cenedlaethol yn 90%, sef pa mor wasgaredig yw'r dosbarthiad o amgylch y cymedr, fel y dangosir isod yn Ffigur A4.3.

Defnyddio'r dosbarthiad i nodi lefel darged

A4.15 Gan ddefnyddio'r ddwy ragdybiaeth hyn (yn gyntaf, mabwysiadu dosbarthiad normal; ac yn ail, mabwysiadu lefel neu ystod benodol ar gyfer y gwyriad safonol), gallwn bennu'r dosbarthiad i amcangyfrif yr ystod o ganlyniadau PCA y byddem yn disgwyl eu gweld ar sail perfformiad cenedlaethol ar y prif darged cenedlaethol newydd o 90%. Yn benodol, gan osod y cymedr ar 90%, a chan ddefnyddio'r gwerthoedd gwyriad safonol a nodir uchod ([✂]), byddem yn disgwyl i ddosbarthiad canlyniadau PCA fod yn debyg i'r brasamcanion yn Ffigur A4.3 isod.

A4.16 Fodd bynnag, mae'r rhain yn amcangyfrif y canlyniadau PCA heb eu haddasu fel yr adroddwyd gan y Post Brenhinol, ac nid ydynt eto'n rhoi cyfrif am fanylion ein dull gorfodi. Wrth benderfynu'n ffurfiol a yw PCA wedi methu'r lefel perfformiad darged, ac felly a yw'r targed wedi'i gyrraedd, rydym yn defnyddio cyfyngau hyder (h.y. lwfans gwallau) gyda'r data a arsylwyd. Rydym yn gwneud hyn i roi cyfrif am ansicrwydd a achosir drwy fesur perfformiad, gan fod hyn yn cael ei wneud drwy samplu. Gydag unrhyw ddull samplu, mae'n bosibl na fydd sampl benodol yn cynrychioli'n berffaith y boblogaeth o ganlyniadau y mae'n cael ei chymryd ohoni. Mae hyn yn golygu, er y gellir dweud bod gan PCA ryw lefel benodol o berfformiad, gall y perfformiad gwirioneddol yn y maes hwnnw fod ychydig yn uwch neu'n is (1 i 2 bwynt canran) na hyn.

A4.17 Felly, rydym yn addasu pob canlyniad PCA i derfyn uchaf y cyfwng hyder, gan mai dim ond os ydym yn hyderus ei fod yn cynrychioli tanberfformiad gwirioneddol y dylem orfodi yn erbyn tanberfformiad a adroddwyd gan y Post Brenhinol, yn hytrach na bod perfformiad arbennig o wael yn digwydd bod yn y sampl o eitemau a fesurwyd. Mae hyn yn golygu ein bod i bob pwrpas yn ychwanegu byffer ychwanegol at ganlyniad pob PCA, gan gynyddu'r dosbarthiad cyfan. Nid yw'r Post Brenhinol wedi ystyried y cyfyngau hyder sy'n gysylltiedig ag ansicrwydd mesur yn ei ddadansoddiad a gyflwynwyd i gefnogi ei ymateb i'r ymgynghoriad. Credwn fod hepgor y cam hwn yn systematig yn rhagfynegi'n rhy isel y tebygolrwydd o basio'r targed o safbwynt gorfodi. Mae ystyried hyn yn y dadansoddiad yn arwain at lawer mwy o debygolrwydd o lwyddo yn erbyn lefelau targed na'r dadansoddiad a gyflwynwyd gan y Post Brenhinol i gefnogi ei ymateb i'r ymgynghoriad.

Ffigur A4.3: Brasamcanion o ganlyniadau PCA gan ystyried perfformiad cenedlaethol o 90%, gydag addasiad a heb addasiad i derfyn uchaf y mesur cyfwng hyder (CI)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom

A4.18 Ar sail dosbarthiad bras canlyniadau PCA sy'n gysylltiedig â pherfformiad cenedlaethol ar 90%, gallwn **ystyried sensitifrwydd gwahanol lefelau targed**, drwy amcangyfrif y tebygolrwydd y bydd o leiaf un PCA yn disgyn o dan wahanol lefelau targed.

Ffigur A4.4: Brasamcanion o ganlyniadau PCA gyda therfyn targed, wedi'u modelu ar berfformiad cenedlaethol o 93% i gynrychioli'r targedau presennol, ac ar 90% i gynrychioli'r targedau newydd



Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom

Sylwch: Mae'r dosbarthiadau hyn yn cael eu 'haddasu' i gyfrif am ein dull gorfodi, fel y dangosir uchod yn Ffigur A4.3, ond rydym yn dal i dybio bod cymedr canlyniadau'r PCA 'heb eu haddasu' yn hafal i'r prif darged cenedlaethol.

A4.19 Er gwybodaeth, mae ochr chwith Ffigur A4.4 yn dangos y berthynas rhwng y targed PCA presennol, a dosbarthiad PCA bras ar lefel y prif darged presennol.

A4.20 I'r gwrthwyneb, mae ochr dde Ffigur A4.4 yn dangos y berthynas rhwng y tair lefel darged PCA bosibl a ystyriwyd yn ein Hymgynghoriad, a'r dosbarthiad PCA bras pan oedd y perfformiad cenedlaethol yn 90%. Rydym o'r farn mai targed PCA o 87% sydd â'r sensitifrwydd mwyaf tebyg i'r targed presennol gan y byddem yn disgwyl ei bod yn bosibl mewn rhai blynyddoedd y gallai PCA danberfformio yn erbyn y targed, fel sydd wedi digwydd hyd yma. Felly, mae'n ymddangos y byddai mabwysiadu targed PCA o 87%, ochr yn ochr â tharged cenedlaethol o 90%, i raddau helaeth yn efelychu'r berthynas bresennol rhwng y PCA a thargedau cenedlaethol ac, o'r herwydd, ni fyddai'n fwy neu'n llai beichus ar y Post Brenhinol i'w gyflawni.

A4.21 Ar y llaw arall, gyda tharged PCA o 86%, ni fyddem yn disgwyl i unrhyw PCA danberfformio'n erbyn y targed mewn blwyddyn benodol, a fyddai'n llai rhwymol na fu'r targed hyd yma. Gyda tharged PCA o 88.5%, byddem yn disgwyl i nifer o PCAs danberfformio'n erbyn y targed bob blwyddyn, a fyddai'n llawer mwy heriol nag o'r blaen.

A4.22 Yn olaf, gyda tharged o 86% yn ogystal ag eithriad ar gyfer chwe PCA, fel yr argymhellwyd gan y Post Brenhinol yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, byddem yn disgwyl na fydd bron dim siawns y bydd y Post Brenhinol yn methu'r targed, lle mae wedi cyrraedd y prif darged o 90%. Ar sail tebygolrwydd methu, rydym yn disgwyl y byddai hyn yn cyfateb yn fras i sensitifrwydd targed o 83% heb unrhyw eithriadau.

A4.23 Ar wahân i hynny, mae'r Post Brenhinol wedi dweud y byddai targed PCA o 87% yn gofyn am berfformiad cenedlaethol o dros 93%, ac felly ni fyddai'n darged cymesur.[898] Mae gennym nifer o bryderon ynghylch y dadansoddiad sy'n sail i'r honiad hwn:

a) Fel y nodir uchod, er ein bod yn derbyn bod rhyw elfen o amrywiad rhwng PCAs yn cael ei sbarduno gan ffynonellau methiant a ddosbarthir ar hap, nid ydym yn derbyn mai dyma'r unig ffactor sy'n pennu methiant PCA, ac felly unig ymateb y Post Brenhinol yw buddsoddi'n ddiwahân i wella perfformiad cenedlaethol er mwyn cyrraedd y targed PCA.

b) Mae'r cyfrifiadau sy'n sail i'r honiad hwn yn tybio bod yn rhaid codi'r prif berfformiad i'r pwynt lle mae'r siawns y bydd o leiaf un PCA yn methu yn is na 5%, cyn ystyried y defnydd sefydledig o gyfyngau hyder sydd i bob pwrpas yn codi canlyniadau pob PCA. Mae hyn yn anghyson â lefel sensitifrwydd y targed presennol, ac nid yw'n cyd-fynd â'n dull gorfodi sefydledig.

c) Mae'r cyfrifiadau hefyd yn defnyddio tybiaethau anghyson yn fewnol o amrywiad sy'n gysylltiedig â pherfformiad cenedlaethol, gan dybio mai gwyriad safonol canlyniadau PCA fyddai [✂] (fel y rhagwelir er mwyn alinio â 90%) hyd yn oed gyda pherfformiad cenedlaethol yn uwch na 93% yn ddamcaniaethol. Fodd bynnag, credwn y byddai gwyriad safonol canlyniadau PCA yn is pe bai'r Post Brenhinol yn cyflawni perfformiad cenedlaethol sy'n uwch na 93% ac, felly, byddai'r perfformiad PCA cysylltiedig yn uwch na'r hyn a ragwelwyd gan y Post Brenhinol.

Targedau 'post hwyr'

A4.24 Fel y nodir yn Adran 6, rydym yn cydnabod efallai na fydd anghenion defnyddwyr am ddibynadwyedd a sicrwydd o ran danfon yn cael eu diwallu'n llawn gan y prif dargedau newydd. Rydym wedi cyflwyno targedau newydd ar gyfer post hwyr i helpu i sicrhau bod y Post Brenhinol yn cael ei gymell i wella ei ddibynadwyedd, gan ddarparu tryloywder a hyder i ddefnyddwyr post ar yr un pryd.

A4.25 Mae'r dadansoddiad sydd wedi cyfrannu at ein hasesiad o lefelau targed post hwyr newydd yn cynnwys nifer o ddewisiadau methodolegol rydym yn eu trafod isod. Rydym wedi ystyried dadansoddiad y Post Brenhinol, ond mae gennym bryderon am agweddau arno sydd, yn ein barn ni, yn golygu ei fod yn rhagfynegi'n rhy isel y tebygolrwydd o lwyddo yn erbyn lefelau targed, ac felly'n gorbwysleisio pa mor heriol fyddai lefelau targed.

A4.26 Yn yr un modd â'r targed PCA Dosbarth Cyntaf, rydym yn cydnabod bod gosod y targedau ar gyfer post hwyr ar lefel rhy uchel yn golygu eu bod mewn perygl o ddod yn brif darged rhwymol, gan fynnu bod y Post Brenhinol yn rhagori ar ei brif dargedau. Gallai hyn beryglu'r arbedion ariannol a ddisgwylir o'r lefelau targed is. Felly, ein nod yw nodi lefel lle byddai'r targedau post hwyr yn sensitif i faterion dibynadwyedd heb bennu lefel ofynnol de facto o brif berfformiad sy'n uwch na'r prif darged.

A4.27 Rydym yn dechrau drwy ystyried y berthynas rhwng perfformiad danfon yn brydlon a pherfformiad post hwyr, fel sail ar gyfer deall perfformiad post hwyr tebygol sy'n cyd-fynd â'r prif darged newydd. Rydym yn gwerthuso data perfformiad y gorffennol sy'n berthnasol i'r berthynas hon, a modelau posibl ar gyfer rhagweld y berthynas hon. Yna, rydym yn

[898] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, t.38.

disgrifio'r sail ar gyfer cyfrifo tebygolrwyddau llwyddiant yn erbyn lefelau targed penodol fel ffordd o ddeall sensitifrwydd gwahanol lefelau targed.

Y berthynas rhwng y prif berfformiad a pherfformiad post hwyr

A4.28 Rydym yn cydnabod **bod perthynas rhwng perfformiad danfon prydlon, a pherfformiad eitemau hwyr sydd wedi'u hoedi.** Fel y disgrifir yn Adran 6, mae rhwydwaith y Post Brenhinol yn gweithredu i raddau helaeth mewn ffordd sy'n trin pob post yn yr un modd, gan gynnwys post prydlon a phost wedi'i oedi. Er bod camau y gall y Post Brenhinol eu cymryd i adfer post sydd wedi'i oedi yn annibynnol a chyflymu'r broses ail-ddanfon, bydd llawer o agweddau ar weithrediadau'n effeithio ar bost prydlon a phost sydd wedi'i oedi, sy'n golygu y bydd buddsoddiadau'n gwella'r ddau, a bydd methiannau'n arwain at berfformiad gwaeth ar y ddau fetrig. Fel y nodwyd yn Adran 6, ein bwriad gyda'r targedau post hwyr newydd yw sicrhau bod gan y Post Brenhinol gymhellion digonol yn benodol ar gyfer perfformiad o ran adfer a danfon post wedi'i oedi, yn hytrach nag ar gyfer perfformiad danfon prydlon sy'n cael ei drin yn fwy priodol gan y prif darged.

A4.29 Rydym yn deall bod terfyn ar berfformiad post hwyr sy'n is na 100% oherwydd post sy'n cael ei golli neu nad oes modd ei ddanfon. Rydym hefyd yn nodi bod yr enillion yn lleihau ar lefelau uwch; mae newidiadau yn y prif berfformiad yn cael effaith fwy ar berfformiad post hwyr ar lefelau is o'i gymharu â lefelau uchel iawn o brif berfformiad. Wrth geisio gosod targed sy'n sensitif i faterion sy'n ymwneud yn benodol â dibynadwyedd, rydym wedi ceisio deall hyd a lled y berthynas hon o ddata blaenorol, yn ogystal ag amcangyfrif disgwyliad o berfformiad post hwyr gan dybio bod y prif dargedau newydd yn cael eu cyrraedd.

A4.30 Mae'r ddeinameg hon yn sail i'n gallu i ddeall, ar gyfer lefel benodol o brif berfformiad, pa gyfran o bost y gellid disgwyl ei danfon bob diwrnod olynol. Mae hyn yn ein galluogi i amcangyfrif i ba raddau y mae post yn tueddu i fethu'r prif darged o un diwrnod yn unig, ac i ba raddau y mae oedi'n hirdymor ac yn anodd ei adfer yn gyflym, er mwyn nodi lefel gymesur ar gyfer y targedau post hwyr.

Detholiad o ddata perfformiad y gorffennol

A4.31 Mae targedau ansawdd gwasanaeth yn cael eu mesur yn flynyddol, ac felly'r data mwyaf cynrychioliadol i'w ddefnyddio fyddai data blynyddol. Fodd bynnag, nodwn fod nifer o anfanteision i hyn hefyd. Cyfnod cyfyngedig o ddata blynyddol sydd ar gael i'w ddefnyddio, hyd yn oed o ystyried perfformiad yn y gorffennol sy'n mynd yn ôl i 2012/13 sy'n cynrychioli marchnad bost sydd wedi newid yn sylweddol ers hynny, yn ogystal â blynyddoedd diweddar lle mae perfformiad wedi cael ei nodweddu gan danberfformiad eithafol, gan gynnwys lefelau anarferol o uchel o broblemau dibynadwyedd fel oedi estynedig. Ar ben hynny, nid oes gan y data blynyddol arsylwadau lle mae'r perfformiad yn agos at y prif lefelau targed newydd ac felly mae angen rhyngosod sylweddol i lenwi'r bylchau.

A4.32 Er mwyn mynd i'r afael â'r anfanteision hyn, rydym hefyd wedi ystyried data misol fel ffynhonnell wybodaeth ategol am y berthynas rhwng y prif berfformiad a pherfformiad post hwyr. Mae hyn yn rhoi darlun manylach o berfformiad ar wahanol lefelau, gan gynnwys yr ystod o amgylch lefel y prif darged newydd. Fodd bynnag, wrth ddefnyddio data am ran o'r flwyddyn, mae anfanteision hefyd. Er enghraifft, mae mwy o angen eithrio cyfnodau penodol o'r blynyddoedd diwethaf sydd wedi cael eu nodweddu gan y pandemig, gweithredu diwydiannol a phroblemau dibynadwyedd, sy'n gwneud y data'n llai addas fel cynrychiolaeth o berfformiad yn y dyfodol heb broblemau dibynadwyedd systemig. Yn

nadansoddiad y Post Brenhinol sy'n sail i'w ymateb i'r ymgynghoriad, mae cyfnodau o'r fath wedi cael eu heithrio o'r canlyniadau blynyddol.[899] Yn ein dadansoddiad, fe wnaethom ddefnyddio data rhwng 2012/13 a 2024/25 ac eithrio cyfnodau o'r fath hefyd.[900]

Model o'r berthynas rhwng y prif berfformiad a pherfformiad post hwyr

A4.33 Mae'r Post Brenhinol wedi awgrymu y gellir rhagweld amcangyfrif perfformiad post hwyr gan ddefnyddio atchweliad llinol gyda phrif berfformiad fel yr unig newidyn annibynnol.[901] [902]Fodd bynnag, credwn efallai nad yw'r dull hwn yn rhoi cyfrif priodol am yr enillion sy'n lleihau ar lefelau perfformiad uwch yn ogystal â nenfwd ar gyfanswm y post y gellir ei ddanfon, sy'n awgrymu y gallai perthynas aflinol fod yn fwy priodol.

A4.34 O ystyried hyn, rydym hefyd wedi ystyried perthynas gwadratig, sy'n cyd-fynd yn well â'r set ddata fisol gyfoethocach. Gan ystyried y gwahaniaethau hyn mewn dulliau, sydd, yn ein barn ni, yn briodol, rydym yn rhagweld perfformiad post hwyr ychydig yn uwch, sy'n gysylltiedig â'r prif lefelau targed newydd o'i gymharu ag amcangyfrifon y Post Brenhinol.

[✂][903]

A4.35 Rydym yn cydnabod serch hynny mai dim ond dangosol o berfformiad yn y dyfodol yw'r modelau syml hyn, gan ein bod yn disgwyl amrywiaeth o ffactorau eraill nad ydym wedi gallu eu cynrychioli yn y dadansoddiad hwn i bennu'r amrywiad yn y berthynas rhwng prif berfformiad a pherfformiad post hwyr, gan gynnwys gallu'r Post Brenhinol i gymryd camau ar y cyd i adfer eitemau sydd wedi'u hoedi. Wrth gwrs, mae ansicrwydd ynghylch pa mor gadarn yw perthnasoedd y gorffennol o ran rhagweld perthnasoedd yn y dyfodol, ac yn enwedig o ystyried i ba raddau rydym yn disgwyl i weithrediadau'r Post Brenhinol newid er mwyn ystyried y gyfres lawn o ddiwygiadau rydym yn eu gwneud i gwmpas yr USO. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod y dadansoddiad hwn yn llawn gwybodaeth ac yn darparu'r sylfaen dystiolaeth orau i lywio ein dealltwriaeth o'r berthynas debygol yn y dyfodol rhwng prif berfformiad a pherfformiad post hwyr.

Rhagweld y tebygolrwydd o gyflawni'r lefelau targed

A4.36 Er bod modelau atchweliad yn gallu amcangyfrif perfformiad post hwyr posibl y Post Brenhinol wrth gyflawni lefelau penodol o brif berfformiad, mae hyn yn cynrychioli

---

[899] Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 27 Mai 2025.
[900] [✂]
[901] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, t.31; Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 27 Mai 2025.
[902]Mae'r Post Brenhinol wedi datgan ei fod wedi defnyddio dadansoddiad ystadegol i adolygu perfformiad Dosbarth Cyntaf o Ch1 2012/13 - Ch2 2024/25 yn gynhwysol. Defnyddiodd offer gwahanol - Excel ac Eviews - i asesu'n ystadegol y berthynas rhwng ansawdd gwasanaeth blynyddol a pherfformiad post hwyr, a chanfu fod cydberthynas uchel rhwng y canlyniadau ansawdd gwasanaeth ar gyfer Dosbarth Cyntaf D+1 a D+3. Mae'r R2 yn 0.99 ac mae gwerth-p yr atchweliad llinol yn arwyddocaol iawn ar tua 1 x 10-12. Gyda'i gilydd, mae'r Post Brenhinol o'r farn bod y rhain yn dangos bod cydberthynas gref yn hanesyddol rhwng perfformiad Dosbarth Cyntaf D+1 a D+3. Defnyddiwyd data blynyddol gan fod y targed yn un blynyddol.
[903] Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 27 Mai 2025.

amcangyfrif canolig gydag ansicrwydd cysylltiedig. Yn ystadegol, efallai y byddwn yn disgwyl i'r Post Brenhinol gyflawni neu ragori ar yr amcangyfrif o lefel perfformiad post hwyr tua hanner yr amser, ac efallai y byddwn yn disgwyl i'r Post Brenhinol danberfformio yn erbyn y lefel a amcangyfrifir tua hanner yr amser.

A4.37 Er mwyn helpu i ddeall pa mor sensitif neu heriol fyddai gwahanol lefelau targed post hwyr, rydym wedi defnyddio profion arwyddocâd ystadegol i gyfrifo'r tebygolrwydd disgwyliedig y bydd y Post Brenhinol yn cyrraedd lefelau penodol o berfformiad post hwyr, gan dybio ei fod wedi cyrraedd y prif darged, ac ystyried ansicrwydd y model.

A4.38 Yng nghyd-destun gwerthuso tebygolrwydd lefelau targed penodol y Post Brenhinol, rydym wedi ystyried ein dull gorfodi sefydledig sy'n ystyried perfformiad ar y terfyn uchaf o ran cyfyngau hyder sy'n gysylltiedig ag ansicrwydd mesur. Mae hyn yn cyd-fynd â'n dadansoddiad o dargedau PCA uchod. Nodwn nad yw'r Post Brenhinol wedi ystyried hyn yn y dadansoddiad sy'n sail i'w ymateb i'r ymgynghoriad,[904] sydd felly'n systematig yn rhagfynegi'n rhy isel y tebygolrwydd o lwyddo yn erbyn gwahanol lefelau targed. Gan ystyried y gwahaniaeth hwn mewn dulliau, sy'n briodol yn ein barn ni, rydym yn rhagweld y bydd y Post Brenhinol yn fwy tebygol o allu cyrraedd lefelau targed post hwyr na'r hyn a nodir yn ei ymateb i'n Hymgynghoriad.

[904] Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 27 Mai 2025.

A5. Ymatebion pellach gan randdeiliaid i'n hymgynghoriad ym mis Ionawr 2025: Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post

Cyflwyniad

A5.1 Pwrpas yr Atodiad hwn yw mynd i'r afael ag adborth gan randdeiliaid nad ydym wedi ymateb iddo mewn mannau eraill yn y Datganiad. Yn y rhan fwyaf o achosion, y rheswm am hyn yw bod yr adborth y tu allan i gwmpas y cwestiynau a ofynnwyd gennym yn yr Ymgynghoriad. Rydym yn egluro ein safbwynt mewn ymateb i'r meysydd hyn, gan gynnwys lle rydym wedi penderfynu peidio â gwneud newid, er gwaethaf ceisiadau gan randdeiliaid i wneud hynny.

A5.2 Rydym wedi strwythuro'r Atodiad hwn yn ôl themâu allweddol:

- Archwilio opsiynau diwygio eraill.
- Cynnyrch a gwasanaethau USO ychwanegol.
- Gwasanaethau mynediad ychwanegol.
- Cost gwasanaethau a chynhyrchion presennol.
- Cyflwyno cynllun iawndal i ddefnyddwyr.
- Cynnal a gwella'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol (USO).
- Rôl Ofcom.
- Seilwaith post a newidiadau strwythurol i'r farchnad bost.

A5.3 Roedd rhai rhanddeiliaid wedi darparu cyfres o argymhellion, gan alw'n aml ar Ofcom i gymryd camau penodol, yn eu hymatebion i'r ymgynghoriad. Rydym yn nodi sylwadau ar y rhain mewn adran ar wahân ar ddiwedd yr Atodiad hwn.

A5.4 Ar gyfer pob adran, rydym yn nodi'r canlynol:

- Crynodeb o'r adborth a gawsom gan randdeiliaid mewn perthynas â'r adran honno.
- Ein hymateb i'r sylwadau hyn gan randdeiliaid sy'n nodi ein safbwynt.

Archwilio opsiynau diwygio eraill

Rhanddeiliad/Rhanddeiliaid	Crynodeb o adborth	Ein hymateb
CWU, UK Mail ac MCF. [905]	Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo nad oedd rhai o'r opsiynau roeddem wedi'u nodi yn ein Cais am Fewnbwn wedi cael eu hystyried yn fanylach.	Yn ein Cais am Fewnbwn, fe wnaethom ystyried opsiynau eraill ac egluro pam ein bod yn ffafrio rhai opsiynau yn hytrach nag opsiynau eraill. Yn ein datganiad ym mis Medi 2024, fe wnaethom egluro ein dull o fwrw ymlaen â diwygio'r USO. Rydym wedi canolbwyntio ar yr opsiwn o newid amlder danfon llythyrau Ail Ddosbarth gan y gellid eu rhoi ar waith drwy newidiadau i'n rheoliadau, y gellid eu rhoi ar waith yn gyflymach ac felly gellid ymateb yn well i'r angen brys am ddiwygio. Byddai opsiynau eraill a nodwyd gennym yn gofyn am newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol a/neu ymyrraeth gan y llywodraeth ac felly byddai'n cymryd mwy o amser i'w rhoi ar waith. Mae'r opsiwn hwn hefyd yn golygu llai o newid i gwmpas presennol yr USO o'i gymharu â'r opsiynau eraill a nodwyd gennym yn y Cais am Fewnbwn, gan barhau i gynrychioli arbedion costau sylweddol. Rydym yn nodi rhagor o wybodaeth am hyn yn Adran 2.
GCA[906]	Cyflwynodd amrywiaeth o awgrymiadau yn eu Cais am Fewnbwn a'u hymatebion i'r ymgynghoriad, a fyddai, yn eu barn nhw, yn diogelu gwasanaeth post cyffredinol sy'n gweithredu'n dda ac yn achosi llai o niwed i'r cyhoedd na chynigion Ofcom. Gofynnodd i Ofcom ddarparu ei ymatebion ystyriol i'r	Fe wnaethom ystyried yr holl ymatebion i'r Cais am Fewnbwn, ac arweiniodd hyn at ein penderfyniad ym mis Medi 2024 i gynnal ymgynghoriad ar sail cynigion y Post Brenhinol. Ein barn gychwynnol yn yr Ymgynghoriad oedd mai'r cynnig a wnaethom, sy'n gwneud set gyfyngedig o newidiadau a fydd yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol, oedd yr opsiwn mwyaf priodol ar gyfer diwygio. Rydym yn egluro'r opsiynau eraill a gynigiwyd gan randdeiliaid yn Adran 2, a oedd yn cynnwys

[905] Ymateb CWU i Ymgynghoriad 2025, t.5; ymateb UK Mail i Ymgynghoriad 2025, tt. 1-2 a 6-7; ac ymateb MCF 1 o 2 i Ymgynghoriad 2025, t.2.
[906] Ymateb GCA i Ymgynghoriad 2025, t.14.

Rhanddeiliad/Rhanddeiliaid	Crynodeb o adborth	Ein hymateb
	dewisiadau amgen hyn ac unrhyw ddadansoddiad o werthuso opsiynau eraill a gynhaliwyd ganddo cyn gwneud y cynigion ar gyfer newid a oedd wedi'u cynnwys yn yr Ymgynghoriad.	awgrym ar gyfer dychwelyd yn gyflym ac yn barhaus i'r lefelau ansawdd gwasanaeth gofynnol.

Cynnyrch a gwasanaethau USO ychwanegol.

Rhanddeiliad/Rhanddeiliaid	Crynodeb o adborth	Ein hymateb
Cyngor ar Bopeth, CCNI a rhai ymatebwyr unigol[907]	Galwodd nifer o ymatebwyr am gyflwyno cynnyrch a gwasanaethau newydd i sicrhau lles a chynhwysiant defnyddwyr post agored i niwed. Mynegodd Cyngor ar Bopeth a CCNI gefnogaeth i wasanaeth Cyfeiriad a Chasglu neu Poste Restante am ddim i ddiwallu anghenion pobl nad oes ganddynt gyfeiriad parhaol, gan fod y garfan hon yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar y gwasanaethau post sydd eu hangen arnynt ar hyn o bryd.	Mewn perthynas â'r fenter Cyfeiriad a Chasglu, rydym yn cydnabod pwysigrwydd y mater hwn ac yn egluro yn Adran 9 sut rydym yn disgwyl iddo gael ei ddatblygu. Mewn perthynas â cheisiadau eraill, rydym yn annog rhanddeiliaid i ymgysylltu â'r Post Brenhinol a sefydliadau perthnasol i edrych ymhellach ar allu'r Post Brenhinol i ddarparu'r gwasanaethau hyn.
Cyngor ar Bopeth a CWU	Roeddent yn credu y gellid diwallu anghenion defnyddwyr agored i niwed yn well drwy gyflwyno gwasanaethau ychwanegol, fel archwiliadau lles ar yr henoed gan weithwyr post, sy'n debyg i gynllun sy'n cael ei weithredu yn Ffrainc ar hyn o bryd.[908] Gofynnodd y CWU hefyd am wasanaethau ailgyfeirio am ddim i bobl sy'n dioddef trais domestig.[909] Galwodd Cyngor	

[907] Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, t.63; Ymateb CCNI i Ymgynghoriad 2025, t.28; Ymatebion unigol i Ymgynghoriad 2025, rhesi 2-3.
[908] Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, t.63; Ymateb CWU i Ymgynghoriad 2025, t.5.
[909] Ymateb CWU i Ymgynghoriad 2025, t.5.

Rhanddeiliad/Rhanddeiliaid	Crynodeb o adborth	Ein hymateb
	ar Bopeth am gofrestr gwasanaethau blaenoriaeth ar gyfer defnyddwyr agored i niwed, fel y rheini sy'n gweithredu yn y diwydiannau ynni a dŵr, a fyddai'n galluogi'r Post Brenhinol i flaenoriaethu defnyddwyr agored i niwed os bydd unrhyw darfu ar y gwasanaeth.[910]	
CCP-ACOD	Cwestiynodd a fydd gwasanaethau am ddim i ddefnyddwyr post dall a rhannol ddall yn aros yr un fath ac roedd yn teimlo nad oedd y ddogfen Ymgynghori yn ymhelaethu ynghylch a all derbynwyr eitemau post o'r fath ddisgwyl iddynt gael eu danfon drwy Ddosbarth Cyntaf neu Ail Ddosbarth.[911]	Mae adran 31 y Ddeddf yn mynnu bod gwasanaethau am ddim yn cael eu darparu i bobl ddall a rhannol ddall. Mae Atodlen 2 y Gorchymyn yn nodi bod yn rhaid i'r gwasanaethau domestig a restrir gael amser llwybro o D+1, h.y. cyfwerth â Dosbarth Cyntaf. Rhaid i'r Post Brenhinol ddarparu'r gwasanaethau hyn o dan DUSP 1.6.3(b). Gallwn gadarnhau na fydd hyn yn newid.[2] Bydd y Post Brenhinol hefyd yn parhau i orfod darparu rhai gwasanaethau post rhyngwladol yn rhad ac am ddim i bobl ddall a rhannol ddall.
CWU, Unite CMA a Chyngor ar Bopeth	Roeddent yn meddwl y dylid cyflwyno cynnyrch penodol er mwyn gallu adnabod a blaenoriaethu gohebiaeth bwysig, fel llythyrau meddygol ac ariannol a gohebiaeth gan gyrff cyhoeddus.[912] Galwodd CWU hefyd am ymestyn cynllun o'r fath i'r diwydiant cardiau cyfarch.[913]	Rydym yn cydnabod sylwadau rhanddeiliaid ynghylch blaenoriaethu danfon llythyrau sy'n sensitif o ran amser. Mae Ofcom yn deall bod cytundeb rhwng sefydliadau'r GIG a'r Post Brenhinol i ddefnyddio cynllun blaenoriaeth penodol mewn amgylchiadau lle mae problemau gweithredol.

[910] Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, t.54.
[911] Ymateb CCP-ACOD i Ymgynghoriad 2025, t.6.
[912] Ymateb CWU i Ymgynghoriad 2025, t.5; ymateb Unite (CMA) i Ymgynghoriad 2025, t.8; ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, t.35.
[913] Ymateb CWU i Ymgynghoriad 2025, t.5.

Rhanddeiliad/Rhanddeiliaid	Crynodeb o adborth	Ein hymateb
		Roedd ein hystyriaeth o anghenion defnyddwyr yn cynnwys derbyn post pwysig. Rydym wedi dod i'r casgliad, yn dilyn ein penderfyniadau, y bydd y gwasanaethau a ddarperir yn parhau i ddiwallu, i raddau helaeth, anghenion rhesymol defnyddwyr. Felly, nid ydym yn credu bod angen cynhyrchion o'r fath. Fodd bynnag, dylai sectorau eraill gysylltu â'r Post Brenhinol i drafod cynllun tebyg, os ydynt yn dymuno gwneud hynny.
Y Post Brenhinol, CCNI	Galwadau mynych am ddiwygio'r rhwymedigaethau parseli. Fel rhan o'i ymateb i'r Cais am Fewnbwn, roedd y Post Brenhinol wedi gofyn am gael ychwanegu tracio parseli a chynnyrch diwedd dydd newydd ar gyfer Danfon Arbennig at yr USO. Mae tracio yn elfen o'r cynnyrch USO Danfon Arbennig 1pm, ond nid y cynnyrch USO parseli (neu lythyrau) Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth. Mae'r Post Brenhinol yn cynnig cynnyrch parseli wedi'u holrhain yn fasnachol (y tu allan i'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol) ee Olrhain 24 awr ac Olrhain 48 awr. Danfon Arbennig erbyn 1pm y diwrnod canlynol yw'r cynnyrch cofrestredig ac yswiriedig sydd yn yr USO ar hyn o bryd.[914] Teimlai CCNI y byddai defnyddwyr yn elwa o wasanaeth olrhain ar gyfer cynnyrch USO (llythyrau a pharseli) ac anogodd Ofcom i	Nid ydym yn cynnig newidiadau i fanyleb yr USO ar gyfer casglu neu ddanfon parseli. Fe wnaethom archwilio'r mater olrhain yn ein Hadolygiad o Reoliadau'r Gwasanaeth Post yn 2022 a phenderfynu na ddylid ei gyflwyno gan y byddai perygl iddo ystumio cystadleuaeth ym maes danfon parseli.[916] Ar sail yr ymchwil defnyddwyr a wnaethom yn 2022 a 2023, rydym yn dal i gredu bod anghenion parseli'n cael eu diwallu. Nid ydym yn credu bod newid sylweddol wedi bod mewn amgylchiadau ers i ni wneud y penderfyniad hwnnw, ac nid ydym yn bwriadu archwilio hyn yn ein rhaglen waith bresennol.[917]

[914] Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025, tt.64-65.
[916] Ofcom, 2022. Datganiad: Adolygu Rheoliadau'r Gwasanaeth Post, Adran 7.
[917] Er nad ydym yn ystyried diwygio danfon parseli, mae targedau ansawdd gwasanaeth yn berthnasol i lythyrau ac i barseli. Felly, mae'r penderfyniadau yn Adran 6 yn berthnasol i dargedau ansawdd gwasanaeth ar gyfer llythyrau a pharseli.

Rhanddeiliad/Rhanddeiliaid	Crynodeb o adborth	Ein hymateb
	ystyried hyn fel rhan o'r broses o ddiwygio'r USO. Canfu ei ymchwil fod llawer o'r cyfranogwyr wedi sôn nad oedd yr wybodaeth olrhain bresennol a ddarperir gan y Post Brenhinol yn ddigon trylwyr, yn enwedig o'i chymharu â chwmnïau cludo.[915]	
ACS	Galwodd am gynnwys danfon parseli ar ddydd Sadwrn gan y Post Brenhinol yn llawn yn yr USO, ac am fonitro perfformiad yn y maes hwn.[918]	Rydym yn cynnal manyleb parseli'r USO lle mae'n rhaid i'r Post Brenhinol ddanfon bum diwrnod yr wythnos o ddydd Llun i ddydd Gwener. Nodwn fod y Post Brenhinol eisoes yn danfon parseli chwe diwrnod yr wythnos, fel y mae nifer o weithredwyr parseli eraill. Nid ydym yn credu bod angen ailedrych ar yr USO sy'n ymwneud â danfon parseli gan fod cystadleuaeth yn sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr. Felly, rydym o'r farn bod y farchnad yn diwallu'r angen i ddanfon parseli ar ddydd Sadwrn, fel nad oes angen ymyriad rheoleiddiol.

[915] Ymateb CCNI i Ymgynghoriad 2025, t.33.
[918] Ymateb ACS i Ymgynghoriad 2025, t.5.

Gwasanaethau ychwanegol i ddefnyddwyr busnes

Rhanddeiliad/Rhanddeiliaid	Crynodeb o adborth	Ein hymateb
Quadient ac MUA	Roeddent o'r farn bod angen cynnyrch mwy fforddiadwy ar ddefnyddwyr busnes ac roeddent yn galw am wasanaethau ychwanegol fel gwasanaeth economi ar gyfer defnyddwyr post wedi'i ffrancio sy'n cyd-fynd â'r gwasanaeth mynediad D+5.[919]	Os yw cwmnïau mynediad neu ddefnyddwyr mawr yn dymuno prynu gwasanaethau mynediad neu adwerthu newydd, dylent gysylltu â'r Post Brenhinol yn y lle cyntaf i weld a oes modd dod i drefniant masnachol. Yn Adran 9 y Datganiad hwn, rydym yn rhoi rhagor o wybodaeth am ein camau nesaf ar ein gwaith prisio a fforddiadwyedd.

Cost gwasanaethau a chynhyrchion presennol.

Rhanddeiliad/Rhanddeiliaid	Crynodeb o adborth	Ein hymateb
Yr NFSP	Roeddent am gael sicrwydd bod costau'r Post Brenhinol yn cael eu harchwilio a'u hymchwilio'n drylwyr gan Ofcom cyn i unrhyw gynigion gael eu rhoi ar waith.[920] Roeddent yn cwestiynu a yw'r costau a'r arbedion effeithlonrwydd sy'n gysylltiedig â'r cynigion wedi cael eu harchwilio'n llawn.	Rhaid i'r holl wybodaeth ac adroddiadau ariannol rheoleiddiol rydym yn gofyn i'r Post Brenhinol eu cyflwyno i ni gydymffurfio â'n Hamod Cyfrifyddu USP a'n Canllawiau Cyfrifyddu Rheoleiddiol. Mae'r fframwaith hwn yn sicrhau bod yr holl ddata ariannol a gyflwynir i Ofcom, gan gynnwys costau, yn addas at ein dibenion rheoleiddio. Mae'r fframwaith yn cynnwys gofyniad i drydydd parti archwilio cyfrifon rheoleiddio cyhoeddedig blynyddol y Post Brenhinol (KPMG ar hyn o bryd). Yn ogystal â'r mesurau diogelu hyn, lle

[919] Ymateb Quadient i Ymgynghoriad 2025, tt.2-3; Ymateb MUA i Ymgynghoriad 2025, t.4.
[920] Ymateb NFSP i Ymgynghoriad 2025, t.1.

Rhanddeiliad/Rhanddeiliaid	Crynodeb o adborth	Ein hymateb
		bo angen, rydym yn craffu ymhellach ar unrhyw ddata ariannol a gawn ac a ddefnyddiwn ar gyfer ein dadansoddiadau ein hunain.[921]
Cyngor ar Bopeth	Galwodd ar Ofcom i roi cyfrif am effeithlonrwydd cymharol y Post Brenhinol cyn diwygio cwmpas yr USO, i sicrhau bod yna farn glir ac ystyriol ar effeithlonrwydd gweithrediadau presennol y Post Brenhinol. Roedd hyn yn cynnwys awgrymiadau i Ofcom gomisiynu dadansoddiad annibynnol o lefelau effeithlonrwydd presennol y Post Brenhinol, yn hytrach na dibynnu ar asesiad y Post Brenhinol ei hun o'i berfformiad. Mae awgrymiadau eraill yn cynnwys cyflwyno system i sefydlu cymhellion credadwy i Ofcom sicrhau arbedion effeithlonrwydd, gyda'r Post Brenhinol ac Ofcom yn atebol yn gyhoeddus am berfformiad effeithlonrwydd y Post Brenhinol, gyda'r gofyniad posibl i adrodd yn achlysurol i'r Pwyllgor Dethol ar Fusnes.	Yn Adran 4 rydym yn egluro ein dull o fonitro effeithlonrwydd a sut rydym wedi'i ystyried yn ein dull o ddiwygio'r USO. Nid ydym yn credu ar hyn o bryd y dylem gomisiynu dadansoddiad annibynnol o lefelau effeithlonrwydd y Post Brenhinol. Rydym yn disgwyl i'r Post Brenhinol wneud newidiadau sylweddol i'w weithrediadau ac nid ydym o'r farn y byddai adolygiad o'r fath yn synhwyrol nac yn gost-effeithiol ar hyn o bryd. O ran yr awgrymiadau eraill, nodwn mai rheolwyr y Post Brenhinol sy'n gwbl gyfrifol am redeg busnes y Post Brenhinol. Mae gan Ofcom, fel y rheoleiddiwr, set benodol o gyfrifoldebau o dan y Ddeddf. Nid yw'r rhain yn cynnwys yr awgrymiadau a wnaed.
GCA, NFSP, Cyngor ar Bopeth, CFH Docmail, Swyddfa'r Post	Gofynnodd rhai rhanddeiliaid i ni ystyried opsiynau ar gyfer gwasanaeth llythyrau fforddiadwy y diwrnod canlynol. Roedd hyn yn cynnwys awgrym i gyflwyno gwasanaeth Dosbarth Cyntaf gyda chap ar bris, gyda'r cap pris i'w gysylltu â pherfformiad ansawdd gwasanaeth y Post Brenhinol.[922]	Rydym yn nodi rhagor o wybodaeth am fforddiadwyedd Dosbarth Cyntaf yn Adran 5. Rydym hefyd yn bwriadu adolygu prisiau a fforddiadwyedd gwasanaethau USO fel rhan o'n gwaith pellach ar y gwasanaeth post. Rydym yn rhoi rhagor o wybodaeth am

[921] Gweler https://www.ofcom.org.uk/post/market-performance/conditions.

[922] Ymateb GCA i Ymgynghoriad 2025, t.2; Ymateb NFSP i Ymgynghoriad 2025, t.6; Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, t.22; Ymateb CFH Docmail Limited i Ymgynghoriad 2025, t.2; Ymateb Swyddfa'r Post Cyfyngedig i Ymgynghoriad 2025, t.2.

Rhanddeiliad/Rhanddeiliaid	Crynodeb o adborth	Ein hymateb
	Awgrymwyd hefyd cadw'r cap presennol ar Ail Ddosbarth.	hyn yn Adran 9 y Datganiad. Mae hyn cyn i'r cap diogelu presennol ar brisiau llythyrau Ail Ddosbarth ddod i ben ym mis Mawrth 2027.
Cyngor ar Bopeth, NFSP, Swyddfa'r Post	Tynnodd amrywiaeth o randdeiliaid sylw at y gwahaniaethau presennol mewn prisiau rhwng prisiau ar-lein a phrisiau "mewn siop" ar gyfer cynnyrch USO ac roeddent o'r farn bod hyn yn gwahaniaethu yn erbyn y defnyddwyr agored i niwed ac sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol, ac mae'n golygu nad yw rhai prisiau'n gyffredinol unffurf.[923]	Nid yw'r mater hwn o fewn cwmpas yr adolygiad hwn. Nodwn ein bod wedi gwneud sylwadau ar hyn yn ein Hadolygiad Cap Diogelu Ail Ddosbarth ym mis Ionawr 2024. Yn hwnnw, fe wnaethom nodi bod y Post Brenhinol wedi bod yn cynnig gostyngiadau ar rai o'i wasanaethau USO ar-lein ers 2016. Fe wnaethom nodi hefyd, wrth edrych ar y mater yn ein hadolygiad yn 2022, nad oeddem o'r farn bod cynnig gostyngiadau ar gyfer gwasanaethau USO sy'n cael eu prynu ar-lein yn codi pryderon ynghylch gorfodi. Yn hytrach, fe wnaethom egluro, gan fod costau darparu gwasanaethau ar-lein yn debygol o fod yn is, bod manteision i ddefnyddwyr yn gysylltiedig â chynnig gostyngiadau ar gyfer prynu ar-lein a, cyn belled bod prisiau all-lein yn parhau i fod yn fforddiadwy, nad oedd gennym bryder.[924] Nodwn hefyd fod y Post Brenhinol wedi cyhoeddi newid yn ddiweddar ym mhrisiau mewn siop i gyd-fynd â phrisiau ar-lein ar gyfer cynnyrch Llythyrau Mawr penodol.[925]

[923] Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, t.59; Ymateb NFSP i Ymgynghoriad 2025, t.2; Ymateb Swyddfa'r Post Cyfyngedig i Ymgynghoriad 2025, t.6.
[924] Ofcom, 2024. Datganiad: Adolygiad o gapiau diogelu Ail Ddosbarth, paragraffau 3.42-3.46.
[925] Prisiau 2025 | Royal Mail Group Ltd - prisiau BPL llythyrau mawr dosbarth 1af ac 2il ddosbarth ar gyfer dros 250g (cyfanswm o chwe phwynt pris) wedi'u gostwng fel eu bod yn cyd-fynd â phrisiau stampiau ar-lein cyfatebol llythyrau mawr dosbarth 1af ac 2il ddosbarth. Cyrchwyd 18 Mehefin 2025.

Cyflwyno cynllun iawndal i ddefnyddwyr

Rhanddeiliad/Rhanddeiliaid	Crynodeb o adborth	Ein hymateb
Cyngor ar Bopeth, Swyddfa'r Post, NFSP, CCNI a [✂]	Roeddent yn meddwl y dylai methu danfon neu oedi mawr o ran danfon fod yn gysylltiedig ag iawndal i ddefnyddwyr am lythyrau sy'n sensitif i amser, neu ar draws holl gynnyrch USO.[926] Rhoddwyd enghreifftiau o gynlluniau o'r fath ar waith mewn sectorau eraill, gyda Cyngor ar Bopeth yn galw ar Ofcom i ystyried y camau gan reoleiddwyr eraill i gysylltu targedau a fethwyd ag iawndal i ddefnyddwyr, yn enwedig os ystyrir lleihau'r gofynion ar y Post Brenhinol mewn unrhyw ffordd. Tynnodd Swyddfa'r Post Cyfyngedig sylw at y ffaith bod iawndal am wasanaeth sydd wedi methu eisoes yn nodwedd reolaidd o wasanaethau post a gwasanaethau eraill sy'n cael eu rheoleiddio yn y DU, fel telegyfathrebu.	Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd gan randdeiliaid mewn perthynas â methu danfon ac yn nodi'r awgrym o gyflwyno cynllun iawndal i ddefnyddwyr mewn achosion o'r fath. Mae eisoes yn ofynnol i'r Post Brenhinol sefydlu, cynnal a glynu wrth bolisïau ar gyfer darparu atebion teg a rhesymol ac iawn mewn perthynas ag oedi, colli a difrod i becynnau post sy'n cael eu hanfon drwy ddefnyddio gwasanaeth USO.[927] [928]Mae'r iawndal a ddyfernir mewn achosion o'r fath yn cyd-fynd â'r iawndal a ddarperir gan ddarparwyr gwasanaeth mewn gwledydd eraill. Ar ben hynny, rydym yn nodi, er mwyn i gynllun iawndal weithio ar draws yr holl gynnyrch USO, yn enwedig llythyrau, y byddai'n rhaid i'r Post Brenhinol gasglu gwybodaeth am yr anfonwr a'r derbynnydd fel mater o drefn, rhywbeth nad yw'n ei wneud ar hyn o bryd. Byddai gorchymyn i'r Post Brenhinol gasglu'r wybodaeth hon ar gyfer pob eitem yn gosod baich diangen ac mae'n debygol y byddai'n arwain at gostau ychwanegol y byddai angen eu hadennill drwy brisiau. Rydym yn nodi bod gan y Contract Llythyrau Mynediad fecanwaith iawndal ar gyfer cwmnïau mynediad os bydd ansawdd gwasanaeth yn disgyn o dan lefelau penodol, fel y nodir yn Adran 7. Rydym hefyd yn ystyried effaith oedi ar gwsmeriaid yn ein penderfyniadau gorfodi a phan fyddwn yn gosod y gosb ariannol.

[926]Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, t.54; Ymateb NFSP i Ymgynghoriad 2025, t.2; Ymatebion CCNI i Ymgynghoriad 2025, t.28; [✂]

[927] Gweler Amod Amddiffyn Defnyddwyr 4:Iawndal - CP 4.2.1 a 4.2.3.

[928]Canolfan Hawliadau'r Post Brenhinol - proses ac opsiynau. Cyrchwyd 18 Mehefin 2025.

Cynnal a gwella'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol (USO)

Rhanddeiliad/Rhanddeiliaid	Crynodeb o adborth	Ein hymateb
CCNI	Dylai Ofcom ystyried sut gellid gwella'r mesurau presennol i ddiogelu defnyddwyr yn yr USO i gefnogi anghenion pob defnyddiwr, gan gynnwys grwpiau agored i niwed. Rhoddwyd enghreifftiau lle mae rheoleiddwyr ar draws nifer o farchnadoedd wedi ailystyried eu dull o ddiogelu defnyddwyr dros y blynyddoedd diwethaf, gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) yn lansio ei Ddyletswydd Defnyddwyr.[929]	Mae Ofcom yn mynd ati i fonitro'r mesurau diogelu presennol ar gyfer defnyddwyr drwy ein rhaglen barhaus o fonitro'r gwasanaeth post. Rydym yn agored i archwilio dulliau newydd ond, ar hyn o bryd, nid ydym wedi gweld tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r dull presennol yn ddigonol. Ar hyn o bryd, mae data'r arolwg traciwr post[930] yn darparu tueddiadau o ran defnydd o wasanaethau a boddhad defnyddwyr, gyda thystiolaeth ychwanegol yn cael ei chasglu ar faterion sy'n ymwneud â derbyn parseli, er mwyn deall y segment Busnes i Ddefnyddwyr sy'n tyfu yn y farchnad. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid fel cyrff defnyddwyr ar ôl rhoi'r diwygiadau ar waith, er mwyn deall sut mae'r farchnad yn datblygu a sut mae hyn yn effeithio ar ddefnyddwyr.
	Dylai Ofcom gyflwyno gofyniad i'r Post Brenhinol gael a chadw Nod Barcud ISO 22458:2022 ar gyfer Bregusrwydd Defnyddwyr gyda'r Sefydliad Safonau Prydeinig (BSI) ar gyfer Gwasanaeth Cynhwysol.	
FSB	Dywedodd na ddylid defnyddio unrhyw ostyngiadau mewn gwasanaethau fel dull o brynu amser ar gyfer newidiadau deddfwriaethol pellach i'r USO yn ddiweddarach, ac roedd am gael sicrwydd na fydd yr USO yn cael ei lastwreiddio ymhellach yn y dyfodol.[931]	Fel sy'n cael ei egluro yn Adrannau 1 a 2, nid yw'r newidiadau rydyn ni'n eu gwneud yn ddigonol ar eu pen eu hunain; maen nhw'n gyfraniad pwysig at sicrhau bod gwasanaeth post cyffredinol yn parhau i gael ei ddarparu, a bydd eu llwyddiant nawr yn dibynnu ar allu'r Post Brenhinol i weithredu'r newidiadau i'w wasanaeth maen nhw'n eu hwyluso. Ein barn o hyd yw ei bod yn annhebygol y gallwn wneud llawer mwy o dan y fframwaith rheoleiddio presennol i ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth cyffredinol. Mae'n debyg y byddai unrhyw newidiadau sylweddol pellach yn galw am ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol.

Rôl Ofcom

Rhanddeiliad/Rhanddeiliaid	Crynodeb o adborth	Ein hymateb
CCP-ACOD	Mynegodd bryderon am rôl gymdeithasol y 'postmon' sy'n graddol ddiflannu, a'r effaith ar fywoliaeth y postmyn, yn enwedig mewn cymunedau gwledig, a allai dderbyn amserlen waith llai rhagweladwy. Roedd CCP-ACOD eisiau rhagor o eglurder ynghylch cylch gwaith Ofcom o ran gwerth cymdeithasol ac roedd Cyngor ar Bopeth yn cwestiynu sut byddai gwerth cymdeithasol y post yn cael ei ystyried.[932]	Rydym yn cydnabod pryderon CCP- ACOD ynghylch rôl gymdeithasol y postmon, ac rydym yn nodi rôl gymdeithasol ehangach gwasanaethau post yn ein Hymgynghoriad, gan gynnwys y manteision cymdeithasol ehangach sy'n deillio o'n newidiadau.[933] Rydym yn ystyried yr effeithiau a grybwyllir yn ein hasesiadau effaith y mae'n rhaid i ni eu cynnal o dan Adran 7 Deddf Cyfathrebiadau 2003, a lle bo hynny'n berthnasol, fel rhan o'n Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Rydym yn nodi yn ein EIA yn Atodiad A2 ac yn Adran 5 ein bod yn credu na fydd llawer o newid i gymunedau gwledig.
CWU	Credai y dylid diwygio Ofcom, gyda dyletswyddau'n cael eu diwygio i hyrwyddo buddsoddiad tymor hir, arloesedd a darparu gwasanaeth cyffredinol fel blaenoriaeth yn hytrach na chystadleuaeth prisiau, torri costau a lleihau gwasanaethau.[934]	Nodwn sylwadau CWU ar ein rôl a'n cylch gwaith o ran rheoleiddio gwasanaethau post. Ofcom yw'r awdurdod rheoleiddio annibynnol ar gyfer gwasanaethau post y DU, a rhaid i ni ystyried ein dyletswyddau statudol a sicrhau bod gennym ddull gweithredu cytbwys. Rydym yn rhoi rhagor o wybodaeth am ein dyletswyddau a'n rôl o ran rheoleiddio'r post yn Adran 2 ac Atodiad A1. Nodwn mai

[929] Ymateb CCNI i Ymgynghoriad 2025, t.32.
[930] Gweler adroddiadau ymchwil a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Adroddiadau Monitro Post bob blwyddyn.
[931] Ymateb FSB i Ymgynghoriad 2025, t.5.
[932] Ymateb CCP-ACOD i Ymgynghoriad 2025, tt. 1-2; ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, t.63.
[933] Gweler Adran 5 i gael rhagor o wybodaeth.
[934] Ymateb CWU i Ymgynghoriad 2025, t.1.

Rhanddeiliad/Rhanddeiliaid	Crynodeb o adborth	Ein hymateb
		mater i'r Llywodraeth ei ystyried yw unrhyw faterion sy'n ymwneud â diwygio ein dyletswyddau.
Tesco Bank	Roedd eisiau rhagor o wybodaeth am ein hymgysylltiad â chyrff rheoleiddio eraill ynghylch ein cynigion. Roedd hyn yn cynnwys yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA), ynghylch danfon a derbyn llythyrau sy'n sensitif o ran amser oherwydd efallai fod ganddynt reolau sy'n cynnwys amserlenni rheoleiddiol ar gyfer danfon a derbyn gohebiaeth benodol.[935]	Mae Ofcom wedi ymgysylltu â nifer o randdeiliaid wrth wneud y penderfyniadau a nodir yn y Datganiad hwn, gan gynnwys gyda darparwyr gwasanaethau ariannol. Er nad oedd yr FCA wedi ymateb i'n Hymgynghoriad, clywsom gan ddefnyddwyr post, gweithredwyr mynediad a sefydliadau'r sector cyhoeddus sy'n anfon ac yn derbyn llythyrau sensitif i amser sy'n ymwneud ag amserlenni rheoleiddiol. Rydym wedi cyhoeddi'r ymatebion nad oeddent yn rhai cyfrinachol ar ein gwefan. Rydym yn ystyried yr ymatebion a'r effeithiau hyn yn Adran 5 ac Atodiad A2 sy'n nodi ein EIA.[936]

[935] Ymateb Tesco Bank i Ymgynghoriad 2025, t.3.
[936] Ofcom, 2025. Ymgynghoriad: Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post.

Seilwaith post a newidiadau strwythurol i'r farchnad bost

Rhanddeiliad/Rhanddeiliaid	Crynodeb o adborth	Ein hymateb
NALC	Galwodd ar y Llywodraeth i ddarparu cymorth ariannol parhaus ar gyfer rhwydwaith is-swyddfeydd post, gan gynnwys meysydd fel Lleol ac Allgymorth Swyddfa'r Post.[937]	Mae'r materion hyn y tu hwnt i gylch gwaith Ofcom a mater i'r Llywodraeth eu hystyried yw hyn.
GCA	Roeddent am gael eglurder ynghylch cwmpas yr ymgynghoriad a mynegwyd pryderon bod hyn yn canolbwyntio ar ddanfon llythyrau yn hytrach na'u casglu. Holodd y GCA a ymgynghorwyd â chwsmeriaid ynghylch newidiadau i argaeledd blychau post neu lai o amseroedd casglu, er gwaethaf pryderon cynyddol neu sut y bydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio ar nifer canghennau Swyddfa'r Post.[938]	Mae materion casglu fel dwysedd pwyntiau mynediad neu newidiadau i amseroedd casglu diwethaf y tu allan i gwmpas y Datganiad hwn.
ACRE	Ymatebodd gyda nifer o argymhellion i annog atebion tymor hwy a fydd yn diogelu cymunedau gwledig yn y tymor hir.[939] Roedd hyn yn cynnwys: a) Rhoi ystyriaeth weithredol i ailintegreiddio Swyddfa'r Post a'r Post Brenhinol o dan un drefn lywodraethu nid-er-elw gydag ymrwymiad i sicrhau mynediad adwerthu ym mhob cymuned wledig â mwy na 3,000 o boblogaeth, a llai na hynny mewn ardaloedd â phoblogaeth gwasgaredig iawn. b) Rhoi terfyn ar y gofyniad (a gor-reoleiddio) ar y Post Brenhinol i ddarparu gwasanaethau mynediad i sefydliadau danfon eraill.	Nodwn bwyntiau a) a d) yn ymateb ACER ar ailstrwythuro gwasanaethau post. Maent y tu hwnt i gylch gwaith Ofcom ac yn faterion i'r Llywodraeth eu hystyried. Nodwn bwyntiau b) ac c) yn ymateb ACRE. Rydym yn ystyried bod manteision cystadleuaeth yn y farchnad mynediad o fudd i ddefnyddwyr yn gyffredinol. Felly, nid ydym yn

[937] Ymateb NALC i Ymgynghoriad 2025, t.1.
[938] Ymateb GCA i Ymgynghoriad 2025, t.7.
[939] Ymateb ACRE i Ymgynghoriad 2025, t.3.

Rhanddeiliad/Rhanddeiliaid	Crynodeb o adborth	Ein hymateb
	Os oes galw am y gwasanaeth hwn, dylai'r Post Brenhinol "newydd" allu manteisio i'r eithaf ar ei incwm o bost swmp i draws-gymorthdalu'r gwaith o ddarparu'r USO llawn mewn ardaloedd gwledig. c) Os oes angen, ac i sicrhau digon o refeniw i ategu'r USO llawn, addasiad i'r strwythur rheoleiddio i roi monopoli i'r Post Brenhinol ar ddanfon pecynnau bach 'milltir olaf'. d) Adolygiad gweithredol, gan ymgysylltu â'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA), yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA), Trysorlys Ei Fawrhydi (HMT) a'r Adran Busnes a Masnach (DBT), ynghyd â sefydliadau cyllid a chymunedol y DU, sydd wedi'i ddylunio i oresgyn llymder cyfraith cystadleuaeth a sicrhau cymaint o gydweithio â phosibl wrth ddarparu mynediad at wasanaethau post a bancio i gymunedau gwledig.	credu ei bod yn briodol dileu'r gystadleuaeth hon. Rydym yn nodi'r newidiadau i wasanaethau mynediad yn Adran 7 y ddogfen hon ac rydym yn egluro cwmpas yr adolygiad hwn yn Adran 2.
UK Mail	Dadleuodd UK Mail nad yw newidiadau yn y farchnad bost o reidrwydd yn golygu ei bod yn anoddach cyrraedd lefel darged o 93% yn gyson ar gyfer ansawdd gwasanaeth Dosbarth Cyntaf. Dywedodd UK Mail y byddai'r model danfon newydd, ynghyd â dyluniad llwybr deinamig, yn caniatáu mwy o hyblygrwydd gweithredol ac y bydd yn haws ymgorffori newidiadau o ran niferoedd, yn enwedig yng nghyd-destun y model danfon mewn faniau, a oedd, yn ei farn ef, yn caniatáu ar gyfer mwy o ystod a llwythi na danfon ar droed.[940]	Er bod y Post Brenhinol wedi dweud y gallai newidiadau i'r model danfon Ail Ddosbarth olygu bod eitemau Dosbarth Cyntaf yn cael eu danfon mewn fan ar ddiwrnodau pan nad oes llythyrau Ail Ddosbarth yn cael eu danfon, mae effaith y newid hwn ar lefelau ansawdd Dosbarth Cyntaf yn ansicr. Yn gyffredinol, nid ydym yn disgwyl i newidiadau i weithrediadau

[940] Ymateb UK Mail i Ymgynghoriad Ionawr 2025, t.3.

Rhanddeiliad/Rhanddeiliaid	Crynodeb o adborth	Ein hymateb
		danfon Dosbarth Cyntaf gael digon o effaith ac y bydd yn sicr o wrthbwyso newidiadau cyffredinol yn y farchnad bost, sydd, yn ein barn ni, yn ei gwneud yn gostus i gyrraedd targedau ansawdd gwasanaeth uwch yn gyson. Ar y cyd, gallai'r model danfon Ail Ddosbarth newydd ochr yn ochr â danfoniadau faniau Dosbarth Cyntaf leihau costau ar gyfer cynnyrch USO, ond nid yw hyn ychwaith yn ddigon i gyfiawnhau cynnal targedau danfon Dosbarth Cyntaf ar y lefel bresennol o 93%.

Argymhellion pellach gan randdeiliaid

CCNI

Thema	Cam Gweithredu/Argymhelliad	Ein hymateb
Fforddiadwyedd[941]	Cyfeiriodd at eu hymgysylltiad blaenorol ag Ofcom ynghylch diogelu prisiau drwy eu hymateb i'n Hymgynghoriad yn 2024 ar y cap diogelu Ail Ddosbarth. Roedd CCNI yn credu, ar sail y dystiolaeth o'i ymchwil, bod cadw diogelwch prisiau ar ffurf capiau diogelu yn bwysig er mwyn diwallu anghenion rhesymol y grwpiau defnyddwyr mwyaf agored i niwed.	Yn ein Cynllun Gwaith 2025/26, fe wnaethom nodi ein bwriad i gynnal adolygiad o brisiau a fforddiadwyedd post, cyn i'r rheolaeth bresennol ar brisiau llythyrau Ail Ddosbarth ddod i ben ym mis Mawrth 2027. Bwriadwn gyhoeddi ymgynghoriad erbyn Ch4 2025/26. Rydym yn nodi rhagor o wybodaeth am hyn yn Adran 9.
Cynlluniau peilot y Post Brenhinol[942]	Mynegodd CCNI rai pryderon ynghylch ymwybyddiaeth defnyddwyr o gynlluniau peilot, gan ddweud nad yw defnyddwyr yn yr ardaloedd peilot wedi cael gwybod am y newidiadau ar gyfer cyflwyno'r cynlluniau peilot. Dywedasant y gallai hynny gael effaith negyddol ar ddefnyddwyr.	Mater gweithredol i'r Post Brenhinol yw'r cynlluniau peilot hyn. Rydym wedi parhau i fonitro'r cynlluniau peilot drwy raglen fonitro'r gwasanaeth post, ac rydym yn nodi rhagor o wybodaeth am hyn yn Adran 9. Hyd yma, nid oes gennym dystiolaeth o effaith niweidiol ar ddefnyddwyr.

[941] Ymateb CCNI i Ymgynghoriad 2025, t.32.
[942] Ymateb CCNI i Ymgynghoriad 2025, t.31.

Cyngor ar Bopeth

Thema	Cam Gweithredu/Argymhelliad	Ein hymateb
Fforddiadwyedd a Phrisiau[943]	Ymrwymiad gan Ofcom i gadw capiau diogelu prisiau ar Ail Ddosbarth ac i ehangu hyn i gynnwys Dosbarth Cyntaf.	Yn ein Cynllun Gwaith 2025/26, fe wnaethom nodi ein bwriad i gynnal adolygiad o brisiau a fforddiadwyedd post, cyn i'r rheolaeth bresennol ar brisiau llythyrau Ail Ddosbarth ddod i ben ym mis Mawrth 2027. Bwriadwn gyhoeddi ymgynghoriad erbyn Ch4 2025/26. Rydym yn rhoi mwy o wybodaeth am hyn yn Adran 9.
	Mwy o dryloywder ynghylch penderfyniadau prisio o dan yr USO ac i ragor o wybodaeth gael ei rhannu am fodelu. Galwodd Cyngor ar Bopeth hefyd am gynrychiolaeth defnyddwyr mewn trafodaethau rhwng Ofcom a'r Post Brenhinol ynghylch modelu strwythurau prisio.	
	Dull cliriach o fesur fforddiadwyedd drwy gynnwys gwasanaethau post yn y Traciwr Fforddiadwyedd Cyfathrebu, ac ystyried fforddiadwyedd ar gyfer is-setiau o'r boblogaeth yn hytrach na'r boblogaeth yn gyffredinol.	
	Camau rheoleiddio cyflymach gan Ofcom ynghylch pryderon am fforddiadwyedd. Rhoddwyd enghraifft o sut gallai Ofcom gael rhagor o wybodaeth i'w hasesu am y nifer sy'n manteisio ar gynllun disgowntiau consesiynol y Post Brenhinol ar gyfer ailgyfeirio.	

[943] Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, tt.57-61 a 68-70.

Thema	Cam Gweithredu/Argymhelliad	Ein hymateb
Dull gorfodi rheoleiddiol[944]	Mwy o dryloywder ynghylch cosbau ariannol sy'n cael eu pennu wrth ddod i benderfyniad gorfodi, yn enwedig yng ngoleuni cyflwyno targedau post hwyr, ac i ystod ehangach o safbwyntiau gael eu cynnwys yn ymchwiliadau i fethiant ansawdd gwasanaeth.	Wrth ddod i benderfyniad ynghylch swm unrhyw gosb ariannol, mae angen i ni ystyried holl amgylchiadau'r achos penodol yn eu cyfanrwydd, gan ystyried y ffactorau a nodir yn ein Canllawiau Cosbau ac ystyried ein dyletswyddau statudol. Mae'r holl ffactorau sydd wedi cael eu hystyried i benderfynu ar gosb wedi'u nodi'n llawn yn ein dogfennau penderfyniad a gyhoeddir gennym ar ddiwedd ymchwiliad. Mae'r rhain ar gael ar wefan Ofcom.[945] Byddem yn disgwyl defnyddio'r un dull yn y dyfodol pe bai'r angen yn codi mewn perthynas â gorfodi'r targedau post hwyr.
	Adroddiadau ansawdd gwasanaeth gwell gyda manylion manwl am feysydd fel y dadansoddiad rhwng parseli a llythyrau a lefel perfformiad sylfaenol ar gyfer cyfnod y Nadolig, i sicrhau nad yw perfformiad ansawdd gwasanaeth yn gostwng yn ystod yr amserlen hon, lle mae'r Post Brenhinol wedi'i eithrio o dargedau ansawdd gwasanaeth.	Rydym yn agored i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y ffyrdd eraill o wella cydymffurfiad ag ansawdd gwasanaeth a byddem yn croesawu unrhyw awgrymiadau penodol. Rydym wedi nodi yn Adran 7 pam nad ydym yn credu ei bod yn briodol gosod targedau rheoleiddio ar gyfer post mynediad.
	Rhagor o wybodaeth am sut bydd gwaith yn y dyfodol yn mynd i'r afael yn effeithiol ag anghenion defnyddwyr, ac i Ofcom ddarparu gwybodaeth am sut bydd targedau ansawdd gwasanaeth yn cael eu cyflawni o dan USO diwygiedig fel mater o frys.	
	Ymestyn targedau ansawdd gwasanaeth i bost mynediad.	

[944] Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, tt.50-54.
Gweler er enghraifft, Penderfyniad Ansawdd Gwasanaeth y Post Brenhinol 2023/24 a Phenderfyniad Ansawdd Gwasanaeth y Post Brenhinol 2022/23.

Thema	Cam Gweithredu/Argymhelliad	Ein hymateb
Asesu effaith y newidiadau[946]	Gwnaed argymhelliad ychwanegol i Ofcom gynghori'r Senedd Brydeinig ar ffordd ymlaen o ran materion a phryderon defnyddwyr.	Mae Ofcom yn atebol i'r Senedd am ei waith ac mae'n ymddangos gerbron pwyllgorau dethol yn rheolaidd. Nid mater i Ofcom yw newidiadau i'r trefniadau hyn.

Consumer Scotland

Thema	Crynodeb o adborth	Ein hymateb
Fforddiadwyedd a Phrisiau[947]	Archwilio a chyhoeddi dadansoddiad o opsiynau ar gyfer cyflwyno cynlluniau fforddiadwyedd ychwanegol wedi'u targedu ar gyfer defnyddwyr ar incwm isel, i gynyddu mesurau diogelu ar draws y farchnad, ond nid i gymryd eu lle.	Yn ein Cynllun Gwaith 2025/26, fe wnaethom nodi ein bwriad i gynnal adolygiad o brisiau a fforddiadwyedd post, cyn i'r rheolaeth bresennol ar brisiau llythyrau Ail Ddosbarth ddod i ben ym mis Mawrth 2027. Bwriadwn gyhoeddi ymgynghoriad erbyn Ch4 2025/26. Rydym yn rhoi mwy o wybodaeth am hyn yn Adran 9.
	Nodi ymrwymiad i ddiogelu capiau diogelu presennol o fewn trefniadau'r USO newydd.	

[946] Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025, tt.50-54 a 68-70.
[947] Ymateb Consumer Scotland i Ymgynghoriad 2025, t.14.

Thema	Crynodeb o adborth	Ein hymateb
	Archwilio a chyhoeddi dadansoddiad o opsiynau ar gyfer ymestyn rhyw fath o ymyriadau fforddiadwyedd i gynnyrch post ychwanegol (gan gynnwys post Dosbarth Cyntaf) lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol, i sicrhau bod pob defnyddiwr yn dal i allu cael gafael ar y cynhyrchion hyn pan fydd eu hangen arnynt.	
Ansawdd Gwasanaeth a'n dull gorfodi[948]	Ofcom i gynnal adolygiad o amrywiaeth o adnoddau rheoleiddio ychwanegol a allai fod yn fuddiol iddo eu cael er mwyn sicrhau bod y Post Brenhinol yn cydymffurfio'n gyflym â'r drefn ansawdd gwasanaeth newydd. Dylai Ofcom ddarparu ei asesiad ar y mater hwn i Lywodraeth y DU i'w ystyried.	Rydym yn agored i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y ffyrdd eraill o wella cydymffurfiad ag ansawdd gwasanaeth a byddem yn croesawu unrhyw awgrymiadau penodol. Mater i'r Llywodraeth a'r Senedd yw newid ein pwerau.
	Dylai Ofcom roi eglurder i'r holl randdeiliaid ynghylch ei ddull cydymffurfio arfaethedig ar ôl cyflwyno targedau dibynadwyedd post hwyr i sicrhau nad yw targedau o'r fath yn cael effaith anfwriadol o gymell y Post Brenhinol i beidio â chyflawni ei brif dargedau ansawdd gwasanaeth.	Fe wnaethom egluro yn yr Ymgynghoriad ac ailadrodd yn y Datganiad hwn y bydd angen i'r Post Brenhinol gydymffurfio â'r prif darged a'r targed post hwyr. Mae rhagor o wybodaeth yn Adran 6.
	Dylai Ofcom ailystyried ei safbwynt ar dargedau ansawdd gwasanaeth ar ynysoedd yr Alban, ac fel rhan o'i benderfyniad terfynol ar ôl yr Ymgynghoriad, ymrwymo i broses i edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno rhyw fath o darged ansawdd gwasanaeth sylfaenol newydd ar gyfer y tair ardal cod post sydd wedi'u heithrio yn yr Alban ar hyn o bryd.	Nodwn argymhelliad Consumer Scotland y dylai Ofcom ailystyried ei safbwynt ar dargedau ansawdd gwasanaeth ar ynysoedd yr Alban, ac fel rhan o'n penderfyniad terfynol ar ôl yr Ymgynghoriad, ymrwymo i broses i edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno rhyw fath o dargedau sylfaenol newydd ar gyfer y tair ardal cod post sydd wedi'u heithrio yn yr Alban ar hyn o bryd. Nid yw adolygu'r eithriad presennol ar gyfer y tair ardal cod post yn yr Alban o'r

[948] Ymateb Consumer Scotland i Ymgynghoriad 2025, tt.12-13.

Thema	Crynodeb o adborth	Ein hymateb
		targed ardal cod post yn rhan o'n gwaith presennol ar ddiwygio'r USO. Fe wnaethom edrych ar y mater yn ddiweddar yn ein Hadolygiad o Reoleiddio'r Gwasanaeth Post yn 2022. Penderfynasom beidio â rheoleiddio ymhellach. Er ein bod wedi nodi anghenion pobl yn yr ardaloedd hyn, roeddem wedi egluro bod ffyrdd eisoes o gymell perfformiad y Post Brenhinol yn yr ardaloedd hyn, gan gynnwys cyhoeddi ei berfformiad. Mae ei berfformiad yn yr ardaloedd hyn hefyd wedi'i gynnwys yn ein hasesiad o'r targedau Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth. Bydd y targedau post hwyr yn cynnwys yr ardaloedd hyn.
	Dylai Ofcom ddarparu dadansoddiad pellach o berfformiad lefel ardal cod post presennol y Post Brenhinol, gan gynnwys asesiad ynghylch a yw codau post mwy anghysbell yn yr Alban yn fwy tebygol o gael perfformiad danfon salach o'i gymharu â thargedau rheoleiddiol. Dylai Ofcom ddarparu'r dadansoddiad hwn fel rhan o'i benderfyniad terfynol, i helpu i benderfynu a oes angen mesurau diogelu ychwanegol i ddiogelu defnyddwyr mwy anghysbell yn yr Alban yn well mewn unrhyw fodel USO diwygiedig.	Nodwn argymhelliad Consumer Scotland i ddarparu dadansoddiad pellach ar berfformiad presennol y Post Brenhinol ar lefel ardal cod post. Byddwn yn parhau i fonitro perfformiad y Post Brenhinol yn erbyn y targed ardal cod post, a fydd yn rhoi cipolwg ar berfformiad y Post Brenhinol mewn ardaloedd mwy anghysbell. Nodwn fod ein dadansoddiad ar gyfer yr Ymgynghoriad yn canolbwyntio ar y cynigion ar gyfer newidiadau i dargedau ansawdd gwasanaeth cenedlaethol a danfon Ail Ddosbarth, nad oedd yn gofyn am ddadansoddiad o fater penodol perfformiad mewn ardaloedd anghysbell. Roedd gan ein hymchwil i anghenion defnyddwyr yn 2024 samplau digon mawr i allu dadansoddi'r canlyniadau a dod i gasgliadau ystadegol gadarn am ardaloedd gwledig a gwledig anghysbell a phedair gwlad y DU. Mae rhagor o wybodaeth yn Adran 3.
	Dylai Ofcom edrych ar opsiynau ar gyfer mynnu bod y targed dibynadwyedd post hwyr newydd hefyd yn cael ei fonitro ar lefel ardal cod post, yn ogystal â'r ffigur syml ar lefel y DU, i	Nodwn fod ein gwaith monitro hyd yma yn cynnwys deall perfformiad y Post Brenhinol mewn gwahanol rannau o'r DU

Thema	Crynodeb o adborth	Ein hymateb
	sicrhau bod pob defnyddiwr, yn enwedig y rheini mewn ardaloedd anghysbell a gwledig, yn elwa i'r un graddau o'r warchodaeth reoleiddiol newydd hon.	mewn perthynas â'r targedau presennol a byddwn yn gwneud hyn ar gyfer targedau post hwyr.
	Dylai Ofcom gynnal ei safbwynt i beidio â chaniatáu i'r Post Brenhinol fethu â chyrraedd targedau ansawdd gwasanaeth ar gyfer chwe ardal cod post.	Nid ydym wedi mabwysiadu'r cynnig hwn gan y Post Brenhinol. Gweler adran 6.
Asesu effaith y newidiadau[949] (ar ddefnyddwyr a phost mynediad)	Dylai Ofcom a/neu'r Post Brenhinol gyhoeddi gwybodaeth am y rhaniad post presennol rhwng niferoedd post Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth er mwyn darparu llinell sylfaen glir a thryloyw y gall sefydliadau eiriolaeth defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill ei defnyddio i fonitro effaith sut mae defnyddwyr yn defnyddio'r gwahanol gynhyrchion hyn, os bydd y newidiadau arfaethedig i'r USO yn cael eu rhoi ar waith.	Ar hyn o bryd nid ydym yn cyhoeddi gwybodaeth am raniad post rhwng Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth oherwydd ei bod yn gyfrinachol. Byddwn yn ystyried beth arall, os o gwbl, y gellid ei ychwanegu at ein Hadroddiad Monitro Post blynyddol.
	Os bydd y newidiadau i bost Ail Ddosbarth 2.5 diwrnod bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos yn cael eu rhoi ar waith, dylai Ofcom ymrwymo i gynnal ymchwil penodol gyda defnyddwyr, o fewn 12 mis i'w benderfyniad terfynol, i brofi: • A yw defnyddwyr wedi cael gwybod yn briodol am y newidiadau • A ydynt wedi deall y newidiadau	Byddwn yn monitro'r broses o roi'r newidiadau ar waith yn dilyn ein penderfyniad. Rydym eisoes yn cynnal ymchwil rheolaidd i'r gwasanaeth post ond byddwn yn ystyried a oes angen rhywbeth ychwanegol.

[949] Ymateb Consumer Scotland i Ymgynghoriad 2025, tt.11-14.

Thema	Crynodeb o adborth	Ein hymateb
	• Pa effaith y mae'r newidiadau wedi'i chael ar eu profiad o'r system bost • Pa gamau, os o gwbl, y mae defnyddwyr wedi'u cymryd i liniaru effaith y newidiadau hyn	
	Dylai Ofcom gyhoeddi canfyddiadau'r ymchwil hwn ac ymrwymo i waith lliniaru a monitro dilynol yn ôl yr angen ar y prif faterion a nodwyd.	
	Dylai Ofcom fonitro pa mor dda mae'r gwasanaeth D+3 ychwanegol yn diwallu anghenion defnyddwyr post mynediad a nodi unrhyw niwed i ddefnyddwyr sy'n deillio o ddefnyddwyr post mynediad yn newid i wasanaeth D+3.	Roedd ein hystyriaeth o anghenion defnyddwyr yn cynnwys anghenion pobl sy'n ymwneud â phost mynediad. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â chwmnïau mynediad a sefydliadau mawr sy'n anfon y post hwn ar ôl rhoi'r newidiadau ar waith.
Cynlluniau peilot y Post Brenhinol[950]	Galwodd ar Ofcom i roi rhaglen glir ar waith i gasglu tystiolaeth yn annibynnol ar brofiad defnyddwyr o gynlluniau peilot y Post Brenhinol sy'n profi USO diwygiedig. Dylai Ofcom geisio defnyddio adborth defnyddwyr o'r ardaloedd peilot fel sy'n briodol i lywio ei benderfyniad terfynol.	Mater gweithredol i'r Post Brenhinol yw'r cynlluniau peilot hyn. Rydym wedi parhau i fonitro'r effeithiau ar ddefnyddwyr drwy raglen fonitro'r gwasanaeth post, ac rydym yn nodi rhagor o wybodaeth am hyn yn Adran 9.

[950] Ymateb Consumer Scotland i Ymgynghoriad 2025, t.13.

GCA

Thema	Crynodeb o adborth	Ein hymateb
Fforddiadwyedd[951]	Gofynnwyd am ragor o eglurder ynghylch sut roeddem wedi ystyried eu pwyntiau ynghylch fforddiadwyedd ar gyfer cyfnodau prysur dros y Nadolig ac a oes camau pellach wedi cael eu cymryd i fodelu hyn ar gyfer y grwpiau hyn (neu grwpiau eraill) cyn unrhyw newidiadau i'r USO. Roedd y GCA hefyd yn teimlo bod trefn ein gwaith ar fforddiadwyedd yn achos pryder ac yn teimlo bod hyn yn uniongyrchol groes i'r gofyniad statudol i fynd ati'n rhagweithiol i sicrhau bod y gwasanaeth cyffredinol yn parhau i fod yn fforddiadwy.	Mae ein rhwymedigaethau statudol mewn perthynas â sicrhau fforddiadwyedd gwasanaethau post cyffredinol yn mynnu ein bod yn ystyried hyn yn ei gyfanrwydd. Fe wnaethom ystyried ymatebion rhanddeiliaid fel rhan o'n Hasesiad o Anghenion Defnyddwyr Post ac mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Atodiad A3. Roedd yr ymatebion yn dangos y gallai rhai defnyddwyr, yn enwedig y rheini ar incwm isel, ei chael hi'n anodd fforddio stampiau ar adegau o ddefnydd uchel, fel y Nadolig, a gwelsom fod hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau ein hymchwil ein hunain. Rydym yn egluro yn Atodiad A3 ac Adran 5 ein bod yn credu ei bod yn dal yn briodol dibynnu ar ein dadansoddiad o fis Ionawr 2024 yn y Datganiad Cap Diogelu, er gwaethaf y cynnydd diweddar mewn prisiau Dosbarth Cyntaf. Nodwn y sylw ar drefn ein gwaith ar fforddiadwyedd; rydym yn nodi rhagor o wybodaeth am fforddiadwyedd Dosbarth Cyntaf yn Adran 5.

[951]Ymateb GCA i Ymgynghoriad 2025, t.15.

A6. Asesiad effaith rheoleiddiol

A6.1 Y ddogfen sy'n nodi asesiad effaith rheoleiddiol o'n penderfyniad i addasu'r Gorchymyn Gwasanaeth Post Cyffredinol, a chadarnhad o'r addasiadau hynny.

A7. Hysbysiad o newidiadau i Amod 1 y DUSP

A7.1 Y ddogfen sy'n nodi ein haddasiadau i Amod 1 y Darparwr Gwasanaeth Cyffredinol Dynodedig (DUSP).

A8. Hysbysiad o newidiadau i Amod Mynediad Darparwr Gwasanaeth Cyffredinol

A8.1 Y ddogfen sy'n nodi ein haddasiadau i Amod Mynediad Darparwr Gwasanaeth Cyffredinol (USPA).

A9. Geirfa

Term	Diffiniad
Mynediad	Mae mynediad yn cyfeirio at y Post Brenhinol yn caniatáu i gwmnïau mynediad neu ddefnyddwyr post ddefnyddio ei rwydwaith at ddibenion danfon y filltir olaf. Mae mynediad at rwydwaith y Post Brenhinol yn digwydd yn y Ganolfan Post am i Mewn pan fydd cwmni mynediad neu ddefnyddiwr post yn trosglwyddo post i'r Post Brenhinol.
Gweithredwr mynediad	Gweithredwr post neu ddefnyddiwr gwasanaeth post sydd â mynediad, neu sy'n ceisio mynediad, at rwydwaith y Post Brenhinol.
Pwynt mynediad	Unrhyw flwch neu gyfleuster arall a ddarperir at ddibenion derbyn eitemau post un eitem i rwydwaith y Post Brenhinol.
Deddf	Deddf Gwasanaethau Post 2011.
Llythyrau â chyfeiriad arnynt	Pob llythyr ar wahân i lythyrau heb gyfeiriad arnynt.
Post Swmp	Mae post swmp yn cyfeirio at niferoedd mawr o bost, sy'n cael ei anfon gan sefydliadau mawr. Mae'r gwasanaethau hyn y tu allan i'r USO yn cael eu prisio ar ddisgownt sylweddol i gynnyrch Llythyrau safonol a stampiau Llythyrau Mawr, gyda'r disgowntiau'n adlewyrchu'r niferoedd mawr sy'n cael eu hanfon a'r ffordd mae'r post wedi cael ei gyflwyno gan gwsmeriaid post swmp neu gwmnïau mynediad, ymysg ffactorau eraill.
Llwybr danfon	Y llwybr a ddilynir gan berson danfon y Post Brenhinol (boed hynny mewn fan, ar droed neu drwy ddulliau eraill) i ddanfon post.
Pwynt danfon	Y cartref neu'r adeilad, neu fan danfon arall cymeradwy, lle mae'r Post Brenhinol yn danfon post.
D+X	Mae 'D+X' (ee D+1, D+3, D+5) yn nodi cyfanswm nifer y diwrnodau gwaith rhwng y diwrnod yr anfonodd yr anfonwr yr eitem ('D') a'r diwrnod y maen cael ei ddanfon ('X'). Er enghraifft, mae D+1 yn cyfeirio at y senario lle mae cwsmer yn postio llythyr ddydd Llun ac yn cael ei ddosbarthu y diwrnod gwaith nesaf ar ddydd Mawrth, hynny yw ar D+1. Rhaid anfon yr eitem cyn yr amser casglu olaf ac ar ddiwrnod y mae angen ei chasglu er mwyn i D fod y diwrnod yr anfonwyd hi. Pan fydd anfonwr yn anfon eitem ar ddiwrnod pan nad oes angen casglu, pennir mai 'D' yw'r diwrnod nesaf y mae angen casglu.
Mynediad D+2	Mynediad at rwydwaith post y Post Brenhinol mewn canolfan post am i mewn (IMC) at ddibenion cwmni mynediad sy'n darparu gwasanaethau adwerthu sy'n ceisio danfon Llythyrau a Llythyrau Mawr ddau ddiwrnod gwaith (neu'n hwyrach) ar ôl eu casglu gan yr anfonwr, i'w danfon gan y Post Brenhinol y diwrnod gwaith nesaf ar ôl i'r Llythyrau a'r Llythyrau Mawr gael eu trosglwyddo gan y cwmni mynediad yn yr IMC.
Mynediad D+3	Mynediad at rwydwaith post y Post Brenhinol yn yr IMC at ddibenion cwmni mynediad sy'n darparu gwasanaethau adwerthu sy'n amcanu

Term	Diffiniad
	at ddanfon Llythyrau a Llythyrau Mawr o fewn tri diwrnod yn ystod yr wythnos (neu'n hwyrach) ar ôl casglu gan yr anfonwr, i'w danfon gan y Post Brenhinol dim hwyrach na'r ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos ar ôl i'r Llythyrau a'r Llythyrau Mawr gael eu trosglwyddo gan y cwmni mynediad yn yr IMC.
Mynediad D+5	Mynediad at rwydwaith post y Post Brenhinol yn yr IMC at ddibenion cwmni mynediad sy'n darparu gwasanaethau adwerthu sy'n amcanu at ddanfon Llythyrau o fewn pum diwrnod gwaith (neu'n hwyrach) ar ôl eu casglu gan yr anfonwr, i'w danfon gan y Post Brenhinol dim hwyrach na'r pedwerydd diwrnod gwaith ar ôl i'r Llythyrau gael eu trosglwyddo gan y cwmni mynediad yn yr IMC.
Darparwr gwasanaeth cyffredinol dynodedig (DUSP)	Unrhyw gwmni post sy'n cael ei ddynodi am y tro gan Ofcom fel y darparwr gwasanaeth cyffredinol o dan PSA 2011. Y DUSP yw'r Post Brenhinol.
Mynediad i lawr y gadwyn	Mynediad at rwydwaith post y Post Brenhinol mewn pwynt mynediad Canolfan Bost am i Mewn neu ar unrhyw bwynt yn y gadwyn bost ar ôl hynny.
Amod DUSP	Amod Darparwr Gwasanaeth Cyffredinol Dynodedig, y gall Ofcom ei osod ar y darparwr gwasanaeth cyffredinol dynodedig o dan adran 36 y Ddeddf.
EBIT	Enillion Cyn Llog a Threth.
Dosbarth Cyntaf	Gwasanaeth blaenoriaeth yr USO ar gyfer llythyrau a pharseli, sy'n cael ei ddarparu gan y Post Brenhinol, sydd ag amser llwybro o gasglu i ddanfon o un diwrnod gwaith (gwasanaeth D+1).
Canolfan Post am i Mewn (IMC)	Gweithrediadau canolfan bost y Post Brenhinol lle mae'r gweithgareddau'n ymwneud â'r prosesau didoli terfynol i ddanfon post (yn nalgylch y ganolfan bost honno) a dderbynnir o'r rhan ymhellach i fyny ffrwd rhwydwaith y Post Brenhinol, neu gan gwmnïau post eraill, i'r cyfeiriadau terfynol. Mae IMCs hefyd yn gweithredu fel OMCs (Canolfannau Post am Allan) yn y rhan i fyny'r gadwyn yn y rhwydwaith.
Llythyr Mawr	Llythyr yn pwyso hyd at 750g gydag uchafswm hyd o 35.3cm, uchafswm lled o 25cm ac uchafswm trwch o 2.5cm
Llythyrau	Er mwyn bod yn glir, rydym yn defnyddio'r termau llythyrau a pharseli yn y ddogfen hon. Mae'r llythyrau'n cynnwys Llythyrau Mawr, oni nodir yn wahanol.
Mailmark	Mae Mailmark yn opsiwn cynnyrch sy'n cynnwys ychwanegu cod bar ar Lythyrau a Llythyrau Mawr. Mae hyn yn golygu bod Llythyrau a Llythyrau Mawr yn ddarllenadwy gan beiriant ac yn unigryw, sy'n caniatáu olrhain eitemau o fewn rhwydwaith y Post Brenhinol.
Gofynion sylfaenol	Y gwasanaethau a nodir yn adran 31 y Ddeddf y mae'n rhaid eu cynnwys, o leiaf, mewn gwasanaeth post cyffredinol.
Parsel	Oni nodir yn wahanol, mae fel arfer yn cyfeirio at becyn post nad yw'n Llythyr nac yn Lythyr Mawr.

Term	Diffiniad
Gweithredwr post	Diffinnir yn adran 27(3) y Ddeddf fel person sy'n darparu'r gwasanaeth o gludo pecynnau post (diffiniad isod) o un lle i'r llall drwy'r gwasanaeth post, neu unrhyw un o'r gwasanaethau cysylltiedig o ran derbyn, casglu, didoli a danfon pecynnau post.
Rhwydwaith post	Diffinnir yn adran 38(3) y Ddeddf fel y systemau a'r holl adnoddau a ddefnyddir gan y Post Brenhinol er mwyn cydymffurfio â'i rwymedigaethau gwasanaeth cyffredinol (ac, yn unol â hynny, mae'n cynnwys trefniadau a wneir gydag eraill i ddarparu unrhyw wasanaeth).
Pecyn post	Diffinnir yn adran 27(2) y Ddeddf fel llythyr, parsel, pecyn neu eitem arall mae modd ei hanfon drwy'r post.
Targed Ardal Cod Post (PCA)	Targed ar wahân sy'n mynnu bod y Post Brenhinol yn danfon cyfran benodol o bost Dosbarth Cyntaf o fewn un diwrnod gwaith i'w gasglu ym mhob un o'r 118 o'r 121 ardal cod post yn y DU. Nod hyn yw sicrhau bod ardaloedd lleol yn derbyn lefel ddigonol o wasanaeth dros amser.
Targed ansawdd gwasanaeth	Gofyniad (a nodir yn DUSP 1.9.1) sy'n mynnu bod y Post Brenhinol yn cyrraedd safonau ansawdd gwasanaeth a thargedau perfformiad penodol.
Amser llwybro	Amser llwybro yw cyflymder danfon ac mae'n cael ei gyfrifo ar sail diwrnodau gwaith. Mae amseroedd llwybro gwahanol yn berthnasol i'r Post Brenhinol ar gyfer gwahanol wasanaethau.
Y Post Brenhinol	Royal Mail Group Limited, a'i rif cwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr yw 04138203.
Ail Ddosbarth	Gwasanaeth safonol yr USO ar gyfer llythyrau a pharseli, sy'n cael ei ddarparu gan y Post Brenhinol, sydd ag amser llwybro o gasglu i ddanfon o dri diwrnod gwaith (gwasanaeth D+3).
BBaCh	Busnesau bach a chanolig.
Wedi'i ddidoli	Mae'n disgrifio post sydd wedi cael ei ddidoli i ardaloedd daearyddol cyn cael ei gasglu gan y cwmni post. Mae rhai cwmnïau post yn galw'r math hwn o bost yn bost a 'ddidolwyd ymlaen llaw'.
Llythyr busnes safonol	Llythyrau a anfonir drwy bost Ail Ddosbarth gan fusnesau a sefydliadau sy'n defnyddio gwasanaethau post swmp.
Llythyr Safonol	Llythyr yn pwyso hyd at 100g gydag uchafswm hyd o 24cm, uchafswm lled o 16.5cm ac uchafswm trwch o 5mm. Sylwch: Defnyddir 'llythyr' i gyfeirio at lythyrau safonol a mawr oni nodir yn wahanol.
Targed post hwyr	Targedau penodol i sicrhau bod llythyrau Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth sy'n methu'r prif darged yn cyrraedd o fewn amser rhesymol.
Llythyrau heb gyfeiriad	Llythyrau hysbysebu a rhywfaint o bost arall y mae'n rhaid i'r llywodraeth ei anfon, fel post etholiadol.

Term	Diffiniad
Gorchymyn Gwasanaeth Post Cyffredinol	Gorchymyn Gwasanaethau Post (Gwasanaeth Post Cyffredinol) 2012 (fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Gwasanaethau Post (Gwasanaeth Post Cyffredinol) (Diwygiad) 2013).
Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol (USO)	Y gofynion i ddarparu gwasanaethau post sydd wedi'u cynnwys yn amodau'r DUSP a osodwyd ar y Post Brenhinol gan Ofcom o dan adran 36 y Ddeddf.
Amod mynediad darparwr gwasanaeth cyffredinol (Amod USPA)	Amod y caiff Ofcom ei osod o dan adran 38 y Ddeddf sy'n mynnu bod y Post Brenhinol, fel darparwr y gwasanaeth cyffredinol, yn rhoi mynediad i'w rwydwaith post i gwmnïau post eraill neu ddefnyddwyr gwasanaethau post.
I fyny'r gadwyn	Gweithgareddau casglu, didoli am allan (lle bo angen - efallai na fydd angen didoli mwy ar bost sydd wedi'i ddidoli ymlaen llaw) a thryncio.